

EWROP GYFOETHOG EI HIEITHOEDD

TUEDDIADAU MEWN POLISIÄU AC ARFERION
AR GYFER AMLIEITHRWYDD YN EWROP

GOLYGYDDION: Guus Extra a Kutlay Yağmur



Gyda chymorth:



Mae'r prosiect hwn wedi ei ariannu gyda chymorth gan y Comisiwn Ewropeaidd.
Mae'r cyhoeddiad hwn yn adlewyrchu barn yr awdur yn unig, ac ni all y
Comisiwn fod yn gyfrifol am unrhyw ddefnydd a wneir o'r wybodaeth ynddo.

EWROP GYFOETHOG EI HIEITHOEDD

TUEDDIADAU MEWN POLISIÄU AC ARFERION
AR GYFER AMLIEITHRWYDD YN EWROP

GOLYGYDDION: Guus Extra a Kutlay Yağmur



Gyda chymorth:



Lifelong Learning Programme

Mae'r prosiect hwn wedi ei ariannu gyda chymorth gan y Comisiwn Ewropeaidd.
Mae'r cyhoeddiad hwn yn adlewyrchu barn yr awdur yn unig, ac ni all y
Comisiwn fod yn gyfrifol am unrhyw ddefnydd a wneir o'r wybodaeth ynddo.

Cyhoeddwyd gan Cambridge University Press, ar ran y British Council. Tachwedd 2012.

© Language Rich Europe, British Council.

Gallwch gopïo, lwytho i lawr (www.language-rich.eu) neu gynnwys argraffu Ewrop Gyfoethog ei Hieithoedd ar gyfer eich defnydd eich hun a gallwch gynnwys darnau o Ewrop Gyfoethog ei Hieithoedd yn eich dogfennau eich hun, cyflwyniad, blogiau, gwefan a deunyddiau addysgu, ar yr amod bod cydnabyddiaeth addas o gyhoeddiad yr Ewrop Gyfoethog ei Hieithoedd fel ffynhonnell a'r perchennog yr hawlfraint British Council yn cael eu rhoi.

Dylai pob cais am ddefnydd cyhoeddus neu fasnachol a hawliau cyfieithu yn cael ei gyflwyno i info@language-rich.eu.

Mae'r cyfrifoldeb am syniadau neu farn a fynegir yn y cyhoeddiad hwn yn gorwedd gyda'r awduron.

Nid yw'r Comisiwn Ewropeaidd sy'n gyfrifol am hynny syniadau neu farn nac am unrhyw ddefnydd y gellir ei wneud ohonynt.

Argraffwyd a rhwymo yn yr Eidal gan Rotolito Lombarda SpA.

9781107639607

CYNNWYS

CYDNABYDDIAETHAU	2	RHAN 3: PROFFILIAU CENEDLAETHOL A RHANBARTHOL	
CYFLWYNIAD		Cyflwyniad <i>Guus Extra, Martin Hope & Kutlay Yağmur</i>	81
<i>Martin Hope</i>	7	1. Awstria <i>Tanja Nagel, Anke Schad, Barbara Semmler a Michael Wimmer</i>	89
CANFYDDIADAU ALLWEDDOL A THRAFODAETH		2. Bosnia a Herzegovina <i>Jasmin Džindo a Selma Žerić</i>	98
<i>Guus Extra and Kutlay Yağmur</i>	9	3. Bwlgaria <i>Gueorgui Jetchev</i>	104
RHAN 1: TUAG AT DDANGOSYDDION EWROPEAIDD O BOLISIĀU AC ARFERION IAITH		4. Denmarc <i>Sabine Kirchmeier-Andersen</i>	112
<i>Guus Extra and Kutlay Yağmur</i>	15	5. Estonia <i>Kersti Sõstar</i>	119
1.1 Ysgogwyr Ewropeaidd sy'n hyrwyddo amlieithrwydd a lluosieithrwydd.....	16	6. Ffrainc <i>Louis-Jean Calvet</i>	127
1.2 Y fformiwla deirieithog a lluosieithrwydd.....	21	7. Yr Almaen <i>Ingrid Gogolin, Joana Duarte, Patrick Grommes</i>	134
1.3 Yr amrywiadau o ieithoedd a ystyrir yn y prosiect.....	22	8. Gwlad Groeg <i>Sara Hannam ac Evagelia Papathanasiou</i>	139
1.4 Parthau iaith a ystyriwyd yn yr arolwg.....	24	9. Hwngari <i>Csilla Bartha</i>	146
1.5 Casglu data a'r dadansoddiad tair dinas.....	25	10. Yr Eidal <i>Monica Barni</i>	155
1.6 Methodoleg ymchwil.....	28	11. Lithwania <i>Irena Smetonienė a Julija Moskvina</i>	163
RHAN 2: DADANSODDIAD TRAWS-GENEDLAETHOL O GANLYNIADAU EWROP GYFOETHOG EI HIEITHOEDD		12. Yr Iseldiroedd <i>Saskia Benedictus-van den Berg</i>	172
<i>Kutlay Yağmur, Guus Extra and Marlies Swinkels</i>	31	12.1 Yr Iseldiroedd yn ei chyfanrwydd.....	172
2.1 Ieithoedd mewn dogfennau swyddogol a chronfeydd data.....	32	12.2 Fryslân.....	181
2.2 Ieithoedd mewn addysg cyn cynradd.....	37	13. Gwlad Pwyl <i>Liliana Szczuka-Dorna</i>	185
2.3 Ieithoedd mewn addysg gynradd.....	41	14. Portiwgal <i>J. Lachlan Mackenzie</i>	193
2.4 Ieithoedd mewn addysg uwchradd.....	49	15. Rwmania <i>Alexandru Cernat, Anca Nedelcu, Stefan Colibaba, Čalin Rus, Ruxandra Popovici</i>	201
2.5 Safbwyntiau hydredol ar addysg cyn cynradd, addysg gynradd ac addysg uwchradd.....	58	16. Sbaen.....	209
2.6 Ieithoedd mewn addysg bellach ac addysg uwch.....	60	16.1 Sbaen (Madrid, Sevilla, Valencia) <i>Marta Genís</i>	209
2.7 Ieithoedd yn y cyfryngau clyweledol a'r wasg.....	64	16.2 Sbaen (Catalwnia) <i>F. Xavier Vila i Moreno</i>	216
2.8 Ieithoedd mewn gwasanaethau cyhoeddus a manau cyhoeddus.....	68	16.3 Sbaen (Gwlad y Basg) <i>Iván Igartua</i>	224
2.9 Ieithoedd mewn busnes.....	71	17. Y Swistir <i>Raphael Berthele, Bernhard Lindt-Bangerter, Susanne Obermayer</i>	231
2.10 Safbwyntiau trawstoriadol ar y proffiliau amliath a gafwyd y tu hwnt i addysg.....	75	18. Yr Wcráin <i>Lyubov Naydonova</i>	241
Cyfeiriadau yn Rhan 1 a 2.....	76	19. Y Deyrnas Unedig.....	248
Rhestr termau.....	79	19.1 Lloegr <i>Teresa Tinsley a Philip Harding-Esch</i>	248
		19.2 Cymru <i>Hywel Jones</i>	257
		19.3 Yr Alban <i>Teresa Tinsley a Philip Harding-Esch</i>	264
		19.4 Gogledd Iwerddon <i>Teresa Tinsley a Philip Harding-Esch</i>	271

CYDNABYDDIAETHAU

Mae'r British Council yn dymuno diolch i'r personau canlynol a sefydliadau am eu cyfraniadau at y cyhoeddiad.

Tîm cydgysylltu Ewrop Gyfoethog ei Hieithoedd:

Karin Berkhout, Ysgrifennydd Babylon, Prifysgol Tilburg
Guus Extra, Cadeirydd Iaith a Lleiafrifoedd, Prifysgol Tilburg
Martin Hope, Cyfarwyddwr Prosiect Ewrop Gyfoethog ei Hieithoedd, British Council
Christiane Keilig, Cydgysylltydd Cyfathrebu, British Council
Eilidh MacDonald, Cydgysylltydd y Prosiect, British Council
Nadine Ott, Cyn-Uwch Reolwr Prosiect, British Council
Aneta Quraishy, Uwch Reolwr Prosiect, British Council
David Sorrentino, Rheolwr Cyfathrebu, British Council
Marlies Swinkels, yr Adran Astudiaethau Diwylliannol, Prifysgol Tilburg
Kutlay Yagmur, Athro Cyswllt ym maes Amieithrwydd, Prifysgol Tilburg

Aelodau o Grŵp Llywio Ewrop Gyfoethog ei Hieithoedd:

Juan Pedro de Basterrechea, Cyfarwyddwr Codi Arian a Gwerthiannau, Instituto Cervantes
Guus Extra, Cadeirydd Iaith a Lleiafrifoedd, Prifysgol Tilburg
Mário Filipe, Is-lywydd, Instituto Camões
Martin Hope, Cyfarwyddwr Benelux a Swyddfa'r UE, British Council
Thomas Huddleston, Dadansoddwr Polisi, Grŵp Polisi Ymfudwyr
Tony Jones, Uwch Gynghorydd, Arloesedd yn yr Iaith Saesneg, British Council
Elidir King, Cyfarwyddwr, The Languages Company
Ulla-Alexandra Mattl, Cydgysylltydd, EUNIC ym Mrwsel
Xavier North, Cynrychiolydd Cyffredinol Ffrangeg ac ieithoedd Ffrainc
Aneta Quraishy, Uwch Reolwr Prosiect, Ewrop Gyfoethog ei Hieithoedd
Joe Sheils, Cyn-Bennaeth yr Adran Addysg a Pholisi Iaith, Cyngor Ewrop
Wolf von Siebert, Rheolwr Prosiect, Iaith ac Integreiddio, Sefydliad Goethe
Liliana Szczuka-Dorna, Pennaeth yr Adran Ieithoedd Modern, Prifysgol Technoleg Poznan

Consortiwm partneriaid:

Cynhyrchwyd y rhifyn cyntaf hwn o Ewrop Gyfoethog ei Hieithoedd – Tueddiadau mewn polisïau ar gyfer amieithrwydd yn Ewrop diolch i gydweithrediad helaeth a hirdymor ein consortiwm o bartneriaid dibynadwy, yr ydym yn hynod ddiolchgar iddynt am eu hegni a'u hymroddiad:

Awstria: EDUCULT, Denken und Handeln im Kulturbereich

Bosnia a Herzegovina: Prifysgol Sarajevo, y Gyfadran Athroniaeth

Bwlgaria: Prifysgol Sofia, y Gyfadran Ieithoedd Clasurol a Modern

Denmarc: Cyngor Iaith Denmarc

Estonia: Y Ganolfan Arholiadau a Chymwysterau Genedlaethol

Ffrainc: Observatoire Européen du plurilinguisme

Yr Almaen: Prifysgol Hamburg, LIMA – Rheoli Amrywiaeth Ieithyddol mewn Ardaloedd Trefol a Sefydliad Goethe

Gwlad Groeg: Canolfan Ymchwil De-ddwyrain Ewrop

Hwngari: Y Sefydliad Ymchwil i Ieithyddiaeth, Canolfan Ymchwil i Amieithrwydd

Yr Eidal: Università per Stranieri di Siena, LEND

Lithwania: Canolfan Ymchwil Gymdeithasol Lithwania, Sefydliad Ymchwil Llafur a Chymdeithasol, Comisiwn y Wladwriaeth ar Iaith Lithwania

Yr Iseldiroedd: Prifysgol Tilburg – Babylon, Canolfan Astudio'r Gymdeithas Amlddiwylliannol, Fryske Akademy

Gwlad Pwyl: Y Sefydliad Ansawdd mewn Addysg

Portiwgal: ILTEC – Y Sefydliad Ieithyddiaeth Ddamcaniaethol a Chyfrifiannol, Instituto Camões

Rwmania: Centre Education 2000+, Sefydliad EuroEd

Sbaen: Instituto Cervantes, Prifysgol Nebrija, yr Adran Ddiwylliant, Prifysgol Barcelona

Y Swistir: Prifysgol Fribourg, y Sefydliad Amieithrwydd

Yr Wcráin: Y Sefydliad Seicoleg Gymdeithasol a Gwleidyddol

Y Deyrnas Unedig: The Languages Company, Bwrdd yr Iaith Gymraeg a CILT, y Ganolfan Ieithoedd Genedlaethol – CILT (a gynhaliodd yr ymchwil gychwynnol)

Partneriaid Cyswllt

Cyngor Ewrop

Canolfan Ieithoedd Modern Ewrop

Hoffem hefyd ddiolch i'n tîm o gydweithwyr yn y British Council yn y gwledydd canlynol am eu cydweithrediad a'u cymorth gwerthfawr:

Awstria: Martin Gilbert

Gwlad Belg: Julia Kofler, Kirsi Suutarinen

Bosnia a Herzegovina: Samir Avdibegovic ac Alisa Mulalic

Bwlgaria: Tzvetanka Panova

Denmarc: Dorte Friis a Brid Conneely

Estonia: Ursula Roosmaa

Ffrainc: Marianne Garcia

Yr Almaen: Michael Croasdale

Gwlad Groeg: Alison Weedall

Hwngari: Viktoria Vas ac Agota Biro

Yr Eidal: Susan Costantini

Lithwania: Vilma Bačkiūtė

Yr Iseldiroedd: Manon de Ruijter, Aleksandra Parcinska a Canan Marasligil

Gwlad Pwyl: Alicja Dudziak

Portiwgal: Fátima Dias

Rwmania: Ruxandra Popovici

Sbaen: Raquel Fernandez Montes

Sbaen (Catalwnia): Isabella Petith

Y Swistir: Caroline Morrissey a Simon Brimblecombe

Y Wcráin: Irina Sukhinina ac Elena Gorsheniowa

Y DU: Tony Jones

Y DU (Cymru): Simon Ford

Yn olaf, hoffem ddiolch o galon i'r rhwydwaith o arbenigwyr, adolygwyr cymheiriaid ac unigolion a gyfrannodd at broffiliau gwledydd, a rannodd eu gwybodaeth fanwl er mwyn cynhyrchu'r data y mae'r adroddiad drafft hwn yn seiliedig arno. Rhestrir eu henwau isod:

Awstria

Michael Wimmer, EDUCULT

Anke Schad, EDUCULT

Waldemar Martyniuk, Cyngor Ewrop, ECML

Adolygydd Cymheiriaid:

Yr Athro Dieter Halwachs, Prifysgol Graz

Gwlad Belg

Rebecca Marx, Daneg Sefydliad Diwylliannol

Bosnia a Herzegovina

Ivo Komsic, Prifysgol Sarajevo, y Gyfadran Athroniaeth

Jasmin Dzindo, Prifysgol Sarajevo, y Gyfadran Athroniaeth

Adolygydd Cymheiriaid:

Ranko Risojević

Bwlgaria

Gueorgui Jetchev, Prifysgol Sofia

Galina Sokolova, Prifysgol Sofia

Assoc. Yr Athro Maria Stoicheva, Adran Astudiaethau Ewropeaidd, Sofia Prifysgol 'St Kliment Ohridski'

Adolygydd Cymheiriaid:

Assoc Athro Angel Pachev, Adran Cyffredinol a Chymhwysol Ieithyddiaeth, Academi Bwlgareg Gwyddoniaeth

Denmarc

Sabine Kirchmeier-Andersen, Cyngor Iaith Denmarc

Anne Holmen, Ysgol Danish Addysg

Estonia

Kersti Sostar, y Ganolfan Arholiadau

a Chymwysterau Genedlaethol

Adolygydd Cymheiriaid:

Tuuli Oder, Tallinn Prifysgol Canolfan Iaith

Ffrainc

Aelodau o Grŵp Llywio Ffrainc:

Louis Jean Calvet, Prifysgol Provence

Christos Clairis, yr Arsyllfa Ewropeaidd ar gyfer Lluosieithrwydd

Valérie Drake, y Weinyddiaeth Materion Tramor

Claire Extramiana, Cynrychiolwyr cyffredinol Ffrangeg ac ieithoedd Ffrainc

José Carlos Herreras, yr Arsyllfa Ewropeaidd ar gyfer Lluosieithrwydd

Michel Lefranc, y Weinyddiaeth Addysg

François Monnanteuil, y Weinyddiaeth Addysg

Xavier North, Cynrychiolwyr cyffredinol Ffrangeg ac ieithoedd Ffrainc

Christian Tremblay, yr Arsyllfa Ewropeaidd ar gyfer Lluosieithrwydd

Claude Truchot, Prifysgol Strasbwrg

Casglwyr Data:

Claude Bourgeois

Dr Kenza Cherkaoui

Yvonne Touchard

Adolygydd Cymheiriad:

Athro Georges-Daniel Veronique, Prifysgol Provence

Yr Almaen

Joana Duarte, Prifysgol Hambwrg, LIMA

Ingrid Gogolin, Prifysgol Hambwrg, LIMA

Patrick Grommes, Prifysgol Hambwrg, LIMA

Emel Özcep, Prifysgol Hambwrg, LIMA

Uwe Mohr, Sefydliad Goethe

Barbara Thiel, Sefydliad Goethe

Wolf von Siebert, Sefydliad Goethe

Adolygydd Cymheiriad:

Athro Marianne Kruger-Potratz, Westfälische Wilhelms-Universität Münster, Sefydliad Addysgol Gwyddoniaeth

Gwlad Groeg

Dr Sara Hannam, Prifysgol Oxford Brookes

Evangelia Papathanasiou, Canolfan Ymchwil De-ddwyrain Ewrop

Zoi Tatsioka, Canolfan Ymchwil De-ddwyrain Ewrop

Nikos Zaharis, Canolfan Ymchwil De-ddwyrain Ewrop

Adolygydd Cymheiriad:

Yr Athro Angeliki Kiliari, Aristotle Prifysgol Thessaloniki

Hwngari

Csilla Bartha, Academi Gwyddorau Hwngari, y Ganolfan Ymchwil i Amlieithrwydd

Noemi Nagy, Academi Gwyddorau Hwngari, y Ganolfan Ymchwil i Amlieithrwydd

Adolygydd Cymheiriad:

Yr Athro Peter Medgyes, Prifysgol Budapest

Yr Eidal

Monica Barni, Università per Stranieri di Siena

Silvia Minardi, Iend – lingua e nuova didattica

Adolygydd Cymheiriad:

Yr Athro Tullio De Mauro, Prifysgol Rhufain

Lithwania

Boguslavas Gruževskis, Canolfan Ymchwil Gymdeithasol Lithwania

Julija Moskvina, Canolfan Ymchwil Gymdeithasol Lithwania

Irena Smetonienė, Comisiwn y Wladwriaeth ar Iaith Lithwania

Adolygydd Cymheiriad:

Athro Meilutė Ramonienė, Vilnius Prifysgol

Yr Iseldiroedd

Cor van der Meer, Fryske Akademy

Saskia Benediktus, Fryske Akademy

Adolygydd Cymheiriad:

Yr Athro Durk Gorter, Prifysgol Gwlad y Basg, Donosta/San Sebastian

Cyfieithwyr:

Taalbuuro Popkema Groningen (Anne Tjerk Popkema)

Cyfieithydd (Arabeg): Dr Abderrahman el Aissati, Tilburg Prifysgol

Cyfieithydd (Tyrceg): Dr Kutlay Yagmur, Tilburg Prifysgol

Gwlad Pwyl

Dr Liliana Szczuka-Dorna, y Sefydliad ar gyfer
Ansawdd mewn Addysg

Dr Pawel Poszytek, yn ffurfiol y Sefydliad ar gyfer
Ansawdd mewn Addysg

Adolygydd Cymheiriaid:

Yr Athro Wladyslaw Miodunka, Prifysgol Krakow

Portiwgal

Lachlan Mackenzie, ILTEC – Y Sefydliad Ieithyddiaeth
Ddamcaniaethol a Chyfrifiannol

Fabiola Santos, ILTEC – Y Sefydliad Ieithyddiaeth
Ddamcaniaethol a Chyfrifiannol

Lis Gonçaves, ILTEC – Y Sefydliad Ieithyddiaeth
Ddamcaniaethol a Chyfrifiannol

Nuno Carvalho, ILTEC – Y Sefydliad Ieithyddiaeth
Ddamcaniaethol a Chyfrifiannol

Maria Helena Mateus, ILTEC – Y Sefydliad Ieithyddiaeth
Ddamcaniaethol a Chyfrifiannol

Cristina Faustino, Instituto Camões

Adolygydd Cymheiriaid:

Yr Athro Ricardo Salomão, Universidade Aberta
(Y Brifysgol Agored, Portiwgal)

Rwmania

Anca Nedelcu, Centre Education 2000+

Monica Dvorski, Centre Education 2000+

Stefan Colibaba, Sefydliad EuroEd

Anca Colibaba, Sefydliad EuroEd

Monica Vlad, Sefydliad EuroEd

Călin Rus, Sefydliad Rhyngddiwyllynnol Timisoara

Adolygydd Cymheiriaid:

Dr Calin Rus, Rhyngddiwyllynnol Sefydliad Timisoara

Sbaen**Madrid, Sevilla, Valencia:**

Yr Athro Marta Genís, Universidad Nebrija

Adolygydd Cymheiriaid:

Yr Athro José J Gómez Asencio, Prifysgol Salamanca

Cyfieithwyr:

María Ortiz y Carmen Octavio, Universidad Nebrija

Gwlad y Basg:

Iván Igartua, yr Adran Diwylliant y Llywodraeth Gwlad y Basg

Adolygydd Cymheiriaid:

Yr Athro Alberto López Basaguren, Prifysgol Gwlad y Basg

Cyfieithwyr:

Idoia Gillenea, Hitzurun

Catalonia:

Yr Athro Xavier Vila, Prifysgol Barcelona

Adolygydd Cymheiriaid:

Yr Athro Miquel ANGEL Pradilla Cardona, Universitat Rovira I Virgili

Cyfieithydd:

M^a del Mar Vilano

Y Swistir

Yr Athro Raphael Bertele, Prifysgol Fribourg,
Sefydliad o Amlieithrwydd

Yr Athro Bernhard Lindt, Prifysgol Fribourg,
Sefydliad o Amlieithrwydd

Susanne Obermayer, Prifysgol Fribourg,
Sefydliad o Amlieithrwydd

Adolygydd Cymheiriaid:

Yr Athro Georges Lüdi, Prifysgol Sylfaen

Yr Wcráin

Lyubov Naydonova, Y Sefydliad Seicoleg
Gymdeithasol a Gwleidyddol

Dr M Yaroslav Pylinsky, y Sefydliad Kennan, Kyiv Prosiect

Y Deyrnas Unedig

Phillip Harding-Esch, Ieithoedd Cwmni

Dr Elidir King, Ieithoedd Cwmni

Teresa Tinsley, Cyfathrebu Alcantara

Nick Byrne, Canolfan Iaith yn y London School

Economeg a Gwyddoniaeth Gwleidyddol

Adolygydd Cymheiriad:

Yr Athro Mike Kelly, Prifysgol Southampton

Hywel Jones, Comisiynydd y Gymraeg

Meirion Prys Jones, Bwrdd yr Iaith Gymraeg

Adolygydd Cymheiriad:

Wales: Yr Athro Colin Williams, Prifysgol Caerdydd

Hefyd yn flaenorol:

Kathryn Board, CILT Y Ganolfan Genedlaethol ar gyfer Ieithoedd

Youping Han, CILT Y Ganolfan Genedlaethol ar gyfer Ieithoedd

Nick Joujou, CILT Y Ganolfan Genedlaethol ar gyfer Ieithoedd

CYFLWYNIAD

Martin Hope, Cyfarwyddwr Prosiect, Ewrop Gyfoethog ei Hieithoedd

Fel sefydliad cysylltiadau diwylliannol rhyngwladol y DU, mae'r British Council yn ymrwymedig i feithrin cydberthnasau hirdymor ac ymddiriedaeth rhwng pobl yn y DU a gwledydd eraill. Mae Ewrop Gyfoethog ei Hieithoedd (LRE), sef prosiect rydym yn ei gyflawni gyda Sefydliadau Diwylliant Cenedlaethol yr Undeb Ewropeaidd (EUNIC) a rhwydwaith o bartneriaid ymrwymedig yn Ewrop, wrth wraidd ein cenhadaeth i hybu cysylltiadau diwylliannol. Drwy Ewrop Gyfoethog ei Hieithoedd, anelwn at hyrwyddo cydweithrediad gwell rhwng y rhai sy'n llunio polisiau ac ymarferwyr yn Ewrop wrth ddatblygu polisiau ac arferion da ar gyfer amlieithrwydd. Bydd polisiau o'r fath yn sicrhau bod ieithoedd a chyfnawid diwylliannol yn parhau i gael eu hyrwyddo a'u hannog yn yr ysgol, y brifysgol ac yn y gymdeithas ehangach. Credwn fod hyn yn hanfodol os yw Ewropeaid o bob oedran am ddatblygu agweddau rhyngwladol ehangach, ac os yw Ewrop yn ei chyfarwydd am roi ei hun mewn sefyllfa dda i fasnachu â phwerau economaidd y byd sy'n dod i'r amlwg yn yr 21ain ganrif.

Ers iddo gael ei sefydlu yn 1934, mae'r British Council wedi helpu dysgwyr Saesneg ledled y byd i gyfathrebu'n fwy effeithiol â phobl o wledydd eraill a gwella eu rhagolygon cyflogaeth drwy gyrsiau wyneb yn wyneb, ac yn fwy diweddar, ar y we. Rydym hefyd yn gweithio mewn partneriaeth â gweinidogaethau ac awdurdodau addysg rhanbarthol i gefnogi athrawon Saesneg yn eu datblygiad proffesiynol. Yr hyn nad yw'n hysbys yn gyffredinol yw'r cymorth mawr a roddwn i wella'r gwaith o ddysgu ieithoedd tramor yn y DU, drwy ein rhaglen Cynorthwyr Iaith Dramor, drwy ddatblygu gwerslyfrau iaith dramor i ysgolion yn y DU, a thrwy hwyluso partneriaethau ysgol ag athrawon a myfyrwyr mewn gwledydd eraill. Yn 2012 rydym yn cynnal ac yn rhoi llety i dros 2,500 o gynorthwyr iaith yn y DU o wledydd sy'n siarad Ffrangeg, Almaeneg a Sbaeneg ac o'r Eidal, Tsieina, Japan, Oman a Rwsia. Mae'r cynorthwyr hyn yn cefnogi ein hathrawon iaith dramor mewn ysgolion cynradd ac uwchradd ac yn helpu i gyfoethogi cynnwys diwylliannol ein hystafelloedd dosbarth yn y DU.

Mae Ewrop Gyfoethog ei Hieithoedd yn rhan o'n hymrwymiad fel sefydliad i gefnogi trafod rhyngddiwylliannol ac amrywiaeth yn Ewrop, amrywiaeth sydd i'w weld yn y nifer helaeth o ieithoedd a'u cyfoeth o'n cwmpas, lle bynnag rydym yn byw. Rydym yn dathlu'r gwaith o gwblhau cam cyntaf y prosiect gyda'r cyhoeddiad hwn, sy'n gyfle i ni gyflwyno canfyddiadau ymchwil llinell sylfaen i ymchwilio i bolisiau ac arferion iaith presennol yn ein gwledydd partner, a gweld pa mor 'gyfoethog eu hieithoedd' ydynt. Yn yr ymchwil hon, rydym wedi bod yn uchelgeisiol wrth archwilio amrywiaeth o fathau o iaith: ieithoedd tramor, ieithoedd rhanbarthol neu leiafrifol, ieithoedd mewnfydwyr ac ieithoedd cenedlaethol. O ran yr un olaf, rydym yn ystyried yn arbennig sut mae ein sefydliadau'n cefnogi'r gwaith o ddysgu'r iaith genedlaethol i newydd-ddyfodiad, sydd mor bwysig ar gyfer addysg a chyflogaeth.

Mae ein hymchwil wedi canolbwyntio wrth gwrs ar y sector addysg, lle y caiff ieithoedd eu haddysgu a'u dysgu fel arfer, ond rydym hefyd wedi bod yn awyddus i fynd y tu hwnt i addysg ac archwilio polisiau ac arferion iaith yn y cyfryngau, gwasanaethau a mannau

cyhoeddus, a busnes. Credwn fod amgylchedd cyfoethog ei iaith y tu allan i'r ysgol yr un mor bwysig i feithrin gwerthfawrogiad a gwybodaeth am ieithoedd a diwyllianau eraill ag addysg ffurfiol ei hun. Gall polisiau iaith da wneud dinasoedd yn fwy croesawgar i ymwelwyr a dinasyddion, gall arferion iaith da mewn busnes roi mantais gystadleuol i gwmmiau, a bydd amrywiaeth o ieithoedd ar y teledu a'r radio yn creu mwy o oddefgarwch a natur agored mewn unrhyw gymdeithas.

Mae amcanion cyffredinol *Ewrop Gyfoethog ei Hieithoedd*, a riennir ar y cyd gan y Comisiwn Ewropeaidd, fel a ganlyn:

- hwyluso'r broses o gyfnawid arfer da ym maes hyrwyddo trafod rhyngddiwylliannol a chynhwysiant cymdeithasol drwy addysgu a dysgu ieithoedd
- hyrwyddo cydweithrediad Ewropeaidd wrth ddatblygu polisiau ac arferion iaith mewn sawl sector addysg ac yn y gymdeithas ehangach
- codi ymwybyddiaeth o argymhellion yr UE a Chyngor Ewrop ar gyfer hyrwyddo dysgu ieithoedd ac amrywiaeth ieithyddol ledled Ewrop.

Mae'r cam cyntaf o'r ymchwil, a nodir yn y llyfr hwn, yn cynnig llwyfan i greu rhwydweithiau a phartneriaethau ymhlith llunwyr polisiau iaith ac ymarferwyr yn Ewrop. Ein nod yw creu rhwydwaith o 1,200 o bobl o'r gymuned cyn ysgol, y sector addysg ffurfiol, prifysgolion a cholegau, y byd busnes, gwasanaethau cyhoeddus mewn dinasoedd, y cyfryngau, a sefydliadau mewnfydwyr. Credwn mai dim ond os bydd y grwpiau hyn yn gweithio gyda'i gilydd y byddwn yn creu cymdeithasau gwir gyfoethog eu hieithoedd lle rydym yn deall pwysigrwydd ieithoedd er cydlyniant a lles ein cymunedau a'n cymdeithasau, a hefyd er ein ffyniant.

Er y bydd angen, wrth gwrs, i ni fireinio canfyddiadau ein hastudiaeth, yn ogystal â'r fframwaith a ddefnyddiwyd gennym i ymchwilio i bolisiau ac arferion iaith yn Ewrop, rydym yn awyddus i gynnal ymgynghoriad arnynt a'u rhannu â rhanddeiliaid er mwyn ysgogi deialog a thrafodaeth. Bydd canfyddiadau Ewrop gyfan ar gael mewn cyhoeddiad mewn 23 o ieithoedd ar ddiwedd 2012.

Ni fyddai'r gwaith a wnaed gennym hyd yma wedi bod yn bosibl heb ein consortiwm o bartneriaid ac ymchwilyr, yr hoffwn ddiolch iddynt am eu hymrwymiad a'u hamynedd. Mae angen canmol yn arbennig Guus Extra, Kutlay Yagmur a Marlies Swinkels, gyda chefnoogaeth Karin Berkhout, yng *Nghanolfan Babylon ar gyfer Astudio'r Gymdeithas Amlddiwylliannol*, ym Mhrifysgol Tilburg, am gyflawni'r dasg enfawr o ddylunio'r astudiaeth, dod â'r holl ddata ynghyd, a chyflwyno'r canfyddiadau yn y cyhoeddiad hwn.

Gobeithio y bydd y canfyddiadau ymchwil cychwynnol hyn o ddi-ddordeb i chi, a'u bod yn cyfrannu at y drafodaeth am ddefnyddioldeb ieithoedd yn eich gwlad. Yn sicr, mae gennym Ewrop gyfoethog ei hieithoedd, a'r her sy'n ein hwynebu yw sut i wneud y gorau ohoni er budd pawb.



Cyngor Ewrop

Mae prosiect Ewrop Gyfoethog ei Hieithoedd wedi dewis defnyddio canlyniadau gwaith hirsefydledig ac eang Cyngor Ewrop ym maes polisi iaith yn ei 47 o aelod-wladwriaethau. Yn unol â hynny, derbyniodd y Cyngor wahoddiad gan arweinwyr y prosiect, sef y British Council, mewn partneriaeth ag EUNIC, i gyfrannu at y gwaith datblygu a threalu cychwynnol, yn arbennig o ran defnyddio ei offerynnau polisi.

Mae Cyngor Ewrop yn darparu fforwm ledled Ewrop i rannu arbenigedd a phrofiad yn seiliedig ar werthoedd cyffredin a pharch tuag at gyd-destunau amrywiol. Yn yr ysbryd hwnnw mae'n cefnogi amcanion cyffredinol y prosiect hwn: cyfnewid arfer da wrth hyrwyddo trafod rhyngddiwyllyannol a chynhwysiant cymdeithasol, hyrwyddo cydweithrediad Ewropeaidd wrth ddatblygu polisiau ac arferion iaith a chodi ymwybyddiaeth o werthoedd Ewropeaidd ac egwyddorion arweiniol. Nod Cyngor Ewrop yw defnyddio canlyniadau prosiect Ewrop Gyfoethog ei Hieithoedd i ystyried sut y gall effaith ei offerynnau polisi a'i weithredoedd gael ei hatgyfnerthu orau wrth hyrwyddo amrywiaeth ieithyddol ac addysg luosieithol a rhyngddiwyllyannol.

Hoffai Cyngor Ewrop ddiolch i'r awduron ac arweinwyr y prosiect am eu gwaith ac mae'n gwerthfawrogi'r her sylweddol a wynebwyd gan y prosiect wrth geisio mapio gwaith cymhleth iawn a'i gyflwyno mewn dros 20 o gyd-destunau gwahanol. Disgwylir i'r ymgynghoriad ar y fersiwn drafft hwn ddarparu adborth hanfodol ar gyfer y cam mireinio nesaf.

Er bod Cyngor Ewrop wedi cynnig arweiniad ar ei bolisi a chmau cysylltiedig, ni all dderbyn cyfrifoldeb am gynnwys yr adroddiad presennol na dogfennau cysylltiedig, boed mewn print neu ar ffurf electronig, sy'n gyfrifoldeb yr awduron yn unig.

Cyfeirir darllenwyr at wefan Cyngor Ewrop am wybodaeth lawn a chyfredol am ei gonfensiynau, argymhellion, offerynnau, a gweithgareddau cydweithredu rhynglywodraethol.

Uned Polisi Iaith

www.coe.int/lang

Llwyfan adnoddau a chyfeiriadau ar gyfer addysg luosieithol a rhyngddiwyllyannol

Canolfan Ieithoedd Modern Ewrop

www.ecml.at

Canfyddiadau allweddol a thrafodaeth

Guus Extra and Kutlay Yağmur

Er gwaethaf yr heriau sy'n gysylltiedig â chymharu polisiau ac arferion ar gyfer amlieithrwydd/lluosieithrwydd mewn gwahanol gyd-destunau cenedlaethol neu ranbarthol, mae'r data cymharol a gyflwynir yn yr astudiaeth hon yn rhoi dealltwriaeth dda o'r cyd-destun rhyngwladol. Gan ddiystyru'r *graddau y caiff amlieithrwydd/lluosieithrwydd eu cydnabod*, ceir polisiau ac arferion amlieithrwydd/lluosieithrwydd ym mhob un o'r 24 o wledydd/rhanbarthau a arolygwyd, gyda llawer o argymhellion yr UE a Chyngor Ewrop yn cael eu rhoi ar waith. Ar sail y canfyddiadau cymharol o wledydd a gyflwynir yma, a'r manylion cyd-destunol a ddarparwyd gan ein hymchwilyr yn y proffiliau cenedlaethol/rhanbarthol yn Rhan 3 o'r astudiaeth hon, gobeithiwn y bydd llunwyr polisi, ymarferwyr ac arbenigwyr sy'n gweithio yn y maes yn gallu nodi arfer da a all gael ei ddefnyddio maes o law fel sail i ddatblygu a chyfnewid gwybodaeth. Isod ceir crynodeb o'r canfyddiadau allweddol ar gyfer pob un o'r parthau iaith yn yr arolwg.

leithoedd mewn dogfennau swyddogol a chronfeydd data

- Ceir deddfwriaeth sy'n ymwneud ag ieithoedd cenedlaethol a rhanbarthol/lleiafrifol ym mhob gwlad/rhanbarth fwy neu lai, a deddfwriaeth sy'n ymwneud ag ieithoedd tramor mewn 14 o wledydd/rhanbarthau. Dim ond mewn chwe gwlad/rhanbarth y ceir deddfwriaeth sy'n ymwneud ag ieithoedd mewn-fudwyr.
- Mae dogfennau polisi iaith swyddogol ar hyrwyddo ieithoedd cenedlaethol a thramor ar gael ym mhob gwlad/rhanbarth fwy neu lai, fe'u ceir ar ieithoedd rhanbarthol/lleiafrifol mewn 18 o wledydd/rhanbarthau, a dim ond mewn pedair gwlad/rhanbarth y'u ceir ar ieithoedd mewn-fudwyr.
- Mae'r *Siarter Ewropeaidd ar gyfer Ieithoedd Rhanbarthol neu Ieithoedd Lleiafrifol* wedi cael ei chadarnhau gan y Senedd yn 11 o'r 18 o wledydd a arolygwyd, ac mae wedi'i llofnodi gan Lywodraethau Ffrainc a'r Eidal. Ym Mwlgaria, Estonia, Gwlad Groeg, Lithwania a Phortiwgal, nid yw wedi cael ei chadarnhau na'i llofnodi.
- Gwelir bod y nifer fwyaf o ieithoedd rhanbarthol/lleiafrifol a gynnigir yn swyddogol ym maes addysg yn Ne-ddwyrain a Chanol Ewrop. Yng Ngorllewin Ewrop, yr Eidal a Ffrainc yw'r eithriadau amlycaf i'r rheol gyffredinol hon, gan eu bod yn cynnig amrywiaeth eang o ieithoedd. Nid yw'r cysyniadau o ieithoedd 'rhanbarthol' neu ieithoedd 'lleiafrifol' yn cael eu nodi yn y Siarter ond caiff ieithoedd mewn-fudwyr eu heithrio'n benodol. Yng ngwledydd Gorllewin Ewrop, mae ieithoedd mewn-fudwyr yn fwy amlwg nag ieithoedd rhanbarthol/lleiafrifol yn aml ond cânt eu cydnabod, eu diogelu a/neu eu hyrwyddo i raddau llai.
- Mae'r rhan fwyaf o wledydd/rhanbarthau yn gyfarwydd â dulliau swyddogol o gasglu data ar iaith ac mae'r rhan fwyaf ohonynt yn mynd i'r afael â thri math o iaith: ieithoedd cenedlaethol, ieithoedd rhanbarthol/lleiafrifol ac ieithoedd mewn-fudwyr. Nid oes gan bump o'r 24 o wledydd/rhanbarthau unrhyw fath o ddull o gasglu data ar iaith: Awstria, Bosnia a Herzegovina, Denmarc, Gwlad Groeg a'r Iseldiroedd. Dim ond casglu data ar yr iaith genedlaethol a wna Portiwgal.
- Mae amrywiad hefyd o ran y prif gwestiwn/gwestiynau ar iaith a ofynnir mewn dulliau swyddogol o gasglu data cenedlaethol/rhanbarthol ar iaith. Mae dros hanner y gwledydd/rhanbarthau a arolygwyd yn gofyn cwestiwn am iaith yr aelwyd, tra bod eraill yn gofyn am y brif iaith a/neu'r famiaith.

leithoedd mewn addysg cyn cynradd

- Mae llawer o ddogfennau'r UE a Chyngor Ewrop yn tanlinellu pwysigrwydd dysgu ieithoedd yn gynnar. Ar lefel cyn cynradd, mae 14 o'r 24 o wledydd/rhanbarthau a arolygwyd yn rhoi cymorth ychwanegol yn yr iaith genedlaethol i bob plentyn, wedi'i ariannu gan y wladwriaeth. Yr Iseldiroedd a'r Wcráin sy'n neilltuo'r mwyaf o amser i wneud hyn.
- Cynigir darpariaeth mewn ieithoedd tramor ar y lefel hon gan saith gwlad/rhanbarth: Bosnia a Herzegovina, Gwlad y Basg, Bwlgaria, Catalwnia, Estonia, Sbaen a'r Wcráin, er y gall y ddarpariaeth hon gael ei hariannu'n rhannol neu'n gyfan gwbl gan rieni/gwarcheidwaid. Saesneg, Ffrangeg ac Almaeneg yw'r ieithoedd mwyaf cyffredin a gynnigir.
- Caiff ieithoedd rhanbarthol/lleiafrifol eu cynnig gan 17 o wledydd/rhanbarthau, ac fe'u hariennir yn bennaf gan y wladwriaeth/rhanbarth. Mewn rhai gwledydd mae gofynion o ran isafswm maint ar gyfer ffurfio grŵp. Cynnigir yr amrywiaeth ehangaf o ieithoedd rhanbarthol/lleiafrifol yn Awstria, Hwngari, yr Eidal, Rwmania a'r Wcráin.
- Nid yw darpariaeth mewn ieithoedd mewn-fudwyr mewn addysg cyn cynradd yn gyffredin iawn eto. Fodd bynnag, er gwaethaf yr anawsterau sydd ynghlwm wrth nodi athrawon a deunydd dysgu priodol, mae tair gwlad (Denmarc, Sbaen a'r Swistir) yn cynnig cymorth i blant bach iawn at ddiben cynnal a datblygu eu ieithoedd a diwyllianau eu mamwlad. Yn Nenmarc, mae cronfeydd cenedlaethol, rhanbarthol a lleol yn talu'r holl gostau ar gyfer y rhaglenni hyn, ond yn Sbaen a'r Swistir mae cronfeydd sy'n gysylltiedig â'r gwledydd tarddiad yn talu rhywfaint o'r costau drwy gytundebau dwyochrog.
- Sbaen yw'r unig wlad sy'n cynnig darpariaeth ar gyfer dysgu pob math o iaith yn gynnar.

leithoedd mewn addysg gynradd

- Yn ôl yr UE a Chyngor Ewrop, dylai pob plentyn ifanc yn Ewrop ddysgu dwy iaith yn ogystal ag iaith/ieithoedd cenedlaethol y wlad y maent yn byw ynnddi. Mewn addysg gynradd, ar wahân i'r Eidal a'r Wcráin, mae pob gwlad/rhanbarth yn cynnig cymorth ychwanegol i newydd-ddyfodiaid ddysgu'r iaith genedlaethol.
- Ar wahân i Gymru, dywed pob gwlad/rhanbarth fod darpariaeth ar gael mewn ieithoedd tramor ar lefel gynradd. Mae'n rhaid dysgu dwy iaith dramor yn Nenmarc a Gwlad Groeg, tra bod dysgu un iaith dramor yn orfodol mewn 18 o wledydd/rhanbarthau. Yn Lloegr, Gogledd Iwerddon a'r Alban, mae ieithoedd tramor yn ddewisol.
- Caiff ieithoedd tramor eu haddysgu o'r flwyddyn gyntaf yn yr ysgol gynradd mewn 12 o'r gwledydd a arolygwyd, o'r cyfnod canol mewn saith, a dim ond o'r cyfnod olaf yn yr Iseldiroedd, yr Alban a'r Swistir.
- Saesneg, Ffrangeg ac Almaeneg yw'r ieithoedd tramor a addysgir fwyaf. Mewn sawl achos, un o'r ieithoedd hyn yw'r pwnc gorfodol i'w astudio gan bob disgybl. Mae Eidaleg, Rwseg a Sbaeneg yn ieithoedd eraill a gynigir naill ai fel ieithoedd tramor gorfodol neu ddewisol.
- Dim ond yn Sbaen y caiff *Dysgu Integredig Cynnwys ac Iaith* (CLIL) ei ddefnyddio'n eang ar gyfer ieithoedd tramor. Tra y caiff y dull gweithredu hwn ei ddefnyddio mewn 13 o wledydd/rhanbarthau eraill, nid yw hynny'n digwydd yn systemataidd.
- Dywed saith o'r gwledydd/rhanbarthau eu bod yn defnyddio'r *Fframwaith Cyfeirio Ewropeaidd Cyffredin* (CEFR) yn benodol i ddysgu ieithoedd tramor, er y gall mwy seilio eu safonau cenedlaethol/rhanbarthol ar ei egwyddorion a'i ddulliau gweithredu. A1/A2 yw'r targed CEFR ar gyfer y grŵp oedran hwn o ran dysgu ieithoedd tramor.
- Ar wahân i Ddenmarc ac Estonia, cynigir ieithoedd rhanbarthol/lleiafrifol mewn 22 o wledydd/rhanbarthau. Mae dosbarthiadau ieithoedd rhanbarthol/lleiafrifol a gwersi mewn pynciau eraill a addysgir mewn ieithoedd rhanbarthol/lleiafrifol ar gael i bob disgybl waeth beth fo'i gefndir ieithyddol mewn 20 o wledydd/rhanbarthau, er mai dim ond targedu siaradwyr brodorol yr ieithoedd hyn a wna Bwlgaria a Gwlad Groeg. Ceir arlwy gyfoethog mewn nifer o wledydd/rhanbarthau, gydag Awstria, Bwlgaria, Hwngari, yr Eidal, Lithwania, Rwmania a'r Wcráin yn cynnig pedair neu fwy o ieithoedd rhanbarthol/lleiafrifol naill ai fel pynciau neu yn y rhan fwyaf o achosion fel cyfrwng addysgu. Dywed 12 o wledydd/rhanbarthau eu bod yn defnyddio CLIL yn eang, gyda chwech arall yn nodi hynny mewn rhai ardaloedd.
- Dim ond pum gwlad/rhanbarth sy'n nodi eu bod yn cynnig ieithoedd mewnfwfudwyr ar lefel gynradd sef Awstria, Denmarc, Ffrainc, Sbaen a'r Swistir (yng nghanton Zürich). Yn Ffrainc a'r Swistir, mae dosbarthiadau ieithoedd mewnfwfudwyr ar gael i bob disgybl, ond yn Awstria, Denmarc a Sbaen dim ond i siaradwyr brodorol ieithoedd mewnfwfudwyr y'u cynigir. Mae Sbaen a'r Swistir yn cynnig gwersi yn rhannol yn ystod oriau ysgol, ond yn y gwledydd eraill fe'u cynigir fel gweithgareddau allgyrsiol. Nid yw cyflawniad mewn ieithoedd mewnfwfudwyr yn gysylltiedig ag unrhyw safonau cenedlaethol, rhanbarthol na lefel ysgol, er bod datblygiad sgiliau iaith yn cael ei fonitro ym mhob gwlad. Caiff gwersi mewn ieithoedd mewnfwfudwyr eu hariannu'n llawn gan y wladwriaeth yn Awstria a Denmarc, tra yn Ffrainc, Sbaen a'r Swistir fe'u cefnogir gan y gwledydd tarddiad yn bennaf.
- Mewn addysg gynradd, caiff athrawon iaith cymwys eu cyflogi i addysgu ieithoedd fel a ganlyn yn y gwledydd/rhanbarthau a arolygwyd: 16 o blith 24 yn yr iaith genedlaethol, 17 o blith 22 mewn ieithoedd rhanbarthol/lleiafrifol, 14 o blith 23 mewn ieithoedd tramor, a dwy o blith pump mewn ieithoedd mewnfwfudwyr. Yn Awstria, Lloegr, Ffrainc, yr Eidal, yr Iseldiroedd, Gogledd Iwerddon, yr Alban a'r Swistir, caiff ieithoedd tramor eu haddysgu gan athrawon dosbarth â chymwysterau cyffredinol. Darperir hyfforddiant cyn swydd a hyfforddiant mewn swydd yn eang yn y rhan fwyaf o wledydd/rhanbarthau, ar wahân i ddarpariaeth ar gyfer ieithoedd mewnfwfudwyr.
- Maes amlwg i'w ddatblygu o ran addysgu ieithoedd tramor yw symudedd athrawon: dywed naw gwlad/rhanbarth o blith 24 na chânt unrhyw gymorth yn y maes hwn, a dim ond Catalwnia a'r Swistir sy'n nodi bod ganddynt raglenni symudedd athrawon strwythuredig. Dylid gwneud mwy i ysgogi athrawon ieithoedd i dreulio mwy o amser yng ngwlad yr iaith y maent yn ei haddysgu er mwyn caffael cymwyseddau ieithyddol a diwylliannol uwch.
- Mae nifer o wledydd/rhanbarthau yn cymryd camau i gynyddu nifer yr athrawon iaith. Mae Gwlad y Basg, Denmarc, Estonia a'r Swistir yn recriwtio athrawon ar gyfer yr iaith genedlaethol. Mae Bwlgaria, Denmarc, Lloegr, Fryslân, Hwngari, Lithwania a'r Wcráin yn recriwtio athrawon ieithoedd tramor ychwanegol. Mae Gwlad y Basg, Bosnia a Herzegovina, Denmarc, Gogledd Iwerddon, yr Alban, Sbaen a'r Wcráin yn recriwtio athrawon ieithoedd rhanbarthol ac ieithoedd lleiafrifol. Nid yw'r un o'r gwledydd/rhanbarthau a arolygwyd wrthi'n recriwtio athrawon ieithoedd mewnfwfudwyr.

leithoedd mewn addysg uwchradd

- Rhoddir cymorth ychwanegol yn yr iaith genedlaethol i newydd-ddyfodiaid naill ai cyn neu yn ystod addysg brif ffrwd mewn 21 o wledydd/rhanbarthau, ond nid oes unrhyw ddarpariaeth yn Nenmarc, yr Eidal na'r Wcráin.
- Fel y disgwylir, mae pob gwlad/rhanbarth a arolygwyd yn cynnig ieithoedd tramor ar lefel uwchradd is a lefel uwchradd uwch. Fodd bynnag, mae gwahaniaethau sylweddol o ran nifer yr ieithoedd gorfodol a gynigir, yr amrywiaeth o ieithoedd, y broses o fonitro sgiliau iaith, y defnydd o CLIL, a'r graddau y defnyddir CEFR i werthuso'r lefel a gyflawnwyd.
- Yr unig wledydd/rhanbarthau lle mae dwy iaith yn orfodol ar lefel uwchradd is a lefel uwchradd uwch yw Awstria, Estonia, Ffrainc, Gwlad Pwyl, Portiwgal, Rwmania a'r Swistir.
- Fel y disgwylir, mae targedau cyrhaeddiad sy'n gyson â'r CEFR ar gyfer ieithoedd tramor yn fwy sefydledig o lawer mewn ysgolion uwchradd o gymharu ag ysgolion cynradd yn y gwledydd/rhanbarthau a gymerodd ran, gyda 13 yn nodi'n glir lefel y mae angen ei chyrraedd. Ymddengys mai B2 yw'r lefel y cytunir arni'n gyffredinol ar gyfer hyfedredd yn yr iaith dramor gyntaf, gyda B1 ar gyfer yr ail iaith.
- Mae 19 o wledydd/rhanbarthau yn cynnig ieithoedd rhanbarthol/lleiafrifol ar lefel addysg uwchradd. Y gwledydd/rhanbarthau nad ydynt yn cynnig addysg mewn ieithoedd rhanbarthol/lleiafrifol yw Denmarc, Lloegr, Estonia, Gwlad Groeg a Gwlad Pwyl.

- Mae 18 o wledydd/rhanbarthau yn monitro'r sgiliau iaith a gaffaelir naill ai drwy brofion cenedlaethol/rhanbarthol neu brofion ysgol. Ni cheir unrhyw weithgarwch monitro yn yr Eidal. Nid yw Awstria na Chymru yn pennu unrhyw dargedau ar gyfer y safon y mae angen ei chyflawni, yn wahanol i bob gwlad/rhanbarth arall. Mae pob gwlad/rhanbarth yn cynnig yr ieithoedd yn rhad ac am ddim i bob disgybl.
- Prin yw'r gwledydd/rhanbarthau lle cynigir darpariaeth mewn ieithoedd mewnudwyr yn systematig (tair ar lefel cyn oedran cynradd a phump ar lefel gynradd) ac, ar lefel uwchradd, cafwyd ymateb cadarnhaol gan wyth gwlad/rhanbarth o blith 24 sef Awstria, Denmarc, Lloegr, Estonia, Ffrainc, yr Iseldiroedd, yr Alban a'r Swistir.
- Caiff ieithoedd mewnudwyr eu hariannu'n llawn gan y wladwriaeth yn Awstria, Denmarc, Lloegr, yr Iseldiroedd a'r Alban. Gwledydd genedigol disgyblion sy'n fewnudwyr sy'n ariannu'r ddarpariaeth yn Ffrainc a'r Swistir a rhieni sy'n talu yn Estonia. Yr unig wledydd/rhanbarthau sy'n cynnig ieithoedd mewnudwyr ar lefel gynradd ac uwchradd yw Awstria, Denmarc, Ffrainc a'r Swistir.
- Yr ieithoedd tramor a gynigir fel arfer yw Saesneg, Almaeneg a Ffrangeg, ond cynigir ieithoedd Ewropeaidd eraill fel Sbaeneg ac Eidaleg hefyd. Cynigir rhai ieithoedd mewnudwyr fel Arabeg, Croateg, Pwyleg, Rwseg a Thyrcceg fel ieithoedd tramor dewisol, ac mae gan Arabeg a Thyrcceg statws cadarn fel pynciau arholi mewn ysgolion uwchradd yn Ffrainc a'r Iseldiroedd. Caiff yr iaith Rwseg ei chynnig yn eang yng ngwledydd Dwyrafn Ewrop naill ai fel iaith ranbarthol/leiafrifol neu fel iaith dramor.
- Fel y gwelir ym maes addysg gynradd, defnyddir CLIL yn eang i addysgu ieithoedd rhanbarthol/leiafrifol, ond i raddau llawer llai i addysgu ieithoedd tramor. Dim ond Ffrainc sy'n nodi bod defnydd eang yn cael ei wneud ohono, gyda 14 o wledydd/rhanbarthau eraill yn nodi enghreifftiau lleol.
- Mae athrawon ieithoedd tramor yn gymwysedig, a dim ond yn Estonia a Gogledd Iwerddon y caiff ieithoedd tramor eu haddysgu gan athrawon dosbarth cyffredinol.
- Ceir ychydig mwy o gymorth strwythuredig ar gyfer symudedd ar lefel uwchradd o gymharu â lefel gynradd, gydag Awstria a Chatalwnia yn nodi bod athrawon yn treulio tymor dramor fel rhan o'u datblygiad cyn swydd neu eu datblygiad mewn swydd. Mae 17 o wledydd/rhanbarthau eraill yn annog ac yn cefnogi symudedd athrawon yn ariannol. Estonia, Ffrainc, yr Eidal, Portiwgal a Rwmania yw'r gwledydd lle mae athrawon yn llai tebygol o dreulio amser yng ngwlad yr iaith darged.
- Yn unol ag argymhellion yr UE a Chyngor Ewrop, mae'n ofynnol i athrawon ieithoedd tramor yn y rhan fwyaf o wledydd gyrraedd lefel hyfedredd benodol yn yr iaith dramor a chaiff hyn ei fesur yn erbyn lefelau'r CEFR mewn wyth o wledydd/rhanbarthau. Ymddengys mai C1 yw'r lefel ofynnol fwyaf cyffredin, er bod B2 yn cael ei hystyried yn briodol yng Ngwlad y Basg.
- Mae prinder athrawon ieithoedd mewn rhai gwledydd/rhanbarthau, ac mae mesurau arbennig yn cael eu cymryd i recriwtio gweithwyr proffesiynol â chymwysterau priodol ac annog pobl i gymhwyso fel athrawon ieithoedd. Y gwledydd/rhanbarthau mwyaf gweithgar o ran recriwtio athrawon yw'r Alban, Gwlad y Basg, Lloegr, Rwmania a'r Swistir. Mae pob un ohonynt yn recriwtio athrawon mewn o leiaf dri o'r pedwar categori iaith.

leithoedd mewn addysg bellach ac addysg uwch

- Cafodd data newydd/sylfaenol ei gasglu'n uniongyrchol o'r 69 o ganolfannau *Addysg a Hyfforddiant Galwedigaethol* (AHG) mwyaf yn y 67 o ddinasoedd a gymerodd ran: mae'r iaith genedlaethol yn cael cryn dipyn o gefnogaeth, gyda 30 o blith y 69 o sefydliadau AHG a arolygwyd yn cynnig ystod eang o raglenni cymorth yn yr iaith genedlaethol, yn amrywio o gyfathrebu sylfaenol i sgiliau datblygedig. Mae 24 o sefydliadau yn cynnig amrywiaeth cyfyngedig o raglenni, ac nid yw 15 o'r sefydliadau a arolygwyd yn cynnig unrhyw gymorth o gwbl.
- Mae 62 o'r 69 o sefydliadau AHG a arolygwyd yn cynnig ieithoedd tramor, gyda 15 yn nodi bod mwy na phedair iaith yn cael eu haddysgu, 22 yn cynnig tair neu bedair iaith a 25 yn cynnig un neu ddwy iaith. Mae 41 o sefydliadau'n cynnig ystod eang o raglenni, o sgiliau iaith sylfaenol i sgiliau iaith datblygedig, tra bod 18 yn cynnig sgiliau iaith sylfaenol yn unig. Mae 26 o sefydliadau'n cysoni eu rhaglenni â'r CEFR.
- Mae 25 o sefydliadau AHG yn cynnig ieithoedd rhanbarthol/leiafrifol, gyda 13 yn talu'r costau'n llawn. Y gwledydd/rhanbarthau sy'n cynnig cyrsiau mewn ieithoedd rhanbarthol/leiafrifol yn y tri sefydliad AHG a arolygwyd yw Gwlad y Basg, Catalwnia, Hwngari, Gogledd Iwerddon a Chymru. Dim ond mewn pedwar o'r sefydliadau a arolygwyd y cynigir ieithoedd mewnudwyr – un yr un yn Awstria, Lloegr, yr Eidal a Chymru.
- Yn ôl y disgwyl, mae Saesneg, Ffrangeg, Almaeneg a Sbaeneg yn amlwg ymhlith ieithoedd tramor, gyda rhywfaint o Rwseg yn cael ei chynnig fel iaith ranbarthol/leiafrifol mewn rhai gwledydd/rhanbarthau ac fel iaith dramor mewn rhai eraill. Mae Arabeg hefyd yn cael ei chynnig mewn nifer o sefydliadau AHG. Gwelir y brif arlwy o ran ieithoedd rhanbarthol/leiafrifol yn y gwledydd/rhanbarthau â mwy nag un iaith swyddogol.
- Casglwyd data newydd/sylfaenol ar 65 o brifysgolion cyffredinol/cyhoeddus yn y gwledydd/rhanbarthau. Yn ôl y disgwyl, mae'r holl brifysgolion Ewropeaidd a dargedwyd yn ein dinasoedd sampl yn cynnig addysg yn yr iaith genedlaethol oherwydd, yn y rhan fwyaf o achosion, hon yw prif iaith eu myfyrwyr a hon yw iaith swyddogol y wladwriaeth. Fodd bynnag, gellir defnyddio ieithoedd eraill hefyd yn y rhan fwyaf o'r prifysgolion a arolygwyd.
- Ymddengys fod symudedd rhyngwladol myfyrwyr a staff, a'r dyhead i ddenu myfyrwyr byd-eang ac amrywiol, yn golygu mai Saesneg yw ail iaith llawer o brifysgolion yn Ewrop ac mae llawer o werslyfrau hefyd yn cael eu hysgrifennu yn Saesneg.
- Mae nifer uchel iawn o brifysgolion yn cynnig cyrsiau iaith i fyfyrwyr nad ydynt yn astudio ieithoedd, fel yr argymhellwyd gan y brifysgolion Ewropeaidd. Mae'r arlwy yn eang, gyda 31 o brifysgolion (bron hanner) yn rhoi dewis o fwy na phedair iaith i fyfyrwyr. Dim ond wyth prifysgol o'n sampl nad ydynt yn cynnig y cyfle i ddysgu ieithoedd eraill i fyfyrwyr nad ydynt yn astudio ieithoedd. Roedd y nifer sy'n dewis dilyn y cyrsiau hyn mewn gwirionedd y tu hwnt i gwmpas yr ymchwil.
- Mae bron pob prifysgol yn gwneud ymdrech arbennig i ddenu myfyrwyr rhyngwladol. Mae hanner ohonynt hefyd yn nodi eu bod yn gwneud ymdrech benodol i ddenu myfyrwyr o gefndir mewnudo o fewn y wlad.
- Caiff symudedd myfyrwyr gefnogaeth ariannol gan brifysgolion yn Ewrop ond dim ond 10 o'r prifysgolion a arolygwyd sy'n gwneud rhaglenni symudedd yn orfodol i fyfyrwyr iaith.

leithoedd yn y cyfryngau clyweledol a'r wasg

- Er mwyn ystyried yr amrywiaeth o ieithoedd yn y cyfryngau, gofynnwyd i'n hymchwilyr gofnodi'r ieithoedd a gynigiwyd yn ystod un wythnos ar radio a theledu cenedlaethol yn ôl papurau newydd mwyaf poblogaidd y dinasoedd a arolygwyd. Mae'r rhan fwyaf o'r gwledydd/rhanbarthau a gymerodd ran yn darlledu rhai rhaglenni radio a theledu mewn ieithoedd ar wahân i'r iaith genedlaethol. Mae Catalwnia yn darlledu rhaglenni teledu mewn ystod eang o ieithoedd tramor, ieithoedd rhanbarthol/lleiafrifol ac ieithoedd mewnfwdwyr. Mae Hwngari a'r Eidal yn darlledu rhaglenni radio mewn dros ddeg o ieithoedd.
- O ran trosleisio ac isdeitlo, mae modd i ganfyddiadau Ewrop Gyfoethog ei Hieithoedd gael eu cymharu ag astudiaethau cynharach, gyda thua hanner y gwledydd/rhanbarthau yn defnyddio arferion trosleisio gan mwyaf, tra bod yr hanner arall yn defnyddio isdeitlau. Y gwledydd/rhanbarthau lle y caiff teledu a sinema eu trosleisio yw Awstria, Catalwnia, Hwngari, yr Eidal, Gogledd Iwerddon, Gwlad Pwyl a Sbaen. Y gwledydd/rhanbarthau lle y defnyddir isdeitlau ar gyfer teledu a sinema yw Bosnia a Herzegovina, Denmarc, Lloegr, Estonia, Fryslân, Gwlad Groeg, yr Iseldiroedd, Portiwgal, Rwmania, yr Alban, y Swistir a Chymru. Mae gan wledydd/rhanbarthau eraill ddull hybrid o weithredu lle y caiff rhaglenni eu hisdeitlo mewn un cyfrwng a'u trosleisio yn y llall.
- O ran argaeledd papurau newydd yn y ciosgau a'r gorsafoedd trenau mwyaf yn y dinasoedd a arolygwyd ym mhob gwlad/rhanbarth, aeth pob ymchwilydd i mewn i'r ciosgau a'r gorsafoedd trenau hyn a rhestru'r papurau newydd oedd ar gael mewn ieithoedd gwahanol, gan ddilyn y fethodoleg tirlunio ieithyddol er mwyn creu darlun ar adeg ac mewn lle penodol. Yn gyffredinol, papurau newydd Saesneg oedd y rhai mwyaf cyffredin, wedi'u dilyn gan bapurau newydd Almaeneg, ac ymhell ar ôl hynny rhai Ffrangeg, Rwseg ac Eidaleg. Roedd papurau newydd Arabeg a Thyrcceg yn amlwg hefyd.
- Ymchwiliwyd hefyd i b'un a gaiff ieithoedd arwyddion eu cydnabod, ac argaeledd ieithoedd arwyddion ar gyfer digwyddiadau pwysig yn y cyfryngau. Caiff ieithoedd arwyddion eu cydnabod/hyrwyddo yn swyddogol ym mhob gwlad/rhanbarth ac eithrio Gwlad y Basg, Denmarc, Gwlad Groeg, yr Eidal a Gwlad Pwyl. Gall pobl fyddar bob amser ddefnyddio iaith arwyddion wrth ryngweithio'n swyddogol â'r awdurdodau yn hanner y gwledydd/rhanbarthau a arolygwyd. Mae cyfleusterau ar gyfer isdeitlo iaith arwyddion mewn digwyddiadau pwysig yn y cyfryngau bob amser ar gael yn Estonia ac maent ar gael yn fynych mewn naw gwlad/rhanbarth arall. Fodd bynnag, yn yr Eidal, Gwlad Pwyl a Rwmania dywed ymchwilyr nad yw'r cyfleusterau hyn ar gael.

leithoedd mewn gwasanaethau cyhoeddus a manau cyhoeddus

- Aethpwyd ati i ystyried polisiau a strategaethau iaith ar lefel dinasoedd, yn ogystal â'r nifer o ieithoedd y cynigir gwasanaethau cyhoeddus ynddynt. Hefyd, aeth

cynrychiolwyr dinasoedd ati i nodi'r ieithoedd gwirioneddol a ddefnyddir i gyfathrebu'n ysgrifenedig ac ar lafar wrth ddarparu gwasanaethau addysg, brys, iechyd, cymdeithasol, cyfreithiol, trafniadaeth, mewnfudo, a thwristiaeth, yn ogystal â rhaglenni theatr.

- Arolygwyd cyfanswm o 63 o ddinasoedd. Y meini prawf sylfaenol oedd bod prifddinas, yr ail ddinas fwyaf, a dinas/tref ag iaith ranbarthol yn cael eu dethol mewn perthynas â phob gwlad. Yn ôl adroddiadau'r ymchwilyr, mae'r holl dinasoedd gyda'i gilydd yn darparu gwasanaethau mewn 140 o ieithoedd ar wahân i'r iaith genedlaethol.
- Mae gan tua thraean o'r dinasoedd a arolygwyd strategaeth sefydliadol ar gyfer hyrwyddo amlieithrwydd a roddir ar waith yn eang, a nododd hanner y dinasoedd a arolygwyd eu bod yn cynnig gwasanaethau amlieithog ar raddfa eang. Dim ond 10 dinas o blith y 63 a arolygwyd nad ydynt yn darparu gwasanaethau amlieithog. Mae 23 o ddinasoedd yn gweithredu polisi o gynnwys sgiliau iaith yn nisgrifiadau swydd eu staff, ac mae 18 yn darparu hyfforddiant iaith eang ar gyfer staff. Y pum dinas sydd â'r polisiau mwyaf datblygedig yn ôl y data yw Fienna, Barcelona, Llundain, Milan a Krakow yn y drefn honno.
- Ceir y ddarpariaeth amlieithog orau mewn twristiaeth, mewnfudo ac integreiddio, gwasanaethau cyfreithiol (cyfathrebu llafar) a gwasanaethau trafniadaeth (cyfathrebu ysgrifenedig). Hefyd, caiff gwasanaethau iechyd eu cynnig mewn nifer o ieithoedd fel arfer. Ceir y lefelau isaf o wasanaethau amlieithog yn y sector diwylliannol (theatr) a dadleuon gwleidyddol/prosesau gwneud penderfyniadau. Hefyd, nid yw gwasanaethau addysg mor uchel â'r disgwyl, o ystyried y nifer fawr o fyfyrwyr (a'u rhieni) sy'n mynychu ysgolion ledled Ewrop nad ydynt yn siarad iaith swyddogol y wlad lle y'u haddysgir yn rhugl.
- Mae 17 o ddinasoedd yn cynnig y rhan fwyaf o'r gwasanaethau uchod mewn mwy na phedair iaith, tra bod 23 yn cynnig y gwasanaethau mewn tair neu bedair iaith. Y dinasoedd sy'n nodi eu bod yn cynnig y nifer fwyaf o wasanaethau cyfathrebu llafar yn y nifer fwyaf o ieithoedd yw Llundain, Aberdeen, Glasgow, Madrid, Valencia, Zürich, Milan, Belfast, Barcelona a Lugano yn y drefn honno.
- Cafwyd ymateb cadarnhaol gan lai o ddinasoedd o ran gwasanaethau cyfathrebu ysgrifenedig, gyda dim ond chwech ohonynt yn nodi bod y rhan fwyaf o wasanaethau yn cael eu cynnig mewn mwy na phedair iaith a 27 yn nodi bod gwasanaethau'n cael eu cynnig mewn tair neu bedair iaith. Gallai hyn awgrymu bod dinasoedd yn rhoi llai o bwyslais ar ddarparu dogfennau mewn sawl iaith nag ar ddarparu gwasanaethau dehongli a chyfryngu yn y fan a'r lle.
- Saesneg yw'r iaith a gynigir fwyaf o bell ffordd heblaw am yr iaith genedlaethol ar gyfer gwasanaethau llafar ac ysgrifenedig ym mhob dinas a arolygwyd, wedi'i dilyn gan Almaeneg, Rwseg, Ffrangeg a Sbaeneg yn y drefn honno. Mae Tsieinëeg ac Arabeg hefyd yn dod i'r amlwg fel blaenoriaeth uchel a chânt eu cynnig gan nifer o ddinasoedd. Defnyddir y Gymraeg, Catalaneg a Basgeg yn eang mewn gwasanaethau cyhoeddus yn y rhanbarthau lle y'u siaredir. Mae'r canlyniadau ar gyfer yr ieithoedd a ddefnyddir fwyaf mewn gwasanaethau cyhoeddus yn debyg iawn i'r rheini a welwyd o ran ieithoedd papurau newydd.

- Gallwn gasglu bod tri math o grŵp targed ar gyfer gwasanaethau cyfathrebu llafar ac ysgrifenedig mewn gwasanaethau cyhoeddus a mannau cyhoeddus:
 - a) teithwyr rhyngwladol, pobl busnes a thwristiaid,
 - b) grwpiau mewnfudwyr, a c) y sawl sy'n siarad ac yn darllen ieithoedd rhanbarthol/llieiafrifol.
- Saesneg yw'r brif iaith a ddefnyddir ar wefannau'r rhan fwyaf o ddinasoedd, nesaf at yr iaith genedlaethol. Mae Almaeneg a Ffrangeg yn eithaf cyffredin hefyd yn ein sampl o ddinasoedd. Mae gan rai o'r ail ddinasoedd mwyaf fwy o wefannau amlieithog na'r prifddinasoedd yn y gwledydd hynny. Er enghraifft, tra bod Rhufain yn cynnig gwybodaeth mewn Eidaleg a Saesneg yn unig, mae dinas ddiwydiannol Milan yn cynnig gwybodaeth mewn wyth o wahanol ieithoedd yn ogystal ag Eidaleg. Gwelir yr un ffenomen yng Ngwlad Pwyl o ran Krakow a Warsaw. Yn y dinasoedd rhanbarthol a arolygwyd, Saesneg unwaith eto yw'r iaith a ddefnyddir fwyaf ar wefannau'r dinasoedd, nesaf at yr ieithoedd cenedlaethol.

Ieithoedd mewn busnes

- Fel rhan o'r prosiect Ewrop Gyfoethog ei Hieithoedd aethpwyd ati i lunio arolwg i archwilio strategaethau iaith cwmnïau, i weld a ydynt yn blaenoriaethu ac yn cefnogi hyfforddiant iaith i'w cyflogeion, a hefyd i bennu'r amrywiaeth o ieithoedd a ddefnyddir i gyfathrebu â chwsmeriaid ac mewn deunyddiau hyrwyddo. Gellir rhannu'r meini prawf a ystyriwyd yn dri phrif gategori: strategaethau iaith cyffredinol cwmnïau, strategaethau iaith mewnol, a strategaethau iaith allanol.
- Casglwyd data o set ddethol o gwmnïau mewn dinasoedd ledled yr holl wledydd/rhanbarthau a chafodd 484 o gwmnïau eu harolygu i gyd. Targedwyd pedwar sector busnes (banciau, gwestai, cwmnïau adeiladu ac archfarchnadoedd). Yn gyffredinol, er bod nifer y gwestai a gymerodd ran yn gymharol uchel o gymharu â sectorau eraill, roedd cydbwysedd da rhwng y sectorau.
- O ran strategaethau iaith cyffredinol, mae chwarter y cwmnïau a arolygwyd yn meddu ar strategaeth iaith benodol, ac mae dros hanner yn ystyried sgiliau iaith wrth recriwtio. Mae chwarter yn annog symudedd staff at ddibenion dysgu iaith a meithrin ymwybyddiaeth ryngddwylliannol yn rheolaidd. Fodd bynnag, nid yw 70% yn cadw cofnod o sgiliau iaith staff, ac ychydig iawn sy'n manteisio ar raglenni'r UE ar gyfer dysgu ieithoedd.
- Nodir darpariaeth eang o ran hyfforddiant iaith ar gyfer Saesneg busnes mewn 27 y cant o'r cwmnïau a arolygwyd, gyda 14 y cant yn cynnig cymorth yn yr iaith genedlaethol i siaradwyr nad ydynt yn frodorol, a 12 y cant ar gyfer ieithoedd eraill. Mae gan ganran gymharol fechan gynlluniau gwobrwyo neu hyrwyddo ar gyfer dysgu ieithoedd, gydag 11 y cant yn nodi bod hyn yn gyffredin ar gyfer Saesneg busnes ond dim ond 5 y cant ar gyfer yr iaith genedlaethol ac ieithoedd eraill. Ymddengys hefyd fod nifer y cwmnïau sy'n sefydlu partneriaethau â'r sector addysg i feithrin sgiliau iaith eu staff yn fach, gyda chwarter yn gwneud hynny naill ai'n rheolaidd neu'n achlysurol ar gyfer Saesneg, 17 y cant ar gyfer yr iaith genedlaethol gyda siaradwyr nad ydynt yn frodorol, a 14 y cant ar gyfer ieithoedd eraill.

- Yn y sectorau a arolygwyd, mae ychydig dan hanner y cwmnïau yn defnyddio Saesneg busnes yn gyffredin yn ogystal â'r iaith genedlaethol i gyfathrebu'n allanol, ac mae cynifer â 30 y cant yn defnyddio ieithoedd eraill yn ogystal â Saesneg a'r iaith genedlaethol ar eu gwefannau.
- Yn eu trefn, Almaeneg, Rwseg, Ffrangeg a Sbaeneg yw'r ieithoedd a ddefnyddir fwyaf heblaw am Saesneg gan y cwmnïau a arolygwyd, sy'n adlewyrchu'r farchnad fewnol gref yn Ewrop. Caiff Tsieinëeg, Japanaeg, Arabeg a Thyrcceg eu gwerthfawrogi a'u cefnogi hefyd gan rai o'r cwmnïau a arolygwyd, er y gellir disgwyl iddynt gael mwy o flaenoriaeth.

Trafodaeth

Mae'r ffigurau cymharol a gyflwynir uchod yn amlygu rhai tueddiadau diddorol o ran polisiau ac arferion ar gyfer amlieithrwydd/lluosieithrwydd yn Ewrop. Er bod gan rai gwledydd/rhanbarthau bolisiau ac arferion hynod ddatblygedig mewn parthau penodol, mae angen i eraill ddatblygu ymhellach os ydynt am alinio'u hunain yn agosach ag argymhellion Ewropeaidd a chreu cymdeithasau sy'n gyfoethocach eu hiaith. O'r holl *barthau iaith* yr ymchwiliwyd iddynt, addysg gynradd ac addysg uwchradd yw'r parthau lle gwneir yr ymdrech fwyaf i hyrwyddo amlieithrwydd/lluosieithrwydd. Fodd bynnag, o ran dysgu ieithoedd yn gynnar, ac yn y sectorau addysg bellach, addysg uwch, y cyfryngau, gwasanaethau cyhoeddus a busnes, mae canfyddiadau ymchwil Ewrop Gyfoethog ei Hieithoedd yn awgrymu bod angen i'r ymrwymiad a ddatganwyd yn swyddogol gan wledydd/rhanbarthau Ewropeaidd i gefnogi amlieithrwydd/lluosieithrwydd gael ei droi'n gynlluniau gweithredu ac arferion ar lefel leol a lefel sefydliadol o hyd.

O'r holl *amrywiadau o ieithoedd* nad ydynt yn ieithoedd cenedlaethol yr ymchwiliwyd iddynt, ieithoedd mewnfudwyr yw'r rhai a gydnabyddir, a ddiogelir ac a/neu a hyrwyddir leiaf, er gwaethaf yr holl gamau gweithredu cadarnhaol sy'n cael eu cymryd ar lefel Ewropeaidd. Byddai rhoi mwy o sylw i ieithoedd ar wahân i rai cenedlaethol yn galluogi dinasoedd a mentrau Ewropeaidd i ddod yn fwy cynhwysol yng nghyd-destun cynyddu symudedd ac ymfudo yn Ewrop.

Credwn fod y canfyddiadau a gyflwynir gennym yma yn ychwanegu at y wybodaeth sydd gennym eisoes ynghylch polisiau ac arferion iaith yn Ewrop, a hynny o bedwar safbwynt gwahanol: (i) y nifer uchel o wledydd a rhanbarthau Ewropeaidd sy'n cymryd rhan, (ii) yr ystod eang o amrywiadau dewis iaith o blith ieithoedd Ewrop, (iii) yr amrywiaeth o barthau dewis iaith o fewn addysg a'r tu hwnt iddi, (iv) cyhoeddi a dosbarthu canlyniadau'r astudiaeth hon mewn 23 o ieithoedd heblaw am Saesneg. Gellir mynegi cwmmpas a maint arolwg Ewrop Gyfoethog ei Hieithoedd, sydd wedi arwain at greu cronfa ddata enfawr ar ystod o bolisiau ac arferion iaith yn y sectorau addysg a thu hwnt, drwy fformiwla o 260 o gwestiynau a ofynnwyd i 24 o wledydd/rhanbarthau a 67 o ddinasoedd, sy'n gyfystyr â 6,240 o werthoedd sydd wedi'u sgorio a'u dadansoddi (llai data rhannol ar gyfer Fryslân yn unig).

Amcanion cyffredinol prosiect Ewrop Gyfoethog ei Hieithoedd yw:

- hwyluso'r broses o gyfnewid arfer da ym maes hyrwyddo trafod rhyngddiwyllynnol a chynhwysiant cymdeithasol drwy addysgu a dysgu ieithoedd;
- hyrwyddo cydweithrediad Ewropeaidd wrth ddatblygu polisiau ac arferion iaith mewn sawl sector addysg ac yn y gymdeithas ehangach;
- codi ymwybyddiaeth o argymhellion yr Undeb Ewropeaidd a Chyngor Ewrop ar gyfer hyrwyddo dysgu ieithoedd ac amrywiaeth ieithyddol ledled Ewrop.

Fel y soniwyd yn y cyflwyniad i Ran 1 o'r cyhoeddiad hwn, diben y dangosyddion drafft a ddatblygwyd drwy brosiect Ewrop Gyfoethog ei Hieithoedd yw gweithredu fel adnodd i helpu gwledydd a rhanbarthau i werthuso eu hunain mewn perthynas â dogfennau'r UE a Chyngor Ewrop ar amlieithrwydd a lluosieithrwydd. Drwy'r broses hon, ein nod yw codi ymwybyddiaeth gyhoeddus a gwleidyddol ar lefel facro ymhlith llunwyr polisiau iaith Ewropeaidd, cenedlaethol a rhanbarthol, ac ysgogi rhanddeiliaid allweddol ar draws amrywiaeth o sectorau, ieithoedd a gwledydd/rhanbarthau i weithredu. Croesewir awgrymiadau ar gyfer dangosyddion pellach, fel ymateb gweithredol i'n canfyddiadau.

RHAN 1

Tuag at Ddangosyddion Ewropeaidd o Bolisiau ac Arferion Iaith

Guus Extra a Kutlay Yağmur

Cyflwyniad

Mae'r cyhoeddiad hwn yn rhan o'r prosiect *Ewrop Gyfoethog ei Hieithoedd*, a gyd-ariannwyd gan y Comisiwn Ewropeaidd o dan ei *Raglen Dysgu Gydol Oes*, ac a sefydlwyd gan y British Council, sef sefydliad rhyngwladol y DU dros gyfleoedd addysgol a chysylltiadau diwylliannol. Caiff y prosiect ei reoli gan y British Council, a'i oruchwylio gan Grŵp Llywio sy'n cynnwys cynrychiolwyr o Sefydliadau Diwylliant Cenedlaethol yr Undeb Ewropeaidd a'n sefydliadau partner.

Mae *Babylon*, y *Ganolfan ar gyfer Astudio'r Gymdeithas Amlddiwylliannol* ym Mhrifysgol Tilburg, wedi arwain yr elfen ymchwil o'r prosiect, gan ddatblygu dangosyddion drafft yn seiliedig ar gynigion, confensiynau ac argymhellion yr Undeb Ewropeaidd a Chyngor Ewrop er mwyn ystyried polisiau ac arferion iaith mewn 24 o wledydd a rhanbarthau, llunio a gweinyddu'r holiadur ymchwil ymhlith ein rhwydwaith o bartneriaid, prosesu a dadansoddi'r data a llunio adroddiad ar y canlyniadau rhyngwladol a gafwyd o'r data a gasglwyd. Yn ogystal â hynny, mae ein partneriaid ymchwil ym mhob gwlad/rhanbarth wedi cyflwyno eu dadansoddiad eu hunain o'r canfyddiadau, wedi'i ategu gan enghreifftiau o arfer da a mentrau addawol.

Amcanion cyffredinol prosiect Ewrop Gyfoethog ei Hieithoedd yw:

- hwyuso'r broses o gyfnewid arfer da ym maes hyrwyddo trafod rhyngddiwylliannol a chynhwysiant cymdeithasol drwy addysgu a dysgu ieithoedd
- hyrwyddo cydweithrediad Ewropeaidd wrth ddatblygu polisiau ac arferion iaith mewn sawl sector addysg ac yn y gymdeithas ehangach
- codi ymwybyddiaeth o argymhellion yr Undeb Ewropeaidd a Chyngor Ewrop ar gyfer hyrwyddo dysgu ieithoedd ac amrywiaeth ieithyddol ledled Ewrop.

Diben y dangosyddion drafft a ddatblygwyd drwy'r prosiect yw gweithredu fel adnodd i helpu gwledydd a rhanbarthau i werthuso eu hunain mewn perthynas â dogfennau'r UE a Chyngor Ewrop ar amlieithrwydd a lluosieithrwydd. Drwy'r broses hon, ein nod yw codi ymwybyddiaeth gyhoeddus a gwleidyddol ar lefel facro ymhlith llunwyr polisiau iaith Ewropeaidd, cenedlaethol a rhanbarthol, ac ysgogi rhanddeiliaid allweddol ar draws amrywiaeth o sectorau, ieithoedd a gwledydd/rhanbarthau i weithredu. Croesewir awgrymiadau ar gyfer dangosyddion pellach, fel ymateb gweithredol i'n canfyddiadau. Gobeithiwn y bydd y canlyniadau a gyflwynir yma yn sbarduno astudiaethau achos a gwaith ymchwil manwl dilynol a pherthnasol i bolisiau ac arferion amlieithrwydd a lluosieithrwydd ar lefel ficro.

Mae cyfyngiadau amlwg i'r hyn y gellir ei gyflawni mewn astudiaeth fel hon. Ymdrinnir â'r cyfyngiadau hyn yn Adran 1.6 o ran dilysrwydd. Fodd bynnag, credwn fod y canlyniadau a gyflwynir gennym yn ychwanegu at y wybodaeth sydd gennym eisoes ynghylch polisiau ac arferion iaith yn Ewrop, a hynny o bedwar safbwynt gwahanol:

- y nifer fawr o wledydd a rhanbarthau sydd wedi cymryd rhan – 24
- rhychwant yr amrywiadau o ieithoedd a ddewiswyd o blith ieithoedd Ewrop – rydym yn ystyried ieithoedd tramor, ieithoedd rhanbarthol neu leiafrifol, ieithoedd mewnfwddwyr ac ieithoedd cenedlaethol gyda ffocws arbennig, o ran yr olaf, ar y cymorth sydd ar gael i newydd-ddyfodiad
- yr amrywiaeth o barthau iaith a ddewiswyd o fewn y sector addysg a thu hwnt iddo, gan gynnwys busnes, gwasanaethau cyhoeddus a manau cyhoeddus mewn dinasoedd, a'r cyfryngau
- cyhoeddi a dosbarthu canlyniadau'r astudiaeth hon mewn 23 o ieithoedd.

Rhydd adrannau 1.1 ac 1.2 wybodaeth gefndir am ysgogwyr Ewropeaidd sy'n hyrwyddo amlieithrwydd a lluosieithrwydd, a'r fformiwlâ deirieithog fel y'i gelwir. Mae adrannau 1.3 ac 1.4 yn canolbwyntio ar yr amrywiadau o ieithoedd a'r parthau iaith a ystyriwyd gan y prosiect. Mae a wnelo adran 1.5 â chasglu data a'n dull tair dinas. Ymdrinnir â'r fethodoleg ymchwil a ddefnyddiwyd yn ystod y prosiect hwn yn yr adran olaf sef 1.6.

1.1 Ysgogwyr Ewropeaidd sy'n hyrwyddo amlieithrwydd a lluosieithrwydd

Mae amrywiaeth ieithyddol yn nodwedd allweddol o hunaniaeth Ewrop, ac mae sefydliadau'r UE ym Mrwsel a Chyngor Ewrop yn Strasbwrg wedi mynd ati i hyrwyddo dysgu ieithoedd ac amlieithrwydd/lluosieithrwydd. Y prif asiantaethau polisi iaith yn y ddau sefydliad hyn yw'r *Uned Polisi Amlieithrwydd* yng Nghyfarwyddiaeth Gyffredinol y Comisiwn Ewropeaidd ar gyfer Addysg a Diwylliant ac *Uned Polisi Iaith* Cyfarwyddiaeth Addysg Cyngor Ewrop. Mae'r gwaith a wneir gan yr asiantaethau hyn yn sail i'r cynigion, y siarteri a'r confensiynau pwysig a gynhyrchir gan y priod gyrrff. Rhydd Baetens Beardsmore (2008) drosolwg defnyddiol o weithgareddau hyrwyddo iaith yr UE a Chyngor Ewrop yn y gorffennol.

Gellir chwilio am gyhoeddiadau ar amlieithrwydd yn <http://europa.eu/>. Yno, ceir dogfennau allweddol mewn amryw ieithoedd wedi'u trefnu o dan bum pennawd: dogfennau polisi'r UE, llyfyrnau gwybodaeth, adroddiadau, astudiaethau, ac arolygon. Mae gwefan Cyngor Ewrop, www.coe.int/lang, yn cynnwys cyhoeddiadau ym meysydd datblygu polisi, offerynnau a safonau, ieithoedd addysg mewn ysgolion, ymfudwyr, adroddiadau cynadleddau ac astudiaethau dewisol.

Yn ôl Cyngor Ewrop mae a wnelo lluosieithrwydd â gallu siaradwr (y gallu i ddefnyddio mwy nag un iaith) tra bod amlieithrwydd yn cyfeirio at fodolaeth ieithoedd amrywiol mewn ardal ddaearyddol benodol. Mae'r UE yn defnyddio lluosieithrwydd ar gyfer y ddau (gan nodi weithiau 'luosieithrwydd yr unigolyn'). Drwy gydol yr adroddiad dyfynnir y ddau gysyniad amlieithrwydd/lluosieithrwydd.

Yr Undeb Ewropeaidd (UE)

O fewn yr UE, Aelod-wladwriaethau unigol sy'n gyfrifol am bolisiau iaith. Mae sefydliadau'r UE yn chwarae rôl gefnogol yn y maes hwn, yn seiliedig ar yr 'egwyddor o sybsidiaredd'. Rôl y sefydliadau hyn yw hyrwyddo cydweithrediad rhwng yr Aelod-wladwriaethau a hyrwyddo dimensiwn Ewropeaidd mewn polisiau iaith cenedlaethol. O fewn tri chorff cyfansoddol yr UE, hynny yw, *Cyngor yr Undeb Ewropeaidd*, y *Comisiwn Ewropeaidd* a *Senedd Ewrop*, mae amlieithrwydd wedi bod yn faes allweddol y canolbwyntiwyd arno ers nifer o flynyddoedd.

Nod polisiau iaith yr UE yw diogelu amrywiaeth ieithyddol a hyrwyddo medrusrwydd ieithyddol, a hynny am resymau sy'n ymwneud â hunaniaeth ddiwyllianol ac integreiddio cymdeithasol, ond hefyd am fod dinasyddion amliiaith mewn sefyllfa well i fanteisio ar y cyfleoedd addysgol, proffesiynol ac economaidd a grëir gan Ewrop integredig. Caiff polisiau ar amlieithrwydd eu llywio gan yr amcan a bennwyd gan Gyngor yr UE yn Barcelona yn 2002 i wella meistrolaeth ar sgiliau sylfaenol, yn benodol drwy addysgu o leiaf ddwy iaith arall o oedran cynnar iawn. Roedd hyn, yn ei dro, yn adeiladu ar y Papur Gwyn arloesol ar Addysgu a Dysgu a gyhoeddwyd yn 1995 a oedd yn dadlau y dylai pawb ddysgu dwy iaith Ewropeaidd. Dilëwyd 'Ewropeaidd' mewn dogfennau diweddarach. Galwyd hefyd yn Barcelona am sefydlu dangosydd ar gymhwysedd iaith.

Yn 2003, ymrwymodd y Comisiwn Ewropeaidd i weithredu 45 o gamau newydd i annog awdurdodau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol i weithio tuag at 'newid mawr o ran hyrwyddo dysgu ieithoedd

ac amrywiaeth ieithyddol'. Mabwysiadwyd Dogfen Gyfathrebu gyntaf erioed y Comisiwn Ewropeaidd ar Amlieithrwydd, *Strategaeth Fframwaith Newydd ar gyfer Amlieithrwydd*, ym mis Tachwedd 2005, gan ategu ei gynllun gweithredu *Hyrwyddo Dysgu Ieithoedd ac Amrywiaeth Ieithyddol*. Roedd Dogfen Gyfathrebu'r Comisiwn Ewropeaidd (2005) yn nodi tair elfen sylfaenol o bolisi'r UE ar amlieithrwydd:

1. sicrhau bod dinasyddion yn gallu cael gafael ar ddeddfwriaeth, gweithdrefnau a gwybodaeth yr UE yn eu haith eu hunain
2. pwysleisio'r rôl bwysig y mae ieithoedd ac amlieithrwydd yn ei chwarae yn economi Ewrop, a dod o hyd i ffyrdd o ddatblygu hyn ymhellach
3. annog pob dinesydd i ddysgu a siarad mwy o ieithoedd, er mwyn gwella cyd-ddealltwriaeth a chyfathrebu.

Tanlinellwyd pwysigrwydd amlieithrwydd i'r Comisiwn Ewropeaidd gyda phenodiad Comisiynydd Ewropeaidd arbennig, Leonard Orban, i reoli'r portffolio am y tro cyntaf ar ddechrau 2007, er iddo ddod yn rhan o gylch gorchwyl y Comisiynydd Addysg, Diwylliant, Amlieithrwydd ac Ieuencid yn sgîl yr ad-drefnu a wnaed gan Barroso yn 2009. Yn 2008, o dan y Comisiynydd Orban, cynhyrchodd y Comisiwn Ewropeaidd ei Ddogfen Gyfathrebu *Multilingualism: An asset for Europe and a shared commitment*, a sefydlodd polisi iaith fel pwnc ardrawslin a oedd yn cyfrannu at bob un o bolisiau eraill yr UE. Roedd y Ddogfen Gyfathrebu yn nodi'r hyn yr oedd angen ei wneud i droi amrywiaeth ieithyddol yn ased er undod a ffyniant. Y ddau amcan canolog ar gyfer polisi ar amlieithrwydd oedd:

- codi ymwybyddiaeth o'r gwerth a'r cyfleoedd sydd ynghlwm wrth amrywiaeth ieithyddol yr UE ac annog y gwaith o ddileu rhwystrau tuag at drafod rhyngddiwyllianol
- rhoi cyfleoedd gwirioneddol i bob dinesydd ddysgu sut i gyfathrebu mewn dwy iaith yn ogystal â'i famiaith.

Gwahoddwyd Aelod-wladwriaethau i gynnig amrywiaeth ehangach o ieithoedd yn fwy effeithiol yn y system addysg o oedran cynnar hyd at addysg i oedolion a gwerthfawrogi a datblygu ymhellach y sgiliau iaith sy'n cael eu meithrin y tu allan i'r system addysg ffurfiol. At hynny, nododd y Comisiwn Ewropeaidd ei fod yn benderfynol o ddefnyddio rhaglenni a mentrau perthnasol yr UE mewn ffordd strategol er mwyn dod ag amlieithrwydd yn 'agosach at y dinesydd'.

Mae Dogfen Waith Staff y Comisiwn (2008), sy'n ategu Dogfen Gyfathrebu'r Comisiwn Ewropeaidd a nodwyd uchod, yn cynnig trosolwg da o weithgareddau presennol yr UE sy'n cefnogi amlieithrwydd. Croesawyd Dogfen Gyfathrebu'r Comisiwn Ewropeaidd (2008) ac fe'i cefnogwyd gan gynigion gan Gyngor yr UE (2008) a Senedd Ewrop (2009) gyda phwyslais ar ddysgu gydol oes, cystadleurwydd, symudedd a chyflogadwyedd. Yn 2011, adroddodd y Comisiwn Ewropeaidd ar y cynnydd a wnaed ers 2008 a rhestrodd yr holl gamau a gymerwyd gan yr UE yn y maes. Edrychodd ymlaen hefyd at y *Fframwaith Strategol ar gyfer Cydweithrediad Ewropeaidd mewn Addysg a Hyfforddiant* (ET 2020) lle caiff dysgu ieithoedd ei nodi fel blaenoriaeth, gyda

chyfathrebu mewn ieithoedd tramor yn un o wyth cymhwysedd allweddol a nodir i wella ansawdd ac effeithlonrwydd ym meysydd addysg a hyfforddiant. Ymhlith y sgiliau craidd eraill a nodir mae cyfathrebu yn y famiaith, cyfryngu a dealltwriaeth ryngddiwylliannol.

Mae'r adroddiad yn tanlinellu'r ffaith bod sgiliau iaith yn hanfodol i'r fenter *Agenda ar gyfer sgiliau a swyddi newydd*, gan eu bod yn gwella cyflogadwyedd. Maent hefyd yn rhagofyniad ar gyfer symudedd ac felly ar gyfer gweithredu'r fenter flaenllaw newydd i bobl ifanc *Youth on the Move* yn llwyddiannus. Yn fwy eang, gall sgiliau iaith helpu dinasyddion yr UE i arfer yr hawl sydd ganddynt i symud yn rhydd a phreswyllo yn nhiriogaeth Aelod-wladwriaethau, eu helpu i wneud hynny, a'u hysgogi i arfer yr amrywiaeth eang o hawliau a roddwyd iddynt o dan gyfraith yr UE.

Caiff ystadegau allweddol ar ddysgu ac addysgu ieithoedd yn yr UE eu casglu yng nghyd-destun arolygon Eurydice ac Eurobarometer. Yn hynod bwysig i Barthau 3-4 o Holiadur *Ewrop Gyfoethog ei Hieithoedd* mae'r adroddiadau 'Key data on teaching languages at school in Europe' (Eurydice 2008, fersiwn wedi'i ddiweddarau o adroddiad 2005) ac 'Integrating immigrant children into schools in Europe' (Eurydice 2009), a dau adroddiad Eurobarometer ar sgiliau iaith dinasyddion Ewropeaidd a'u hagweddau tuag at ieithoedd (Eurobarometer 2001 a 2006). Mae'r adroddiad uchod i'r Comisiwn Ewropeaidd gan Strubell ac eraill (2007) hefyd yn cynnwys data allweddol ar gofrestru myfyrwyr mewn dosbarthiadau iaith ar lefel addysg gynradd, addysg uwchradd is ac addysg uwchradd uwch yng ngwledydd yr UE. At hynny, mae'r adroddiad yn dadansoddi canlyniadau a thueddiadau trawswladol, ac yn gorffen gyda chyfres o argymhellion.

Gellir ymdrin â niferoedd penodol o ddysgwyr iaith ac arholiadau dysgu mewn ysgolion, a mathau o gymwyseddau iaith, mewn fersiwn dilynol o Holiadur *Ewrop Gyfoethog ei Hieithoedd*. Byddwn yn ystyried y cyfleoedd am synergeddau rhwng casglu data ar gyfer y prosiect presennol a Monitor Iaith Ewrop (EFNIL) a'r Arolwg Ewropeaidd ar Gymwyseddau Iaith (ESLC), yn y drefn honno (gweler gwefannau'r ddau brosiect am waith sy'n mynd rhagddo). Mae prosiect ELM yn canolbwyntio ar ieithoedd swyddogol gwladwriaethau; mae'n cynnwys adran arbennig ar addysgu yn ieithoedd swyddogol gwladwriaethau a'r defnydd ohonynt o gymharu â Saesneg ar lefel brifysgol. Mae prosiect ESLC yn canolbwyntio i ddechrau ar gymhwysedd myfyrwyr mewn Saesneg, Ffrangeg, Almaeneg, Eidaleg a Sbaeneg fel eu hiaith dramor gyntaf a'u hail iaith dramor yn eu blwyddyn olaf o addysg uwchradd is neu eu hail flwyddyn o addysg uwchradd uwch, yn dibynnu ar y cyd-destun addysgol dan sylw. Mae adroddiad cyntaf ESLC newydd gael ei gyhoeddi gan y Comisiwn Ewropeaidd (2012) ac mae'n cynnwys data ar bron 54,000 o fyfyrwyr sydd wedi'u cofrestru mewn 14 o wledydd sy'n cymryd rhan. Cafodd profion, yn annibynnol ar y cwricwlwm, eu llunio, eu safoni a'u cynnal ar gyfer sgiliau darllen, gwrando ac ysgrifennu ym mhob un o'r pum iaith y cyfeiriwyd atynt ac fe'u cysylltwyd â lefelau CEFR. Dengys canlyniadau ESLC fod lefel isel o gymhwysedd yn gyffredinol yn yr ieithoedd tramor cyntaf a'r ail

ieithoedd tramor a brofwyd. Hefyd, mae'r canlyniadau'n amrywio'n sylweddol rhwng gwledydd, dewis ieithoedd, a sgiliau iaith a fesurir.

Prif raglen ariannu'r Comisiwn Ewropeaidd ar gyfer 2007-13 i gefnogi amlieithrwydd yw'r *Rhaglen Dysgu Gydol Oes*, sy'n dod ag amryw fentrau Ewropeaidd ym maes addysg a hyfforddiant ynghyd o dan un fantell gyda chyllideb o bron €7 biliwn ar gyfer y cyfnod o saith mlynedd. Mae'r *Rhaglen Dysgu Gydol Oes*, olynnydd rhaglen *Socrates* a fu'n weithredol rhwng 1994 a 2006, yn cynnwys pedair is-raglen, y mae pob un ohonynt yn mynd i'r afael â sector addysg penodol: *Comenius* (ysgolion), *Erasmus* (addysg uwch), *Leonardo da Vinci* (addysg a hyfforddiant galwedigaethol) a *Grundtvig* (addysg i oedolion). Mae rhaglen drawsbynciol yn ategu'r pedair is-raglen hyn, yn cynnwys *Gweithgaredd Allweddol* ar ieithoedd, fel y'i gelwir. Yn olaf, mae rhaglen *Jean Monnet* yn ysgogi addysgu, myfyrion a thrafodaeth ar y broses integreiddio Ewropeaidd mewn sefydliadau addysg uwch ledled y byd.

Un o amcanion penodol y *Rhaglen Dysgu Gydol Oes* yw hyrwyddo dysgu ieithoedd ac amrywiaeth ieithyddol. Gellir cyflwyno cynigion ar gyfer prosiectau iaith, rhwydweithiau iaith a gweithgareddau eraill â gogwydd tuag at iaith (er enghraifft rhai sy'n gysylltiedig â symudedd myfyrwyr, athrawon a gweithwyr) ar gyfer cyd-ariannu Ewropeaidd o dan rannau gwahanol o'r Rhaglen. Mae pob iaith – boed yn iaith swyddogol, yn iaith genedlaethol, yn iaith ranbarthol, yn iaith leiafrifol neu'n iaith mewnfudwyr – yn gymwys o dan y Rhaglen hon. Caiff y rhaglen *Ewrop Gyfoethog ei Hieithoedd* ei chyd-ariannu o dan y Rhaglen KA2 (Rhwydweithiau).

Cyngor Ewrop

Mae Cyngor Ewrop, a sefydlwyd ar 5 Mai 1949, yn sefydliad rhynglywodraethol sydd â 47 o Aelod-wladwriaethau, gan gynnwys 27 o Wladwriaethau'r Undeb Ewropeaidd.

Cenhadaeth Cyngor Ewrop yw hyrwyddo hawliau dynol, democratiaeth seneddol a rheol y gyfraith. Mae'r gwerthoedd craidd hyn wrth wraidd ei weithredoedd ym mhob maes, gan gynnwys polisi iaith sy'n defnyddio tri dimensiwn gwahanol ond ategol o waith y Sefydliad: *confensiynau*, *argymhellion* ac *offerynnau technegol*.

Mae'r *Confensiwn Diwylliannol Ewropeaidd* yn annog gwladwriaethau i gefnogi astudio ieithoedd ei gilydd, ynghyd â hanes a gwareiddiad ei gilydd. Mae *Siarter Gymdeithasol Ewrop* yn sicrhau hawl gweithwyr mudol a'u thlueoedd i ddysgu iaith neu ieithoedd y wladwriaeth sy'n eu derbyn ac mae'n cefnogi addysgu mamiaith y gweithiwr mudol i'w blant.

Mae a wnelo dau o *gofensiynau* Cyngor Ewrop yn uniongyrchol â safonau Ewropeaidd i hyrwyddo a diogelu amrywiaeth ieithyddol a hawliau iaith – y *Siarter Ewropeaidd ar gyfer Ieithoedd Rhanbarthol neu Ieithoedd Lleiafrifol* a'r *Confensiwn Fframwaith er Diogelu Lleiafrifoedd Cenedlaethol* yn y drefn honno. Mae'r Siarter yn offeryn diwylliannol a gynlluniwyd i ddiogelu a hyrwyddo ieithoedd rhanbarthol neu leiafrifol fel agwedd ar dreftadaeth ddiwylliannol Ewrop sydd dan fygythiad. Mae'n darparu ar gyfer mesurau penodol

i gefnogi'r defnydd o'r categori hwn o ieithoedd ym myd addysg a'r cyfryngau, a chaniatáu eu defnydd mewn lleoliadau barnwrol a gweinyddol, bywyd economaidd a chymdeithasol a gweithgareddau diwylliannol. Mae'r Confensiwn Fframwaith yn nodi'r amodau sydd eu hangen i bobl sy'n perthyn i leiafrifoedd cenedlaethol gynnal a datblygu eu diwylliant, a diogelu elfennau sylfaenol o'u hunaniaeth, sef eu crefydd, iaith, traddodiadau a threftadaeth ddiwylliannol.

Caiff gwladwriaethau sydd wedi cadarnhau'r *confensiynau* hyn eu monitro mewn perthynas â chyflawni'r ymrwymadau y maent wedi'u gwneud.

Mae *argymhellion* Cyngor Ewrop yn ddatganiadau awdurdodol i awdurdodau cenedlaethol ar egwyddorion arweiniol a mesurau gweithredu cysylltiedig, ond nid ydynt yn gyfreithiol rwymol. Mae'r canlynol ymhlith y mwyaf perthnasol at ddibenion y prosiect hwn:

- Mae *Argymhelliad Rhif R (98) 6 Pwyllgor y Gweinidogion ar Ieithoedd Modern* (Cyngor Ewrop, 1998) yn pwysleisio cyfathrebu rhyngddiwylliannol a lluosieithrwydd fel nodau polisi allweddol ac mae'n cynnig mesurau cadarn ar gyfer pob sector addysgol ac addysg athrawon gychwynnol ac mewn swydd. Mae'r Atodiad i'r argymhelliad hwn yn nodi'n gynhwysfawr, ar gyfer pob sector addysgol, ffyrdd y gall lluosieithrwydd gael ei bennu'n nod cyffredinol mewn cysyniad cydlynol o addysg iaith yn holl aelod-wladwriaethau Cyngor Ewrop;
- Mae *Argymhelliad 1383 (1998) Cynulliad Seneddol Cyngor Ewrop ar Amrywio Ieithyddol* yn nodi bod amrywiaeth ieithyddol Ewrop yn ased diwylliannol hollbwysig y mae'n rhaid ei gynnal a'i ddiogelu ac y dylid felly gynnig mwy o amrywiaeth wrth addysgu ieithoedd modern yn aelod-wladwriaethau Cyngor Ewrop. Noda y dylai hyn arwain at sicrhau bod holl ddinasyddion Ewrop yn caffael nid yn unig Saesneg ond ieithoedd eraill Ewropeaidd a rhyngwladol, ar y cyd â meistrolï eu hiaith genedlaethol a, lle y bo'n briodol, eu hiaith ranbarthol eu hunain;
- Mae *Argymhelliad 1539 (2001) Cynulliad Seneddol Cyngor Ewrop ar Flwyddyn Ieithoedd Ewrop* yn galw ar yr Aelod-wladwriaethau i gynnal a datblygu ymhellach fentrau polisi iaith Cyngor Ewrop ar gyfer hyrwyddo lluosieithrwydd, amrywiaeth diwylliannol a dealltwriaeth ymhlith pobl a gwledydd ynghyd ag annog pawb ledled Ewrop i gaffael hyn a hyn o allu i gyfathrebu mewn sawl iaith, er enghraifft drwy hyrwyddo dulliau newydd amrywiol sy'n diwallu anghenion unigol;
- Mae *Argymhelliad Rec (2005) 3 Pwyllgor y Gweinidogion ar Addysgu Ieithoedd Cyfagos mewn rhanbarthau ffiniol* yn annog llywodraethau Aelod-wladwriaethau i gymhwyso egwyddorion addysg luosieithol, yn arbennig drwy bennu amodau sy'n galluogi sefydliadau addysgu mewn rhanbarthau ffiniol ar bob lefel i ddiogelu neu, os oes angen, fynd ati i addysgu a defnyddio ieithoedd eu gwledydd cyfagos, ynghyd ag addysgu diwylliannau'r gwledydd hyn, sydd â chysylltiad agos ag addysgu iaith;
- Mae *Argymhelliad 1740 (2006) y Cynulliad Seneddol ar rôl y famiaith mewn addysg yn yr ysgol* yn annog pobl ifanc Ewrop i ddysgu eu mamiaith (neu eu prif iaith) pan nad yw'n iaith swyddogol yn eu gwlad, tra'n tanlinellu bod ganddynt ddyletswydd i ddysgu iaith swyddogol y wlad y maent yn ddinasyddion ynddi;

- Mae *Argymhelliad Rhif R (2008) 7 Pwyllgor y Gweinidogion ar y defnydd o'r CEFR a hyrwyddo lluosieithrwydd* yn amlinellu egwyddorion cyffredinol a mesurau i'w gweithredu gan awdurdodau sy'n gyfrifol am addysg iaith yn genedlaethol, yn ranbarthol ac yn lleol yn ogystal â mesurau penodol sy'n anelu at lunio polisiau, datblygu'r cwricwlwm a gwerslyfrau, hyfforddi athrawon, ac asesu.

Mae'r hyn y gellir ei ddisgrifio'n *offerynnau "technegol"* ym maes addysg iaith yn adnoddau cyfeirio ar y cyfan, nad ydynt byth yn normadol, y gall llunwyr polisi ac ymarferwyr ymgynghori arnynt a'u haddasu fel y bo'n briodol i'w cyd-destun ac anghenion addysgol penodol. Mae'r offerynnau hyn yn cynnwys Y *Fframwaith Cyfeirio Ewropeaidd Cyffredin ar gyfer Ieithoedd* (CEFR) a ddefnyddir yn eang, Portffolio Ieithoedd Ewropeaidd (ELP), canllawiau polisi, ac amrywiaeth o adnoddau ymarferol eraill a ddatblygwyd drwy raglenni'r Uned Polisi Iaith yn Strasbwrg a Chanolfan Ieithoedd Modern Ewrop yn Graz.

Cafodd Y *Fframwaith Cyfeirio Ewropeaidd Cyffredin ar gyfer Ieithoedd* (2001) ei gynllunio i hyrwyddo addysg luosieithol ac i gael ei addasu i gyd-destunau defnydd penodol. Mae'r CEFR yn cynnig sail gyffredin i ddatblygu a chymharu cwricwla a chymharu cwricwla, gwerslyfrau, cyrsiau gwerslyfrau, gwerslyfrau, cyrsiau ac arholiadau ail iaith/iaith dramor o safbwynt dysgu gydol oes lluosieithol dynamig. Mae'r CEFR, a ddatblygwyd drwy broses ymchwil wyddonol ac ymgynghori eang, yn cynnig dull ymarferol o bennu nodau clir i'w cyflawni ar gamau dysgu olynol a gwerthuso canlyniadau mewn modd y gellir ei gymharu'n rhyngwladol. Rhydd sail i gyd-gydnabod cymwysterau iaith a thrwy hynny hwyluso symudedd addysgol a galwedigaethol. Fe'i defnyddir fwyfwy wrth ddiwygio cwricwla cenedlaethol a chan gonsortia rhyngwladol i bennu perthnasedd tystysgrifau iaith, yn Ewrop a thu hwnt, ac mae ar gael mewn dros 35 o ieithoedd.

Mae'r *Portffolio Ieithoedd Ewropeaidd* (2001) yn ddogfen bersonol y gall y rheini sy'n dysgu neu sydd wedi dysgu iaith – boed yn yr ysgol neu'r tu allan iddi – ei defnyddio i gofnodi eu cynnydd a myfyrio ar yr hyn a ddysgwyd ganddynt a'u profiadau diwylliannol. Y dysgwr sy'n berchen arno. Yn y Portffolio, caiff pob lefel o gymhwysedd ei werthfawrogi, p'un a yw hynny'n digwydd mewn addysg ffurfiol neu'r tu allan iddi. Mae'n gysylltiedig â'r *Fframwaith Cyfeirio Ewropeaidd Cyffredin ar gyfer Ieithoedd*.

Mae'r *Canllaw ar gyfer Datblygu Polisiau Addysg Iaith yn Ewrop* (2007) yn adnodd dadansodol a all gael ei ddefnyddio ar ffurf dogfen gyfeirio i lunio neu ad-drefnu polisiau addysgu iaith i hyrwyddo lluosieithrwydd ac amrywiaeth mewn modd a gynlluniwyd fel bod cysylltiad cydlynol rhwng penderfyniadau. Mae'r Canllaw yn trin lluosieithrwydd fel un cymhwysedd, sy'n cwmpasu – o bosibl – sawl iaith lle mae lefelau hyfedredd amrywiol fel arfer. Sonni'r am gymhwysedd cyfathrebu y mae gwybodaeth a phrofiad o iaith yn gyffredinol yn cyfrannu ato a lle mae ieithoedd yn rhyng-gysylltiedig ac yn rhyngweithio.

Cafodd yr offerynnau polisi uchod eu datblygu gan yr Is-adran Polisi Iaith (yr Uned Polisi Iaith erbyn hyn) sydd, yn ddiweddar, wedi lansio Llwyfan Adnoddau a Chyfeiriadau ar gyfer Addysg Luosieithol a Rhyngddiwylliannol (www.coe.int/lang). Mae'r safle hwn yn ehangu'r cwmpas o ran ystyriaeth y tu hwnt i ieithoedd tramor modern ac yn cynnwys ieithoedd clasurol, ieithoedd mudwyr ac, yn bwysig, ieithoedd ysgolion. Mae hyn yn cyfeirio

at ieithoedd megis Almaeneg yn yr Almaen, Swedeg yn Sweden ac ati – a addysgir fel pynciau ysgol ac a ddefnyddir fel y cyfrwng addysgu ar gyfer pynciau ysgol eraill (gan ystyried rôl allweddol iaith wrth feithrin gwybodaeth am bob pwnc). Mae'r *Llwyfan* yn cynnig adnodd agored a dynamig, gyda system o ddiffiniadau, pwyntiau cyfeirio, disgrifiadau a disgrifyddion, astudiaethau ac arferion da y gwahoddir aelod-wladwriaethau i ymgynghori arnynt a'u defnyddio er mwyn ategu eu polisi i hyrwyddo mynediad cyfartal i addysg o ansawdd yn ôl anghenion, adnoddau a diwylliant addysgol.

Yn ategu'r Llwyfan mae'r *Canllaw ar ddatblygu cwricwla ar gyfer addysg luosieithol a rhyngddiwylliannol* sy'n cael ei dreialu ar hyn o bryd mewn gwahanol sectorau o addysg ffurfiol. Bwriedir i'r Canllaw wella'r broses o gyflawni gwerthoedd ac egwyddorion addysg luosieithol a rhyngddiwylliannol wrth addysgu pob iaith – tramor, rhanbarthol neu lleiafrifol, clasurol, ac ieithoedd ysgolion. Rhydd ddarlun cyffredinol o'r materion a'r egwyddorion sydd ynghlwm wrth gynllunio a/neu wella cwricwla, a dulliau gweithredu didactig ac ym maes addysgeg sy'n fodd i gyflawni nod cyffredinol addysg luosieithol a rhyngddiwylliannol yn ehangach.

Yng ngwaith Cyngor Ewrop, mae a wnelo cymhwysedd lluosieithol a rhyngddiwylliannol â'r gallu i ddefnyddio repertoire lluosog o adnoddau ieithyddol a diwylliannol er mwyn diwallu anghenion cyfathrebu neu ryngweithio â phobl o gefndiroedd a chyd-destunau eraill, a chyfoethogi'r repertoire hwnnw wrth wneud hynny. Mae addysg luosieithol a rhyngddiwylliannol yn ystyried repertoire ieithoedd, a'r diwylliannau sy'n gysylltiedig â'r ieithoedd hynny, y mae dysgwyr unigol wedi eu caffael, p'un a gydnabyddir hynny'n ffurfiol yn y cwricwlwm ysgol ai peidio – ieithoedd ysgolion (fel pwnc a chyfrwng addysgu), ieithoedd rhanbarthol/leiafrifol, ieithoedd tramor modern a chlasurol, ac ieithoedd mewnfudwyr. Mae Cyngor Ewrop yn annog camau cyfannol sy'n sicrhau mwy o synergedd rhwng ieithoedd, gwell cydgysylltu rhwng athrawon a manteisio i'r eithaf ar gymwyseddau traws dysgwyr.

Caiff gwaith Cyngor Ewrop ar addysg iaith ei gydgysylltu gan *Yr Uned Polisi Iaith* yn Strasbwrg a *Chanolfan Ieithoedd Modern Ewrop* yn Graz.

Mae'r Uned yn cynnal rhaglenni cydweithredu rhynglywodraethol o fewn rhaglen y Pwyllgor Llywio ar gyfer Polisi ac Arfer Addysgol (CDPPE).

Mae'r Uned wedi bod yn arwain cydweithredu rhyngwladol ym maes addysg iaith ers 1957, gan sbarduno arloesedd, a darparu fforwm unigryw ledled Ewrop i ymdrin â blaenoriaethau polisi pob Aelod-wladwriaeth. Yn sgil rhaglenni'r Uned cafwyd nifer

o argymhellion a chynigion gan Bwyllgor y Gweinidogion a Chynulliad Seneddol Cyngor Ewrop, sy'n darparu cymorth gwleidyddol ar gyfer ei offerynnau polisi a'i fentrau. Yn dilyn hyn, trefnodd yr Uned *Flwyddyn Ieithoedd Ewrop 2001* gyda'r Comisiwn Ewropeaidd, y mae ei nodau yn dal i gael eu hyrwyddo yn *Niwrnod Ieithoedd Ewrop* a gynhelir bob blwyddyn (www.coe.int/edi).

Mae'r Uned hefyd yn rhoi cymorth arbenigol i Aelod-wladwriaethau er mwyn cynnal adolygiadau o bolisiau addysg iaith, ac mae wedi helpu i ddatblygu polisi ar gyfer addysg lleiafrifoedd. Mae ei gwaith diweddar yn ymwneud yn benodol ag ieithoedd ysgolion (gan gynnwys anghenion myfyrwyr difreintiedig) yng nghyd-destun ehangach addysg luosieithol a rhyngddiwylliannol, ac â pholisiau iaith sy'n gysylltiedig ag integreiddio mudwyr sy'n oedolion.

Ategir rhaglenni'r Uned Polisi Iaith gan raglenni Canolfan Ieithoedd Modern Ewrop (ECML), Cytundeb Rhannol Mwy Cyngor Ewrop a luniwyd yn 1994 yn Graz (Awstria). Mae 31 o wladwriaethau wedi llofnodi'r Cytundeb Rhannol ar hyn o bryd.¹¹

Cenhadaeth ECML yw hyrwyddo arloesedd a rhannu arfer da wrth ddysgu ac addysgu ieithoedd. Mae'r Ganolfan yn cynnal rhaglenni prosiect tymor canolig pedair blynedd a drefnir ar y cyd ag arbenigwyr Ewropeaidd ym maes addysg iaith. Yn deillio o waith prosiect mae pecynnau hyfforddi 'ymarferol', canllawiau a gwefannau rhyngweithiol, megis *Portfolio Athrawon Iaith Dan Hyfforddiant Ewrop* (EPOSTL) sydd wedi'i chyfieithu i 13 o ieithoedd a'i defnyddio fel rhan o lawer o raglenni addysg athrawon ledled Ewrop (<http://epostl.ecml.at>) a'r *Fframwaith Cyfeirio ar gyfer Ymdrin ag Iaith a Diwylliannau mewn modd Lluosieithol* (CARAP) sy'n dangos sut i helpu dysgwyr i ddatblygu cymwyseddau lluosieithol a rhyngddiwylliannol mewn ystafell ddogarth (<http://carap.ecml.at>). Mae a wnelo sawl adnodd a ddatblygwyd gan ECML â'r defnydd ymarferol o'r Fframwaith Cyfeirio Ewropeaidd Cyffredin (CEFR) a'r *Portfolio Ieithoedd Ewropeaidd* (ELP), ac ymdrinnir ag anghenion gweithwyr iaith proffesiynol sy'n gweithredu mewn lleoliadau amlieithol. Mae holl gyhoeddiadau ECML ar gael am ddim ar wefan y Ganolfan (www.ecml.at).

Wrth gynllunio holiadur *Ewrop Gyfoethog ei Hieithoedd* ar gyfer ein harolwg, defnyddiwyd prif gynigion, confensiynau, argymhellion a dogfennau cyfathrebu'r UE a Chyngor Ewrop sydd wedi cyfrannu at ddatblygu polisiau ac arferion amlieithrwydd/lluosieithrwydd. Rhydd Tabl 1 drosolwg o'r dogfennau a ddefnyddiwyd. Ceir crynodeb o'r prif bwyntiau a'r holiadur ei hun ar wefan *Ewrop Gyfoethog ei Hieithoedd*. Noder y gwahaniaeth rhwng Cyngor yr UE (penaethiaid gwladwriaethau a llywodraethau) a Chyngor Ewrop.

¹¹ Albania, Andorra, Armenia, Awstria, Bosnia a Herzegovina, Bwlgaria, Croatia, Cyprus, y Weriniaeth Tsiec, Estonia, y Ffindir, Ffrainc, yr Almaen, Gwlad yr Iâ, Iwerddon, Latfia, Liechtenstein, Lithwania, Lwcsembwrg, Malta, Montenegro, yr Iseldiroedd, Norwy, Gwlad Pwyl, Rwmania, y Weriniaeth Slofaciaidd, Slofenia, Sbaen, Sweden, y Swistir, "cyn-Weriniaeth Iwgoslafaidd Macedonia".

Tabl 1: Trosolwg o ddogfennau'r UE a Chyngor Ewrop a ddefnyddiwyd i ddatblygu Holiadur Ewrop Gyfoethog ei Hieithoedd

Dogfennau'r Undeb Ewropeaidd	Dogfennau Cyngor Ewrop
<p>Cynigion/Casgliadau'r Cyngor</p> <ul style="list-style-type: none"> - Penderfyniad Senedd Ewrop a'r Cyngor ar Flwyddyn Ieithoedd Ewrop 2001 (2000) - Casgliadau Llywyddiaeth y Cyngor Ewropeaidd yn Barcelona (2002) - Casgliadau ar amlieithrwydd (Mai 2008) - Cynnig ar strategaeth Ewropeaidd ar gyfer amlieithrwydd (Tachwedd 2008) - Casgliadau ar fframwaith strategol ar gyfer cydweithrediad Ewropeaidd ym maes addysg a hyfforddiant ET 2020 (2009) - Casgliadau ar gymwyseddau iaith i wella symudedd (2011) 	<p>Confensiynau</p> <ul style="list-style-type: none"> - Y Confensiwn Diwylliannol Ewropeaidd (1954) - Y Siarter Ewropeaidd ar gyfer Ieithoedd Rhanbarthol neu Ieithoedd Lleiafrifol (1992) - Confensiwn Fframwaith er Diogelu Lleiafrifoedd Cenedlaethol (1995) - Siarter Gymdeithasol Ewrop (diw 1996)
<p>Cynigion Senedd Ewrop</p> <ul style="list-style-type: none"> - Cynnig i hyrwyddo amrywiaeth ieithyddol a dysgu ieithoedd (2001) - Cynnig ar ieithoedd rhanbarthol ac ieithoedd llai eu defnydd yn Ewrop (2003) - Cynnig ar amlieithrwydd: ased ar gyfer Ewrop ac ymrwymiad ar y cyd (2009) 	<p>Argymhellion Pwyllgor y Gweinidogion</p> <ul style="list-style-type: none"> - Argymhelliad N° R (82) 18 yn ymwneud ag ieithoedd modern (1982) - Argymhelliad N° R (98) 6 yn ymwneud ag ieithoedd modern (1998) - Argymhelliad CM/Rec (2008) 7 ar ddefnyddio'r Fframwaith Cyfeirio Ewropeaidd Cyffredin ar gyfer Ieithoedd a hyrwyddo lluosieithrwydd
<p>Dogfennau Cyfathrebu'r Comisiwn Ewropeaidd</p> <ul style="list-style-type: none"> - Dogfen Gyfathrebu 2005: Strategaeth fframwaith newydd ar gyfer amlieithrwydd - Dogfen Gyfathrebu 2008: Multilingualism: An asset for Europe and a shared commitment - Papur Gwyrdd 2008: Migration and Mobility: Challenges and opportunities for EU education systems 	<p>Argymhellion y Cynulliad Seneddol</p> <ul style="list-style-type: none"> - Argymhelliad 1383 (1998) ar amrywio ieithyddol - Argymhelliad 1539 (2001) ar Flwyddyn Ieithoedd Ewrop 2001 - Argymhelliad 1598 (2003) ar ddiogelu ieithoedd arwyddion yn Aelod-wladwriaethau Cyngor Ewrop - Argymhelliad 1740 (2006) ar rôl y famiaith mewn addysg yn yr ysgol
<p>Adroddiadau allanol</p> <ul style="list-style-type: none"> - Adroddiad Terfynol y Grŵp Lefel Uchel ar Amlieithrwydd (2007) - Languages mean business: companies work better with languages Fforwm Busnes ar gyfer Amlieithrwydd (2008) 	<p>Adroddiadau allanol</p> <ul style="list-style-type: none"> - O amrywiaeth ieithyddol i addysg luosieithol: Canllaw ar ddatblygu polisiau addysg ieithoedd yn Ewrop: Beacco a Byram (2007) - Canllaw ar ddatblygu a gweithredu cwricwla ar gyfer addysg luosieithol a rhyngddiwylliannol, Beacco ac eraill (2010) <p>Adnoddau ar gyfer Addysgu a Dysgu</p> <ul style="list-style-type: none"> - Y Fframwaith Cyfeirio Ewropeaidd Cyffredin ar gyfer Ieithoedd (CEFR) (2001)¹¹ - Portffolio Ieithoedd Ewropeaidd (ELP) (2001) - Fframwaith cyfeirio ar gyfer ymdrin ag ieithoedd a diwylliannau mewn modd lluosieithol (FREPA) (2012): http://carap/ecml.at - Portffolio Athrawon Iaith Dan Hyfforddiant Ewrop (2007): http://epostl2.ecml.at

¹¹ Mae CEFR Cyngor Ewrop, a gynlluniwyd i hyrwyddo addysg luosieithol ac i gael ei addasu i gyd-destunau defnydd, yn cynnig sail gyffredin ar gyfer datblygu a chymharu cwricwla, gwerslyfrau, cyrsiau ac arholiadau ail iaith/iaith dramor o safbwynt dysgu gydol oes lluosieithol dinamig.

1.2 Y fformiwla deirieleithog a lluosieithrwydd

Nid yr UE yw'r unig sefydliad i hyrwyddo amlieithrwydd yn nhermau teirieleithrwydd. Mabwysiadwyd y term 'addysg amliath' gan UNESCO yn 1999 (*Cynnig Cyffredinol 12 y Gynhadledd*) wrth gyfeirio at y defnydd o o leiaf dair iaith mewn addysg, hynny yw, y famiaith, iaith ranbarthol neu genedlaethol, ac iaith ryngwladol. Mor gynnar â'r 1950au, roedd llywodraeth India wedi cyflwyno amlinelliad o bolisi addysg amliath, a oedd yn cynnwys addysg yn y famiaith, yn yr iaith ranbarthol (neu iaith y Dalaiith), mewn Hindi sef yr iaith gyfathrebu gyffredinol ac mewn un o'r ieithoedd clasurol – Sansgrit, Pali, Arabeg neu Berseg. Diwygiwyd y cynnig yn 1961 ac fe'i henwyd yn *fformiwla tair iaith*, a oedd yn cynnwys addysg yn yr iaith ranbarthol, mewn Hindi mewn ardaloedd lle nad oedd Hindi yn cael ei siarad neu mewn iaith Indiaidd arall mewn ardaloedd Hindi eu hiaith, ac mewn Saesneg neu iaith Ewropeaidd arall.

Mewn *Llyfr Gwyn*, fel y'i gelwir, dewisodd y Comisiwn Ewropeaidd (1995) deirieleithrwydd fel nod polisi ar gyfer pob dinesydd Ewropeaidd. Ar wahân i'r famiaith, dylai pob dinesydd ddysgu o leiaf ddwy 'iaith gymunedol'. Dilynwyd y nod polisi hwn gan Gynnig Cyngor yr UE (2002) yn Barcelona. Ar y pryd, roedd y cysyniad o 'famiaith' yn cael ei ddefnyddio i gyfeirio at ieithoedd swyddogol Aelod-wladwriaethau ac nid oedd yn ystyried y ffaith nad 'iaith swyddogol y wladwriaeth' oedd 'mamiaith' llawer o drigolion Ewrop (Extra a Gorter 2008: 44). Ar yr un pryd, defnyddiwyd y cysyniad o 'ieithoedd cymunedol' i gyfeirio at ieithoedd swyddogol dwy o Aelod-wladwriaethau eraill yr UE. Mewn dogfennau diweddarach a luniwyd gan y Comisiwn Ewropeaidd, cyfeiriwyd at un iaith dramor uchel ei bri yn rhyngwladol (ni chyfeiriwyd at yr iaith Saesneg yn fwiadol) ac un 'iaith gyfagos', fel y'i gelwid. Roedd y cysyniad olaf hwn yn cyfeirio at wledydd cyfagos, yn hytrach nag iaith cymdogion drws nesaf gwirioneddol. Yn fwy diweddar, mae'r Comisiwn Ewropeaidd wedi datblygu ei syniadau yn y maes hwn ac mae paragraff 4.1 o'r Ddogfen Gyfathrebu a gyhoeddwyd yn 2008 yn dwyn y teitl 'Gwerthfawrogi pob iaith':

Wrth i ni weld mwy o symudedd ac ymfudo, mae meistrolïr iaith genedlaethol/ieithoedd cenedlaethol yn hanfodol er mwyn integreiddio'n llwyddiannus a chwarae rhan mewn cymdeithas. Felly, dylai'r sawl nad ydynt yn siarad iaith y wlad gynnwys yr iaith honno yn eu cyfuniad 'un plws dwy'.

Ceir hefyd adnoddau ieithyddol nas manteisiwyd arnynt yn ein cymdeithas: dylai mamieithoedd gwahanol ac ieithoedd eraill a siaredir yn y cartref ac mewn amgylcheddau lleol a chyfagos gael eu gwerthfawrogi'n fwy. Er enghraifft, mae plant â mamieithoedd gwahanol – boed o'r UE neu drydedd gwlad – yn cyflwyno her i ysgolion o ran addysgu'r iaith addysgu fel ail iaith, ond gallant hefyd ysgogi eu cyd-ddisgyblion i ddysgu ieithoedd gwahanol a dysgu am ddiwylliannau eraill.

Gyda'r bwriad o feithrin cysylltiadau agosach rhwng cymunedau, aeth Grŵp Deallusion y Comisiwn ar gyfer Trafod Rhyngddiwylliannol (2008) ati i ddatblygu'r cysyniad o 'iaith fabwysiadol bersonol', y byddai'n fuddiol myfyrio arno ymhellach.

Er nad yw'n nodi'n benodol nifer yr ieithoedd y dylid eu dysgu, mae Cyngor Ewrop wedi bod yn arloesol o ran hyrwyddo dysgu ieithoedd a datblygu lluosieithrwydd

mewn unigolion o oedran cynnar, ac wedi tanlinellu'n gyson bod angen gwerthfawrogi pob iaith. Mae'r Cyngor hefyd wedi ychwanegu safbwynt diddorol drwy gyflwyno'r syniad o gymwyseddau amrywiol a rhannol.

Gan adeiladu ar Gynnig 1969 ar raglen addysgu ieithoedd modern dwys ar gyfer Ewrop, ac Argymhelliad 814 (1977), cynhyrchodd Cyngor Ewrop Argymhelliad yn 1982, R/M (82) 18, a alwodd ar Aelod-wladwriaethau i sicrhau, hyd y gellir, fod pob rhan o'u poblogaethau yn gallu cael gafael ar ffyrdd effeithiol o ddysgu ieithoedd Aelod-wladwriaethau eraill (neu gymunedau eraill yn eu gwlad eu hunain) ac i annog y broses o addysgu o leiaf un iaith Ewropeaidd ar wahân i'r iaith genedlaethol, neu iaith yr ardal dan sylw, i ddisgyblion o ddeg oed ymlaen neu o'r adeg pan fyddant yn dechrau addysg uwchradd. Roedd yr Argymhelliad hefyd yn galw ar wladwriaethau i sicrhau bod cyfleusterau ar gael i ddysgu 'cynifer o ieithoedd â phosibl'. Roedd argymhelliad y Cyngor hefyd yn ystyried anghenion gweithwyr mudol, gan alw am gyfleusterau digonol er mwyn iddynt:

ddysgu digon o iaith y gymuned dan sylw er mwyn iddynt chwarae rhan weithredol ym mywyd gweithiol, gwleidyddol a chymdeithasol y gymuned honno ac, yn benodol, er mwyn galluogi plant ymfudwyr i gael addysg briodol a'u paratoi ar gyfer y cyfnod pontio o addysg llawn amser i waith i ddatblygu eu mamieithoedd fel adnoddau addysgol a diwylliannol ac er mwyn cynnal a gwella eu cysylltiadau â diwylliant eu gwreiddiau.

Yn yr argymhelliad dilynol allweddol a wnaed gan Bwyllgor y Gweinidogion, CM/R (98) 6, galwodd Cyngor Ewrop ar Ewropeaid i sicrhau eu bod yn gallu cyfathrebu i ryw raddau mewn nifer o ieithoedd a gofynnodd i Aelod-wladwriaethau gyflawni hyn drwy amrywio'r ieithoedd a gynigir a phennu amcanion sy'n briodol i bob iaith, gan gynnwys cyrsiau modiwlaudd a chyrtsiau sy'n anelu at ddatblygu cymwyseddau rhannol.

Argymhelliad mwyaf diweddar Cyngor Ewrop yw CM/Rec (2008) 7E i Aelod-wladwriaethau ar y defnydd o'r *Fframwaith Cyfeirio Ewropeaidd Cyffredin ar gyfer Ieithoedd* (CEFR) a hyrwyddo lluosieithrwydd.

Ceir trosolwg a dadansoddiad manwl o bolisiau'r UE ar amlieithrwydd yn Cullen ac eraill (2008) sy'n nodi bod cryn amharodrwydd neu wrthwynebiad o hyd o ran dysgu iaith ychwanegol – ar wahân i ddysgu Saesneg. Ategir y farn hon gan ddata Eurostat 2009 sy'n dangos cynnydd amlwg yn y niferoedd sy'n dysgu Saesneg, ond nid ieithoedd eraill. Yn ôl Cullen ac eraill, dim ond un o bob pump o Ewropeaid sydd wrthi'n dysgu iaith ychwanegol ac mae dosbarthiad sgiliau iaith yn anghyson, yn ddaearyddol ac yn ddiwylliannol. Mae'r rhan fwyaf o'r gweithgareddau sy'n hyrwyddo amlieithrwydd yn cael eu cynnal yn y sector addysg ffurfiol, yn fwyaf penodol mewn addysg uwchradd. Mae Cullen ac eraill (2008: iii-iv) yn dod i'r prif gasgliadau canlynol ynghylch y cyd-destun gwleidyddol a pholisi ar gyfer hyrwyddo amlieithrwydd yn yr UE:

- *Weithiau, mae amlieithrwydd ac amrywiaeth ieithyddol yn agendâu polisi sy'n gwrthdaro. Mae polisiau dysgu ieithoedd wedi tueddu i gael eu dylanwadu gan flaenoriaethau 'caletach' fel cystadleurwydd economaidd a symudedd y farchnad lafur,*

tra bod polisïau amrywiaeth ieithyddol wedi tueddu i gael eu dylanwadu gan faterion 'meddalach' fel cynhwysiant a hawliau dynol. Mae polisïau amlieithrwydd wedi cael mwya o flaenoriaeth na pholisïau amrywiaeth ieithyddol o ran camau gweithredu pendant.

- Mae camau gweithredu Senedd Ewrop yn adlewyrchu ymdrech gyson a pharhaus i barhau i ddiogelu ieithoedd lleiafrifol a chefnogi amrywiaeth ieithyddol. Ers diwedd y 1970au, mae Senedd Ewrop wedi cyhoeddi cyfres o ddogfennau cyfathrebu a chynigion sy'n galw ar y Comisiwn i gymryd camau er mwyn hyrwyddo'r defnydd o ieithoedd lleiafrifol ac adolygu unrhyw ddeddfwriaeth neu arferion Cymunedol sy'n gwahaniaethu yn erbyn ieithoedd lleiafrifol. Fodd bynnag, un broblem fawr a wynebir yw nad oes unrhyw un o'r mentrau hyn yn gyfrwymol ar yr Aelod-wladwriaethau.

Agweddau dinasyddion yr UE tuag at amlieithrwydd/lluosieithrwydd

Mae un o Farometrau Ewropeaidd y Comisiwn Ewropeaidd, sef Baromedr Arbennig 243 (2006), yn cynnig trawstoriad o farn y cyhoedd ar faterion sy'n ymwneud ag amlieithrwydd. Dadansoddir y gefnogaeth i rai o'r egwyddorion sy'n sail i bolisïr Comisiwn ar amlieithrwydd, ynghyd â chanfyddiadau ymatebwyr o'r sefyllfa yn eu priod wledydd neu ranbarthau a'u cefnogaeth i bolisïau amliath ar lefel genedlaethol. Rhoddwyd pum datganiad i'r ymatebwyr sy'n dangos rhai o'r egwyddorion allweddol y tu ôl i'r polisïau sydd wedi'u targedu at hyrwyddo amlieithrwydd yn Ewrop. Mae'r rhan fwyaf o Ewropeaid yn cefnogi pob un o'r datganiadau i ryw raddau, fel y dangosir yn Nhabl 2.

Tabl 2: Agweddau tuag at amlieithrwydd yn Ewrop (Ffynhonnell: Adroddiad Ewrobaromedr Arbennig 243: 53, Comisiwn Ewropeaidd 2006)

Datganiadau	Tueddu i gytuno	Tueddu i anghytuno	Ddim yn gwybod
1. Dylai pawb yn yr UE fod yn gallu siarad un iaith ychwanegol	84%	12%	4%
2. Dylai pob iaith a siaredir yn yr UE gael ei thrin yn gyfartal	72%	21%	7%
3. Dylai pawb yn yr UE fod yn gallu siarad iaith gyffredin	70%	25%	5%
4. Dylai sefydliadau Ewropeaidd fabwysiadu un iaith i gyfathrebu â dinasyddion Ewropeaidd	55%	40%	5%
5. Dylai pawb yn yr UE fod yn gallu siarad dwy iaith ychwanegol	50%	44%	6%

Dengys canlyniadau'r arolwg, er bod y mwyafrif helaeth o ddinasyddion yr UE o'r farn bod un iaith ychwanegol yn ddichonadwy, dim ond 50 y cant sydd o'r farn bod dwy iaith yn nod realistig. Ceir teimlad cryf y dylid trin ieithoedd yn gyfartal, ond teimlir yr un mor gryf y dylai pob un ohonom fod yn gallu siarad iaith gyffredin. Mae gwahaniaeth barn ynghylch p'un a ddylai sefydliadau'r UE fabwysiadu un iaith i gyfathrebu â dinasyddion.

Mae'r baromedr dilynol sef Ewrobaromedr Arbennig 386 a gyhoeddwyd yn ddiweddar ac a gynhaliwyd ar ran y Comisiwn Ewropeaidd (2012), yn dangos canlyniadau tebyg bron ar gyfer pob un o'r pum datganiad y cyfeirir atynt yn Nhabl 2 o ran y cyfrannau (%) sy'n cytuno (yn llwyr) – yn anghytuno (yn llwyr) – ddim yn gwybod: (1) 84-13-3, (2) 81-25-4, (3) 69-27-4, (4) 53-42-5, a (5) 72-25-3. Mae'r newid mwyaf dros amser yn digwydd o ran cytuno â datganiadau (2) a (5). Yn benodol, mae'r cytundeb cynyddol â datganiad (5) yn adlewyrchu cefnogaeth gryfach i fformiwla deirdeithog y Comisiwn Ewropeaidd. Ar wahân i'r data allweddol ar agweddau y cyfeirir ato, mae Ewrobaromedr Arbennig 386 yn cynnig ystod gynhwysfawr o ddata arolwg diweddar ar amlieithrwydd yn yr UE heddiw, ar y defnydd o ieithoedd, ac ar agweddau tuag at ieithoedd.

Mae'r prosiect Ewrop Gyfoethog ei Hieithoedd yn cynnig gwybodaeth ddiddorol ynghylch y graddau y mae egwyddorion Barcelona yn cael eu dilyn mewn systemau addysg yn y gwledydd neu'r rhanbarthau a oedd yn rhan o'r arolwg, ac mae hefyd yn nodi canfyddiadau ynghylch y ffordd y mae pob iaith – boed yn iaith genedlaethol, yn iaith dramor, yn iaith mewnudwyr, yn iaith ranbarthol neu'n iaith lleiafrifol – yn cael ei gwerthfawrogi mewn ysgolion a'r tu allan iddynt.

1.3 Yr amrywiadau o ieithoedd a ystyrir yn y prosiect

Nod prosiect *Ewrop Gyfoethog ei Hieithoedd* yw adlewyrchu cyfoeth yr ieithoedd a geir yn y gymdeithas Ewropeaidd a'r graddau y caiff pob un o'r ieithoedd hyn eu cynnwys mewn polisïau ac arferion o ran amlieithrwydd a lluosieithrwydd. Yr her a wynebwyd gennym oedd gwahaniaethu rhwng y mathau o ieithoedd a'u categorioeddio'n briodol.

Yn ei Ddogfen Gyfathrebu yn 2008, mae'r Comisiwn Ewropeaidd yn cyfeirio at y nifer o ieithoedd 'cenedlaethol, rhanbarthol, lleiafrifol a mewnudwyr' a siaredir yn Ewrop sy'n 'ychwanegu at ein cefndir cyffredin' yn ogystal ag 'ieithoedd tramor', a ddefnyddiwyd i gyfeirio'n bennaf at ieithoedd Ewropeaidd ac ieithoedd eraill a siaredir ledled y byd.

Mae'r gwerth sydd ynghlwm wrth ddsygu'r iaith genedlaethol yn dda er mwyn gweithredu'n llwyddiannus mewn cymdeithas a chael budd llawn o addysg yn cael ei gydnabod yn eang. Mae dysgu ieithoedd tramor wedi bod yn gyffredin yn Ewrop hefyd. Y mathau o ieithoedd y rhoddwyd y pwyslais lleiaf arnynt yw ieithoedd rhanbarthol/lleiafrifol ac ieithoedd mewnudwyr, ond mae eu gwerth ledled Aelod-wladwriaethau Ewropeaidd wedi'i gydnabod ac fe'u cefnogir gan Gyngor Ewrop a'r UE, sydd wedi pwysleisio bod angen i'r ddau fath o ieithoedd gael eu cefnogi gan eu bod yn ffyrdd pwysig o gyfathrebu mewn grwpiau ac yn rhan o hunaniaeth bersonol, ddiwylliannol a chymdeithasol llawer o ddinasyddion yr UE.

Yn CM/R (98) 6, roedd Cyngor Ewrop (1998) eisoes wedi gofyn i Aelod-wladwriaethau sicrhau bod darpariaethau'r *Siarter Ewropeaidd ar gyfer Ieithoedd Rhanbarthol neu Ieithoedd Lleiafrifol Confensiwn Fframwaith er Diogelu Lleiafrifoedd Cenedlaethol* yn cael eu hystyried fel rhai a oedd yn nodi paramedrau dymunol ar gyfer polisïau ar ieithoedd neu ddiwylliannau rhanbarthol neu lleiafrifol. Roedd y Cyngor hefyd wedi galw ar i bob iaith gael yr un parch ac i wledydd 'barhau i hyrwyddo dwyieithrwydd mewn ardaloedd neu gymdogaethau o fewnudwyr a chynorthwyo mewnudwyr i ddsygu iaith yr ardal y maent yn byw ynddi'.

Mae *Adroddiad Terfynol* y Grŵp Lefel Uchel ar Amlieithrwydd (2007) yn sôn hefyd am yr angen i ddefnyddio potensial mewnfudwyr fel ffynhonnell gwybodaeth o ran ieithoedd ac fel cyfle da i gwmnïau fanteisio ar alluoedd diwylliannol ac ieithyddol y mewnfudwyr hyn er mwyn cael mynediad at farchnadoedd yng ngwledydd genedigol y mewnfudwyr:

Yn rhy aml, caiff mewnfudwyr eu hystyried yn broblem – plant mewnfudwyr yn tanberfformio yn yr ysgol neu oedolion nad oes ganddynt fawr ddim meistrolaeth ar iaith y wlad. Yr hyn a gaiff ei ddiystyru yw'r ffaith bod mewnfudwyr yn adnodd gwerthfawr. Drwy werthfawrogi ieithoedd mewnfudwyr, mae'n bosibl y gallwn wella ysgogiad mewnfudwyr i ddysgu iaith y wlad, ac – yn wir – ieithoedd eraill, a'u galluogi i ddod yn gyfryngwyr cymwys rhwng diwylliannau gwahanol.

Yn aml iawn, mae mewnfudwyr ail a thrydedd genhedlaeth yn meddu ar sgiliau gwrando/siarad datblygedig yn eu hieithoedd treftadaeth neu gymunedol, ond ni allant ddarllen nac ysgrifennu'r ieithoedd hynny. Mae gan lawer ohonynt gymhelliant cryf i ddod yn llythrennog yn yr ieithoedd hyn. Dylai ysgolion, sefydliadau addysg uwch a sefydliadau addysg i oedolion sicrhau eu bod yn cynnig cyfleoedd dysgu arbennig i'r grwpiau targed hyn. Byddai hyn yn fuddsoddiad cadarn, gan y gallai'r bobl hyn helpu i feithrin cysylltiadau economaidd yn eu gwledydd genedigol, a gallent chwarae rôl weithredol mewn rhaglenni trafod rhyngddiwylliannol ac integreiddio ar gyfer mewnfudwyr sy'n newydd-ddyfodiaid i'r wlad.

Yn erbyn y cefndir hwn, bydd yr amrywiaeth o ieithoedd (gweler Extra a Gorter 2008: 3-60) a ystyrir yn Holiadur *Ewrop Gyfoethog ei Hieithoedd* yn cynnwys ieithoedd cenedlaethol, tramor, rhanbarthol/lleiafrifol a mewnfudwyr. Rydym yn llwyr ymwybodol o'r arwyddocâd gwahanol sy'n bodoli ledled Ewrop wrth gyfeirio at y bobl (a'u hieithoedd) sydd â hanes hirsefydledig fwy neu lai o fyw dramor (gweler Extra a Gorter 2008: 10 am gyfundrefn enwau'r maes).

Yng nghyd-destun y prosiect Ewrop Gyfoethog ei Hieithoedd, byddwn felly yn ystyried ac yn defnyddio'r mathau o ieithoedd a ddisgrifir uchod gyda'r diffiniadau canlynol (gweler hefyd y Rhestr Termau yn yr Atodiad i Ran 1 a 2):

- **ieithoedd cenedlaethol:** ieithoedd swyddogol cenedl-wladwriaeth.
- **ieithoedd tramor:** ieithoedd na chânt eu dysgu na'u defnyddio yn y cartref ond a ddysgir ac a addysgir yn yr ysgol neu a ddefnyddir fel ieithoedd cyfathrebu ehangach mewn sectorau ar wahân i'r sector addysg.
- **ieithoedd rhanbarthol neu ieithoedd lleiafrifol:** ieithoedd a ddefnyddir yn draddodiadol mewn tiriogaeth benodol mewn gwladwriaeth gan wladolion y wladwriaeth honno sy'n grŵp llai o ran niferoedd na gweddill poblogaeth y wladwriaeth.
- **ieithoedd mewnfudwyr:** ieithoedd a siaredir gan fewnfudwyr a'u disgynyddion yn y wlad y maent yn byw ynddi ac sy'n tarddu o amrywiaeth eang o wledydd tarddiad (blaenorol).

Am safbwyntiau tebyg, cyfeiriwn at McPake a Tinsley (2007). Yn y cyd-destun hwn, nodwn ein bod yn ymwybodol bod ieithoedd mewnfudwyr wedi'u cynnwys yn fwriadol fel rhan o repertoire ieithoedd Ewrop, ond ar yr un pryd, ar y cam casglu data cyntaf hwn ar gyfer polisïau ac arferion amlieithyddol, prin y cyfeirir at ieithoedd arwyddion. Yn y Gorllewin, pan fydd mudo sylweddol, neu o fewn lleiafrifoedd iaith mewn gwladwriaeth un gwlad, ceir pobl fyddar sydd, i bob diben, yn lleiafrifoedd o fewn lleiafrifoedd. O ystyried yr hegemoni llafar, mae'r rhan fwyaf o'r bobl fyddar hyn wedi'u hynysu nid yn unig o ddiwylliant prif ffrwd, ond hefyd o'u diwylliannau 'brodorol' eu hunain, felly maent yn wynebu gormes dwbl (Schermer 2011). Mae gwahaniaeth pwysig rhwng cymunedau pobl fyddar a lleiafrifoedd iaith eraill. Dim ond i raddau cyfyngedig y caiff ieithoedd arwyddion eu trosglwyddo o un genhedlaeth i'r llall. Y prif reswm dros hyn yw bod gan fwy na 95 y cant o bobl fyddar rieni sy'n gallu clywed nad yw iaith arwyddion yn iaith frodorol iddynt. Mae'r rhan fwyaf o bobl fyddar wedi dysgu eu hiaith arwyddion oddi wrth gymheiriaid byddar, oedolion byddar o'r tu allan i'r teulu a/neu rieni sydd wedi dysgu iaith arwyddion fel ail iaith.

Ar 17 Mehefin 1988 cymeradwyodd Senedd Ewrop gynnig ar ieithoedd Arwyddion a hynny'n unfrydol. Roedd y cynnig am i bob Aelod-wladwriaeth gydnabod ei hieithoedd arwyddion cenedlaethol yn ieithoedd swyddogol pobl fyddar. Prin fu effaith y cynnig hwn hyd yn hyn. Yn 2003, cafodd ieithoedd arwyddion eu cydnabod gan Gyngor Ewrop yn ieithoedd lleiafrifol yn y *Siarter Ewropeaidd ar gyfer Ieithoedd Rhanbarthol neu Ieithoedd Lleiafrifol*. Ar y cam casglu data cyntaf, byddwn yn cyfeirio at iaith neu ieithoedd arwyddion ym Mharthau 1 a 6 o'r Holiadur a gynigir.

Caiff y gwahaniaeth a nodir uchod rhwng ieithoedd 'rhanbarthol/lleiafrifol' ac ieithoedd 'mewnfudwyr' ei ddefnyddio a'i ddeall yn eang ledled cyfandir Ewrop, tra caiff y cyfeiriad deniadol o'r gwaelod i fyny at ieithoedd 'cymunedol', sy'n gyffredin yn y DU, ei ddefnyddio i gyfeirio at ieithoedd cenedlaethol, ieithoedd rhanbarthol a/neu ieithoedd mewnfudwyr. At hynny, mae'r cysyniad o ieithoedd 'cymunedol' yn cyfeirio'n aml at ieithoedd cenedlaethol gwledydd yr *Undeb Ewropeaidd* yn nogfennau'r UE ac yn yr ystyr hwn mae bron yn gyfystyr â 'thiriogaeth a feddiennir', o leiaf o ran jargon yr UE (gweler Extra a Gorter, 2008: 7-11 am gyfundrefn enwau'r maes). Y ddadl olaf o blaid defnyddio'r term ieithoedd 'mewnfudwyr' yw ei ddefnydd eang ar y wefan *Ethnologue, Languages of the World*, ffynhonnell safonol werthfawr o wybodaeth ryngwladol ar y pwnc a ddefnyddir yn eang.

Yng nghyd-destun y prosiect presennol, byddwn yn ystyried bod ieithoedd rhanbarthol/lleiafrifol wedi'u "cydnabod yn swyddogol" os bydd y fath gydnabyddiaeth yn deillio o'r wladwriaeth dan sylw. Hefyd, gall y fath gydnabyddiaeth ddeillio o *Siarter Ewropeaidd Cyngor Ewrop ar gyfer Ieithoedd Rhanbarthol neu Ieithoedd Lleiafrifol*. Daeth y *Siarter* i rym ym mis Mawrth 1998. Mae'n feincnod Ewropeaidd ar gyfer cymharu mesurau cyfreithiol a chyfleusterau Aelod-wladwriaethau yn y maes polisi hwn (Nic Craith 2003), ac mae'n anelu at ddiogelu a hyrwyddo ieithoedd rhanbarthol neu ieithoedd lleiafrifol hanesyddol Ewrop. Ni fanylir ar y cysyniadau o ieithoedd "rhanbarthol" ac ieithoedd "lleiafrifol" yn y *Siarter* (Gwladwriaethau sy'n pennu'r diffiniad) ac ni chaiff ieithoedd mewnfudwyr eu cynnwys o gwbl. Caiff gwladwriaethau ddewis pa ieithoedd rhanbarthol/lleiafrifol i'w cynnwys. Hefyd, ni ragnodir graddau'r diogelwch; felly, gall gwladwriaeth ddewis polisïau llac neu dynn. O ganlyniad, ceir ystod eang o ddarpariaethau ledled Aelod-wladwriaethau'r UE (Grin 2003).

Rydym yn ymwybodol bod nifer o ffactorau sy'n ei gwneud hi bron yn amhosibl gwahaniaethu rhwng y mathau o ieithoedd a gynigir. Yn gyntaf oll, o fewn ac ar draws Aelod-wladwriaethau'r UE, mae gan lawer o ieithoedd rhanbarthol/lleiafrifol ac ieithoedd mewnfudwyr fwy o siaradwyr na llawer o ieithoedd swyddogol y wladwriaeth. At hynny, gall ieithoedd rhanbarthol/lleiafrifol ac ieithoedd mewnfudwyr mewn un wlad yn yr UE fod yn ieithoedd swyddogol y wladwriaeth mewn gwlad arall, er enghraifft Almaeneg yn Nenmarc neu Rwseg yn yr Wcráin. Dylid cofio hefyd fod llawer, os nad y mwyaf, o'r ieithoedd mewnfudwyr mewn Aelod-wladwriaethau Ewropeidd yn tarddu o wledydd y tu allan i Ewrop. Ymfudo a lleiafrifo yn benodol sy'n gwneud y gwahaniaethu arfaethedig rhwng ieithoedd rhanbarthol/lleiafrifol ac ieithoedd mewnfudwyr yn amwys. Fodd bynnag, ni allwn feddwl am ddewis amgen sy'n fwy tryloyw. Yn ein barn ni, o leiaf y bydd y gwahaniaeth arfaethedig yn codi ymwybyddiaeth ac efallai'n arwain yn y pen draw at ddull cynhwysol o gysyniadoli ieithoedd lleiafrifol Ewrop.

1.4 Parthau iaith a ystyriwyd yn yr arolwg

Caiff wyth parth iaith eu cwmpasu yn arolwg Ewrop Gyfoethog ei Hieithoedd. Mae'r parth cyntaf yn feta-barth sy'n ystyried argaeledd dogfennau a chronfeydd data cenedlaethol/rhanbarthol ar amrywiaeth ieithyddol. O ystyried y rôl allweddol y mae dysgu ieithoedd yn ei chwarae mewn addysg, mae pedwar parth yn canolbwyntio ar y prif gyfnodau o addysg a ariennir yn gyhoeddus o'r cyfnod cyn ysgol i'r brifysgol. Eir i'r afael â thri pharth iaith y tu allan a thu hwnt i addysg hefyd, er mwyn nodi lefelau gwasanaethau amliaith mewn cymdeithas a busnes. Gyda'i gilydd, mae'r wyth parth yn yr holiadur yn cynnwys cyfanswm o 260 o gwestiynau, a ddosberthir ar draws y parthau hyn fel yr amlinellir yn Nhabl 3. Mae'r cwestiynau ar barthau iaith 2-8 yn seiliedig ar y dogfennau Ewropeidd y cyfeirir atynt yn Adran 1.1.

Tabl 3: Dosbarthiad y cwestiynau ar draws parthau iaith

Rh	Parthau iaith	Nifer y cwestiynau
1.	ieithoedd mewnfudwyr dogfennau swyddogol a chronfeydd data	15
2.	ieithoedd mewnfudwyr addysg cyn cynradd	34
3.	ieithoedd mewnfudwyr addysg gynradd	58
4.	ieithoedd mewnfudwyr addysg uwchradd	60
5.	ieithoedd mewnfudwyr addysg bellach ac addysg uwch	30
6.	ieithoedd yn y cyfryngau clyweledol a'r wasg	14
7.	ieithoedd mewnfudwyr gwasanaethau cyhoeddus a manau cyhoeddus	31
8.	ieithoedd mewnfudwyr busnes	18
Cyfanswm nifer y cwestiynau		260

Mae parth 1 yn ystyried argaeledd dogfennau swyddogol a chronfeydd data cenedlaethol neu ranbarthol ar amrywiaeth ieithyddol ym mhob un o'r gwledydd/rhanbarthau a gymerodd ran. Gall argaeledd y cyfryw ddogfennau a chronfeydd data gyfrannu'n sylweddol at ymwybyddiaeth o amlieithrwydd mewn gwlad/rhanbarth penodol a gall lywio polisi addysg ieithoedd. Mae rhaniad y parth hwn yn ddogfennau swyddogol a chronfeydd data yn cysylltu'n agos â'r gwahaniaeth cyffredin mewn astudiaethau ar gynllunio iaith rhwng cynllunio *statws* a chynllunio *corpws*. Yn ein hastudiaeth ni, mae'r adran ar ddogfennau yn cyfeirio at yr ymdrechion a wnaed i *reoleiddio'r* modd y defnyddir gwahanol ieithoedd mewn cymdeithas benodol a'u swyddogaeth, ac mae'r adran ar gronfeydd data yn cyfeirio at yr ymdrechion a wnaed i *fapio* dosbarthiad a bywiogrwydd rhychwant yr ieithoedd mewn cymdeithas benodol.

Mae parthau 2-4 o'r arolwg yn canolbwyntio ar addysg i ddysgwyr nad ydynt yn oedolion a ddarperir gan y wladwriaeth. Rhoddir diffiniadau o bob un o'r parthau hyn yn y Rhestr Termau i Ran 1 a 2 o'r cyhoeddiad hwn, gan gynnwys y gwahaniaeth rhwng addysg uwchradd is ac addysg uwchradd uwch a all gyfeirio at wahaniaethau sy'n *gysylltiedig ag oedran* a/neu wahaniaethau sy'n *gysylltiedig â'r math o ysgolion*. Ym mhob un o'r parthau hyn, eir i'r afael â'r modd y trefnir addysg ieithoedd ynghyd â chymwysterau a hyfforddiant athrawon, ar gyfer pob un o'r pedwar amrywiad o ieithoedd. Defnyddir y gwahaniaeth allweddol rhwng trefniadaeth ac athrawon yn eang yn y cyd-destun Ewropeidd (gweler e.e. Eurydice 2008). Mae'r ymatebion yn yr adrannau hyn yn seiliedig ar ddata sydd ar gael i'r cyhoedd yn ogystal â data o ffynonellau swyddogol.

O ystyried y gwahaniaethau mawr sy'n bodoli mewn addysg ôl-uwchradd ar lefel genedlaethol a thraws-genedlaethol, mae parth 5 yn canolbwyntio ar addysg sylfaenol (galwedigaethol) o gymharu ag addysg uwch (prifysgol). O ganlyniad, mae'r parth hwn yn esgor ar ddata deuaidd iawn ac ategol ar addysg ôl-uwchradd. Mae parthau 6-8 yn cwmpasu tri pharth hanfodol bwysig y tu allan a'r tu hwnt i addysg.

Mae'r ymatebion ym mharthau 5-8 yn seiliedig ar ddata a gasglwyd ac a gofnodwyd yng nghyd-destun trefol tair dinas fesul gwlad neu ranbarth (gweler Adran 1.5 am fanylion). Mae parth 5 yn ystyried y ddarpariaeth iaith mewn sampl fach o sefydliadau addysg bellach (galwedigaethol) ac addysg uwch (prifysgolion). Mae parth 6 yn canolbwyntio ar rychwant yr ieithoedd a gynigir yn y cyfryngau clyweledol a'r wasg. Mae parth 7 yn canolbwyntio ar ieithoedd mewnfudwyr gwasanaethau cyhoeddus a manau cyhoeddus yn nhermau strategaethau iaith sefydliadol, cyfleusterau cyfathrebu llafar a chyfleusterau cyfathrebu ysgrifenedig. Mae parth 8, ieithoedd mewnfudwyr busnes, yn canolbwyntio ar strategaethau iaith cwmnïau, strategaethau cyfathrebu mewnol a strategaethau cyfathrebu allanol. Gwnaed ymdrech i gasglu sampl o 24 o gwmnïau ym mhob gwlad/rhanbarth.

1.5 Casglu data a'r dadansoddiad tair dinas

Fel y nodwyd uchod, mae ymatebion ym mharthau iaith 1-4 o arolwg Ewrop Gyfoethog ei Hieithoedd yn seiliedig ar *ddata swyddogol/eilaidd* ac yn adlewyrchu polisiau ac arferion cyffredin ar lefel genedlaethol neu ranbarthol. Mae parthau 5-8, fodd bynnag, yn seiliedig ar ddata sylfaenol a gasglwyd a gwaith dadansoddi data. Cafodd y data sylfaenol hwn ei gasglu mewn tair dinas ym mhob neu ranbarth lle ystyriwyd y materion canlynol:

- mae amlieithrwydd fwyaf cyffredin mewn ardaloedd trefol gan fod preswylwyr hirdymor a newydd-ddyfodiaid yn dueddol o ymgynnull yno i chwilio am waith
- mae dinasoedd yn atgyfnerthu dynameg cenedlaethol wrth ymateb i amrywiaeth ieithyddol
- ceir sefydliadau addysg bellach ac addysg uwch mawr mewn dinasoedd (parth 5)
- mewn dinasoedd y lleolir y wasg ryngwladol, sinemâu a gorsafoedd teledu fel arfer (parth 6)
- o ganlyniad, mae angen i weinyddwyr dinasoedd a chynllunwyr trefol lunio polisiau lleol ar amlieithrwydd (parth 7)
- lleolir pencadlys llawer o fusnesau mewn dinasoedd (parth 8).

Roedd y broses o ddewis dinasoedd yn union yr un fath ar gyfer gwledydd 1-14 yn Nhabl 4. Yma, canolbwyntiwyd ar y ddwy ddinas â'r boblogaeth fwyaf yn ogystal ag un ddinas lle y siaredir yr iaith ranbarthol/llieiafrifol â'r statws uchaf, sydd fwyaf bywiog a/neu sydd â'r nifer fwyaf o siaradwyr yn y wlad. Roedd gwledydd 15-18 yn peri her gan nad ydynt yn gweddu i'r model uchod.

Mae gan wlad 15, Bosnia a Herzegovina, dair iaith genedlaethol: Bosnieg, Serbeg a Chroateg. Y dinasoedd a ddewiswyd i gasglu data sylfaenol oedd Sarajevo lle defnyddir Bosnieg yn bennaf, Banja-Luka lle defnyddir Serbeg yn bennaf a Mostar lle defnyddir Bosnieg a Chroateg yn bennaf.

Mae gwlad 16, y Swistir, yn cynnwys 26 o gantonau ac mae ganddi bedair iaith swyddogol: Almaeneg, Ffrangeg, Eidaleg a Románsh. Cafodd ymchwil Ewrop Gyfoethog ei Hieithoedd ym mhob parth ei chynnal mewn sampl o dri chanton: un oedd yn siarad Almaeneg (Zürich), un oedd yn siarad Ffrangeg (Genefa), ac un oedd yn siarad Eidaleg (Ticino). Mae'r data ar gyfer parthau 2-4 wedi'i grynhofi ar gyfer y tablau a gyflwynir yn y cyhoeddiad hwn, ond ar gyfer parthau 5-8 fe'i cyflwynir fesul dinas.

Mae gwlad 17, Sbaen, yn cynnwys 17 o gymunedau ymreolaethol a dwy ddinas ymreolaethol. Cafodd ymchwil *Ewrop Gyfoethog ei Hieithoedd* ei chynnal ar gyfer parthau 2-4 mewn tair cymuned ymreolaethol – Madrid, Sevilla, Valencia – a dau 'genedligrwydd hanesyddol' – Gwlad y Basg a Chatalwnia. Crëwyd tri phroffil: proffil cyfunol ar gyfer Madrid, Sevilla a Valencia a dau broffil ar wahân ar gyfer Gwlad y Basg a Chatalwnia. Mae gan Wlad y Basg ddwy iaith swyddogol: Basgeg a Sbaeneg. Mae gan Gatalwnia dair iaith swyddogol: Catalaneg, Sbaeneg ac Aragoneg.

Mae gwlad 18, sef y DU, yn cynnwys pedair gwlad sydd â llywodraethau a systemau addysg ar wahân. Ar gyfer y parthau addysg (2-4) casglwyd data ar bolisiau ac arferion cyffredin ym mhob gwlad/rhanbarth. Ar gyfer parthau 5-8, cafodd y dinasoedd yng Nghymru a'r Alban eu dewis ar sail eu poblogaeth. Yn Lloegr, ar ôl Llundain, cafodd dinas Sheffield ei dewis am resymau ymarferol. Ni fu'n bosibl ymchwilio i ddinas arall eto, ond gobeithir y bydd y data hwn ar gael yn fuan. Yng Ngogledd Iwerddon dim ond Belfast y bu modd ei chynnwys yn yr arolwg hyd yma.

Cafodd y tair dinas a'r ieithoedd rhanbarthol/llieiafrifol arfaethedig i ganolbwyntio arnynt eu dewis ymlaen llaw ar y cyd â'r holl dimau cenedlaethol neu ranbarthol oedd yn cymryd rhan ar sail ystadegau bwrdeistrefol ar gyfer y ddwy ddinas gyntaf ac ystadegau iaith/grŵp rhanbarthol/llieiafrifol ar gyfer y drydedd dinas. Rhydd Tabl 4 drosolwg o'r dinasoedd a arolygwyd fesul gwlad.

Tabl 4: Dadansoddiad tair dinas ar gyfer pob gwlad/rhanbarth dan sylw

Rh	Gwledydd Math A	Dinas fwyaf	Ail/Trydedd dinas fwyaf	Dinas ychwanegol	Prif iaith ranbarthol/ lleiafrifol yn y ddinas ychwanegol
1.	Awstria	Fienna	Graz	Klagenfurt	Slofeneg
2.	Bwlgaria	Sofia	Plovdiv	Shumen	Tyrceg
3.	Denmarc	Copenhagen	Aarhus	Aabenraa	Almaeneg
4.	Estonia	Tallinn	Tartu	Narva	Rwseg
5.	Ffrainc	Paris	Marseille	Corte	Corseg
6.	Gwlad Groeg	Athen	Thessaloniki	Xanthi	Tyrceg
7.	Hwngari	Bwdapest	Debrecen	Pécs	Almaeneg
8.	Yr Eidal	Rhufain	Milan	Trieste	Slofeneg
9.	Lithwania	Vilnius	Kaunas	Klaipeda	Rwseg
10.	Yr Iseldiroedd	Amsterdam	Rotterdam	Leeuwarden*	Ffriseg
11.	Gwlad Pwyl	Warsaw	Krakow	Gdansk	Casiwbeg
12.	Portiwgal	Lisbon	Oporto	Miranda do Douro*	Mirandeg
13.	Rwmania	Bwcarést	Iași	Cluj	Hwngareg
14.	Yr Wcráin	Kiev	Kharkiv	Lviv	Rwseg
	Gwledydd Math B	Dinas fwyaf	Dinas yn rhanbarth 2	Dinas yn rhanbarth 3	Iaith/ieithoedd swyddogol
15.	Bosnia a Herzegovina	Sarajevo	Banja-Luka	Mostar	Bosnieg/Serbeg/Croateg
16.	Y Swistir	Zürich	Genève	Lugano	Almaeneg/ Ffrangeg/Eidaleg
17.	Sbaen: Madrid, Valencia, Sevilla Catalwnia Gwlad y Basg	Madrid Barcelona Bilbao	Valencia Tarragona San Sebastian	Sevilla L'Hospitalet Vitoria-Gasteiz	Sbaeneg Catalaneg Basgeg
18.	Y DU: Lloegr Cymru Yr Alban G.Iwerddon	Llundain Caerdydd Glasgow Belfast	Sheffield Abertawe Caeredin –	– Casnewydd Aberdeen –	Saesneg Cymraeg/Saesneg Gaeleg/Sgoteg/Saesneg Gwyddeleg/Sgoteg Wlster/Saesneg

*Dim prifysgol yn golygu nad oedd data seiliedig ar brifysgol

Mae *proffiliau cenedlaethol neu ranbarthol* yn seiliedig ar gasglu data sylfaenol ar gyfer y $23+22+22=67$ o ddinasoedd y cyfeirir atynt yn Nhabl 4. Fel y gellir ei weld o Dabl 4, mae gan y rhan fwyaf o brif ieithoedd rhanbarthol/lleiafrifol yn y dinasoedd ychwanegol a ddewiswyd statws iaith genedlaethol mewn gwledydd cyfagos. Crynhoir ffocws y broses o gasglu data sylfaenol ar gyfer parthau iaith 5-8 ym mhob un o'r 24 o wledydd/ranbarthau fel a ganlyn:

- Ar gyfer parth iaith 5, canolbwyntir ar ddarpariaeth iaith mewn gwahanol fathau o addysg i oedolion a ddarperir gan y wladwriaeth. Ymdrinnir â dau sector cyflenwol: darpariaeth iaith mewn addysg alwedigaethol ar gyfer oedolion (ifanc) 16 oed a throsodd a darpariaeth iaith mewn addysg academaidd/prifysgol.
- Ar gyfer parth iaith 6, canolbwyntir ar ddarpariaeth iaith yn y cyfryngau clyweledol, gan gynnwys darllediadau radio a theledu cyhoeddus, y sinemâu mwyaf, ac yn y wasg yn y gorsafoedd trenau mwyaf a chiosgau dinas yn y dinasoedd a arolygwyd.

- Ar gyfer parth iaith 7, canolbwyntir ar ddarpariaeth iaith mewn gwasanaethau cyhoeddus a mannau cyhoeddus ar lefel dinas, yn fwy arbennig ar strategaethau iaith sefydliadol, cyfleusterau cyfathrebu llafar a chyfleusterau gwybodaeth ysgrifenedig ar lefel dinas (cyngor) yn y dinasoedd a arolygwyd.
- Ar gyfer parth iaith 8, canolbwyntir ar bedwar sector busnes gwahanol – archfarchnadoedd, busnesau adeiladu, gwestai a banciau. Gofynnwyd i ymchwilwyr gasglu samplau a ddsbarthwyd mor gyfartal â phosibl rhwng busnesau amlgenedlaethol/rhyngwladol, cenedlaethol a rhanbarthol neu leol. Yn ymarferol, roedd hi'n anodd gwireddu'r uchelgais hon yn yr holl wledydd/rhanbarthau.

Yn Nhabl 5, rhoddir trosolwg cryno o barthau iaith a thargedau ar gyfer casglu data sylfaenol fesul dinas (3x).

Tabl 5: Parthau a thargedau ar gyfer casglu data sylfaenol fesul dinas

Rh	Parth iaith	Targedau fesul dinas (3x)
5.	leithoedd mewn addysg bellach ac addysg uwch	<ul style="list-style-type: none"> - Y sefydliad mwyaf ar gyfer addysg a hyfforddiant galwedigaethol (AHG) â darpariaeth iaith - Y brifysgol gyffredinol gyhoeddus fwyaf
6.	leithoedd yn y cyfryngau	<ul style="list-style-type: none"> - Darpariaeth iaith mewn rhaglenni radio a theledu, yn y sinema, fel y disgrifir yn y papur newydd mwyaf poblogaidd yn y ddinas fwyaf - Darpariaeth iaith yn y wasg yn yr orsaf drenau fwyaf a'r ciosg dinas mwyaf - Defnydd o isdeitlau neu drosleisio ar gyfer ffilmiau mewn ieithoedd ar wahân i'r iaith genedlaethol - Darpariaeth iaith arwyddion
7.	leithoedd mewn gwasanaethau cyhoeddus a mannau cyhoeddus	<ul style="list-style-type: none"> - Strategaethau iaith sefydliadol, cyfleusterau cyfathrebu llafar a chyfleusterau gwybodaeth ysgrifenedig ar lefel canol dinas
8.	leithoedd mewn busnes	<ul style="list-style-type: none"> - Archfarchnadoedd, busnesau adeiladu, gwestai a banciau amlgenedlaethol/rhyngwladol, cenedlaethol a rhanbarthol/lleol bach, canolig a mawr

1.6 Methodoleg ymchwil

Mathau gwahanol o ymchwil

Gall amrywiaeth o fethodolegau ymchwil gael eu dewis i ymchwilio i bolisiau ac arferion iaith mewn cymdeithas benodol. Yn unol â'u diddordebau ymchwil, gall ymchwilwyr ddilyn trywydd micro-ieithyddolgyrmeithasol neu facro-ieithyddolgyrmeithasol i ddogfennu polisiau ac arferion perthnasol (Fishman a Garcia 2010). Os yw'r ymchwil wedi'i chyfyngu i astudiaethau achos lle mai nifer fach o gyfranogwyr sydd, bydd ymchwilwyr fel arfer yn canolbwyntio ar arsylwadau ethnograffig ac yn dilyn trywydd dadansoddi sgwrs. Mae ethnograffeg ieithyddol (Heller 2007) yn un fethodoleg gyffredin a ddefnyddir i ymchwilio i'r ffordd y mae pobl yn rhyngweithio â'i gilydd ac ym mha iaith. Mae ethnograffwyr ieithyddol yn ceisio deall sut mae pobl yn defnyddio'r adnoddau ieithyddol sydd ar gael iddynt wrth rhyngweithio ag eraill.

Fodd bynnag, nid dulliau ethnograffig yw'r rhai gorau bob amser wrth ymchwilio i bolisiau ac arferion iaith ar lefel gymdeithasol. Mae prosiect Ewrop Gyfoethog ei Hieithoedd yn canolbwyntio'n bennaf ar amlieithrwydd cymdeithasol ac yn arbennig ar bolisiau ac arferion sefydliadol sy'n hyrwyddo (neu'n cyfyngu ar) amlieithrwydd. Felly, y fethodoleg a fabwysiadwyd ar gyfer prosiect Ewrop Gyfoethog ei Hieithoedd oedd i gasglu *data arolwg* ar bolisiau ac arferion iaith cyffredin mewn amrywiaeth o barthau iaith mewn cyd-destunau cenedlaethol neu ranbarthol penodol ledled Ewrop.

Lluniwyd holiadur yr arolwg drwy astudio prif ddogfennau'r UE a Chyngor Ewrop ar bolisiau ac arferion iaith a ddisgrifiwyd uchod ac edrych yn benodol ar yr argymhellion allweddol ynddynt. Fodd bynnag, o ystyried y ffaith bod polisiau ac arferion iaith ledled Ewrop yn ffenomenon cymhleth iawn, nid oes modd nodi'r holl newidynnau perthnasol, eu gweithredu na'u troi'n bethau mesuradwy.

Llunio'r holiadur

O ran llunio'r holiadur, dilynwyd y rhagofynion canlynol ar gyfer llunio cwestiynau:

- dylai pob cwestiwn esgor ar ddata graddadwy
- dylai data graddadwy gael ei bwysoli, gan arwain at wahaniaethu polisiau ac arferion wedi'u cofnodi
- dylid osgoi cwestiynau ie/na lle y byddai un o'r atebion yn arwain yn anochel at sgwrs 100%
- dylai'r cwestiynau fod yn ddigon cadarn i'w mesur dro ar ôl tro.

Fel arfer, roedd pob cwestiwn yn cynnwys tri opsiwn ymateb ac roedd yn rhaid i ymchwilwyr ddewis yr opsiwn oedd agosaf at realiti o ran y polisi neu'r arfer cyffredin yn eu gwlad/rhanbarth. Rhoddwyd sgôr i bob dewis, gyda'r sgôr uchaf ar gyfer pob cwestiwn yn cyfateb i'r polisi neu'r arfer sydd fwyaf cydnaws ag argymhellion yr UE/Cyngor Ewrop. Cyflwynir y canlyniadau traws-genedlaethol ar gyfer pob gwlad/rhanbarth yn Rhan 2 o'r cyhoeddiad hwn. Rhoddir trosolwg o'r holl broffiliau cenedlaethol a rhanbarthol yn Rhan 3.

Dilysrwydd

O safbwynt dilysrwydd, ein pryderon ar lefel yr holiadur cyffredinol oedd y canlynol:

Dilysrwydd mewnol

- A yw Holiadur Ewrop Gyfoethog ei Hieithoedd yn ddigon *cynhwysfawr* o ran ei fframwaith a'i gwmpas cysyniadol ac felly'n cyflawni ei nodau?
- A yw Holiadur Ewrop Gyfoethog ei Hieithoedd yn ddigon *penodol a thryloyw* o ran ei llunio?
- A yw Holiadur Ewrop Gyfoethog ei Hieithoedd yn ddigon *ymarferol* i gasglu data o ran deallusrwydd a llwyth gwaith gweinyddol?

Dilysrwydd allanol

- A yw Holiadur Ewrop Gyfoethog ei Hieithoedd yn ddigon *dilys* o ran ei gysylltiad â meincnodau Ewropeidd sy'n llywio'r broses sgorio?

Cymharu data rhwng gwledydd

- A yw Holiadur Ewrop Gyfoethog ei Hieithoedd yn ddigon *teg* o ran cynrychioli'r pedwar math o iaith allweddol a ystyrir: ieithoedd cenedlaethol, tramor, rhanbarthol/ lleiafrifol a mewnfudwyr?
- A yw Holiadur Ewrop Gyfoethog ei Hieithoedd yn seiliedig ar yr *un cwestiynau* ar gyfer pob gwlad/rhanbarth?
- A yw Holiadur Ewrop Gyfoethog ei Hieithoedd yn seiliedig ar yr *un broses sgorio* ar gyfer pob gwlad/rhanbarth?

Credwn fod yr holiadur, er yn ddiau fod angen ei fireinio a'i ddatblygu gan y rhwydwaith sefydledig a rhanddeiliaid, yn ceisio bodloni'r meini prawf a amlinellir uchod. Mae eisoes yn gyfystyr â set dda o ddangosyddion drafft a fframwaith cyffredinol ar gyfer helpu gwledydd/rhanbarthau i werthuso eu hunain mewn perthynas â dogfennau'r UE a Chyngor Ewrop ar bolisiau ac arferion iaith, i godi ymwybyddiaeth ar lefel facro ymhlith llunwyr polisiau iaith Ewropeidd, cenedlaethol a rhanbarthol, ac i ysgogi rhanddeiliaid allweddol ar draws amrywiaeth o sectorau, ieithoedd a gwledydd i weithredu.

Credwn hefyd y bydd ein dangosyddion drafft yn ei gwneud yn bosibl i ddefnyddwyr leoli eu polisiau eu hunain mewn perthynas â'r rheini mewn gwledydd neu ranbarthau eraill ac o ganlyniad rannu gwybodaeth mewn ffordd dryloyw a nodi arfer da. Gobeithir hefyd y gall y dangosyddion gyfrannu at fentrau polisi newydd sy'n benodol i gyd-destun. Dylid nodi *na* fwriedir i'r dangosyddion drafft fod yn gyfrwng i gynnal dadansoddiadau manwl o bolisiau neu arferion amlieithog ar y lefel ficro. Fodd bynnag, gall canlyniadau'r ymchwil esgor ar astudiaethau achos dilynol perthnasol iawn a fydd yn amlygu safbwyntiau a data ategol, sy'n deillio o safbwyntiau lefel facro'r dangosyddion.

Dulliau gweithredu cyflenwol

Nid oes modd dilyn yr un fethodoleg ymchwil mewn perthynas â'r holl barthau a gwmpesir yn Ewrop Gyfoethog ei Hieithoedd, ac felly dilynwyd proses gyflenwol ar gyfer parthau iaith 1-8 (gweler Tabl 3). Mae'r rhan o Holiadur Ewrop Gyfoethog ei Hieithoedd lle mae polisïau a dogfennau cenedlaethol neu ranbarthol swyddogol yn bodoli yn seiliedig ar *ddata swyddogol/eilaidd* (parthau iaith 1-4). Cafodd y data hwn ei gasglu gan ein partneriaid ymchwil a, lle y bo'n bosibl, cafodd ei groes-wirio gyda'r gweinyddiaethau cenedlaethol dan sylw. Lle nad yw hyn ar gael (addysg bellach ac addysg uwch, y cyfryngau, gwasanaethau cyhoeddus a manau cyhoeddus, busnes), mae'r canlyniadau yn seiliedig ar *ddata hunangasgliedig/sylfaenol* (parthau iaith 5-8).

Ni fwriedir i'r data sylfaenol gynrychioli unrhyw wlad/ranbarth nac ychwaith fod yn ddigon mawr i gyffredinoli ond bwriedir iddo fod yn fan cychwyn ar gyfer darparu dangosyddion cychwynnol polisïau ac arferion o ran amlieithrwydd a lluosieithrwydd mewn parthau a ystyriwyd i raddau llai yn nogfennau'r Comisiwn Ewropeaidd ac mewn ymchwil. O ystyried y fethodoleg gyfunol a fabwysiadwyd, penderfynwyd peidio â chyflwyno sgorau cyffredinol fesul parth iaith, na darparu un sgôr gyffredinol gronol neu fynegai fesul gwlad/ranbarth.

Er, fel y nodwyd uchod, na ellir defnyddio'r gronfa ddata hunangasgliedig/sylfaenol i gyffredinoli, mae'n bendant yn gyfystyr â chronfa ddata werthfawr i'w defnyddio rhwng gwledydd at ddibenion ymchwil bellach. Credwn fod y cyfuniad o ddadansoddi data eilaidd ar gyfer parthau iaith 1-4 a chasglu/dadansoddi data sylfaenol ar gyfer parthau iaith 5-8 yn elfennau arloesol o'r prosiect.

Proses

Mae'r weithdrefn ganlynol yn crynhoi'r camau a gymerwyd gennym i gynllunio a threalu Holiadur Ewrop Gyfoethog ei Hieithoedd, a chasglu a phrosesu'r data:

- 2010 – Datblygwyd cynigion ar gyfer y cwestiynau cychwynnol a'r broses sgorio ar gyfer pob opsiwn atebion lluosog gan Brifysgol Tilburg, British Council a'r Grŵp Polisi Ymfudo ym Mrwsel. Cafodd y parth busnes ei ddatblygu gan CILT yn Llundain, gan ddefnyddio arolwg ELAN (2006) fel y man cychwyn, ac yna fe'i mireiniwyd ymhellach gan y tîm ymchwil yn Ffrainc. Rhoddwyd cyngor ar y parth gwasanaethau cyhoeddus gan dîm ieithoedd yr Heddlu Metropolitaidd ynghyd â darparwyr gwasanaethau cyhoeddus eraill yn Llundain.
- Cafodd fersiwn drafft Holiadur Ewrop Gyfoethog ei Hieithoedd ei brofi ymlaen llaw mewn tair astudiaeth beilot yng Ngwlad Pwyl, Sbaen a Chatalwnia ddechrau 2011. Nod yr astudiaethau peilot oedd profi dilysrwydd cynnwys a fframwaith Holiadur Ewrop Gyfoethog ei Hieithoedd drwy ystyried amrywiadau mewn polisïau ac arferion iaith *rhwng* ac o *fewn* gwledydd.
- Ar sail canlyniadau'r astudiaethau peilot, cafodd Holiadur Ewrop Gyfoethog ei Hieithoedd, y Llawlyfr Maes ar gyfer ymchwilwyr, a'r gweithdrefnau sgorio eu haddasu ymhellach ac yna craffwyd arnynt gan Grŵp Llywio Ewrop Gyfoethog ei Hieithoedd ac arbenigwyr allanol. Cafodd fersiwn terfynol Holiadur Ewrop Gyfoethog ei Hieithoedd ei ddsbarthu yn hydref 2011 i bob tîm cenedlaethol a rhanbarthol at ddibenion casglu data.
- Cafodd fersiynau gwahanol o'r holiadur eu llunio ar gyfer Bosnia a Herzegovina, Sbaen, y Swistir a'r DU (gweler Tabl 4).

- Anfonwyd Llawlyfr Maes manwl at ymchwilwyr yn egluro cefndir y prosiect, a sut y byddai data yn cael ei gasglu. Hefyd, cynhaliwyd cyfarfod wyneb yn wyneb deuddydd i drafod y fethodoleg, a chafwyd negeseuon e-bost a galwadau ffôn gyda phob tîm ymchwil.
- Ar ôl i'r timau cenedlaethol a rhanbarthol roi pob ateb i bob cwestiwn, cafodd yr holl ddata a gasglwyd ei adolygu gan gymheiriaid yn annibynnol er mwyn sicrhau dehongliad cyson a wiriwyd ddwywaith.
- Yn dilyn hynny, cafodd yr holl ddata a adolygwyd gan gymheiriaid ei brosesu, ei ddadansoddi a'i adolygu gan dîm Ewrop Gyfoethog ei Hieithoedd ym Mhrifysgol Tilburg.
- Yn ystod y broses, daeth i'r amlwg bod gwahanol ymchwilwyr wedi dehongli rhai cwestiynau yn wahanol, tra bod eraill heb eu deall yn llawn. Cafodd y broses o egluro'r rhain, safoni ymatebion, a chytuno ar ddehongliadau terfynol ei chwblhau ddechrau 2012. Penderfynwyd na fyddai rhai cwestiynau yn cael eu sgorio am nad oedd yn ymarferol casglu'r data. Bu'n amhosibl casglu data ar gwestiynau am gasgliadau llyfrau mewn ieithoedd heblaw am yr iaith genedlaethol mewn llyfrgelloedd cyhoeddus a siopau llyfrau mewn rhai gwledydd. Roedd cwestiynau ar yr ieithoedd oedd yn ofynnol ar gyfer cyrsiau israddedigion a graddedigion yn amwys, ac nis sgoriwyd.
- Cafodd y canlyniadau ar gyfer pob gwlad/ranbarth eu dychwelyd at bob ymchwilydd a rhoddwyd cyfle arall iddynt roi adborth. I ddechrau, cafodd y canlyniadau eu cyflwyno ar lefel parth cyfan, ond yn dilyn hynny penderfynwyd eu cyflwyno ar lefel cwestiwn fanylach er mwyn cynnwys polisïau ac arferion gwledydd/rhanbarthau yn fwy manwl.

Canlyniadau

Mae'r canlyniadau a gyflwynir yn y llyfr hwn yn seiliedig ar yr arolwg cynhwysfawr cyntaf hwn o bolisïau ac arferion gwledydd ar gyfer amlieithrwydd a lluosieithrwydd yn Ewrop ac maent yn deillio o adroddiadau arbenigwyr a adolygwyd gan gymheiriaid ac a wiriwyd ddwywaith ar ystod o 260 o gwestiynau. Nid yw pob cwestiwn wedi rhoi canlyniadau y gellir eu prosesu a'u dadansoddi mewn ffyrdd rhagweledig. Mae hyn yn wir, er enghraifft, am rai o'n cwestiynau ar ieithoedd yn y cyfryngau.

Mae'r proffiliau o wledydd neu ranbarthau a gyflwynir yn Rhan 3 o'r astudiaeth hon yn deillio o ganlyniadau'r broses a ddisgrifiwyd uchod, fel y safbwyntiau rhwng gwledydd a rhwng sectorau a gyflwynir yn Rhan 2. Ar gyfer pob gwlad/ranbarth, mae'r disgrifiad yn seiliedig ar *broffil ansoddol a meintiol* o ran testun a thablau sy'n cyfeirio'n ôl yn uniongyrchol at y cwestiynau a ofynnwyd yn Holiadur Ewrop Gyfoethog ei Hieithoedd, ynghyd â *sylwebaeth* lle mae ymchwilwyr ym mhob gwlad/ranbarth yn egluro'r canlyniadau, yn eu rhoi mewn cyd-destun, yn amlgyr canfyddiadau allweddol ac yn amlgyr mentrau newydd ac arfer da. Ein nod fu cynnig cydbwysedd cyd-destunol a rhyngweithio rhwng y ddau fath o wybodaeth.

Yn anochel, nid oes modd cynnwys pob newidyn posibl yn y fath ymchwil. Serch hynny, credwn, er y gall fod rhai bylchau, rydym wedi cynnwys cryn dipyn ac wedi dwyn ynghyd lawer o faterion ar lefel facro polisiau ac arferion iaith. Dylid nodi, o fewn y parthau addysg a ddewiswyd, fod arolwg *Ewrop Gyfoethog ei Hieithoedd* yn canolbwyntio ar ddarpariaeth iaith, nid ar ofynion iaith o ran cyfranogiad myfyrwyr eu hunain, nac hyfedredd ieithyddol o ran yr iaith a gyflawnir mewn gwirionedd. Nid oedd y ddwy uchelgais olaf o fewn cwmpas y cylch cyntaf hwn o gasglu data.

Ceir dau Atodiad i'r cyhoeddiad hwn. Mae'r Atodiad cyntaf yn cynnig Fersiwn A o Holiadur *Ewrop Gyfoethog ei Hieithoedd* y gellir dod o hyd iddo ar wefan *Ewrop Gyfoethog ei Hieithoedd*. Mae Fersiwn B yn fersiwn addasedig o Fersiwn A a ddefnyddiwyd yn y gwledydd hynny yn ein sampl lle ceir mwy nag un iaith genedlaethol, h.y. Bosnia-Herzegovina a'r Swistir. Rhestr Termau yw'r ail Atodiad. Mae'n cynnig diffiniadau o'r termau pwysicaf a ddefnyddir yn y cyhoeddiad hwn. Drwy gydol y tair Rhan, mae pob cyfeiriad at ieithoedd yn seiliedig ar graffu'n ofalus ar wefan *Ethnologue: Languages of the World*, sy'n ffynhonnell wybodaeth werthfawr a phoblogaidd iawn ar y pwnc hwn.

RHAN 2

Dadansoddiad traws-genedlaethol o ganlyniadau Ewrop Gyfoethog ei Hieithoedd

Kutlay Yağmur, Guus Extra a Marlies Swinkels

Cyflwyniad

Yn y bennod hon, cynigir safbwyntiau traws-genedlaethol ar y graddau y mae polisiâu ac arferion iaith cenedlaethol/rhanbarthol yn y 24 o wledydd/rhanbarthau dan sylw yn gyson â meincnodau Ewropeaidd. Mewn wyth parth iaith, gan gynnwys un meta-barth, cyflwynir tablau traws-genedlaethol i ddangos y canlyniadau ar gyfer addysg, gwasanaethau cyhoeddus, y cyfryngau a busnes. Caiff data trawsadrannol o barthau gwahanol ei gyflwyno hefyd fel bod y darllenydd yn gallu meithrin gwell dealltwriaeth o ledaeniad a dosbarthiad ieithoedd yng nghyd-destun Ewrop.

Yn Adran 2.1, rhoddir gwybodaeth a gofnodwyd am ieithoedd mewn dogfennau swyddogol a chronfeydd data yn y gwledydd/rhanbarthau dan sylw. Yn Adran 2.2, canolbwyntir ar ieithoedd mewn addysg cyn cynradd o ran darparu ieithoedd cenedlaethol, tramor, rhanbarthol/lleiafrifol ac ieithoedd mewnudwyr. Rhydd Adran 2.3 safbwyntiau cymharol ar ieithoedd mewn addysg gynradd o dan y penawdau trefniadaeth ac athrawon, unwaith eto'n cwmpasu'r pedwar math o iaith. Gwneir yr un peth ar gyfer addysg uwchradd yn Adran 2.4. Mae Adran 2.5 yn cynnig tri math o ddata ar addysg (cyn) gynradd ac addysg uwchradd o safbwynt hydredol. Mae Adran 2.6 yn canolbwyntio ar ieithoedd mewn addysg bellach ac addysg uwch. Cyflwynir Adran 2.7 ganlyniadau a gofnodwyd ein hymchwil i ieithoedd yn y cyfryngau clyweledol a'r wasg, tra bod Adran 2.8 yn canolbwyntio ar ieithoedd mewn gwasanaethau cyhoeddus a manau cyhoeddus. Rhydd Adran 2.9 safbwyntiau cymharol ar ieithoedd mewn busnes yn yr holl wledydd/rhanbarthau dan sylw. Rhydd Adran 2.10 safbwyntiau trawsadrannol ar ddosbarthiad ieithoedd ym meysydd y wasg, gwasanaethau cyhoeddus a manau cyhoeddus, a busnes gyda'i gilydd. Cyflwynir y canfyddiadau allweddol a'r casgliadau sy'n deillio o'r holl adrannau uchod ar ddechrau'r llyfr ar ôl y cyflwyniad, fel sy'n arfer cyffredin ym mhrosiectau ymchwil yr UE.

Mae'r Almaen yn wladwriaeth ffederal a hynod ddatganoledig, yn enwedig o ran addysg a lles cymdeithasol-ddiwylliannol. Ni fu'n bosibl casglu data Ewrop Gyfoethog ei Hieithoedd ar gyfer yr Almaen mewn ffordd gyson, o ystyried yr amrywiaeth a'r dargyfeirio cryf rhwng polisiâu ac arferion iaith, o fewn pob un o'r Bundesländer a rhyngddynt, ac ym mhob un o'r tair dinas y canolbwyntiwyd arnynt. O ran parthau iaith dewisol Ewrop Gyfoethog ei Hieithoedd, mae polisiâu ac arferion iaith yn gyfrifoldebau ar lefel ranbarthol neu leol bwrdeistrefi neu hyd yn oed ysgolion. O ystyried yr ymreolaeth hon, mae bron yn amhosibl adrodd ar bolisiau ac arferion "cyffredin" yng nghyd-destun yr Almaen. Am y rhesymau hyn, nid yw'r gronfa ddata ar gyfer yr Almaen wedi'i chynnwys yn ein dadansoddiad traws-genedlaethol yn Rhan 2 o'r astudiaeth hon.

2.1 Ieithoedd mewn dogfennau swyddogol a chronfeydd data

Yn y rhan gyntaf o arolwg Ewrop Gyfoethog ei Hieithoedd, ystyriwyd a oedd dogfennau swyddogol a chronfeydd data ar ieithoedd yn y gwledydd/rhanbarthau dan sylw. Credwn y bydd bodolaeth dogfennau swyddogol sy'n ategu amrywiaeth ieithyddol a llunio cronfeydd data sy'n mapio'r ieithoedd a siaredir yn gwella ymwybyddiaeth o amlieithrwydd mewn unrhyw gyd-destun cenedlaethol neu ranbarthol yn ogystal ag arwain at well polisïau addysg. Ar sail data Ewrop Gyfoethog ei Hieithoedd, a hefyd drwy edrych ar gofnod swyddogol (ECRML) Cyngor Ewrop, bu modd mapio polisïau ac arferion a gofnodwyd yn y maes hwn.

Rhydd Tabl 1 yr atebion i ddau gwestiwn pwysig ynghylch deddfwriaeth iaith a dogfennau polisi iaith swyddogol yn

y 24 o wledydd/rhanbarthau dan sylw, yn ôl adroddiadau ein hymchwilyr. Ceir deddfwriaeth sy'n ymwneud ag ieithoedd cenedlaethol a ranbarthol/lleiafrifol ym mhob gwlad/rhanbarth fwy neu lai, a deddfwriaeth sy'n ymwneud ag ieithoedd tramor mewn 14 o wledydd/rhanbarthau. Dim ond mewn pum gwlad/rhanbarth y ceir deddfwriaeth sy'n ymwneud ag ieithoedd mewnudwyr. Mae dogfennau polisi iaith swyddogol ar ieithoedd cenedlaethol a thramor ar gael ym mhob gwlad/rhanbarth fwy neu lai, fe'u ceir ar ieithoedd ranbarthol/lleiafrifol mewn 19 o wledydd/rhanbarthau, a dim ond mewn pedair gwlad/rhanbarth y'u ceir ar ieithoedd mewnudwyr.

Tabl 1: Deddfwriaeth iaith a dogfennau polisi iaith swyddogol yn y 24 o wledydd/rhanbarthau a arolygwyd

Gwlad/Rhanbarth	A oes deddfwriaeth genedlaethol neu ranbarthol/ffederal sy'n cynnwys erthyglau ar iaith neu ieithoedd?				A oes dogfennau polisi iaith swyddogol yn bodoli sy'n anelu at hybu dysgu ac addysgu iaith yn eich gwlad neu'ch rhanbarth?			
	cen	tram	rh/ll	mewn	cen	tram	rh/ll	mewn
Awstria	√		√		√		√	
Gwlad y Basg	√		√		√	√	√	
Bosnia a Herzegovina	√		√		√	√	√	
Bwlgaria	√	√	√	√	√	√	√	
Catalwnia	√		√		√	√	√	√
Denmarc	√	√	√	√	√			
Lloegr			√		√	√	√	
Estonia	√	√		√	√	√		
Ffrainc	√	√	√		√	√	√	√
Fryslân	√	√	√		√	√	√	
Gwlad Groeg	√				√	√		
Hwngari	√	√	√		√	√	√	
Yr Eidal			√		√	√	√	
Lithwania	√	√	√		√	√	√	
Yr Iseldiroedd	√	√	√		√	√	√	
Gogledd Iwerddon	√	√	√		√	√	√	
Gwlad Pwyl	√		√					
Portiwgal	√		√		√	√		
Rwmania	√	√	√		√	√	√	
Yr Alban	√	√	√	√	√	√	√	
Sbaen	√	√	√	√	√	√	√	√
Y Swistir	√		√		√	√	√	√
Yr Wcráin	√	√	√		√	√	√	
Cymru	√	√	√			√	√	

Fel y nodwyd yn Adran 1.1, un o'r prif ddogfennau sy'n ategu amrywiaeth ieithyddol yn Ewrop yw *Siarter Ewropeidd ar gyfer Ieithoedd Rhanbarthol neu Ieithoedd Lleiafrifol* (ECRML) Cyngor Ewrop. Mae'r Siarter yn gonfensiwn a gynlluniwyd, ar y naill law, i ddiogelu a hyrwyddo ieithoedd rhanbarthol/lleiafrifol fel agwedd ar dreftadaeth ddiwylliannol Ewrop sydd dan fygythiad ac, ar y llaw arall, i alluogi siaradwyr iaith ranbarthol/lleiafrifol i'w defnyddio mewn bywyd preifat a chyhoeddus. Yn bennaf oll, mae'r Siarter yn nodi'r prif amcanion ac egwyddorion y mae gwladwriaethau yn ymrwymo i'w gwneud yn gymwys i bob iaith ranbarthol/lleiafrifol sy'n bodoli yn eu tiriogaethau cenedlaethol. Yn ail, mae'r Siarter yn cynnwys cyfres o fesurau penodol sydd wedi'u cynllunio i hwyluso ac annog y defnydd o ieithoedd rhanbarthol/lleiafrifol penodol mewn bywyd cyhoeddus. O fewn ei chwmpas mae'r ieithoedd a gaiff eu defnyddio'n draddodiadol o fewn tiriogaeth gwladwriaeth, ond nid yw'n cwmpasu'r rheini sy'n gysylltiedig â symudiadau diweddar gan fewnfudwyr neu dafodieithoedd yr iaith swyddogol.

Bwriedir iddi sicrhau, i'r graddau y bo'n rhesymol bosibl, fod ieithoedd rhanbarthol/lleiafrifol yn cael eu defnyddio mewn addysg ac yn y cyfryngau, caniatáu ac annog eu defnydd mewn cyd-destunau cyfreithiol a gweinyddol, mewn bywyd economaidd a chymdeithasol, at ddiben gweithgareddau diwylliannol ac fel rhan o gyfnewidfeydd trawsffiniol.

Mae'r Siarter wedi cael ei chadarnhau gan y Senedd yn 11 o'r 18 o wledydd a arolygwyd, a'i llofnodi gan y Llywodraeth yn Ffrainc a'r Eidal. Nid yw wedi cael ei chadarnhau na'i llofnodi ym Mwgaria, Estonia, Gwlad Groeg, Lithwania na Phortiwgal. Un rheswm dros beidio â'i chadarnhau yw'r ffaith y byddai gwneud hynny, mewn rhai gwledydd, yn mynd yn groes i'r cyfansoddiad cenedlaethol. Dengys Tabl 2 pa ieithoedd sy'n cael eu cydnabod, eu diogelu a/neu eu hyrwyddo ym mhob gwlad o ran dogfennau cenedlaethol yn unig neu o ran dogfennau cenedlaethol a'r Siarter Ewropeidd. Am ragor o fanylion, cyfeirier at wefan Cyngor Ewrop ar y Siarter sy'n cael ei diweddarau'n barhaus.

Tabl 2: Cydnabyddiaeth swyddogol, diogelwch a/neu gamau hyrwyddo o ran ieithoedd rhanbarthol/lleiafrifol mewn 18 o wledydd MEWN PRIFLYTHRENNAU: YN ÔL DOGFENNAU GWLAD SWYDDOGOL YN UNIG
Mewn italig: yn ôl dogfennau gwlad swyddogol yn ogystal â'r Siarter Ewropeidd

Gwlad	Ieithoedd rhanbarthol/lleiafrifol sy'n cael eu cydnabod, eu diogelu a/neu eu hyrwyddo gan ddogfennau gwlad swyddogol/deddfwriaeth neu yn y Siarter Ewropeidd
Awstria	<i>Croateg (yn Burgenland), Tsieceg (yn Fienna), Hwngareg (yn Burgenland a Fienna), Romani (yn Burgenland), Slofaceg (yn Fienna), a Slofeneg (yn Carinthia a Styria)</i>
Bosnia a Herzegovina	<i>Albaneg, Tsieceg, Almaeneg, Hwngareg, Eidaleg, ieithoedd Iddewon (yr iaith Iddew-Almaeneg a'r iaith Ladino), Macedoneg, Montenegreg, Pwyleg, ROMANI, Rwtheneg, Serbo-Croateg, Slofaceg, Slofeneg, Tyrceg, Wcreineg</i>
Bwlgaria	ARMENEG, HEBRAEG, ROMANI, TYRCEG
Denmarc	<i>Almaeneg (DIOGELIR ESGIMÛEG-ALEWTEG A FFARÛEG O DAN Y DEDDFAU AR YMREOLAETH)</i>
Estonia	MAE'R GYFRAITH NEWYDD AR IEITHOEDD (2011) YN DATGAN EI BOD YN BWYSIG DIOGELU HOLL IEITHOEDD RHANBARTHOL ESTONIA
Ffrainc	BASGEG, LLYDAWEG, CATALANEG, CORSEG, TAFODIEITHOEDD ALMAENEG YN RHANBARTHOU ALSACE A MOSELLE (ALSACEG A MOSELEG), FFLEMINEG ORLLEWINOL, FFRENGIG-BROFENSALEG, LANGUE D'OÏL ('IEITHOEDD Y GOGLEDD': FRANCCOMTOIS, WALLON, CHAMPENOIS, PICARD, NORMAND, GALLO, POITEVIN-SAINTONGEAIS, LORRAIN, BOURGUIGNON-MORVANDIAU), OCSITANEG ('IEITHOEDD Y DE': GASCON, LANGUEDOCIEN, PROFENSALEG, AUVERGNAT, LIMOUSIN, VIVARO-ALPIN), PARLERS LIGURIENS (O DDYFFRYN ROYA YN YR ALPES-MARITIMES A BONIFACIO YN CORSICA). YN OGystal Â HYNny, Y 41 O IEITHOEDD O DIRIOGAETHAU TRAMOR SYDD WEDI'U CYNnwYS YN RHESTR SWYDDOGOL IEITHOEDD FFRAINC, A'R IEITHOEDD ANNHIRIOGAETHOL A SIAREDIR GAN BOBLOGAETHAU O FEWNFUDWYR: ARABEG TAFODIEITHOL, ARMENEG GORLLEWINOL, BERBER, SBAENEG IDDEWIG A ROMANI.
Gwlad Groeg	Yn hyrwyddo, ond ni nodir unrhyw ieithoedd
Hwngari	<i>Armeneg, Bwlgareg, Groeg, Pwyleg, Rwtheneg, Wcreineg, Croateg, Almaeneg, Romani, Boyash, Rwmaneg, Serbeg, Slofaceg, Slofeneg</i>
Yr Eidal	ALBANEG, CATALANEG, CROATEG, FFRENGIG-BROFENSALEG, FFRANGEG, FRIULAN, ALMAENEG, GROEG, LLADIN, OCSITANEG, SARDEG, SLOFENEG
Lithwania	BELARWSEG, HEBRAEG, PWYLEG, RWSEG
Yr Iseldiroedd	<i>Limbwrgeg, Sacsoneg Isel, Romani, Iddew-Almaeneg:</i> fe'u diogelir ac fe'u cydnabyddir. <i>Ffriseg:</i> wedi'i hyrwyddo
Gwlad Pwyl	<i>Armeneg, Belarwseg, Tsieceg, Almaeneg, Hebraeg, Karaim, Casiwbeg, Lemko, Lithwaneg, Romani, Rwseg, Slofaceg, Tatareg, Wcreineg, Iddew-Almaeneg</i>
Portiwgal	MIRANDEG
Rwmania	<i>Albaneg, Armeneg, Bwlgareg, Croateg, Tsieceg, Almaeneg, Groeg, Hwngareg, Eidaleg, Macedoneg, Pwyleg, Romani, Rwseg, Rwtheneg, Serbeg, Slofaceg, Tatareg, Tyrceg, Wcreineg, Iddew-Almaeneg</i>
Sbaen	<i>Basgeg, Catalaneg, Galiseg, Falenseg, Arabeg, Ocsitaneg Araneg, Astwreg/Bable, ieithoedd Berber, Caló, Ffabl Aragoneg, Portiwgaleg, Romani</i>
Y Swistir	<i>Eidaleg ar lefel ffederal ac yng nghantonau Grisons a Ticino, Románsh, Ffrangeg yng nghanton Berne, Almaeneg yn Bosco-Gurin ac Ederswiler ac yng nghantonau Fribourg a Valais, Walsler, Yeneg, Iddew-Almaeneg</i>

Gwlad	Ieithoedd rhanbarthol/llieiafrifol sy'n cael eu cydnabod, eu diogelu a/neu eu hyrwyddo gan ddogfennau gwlad swyddogol/deddfwriaeth neu yn y Siarter Ewropeaidd
Y DU	<i>Cernyweg yn Lloegr, Gwyddeleg a Sgoteg-Wlster yng Ngogledd Iwerddon, Gaeleg yr Alban a Sgoteg yn yr Alban, Cymraeg yng Nghymru</i>
Yr Wcráin	<i>Belarwseg, Bwlgareg, Tatareg y Crimea, Gagaus, Almaeneg, Groeg, Hwngareg, Moldofeg, Pwyleg, Rwmaneg, Rwseg, Slofaceg, Iddew-Almaeneg</i>

Nid yw'r ffaith bod ieithoedd yn cael eu cydnabod a/neu eu diogelu gan y Siarter Ewropeaidd o reidrwydd yn golygu bod ieithoedd yn cael eu hyrwyddo mewn addysg. Dengys Tabl 3 yr ieithoedd a ddarperir yn swyddogol gan bob gwlad mewn addysg genedlaethol neu ranbarthol, naill ai yn ôl dogfennau cenedlaethol swyddogol neu'r Siarter Ewropeaidd.

Tabl 3: Ieithoedd rhanbarthol/llieiafrifol a ddarperir yn swyddogol mewn addysg genedlaethol neu ranbarthol mewn 18 o wledydd
MEWN PRIFLYTHRENNAU: DARPARIAETH ADDYSGOL A GRYBWYLLIR MEWN DOGFENNAU GWLAD SWYDDOGOL YN UNIG
Mewn italig: darpariaeth addysgol a grybwyllir mewn dogfennau gwlad swyddogol yn ogystal â'r Siarter Ewropeaidd

Gwlad	Ieithoedd rhanbarthol/llieiafrifol a addysgir yn swyddogol mewn addysg genedlaethol neu ranbarthol	Cyfanswm
Awstria	<i>Burgenland: Croateg, Hwngareg, Romani; Slofeneg yn Carinthia</i>	4
Bosnia a Herzegovina	<i>Albaneg, Tsieceg, Almaeneg, Hwngareg, Eidaleg, ieithoedd Iddewon (Iddew-Almaeneg a Ladino), Macedoneg, Montenegreg, Pwyleg, Romani, Rwmaneg, Rwtheneg, Slofaceg, Slofeneg, Tyrceg, Wcreineg</i>	17
Bwlgaria	ARMENEG, HEBRAEG, ROMANI, TYRCEG	4
Denmarc	<i>Almaeneg</i>	1
Estonia	YR IAITH VÕRU	1
Ffrainc	LLYDAWEG, BASGEG, CATALANEG, CORSEG, CREOLIAITH, IAITH ARWYDDION FFRAINC, GALLO, OCSITANEG, IEITHOEDD RHANBARTHOL ALSACE, IEITHOEDD RHANBARTHOL MOSELLE, IEITHOEDD TAHITI A MELANESAIDD (AJIE, DREHU, MENGONE, PAICI) yn nhiriogaethau dramor Ffrainc.	10 + 5
Gwlad Groeg	–	–
Hwngari	<i>Croateg, Almaeneg, ROMANI, BOYASH, Rwmaneg, Serbeg, Slofaceg, Slofeneg</i>	8
Yr Eidal	ALBANEG, CATALANEG, CROATEG, FFRENGIG-BROFENSALEG, FFRANGEG, FRIULAN, ALMAENEG, GROEG, LLADIN, OCSITANEG, SARDEG, SLOFENEG	12
Lithwania	BELARWSEG, HEBRAEG, PWYLEG, RWSEG	4
Yr Iseldiroedd	<i>Ffriseg yn Fryslân yn unig</i>	1
Gwlad Pwyl	<i>Armeneg, Belarwseg, Almaeneg, Hebraeg, Casiwbeg, Lemko, Lithwaneg, Rwseg, Slofaceg, Wcreineg, Tsieceg, Karaim, Romani, Tatareg, Iddew-Almaeneg</i>	15
Portiwgal	MIRANDEG yn rhanbarth Miranda do Douro	1
Rwmania	<i>Bwlgareg, Croateg, Tsieceg, Almaeneg, Groeg, Hwngareg, Eidaleg, Pwyleg, Romani, Rwseg, Serbeg, Slofaceg, Tartareg, Tyrceg ac Wcreineg</i>	15
Sbaen	<i>Ocsitaneg-Araneg, Basgeg, Catalaneg, Galiseg, Falenseg</i>	4
Y Swistir	<i>Eidaleg, Románsh</i>	2
Y DU	<i>Cernyweg, Gwyddeleg, Gaeleg yr Alban, Cymraeg</i>	4
Yr Wcráin	<i>Belarwseg, Bwlgareg, Tatareg y Crimea, Gagaus, Almaeneg, Groeg, Hwngareg, Moldofeg, Pwyleg, Rwmaneg, Rwseg, Slofaceg, Iddew-Almaeneg</i>	13

Fel y gwelir yn Nhabl 3, ceir cryn amrywiad yn nifer yr ieithoedd a ddarperir yn swyddogol mewn addysg. Yn gyffredinol, gwelir bod y nifer fwyaf o ieithoedd rhanbarthol/lleiafrifol a ddarperir yn swyddogol mewn addysg yng ngwledydd De-ddwyrain a Chanol Ewrop. Yng Ngorllewin Ewrop, yr Eidal a Ffrainc yw'r eithriadau amlycaf i'r rheol hon. Ni chaiff y cysyniadau o ieithoedd 'rhanbarthol' neu 'leiafrifol' eu nodi yn yr ECRML ond caiff ieithoedd mewnfwudwyr eu heithrio'n benodol o'r Siarter (Extra a Gorter 2008: 31). Yng ngwledydd Gorrlewin Ewrop, mae ieithoedd mewnfwudwyr yn aml yn fwy amlwg nag ieithoedd rhanbarthol/lleiafrifol ond cânt eu cydnabod, eu diogelu a/neu eu hyrwyddo i raddau llai. Gwlad Groeg yw'r unig wlad yn arolwg Ewrop Gyfoethog ei Hieithoedd lle na chaiff unrhyw iaith ranbarthol/lleiafrifol benodol ei chydabod na'i haddysgu'n swyddogol, er bod Tyrceg yn cael ei darparu ar gyfer plant sy'n siarad Tyrceg mewn ysgolion cynradd yn rhanbarth Thrace. Ni chaiff pob iaith a ddarperir yn swyddogol, yn ôl dogfennau, ei chynnig mewn gwirionedd mewn ysgolion, a rhoddir gywodaeth am yr ieithoedd a addysgwyd ar yr adeg y

casglwyd data ac yn ôl adroddiadau ein hymchwilyr yn Adranau 2.3-2.5.

Yn Ewrop a thu hwnt, ceir amrywiad yn y mathau o gronfeydd data ar gyfer diffinio a nodi grwpiau o'r boblogaeth mewn cymdeithasau amlddiwylliannol. Gall y cronfeydd data hyn gynnwys data ieithyddol sy'n deillio o amrywiaeth o gwestiynau iaith unigol neu luosog. Yn y cyd-destun Ewropeaidd, mae Poulain (2008) yn gwahaniaethu rhwng cyfrifiadau cenedlaethol, cofrestrau gweinyddol, ac arolygon ystadegol. Caiff cyfrifiadau eu cynnal ar adegau penodol (bob pump neu ddeg mlynedd fel arfer) ac maent yn esgor ar gronfeydd data cenedlaethol. Caiff cofrestrau gweinyddol eu creu'n aml ar lefel fwrdeistrefol a lefel ganolog, a chânt eu diweddarau bob blwyddyn yn aml neu hyd yn oed bob mis (er enghraifft yn yr Iseldiroedd). Gellir cynnal arolygon ystadegol yn rheolaidd ymhlith is-grwpiau penodol o'r boblogaeth. Gall y tri dull o gasglu data gael eu cynnal mewn amryw gyfuniadau. Rhydd Tabl 4 drosolwg o'r polisiau ar arferion yn y 24 o wledydd/rhanbarthau dan sylw.

Tabl 4: Dulliau swyddogol o gasglu data cenedlaethol/rhanbarthol ar ieithoedd cenedlaethol, ieithoedd rhanbarthol/lleiafrifol ac ieithoedd mewnfwudwyr

Gwlad/rhanbarth	Dulliau swyddogol o gasglu data cenedlaethol/rhanbarthol ar ieithoedd cenedlaethol, ieithoedd rhanbarthol/lleiafrifol ac ieithoedd mewnfwudwyr
Awstria	–
Gwlad y Basg	Data cyfrifiad a data arolwg ar ieithoedd cenedlaethol ac ieithoedd rhanbarthol/lleiafrifol
Bosnia a Herzegovina	–
Bwlgaria	Data cyfrifiad ar ieithoedd cenedlaethol, ieithoedd rhanbarthol/lleiafrifol ac ieithoedd mewnfwudwyr
Catalwnia	Data cofrestrau bwrdeistrefol, data cyfrifiad, a data arolwg ar ieithoedd cenedlaethol ac ieithoedd rhanbarthol/lleiafrifol
Denmarc	–
Lloegr	Data cofrestrau bwrdeistrefol, data cyfrifiad, a data arolwg ar ieithoedd cenedlaethol, ieithoedd rhanbarthol/lleiafrifol ac ieithoedd mewnfwudwyr
Estonia	Data cyfrifiad ar ieithoedd cenedlaethol, ieithoedd rhanbarthol/lleiafrifol ac ieithoedd mewnfwudwyr
Ffrainc	Data cyfrifiad a data arolwg ar ieithoedd cenedlaethol, ieithoedd rhanbarthol/lleiafrifol ac ieithoedd mewnfwudwyr
Fryslân	Data arolwg ar ieithoedd cenedlaethol ac ieithoedd rhanbarthol/lleiafrifol
Gwlad Groeg	–
Hwngari	Data cyfrifiad ar ieithoedd cenedlaethol ac ieithoedd rhanbarthol/lleiafrifol
Yr Eidal	Data arolwg ar ieithoedd cenedlaethol ac ieithoedd rhanbarthol/lleiafrifol
Lithwania	Data cyfrifiad ar ieithoedd cenedlaethol, ieithoedd rhanbarthol/lleiafrifol ac ieithoedd mewnfwudwyr
Yr Iseldiroedd	–
G. Iwerddon	Data cyfrifiad ar ieithoedd cenedlaethol, ieithoedd rhanbarthol/lleiafrifol ac ieithoedd mewnfwudwyr
Gwlad Pwyl	Data cyfrifiad ar ieithoedd cenedlaethol, ieithoedd rhanbarthol/lleiafrifol ac ieithoedd mewnfwudwyr
Portiwgal	Data cyfrifiad ar yr iaith genedlaethol yn unig
Rwmania	Data cyfrifiad ar ieithoedd cenedlaethol, ieithoedd rhanbarthol/lleiafrifol ac ieithoedd mewnfwudwyr
Yr Alban	Data cyfrifiad ar ieithoedd cenedlaethol, ieithoedd rhanbarthol/lleiafrifol ac ieithoedd mewnfwudwyr
Sbaen	Data cyfrifiad a data arolwg ar ieithoedd cenedlaethol, ieithoedd rhanbarthol/lleiafrifol ac ieithoedd mewnfwudwyr
Y Swistir	Data cofrestrau bwrdeistrefol a data arolwg ar ieithoedd cenedlaethol, ieithoedd rhanbarthol/lleiafrifol ac ieithoedd mewnfwudwyr
Yr Wcráin	Data cyfrifiad a data arolwg ar ieithoedd cenedlaethol ac ieithoedd rhanbarthol/lleiafrifol
Cymru	Data cyfrifiad a data arolwg ar ieithoedd cenedlaethol, ieithoedd rhanbarthol/lleiafrifol ac ieithoedd mewnfwudwyr

Gallwn weld yn Nhabl 4 bod y rhan fwyaf o wledydd/rhanbarthau yn gyfarwydd â dulliau o gasglu data ar iaith ac mae'r rhan fwyaf ohonynt yn mynd i'r afael â thri math o iaith: ieithoedd cenedlaethol, ieithoedd rhanbarthol/llieiafrifol ac ieithoedd mewnfudwyr. Nid oes gan bump o blith y 24 o wledydd/rhanbarthau unrhyw fath o ddull o gasglu data ar iaith: Bosnia a Herzegovina (er gwaethaf ei llu o ieithoedd rhanbarthol/llieiafrifol mewn addysg fel y nodwyd yn Nhabl 2), Denmarc, Gwlad Groeg a'r Iseldiroedd. Dim ond casglu data ar yr iaith genedlaethol a wna Portiwgal.

Dengys Tabl 5 y prif gwestiwn neu gwestiynau ar iaith a ofynnwyd mewn ymchwil eang neu genedlaethol i'r boblogaeth. Mae amrywiad o ran y prif gwestiwn neu gwestiynau ar iaith a ofynnwyd. Mae Extra (2010) yn ystyried dilysrwydd cwestiynau cenedlaethol neu eang ar famiaith, y brif iaith a siaredir ac iaith yr aelwyd. Yn deillio o brofiad rhyngwladol, yn arbennig yng nghyd-destunau Awstralia, Canada ac UDA nad ydynt yn wledydd Ewropeaidd lle mai Saesneg sy'n drech, dadleua mai'r cwestiwn am famiaith sydd leiaf dilys yn empiraidd ac mai'r cwestiwn ar iaith yr aelwyd sydd

dilys (gweler y Rhestr Termau ar famiaith neu iaith frodorol). Ymddengys fod Ewrop yn cytuno â hyn, oherwydd mae dros hanner y gwledydd/rhanbarthau a arolygwyd yn gofyn y cwestiwn am iaith yr aelwyd. Y cwestiynau am iaith a ofynnir yn y Swistir sydd fwyaf nodedig, yn arbennig yr un cyntaf: *Ym mha iaith rydych yn meddwl ac rydych fwyaf cyfarwydd â hi?* Dylid gwneud un sylw olaf: dim ond yn 11 o'r 24 o wledydd/rhanbarthau dan sylw y gofynnir cwestiynau ychwanegol am sgiliau iaith, hynny yw, atebion gallaf/na allaf yn dilyn cwestiwn *Allwch chi...? a/neu raddfa Pa mor dda y gallwch/rydych...?*

I gloi, mae argaeledd cronfeydd data a dulliau casglu data swyddogol yn amrywio'n sylweddol ledled gwledydd/rhanbarthau Ewrop. O safbwynt Ewropeaidd, mae lle i ddatblygu ymhellach a chyfnewid gwybodaeth yn y maes hwn er mwyn codi ymwybyddiaeth bellach o amlieithrwydd, darparu data seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer cynllunio iaith a darpariaeth addysgol, a chynnal ymchwil gymharol yn Ewrop.

Tabl 5: Cwestiynau am iaith mewn dulliau casglu data swyddogol mewn 24 o wledydd/rhanbarthau

Gwlad/rhanbarth	Prif gwestiwn neu gwestiynau iaith a ofynnir	Cwestiwn neu gwestiynau a ofynnir am sgiliau iaith (X) siarad/deall/darllen/ysgrifennu
Awstria	iaith yr aelwyd	–
Gwlad y Basg	iaith yr aelwyd + Prif iaith + Mamiaith	Allwch chi X? Pa mor dda y gallwch X?
Bosnia a Herzegovina	–	–
Bwlgaria	Mamiaith	–
Catalwnia	iaith yr aelwyd + Prif iaith + Mamiaith	Allwch chi X? Pa mor dda y gallwch X?
Denmarc	–	–
Lloegr	iaith yr aelwyd + Prif iaith	Allwch chi X? Pa mor dda y gallwch X?
Estonia	Mamiaith	Pa mor dda y gallwch X?
Ffrainc	iaith yr aelwyd	Allwch chi X?
Fryslân	iaith yr aelwyd	Allwch chi X? Pa mor dda y gallwch X?
Gwlad Groeg	–	–
Hwngari	iaith yr aelwyd + Mamiaith	Allwch chi X?
Yr Eidal	iaith yr aelwyd	–
Lithwania	Mamiaith	–
Yr Iseldiroedd	–	–
G. Iwerddon	Prif iaith	Allwch chi X? Pa mor dda y gallwch X?
Gwlad Pwyl	iaith yr aelwyd	–
Portiwgal	Mamiaith	–
Rwmania	Mamiaith	–
Yr Alban	iaith yr aelwyd + Prif iaith	Allwch chi X?
Sbaen (Madrid, Valencia, Sevilla)	iaith yr aelwyd	Allwch chi X? Pa mor dda y gallwch X?
Y Swistir	Prif iaith + iaith yr aelwyd + iaith yn yr ysgol/gwaith	–
Yr Wcráin	Mamiaith	–
Cymru	iaith yr aelwyd + Prif iaith	Allwch chi X? Pa mor dda y gallwch X?

2.2 Ieithoedd mewn addysg cyn cynradd

Mae llawer o ddogfennau'r UE a Chyngor Ewrop y cyfeiriwyd atynt yn Adran 1.1 yn tanlinellu pwysigrwydd dysgu iaith yn gynnar, ac rydym felly wedi cynnwys adran ar ieithoedd mewn addysg cyn cynradd yn ein harolwg. Mae Cynnig Cyngor yr UE yn 1997 yn dadlau y dylid addysgu ieithoedd yr Undeb Ewropeaidd ar gam cynnar ac mae *Casgliadau Cyngor yr UE* ar gyfer 2002 a 2008 yn rhoi pwyslais ar hyrwyddo amlieithrwydd o'r oedran cynharaf. Mae Papur Gwyrdd y Comisiwn Ewropeaidd ar ymfudo a symudedd (2009) yn tanlinellu pwysigrwydd hanfodol plant o gefndir mewnfudo yn dysgu'r iaith genedlaethol mor gynnar â phosibl tra'n dal gafael yn nhreftadaeth, iaith a diwylliant y famwlad.

Mae Cyngor Ewrop hefyd yn glir o ran plant o gefndir ymfudo, ac mae'n argymhell, er mwyn eu helpu i integreiddio, y dylai Aelod-wladwriaethau roi sgiliau iaith genedlaethol priodol iddynt ar lefel cyn ysgol (Argymhelliad CM/Rec (2008) 4 ar gryfhau'r broses o integreiddio plant mewnfudwyr a phlant o gefndir mewnfudo.

Mae *Guide for the development and implementation of curricula for plurilingual and intercultural education* (Beacco ac eraill 2010: 45) yn darparu crynodeb da o'r hyn sy'n ofynnol:

As spaces for discovery and socialisation, pre-primary schools represent a basic stage in plurilingual and intercultural education, particularly for children from underprivileged and migrant backgrounds, whose language practices at home may conflict with the varieties and norms selected and fostered by schools. To that extent, and since the issue here is the right to quality language (and general) education, one of the first desiderata is that schooling of this kind for very young children be guaranteed and provided in optimum conditions for all the groups concerned – both permanently resident natives and recently arrived immigrant families.

O safbwynt ieithoedd rhanbarthol/lleiafrifol, mae'r Siarter Ewropeaidd (1992) yn cyfeirio at bwysigrwydd addysg cyn cynradd mewn ieithoedd rhanbarthol/lleiafrifol: 'Member

States should make pre-school education available in the relevant R/M languages for at least the families that request it'. (Rhan III, Erthygl 8 – Addysg, Paragraff 1).

Y cyhoeddiad diweddaraf ar Ddysgu Ieithoedd yn Gynnar yw llawlyfr polisi'r Comisiwn Ewropeaidd a gyhoeddwyd yn 2011 sy'n dwyn y teitl 'Language Learning at pre-primary level: making it efficient and sustainable'. Lluniwyd y llawlyfr gan grŵp o 28 o arbenigwyr cenedlaethol ac mae'n amlinellu'r cryfderau a'r gwendidau ym maes dysgu ieithoedd yn gynnar ym mhob gwlad ac yn nodi enghreifftiau o arfer da.

Bydd yr adran hon yn cynnig cipolwg ar ddysgu iaith yn gynnar mewn sefydliadau cyn cynradd ledled y gwledydd/rhanbarthau dan sylw yn ein harolwg. Dylid nodi na chaiff addysg wladol cyn cynradd ei darparu gan bob un ohonynt. Yn ein dadansoddiad, ceisiwn dynnu sylw at y gwledydd/rhanbarthau sydd fwyaf cydnaws ag argymhellion yr UE er mwyn codi ymwybyddiaeth a rhoi cyfleoedd i gyfnewid gwybodaeth. Byddwn hefyd yn nodi'r heriau a godir gan ein hymchwili i addysg iaith cyn cynradd.

Cymorth ychwanegol ar gyfer ieithoedd cenedlaethol mewn addysg cyn cynradd

Gofynnwyd cwestiynau i'n hymchwiliwyr am faint o gymorth ychwanegol oedd ar gael yn yr iaith genedlaethol ar lefel cyn cynradd, gan ganolbwyntio ar:

- y grwpiau targed ar gyfer cymorth o'r fath
- am sawl blwyddyn y'i cynigiwyd
- sawl diwrnod yr wythnos y'i cynigiwyd
- gofynion maint grŵp ar gyfer ffurfio dosbarth
- ffynonellau ariannol.

Mae 15 o'r 24 o wledydd/rhanbarthau a arolygwyd yn darparu cymorth ychwanegol ar lefel cyn cynradd yn yr iaith genedlaethol. Y rhain yw Awstria, Gwlad y Basg, Bwlgaria, Denmarc, Lloegr, Fryslân, Lithwania, yr Iseldiroedd, Gogledd Iwerddon, Rwmania, yr Alban, Sbaen, y Swistir, yr Wcráin a Chymru. Dangosir y canlyniadau ar gyfer y gwledydd/rhanbarthau hyn yn Nhabl 6.

Tabl 6: Cymorth ychwanegol i ieithoedd cenedlaethol mewn addysg cyn cynradd mewn 15 o wledydd/rhanbarthau

Meini prawf	Ymatebion	Nifer	Ymatebion	Nifer	Ymatebion	Nifer
Grwpiau targed	pawb	14	plant mewnfudwyr yn unig	1		
Hyd y cymorth	>2 flynedd	10	blwyddyn	5	<blwyddyn	0
Diwrnodau'r wythnos	≥1 diwrnod	3	½-1 diwrnod	10	<½ diwrnod	2
Gofynion o ran maint y grŵp	dim	13	5-10	2	>10	0
Yr arian sydd ar gael gan y wladwriaeth	llawn	14	rhannol	1		

Rhoddir cymorth ychwanegol yn yr iaith genedlaethol mewn addysg cyn cynradd i bob plentyn yn 14 o'r 15 o wledydd/ rhanbarthau, gyda'r Swistir yn ei ddarparu ar gyfer plant mewnfudwyr yn unig. Y tair gwlad/rhanbarth sy'n neilltuo'r mwyaf o amser i gymorth iaith genedlaethol ychwanegol yr wythnos yw'r Iseldiroedd, Fryslân a'r Wcráin. Mae 10 o'r gwledydd a arolygwyd yn cynnig dwy flynedd neu fwy o gymorth, tra bod pump – Bwlgaria, Denmarc, yr Iseldiroedd, yr Alban a'r Swistir – yn cynnig blwyddyn. Mewn 14 o wledydd/ rhanbarthau cynigir y cymorth hwn gan y wladwriaeth, tra yn y Swistir mae rhieni'n talu rhan o'r gost.

Darpariaeth iaith dramor mewn addysg cyn cynradd

Gofynnwyd y cwestiynau canlynol i'n hymchwilyr am ddarpariaeth ieithoedd tramor mewn addysg cyn cynradd:

- pa ieithoedd a addysgir
- faint o amser a neilltuir i hyfforddiant iaith dramor bob wythnos
- sawl blwyddyn a addysgir
- gofynion o ran maint y grŵp
- ffynonellau ariannol.

Dylid nodi na wnaeth yr ymchwil edrych ar addysgu ieithoedd tramor yn y sector preifat, lle y gall gael ei gynnig yn ehangach. Ar y cyfan, mae saith o'r 24 o wledydd yn nodi bod addysgu iaith dramor yn cael ei gynnig mewn sefydliadau cyn ysgol gwladol, a chyflwynir y canlyniadau yn Nhabl 7.

Tabl 7: Darpariaeth ieithoedd tramor mewn addysg cyn cynradd mewn saith o wledydd/rhanbarthau

Meini prawf	Ymatebion	Nifer	Ymatebion	Nifer	Ymatebion	Nifer
Grwpiau targed	pawb	7	cyfyngedig	0		
Hyd	>2 flynedd	6	blwyddyn	0	<blwyddyn	1
Diwrnodau'r wythnos	>1 diwrnod	1	½-1 diwrnod	6	<½ diwrnod	0
Gofynion o ran maint y grŵp	dim	6	5-10	0	>10	1
Yr arian sydd ar gael gan y wladwriaeth	llawn	2	rhannol	3	rhieni yn talu costau	2

Y saith gwlad/rhanbarth sy'n cynnig ieithoedd tramor ar y lefel hon yw Bosnia a Herzegovina, Gwlad y Basg, Bwlgaria, Catalwnia, Estonia, Sbaen a'r Wcráin. Mae Gwlad y Basg yn cynnig mwy na diwrnod o ieithoedd tramor yr wythnos, ac mae'r gwledydd/rhanbarthau eraill yn cynnig rhwng hanner diwrnod a diwrnod. Dangosir yr ieithoedd a gynigir gan bob gwlad/rhanbarth yn Nhabl 8. Bwlgaria sy'n cynnig y dewis mwyaf, er mai rhieni sy'n ariannu'r cyrsiau. Saesneg, Ffrangeg ac Almaeneg yw'r ieithoedd mwyaf cyffredin a gynigir.

Tabl 8: Darpariaeth ieithoedd tramor mewn addysg cyn cynradd mewn saith o wledydd/rhanbarthau

Gwlad/rhanbarth	Ieithoedd tramor a gynigir
Bosnia a Herzegovina	Saesneg, Ffrangeg, Almaeneg
Gwlad y Basg	Saesneg
Bwlgaria	Saesneg, Ffrangeg, Almaeneg, Eidaleg, Rwseg, Sbaeneg
Catalwnia	Saesneg
Estonia	Saesneg, Almaeneg, Ffrangeg, Rwseg
Sbaen (Madrid, Valencia, Sevilla)	Saesneg yng Nghymunedau Madrid a Valencia Saesneg, Ffrangeg ac Almaeneg yn Sevilla
Yr Wcráin	Saesneg, Ffrangeg, Almaeneg

Y casgliad cyffredinol y gallwn ei lunio o'r trosolwg hwn yw bod angen datblygu ymhellach a chael cymorth cenedlaethol/sefydliadol mewn rhai gwledydd/rhanbarthau fel bod ieithoedd tramor yn gallu ymsefydlu'n gynnar. Fodd bynnag, mae adroddiad y Comisiwn Ewropeaidd a gyhoeddwyd yn 2011 a'i lawlyfr polisi ar Ddysgu Ieithoedd yn Gynnar yn awgrymu bod llawer mwy o weithgarwch yn digwydd o gymharu â'r hyn y gallwn ei ystyried yma, a dylid troi atynt er mwyn cael dadansoddiad manylach.

Darpariaeth ieithoedd rhanbarthol/lleiafrifol mewn addysg cyn cynradd

O ran ieithoedd rhanbarthol/lleiafrifol, gofynnwyd yr un gyfres o gwestiynau i'n hymchwilyr â'r rhai a ofynnwyd am ieithoedd tramor a nodir yr ymatebion yn Nhabl 9, gyda 17 o wledydd/rhanbarthau yn nodi bod darpariaeth.

Tabl 9: Darpariaeth ieithoedd rhanbarthol/lleiafrifol mewn addysg cyn cynradd mewn 17 o wledydd/rhanbarthau

Meini prawf	Ymatebion	Nifer	Ymatebion	Nifer	Ymatebion	Nifer
Grwpiau targed	pawb	14	cyfyngedig	1	heb ei nodi	2
Hyd	>2 flynedd	15	blwyddyn	2	<blwyddyn	0
Diwrnodau'r wythnos	>1 diwrnod	12	½-1 diwrnod	3	<½ diwrnod	2
Gofynion o ran maint y grŵp	dim	13	5-10	2	>10	2
Yr arian sydd ar gael gan y wladwriaeth	llawn	15	rhannol	2	rhieni yn talu costau	0

Fel y gellir ei weld o'r tabl, mae 15 o'r 17 o wledydd/rhanbarthau yn cynnig ieithoedd rhanbarthol/llieiafrifol am dros ddwy flynedd, ac nid oes gan 13 ohonynt unrhyw ofynion o ran maint y grŵp, er yng Ngogledd Iwerddon a'r Wcráin mae angen o leiaf 10 o blant i ffurfio dosbarth, ac yn Nenmarc a Hwngari mae angen o leiaf bum plentyn. Yn 15 o'r gwledydd/rhanbarthau, caiff y cyrsiau eu hariannu gan y wladwriaeth, gyda Chatalwnia a Lloegr yn nodi bod rhieni yn talu cyfran o'r costau. Y gwledydd lle na chaiff ieithoedd rhanbarthol/llieiafrifol eu cynnig mewn addysg cyn cynradd yw Bosnia a Herzegovina, Bwlgaria, Estonia, Ffrainc, Gwlad Groeg, Gwlad Pwyl a'r Swistir.

Rhydd Tabl 10 drosolwg o'r ieithoedd y dywedir eu bod yn cael eu cynnig yn y 17 o wledydd/rhanbarthau lle y cânt eu haddysgu mewn sefydliadau cyn ysgol gwladol.

Mae'r ddarpariaeth yn eang mewn amrywiaeth o ieithoedd rhanbarthol/llieiafrifol yn ôl adroddiadau ein hymchwilyr, gydag Awstria, Hwngari, yr Eidal a Rwmania yn cynnig yr arlwy fwyaf.

Tabl 10: Darpariaeth ieithoedd rhanbarthol/llieiafrifol mewn addysg cyn cynradd mewn 17 o wledydd/rhanbarthau

Gwlad/rhanbarth	Ieithoedd rhanbarthol/llieiafrifol a gynigir
Awstria	Croateg Burgenland, Tsieceg, Hwngareg, Eidaleg yn Tyrol, Slofaceg, Slofeneg
Gwlad y Basg	Basgeg
Catalwnia	Catalaneg ym mhobman, Ocsitaneg-Araneg yn Val d'Aran
Denmarc	Almaeneg
Lloegr	Cernyweg yng Nghernyw
Fryslân	Ffriseg
Hwngari	Bwlgareg, Croateg, Almaeneg, Groeg, Romani/Boyash, Rwmaneg, Rwtheneg, Serbeg, Slofaceg, Slofeneg
Yr Eidal	Albaneg, Croateg, Ffrengig-Brofensaleg, Ffrangeg, Ffriwleg, Almaeneg, Groeg, Lladin, Ocsitaneg, Sardeg, Slofeneg
Lithwania	Belarwseg, Hebraeg, Pwyleg, Rwseg
Yr Iseldiroedd	Ffriseg yn Fryslân
Gogledd Iwerddon	Gwyddeleg
Portiwgal	Mirandeg
Rwmania	Bwlgareg, Croateg, Tsieceg, Almaeneg, Groeg, Hwngareg, Pwyleg, Serbeg, Slofaceg, Tyrceg, Wcreineg
Yr Alban	Gaeleg yr Alban
Sbaen (Madrid, Valencia, Sevilla)	Falenseg yn Valencia
Yr Wcráin	Tatareg y Crimea, Almaeneg, Hwngareg, Moldofeg, Pwyleg, Rwmaneg, Rwseg
Cymru	Cymraeg

Darpariaeth ieithoedd mewnfudwyr mewn addysg cyn cynradd

Ar sail data Ewrop Gyfoethog ei Hieithoedd, ymddengys nad yw darpariaeth mewn ieithoedd mewnfudwyr mewn addysg cyn cynradd yn gyffredin iawn eto. Fodd bynnag, er gwaethaf yr anawsterau sydd ynghlwm wrth nodi athrawon a deunydd dysgu priodol, mae tair gwlad yn cynnig cymorth ieithoedd mewnfudwyr i blant bach iawn, sef Denmarc, Sbaen a'r Swistir. Mae canton Zürich yn cynnig arlwy ryfeddol o ddim llai na 17 o ieithoedd. Nid oes unrhyw ddarpariaeth mewn unrhyw wlad/rhanbarth arall. Nodir yr ieithoedd a gynigir yn Nhabl 11.

Tabl 11: Darpariaeth ieithoedd mewnfudwyr mewn addysg cyn cynradd mewn tair gwlad/rhanbarth

Gwlad/rhanbarth	Ieithoedd a gynigir
Denmarc	Albaneg, Arabeg, Bosnieg, Islandeg, Somalieg, Tamil, Tyrceg, Wrddw/Pwnjabeg
Sbaen (Madrid, Valencia, Sevilla)	Arabeg (Morocaid), Portiwgaleg, Rwmaneg
Y Swistir Canton Zürich	Albaneg, Arabeg, Bosnieg, Bwlgareg, Tsieinëeg, Croateg, Ffinneg, Ffrangeg, Groeg, Hwngareg, Eidaleg, Corëeg, Portiwgaleg, Rwseg, Slofeneg, Sbaeneg (America Ladin), Tyrceg
Y Swistir Canton Genefa	Albaneg, Arabeg, Eidaleg, Portiwgaleg, Sbaeneg, Tyrceg

Er mwyn hyrwyddo'r gwaith o integreiddio plant mewnfudwyr yn ieithyddol, darperir rhaglenni cymorth iaith yn iaith yr aelwyd mewn ysgolion cyn cynradd yn y Swistir. Yn unol â'r *Cynllun Strategol er Dinasyddiaeth ac Integreiddio ar gyfer 2007-2010* yn Sbaen, cynigir nifer o ieithoedd mewnfudwyr mewn ysgolion cyn cynradd at ddiben cynnal a datblygu ieithoedd a diwyllianau mamwlad. Yn Nenmarc, mae cronfeydd cenedlaethol, rhanbarthol a lleol yn talu'r holl gostau ar gyfer y rhaglenni hyn, tra yn Sbaen a'r Swistir mae cronfeydd sy'n gysylltiedig â'r gwledydd tarddiad yn talu'r costau drwy gyfundebau dwyochrog.

2.3 Ieithoedd mewn addysg gynradd

Tanlinellodd *Casgliadau Cyngor yr UE (2002)* bwysigrwydd cymryd camau i roi'r cyfle i ddisgyblion ddysgu dwy neu, lle y bo'n briodol, fwy o ieithoedd yn ychwanegol at eu mamiaith o oedran cynnar, a sicrhau bod y cyflenwad o ieithoedd mor amrywiol â phosibl. Hefyd, pwysleiswyd pwysigrwydd sicrhau bod rhaglenni iaith yn creu agwedd gadarnhaol tuag at ddiwyllianau eraill.

Eid ati i integreiddio siaradwyr nad oeddent yn frodorol drwy gymryd camau i wella eu rhuglder yn yr iaith neu'r ieithoedd addysgu cenedlaethol, tra'n parchu ieithoedd a diwyllianau eu mamwlad. Cafodd hyfforddiant athrawon a symudedd athrawon eu hamlygu hefyd, fel y cafodd safoni medrusrwydd ieithyddol yn seiliedig ar y *Fframwaith Cyfeirio Ewropeidd Cyffredin* (CEFR) ar gyfer ieithoedd a ddatblygwyd gan Gyngor Ewrop. Ailadroddodd casgliadau Cyngor Ewrop (2008) yr un negeseuon, gan ychwanegu safbwynt dysgu gydol oes a diweddarau sgiliau iaith i bawb mewn ffyrdd ffurfiol, ffyrdd anffurfiol a ffyrdd heb fod yn ffurfiol. Unwaith eto, galwodd y casgliadau am addysgu amrywiaeth ehangach o ieithoedd ac asesu dysgwyr mewn ffyrdd cydnabyddedig. Tanlinellwyd gwerth hyfforddi a chyfnewid

athrawon, ac argymhellwyd ategu'r gwaith o addysgu pynciau drwy ieithoedd eraill (CLIL) am y tro cyntaf. Unwaith eto, mae *Casgliadau Cyngor yr UE (2011)* yn amlygu pwysigrwydd addysgu iaith o safon, gwerthuso perfformiad, hyfforddiant a symudedd athrawon, CLIL, ehangu'r amrywiaeth o ieithoedd, atgyfnerthu addysgu'r iaith genedlaethol, yn ogystal ag ystyried opsiynau i blant mewnfudwyr gadw a datblygu eu mamiaith.

Mae Cyngor Ewrop hefyd yn gryf o blaid amrywiaeth ieithyddol ac addysg ryngddiwyllianol mewn addysg gynradd a rhydd bolisi ac adnoddau ystafell ddsbarth cadarn. Mae'r ECRML yn pwysleisio'r angen i addysgu yn yr iaith ranbarthol/llieiafrifol briodol ac addysgu'r fath iaith yn briodol pan fydd rhieni yn gofyn am hynny heb iddo effeithio ar addysgu'r iaith genedlaethol. Rhydd y CEFR sail gyffredin ar gyfer meysydd llafur iaith, canllawiau cwricwlwm, arholiadau a gwerslyfrau ledled Ewrop, ac mae'n gwella tryloywder cyrsiau, meysydd llafur a chymwysterau, a thrwy hynny yn hyrwyddo cydweithrediad rhyngwladol ym maes ieithoedd modern. Yn *Argymhelliad 98 (6)*, cafodd Aelod Wladwriaethau eu hannog i weithredu polisïau addysg sy'n hyrwyddo luosieithrwydd eang ac annog y defnydd o ieithoedd tramor wrth addysgu pynciau nad ydynt yn ieithyddol. Fel yr UE, gwnaeth Cyngor Ewrop hefyd annog datblygu cysylltiadau a chyfnewidfeydd â sefydliadau ac unigolion ar bob lefel o addysg mewn gwledydd eraill. O ran statws iaith yr aelwyd yn y cwricwlwm, mae *Argymhelliad 1740 (2006)* *Cyngor Ewrop* yn tanlinellu pa mor ddymunol ydyw i annog pobl ifanc Ewrop i ddysgu eu mamiaith (neu eu prif iaith) pan nad yw'n iaith swyddogol yn eu gwlad. Ar yr un pryd, mae gan holl bobl ifanc Ewrop ddyletswydd i ddysgu iaith/ieithoedd swyddogol y wlad lle maent yn ddinasyddion. Aiff *Argymhelliad* Cyngor Ewrop ymlaen i ddweud mai addysg ddwyieithog sydd wrth wraidd llwyddiant a bod dwyieithrwydd a luosieithrwydd yn gaffaeliad.

O ystyried amrywiaeth ieithyddol y plant mewn llawer o ysgolion yn Ewrop, nid yw bob amser yn hawdd trefnu hyfforddiant iaith iddynt yn iaith yr aelwyd. Serch hynny, fel y nodir gan Extra ac Yağmur (2004: 99-105), mae modd cyflawni hyn pan fo'r ewyllys yno. Mae'r polisïau a'r arferion arloesol a hysbys yn y *Victorian School of Languages* ym Melbourne/Awstralia yn gyfystyr ag 'arfer da' ardderchog y gellir ei fabwysiadu yn y cyd-destun Ewropeaidd hefyd. Torri tir newydd o ran *pennu cyfeiriad ac addysgu* iaith ychwanegol yw prif nodwedd yr ysgol, lle y caiff pob disgybl y cyfle i ddysgu iaith arall yn ychwanegol at Saesneg fel iaith gyntaf neu ail iaith mewn ysgolion cynradd ac uwchradd talaith Victoria (a lle y gofynnir am hynny), gan gynnwys y rhai sy'n siarad Saesneg fel iaith gyntaf. Ar hyn o bryd, darperir dros 60 o *ieithoedd mabwysiadu personol* drwy ysgolion prif ffrwd y llywodraeth ac ysgolion ôl-ethnig fel y'u gelwir, yn dibynnu ar y galw.

Yn arolwg Ewrop Gyfoethog ei Hieithoedd gofynnwyd cwestiynau yn seiliedig ar yr argymhellion a'r canllawiau uchod ar gyfer ieithoedd cenedlaethol, ieithoedd rhanbarthol/llieiafrifol, ieithoedd tramor ac ieithoedd mewnfudwyr.

Cymorth ar gyfer ieithoedd cenedlaethol mewn addysg gynradd

Rhydd Tabl 12 drosolwg o drefniadaeth cymorth ychwanegol i ieithoedd cenedlaethol mewn ysgolion cynradd. Gofynnwyd cwestiynau am y canlynol i ymchwilyr:

- i ba raddau y ceir cwricwlwm cydlynol a chlir
- graddau'r cymorth ieithyddol i newydd-ddyfodiaid
- profion diagnostig ar y cam mynediad i newydd-ddyfodiaid
- monitro sgiliau iaith.

Tabl 12: Cymorth ychwanegol i ieithoedd cenedlaethol mewn addysg gynradd mewn 24 o wledydd/rhanbarthau

Meini prawf	Ymatebion	Nifer	Ymatebion	Nifer	Ymatebion	Nifer
Cwricwlwm	cydlynol a chlir	19	cyffredinol	5	dim	0
Cymorth ychwanegol i newydd-ddyfodiaid	llawn	22	rhannol	0	dim	2
Profion diagnostig ar y cam mynediad	i bawb	8	i fewnfudwyr yn unig	7	dim	9
Monitro sgiliau iaith	lefel genedlaethol	16	lefel ysgol	8	dim	0

Yn ôl adroddiadau ein hymchwilyr, mae 19 o wledydd/rhanbarthau yn meddu ar gwricwlwm cydlynol a chlir ar gyfer yr iaith genedlaethol mewn ysgolion cynradd, tra y'i mynegir mewn termau cyffredinol mewn pum gwlad/rhanbarth. Ar wahân i'r Eidal a'r Wcráin, mae pob gwlad/rhanbarth yn cynnig cymorth ychwanegol i newydd-ddyfodiaid ddysgu'r iaith genedlaethol. Ceir sawl dull gweithredu ym maes profion diagnostig, a gall hyn alw am sylw pellach gan lunwyr polisi. Mae wyth gwlad/rhanbarth – Awstria, Bwlgaria, Denmarc, Lloegr, Lithwania, Gogledd Iwerddon, yr Alban a Chymru – yn defnyddio profion iaith diagnostig gyda phob plentyn ar ddechrau addysg gynradd, dim ond plant mewnfudwyr sy'n cael y profion hyn mewn saith gwlad, ac ni noda naw gwlad/rhanbarth fod unrhyw brofion diagnostig yn cael eu cynnal ar y cam mynediad. Mae monitro sgiliau iaith yn rheolaidd yn faes arall lle ceir polisiâu gwahanol, gydag 16 o wledydd/rhanbarthau yn defnyddio profion lefel genedlaethol, ac wyth yn gweithio ar lefel ysgol. Ar y cyfan, Bwlgaria, Denmarc, Lithwania a'r Alban oedd y gwledydd/rhanbarthau a oedd yn gwbl gydnaws â meini prawf uchod Ewrop Gyfoethog ei Hieithoedd ar gyfer cymorth ychwanegol i ieithoedd cenedlaethol, tra bod yr Eidal, Gwlad Pwyl a'r Wcráin yn llai cydnaws.

Dysgu ieithoedd tramor mewn addysg gynradd

Gofynnwyd y cwestiynau canlynol am ieithoedd tramor i'n hymchwilyr:

- grwpiau targed
- nifer yr ieithoedd tramor gorfodol
- i ba raddau y ceir cwricwlwm cydlynol a chlir
- lledaeniad CLIL
- pryd mae addysg ieithoedd tramor yn dechrau
- amserlennu yn ystod neu ar ôl y diwrnod ysgol
- gofynion o ran isafswm maint y grŵp
- monitro sgiliau iaith
- y lefel i'w chyrraedd a chydawsedd â'r CEFR
- a oes arian ar gael gan y wladwriaeth.

Mae pob un o'r 24 o wledydd/rhanbarthau yn cynnig ieithoedd tramor mewn addysg gynradd, heblaw am Gymru, a dangosir canlyniadau'r 23 o wledydd/rhanbarthau hyn yn Nhabl 13.

Tabl 13: Trefniadaeth addysg ieithoedd tramor mewn ysgolion cynradd mewn 23 o wledydd/rhanbarthau

Meini prawf	Ymatebion	Nifer	Ymatebion	Nifer	Ymatebion	Nifer
Grwpiau targed	pawb	23	cyfyngedig	0		
Nifer yr ieithoedd tramor gorfodol	dwy	2	un	18	dewisol yn unig	3
Cwricwlwm	cydlynol a chliir	20	cyffredinol	3	dim canllawiau	0
Iaith yn cael ei defnyddio fel cyfrwng addysgu (CLIL)	eang	1	lleol	13	pwnc yn unig	9
Dechrau addysg iaith	o flwyddyn un	12	o'r cyfnod canol	7	o'r cyfnod olaf	4
Amserlennu	yn ystod oriau ysgol	21	yn rhannol yn yr ysgol	1	y tu allan i'r ysgol	1
Gofynion o ran isafswm maint y grŵp	dim	21	5-10 o ddisgyblion	1	>10 o ddisgyblion	1
Monitro sgiliau iaith	lefel genedlaethol safonol	10	lefel ysgol	13	absennol	0
Lefel i'w chyrraedd	wedi'i chysylltu â CEFR	7	lefel genedlaethol neu lefel ysgol	13	dim	3
Yr arian sydd ar gael gan y wladwriaeth	llawn	23	rhannol	0		

Mae ein hymchwil yn dangos bod ieithoedd tramor yn cael eu cynnig fel mater o drefn yn yr holl wledydd/rhanbarthau a arolygwyd, heblaw am Gymru. Mae dwy wlad/rhanbarth, sef Gwlad Groeg a Denmarc, yn gwneud dwy iaith dramor yn orfodol, tra bod gan 18 ohonynt un iaith orfodol. Yn Lloegr, Gogledd Iwerddon a'r Alban, mae ieithoedd tramor yn ddewisol. Ceir cwricwlwm cydlynol a chliir mewn 20 o wledydd/rhanbarthau, tra yn Fryslân, yr Eidal a'r Iseldiroedd fe'i mynegir mewn termau cyffredinol. Sbaen yw'r unig wlad i nodi y ceir CLIL ar raddfa eang. Tra y caiff y dull gweithredu hwn ei ddefnyddio mewn 13 o wledydd/rhanbarthau nid yw hynny'n digwydd yn systemataidd. Caiff ieithoedd tramor eu haddysgu o'r flwyddyn gyntaf yn yr ysgol gynradd yn 12 o'r 24 o wledydd/rhanbarthau, o'r cyfnod canol mewn saith, a dim ond yn Fryslân, yr Iseldiroedd, yr Alban

a'r Swistir yn y flwyddyn olaf yn unig. Caiff sgiliau iaith eu monitro gan ddefnyddio ffyrdd safonol yn 10 o'r gwledydd/rhanbarthau, ac ar lefel leol yn 13 ohonynt. Er, yn ddiaw, fod llawer o wledydd/rhanbarthau yn defnyddio'r CEFR i ddatblygu eu cwricwla, dim ond saith sy'n nodi eu bod yn gwneud defnydd clir a systemataidd o'r adnodd i werthuso'r lefel ieithyddol i'w chyrraedd. Y rhain yw Bwlgaria, Estonia, Ffrainc, Rwmania, yr Alban, Sbaen a'r Swistir.

Dengys Tabl 14 yr ieithoedd tramor a gynigir mewn addysg gynradd, boed yn orfodol neu'n ddewisol, fel y nodwyd gan ein hymchwilwyr.

Tabl 14: Darpariaeth ieithoedd tramor mewn addysg gynradd mewn 23 o wledydd/rhanbarthau

Gwlad/rhanbarth	Ieithoedd tramor a gynigir mewn addysg gynradd
Awstria	Croateg, Tsiegeg, Saesneg, Ffrangeg, Hwngareg, Eidaleg, Slofaceg, Slofeneg (mae un o'r ieithoedd hyn yn orfodol)
Gwlad y Basg	Saesneg: gorfodol
Bosnia a Herzegovina	Saesneg neu Almaeneg: gorfodol; Ffrangeg, Eidaleg, Arabeg: dewisol
Bwlgaria	Saesneg, Ffrangeg, Almaeneg, Eidaleg, Rwseg, Sbaeneg: mae un o'r ieithoedd hyn yn orfodol
Catalwnia	Saesneg: gorfodol
Denmarc	Saesneg, a Ffrangeg neu Almaeneg: gorfodol; Sbaeneg, Almaeneg neu Ffrangeg: dewisol
Lloegr	Ffrangeg, Almaeneg, Sbaeneg, yn achlysurol iawn hefyd Tsieinëeg, Eidaleg, Japanaeg, Wrddw: dewisol
Estonia	Saesneg, Ffrangeg, Almaeneg, Rwseg: mae un iaith yn orfodol, mae'r gweddill yn ddewisol
Ffrainc	Saesneg, Almaeneg, ieithoedd eraill megis Arabeg, Tsieinëeg, Eidaleg, Portiwgaleg, Rwseg, Sbaeneg i raddau llawer llai: mae un o'r ieithoedd hyn yn orfodol
Fryslân	Saesneg: gorfodol; Ffrangeg, Almaeneg, Sbaeneg: dewisol
Gwlad Groeg	Saesneg a Ffrangeg neu Almaeneg: gorfodol
Hwngari	Saesneg, Ffrangeg, Almaeneg, Eidaleg, Rwseg: mae un o'r ieithoedd hyn yn orfodol
Yr Eidal	Saesneg: gorfodol
Lithwania	Saesneg, Ffrangeg, Almaeneg: mae un o'r ieithoedd hyn yn orfodol
Yr Iseldiroedd	Saesneg: gorfodol – Ffrangeg, Almaeneg, Sbaeneg: dewisol
G. Iwerddon	Sbaeneg, Ffrangeg: dewisol
Gwlad Pwyl	Saesneg, Almaeneg, Ffrangeg: mae un o'r ieithoedd hyn yn orfodol
Portiwgal	Saesneg, Ffrangeg: mae un o'r ieithoedd hyn yn orfodol
Rwmania	Saesneg, Ffrangeg, Almaeneg, Eidaleg, Rwseg, Sbaeneg: dewisol
Yr Alban	Ffrangeg, Almaeneg, Sbaeneg: dewisol
Sbaen (Madrid, Valencia, Sevilla)	Saesneg, Ffrangeg, Almaeneg: mae un o'r ieithoedd hyn yn orfodol
Y Swistir	yng Nghanton Zürich: Saesneg yn orfodol yng Nghanton Geneffa: Almaeneg yn orfodol yng Nghanton Ticino: Ffrangeg yn orfodol
Yr Wcráin	Saesneg, Ffrangeg, Almaeneg, Sbaeneg: mae un o'r ieithoedd hyn yn orfodol

Saesneg, Ffrangeg ac Almaeneg yw'r ieithoedd tramor a addysgir fwyaf. Mewn sawl achos, un o'r ieithoedd hyn yw'r pwnc gorfodol i'w astudio gan bob disgybl. Mae Eidaleg, Rwseg a Sbaeneg yn ieithoedd eraill a gynigir naill ai fel ieithoedd tramor gorfodol neu ddewisol. Mewn rhai gwledydd, mae Arabeg, Tsieinëeg a Japanaeg hefyd yn cael eu cynnig fel ieithoedd tramor dewisol. Mae'r amrywiaeth hon o ieithoedd y nodir eu bod yn cael eu cynnig mewn ysgolion cynradd yn arwydd cadarnhaol o amlieithrwydd Ewropeaidd. Fodd bynnag, dylid ystyried y darlun a gyflwynir yma ochr yn ochr â data *Eurydice* 2008 sy'n nodi goruchafiaeth gynyddol yr iaith Saesneg o ran yr ieithoedd a addysgir ar lefel gynradd. http://eacea.ec.europa.eu/about/eurydice/documents/KDL2008_EN.pdf

Er mwyn sicrhau y caiff ieithoedd eu dysgu yn llwyddiannus, mae'n bwysig datblygu cwricwlwm a thargedau cyrhaeddiad clir. Mae'r CEFR wedi dod yn adnodd safonol ar gyfer cefnogi'r broses hon. Mae'n ddogfen sy'n disgrifio, mewn modd cynhwysfawr drwy raddfeydd enghreifftiol, a) y sgiliau cyfathrebu sydd eu hangen, b) y wybodaeth a'r sgiliau iaith cysylltiedig, ac c) y sefyllfaoedd a'r parthau cyfathrebu. O blith y gwledydd/rhanbarthau yr ymchwiliwyd iddynt, dywed saith ohonynt eu bod yn defnyddio'r CEFR yn benodol ar gyfer dysgu ieithoedd tramor, er y gall mwy seilio eu safonau cenedlaethol ar ei egwyddorion a'i ddulliau gweithredu. Cyflwynir y gwledydd/rhanbarthau a'r targedau cyrhaeddiad a nodwyd ym mhob un yn Nhabl 14. Yn ôl y disgwyl, A1/A2 yw'r lefel darged ar gyfer y grŵp oedran hwn.

Tabl 15: Targedau cyrhaeddiad CEFR ar gyfer addysgu ieithoedd tramor mewn ysgolion cynradd mewn 7 gwlad/rhanbarth

Gwlad/rhanbarth	Lefel hyfedredd i'w chyrraedd ar gyfer ieithoedd tramor ar ddiwedd addysg gynradd
Bwlgaria	A1-A2
Estonia	A1-A2
Ffrainc	A1
Rwmania	A1
Yr Alban	A1
Sbaen (Madrid, Valencia, Sevilla)	A2 a 'heb ei nodi' yn Valencia
Y Swistir	Yng Nghanton Zürich: A2.1 ar gyfer deall iaith lafar ac ysgrifenedig a siarad, A1.2 ar gyfer ysgrifennu

Dysgu ieithoedd rhanbarthol/lleiafrifol mewn addysg gynradd

Yn gyson â'r fethodoleg a fabwysiadwyd ar gyfer addysg ieithoedd tramor, holwyd ein hymchwilyr am yr ieithoedd rhanbarthol/lleiafrifol sydd ar gael yn eu cyd-destun cenedlaethol/rhanbarthol, ac yn benodol:

- y grwpiau targed
- i ba raddau y ceir cwricwlwm cydlynol a chllir
- lledaeniad CLIL
- pryd mae addysg ieithoedd rhanbarthol/lleiafrifol yn dechrau
- amserlennu yn ystod neu ar ôl y diwrnod ysgol
- gofynion o ran isafswm maint y grŵp
- monitro sgiliau iaith
- a oes gofyniad penodol o ran hyfedredd mewn iaith ranbarthol/lleiafrifol i'w gyflawni erbyn diwedd yr ysgol gynradd
- a oes arian ar gael gan y wladwriaeth.

Caiff ieithoedd rhanbarthol/lleiafrifol eu cynnig yn 22 o'r 24 o wledydd/rhanbarthau dan sylw, gyda Denmarc ac Estonia heb nodi darpariaeth. Dangosir y canlyniadau ar gyfer y 22 o wledydd/rhanbarthau hyn yn Nhabl 16.

Tabl 16: Trefniadaeth addysg ieithoedd rhanbarthol/lleiafrifol mewn ysgolion cynradd mewn 22 o wledydd/rhanbarthau

Meini prawf	Ymatebion	Nifer	Ymatebion	Nifer	Ymatebion	Nifer
Grwpiau targed	pawb	20	cyfyngedig	2		
Cwricwlwm	cydlynol a chllir	16	cyffredinol	5	dim canllawiau	1
Iaith yn cael ei defnyddio fel cyfrwng addysgu (CLIL)	eang	12	mewn rhai ardaloedd	6	pwnc yn unig	4
Dechrau addysg iaith	o flwyddyn un	19	o'r cyfnod canol	3	o'r cyfnod olaf	0
Amserlennu	yn ystod oriau ysgol	17	yn rhannol yn yr ysgol	4	y tu allan i'r ysgol	1
Gofynion o ran isafswm maint y grŵp	dim	16	5-10 o ddisgyblion	3	>10 o ddisgyblion	3
Monitro sgiliau iaith	safonol cenedlaethol	8	lefel ysgol	11	dim	3
Lefel i'w chyrraedd	normau cenedlaethol/rhanbarthol	14	lefel ysgol	3	dim	5
Yr arian sydd ar gael gan y wladwriaeth	llawn	21	rhannol	1	dim	0

Mae dosbarthiadau ieithoedd rhanbarthol/lleiafrifol a gwersi mewn pynciau eraill a addysgir mewn ieithoedd rhanbarthol/lleiafrifol ar gael i bob disgybl waeth beth fo'i gefndir ieithyddol mewn 20 o wledydd/rhanbarthau, er mai dim ond targedu siaradwyr brodorol yr ieithoedd hyn a wna Bwlgaria a Gwlad Groeg. Mae gan bob gwlad heblaw am Awstria ganllawiau ar y cwricwlwm. Mae CLIL yn llawer ehangach o ran addysgu ieithoedd rhanbarthol/lleiafrifol nag addysgu ieithoedd tramor, gyda 12 o wledydd/rhanbarthau yn nodi ei fod yn gyffredin a chwech arall yn nodi y'i defnyddir yn lleol. Mae 19 o'r 22 o wledydd/rhanbarthau lle yr addysgir ieithoedd rhanbarthol/lleiafrifol yn dechrau'n gynnar ar ddechrau addysg gynradd. Dim ond Ffrainc, Gwlad Pwyl a'r Swistir sy'n ei gyflwyno o'r cyfnod canol. Nid oes gan 16 o wledydd/rhanbarthau unrhyw ofynion o ran maint grŵp, ond yn Lloegr (yng Nghernyw), Hwngari a Gwlad

Pwyl rhaid bod o leiaf bum plentyn mewn dosbarth, tra yn Awstria, Bwlgaria a Gogledd Iwerddon rhaid bod 10 plentyn. O ran monitro sgiliau iaith, mae 19 o wledydd/rhanbarthau yn gwneud hyn naill ai drwy ddefnyddio adnoddau safonol sy'n briodol i oedran neu drwy weithredu ar lefel ysgol. Dim ond yr Eidal a'r Iseldiroedd/Fryslân sy'n methu â nodi unrhyw waith monitro rheolaidd. Mae lefelau cyflawniad yn gysylltiedig â safonau cenedlaethol/rhanbarthol mewn 14 o wledydd/rhanbarthau tra bod tair ohonynt yn pennu safonau ar lefel ysgol. Nid oes gan bum gwlad/rhanbarth, sef Awstria, Bosnia a Herzegovina, Gwlad Groeg, yr Eidal a Gogledd Iwerddon unrhyw dargedau penodol.

Mae Tabl 17 yn dangos yr ieithoedd rhanbarthol/lleiafrifol a gynigir yn ôl ein hymchwilyr.

Tabl 17: Darpariaeth ieithoedd rhanbarthol/lleiafrifol mewn addysg gynradd mewn 22 o wledydd/rhanbarthau

Gwlad/rhanbarth	Ieithoedd rhanbarthol/lleiafrifol a gynigir mewn addysg gynradd
Awstria	Croateg Burgenland, Tsieceg, Hwngareg, Slofaceg, Slofeneg, Romani
Gwlad y Basg	Basgeg
Bosnia a Herzegovina	Ieithoedd Cenedlaethol Eraill: Bosnieg, Serbeg a Chroateg
Bwlgaria	Armeneg, Hebraeg, Romani, Tyrceg
Catalwnia	Catalaneg ym mhobman, Ocsitaneg-Araneg yn Val d'Aran
Lloegr	Cernyweg yng Nghernyw
Ffrainc	Basgeg, Llydaweg, Catalaneg, Corseg, Ocsitaneg Cynigir IEITHOEDD TAHITI A MELANESIA (AJIE, DREHU, NENGONE, PAICI) yn Nhiriogaethau Dramor Ffrainc.
Fryslân	Ffriseg
Gwlad Groeg	Tyrceg
Hwngari	Bwlgareg, Croateg, Almaeneg, Groeg, Pwyleg, Romani/Boyash, Rwmaneg, Rwtheneg, Serbeg, Slofaceg, Slofeneg
Yr Eidal	Albaneg, Catalaneg, Croateg, Ffrangeg, Ffrengig-Brofensaleg, Ffriwleg, Almaeneg, Groeg, Lladin, Ocsitaneg, Sardeg, Slofeneg
Lithwania	Belarwseg, Hebraeg, Pwyleg, Rwseg
Yr Iseldiroedd	Ffriseg yn unig yn Fryslân
G. Iwerddon	Gwyddeleg
Gwlad Pwyl	Casiwbeg
Portiwgal	Mirandeg
Rwmania	Bwlgareg, Croateg, Almaeneg, Hwngareg, Eidaleg, Pwyleg, Romani, Rwseg-Lipofan, Serbeg, Slofaceg, Tyrceg, Wcreineg
Yr Alban	Gaeleg yr Alban
Sbaen (Madrid, Valencia, Sevilla)	Falenseg yn Valencia yn unig
Y Swistir	Ieithoedd Cenedlaethol Eraill: Ffrangeg, Almaeneg, Eidaleg
Yr Wcráin	Belarwseg, Bwlgareg, Tatareg y Crimea, Gagaus, Almaeneg, Groeg, Hwngareg, Moldofeg, Pwyleg, Rwmaneg, Rwseg, Slofaceg, Iddew-Almaeneg
Cymru	Cymraeg

Ceir arlwy gyfoethog mewn nifer o wledydd/rhanbarthau, gydag Awstria, Bwlgaria, Hwngari, yr Eidal, Lithwania, Rwmania a'r Wcráin yn cynnig pedair neu fwy o ieithoedd rhanbarthol/lleiafrifol naill ai fel pynciau neu yn y rhan fwyaf o achosion fel cyfrwng addysgu.

Dysgu ieithoedd mewn fudwyr mewn addysg gynradd

O ran ieithoedd mewn fudwyr, gofynnwyd cyfres debyg o gwestiynau i'n hymchwilyr â'r rhai a ofynnwyd am ieithoedd rhanbarthol/lleiafrifol ac ieithoedd tramor. Dim ond pum gwlad sy'n nodi eu bod yn cynnig darpariaeth sylweddol o ieithoedd mewn fudwyr ar lefel gynradd. Y rhain yw Awstria, Denmarc, Ffrainc, Sbaen (yn Madrid a Valencia) a'r Swistir (yng nghanton Zürich) a nodir y canlyniadau ar gyfer y pum gwlad hyn yn Nhabl 18.

Tabl 18: Trefniadaeth dysgu ieithoedd mewn fudwyr mewn addysg gynradd mewn pum gwlad/rhanbarth

Meini prawf	Ymatebion	Nifer	Ymatebion	Nifer	Ymatebion	Nifer
Grwpiau targed	pawb	2	plant mewn fudwyr yn unig	3	heb ei nodi	0
Cwricwlwm cydlynol a chilir	cydlynol a chilir	2	cyffredinol	3	dim canllawiau	0
Iaith yn cael ei defnyddio fel cyfrwng addysgu	eang	1	lleol	3	pwnc yn unig	1
Dechrau addysg iaith	o flwyddyn un	2	o'r cyfnod canol	1	o'r cyfnod olaf	2
Amserlennu	yn ystod oriau ysgol	0	yn rhannol yn yr ysgol	2	y tu allan i'r ysgol	3
Gofynion o ran isafswm maint y grŵp	dim	2	5-10 o ddisgyblion	1	>10 o ddisgyblion	2
Monitro sgiliau iaith	lefel genedlaethol	0	lefel leol	5	dim	0
Lefel i'w chyrraedd	lefel genedlaethol/rhanbarthol	0	lefel ysgol	0	dim	5
Yr arian sydd ar gael gan y wladwriaeth	llawn	2	rhannol	3	dim	0

Yn Ffrainc a'r Swistir, mae dosbarthiadau ieithoedd mewn fudwyr ar gael i bob plentyn, tra yn Awstria, Denmarc a Sbaen (Madrid, Valencia, Sevilla) dim ond i siaradwyr brodorol ieithoedd mewn fudwyr y'u cynigir. Nid oes unrhyw ofynion o ran isafswm maint y grŵp yn y Swistir na Ffrainc, ond yn Sbaen rhaid cael dros bum disgybl i ddechrau dosbarth, ac yn Awstria a Denmarc rhaid cael grŵp o 10 o ddisgyblion. Yn Awstria a Denmarc, ceir cwricwlwm cydlynol a chilir, tra yn y gwledydd eraill mynegir y cwricwlwm mewn termau cyffredinol. Yn Sbaen, mae'n beth cyffredin defnyddio ieithoedd mewn fudwyr fel cyfrwng addysgu, tra yn Awstria, Denmarc a Ffrainc mae hyn yn llai cyffredin, ac yn y Swistir dim ond fel pwnc y caiff yr ieithoedd hyn eu haddysgu. Mae Sbaen a'r Swistir yn cynnig gwersi yn rhannol yn ystod oriau ysgol, tra yn y gwledydd eraill fe'u cynigir fel gweithgareddau allgyrsiol. Nid yw cyflawniad mewn ieithoedd mewn fudwyr yn gysylltiedig ag unrhyw safonau cenedlaethol, rhanbarthol na lefel ysgol, er bod datblygiad sgiliau iaith yn cael ei fonitro ym mhob gwlad. Caiff gwersi mewn ieithoedd mewn fudwyr eu hariannu'n llawn gan y wladwriaeth yn Awstria a Denmarc, tra yn Ffrainc, Sbaen a'r Swistir fe'u cefnogir gan y famwlad yn bennaf.

Nodir yr ieithoedd mewn fudwyr a gynigir ym mhob gwlad yn Nhabl 19.

Tabl 19: Darpariaeth ieithoedd mewn fudwyr mewn addysg gynradd mewn pum gwlad

Gwlad/rhanbarth	Ieithoedd mewn fudwyr a gynigir mewn addysg gynradd
Awstria	Albaneg, Bosnieg/Serbeg/Croateg, Pwyleg, Rwseg, Tyrceg
Denmarc	Albaneg, Arabeg, Bosniog, Islandeg, Somali, Tamil, Tyrceg, Wrddw/Pwnjabeg
Ffrainc	Arabeg, Tsieinëeg, Eidaleg, Portiwgaleg, Serbeg, Sbaeneg, Tyrceg
Sbaen (Madrid, Valencia, Sevilla)	Arabeg (Morocaidd) a Phortiwgaleg yn Madrid a Valencia
Y Swistir	Yn Zürich: Albaneg, Arabeg, Bosniog/Serbeg/Croateg, Bwlgareg, Tsieinëeg, Ffinneg, Ffrangeg, Groeg, Hwngareg, Eidaleg, Corëeg, Cwrdeg, Portiwgaleg, Tyrceg, Rwseg, Sbaeneg, Slofeneg, Swedeg
Y Swistir	Yn Geneva: Albaneg, Arabeg, Eidaleg, Portiwgaleg, Sbaeneg, Tyrceg

Datblygiad athrawon mewn addysg gynradd

Mae'r UE a Chyngor Ewrop bob amser wedi tanlinellu pwysigrwydd recriwtio a datblygu athrawon iaith cymwysedig er mwyn helpu myfyrwyr i feithrin sgiliau iaith a rhyngddiwyllynnol. Pwysleisir y ffaith bod angen i athrawon feithrin eu sgiliau iaith eu hunain, yn ogystal â sgiliau rhyngddiwyllynnol ac ymwybyddiaeth o amlieithrwydd a lluosieithrwydd. Nodwyd bod cynlluniau symudedd athrawon, sy'n eu hannog i dreulio amser dramor yng ngwlad yr iaith y maent yn ei haddysgu, yn ffordd werthfawr o'u helpu i gyflawni'r amcanion hyn. (CE 2008: 11).

Yn arolwg Ewrop Gyfoethog ei Hieithoedd, gofynnwyd am y canlynol:

- cymwysterau athrawon
- hyfforddiant cyn swydd a'r hyfforddiant mewn swydd a ddarperir i athrawon
- symudedd athrawon ieithoedd tramor
- mesurau i gynyddu nifer yr athrawon pan fo prinder

Yn Nhabl 20, nodir y canlyniadau ar gyfer y pedwar math o iaith mewn addysg gynradd ar gyfer pob gwlad/rhanbarth. Mae'n bwysig cofio nad yw pob math o iaith yn cael ei gynnig ym mhob gwlad/rhanbarth, ac mae hynny'n cyfrif am y sgôr isel yn enwedig o ran ieithoedd mewnfudwyr, a gynigir mewn pum gwlad/rhanbarth yn unig.

Tabl 20: Cymwysterau a datblygiad athrawon mewn addysg gynradd mewn 24 o wledydd/rhanbarthau

Dimensiwn	Ymatebion	Nifer y gwledydd				Ymatebion	Nifer y gwledydd				Ymatebion	Nifer y gwledydd			
		IC	RH/LL	IT	IM		IC	RH/LL	IT	IM		IC	RH/LL	IT	IM
Cymwysterau athrawon	athrawon iaith cymwysedig	16	17	14	2	athrawon cymwysedig cyffredinol	8	5	9	3	dim cymhwyster penodol	0	2	1	19
Hyfforddiant cyn swydd	pwnc-benodol	20	18	17	1	cyffredinol	4	3	4	2	dim	0	3	3	21
Hyfforddiant mewn swydd	pwnc-benodol	16	14	20	1	cyffredinol	7	7	2	4	dim	1	3	1	14
Mesurau i gynyddu cyflenwad	mesurau strwythurol	3	7	8	0	ymgyrchoedd recriwtio yn y wasg	1	2	2	0	dim mesurau penodol	20	15	14	24
Symudedd athrawon	rhan o'r hyfforddiant	Dd/G	Dd/G	2	Dd/G	cymorth ariannol anffurfiol	Dd/G	Dd/G	13	Dd/G	dim	Dd/G	Dd/G	9	Dd/G

Yn ôl yr ymatebion i'n harolwg, caiff athrawon iaith cymwysedig eu cyflogi i addysgu ieithoedd mewn tua dwy ran o dair o'r gwledydd/rhanbarthau dan sylw; 16 o 24 yn yr iaith genedlaethol, 17 o 22 mewn ieithoedd rhanbarthol/lleiafrifol, 14 o 23 mewn ieithoedd tramor, a dwy o bump mewn ieithoedd mewnfudwyr. Wrth gwrs, lle ceir dysgu integredig cynnwys ac iaith (CLIL), mae'n llai pwysig bod yr athrawon yn athrawon iaith cymwysedig mewn gwirionedd (er bod angen i lefelau iaith fod yn uchel), ac mewn llawer o gyd-destunau cynradd, byddai athrawon iaith cymwysedig ar gyfer addysgu cyffredinol yn yr iaith genedlaethol ac ieithoedd rhanbarthol/lleiafrifol yn beth anarferol. Fodd bynnag, byddai disgwyl i athrawon ieithoedd tramor feddu ar gymhwyster ffurfiol. Yn Awstria, Lloegr, Ffrainc, Fryslân, yr Eidal, yr Iseldiroedd, Gogledd Iwerddon, yr Alban a'r Swistir, caiff ieithoedd tramor eu haddysgu gan athrawon dosbarth â chymwysterau cyffredinol.

Mae rhaglenni datblygu athrawon cyn swydd ac mewn swydd, naill ai o natur benodol neu gyffredinol, yn gyffredin ym mhob gwlad, er bod yr Eidal a Gogledd Iwerddon yn nodi nad oes unrhyw hyfforddiant cyn swydd ar gyfer athrawon ieithoedd tramor, ac yng Ngwlad Groeg nid oes unrhyw hyfforddiant mewn swydd i athrawon yr iaith genedlaethol. Nid yw athrawon ieithoedd rhanbarthol/lleiafrifol Cernyweg yn Lloegr yn cael unrhyw hyfforddiant ffurfiol ychwaith. O ran addysgu ieithoedd mewnfudwyr, dim ond Awstria sy'n darparu hyfforddiant cyn swydd ac mewn swydd pwnc-benodol. Yn anochel, ni allai'r arolwg edrych yn fanwl ar natur rhaglenni datblygu athrawon, ac fe'i hawgrymir fel maes i ymchwilio iddo ymhellach.

Maes arall a oedd y tu hwnt i gwmpas yr arolwg oedd y gallai athrawon ieithoedd rhanbarthol/lleiafrifol yn ogystal ag ieithoedd mewnfudwyr gael eu diffinio'n ffurfiol fel athrawon ieithoedd brodorol os ydynt yn addysgu mewn ysgolion mewnfudwyr neu leiafrifol, neu fel athrawon ieithoedd tramor os ydynt yn addysgu siaradwyr anffurfiol yr iaith sy'n mynychu'r ysgol cymuned leiafrifol neu ffurfiol. Felly, gallant ddewis i ymuno â naill ai rhaglenni datblygu athrawon ar gyfer athrawon ieithoedd brodorol neu dramor, yn dibynnu ar eu sefyllfa addysgu.

Yn maes amlwg i'w ddatblygu o ran addysgu ieithoedd tramor yw symudedd athrawon. Dywed naw gwlad/rhanbarth o blith 24 na chânt unrhyw gymorth yn y maes hwn, a dim ond Catalwnia a'r Swistir sy'n nodi bod ganddynt raglenni symudedd athrawon strwythuredig. Mae 13 o wledydd eraill yn annog symudedd ac yn darparu cymorth ariannol, ond yn amlwg gellid gwneud mwy i ysgogi athrawon iaith i dreulio mwy o amser yng ngwlad yr iaith y maent yn ei haddysgu a hefyd gysoni ag argymhellion yr UE sy'n amlygu symudedd athrawon a chyfnewid athrawon fel dulliau pwysig o'u helpu i feithrin gwell sgiliau ieithyddol a diwylliannol.

Un canfyddiad diddorol yw'r ffaith bod nifer o wledydd/rhanbarthau yn cymryd camau i gynyddu nifer yr athrawon iaith, a fyddai'n dwyn ffrwyth o ran cyfnewid gwybodaeth. A yw hyn yn golygu bod mwy o alw, neu'n syml fod nifer yr athrawon yn lleihau? Yng Ngwlad y Basg, Denmarc, Estonia a'r Swistir caiff camau arbennig eu cymryd i recriwtio mwy o athrawon ar gyfer yr iaith genedlaethol. Mae Bwlgaria, Denmarc, Lloegr, Fryslân, Hwngari, Lithwania a'r Wcráin yn cymryd camau i hyrwyddo a hwyluso'r broses o recriwtio a hyfforddi athrawon ieithoedd tramor cymwysedig. Mae atgyfodiad llawer o ieithoedd rhanbarthol/lleiafrifol a'r gwaith i'w hyrwyddo yn debygol o fod yn rheswm dros y ffaith bod Sbaen (Gwlad y Basg), Bosnia a Herzegovina, Denmarc, Gogledd Iwerddon, yr Alban, Sbaen (Madrid, Valencia, Sevilla) a'r Wcráin yn cymryd

camau arbennig i recriwtio athrawon ieithoedd rhanbarthol/lleiafrifol. Fodd bynnag, ni nodir bod unrhyw un o'r gwledydd/rhanbarthau wrthi'n recriwtio athrawon ieithoedd mewnfudwyr eto – maes i'w ddatblygu mae'n rhaid.

2.4 Ieithoedd mewn addysg uwchradd

Mae dogfennau'r UE a Chyngor Ewrop ar amlieithrwydd yn pwysleisio bod angen i fyfyrwyr adeiladu ar y gwersi iaith sylfaenol yn yr ysgol gynradd wrth iddynt symud i addysg uwchradd, gan ehangu nifer yr ieithoedd a ddysgir ganddynt a'u gallu i gyfathrebu ynddynt, gyda'r bwriad o weithio neu ymgymryd ag addysg bellach neu addysg uwch yn y dyfodol.

Yn ôl Argymhelliad CM/R (98) 6 Cyngor Ewrop, dylai ieithoedd gael eu dysgu mewn ysgolion uwchradd er mwyn:

parhau i godi'r safon gyfathrebu y disgwylir i ddisgyblion ei chyrraedd er mwyn iddynt allu defnyddio'r iaith a astudiwyd i gyfathrebu'n effeithiol gydag unigolion eraill sy'n siarad yr iaith honno mewn trafodion bob dydd, meithrin cydberthnasau cymdeithasol a phersonol a dysgu i ddeall a pharchu diwylliannau ac arferion pobl eraill.

Dylai ysgolion uwchradd gynnig amrywiaeth ehangach o ieithoedd yn gyffredinol, a rhoi cyfle i fyfyrwyr ddysgu mwy nag un iaith Ewropeaidd neu iaith arall. Dylai lefelau cyrraedd gael eu monitro gan ddefnyddio meincnodau Ewropeaidd safonol, gan gynnwys cydnabyddiaeth o gymwyseddau rhannol lle y bo'n briodol. Argymhellir y dylid defnyddio dysgu integredig cynnwys ac iaith (CLIL) yn fwy eang. Ystyrir bod datblygiad a symudedd athrawon, a'r broses o greu rhwydweithiau rhyngwladol a meithrin cydweithrediad rhwng gwledydd er mwyn sefydlu prosiectau ar y cyd yn bwysig hefyd o ran sicrhau llwyddiant. Strwythurwyd ein gwaith ymchwil er mwyn ystyried llawer, er nad pob un, o'r agweddau uchod.

Wrth gwrs, mae'n anos cymharu addysg uwchradd mewn gwledydd gwahanol na chymharu addysg gynradd; mae amrywiaeth o ysgolion arbenigol y gall myfyrwyr ddewis ohonynt, caiff ysgolion uwchradd is ac ysgolion uwchradd uwch eu strwythuro'n wahanol mewn gwledydd gwahanol (gweler y Rhestr Termau) ac mae'r ffordd y caiff rhaglenni iaith eu cynllunio yn amrywio'n sylweddol hefyd. Er gwaethaf yr heriau hyn, aeth ein hymchwilyr ati i gasglu data ar y modd y caiff y broses o addysgu ieithoedd ei threfnu a datblygiad athrawon ar gyfer pob math o iaith mewn 24 o wledydd/rhanbarthau.

Cymorth ar gyfer yr iaith genedlaethol mewn addysg uwchradd – trefniadaeth

Mae cymorth ar gyfer yr iaith genedlaethol yn parhau i fod yn bwysig ar lefel uwchradd ar gyfer newydd-ddyfodiad a phob un arall sy'n ei chael hi'n anodd deall a chyfathrebu yn yr iaith genedlaethol. Gofynnwyd yr un cwestiynau ag a ofynnwyd am addysg gynradd i'n hymchwilyr, sef:

- i ba raddau y ceir cwricwlwm cydlynol a chlir
- lefel y cymorth ychwanegol a roddir i newydd-ddyfodiad
- bodolaeth profion diagnostig wrth ddechrau addysg uwchradd
- monitro sgiliau iaith.

Nodir y canlyniadau yn Nhabl 21.

Tabl 21: Y modd y trefnir cymorth yn yr iaith genedlaethol mewn addysg uwchradd mewn 24 o wledydd/rhanbarthau

Meini prawf	Ymatebion	Nifer	Ymatebion	Nifer	Ymatebion	Nifer
Cwricwlwm	cydlynol a chlir	20	cyffredinol	4	dim	0
Cymorth ychwanegol i newydd-ddyfodiaid	llawn	21	rhannol	0	dim	3
Profion diagnostig wrth ddechrau addysg uwchradd	i bawb	9	i blant mewnfudwyr yn unig	5	dim	10
Monitro sgiliau iaith	lefel genedlaethol	15	lefel ysgol	8	dim	1

Yn ôl adroddiadau ein hymchwilyr, mae 20 o wledydd/rhanbarthau yn meddu ar gwricwlwm cydlynol a chlir ar gyfer yr iaith genedlaethol, tra bod y cwricwlwm yn cael ei fynegi mewn termau cyffredinol yn Fryslân, yr Eidal, Gogledd Iwerddon a'r Iseldiroedd. Rhoddir cymorth ychwanegol yn yr iaith genedlaethol i newydd-ddyfodiaid naill ai cyn neu yn ystod addysg brif ffrwd mewn 21 o wledydd/rhanbarthau, ond nid oes unrhyw ddarpariaeth yn Nenmarc, yr Eidal na'r Wcráin. Mae union natur y cymorth a roddir, a'r gwahaniaeth a wna i lwyddiant academiaidd myfyrwyr, yn faes y mae angen ymchwilio iddo ymhellach. Fel y gwelir gydag addysg gynradd, mae nifer gymharol fach o wledydd/rhanbarthau yn cynnal prawf canfod hyfedredd ar sail anghenion ar gyfer pob myfyriwr yn yr iaith genedlaethol ar ddechrau addysg uwchradd. Ymhlith y gwledydd hynny mae Bosnia a Herzegovina, Catalwnia, Lloegr, Ffrainc, Gwlad Pwyl, Portiwgal, yr Alban, yr Wcráin a Chymru. Mae pum gwlad/rhanbarth arall – Bwlgaria, Hwngari, Lithwania, Sbaen a Gwlad y Basg – yn darparu profion diagnostig ar gyfer myfyrwyr sy'n fewnfudwyr yn unig. Mae natur y profion a'r modd y defnyddir y wybodaeth i lywio cynllun y maes llafur a rhoi cymorth parhaus yn faes arall y mae angen ei archwilio ymhellach. Fel y gwelir gydag addysg gynradd, caiff sgiliau iaith genedlaethol eu monitro'n rheolaidd, gyda 15 o wledydd/rhanbarthau yn gwneud hyn ar lefel genedlaethol ac wyth ar lefel leol. Nid yw Denmarc yn ymgymryd ag unrhyw waith monitro mewn perthynas â sgiliau iaith genedlaethol mewn addysg uwchradd.

leithoedd tramor mewn addysg uwchradd

Mae Tabl 22 yn rhoi trosolwg o'r modd y caiff y broses o addysgu ieithoedd tramor ei threfnu mewn addysg uwchradd. Gofynnwyd i'n hymatebwyr am y canlynol:

- grwpiau targed
- nifer yr ieithoedd a addysgir a ph'un a ydynt yn orfodol ai peidio
- i ba raddau y ceir cwricwlwm cydlynol a chlir
- lledaeniad CLIL
- amserlennu yn ystod y diwrnod ysgol
- gofynion o ran isafswm maint y grŵp
- monitro sgiliau iaith
- y lefel y mae angen ei chyrraedd a chydawnsedd â'r CEFR
- lefel yr arian sydd ar gael gan y wladwriaeth.

Tabl 22: Y modd y trefnir y broses o addysgu ieithoedd tramor mewn addysg uwchradd mewn 24 o wledydd/rhanbarthau

Meini prawf	Ymatebion	Nifer	Ymatebion	Nifer	Ymatebion	Nifer
Grwpiau targed	pawb	24	cyfyngedig	0	dim cymorth	0
Nifer yr ieithoedd tramor gorfodol (lefel uwchradd is)	dwy	14	un	10	dim	0
Nifer yr ieithoedd tramor gorfodol (lefel uwchradd uwch)	dwy	9	un	10	dim	5
Cwricwlwm	cydlynol a chlir	20	cyffredinol	4	dim canllawiau	0
Iaith yn cael ei defnyddio fel cyfrwng addysgu (CLIL)	eang	1	mewn rhai ardaloedd	14	pwnc yn unig	9
Amserlennu	yn ystod oriau ysgol	23	yn rhannol yn yr ysgol	1	y tu allan i'r ysgol	0
Gofynion o ran isafswm maint y grŵp	dim	19	5-10 o ddisgyblion	5	>10 o ddisgyblion	0
Monitro sgiliau iaith	lefel genedlaethol safonol	11	lefel ysgol	13	absennol	0
Y lefel y mae angen ei chyrraedd	wedi'i chysylltu â'r CEFR	13	lefel genedlaethol neu lefel ysgol	7	dim	4
Yr arian sydd ar gael gan y wladwriaeth	llawn	24	rhannol	0	dim	0

Fel y disgwylir, mae pob gwlad/rhanbarth a oedd yn rhan o'r arolwg yn cynnig ieithoedd tramor ar lefel uwchradd is a lefel uwchradd uwch. Fodd bynnag, mae gwahaniaethau sylweddol o ran nifer yr ieithoedd gorfodol a gynigir, yr amrywiaeth o ieithoedd, y broses o fonitro sgiliau iaith, y defnydd o CLIL, a'r graddau y defnyddir y Fframwaith Cyfeirio Ewropeaidd Cyffredin (CEFR) i werthuso'r lefel a gyflawnwyd.

Mae 20 o wledydd/rhanbarthau yn nodi bod ganddynt gwricwlwm cydlynol a chlir, gyda dim ond yr Iseldiroedd, Gogledd Iwerddon, Ffrainc a'r Eidal yn nodi bod y cwricwlwm hwnnw'n cael ei fynegi mewn termau cyffredinol. O ran addysg gynradd, nodwyd defnydd eang o CLIL mewn un wlad, sef Sbaen, ac ar lefel uwchradd, Ffrainc sy'n hawlio'r anrhydedd honno, gyda 14 o wledydd/rhanbarthau yn nodi mentrau lleol a naw yn nodi nad oes unrhyw weithgarwch CLIL o gwbl. Ceir astudiaeth o CLIL ar gyfer pob math o iaith yn adran 2.5. Yn gyffredinol, nid oes unrhyw ofynion o ran maint y grŵp ar gyfer addysgu ieithoedd tramor, er bod Bwlgaria, Denmarc, Gwlad Groeg, Lithwania a Rwmania yn nodi bod angen o leiaf bum myfyriwr i ddechrau rhai cyrsiau, yn enwedig ar gyfer cyrsiau dewisol mewn ieithoedd llai eu defnydd. Mae 11 o wledydd/rhanbarthau yn monitro sgiliau iaith ar lefel genedlaethol a 13 ar lefel ysgol.

Mae Tabl 23 yn dangos y graddau y mae gwledydd/rhanbarthau yn cynnig ieithoedd gorfodol ar lefel uwchradd.

Er bod dysgu dwy iaith dramor mewn ysgolion uwchradd is yn orfodol mewn 14 o wledydd/rhanbarthau, dim ond mewn naw y mae hynny'n orfodol ar lefel uwchradd uwch, gyda Denmarc, Fryslân, yr Eidal, Lithwania, yr Iseldiroedd a'r Wcráin yn lleihau'r gofyniad o ddwy i un, a Gwlad Groeg o ddwy i ddim. Mae Hwngari yn cynyddu'r gofyniad o un i ddwy. Yr unig wledydd/rhanbarthau lle mae dwy iaith yn orfodol ar lefel uwchradd is a lefel uwchradd uwch yw Awstria, Estonia, Ffrainc, Gwlad Pwyl, Portiwgal, Rwmania a'r Swistir. Yn Lloegr, Gogledd Iwerddon a Chymru mae un iaith dramor yn orfodol ar lefel uwchradd is ond, ar y cyd â Gwlad Groeg, dyma'r unig wledydd/rhanbarthau o blith y rhai a gymerodd ran yn yr arolwg lle nad oes unrhyw ieithoedd tramor yn orfodol ar lefel uwchradd uwch. Yn yr Alban, mae dysgu iaith yn hawliad ar lefel uwchradd is ac uwch ac felly nid yw'n orfodol yn dechnegol, er, yn ymarferol, mae'r rhan fwyaf o blant yn dysgu iaith dramor yn yr ysgol uwchradd.

Tabl 23: Nifer yr ieithoedd gorfodol mewn ysgolion uwchradd is ac ysgolion uwchradd uwch mewn 24 o wledydd/rhanbarthau

Nifer yr ieithoedd gorfodol	Dwy iaith yn orfodol	Un iaith yn orfodol	Dim ieithoedd yn orfodol
Lefel uwchradd is	Awstria, Denmarc, Estonia, Ffrainc, Fryslân, Gwlad Groeg, yr Eidal, Lithwania, yr Iseldiroedd, Gwlad Pwyl, Portiwgal, Rwmania, y Swistir, yr Wcráin	Gwlad y Basg, Bosnia a Herzegovina, Bwlgaria, Catalwnia, Lloegr, Hwngari, Gogledd Iwerddon, Sbaen (Madrid, Valencia, Sevilla), Cymru	Yr Alban
Lefel uwchradd uwch	Awstria, Bwlgaria, Estonia, Ffrainc, Hwngari, Gwlad Pwyl, Portiwgal, Rwmania, y Swistir	Gwlad y Basg, Bosnia a Herzegovina, Catalwnia, Denmarc, Fryslân, yr Eidal, Lithwania, yr Iseldiroedd, Sbaen, yr Wcráin	Lloegr, Gwlad Groeg, Gogledd Iwerddon, yr Alban, Cymru

Fel y disgwylir, mae targedau cyrhaeddiad sy'n gyson â'r Fframwaith Cyfeirio Ewropeaidd Cyffredin ar gyfer ieithoedd tramor yn fwy sefydledig mewn ysgolion uwchradd o gymharu ag ysgolion cynradd yn y gwledydd/rhanbarthau a gymerodd ran, gyda 13 ohonynt yn nodi'n glir lefel y mae angen ei chyrraedd. Nodir y safonau a bennir yn Nhabl 24.

Tabl 24: Targedau cyrhaeddiad y Fframwaith Cyfeirio Ewropeaidd Cyffredin ar gyfer addysgu ieithoedd tramor mewn ysgolion uwchradd mewn 13 o wledydd/rhanbarthau

Gwlad/ rhanbarth	Lefel hyfedredd a ddisgwylir ar ddiwedd addysg uwchradd
Awstria	B2
Gwlad y Basg	B1
Bwlgaria	B1-B2 ar gyfer yr iaith dramor gyntaf; A1 ar gyfer yr ail iaith dramor
Denmarc	B2
Estonia	Uwchradd is: iaith dramor gyntaf: B1; ail iaith dramor: A2 Uwchradd uwch: dwy iaith dramor ar lefel B (naill ai B1 neu B2)
Ffrainc	Lefel B2 ar gyfer yr iaith dramor gyntaf; lefel B1 ar gyfer yr ail iaith dramor A2/B1 ar gyfer y drydedd iaith dramor
Fryslân	Yn dibynnu ar y math o ysgol, yn amrywio rhwng A1 a B2 (neu C1 ar gyfer sgiliau darllen)
Hwngari	iaith dramor gyntaf: B1 neu B2; Ail ieithoedd tramor B1
Lithwania	Lefel uwchradd is: iaith dramor gyntaf – B1; ail iaith dramor – A2; Lefel uwchradd uwch: Mewn cysylltiad â chyflawniadau ar lefel uwchradd is: B2, B1 neu A2
Yr Iseldiroedd	Yn dibynnu ar y math o ysgol, yn amrywio rhwng A1 a B2 (neu C1 ar gyfer sgiliau darllen)
Portiwgal	Lefelau yn amrywio o A.2.2 i B.1.2
Rwmania	B2
Y Swistir	Yng nghantonau Zürich a Genefa: B2.

Ymddengys mai B2 yw'r lefel y cytunir arni'n gyffredinol ar gyfer hyfedredd yn yr iaith dramor gyntaf, gyda B1 ar gyfer yr ail iaith. Gellir tybio bod y disgrifiadau lefel hyn wedi'u haddasu i'r grwpiau targed fel y bo'n briodol yn unol ag egwyddorion CEFR. Bydd canlyniadau'r astudiaeth *SurveyLang* yn ddiweddarach eleni yn dangos i ba raddau y mae'r dyhead hwn yn cael ei wireddu.

leithoedd rhanbarthol/lleiafrifol mewn addysg uwchradd

O dan ECRML a rhwymedigaethau cenedlaethol, mae gwledydd/rhanbarthau yn dal i fod yn ymrwymedig i addysgu ieithoedd rhanbarthol/lleiafrifol a chynnig addysg drwy gyfrwng yr ieithoedd hynny, a gofynnwyd cwestiynau tebyg i'r rhai a ofynnwyd am ieithoedd tramor i ymchwilyr, gan holi am y canlynol:

- grwpiau targed
- i ba raddau y ceir cwricwlwm cydlynol a chlir
- lledaeniad CLIL
- amserlennu yn ystod y diwrnod ysgol
- gofynion o ran maint y grŵp
- monitro sgiliau iaith
- y lefel y mae angen ei chyrraedd
- lefel yr arian sydd ar gael gan y wladwriaeth.

Mae 19 o wledydd/rhanbarthau yn cynnig ieithoedd rhanbarthol/lleiafrifol ar lefel addysg uwchradd a dangosir y canlyniadau yn Nhabl 25.

Tabl 25: Y modd y caiff y broses o addysgu ieithoedd rhanbarthol/lleiafrifol ei threfnu mewn addysg uwchradd mewn 19 o wledydd/rhanbarthau

Meini prawf	Ymatebion	Nifer	Ymatebion	Nifer	Ymatebion	Nifer
Grwpiau targed	pawb	18	cyfyngedig	1	heb ei nodi	0
Cwricwlwm cydlynol a chlir	cydlynol a chlir	16	cyffredinol	3	dim canllawiau	0
Iaith yn cael ei defnyddio fel cyfrwng addysgu (CLIL)	eang	10	mewn rhai ardaloedd	8	pwnc yn unig	1
Amserlennu	yn ystod oriau ysgol	15	yn rhannol yn yr ysgol	3	y tu allan i'r ysgol	1
Gofynion o ran isafswm maint y grŵp	dim	13	5-10 o ddisgyblion	1	>10 o ddisgyblion	5
Monitro sgiliau iaith	profion cenedlaethol/rhanbarthol safonol	10	profion yn yr ysgol	8	dim profion	1
Y lefel y mae angen ei chyrraedd	lefel genedlaethol/ranbarthol	14	lefel ysgol	3	dim	2
Yr arian sydd ar gael gan y wladwriaeth	llawn	19	rhannol	0	dim	0

Y gwledydd/rhanbarthau nad ydynt yn cynnig addysg mewn ieithoedd rhanbarthol/lleiafrifol yw Denmarc, Lloegr, Estonia, Gwlad Groeg a Gwlad Pwyl. O'r 19 sy'n cynnig y ddarpariaeth honno, caiff CLIL ei ddefnyddio'n eang mewn 10 ohonynt, ac mae i'w gael mewn rhai ardaloedd mewn wyth ohonynt. Dim ond ym Mwlgaria y caiff yr ieithoedd hyn eu haddysgu fel pynciau yn unig. Mae cyrsiau ar gael i bob disgybl ac eithrio ym Mwlgaria, lle maent ar gael i siaradwyr brodorol yn unig. Cynhelir y cyrsiau yn ystod oriau ysgol ac eithrio yn Awstria, Bosnia a Herzegovina a Bwlgaria, lle cânt eu hamserlennu'n rhannol yn ystod oriau ysgol ac yn rhannol y tu allan i oriau ysgol. Nid oes unrhyw ofnyion o ran maint y grŵp mewn 13 o wledydd/rhanbarthau, er bod angen o leiaf bum myfyriwr mewn dosbarth yn yr Alban ac o leiaf 10 myfyriwr mewn dosbarth yn Awstria, Bwlgaria, Ffrainc, Gogledd Iwerddon a Rwmania. Mae 18 o wledydd/rhanbarthau yn monitro'r sgiliau iaith a gaffaelir naill ai drwy brofion cenedlaethol/rhanbarthol neu brofion ysgol. Ni cheir unrhyw weithgarwch monitro yn yr Eidal. Nid yw Awstria na Chymru yn pennu unrhyw dargedau ar gyfer y safon y mae angen ei chyflawni, yn wahanol i bob gwlad arall. Mae pob gwlad/rhanbarth yn cynnig yr ieithoedd yn rhad ac am ddim i bob disgybl.

leithoedd mewnfudwyr mewn addysg uwchradd

Wrth i ni weld mwy o symudedd ac ymfudo yn Ewrop ac i mewn i Ewrop o'r tu allan, mae nifer yr ieithoedd mewnfudwyr a siaredir mewn ysgolion Ewropeaidd wedi cynyddu'n ddramatig ac mae llawer o blant yn cael eu haddysgu drwy gyfrwng eu hail iaith. Mae dogfennau Ewropeaidd wedi bod yn awyddus i bwysleisio pwysigrwydd gwerthfawrogi pob un o ieithoedd a diwylliannau'r ystafell ddosbarth, gydag Argymhelliad CM/R (98) 6 Cyngor Ewrop yn annog Aelod-wladwriaethau i sicrhau bod:

yr un parch yn cael ei ddangos tuag at bob iaith a diwylliant dan sylw fel y gall plant ym mhob cymuned gael y cyfle i ddatblygu llfaredd a llythrennedd yn iaith eu cymuned eu hunain yn ogystal â dysgu i ddeall a gwerthfawrogi iaith a diwylliant plant eraill.

Roedd Papur Gwyrdd y Comisiwn Ewropeaidd ar Ymfudo a Symudedd (2008) yn cyfeirio'n ôl at Gyfarwydddeb 77/486/CEE a oedd yn nodi y dylai Aelod-wladwriaethau:

hyrwyddo'r broses o addysgu mamiaith a diwylliant y famwlad, ar y cyd ag addysg arferol, mewn cydweithrediad â'r Aelod-wladwriaeth enedigol.

Fel rhan o'n gwaith ymchwil Ewrop Gyfoethog ei Hieithoedd, aethom ati i ystyried y graddau y mae Aelod-wladwriaethau yn rhoi cyfle i fewnfudwyr ac eraill ddysgu'r ieithoedd hyn. Fel y gwelsom ar lefel cyn cynradd a chynradd, prin iawn yw'r gwledydd/rhanbarthau lle cynigir y dewis hwn yn systematig (tri/tair ar lefel cyn cynradd a phump ar lefel gynradd) ac, ar lefel uwchradd, cafwyd ymateb cadarnhaol gan wyth gwlad/rhanbarth allan o 24, sef Awstria, Denmarc, Lloegr, Estonia, Ffrainc, yr Iseldiroedd, yr Alban a'r Swistir.

Yn Nhabl 26, ceir trosolwg o ieithoedd mewnfudwyr yn y gwledydd hyn, gan ganolbwyntio ar:

- grwpiau targed
- i ba raddau y ceir cwricwlwm cydlynol a chlir
- lledaeniad CLIL
- amserlennu yn ystod y diwrnod ysgol
- gofynion o ran maint y grŵp
- monitro sgiliau iaith
- y lefel y mae angen ei chyrraedd
- lefel yr arian sydd ar gael gan y wladwriaeth.

Tabl 26: Y modd y caiff y broses o addysgu ieithoedd mewnfudwyr ei threfnu mewn addysg uwchradd mewn 8 o wledydd/rhanbarthau

Meini prawf	Ymatebion	Nifer	Ymatebion	Nifer	Ymatebion	Nifer
Grwpiau targed	pawb	4	wedi'i chyfyngu i siaradwyr brodorol yn unig	3	heb ei nodi	1
Cwricwlwm cydlynol a chlir	cydlynol a chlir	3	cyffredinol	3	dim canllawiau	2
Iaith yn cael ei defnyddio fel cyfrwng addysgu (CLIL)	eang	1	lleol	2	pwnc yn unig	5
Amserlennu	yn ystod oriau ysgol	1	yn rhannol yn yr ysgol	1	y tu allan i'r ysgol	6
Gofynion o ran isafswm maint y grŵp	dim	4	5-10 o ddisgyblion	2	>10 o ddisgyblion	2
Monitro sgiliau iaith	profion cenedlaethol safonol	1	profion yn yr ysgol	5	dim	2
Y lefel y mae angen ei chyrraedd	wedi'i chysylltu â safonau cenedlaethol	2	lefel ysgol	3	dim	3
Yr arian sydd ar gael gan y wladwriaeth	llawn	5	rhannol	2	dim	1

O'r wyth gwlad/rhanbarth lle ceir darpariaeth, mae Lloegr, Denmarc, Ffrainc a'r Iseldiroedd yn cynnig ieithoedd megis Tyrceg ac Arabeg nid yn unig i ddisgyblion o'r cefndiroedd hyn, ond i bob disgybl uwchradd fel iaith dramor – model y gellir ei amlygu fel arfer da i wledydd/rhanbarthau eraill ei ddilyn. Ffrainc yw'r unig wlad/rhanbarth sy'n cynnig CLIL ar raddfa eang, tra bod Awstria a'r Swistir yn cynnig y ddarpariaeth mewn rhai ardaloedd. Mae'r Iseldiroedd yn cynnig ieithoedd mewnfudwyr fel rhan o'r cwricwlwm yn ystod amser ysgol, tra bod Lloegr a'r Swistir (Zürich yn unig) yn cynnig yr ieithoedd hyn yn rhannol yn ystod amser ysgol, a gwledydd/rhanbarthau eraill yn eu cynnig fel gweithgareddau allgyrsiol. Nid oes unrhyw ofynion o ran isafswm maint y grŵp yn Lloegr, Ffrainc, yr Iseldiroedd na'r Alban, tra bod angen o leiaf bum myfyriwr mewn dosbarth yn Nenmarc a'r Swistir ac o leiaf 10 myfyriwr mewn dosbarth yn Awstria ac Estonia. Caiff sgiliau iaith eu monitro gan ddefnyddio profion cenedlaethol safonol yn Lloegr, adnoddau ysgol yn Awstria, Denmarc, Ffrainc, yr Iseldiroedd a'r Swistir ac ni cheir unrhyw weithgarwch monitro yn Estonia na'r Alban. Estonia a'r Iseldiroedd yw'r unig wledydd/rhanbarthau lle pennir lefel hyfedredd y mae angen ei chyrraedd yn genedlaethol. Caiff ieithoedd mewnfudwyr eu hariannu'n llawn gan y wladwriaeth yn Awstria, Denmarc, Lloegr, yr Iseldiroedd a'r Alban. Gwledydd genedigol disgyblion sy'n fewnfudwyr sy'n ariannu'r ddarpariaeth yn Ffrainc a'r Swistir a rhieni sy'n talu yn Estonia. Yr unig wledydd sy'n cynnig ieithoedd mewnfudwyr ar lefel gynradd ac uwchradd yw Awstria, Denmarc, Ffrainc a'r Swistir.

Trosolwg o ieithoedd ar wahân i'r iaith genedlaethol a gynigir ar lefel uwchradd

Y tu hwnt i addysg gynradd, mae'n fwy anodd gwahaniaethu rhwng darpariaeth ieithoedd tramor, darpariaeth ieithoedd rhanbarthol/lleiafrifol a darpariaeth ieithoedd mewnfudwyr gan fod y grwpiau targed ar gyfer y ddarpariaeth yn mynd yn fwy amhenodol ac mae mwy o ieithoedd ar wahân i'r iaith genedlaethol yn dueddol o gael eu cynnig i ddisgyblion ni waeth beth fo iaith yr aelwyd. Er gwaethaf y cymhlethdodau hyn, rydym wedi cadw at yr hyn a ddefnyddiwyd i wahaniaethu rhwng ieithoedd tramor, ieithoedd rhanbarthol/lleiafrifol ac ieithoedd mewnfudwyr wrth ddisgrifio'r ddarpariaeth iaith mewn addysg cynradd ac addysg gynradd, tra'n cydnabod nad yw'r categorïau hyn yn fanwl gywir. Mae Tabl 27 yn rhoi trosolwg cymharol o'r ddarpariaeth ieithoedd rhanbarthol/lleiafrifol (yn bennaf), ieithoedd tramor (yn bennaf) ac ieithoedd mewnfudwyr (yn bennaf) mewn 24 o wledydd/rhanbarthau yn ôl adroddiadau ein hymchwilyr.

Tabl 27: Trosolwg cymharol o'r ddarpariaeth ieithoedd rhanbarthol/llieiafrifol (yn bennaf), ieithoedd tramor (yn bennaf) ac ieithoedd mewnfudwyr (yn bennaf) mewn addysg uwchradd (cynigir yr ieithoedd tramor a nodir mewn llythrennau italig ar lefel uwchradd uwch yn unig) mewn 24 o wledydd/rhanbarthau

Gwlad/rhanbarth	Ieithoedd rhanbarthol/llieiafrifol (yn bennaf)	Ieithoedd tramor (yn bennaf)	Ieithoedd mewnfudwyr (yn bennaf)
Awstria	Croateg Burgenland, Tsieceg, Hwngareg, Romani, Slofaceg, Slofeneg	Gorfodol: Dwy o blith Saesneg, Ffrangeg, Eidaleg, Sbaeneg	Albaneg, Bosniég, Serbeg, Croateg, Pwyleg, Rwseg, Tyrceg
Gwlad y Basg	Basgeg	Gorfodol: Saesneg, Almaeneg Dewisol: Arabeg, Ffrangeg, Eidaleg, Rwseg, Tyrceg	–
Bosnia a Herzegovina	Bosniég, Serbeg, Croateg fel ieithoedd cenedlaethol eraill	Gorfodol: Saesneg, Almaeneg Dewisol: Arabeg, Ffrangeg, Eidaleg, Rwseg, Tyrceg	–
Bwlgaria	Armeneg, Hebraeg, Romani, Tyrceg	Gorfodol: <i>Un neu ddwy o blith Croateg, Tsieceg, Saesneg, Ffrangeg, Almaeneg, Eidaleg, Japanaeg, Corëeg, Pwyleg, Rwmaneg, Rwseg, Serbeg, Slofaceg, Sbaeneg</i> Dewisol: eraill o blith yr uchod	–
Catalwnia	Catalaneg ym mhobman, iaith Ocsitaneg-Araneg yn Val d'Aran	Gorfodol: Un o blith Saesneg, Ffrangeg; Almaeneg ac Eidaleg yn achlysurol Dewisol: Groeg Hynafol, Lladin ac eraill	–
Denmarc	–	Gorfodol: Saesneg Dewisol: Groeg Hynafol, Tsieinëeg, Ffrangeg, Almaeneg, Eidaleg, Japanaeg, Lladin, Rwseg, Sbaeneg	Arabeg, Tyrceg
Lloegr	–	Gorfodol: Un iaith hyd at 14 oed. Gall fod yn unrhyw iaith fyw (ag achrediad addas); y prif ieithoedd yw Ffrangeg, Almaeneg, Sbaeneg ond maent hefyd yn cynnwys Arabeg, Eidaleg, Japanaeg, Mandarin, Pwyleg, Portiwgaleg, Rwseg, Tyrceg ac Wrddw	Arabeg, Tsieinëeg, Wrddw
Estonia		Gorfodol: Dwy o blith Saesneg, Ffrangeg, Almaeneg, Rwseg	Tsieinëeg, Ffinneg, Swedeg
Ffrainc	<i>Alsaceg/Almaeneg, Basgeg, Llydaweg, Catalaneg, Corseg, iaith Ocsitaneg, Moseleg, Creoleg, Tahitiég, ieithoedd Melanesia (Ajié, Drehu, Nengone, Paici)</i>	Gorfodol: Dwy iaith o blith 19: Saesneg, Sbaeneg, Almaeneg, Arabeg, Tsieinëeg, Eidaleg, Portiwgaleg, Rwseg, Daneg, Iseldireg, Groeg, Hebraeg, Japanaeg, Norwyeg, Pwyleg, Swedeg, Tyrceg, Groeg Hynafol a Lladin; ieithoedd eraill, megis ieithoedd rhanbarthol, yn opsiynol	Arabeg, Croateg, Eidaleg, Portiwgaleg, Serbeg, Sbaeneg a Thyrcceg
Fryslân	Ffriseg yn Fryslân yn unig	Gweler yr Iseldiroedd	–
Gwlad Groeg	–	Gorfodol: Saesneg Dewisol: Ffrangeg, Almaeneg	–
Hwngari	Romani, Boyash	Gorfodol: <i>Un neu ddwy o blith Tsieinëeg, Saesneg, Ffrangeg, Almaeneg, Eidaleg, Rwseg, Sbaeneg, Lladin</i>	–
Yr Eidal	Albaneg, Catalaneg, Croateg, Ffrengig-Brofensaleg, Ffrangeg, Ffriwleg, Almaeneg, Groeg, Lladin, Ocsitaneg, Sardeg, Slofeneg	Gorfodol: Saesneg ac iaith dramor arall	–
Lithwania	Rwseg, Pwyleg, Hebraeg, Belarwseg	Gorfodol: Un o blith Saesneg, Ffrangeg, Almaeneg Dewisol: ieithoedd eraill	–

Gwlad/rhanbarth	Ieithoedd rhanbarthol/ Ileiafrifol (yn bennaf)	Ieithoedd tramor (yn bennaf)	Ieithoedd mewnfudwyr (yn bennaf)
Yr Iseldiroedd	Ffriseg yn Fryslân yn unig	Gorfodol: Saesneg <i>ynghyd ag un iaith arall ar lefel uchaf addysg uwchradd.</i> Dewisol: Groeg Hynafol, Tsieinëeg, Ffrangeg, Almaeneg, Eidaleg, Lladin, Rwseg, Sbaeneg	Arabeg, Tyrceg
Gogledd Iwerddon	Gwyddeleg	Gorfodol: Un iaith hyd at 14 oed; Ffrangeg, Almaeneg neu Sbaeneg fel arfer	–
Gwlad Pwyl	–	Gorfodol: Dwy o blith Saesneg, Ffrangeg, Almaeneg, Eidaleg, Rwseg, Sbaeneg	–
Portiwgal	Mirandeg	Gorfodol: Dwy o blith Saesneg, Ffrangeg, Almaeneg, Sbaeneg, Lladin, Groeg	–
Rwmania	Bwlgareg, Croateg, Hwngareg, Eidaleg, Pwyleg, Romani, Rwseg-Lipofan, Slofaceg, Serbeg, Tyrceg, Wcreineg	Gorfodol: Dwy o blith Saesneg, Ffrangeg, Almaeneg, Eidaleg, Portiwgaleg, Rwseg, Sbaeneg	–
Yr Alban	Gaeleg yr Alban	Dewisol: Un o blith Ffrangeg, Almaeneg neu Sbaeneg, Eidaleg a Tsieinëeg.	Tsieinëeg, Rwseg, Wrddw
Sbaen (Madrid, Valencia, Sevilla)	Falenseg yn Valencia yn unig	Gorfodol: Un o blith Saesneg, Ffrangeg, Almaeneg.	
Y Swistir	Ffrangeg, Almaeneg, Eidaleg fel ieithoedd cenedlaethol eraill	Gorfodol: Un neu ddwy o blith Saesneg, Groeg, Lladin, Sbaeneg	Yn Zürich: Albaneg, Bosnieg, Tsieinëeg, Croateg, Ffinneg, Ffrangeg, Groeg, Hwngareg, Eidaleg, Corëeg, Cwrdeg, Portiwgaleg, Rwseg, Serbeg, Slofeneg, Sbaeneg, Swedeg, Tyrceg Yn Geneva: Albaneg, Arabeg, Eidaleg, Portiwgaleg, Sbaeneg, Tyrceg
Yr Wcráin	Belarwseg, Bwlgareg, Tatareg y Crimea, Gagaus, Almaeneg, Groeg, Hebraeg, Hwngareg, Moldofeg, Pwyleg, Rwmaneg, Rwseg, Slofaceg	Gorfodol: Un neu ddwy o blith Saesneg, Ffrangeg, Almaeneg, Sbaeneg yn dibynnu ar yr ysgol Dewisol: Armeneg, Tsieceg, Corëeg, Tyrceg, Fietnameg: fel ieithoedd allgyrsiol	–
Cymru	Cymraeg	Gorfodol: Un iaith hyd at 14 oed, o blith Ffrangeg, Almaeneg, Sbaeneg	–

Yr ieithoedd tramor a gynigir fel arfer yw Saesneg, Almaeneg a Ffrangeg, ond cynigir ieithoedd Ewropeaidd eraill fel Sbaeneg ac Eidaleg hefyd. Cynigir rhai ieithoedd mewnfudwyr fel Arabeg, Croateg, Pwyleg, Rwseg a Thyrceg hefyd fel ieithoedd tramor dewisol, ac mae gan Arabeg a Thyrceg statws cadarn fel pynciau arholi mewn ysgolion uwchradd yn Ffrainc a'r Iseldiroedd. Ffrainc sy'n cynnig y nifer fwyaf o ieithoedd. Yno, gall pob disgybl ddewis o blith amrywiaeth eang o ieithoedd fel ieithoedd Ewropeaidd modern, ieithoedd Asiaidd poblogaidd fel Japanaeg a Tsieinëeg yn ogystal ag ieithoedd rhanbarthol/leiafrifol ac ieithoedd mewnfudwyr. Mae Awstria a'r Iseldiroedd hefyd yn cynnig amrywiaeth eang o ieithoedd yn ôl adroddiadau ein hymchwilyr. Wrth gwrs, caiff yr iaith Rwseg ei chynnig yn eang yng ngwledydd Dwyrain Ewrop naill ai fel iaith ranbarthol/leiafrifol neu fel iaith dramor. Ffrangeg, Almaeneg a Sbaeneg yw'r ieithoedd a gynigir fel arfer yn Lloegr, Gogledd Iwerddon, yr Alban a Chymru, er bod ieithoedd mewnfudwyr yn cael eu cynnig hefyd, weithiau mewn addysg brif ffrwd, ond yn fwy cyffredin drwy'r hyn a elwir yn addysg *gyflenwol*.

Cymwysterau a datblygiad athrawon mewn addysg uwchradd

Yn ôl y disgwyl, mae adroddiadau ein hymchwilyr yn nodi bod gan ysgolion uwchradd ofynion llymach nag ysgolion cynradd o ran cymwysterau a datblygiad athrawon. Yn yr arolwg Ewrop Gyfoethog ei Hieithoedd, holwyd am y canlynol:

- cymwysterau athrawon
- yr hyfforddiant cyn swydd a'r hyfforddiant mewn swydd a ddarperir i athrawon
- symudedd athrawon ieithoedd tramor
- lefel yr iaith sy'n ofynnol
- mesurau i gynyddu nifer yr athrawon pan fo prinder.

Yn Nhabl 28, nodir y canlyniadau ar gyfer y pedwar math o iaith mewn addysg uwchradd ar gyfer pob gwlad/rhanbarth. Mae'n bwysig cofio nad yw pob math o iaith yn cael ei gynnig ym mhob gwlad/rhanbarth, ac mae hynny'n cyfrif am y sgôr isel yn enwedig o ran ieithoedd mewnfudwyr, a gynigir mewn wyth gwlad/rhanbarth yn unig.

Tabl 28: Cymwysterau a datblygiad athrawon mewn addysg uwchradd mewn 24 o wledydd/rhanbarthau

Meini prawf	Ymatebion	IC	Rh/LI	IT	IM	Ymatebion	IC	Rh/LI	IT	IM	Ymatebion	IC	Rh/LI	IT	IM
Cymwysterau athrawon	athrawon ieithoedd	23	16	22	3	athrawon dosbarth	1	3	2	3	dim cymhwyster penodol	0	5	0	18
Hyfforddiant cyn gwasanaeth	pwnc-benodol	22	17	22	3	cyffredinol	2	2	2	2	dim hyfforddiant	0	5	0	19
Hyfforddiant mewn swydd	pwnc-benodol	19	14	20	3	cyffredinol	5	5	4	5	dim hyfforddiant	0	5	0	16
Lefel yr iaith	wedi'i chysylltu â'r Fframwaith Cyfeirio Ewropeaidd Cyffredin	4	Dd/G	8	Dd/G	safonau cenedlaethol/rhanbarthol	13	Dd/G	13	Dd/G	dim safonau clir	7	Dd/G	4	Dd/G
Mesurau i gynyddu nifer yr athrawon pan fo prinder	mesurau strwythurol	7	8	10	1	ygyrchoedd	2	0	1	1	dim mesurau penodol	15	16	13	22
Symudedd athrawon	rhaglenni strwythurol	Dd/G	Dd/G	2	Dd/G	cymorth yn ôl y galw	Dd/G	Dd/G	17	Dd/G	dim cymorth	Dd/G	Dd/G	5	Dd/G

Mewn 23 o'r 24 o wledydd/rhanbarthau, mae athrawon ieithoedd cymwys yn rhoi cymorth ychwanegol gydag ieithoedd cenedlaethol. Dim ond yn Estonia y gwelir athrawon dosbarth â chymwysterau cyffredinol yn rhoi'r cymorth hwnnw. Cynigir datblygiad cyn swydd a datblygiad mewn swydd i athrawon hefyd. Mae'n ofynnol i athrawon anfforddorol sy'n addysgu'r iaith genedlaethol gyrraedd lefel hyfedredd benodol yn yr iaith genedlaethol mewn 17 o wledydd/rhanbarthau, er mai dim ond pedair/pedwar ohonynt sy'n pennu lefelau clir sy'n gysylltiedig â'r Fframwaith Cyfeirio Ewropeaidd Cyffredin – Gwlad y Basg (B2), Estonia (C1), yr Eidal (C2) a'r Swistir (yn Zürich a Ticino) (C2). Ni phennir unrhyw safonau mewn saith o'r gwledydd/rhanbarthau.

Mae athrawon ieithoedd tramor yn gymwysedig hefyd, a dim ond yn Estonia a Gogledd Iwerddon y gwelir athrawon dosbarth cyffredinol yn addysgu ieithoedd tramor. Er hyn, mae'r Eidal a Gwlad Groeg yn nodi mai hyfforddiant cyn swydd cyffredinol a ddarperir yn hytrach na hyfforddiant iaith-benodol. Ceir ychydig mwy o gymorth strwythuredig ar gyfer symudedd ar lefel uwchradd o gymharu â lefel gynradd, gydag Awstria a Chatalwnia yn nodi bod athrawon yn treulio tymor dramor fel rhan o'u datblygiad cyn swydd neu eu datblygiad mewn swydd. Mae 17 o wledydd/rhanbarthau eraill yn cefnogi mentrau symudedd athrawon yn ariannol. Estonia, Ffrainc, yr Eidal, Portiwgal a Rwmania yw'r gwledydd lle mae athrawon yn llai tebygol o dreulio amser yng ngwlad yr iaith darged. Yn unol ag argymhellion yr UE a Chyngor Ewrop, mae'n ofynnol i athrawon ieithoedd tramor yn y rhan fwyaf o wledydd/rhanbarthau gyrraedd lefel hyfedredd benodol yn yr iaith dramor a chaiff hyn ei fesur yn erbyn lefelau'r Fframwaith Cyfeirio Ewropeaidd Cyffredin mewn wyth gwlad/rhanbarth, fel y nodir yn Nhabl 29.

Tabl 29: Gofynion hyfedredd ar gyfer athrawon ieithoedd tramor mewn addysg uwchradd mewn wyth gwlad/rhanbarth

Gwlad/rhanbarth	Lefel hyfedredd y mae angen i athrawon ieithoedd tramor ei chyrraedd mewn addysg uwchradd
Awstria	C1
Gwlad y Basg	B2
Bwlgaria	B2-C1
Catalwnia	C1-C2
Estonia	C1
Hwngari	C1
Rwmania	C1
Y Swistir	Canton Zürich: C2

Ymddengys mai C1 yw'r lefel ofynnol fwyaf cyffredin, tra bod gofynion yn uwch yng Nghatalwnia a'r Swistir (Zürich), lle y disgwylir i athrawon gyrraedd C2.

Mae athrawon sy'n addysgu ieithoedd rhanbarthol/lliafrifol ym mhob gwlad/rhanbarth yn athrawon ieithoedd cymwysedig ar wahân i Fryslân, lle yr cysiau fel arfer gan athrawon ieithoedd â chymwysterau cyffredinol. Darperir datblygiad cyn swydd a datblygiad mewn swydd i athrawon ym mhob gwlad/rhanbarth hefyd.

Dim ond yn Awstria, Denmarc a'r Iseldiroedd y gwelir athrawon ieithoedd pwnc-benodol cymwysedig yn addysgu ieithoedd mewnfudwyr tra bod athrawon dosbarth cyffredinol yn ymgymryd â'r ddyletswydd honno yn Estonia, Ffrainc a'r Swistir.

Fel y gwelir mewn addysg gynradd, mae prinder athrawon mewn nifer o wledydd ac mae mesurau arbennig yn cael eu cymryd i recriwtio gweithwyr proffesiynol â chymwysterau priodol ac annog pobl i gymhwyso fel athrawon ieithoedd. Nodir y gwledydd/rhanbarthau hynny lle ceir y cyfryw ymgyrchoedd recriwtio athrawon yn Nhabl 30.

Tabl 30: Gwledydd/rhanbarthau sydd wrthi'n recriwtio athrawon ieithoedd oherwydd prinder

Athrawon IC	Athrawon IT	Athrawon IRh/LI	Athrawon IM
Gwlad y Basg	Gwlad y Basg	Gwlad y Basg	Lloegr
Lloegr	Bwlgaria	Fryslân	Yr Alban
Estonia	Lloegr	Gogledd Iwerddon	
Fryslân	Fryslân	Rwmania	
Yr Iseldiroedd	Hwngari	Yr Alban	
Gogledd Iwerddon	Lithwania	Sbaen (Madrid, Valencia, Sevilla)	
Rwmania	Yr Iseldiroedd	Y Swistir	
Yr Alban	Rwmania	Cymru	
Y Swistir	Yr Alban		
	Y Swistir		
	Cymru		

Yr Alban yw'r unig wlad/rhanbarth sydd wrthi'n recriwtio athrawon ieithoedd ym mhob categori, tra bod Gwlad y Basg, Lloegr, Rwmania a'r Swistir yn cymryd camau i gynyddu nifer yr athrawon mewn tri o'r pedwar categori iaith.

2.5 Safbwyntiau hydredol ar addysg cyn cynradd, addysg gynradd ac addysg uwchradd

Yn yr adran hon, cyflwynir safbwyntiau hydredol ar dri maes pwysig a amlygir yn nogfennau'r UE a Chyngor Ewrop:

- dysgu integredig cynnwys ac iaith (CLIL)
- symudedd athrawon ieithoedd tramor
- cydnabyddiaeth gyffredinol o amlieithrwydd a lluosieithrwydd mewn ysgolion.

Dysgu Integredig Cynnwys ac Iaith (CLIL)

Mae CLIL yn cyfeirio at broses lle mae disgyblion yn dysgu pynciau fel gwyddoniaeth neu ddaearyddiaeth drwy gyfrwng iaith arall. Caiff hyn ei annog yn gryf fel ffordd effeithlon ac effeithiol o ddatblygu cymhwysedd ym maes cyfathrebu. Rydym eisoes wedi sôn am y defnydd o CLIL yn yr adrannau ar wahân sy'n trafod addysg gynradd ac addysg uwchradd, ac yn Nhabl 31 dangosir y canlyniadau ar gyfer y ddau faes gyda'i gilydd. Gofynnwyd i ymchwilwyr am y graddau y defnyddir CLIL yn eu gwledydd/rhanbarthau, h.y. yn eang, yn lleol neu ddim o gwbl. Dangosir cyfanswm nifer y gwledydd/rhanbarthau sy'n cynnig pob math o iaith mewn cromfachau.

Tabl 31: Nifer y gwledydd/rhanbarthau lle defnyddir CLIL mewn addysg gynradd ac addysg uwchradd

Gwlad/rhanbarth	Addysg gynradd			Addysg uwchradd		
	IT (23)	Rh/LI (22)	IM (5)	IT (24)	Rh/LI (19)	IM (8)
Yn eang	1	12	1	1	10	1
Yn lleol	13	6	3	14	8	2
Ddim o gwbl	9	4	1	9	1	5

Fel y disgwyl, caiff CLIL ei ddefnyddio'n eang wrth addysgu ieithoedd rhanbarthol/llieiafrifol yn bennaf, gan mai ieithoedd aelwyd y disgyblion yw'r ieithoedd hyn fel arfer ac felly maent eisoes yn gallu cyfathrebu ynddynt. Prin iawn yw'r gwledydd/rhanbarthau sy'n nodi bod defnydd eang yn cael ei wneud o CLIL mewn dosbarthiadau ieithoedd tramor, gan fod cymhwysedd cyfathrebu'r disgyblion yn is; dim ond Sbaen ar lefel gynradd a Ffrainc ar lefel uwchradd. Er hyn, mae'r ffaith bod mentrau CLIL ar waith ar lefel gynradd mewn 13 o wledydd/rhanbarthau a mentrau o'r fath ar waith ar lefel uwchradd mewn 14 ohonynt yn awgrymu bod pocedi o arfer da, a byddai gwaith ymchwil pellach i gymharu dulliau gweithredu ac ystyried y broses o ddatblygu athrawon a chynllunio deunyddiau yn ddefnyddiol. O ran yr ychydig wledydd/rhanbarthau sy'n cynnig ieithoedd mewnfudwyr, Sbaen unwaith eto yw'r wlad sy'n cynnig y ddarpariaeth CLIL ehangach ar lefel gynradd, a Ffrainc sy'n cynnig y ddarpariaeth ehangach ar lefel uwchradd. Mae hyn yn awgrymu bod y gwledydd hyn bellach yn arbenigwyr yn y dull gweithredu hwn.

Symudedd athrawon ieithoedd tramor

Caiff symudedd athrawon ei annog yn gryf drwy *Raglen Dysgu Gydol Oes* yr UE ac yn yr arolwg Ewrop Gyfoethog ei Hieithoedd gofynnwyd i ymchwilyr am y cyfleoedd a roddir i athrawon yn eu gwledydd/rhanbarthau dreulio amser yn y wlad lle siaredir yr iaith y maent yn bwriadu ei haddysgu naill ai fel rhan o'u hyfforddiant cyn swydd neu eu hyfforddiant mewn swydd. Gofynnwyd i ymchwilyr pa un a yw'r gwledydd/rhanbarthau yn:

a) cynnwys y cyfryw raglenni o fewn strwythur rhaglenni datblygu athrawon, gydag athrawon yn treulio o leiaf un tymor yn y wlad darged,

b) ddim yn cynnwys hyn, ond yn annog ac yn ariannu mentrau athrawon unigol, neu

c) ddim yn gwneud y naill na'r llall.

Dangosir y canlyniadau yn Nhabl 32.

Tabl 32: Trosolwg o symudedd athrawon ieithoedd tramor mewn addysg gynradd ac addysg uwchradd mewn 24 o wledydd/rhanbarthau

	Cynradd	Uwchradd
Rhaglenni strwythuredig – treulir o leiaf un tymor yn y wlad darged	Catalwnia, y Swistir	Awstria, Catalwnia, Sbaen (Madrid, Valencia, Sevilla), y Swistir
Mentrau unigol a gefnogir	Awstria, Gwlad y Basg, Bosnia a Herzegovina, Denmarc, Lloegr, Estonia, Gwlad Groeg, Hwngari, Lithwania, Gwlad Pwyl, yr Alban, Sbaen (Madrid, Valencia, Sevilla), yr Wcráin	Gwlad y Basg, Bosnia a Herzegovina, Bwlgaria, Denmarc, Lloegr, Fryslân, Gwlad Groeg, Hwngari, Lithwania, yr Iseldiroedd, Gogledd Iwerddon, Gwlad Pwyl, yr Alban, yr Wcráin, Cymru
Absennol	Bwlgaria, Ffrainc, Fryslân, yr Eidal, yr Iseldiroedd, Gogledd Iwerddon, Portiwgal, Rwmania, Cymru	Estonia, Ffrainc, yr Eidal, Portiwgal, Rwmania

Catalwnia a'r Swistir yw'r unig wledydd/rhanbarthau sy'n cynnig rhaglenni symudedd strwythuredig ar lefel gynradd ac uwchradd, er bod hanner y gwledydd a gymerodd ran yn yr arolwg yn ariannu mentrau athrawon unigol ar y ddwy lefel. Er syndod, ymddengys nad yw nifer fawr o wledydd yn cefnogi symudedd athrawon ar y naill lefel na'r llall, ac mae'r rhesymau posibl dros hyn yn faes y mae angen ymchwilio iddo ymhellach.

Cydnabyddiaeth gyffredinol o amlieithrwydd/lluosieithrwydd mewn ysgolion

Mae'r broses o drefnu addysg amlaith/lluosieithol a datblygu athrawon i addysgu dosbarthiadau ieithyddol a diwylliannol amrywiol yn heriau cynyddol sy'n wynebu addysg gyhoeddus yn Ewrop. Gyda chymaint o ieithoedd yr aelwyd yn cael eu cynrychioli bellach ym mron pob ystafell ddosbarth, mae dogfennau'r UE a Chyngor Ewrop wedi pwysleisio pwysigrwydd cydnabod repertoire lluosieithol presennol disgyblion wrth ddysgu ac addysgu ieithoedd, a datblygu athrawon er mwyn gwella repertoire lluosieithol disgyblion a gwneud defnydd ohono mewn arfer yn yr ystafell ddosbarth. Mae'n anodd gwybod i ba raddau y mae hyn yn digwydd mewn gwirionedd a byddai'n destun prosiect ymchwil ynddo'i hun. Fodd bynnag, at ddibenion dangosol, gofynnwyd i ymchwilyr amcangyfrif i ba raddau y caiff hyn ei arfer yn eu gwledydd/rhanbarthau. Dangosir y canlyniadau yn Nhabl 33.

Tabl 33: Cydnabyddiaeth o amlieithrwydd/lluosieithrwydd mewn ysgolion cyn cynradd, ysgolion cynradd ac ysgolion uwchradd mewn 24 o wledydd/rhanbarthau (mae'r ffigurau yn cyfeirio at y nifer o wledydd/rhanbarthau)

Lefel y gydnabyddiaeth	Dull integredig cydlynol			Dull anffurfiol			Ni cheir ymdriniaeth		
	ACC	AG	AU	ACC	AG	AU	ACC	AG	AU
Cydnabyddiaeth o amlieithrwydd a repertoire lluosieithol disgyblion	8	11	9	15	11	11	1	2	4
Athrawon yn cael eu hyfforddi i wneud defnydd o repertoire lluosieithol dysgwyr	7	8	4	14	12	16	3	4	4

Mae'r rhan fwyaf o wledydd/rhanbarthau yn nodi bod amlieithrwydd mewn cymdeithas a repertoire lluosieithol dysgwyr yn cael eu cydnabod ym mhob cyfnod addysg, boed yn ffurfiol neu'n anffurfiol, er bod y broses o ddatblygu athrawon yn tueddu i fod yn fwy anffurfiol, yn enwedig ar lefel uwchradd. Y gwledydd/rhanbarthau a nododd fod dull integredig cydlynol ar waith ym mhob un o'r tri maes addysg oedd Rwmania, Sbaen (Madrid, Valencia, Sevilla) a Chymru. Ym Mosnia a Herzegovina, Lloegr, Ffrainc a'r Alban, nodir bod mwy o gydnabyddiaeth o amlieithrwydd/lluosieithrwydd mewn ysgolion cyn cynradd ac ysgolion cynradd o gymharu ag ysgolion uwchradd, tra bod mwy o gydnabyddiaeth ar lefel uwchradd yn yr Iseldiroedd a'r Swistir.

Roedd Argymhelliad 98(6) Cyngor Ewrop yn 1998 hefyd wedi galw am ddysgu iaith ar sail alwedigaethol, ac anogwyd sefydliadau i gynniig cyrsiau iaith sy'n sicrhau cydbwysedd rhwng elfennau cyffredinol a galwedigaethol, ac sy'n galluogi myfyrwyr i gymryd rhan mewn prosiectau rhyngwladol a'u paratoi ar gyfer cyflawni eu swydd a bod yn symudol ynddi.

Nod ymchwil Ewrop Gyfoethog ei Hieithoedd oedd dysgu am yr amrywiaeth o ieithoedd a'r mathau o raglenni a gynigir mewn sefydliadau AHG ledled Ewrop ac er mwyn gwneud hyn casglodd ein rhwydwaith o ymchwilwyr ddata sylfaenol yn uniongyrchol o'r sefydliadau yn y canolfannau AHG mwyaf (69 i gyd) yn y 67 o ddinasoedd dan sylw (Gweler Tabl 4 yn Adran 1.5).

2.6 Ieithoedd mewn addysg bellach ac addysg uwch

Ieithoedd mewn addysg bellach

Mae addysg bellach, neu *Addysg a Hyfforddiant Galwedigaethol* (AHG), yn elfen hynod bwysig o strategaeth 2020 yr UE, ac mae'r Comisiwn Ewropeaidd wedi bod yn gweithio'n agos gydag Aelod-wladwriaethau'r UE i wella'r ddarpariaeth ledled Ewrop ar sail *Proses Copenhagen* y cytunwyd arni yn 2002 gan Gyngor yr UE. Yn Nogfen Gyfathrebu 2008, tanlinellodd y Comisiwn Ewropeaidd bwysigrwydd dysgu gydol oes, rôl AHG yn nyfodol Ewrop, a'r angen i ddarparu mwy o gyfleoedd i astudio ieithoedd mewn sefydliadau o'r fath. Darparwyd mwy o gyfleoedd strwythurol yr UE ar gyfer cyrsiau iaith sy'n benodol i swyddi.

Mae *A new impetus for European cooperation in Vocational Education and Training to support the Europe 2020 strategy*, sef Dogfen Gyfathrebu 2010 y Comisiwn Ewropeaidd, yn galw am ddull strategol o gynnwys symudedd mewn AHG, ac mae'n argymhell y dylai pob cwrs gynnwys cyfnodau astudio neu hyfforddi mewn gwledydd eraill gyda ffocws llawer cryfach ar ddysgu ieithoedd. Mae hyn yn hynod bwysig i'r rheini sy'n cael eu hyfforddi i weithio mewn diwydiannau neu sectorau megis bancio, twristiaeth neu fasnach ryngwladol. Yn yr un modd, gan fod y rhan fwyaf o sefydliadau AHG yn cynnig rhaglenni hyfforddi i'r di-waith a newydd-ddyfodiad, mae cymorth yn yr iaith genedlaethol hefyd yn hollbwysig.

Cymorth ychwanegol ar gyfer yr iaith genedlaethol mewn AHG

Er mwyn dod i wybod am faint o gymorth ychwanegol sydd ar gael ar gyfer yr iaith genedlaethol, gofynnodd ein hymchwilwyr gwestiynau am y canlynol i sefydliadau:

- yr amrywiaeth o grwpiau targed
- yr amrywiaeth o raglenni a gynigir i hyfforddeion
- y graddau y defnyddir cwricwlwm clir
- cymorth ar gyfer sgiliau sy'n gysylltiedig â swyddi ac uwchsgilio'n gyffredinol
- mathau o ffynonellau ariannol
- hyfforddiant mewn swydd
- y defnydd o offerynnau'r UE.

Dangosir y canlyniadau yn Nhabl 34.

Tabl 34: Cymorth ychwanegol ar gyfer yr iaith genedlaethol mewn AHG (Nifer = 69 o sefydliadau)

Dimensiwn	Ymatebion	Nifer	Ymatebion	Nifer	Ymatebion	Nifer
Grwpiau targed	i bawb	37	cyfyngedig	9	heb ei nodi	23
Yr amrywiaeth o raglenni cymorth iaith	amrywiaeth eang	30	amrywiaeth cyfyngedig	24	dim	15
Amlinelliad o'r cwricwlwm	cydlynol a chlir	43	cyffredinol	8	absennol	18
Math o gyrsiau	cyrsiau sy'n ymwneud â swyddi a chyrsiau cyffredinol	34	cyrsiau cyffredinol yn unig	13	cyrsiau sy'n ymwneud â swyddi yn unig	7
Arian ar gael gan y wladwriaeth	llawn	39	rhannol	10	dim	19
Cyfnodau hyfforddi mewn cwmnïau	rhan o'r cwrs	13	dewisol	3	dim	53
Y defnydd o offerynnau Ewropeaidd	ie	0			na	69

Yn ôl y wybodaeth a gasglwyd gan ein hymchwilyr, mae 30 o'r 69 o sefydliadau AHG a arolygwyd yn cynnig ystod eang o raglenni cymorth yn yr iaith genedlaethol, yn amrywio o gyfathrebu sylfaenol i sgiliau datblygedig, mae 24 o sefydliadau yn cynnig amrywiaeth cyfyngedig, ac nid yw 15 o sefydliadau yn cynnig unrhyw gymorth o gwbl. Mae gan ymhell dros hanner y sefydliadau a arolygwyd gwricwlwm cydlynol a chlir, ac mae 34 o sefydliadau (bron hanner) yn cynnig cyrsiau iaith sy'n ymwneud â swyddi a chyrsiau iaith cyffredinol, gyda saith arall yn cynnig cyrsiau iaith sy'n ymwneud â swyddi yn unig. Mewn 39 o sefydliadau, caiff cymorth ychwanegol yn yr iaith genedlaethol ei ariannu'n llawn, gyda 10 yn ei ariannu'n rhannol. Er bod dogfennau'r UE yn argymhell y dylid cynnig cyfleoedd hyfforddi mewn cwmnïau, o ran profiad gwaith ac i feithrin sgiliau iaith, dim ond 13 o'r 69 o sefydliadau sy'n nodi eu bod yn meithrin partneriaethau â busnesau er mwyn cynnig hyn. Nid ymddengys fod unrhyw sefydliad yn defnyddio offerynnau Ewropeaidd megis y *System Gredyd Ewropeaidd* neu *Europass* i ddiffinio a chymhwyso canlyniadau dysgu mewn rhaglenni iaith genedlaethol, a rhaid tybio nad yw'r sefydliadau dan sylw yn ymwybodol o'r offeryn hwn.

leithoedd heblaw am yr iaith genedlaethol mewn addysg bellach

Er mwyn ymchwilio i'r ddarpariaeth o ieithoedd tramor, ieithoedd rhanbarthol/lleiafrifol ac ieithoedd mewnfudwyr, gofynnwyd i sefydliadau am y canlynol:

- nifer yr ieithoedd a gynigir
- y mathau o raglenni sydd ar gael
- i ba raddau y ceir cwricwlwm cydlynol a chlir
- cysondeb â CEFR (ar gyfer ieithoedd tramor)
- yr arian sydd ar gael gan y wladwriaeth.

Dangosir y canlyniadau yn Nhabl 35.

Tabl 35: Y modd y caiff y broses o addysgu ieithoedd tramor, ieithoedd rhanbarthol/lleiafrifol ac ieithoedd mewnfudwyr ei threfnu mewn addysg bellach (Nifer = 69 o sefydliadau)

Meini prawf	Ymatebion	IT	IRH/LL	IM	Ymatebion	IT	IRH/LL	IM	Ymatebion	IT	IRH/LL	IM
Nifer yr ieithoedd a gynigir	> 4 iaith	15	0	1	3-4 iaith	22	3	1	1-2 iaith	25	22	2
Yr amrywiaeth o raglenni	amrywiaeth eang	41	17	2	amrywiaeth cyfyngedig	18	7	2	heb ei nodi	10	45	65
Cwricwlwm	cydlynol a chlir	50	18	1	cyffredinol	11	5	3	heb ei nodi	8	46	65
Cysondeb â CEFR	cwbl gyson	26	Dd/G	Dd/G	safonau cenedlaethol	27	Dd/G	Dd/G	heb ei nodi	16	Dd/G	Dd/G
Yr arian sydd ar gael gan y wladwriaeth	dim ffioedd	38	13	1	ffioedd rhannol	22	11	1	ffioedd llawn	9	45	67

O ran trefnu'r broses o addysgu ieithoedd yn gyffredinol, gwelir patrwm tebyg i'r hyn a geir mewn sectorau addysg eraill, lle y caiff ieithoedd cenedlaethol ac ieithoedd tramor y cymorth mwyaf, wedi'u dilyn gan ieithoedd rhanbarthol/lleiafrifol, gydag ieithoedd mewnudwyr yn cael y cymorth lleiaf.

Mae 62 o'r 69 o sefydliadau a arolygwyd yn cynnig ieithoedd tramor, gyda 15 yn nodi bod mwy na phedair iaith yn cael eu haddysgu, 22 yn cynnig tair neu bedair iaith a 25 yn cynnig un neu ddwy iaith. Mae 41 o sefydliadau'n cynnig amrywiaeth eang o raglenni, o sgiliau iaith sylfaenol i sgiliau iaith datblygedig, tra bod 18 yn cynnig sgiliau iaith sylfaenol yn unig. Mae gan nifer uchel iawn, sef 50, gwricwlwm cydlynol a chllir, ac mae 26 yn cysoni eu cyrsiau â'r CEFR. Mewn 38 o sefydliadau, nid oes angen i fyfyrwyr dalu am y cyrsiau hyn, ac mewn 22 arall telir rhan o'r costau.

Mae hyn yn groes i'r sefyllfa o ran ieithoedd rhanbarthol/lleiafrifol, lle mai dim ond 24 o sefydliadau sy'n nodi bod cyrsiau o'r fath yn cael eu cynnig, a dim ond 13 sy'n talu'r costau'n llawn. Y gwledydd/rhanbarthau sy'n cynnig cyrsiau mewn ieithoedd rhanbarthol/lleiafrifol yn y tri sefydliad AHG a arolygwyd yw Gwlad y Basg, Catalwnia, Hwngari, Gogledd Iwerddon a Chymru. Mae Bosnia a Herzegovina a'r Swistir yn cynnig cyrsiau yn yr ieithoedd swyddogol eraill yn y tri sefydliad a arolygwyd. Dim ond mewn pedwar o'r sefydliadau a arolygwyd y cynigir ieithoedd mewnudwyr, un yr un yn Awstria, Lloegr, yr Eidal a Chymru.

Mae Tabl 36 yn rhoi trosolwg cymharol o'r ddarpariaeth ieithoedd rhanbarthol/lleiafrifol (yn bennaf), ieithoedd tramor (yn bennaf) ac ieithoedd mewnudwyr (yn bennaf) yn y 69 o sefydliadau AHG a arolygwyd yn y 67 o ddinasoedd dan sylw yn ôl adroddiadau ein hymchwilyr.

Tabl 36: Trosolwg cymharol o ddarpariaeth ieithoedd rhanbarthol/lleiafrifol (yn bennaf), ieithoedd tramor (yn bennaf) ac ieithoedd mewnudwyr (yn bennaf) mewn sefydliadau AHG (tri ym mhob gwlad)

Gwlad/rhanbarth	Ieithoedd rhanbarthol/lleiafrifol (yn bennaf)	Ieithoedd tramor (yn bennaf)	Ieithoedd mewnudwyr (yn bennaf)
Awstria	–	Arabeg, Tsieinëeg, Tsieceg, Iseldireg (e-ddysgu yn unig), Saesneg, Ffrangeg, Almaeneg, Hwngareg, Eidaleg, Japanaeg, Pwyleg, Rwmaneg, Rwseg, Slofaceg, Slofeneg, Sbaeneg	Bosnieg, Serbeg, Croateg, Tyrceg
Gwlad y Basg	Basgeg	Saesneg, Ffrangeg	–
Bosnia a Herzegovina	Bosnieg, Serbeg, Croateg, fel ieithoedd cenedlaethol eraill	Arabeg, Tsieceg, Saesneg, Ffrangeg, Almaeneg, Eidaleg, Lladin, Perseg, Rwseg, Tyrceg	–
Bwlgaria	–	Croateg, Saesneg, Ffrangeg, Almaeneg, Eidaleg, Rwmaneg, Rwseg, Sbaeneg, Tyrceg	–
Catalwnia	Catalaneg	Saesneg, Ffrangeg, Almaeneg	–
Denmarc	–	Saesneg fel CLIL, Ffrangeg, Almaeneg, Sbaeneg	–
Lloegr	–	Ffrangeg, Almaeneg, Groeg, Eidaleg, Japanaeg, Portiwgaleg, Rwseg, Sbaeneg	Arabeg, Tsieinëeg, Tyrceg, Wrdd
Estonia	–	Saesneg, Ffrangeg, Ffinneg, Almaeneg, Rwseg	–
Ffrainc	Corseg	Arabeg, Tsieinëeg, Saesneg, Almaeneg, Eidaleg, Sbaeneg, Rwseg	–
Gwlad Groeg	–	Saesneg	–
Hwngari	Almaeneg	Saesneg	–
Yr Eidal	Slofeneg	Saesneg, Ffrangeg, Almaeneg, Sbaeneg	Arabeg
Lithwania	Pwyleg, Rwseg	Saesneg, Ffrangeg, Almaeneg	–
Yr Iseldiroedd	–	Saesneg, Ffrangeg, Almaeneg, Sbaeneg	–
G. Iwerddon	Gwyddeleg, Sgoteg-Wlster	Ffrangeg, Almaeneg, Groeg, Eidaleg, Japanaeg, Pwyleg, Portiwgaleg, Rwseg, Sbaeneg	Arabeg, Tyrceg, Tsieinëeg
Gwlad Pwyl	–	Saesneg, Ffrangeg, Almaeneg, Rwseg	–
Portiwgal	Mirandeg	Saesneg, Ffrangeg, Almaeneg, Sbaeneg	–
Rwmania	Hwngareg, Romani	Saesneg, Ffrangeg, Almaeneg	–
Yr Alban	–	Ffrangeg, Almaeneg, Eidaleg, Pwyleg, Sbaeneg	–
Sbaen (Madrid, Valencia, Sevilla)	–	Saesneg, Ffrangeg	–
Y Swistir	Ffrangeg, Almaeneg, Eidaleg fel ieithoedd cenedlaethol eraill	Saesneg, Sbaeneg	–
Yr Wcráin	Rwseg ac ieithoedd Wcreineg	Saesneg, Ffrangeg, Almaeneg	–
Cymru	Cymraeg	Tsieinëeg, Ffrangeg, Almaeneg, Groeg, Eidaleg, Sbaeneg	Arabeg

Yn ôl y disgwyl, mae Saesneg, Ffrangeg, Almaeneg a Sbaeneg yn amlwg ymhlith ieithoedd tramor, gyda rhywfaint o'r iaith Rwseg yn cael ei chynnig fel iaith ranbarthol/lleiafrifol mewn rhai gwledydd/rhanbarthau ac fel iaith dramor mewn rhai eraill. Mae Arabeg hefyd yn cael ei chynnig mewn nifer o sefydliadau AHG. Fel y disgwyliwyd, gwelir y brif arlwy o ran ieithoedd rhanbarthol/lleiafrifol yn y gwledydd/rhanbarthau â mwy nag un iaith swyddogol. Mae'n debygol mai Basgeg, Catalaneg, Gwyddeleg/Sgoteg Wlster a Chymraeg yw'r cyfrwng addysgu a ddefnyddir yn y sefydliadau a arolygwyd yn ogystal â chael eu cynnig fel pwnc.

leithoedd mewn addysg uwch

Yn eu dogfennau, mae'r UE a Chyngor Ewrop yn tanlinellu pwysigrwydd amrywio ieithyddol a meithrin lluosieithrwydd drwy gydol addysg. Yn y brifysgol, mae hyn yn hynod bwysig gan mai dyma'r cam olaf cyn dechrau gyrfa. Mae graddedigion yn debygol o deithio fel rhan o'u gwaith a dod i gysylltiad rheolaidd â siaradwyr ieithoedd eraill, ac felly mae'n hanfodol eu bod yn meithrin sgiliau iaith er mwyn eu helpu yn hyn o beth, yn ogystal â gwella eu gwybodaeth a'u sgiliau academiaidd craidd. Mae rhai prifysgolion yn Ewrop eisoes wedi gwneud sgiliau iaith yn rhagofyniad ar gyfer pob cwrs, tra bod eraill yn annog pob myfyriwr i dreulio ychydig o amser bob wythnos yn dilyn cyrsiau iaith.

Mae Argymhelliad 98 (6) Cyngor Ewrop 1998 yn cefnogi'r gwaith o feithrin cysylltiadau a theithiau cyfnewid rhwng sefydliadau a phobl mewn addysg uwch mewn gwledydd eraill fel bod pawb yn cael cynnig y posibilrwydd o gael profiad gwirioneddol o iaith a diwylliant arall. Mae addysg uwch hefyd wedi'i chynnwys o dan ECRML, a dylai addysg mewn ieithoedd rhanbarthol/lleiafrifol neu drwy gyfrwng ieithoedd rhanbarthol/lleiafrifol gael ei chynnig i fyfyrwyr sy'n gofyn amdani. O ran ieithoedd tramor, disgwyliar i sefydliadau addysg uwch ddefnyddio'r CEFR fel y brif ddogfen ar gyfer datblygu eu meysydd llafur ac at ddibenion asesu.

Mae dogfennau'r UE yr un mor gadarn ynghylch cynyddu ac amrywio addysg ieithoedd mewn Addysg Uwch. Mae Casgliadau Cyngor yr UE (2011) yn galw am i Aelod-wladwriaethau wneud mwy o ymdrech i gyflawni amcan Barcelona drwy wella darpariaeth, ansawdd a pherthnasedd addysg ieithoedd mewn addysg gyffredinol, AHG ac addysg uwch, yn ogystal ag yng nghydestun dysgu gydol oes. Roedd Dogfen Gyfathrebu 2008 y Comisiwn Ewropeaidd hefyd wedi galw am fwy o symudedd a chyfnewid, ac i brifysgolion addysgu ieithoedd i bob myfyriwr waeth beth fo'i ddewis ddisgyblaeth.

Yn sgil yr uchod, gofynnwyd i'n hymchwilyr gyfsweld â chynrychiolwyr o dair prifysgol gyffredinol/cyhoeddus ym mhob un o'r dinasoedd targed ynghylch:

- yr ieithoedd addysgu
- ieithoedd gwefannau
- grwpiau targed ar gyfer cymorth ychwanegol yn yr iaith genedlaethol
- yr ieithoedd a gynigir i fyfyrwyr nad ydynt yn astudio iaith
- y graddau y defnyddir CEFR i lywio'r gwaith o ddatblygu meysydd llafur ac asesu
- recriwtio myfyrwyr rhyngwladol
- symudedd i fyfyrwyr iaith
- symudedd i fyfyrwyr nad ydynt yn astudio iaith.

Llwyddwyd i gasglu data ar 65 o brifysgolion cyffredinol/cyhoeddus a dangosir y canlyniadau yn Nhabl 37.

Tabl 37: Arfer amlieithrwydd yn y 65 o brifysgolion cyffredinol/cyhoeddus a arolygwyd

Dimensiwn	Nifer y gwledydd/rhanbarthau	Nifer y gwledydd/rhanbarthau	Nifer y gwledydd/rhanbarthau
iaith addysgu	23 cenedlaethol, tramor, rhanbarthol/lleiafrifol	31 cenedlaethol a thramor	11 cenedlaethol yn unig
iaith gwefannau	17 cenedlaethol, tramor, rhanbarthol/lleiafrifol	38 cenedlaethol a thramor	10 cenedlaethol yn unig
Grwpiau targed ar gyfer cymorth ychwanegol yn yr iaith genedlaethol	24 pob myfyriwr	38 siaradwyr nad ydynt yn frodorol yn unig	3 heb ei gynnig
Nifer yr ieithoedd a gynigir i fyfyrwyr nad ydynt yn astudio ieithoedd	31 >4	10 3-4	14 1-2
Y lefel i'w chyrraedd gan fyfyrwyr iaith	34 wedi'i chysylltu â CEFR	22 lefel genedlaethol/sefydliadol	9 dim
Recriwtio myfyrwyr rhyngwladol	33 rhyngwladol a mewnfudwyr	31 rhyngwladol yn unig	1 siaradwyr brodorol yn unig
Symudedd ymhlith myfyrwyr iaith	10 gofynnol	51 dewisol	4 ddim ar gael
Symudedd ymhlith myfyrwyr nad ydynt yn astudio ieithoedd	1 gofynnol	60 dewisol	4 ddim ar gael

Yn ôl y disgwyl, mae'r holl brifysgolion Ewropeaidd a dargedwyd yn ein dinasoedd sampl yn cynnig addysg yn yr iaith genedlaethol oherwydd, yn y rhan fwyaf o achosion, hon yw prif iaith eu myfyrwyr a hon yw iaith swyddogol y wladwriaeth. Fodd bynnag, gellir defnyddio ieithoedd eraill yn y rhan fwyaf o'r sefydliadau a arolygwyd hefyd. Mae dadansoddiad o ba ieithoedd a ddefnyddir fel cyfrwng addysgu, a darlun manwl o'r modd y mae iaith addysgu prifysgolion Ewropeaidd yn newid oherwydd globaleiddio'r economi ac ymchwil academaidd, yn fater i ymchwilio iddo ymhellach. Ymddengys fod symudedd rhyngwladol myfyrwyr a staff, a'r dyhead i ddenu myfyrwyr byd-eang ac amrywiol, yn golygu mai Saesneg yw ail iaith llawer o brifysgolion yn Ewrop ac mae llawer o werslyfrau hefyd yn cael eu hysgrifennu yn Saesneg.

Mae'n galonogol bod 55 o'r 65 o wefannau prifysgolion a arolygwyd yn amlieithog, gyda dim ond 10 o brifysgolion yn darparu gwybodaeth yn yr iaith genedlaethol yn unig. Mae hyn yn arwydd bod y rhan fwyaf o brifysgolion yn Ewrop a leolir mewn dinasoedd mawr yn gwneud cryn ymdrech i hyrwyddo amrywiaeth a denu myfyrwyr amrywiol. Ni wnaeth arolwg Ewrop Gyfoethog ei Hieithoedd nodi'r union ieithoedd a ddefnyddiwyd ar y gwefannau, ac mae hwn yn faes y mae angen ymchwilio iddo ymhellach.

O ran cymorth ychwanegol yn yr iaith genedlaethol, mae'n bwysig hyd yn oed ar y lefel hon i roi'r cyfle i bob myfyriwr gael gradd dda. Mae 24 o'r 65 o brifysgolion a arolygwyd yn rhoi cymorth i bawb, gyda 38 arall yn ei roi i siaradwyr nad ydynt yn frodorol yn unig, sy'n golygu bod lefel dda o ddarpariaeth yn gyffredinol.

Mae nifer uchel iawn o brifysgolion yn cynnig cyrsiau iaith i fyfyrwyr nad ydynt yn astudio ieithoedd, fel yr argymhellwyd gan y sefydliadau Ewropeaidd. Mae'r arlyw yn eang, gyda 31 o sefydliadau (bron hanner) yn rhoi dewis o dros bedair iaith i fyfyrwyr. Dim ond wyth prifysgol o'n sampl nad ydynt yn cynnig y cyfle i ddysgu ieithoedd eraill i fyfyrwyr nad ydynt yn astudio ieithoedd. Mae'n arwydd calonogol bod y CEFR yn cael ei ddefnyddio i gynllunio meysydd llafur a llywio asesiadau mewn dros hanner y prifysgolion a arolygwyd. Wrth gwrs, mae nifer yr is-raddedigion a graddedigion sy'n dewis dilyn cyrsiau iaith mewn gwirionedd yn fater arall, ac mae y tu hwnt i gwmpas ein hymchwil.

O ystyried y gystadleuaeth gref am dalent ac arian ychwanegol ymhlith prifysgolion Ewrop, nid yw'n syndod bod pob prifysgol namyn un yn gwneud ymdrech arbennig i ddenu myfyrwyr rhyngwladol. Serch hynny, mae'n ddiddorol bod hanner hefyd yn nodi eu bod yn gwneud ymdrech benodol i ddenu myfyrwyr o gefndir mewnffudo o fewn y wlad, a byddai'r modd y gwneir hyn yn bwnc ardderchog i'w ystyried ymhellach.

Caiff symudedd myfyrwyr gefnogaeth ariannol gan brifysgolion yn Ewrop ond dim ond 10 o'r prifysgolion a arolygwyd sy'n gwneud rhaglenni symudedd yn orfodol i fyfyrwyr iaith, gyda'r mwyafrif llethol yn ei 'annog' yn unig. Fel sydd i'w ddisgwyl, mae symudedd yn ddewisol yn hytrach nac yn orfodol ym mhob prifysgol namyn un a arolygwyd o ran myfyrwyr nad ydynt yn astudio ieithoedd. Mae'r Comisiwn Ewropeaidd yn cyhoeddi ystadegau ar symudedd myfyrwyr o dan y rhaglen *Erasmus* a dylid defnyddio'r ffynhonnell hon er mwyn cael cipolwg ar y nifer wirioneddol o fyfyrwyr o bob gwlad sy'n treulio amser mewn gwlad arall fel rhan o'u hastudiaethau. http://ec.europa.eu/education/erasmus/statistics_en.htm

2.7 Ieithoedd yn y cyfryngau clyweledol a'r wasg

Mae dogfennau'r UE a Chyngor Ewrop yn nodi'n glir yr hyn sy'n bolisiau da o ran amlieithrwydd/lluosiethrwydd yn y cyfryngau clyweledol a'r wasg yn eu barn hwy. Pwysleisiodd Dogfen Gyfathrebu'r Comisiwn Ewropeaidd a gyhoeddwyd yn 2008 yr angen i ddarparu ar gyfer pobl nad ydynt yn siarad cynifer o ieithoedd drwy'r cyfryngau, technolegau newydd a chyfieithu:

Gall y cyfryngau fod yn ffynhonnell wych i ddysgu ieithoedd yn anffurfiol drwy 'edutainment' a ffilmiau wedi'u hisdeitlo.

Drwy'r ddogfen hon cafodd Aelod-wladwriaethau eu gwahodd i gefnogi'r broses o isdeitlo a dosbarthu gweithiau diwylliannol. Hefyd, anogodd Cynnig Senedd Ewrop yn 2009 ddefnyddio isdeitlau mewn rhaglenni teledu. Neilltuodd y Grŵp Lefel Uchel ar Amlieithrwydd (2007) ran o'i adroddiad i'r maes hwn, gan danlinellu pwysigrwydd y cyfryngau yn y gwaith o lywio agweddau pobl tuag at ieithoedd a diwylliannau eraill ac annog symud o drosleisio i isdeitlo.

Dylai cwmnïau teledu sy'n defnyddio trosleisio fel arfer gael eu hannog i gynnig isdeitlau yn ogystal â throsleisio traddodiadol, fel bod gwylwyr yn cael dewis.

O safbwynt ieithoedd rhanbarthol/llieiafrifol, mae Erthygl 11 o'r ECRML yn canolbwyntio ar y cyfryngau ac yn nodi y dylai'r sawl sydd wedi'i llofnodi sicrhau bod gorsafoedd radio a theledu yn cael eu creu mewn ieithoedd rhanbarthol/llieiafrifol, yn ogystal ag annog y gwaith o gynhyrchu a dosbarthu rhaglenni teledu a radio a phapurau newydd yn yr ieithoedd hyn. Mae hefyd yn nodi y dylai pobl fod yn gallu derbyn darllediadau radio a theledu yn uniongyrchol o wledydd cyfagos mewn iaith a ddefnyddir mewn fformat tebyg neu'r union fformat i iaith ranbarthol/llieiafrifol.

Fel rhan o ymchwil Ewrop Gyfoethog ei Hieithoedd, anelwyd at adlewyrchu'r argymhellion a'r canllawiau uchod, gan ofyn i ymchwilwyr gasglu data o'r dinasoedd targed ym mhob cyd-destun cenedlaethol neu ranbarthol. Cafodd y newidynnau canlynol eu cynnwys:

- yr amrywiaeth o ieithoedd ar y radio a'r teledu
- arferion isdeitlo yn y sinema ac ar y teledu
- derbyn ieithoedd rhanbarthol/llieiafrifol y tu allan i'w bro
- y ddarpariaeth ar gyfer iaith arwyddion
- yr amrywiaeth o ieithoedd y mae papurau newydd ar gael ynddynt mewn ciosgau mawr a phrif orsafoedd trenau.

Er mwyn casglu data ar yr amrywiaeth o ieithoedd ar radio a theledu, gwnaethom ofyn i'n hymchwilwyr gofnodi'r rhaglenni radio a theledu a restrwyd mewn ieithoedd gwahanol yn y papurau newydd mwyaf poblogaidd yn y dinasoedd a arolygwyd. Yn ei hanfod, mae hyn yn unol â'r rhesymeg tirlunio ieithyddol. O gofio cyfyngiadau'r fath ymchwil, y nod oedd bwrw cipolwg, ar adeg benodol ac mewn lle penodol, ar y sefyllfa wirioneddol fel y'i cyflwynwyd mewn gwahanol bapurau newydd o ran rhaglenni teledu a radio. Yn seiliedig ar adroddiadau ein hymchwilwyr, daw'n glir bod rhaglenni radio a theledu amliaith ar gael mewn nifer o wledydd. Dim ond rhaglenni yn yr iaith genedlaethol ar deledu a radio fel y'u rhestrwyd ym mhapurau newydd Bosnia a Herzegovina, Gwlad Groeg a Gwlad Pwyl

a gafodd eu cofnodi gan ein hymchwilyr. Cynigiodd y rhan fwyaf o'r gwledydd eraill a gymerodd ran raglenni yn Saesneg, Almaeneg a Ffrangeg ar deledu a radio. Ar ôl yr iaith genedlaethol, Saesneg yw'r iaith fwyaf cyffredin ar y teledu yn Awstria, Gwlad y Basg, Catalwnia, Denmarc, Estonia, yr Eidal, yr Iseldiroedd/Fryslân, Portiwgal, Sbaen, y Swistir a'r Wcráin. Cofnodir rhaglenni teledu Almaeneg yng Nghatalwnia, Denmarc, Estonia, Ffrainc, Hwngari, yr Iseldiroedd/Fryslân a Rwmania. Rhestrir Ffrangeg yng Nghatalwnia, Denmarc, Lloegr ac Estonia. Mewn nifer o wledydd, rhestrir amrywiaeth cyfoethog o raglenni teledu mewn ieithoedd rhanbarthol/lleiafrifol; er enghraifft, mae Bwlgaria yn cynnig rhaglenni teledu yn Armeneg, Hebraeg, Romani a Thyrcceg. Gwelir tueddiadau tebyg yn Ffrainc, Hwngari a Rwmania o ran ieithoedd rhanbarthol/lleiafrifol. Mewn rhai gwledydd a rhanbarthau fel Catalwnia, Lloegr, yr Iseldiroedd a'r Swistir, caiff rhaglenni teledu mewn ieithoedd mewnudwyr eu rhestru hefyd. Mae rhaglenni radio yn dilyn patrwm tebyg i raglenni teledu. Er bod yr arlwy ar y radio yn llawer ehangach na rhaglenni teledu ym Mwlgaria, Ffrainc, Hwngari, yr Eidal a Lithwania, mae llai o amrywiaeth yng Nghatalwnia, Estonia a'r Iseldiroedd.

Dywed Bosnia a Herzegovina, Denmarc, Estonia, Lithwania, Portiwgal, y Swistir a Chymru fod modd derbyn darllediadau radio a theledu mewn ieithoedd rhanbarthol/lleiafrifol bob amser mewn gwledydd/rhanbarthau eraill, tra bod Ffrainc a Chatalwnia yn nodi nad yw hyn byth yn wir. Dywedodd ymchwilyr yn y gwledydd/rhanbarthau sy'n weddill fod modd derbyn rhaglenni mewn ieithoedd rhanbarthol/lleiafrifol weithiau ar draws y ffin. Mae'n werth ymchwilio i'r rhesymau dros y canfyddiadau hyn ymhellach.

Yn ôl ymchwil a wnaed gan Media Consulting Group (2007) ac yn unol ag argymhellion yr UE a fynegwyd droeon, mae isdeitlo yn dod yn fwy cyffredin ledled Ewrop. Fodd bynnag, mae trosleisio yn dal i fod yn gyffredin hefyd. Ar y cyfan, rhennir gwledydd yn ddau grŵp mawr (gwledydd trosleisio a gwledydd isdeitlo), er bod y sefyllfa wirioneddol yn Ewrop yn llawer mwy cymhleth. Mae modd i ganfyddiadau Ewrop Gyfoethog ei Hieithoedd a gyflwynir yn Nhabl 38 gael eu cymharu ag astudiaethau cynharach, gyda thua hanner y gwledydd/rhanbarthau yn defnyddio arferion trosleisio gan mwyaf, tra bod yr hanner arall yn defnyddio isdeitlau.

Tabl 38: Isdeitlo o'i gymharu â throsleisio ar y teledu ac yn y sinema

Gwlad/ rhanbarth	Cynrychiadau teledu		Ffilmiau	
	Trosleisio'n gyffredin	Isdeitlo'n gyffredin	Trosleisio'n gyffredin	Isdeitlo'n gyffredin
Awstria	✓		✓	
Gwlad y Basg	✓		✓	
Bosnia a Herzegovina		✓		✓
Bwlgaria	✓			✓
Catalwnia	✓		✓	
Denmarc		✓		✓
Lloegr		✓		✓
Estonia		✓		✓
Ffrainc	✓			✓
Fryslân		✓		✓
Gwlad Groeg		✓		✓
Hwngari	✓		✓	
Yr Eidal	✓		✓	
Lithwania	✓			✓
Yr Iseldiroedd		✓		✓
G. Iwerddon		✓		✓
Gwlad Pwyl	✓		✓	
Portiwgal		✓		✓
Rwmania		✓		✓
Yr Alban		✓		✓
Sbaen	✓		✓	
Y Swistir		✓		✓
Yr Wcráin		✓	✓	
Cymru		✓		✓

Y gwledydd/rhanbarthau lle y caiff teledu a sinema eu trosleisio yw Awstria, Catalwnia, Hwngari, yr Eidal, Gwlad Pwyl a Sbaen. Y gwledydd/rhanbarthau lle y caiff teledu a sinema eu hisdeitlo yw Bosnia a Herzegovina, Denmarc, Lloegr, Estonia, Fryslân, Gwlad Groeg, yr Iseldiroedd, Gogledd Iwerddon, Portiwgal, Rwmania, yr Alban, y Swistir a Chymru. Mae gan wledydd/rhanbarthau eraill ddull hybrid o weithredu lle y caiff rhaglenni eu hisdeitlo mewn un cyfrwng a'u trosleisio yn y llall.

O ran argaeledd papurau newydd yn y ciosgau a'r gorsafoedd trenau mwyaf yn y dinasoedd a gafodd eu harolygu ym mhob gwlad/rhanbarth, aeth pob ymchwilydd i mewn i'r ciosgau a'r gorsafoedd trenau hyn a rhestru'r papurau newydd oedd ar gael mewn ieithoedd gwahanol, unwaith eto gan ddilyn y fethodoleg tirlunio ieithyddol er mwyn rhoi cipolwg ar adeg ac mewn lle penodol.

Yn Nhabl 39, cyflwynir yr 20 o ieithoedd mwyaf cyffredin nad ydynt yn ieithoedd cenedlaethol nac yn ieithoedd rhanbarthol ar gyfer papurau newydd a werthwyd yn y dinasoedd sampl y tu allan i'r wlad/rhanbarth cyfeirio.

Tabl 39: Sbectrwm amlieithog o bapurau newydd ar lefel dinas (Yr 20 uchaf o ran ieithoedd gwahanol bapurau newydd y tu allan i'r wlad neu'r rhanbarth cyfeirio) (Yr 20 uchaf)

ieithoedd papurau newydd	Cyfanswm y papurau newydd gwahanol
1. Saesneg	408
2. Almaeneg	270
3. Ffrangeg	181
4. Rwseg	162
5. Eidaleg	127
6. Arabeg	77
7. Tyrceg	54
8. Sbaeneg	51
9. Iseldireg	46
10. Albaneg	40
11. Serbeg	36
12. Tsieinëeg	27
13. Croateg	23
14. Bwlgareg	12
15. Japanaeg	11
16. Pwyleg	10
17. Groeg	8
18. Bosniëg	7
19. Hwngareg	7
20. Swedeg	6

Yn gyffredinol, mae Saesneg yn ymddangos ar y brig, wedyn Almaeneg, Ffrangeg, Rwseg ac Eidaleg ymhell y tu ôl iddi. Gellid dod i'r casgliad bod dau fath o gynulleidfa darged ar gyfer y papurau newydd hyn yn y bôn: a) papurau newydd sy'n apelio i deithwyr rhyngwladol, pobl fusnes a thwristiaid megis papurau newydd mewn Saesneg, Almaeneg, Ffrangeg neu Japanaeg; b) papurau newydd sy'n apelio i grwpiau mewnfydwyr mewn amryw ddinasoedd yn Ewrop, megis y papurau newydd mewn Arabeg, Tyrceg, Albaneg neu Tsieinëeg. Wrth gwrs, nid yw'r gwahaniaethau hyn yn ddiwrthbrawf.

Y maes arall yr edrychwyd arno yn yr adran glyweledol oedd y graddau y cynigir iaith arwyddion ar raglenni teledu ar gyfer digwyddiadau pwysig yn y cyfryngau. Yn ei argymhelliad ar ddiogelu ieithoedd arwyddion yn yr Aelod-wladwriaethau a wnaed yn 2003, nododd Cynulliad Seneddol Cyngor Ewrop fod ieithoedd arwyddion yn nodwedd o gyfoeth diwylliannol Ewrop, bod yr ieithoedd hyn yn ffordd naturiol o gyfathrebu i bobl fyddar, a bod angen i ieithoedd arwyddion gael eu cydnabod yn swyddogol. Argymhellwyd hefyd y byddai darlledu rhaglenni teledu mewn ieithoedd arwyddion neu gydag isdeitlau ieithoedd arwyddion yn gwella'r broses o integreiddio'r gymuned fyddar yn y brif ffrwd.

Yn Nhabl 40, dangosir yr atebion a roddwyd gan ein hymchwilywyr nid yn unig i'r cwestiwn am iaith arwyddion ar y teledu, ond hefyd i'r ddau gwestiwn arall ynghylch iaith arwyddion ym mhrosiect Ewrop Gyfoethog ei Hieithoedd: y graddau y mae dogfennau polisi iaith swyddogol yn bodoli ar ba ieithoedd arwyddion a gaiff eu cydnabod neu eu hyrwyddo'n swyddogol mewn gwlad/rhanbarth, a hefyd y graddau y gallai pobl fyddar ddefnyddio ieithoedd arwyddion wrth ryngweithio'n swyddogol â'r awdurdodau mewn gwasanaethau cyhoeddus. Mae Tabl 40 yn rhoi trosolwg o'r ddarpariaeth a nodwyd ar gyfer ieithoedd arwyddion.

Tabl 40: Darpariaeth ieithoedd arwyddion mewn 24 o wledydd/rhanbarthau

Gwlad/rhanbarth	Caiff iaith arwyddion ei chynabod neu ei hyrwyddo'n swyddogol	Gall pobl fyddar ddefnyddio iaith arwyddion wrth ryngweithio'n swyddogol â'r awdurdodau	Cynigir iaith arwyddion mewn digwyddiadau pwysig yn y cyfryngau
Awstria	√	Bob amser	Weithiau
Gwlad y Basg	–	–	Weithiau
Bosnia a Herzegovina	√	Bob amser	Weithiau
Bwlgaria	√	Dim ond mewn rhai achosion	Yn rheolaidd
Catalwnia	√	Bob amser	Weithiau
Denmarc	–	Bob amser	Yn rheolaidd
Lloegr	√	–	Yn rheolaidd
Estonia	√	Dim ond mewn rhai achosion	Bob amser
Ffrainc	√	Bob amser	Yn rheolaidd
Fryslân	–	Dim ond mewn rhai achosion	Weithiau
Gwlad Groeg	–	–	Weithiau
Hwngari	√	Bob amser	Weithiau
Yr Eidal	–	–	–
Lithwania	√	Bob amser	Weithiau
Yr Iseldiroedd	√	Dim ond mewn rhai achosion	Weithiau
G. Iwerddon	√	Dim ond mewn rhai achosion	Yn rheolaidd
Gwlad Pwyl	–	–	–
Portiwgal	√	Bob amser	Yn rheolaidd
Rwmania	√	Bob amser	–
Yr Alban	√	Dim ond mewn rhai achosion	Yn rheolaidd
Sbaen (Madrid, Valencia, Sevilla)	√	Bob amser	Yn rheolaidd
Y Swistir	√	Bob amser	Yn rheolaidd
Yr Wcráin	√	Bob amser	Weithiau
Cymru	√	Dim ond mewn rhai achosion	Weithiau

Caiff ieithoedd arwyddion eu cynabod/hyrwyddo yn swyddogol ym mhob gwlad/rhanbarth ac eithrio Sbaen (Gwlad y Basg), Denmarc, Gwlad Groeg, yr Eidal a Gwlad Pwyl. Gall pobl fyddar bob amser ddefnyddio iaith arwyddion wrth ryngweithio'n swyddogol â'r awdurdodau yn hanner y gwledydd/rhanbarthau a arolygwyd. Mae cyfleusterau ar gyfer darparu iaith arwyddion mewn digwyddiadau pwysig yn y cyfryngau bob amser ar gael yn Estonia ac maent ar gael yn rheolaidd mewn naw gwlad/rhanbarth arall. Yn yr Eidal, Gwlad Pwyl a Rwmania dywed ymchwilwyr nad yw'r cyfleusterau hyn ar gael. Ar y cyfan, ymddengys fod lefelau ymwybyddiaeth o ran ieithoedd arwyddion ar gynnydd ledled Ewrop, sy'n hynod bwysig i gymunedau pobl fyddar.

2.8 Ieithoedd mewn gwasanaethau cyhoeddus a manau cyhoeddus

Mae Dogfen Gyfathrebu'r Comisiwn Ewropeaidd (2008) yn un o nifer o ddogfennau'r UE sy'n tanlinellu pwysigrwydd sicrhau bod gwasanaethau cyhoeddus amlieithog ar gael i ddinasyddion ac ymwelwyr nad ydynt yn siarad yr iaith leol:

Dylai ardaloedd metropolitan a chyrchfannau twristiaeth yn Ewrop sicrhau bod gwybodaeth ar gael mewn ieithoedd gwahanol a dibynnu ar bobl amieithog i weithredu fel cyfryngwyr a dehonglwyr diwylliannol. Mae angen iddynt wneud hyn er mwyn ymdopi ag anghenion tramorwyr nad ydynt yn siarad yr iaith leol. Mae cyfieithu a dehongli cyfreithiol yn arbennig o bwysig.

Mae'r ECRML hefyd yn cwmpasu gwasanaethau cyhoeddus, yn fwy o safbwynt y dinesydd. Mae Erthygl 9 yn canolbwyntio ar achosion cyfreithiol, ac yn sicrhau bod achosion troseddol a sifil yn gallu cael eu cynnal mewn ieithoedd rhanbarthol/llieiafrifol gan ddefnyddio dehonglwyr a chyfieithwyr a hynny heb fod unrhyw gost ychwanegol i'r sawl dan sylw, a hefyd ganiatáu i ddinasyddion gyflwyno dogfennau cyfreithiol yn yr ieithoedd hyn. Mae Erthygl 10 yn ymwneud ag awdurdodau gweinyddol a gwasanaethau cyhoeddus, a nodi, lle y bo nifer y trigolion yn ei gyfiawnhau, y dylai swyddogion cyhoeddus siarad ieithoedd rhanbarthol/llieiafrifol ac y dylai fod testunau ar gael ynddynt. Dylai hefyd fod modd defnyddio'r ieithoedd hyn mewn dadleuon o fewn awdurdodau lleol a rhanbarthol. Wrth wneud y ddarpariaeth hon, mae'n bwysig sicrhau na chaiff ieithoedd swyddogol y wladwriaeth eu heithrio.

Mae dogfennau'r Comisiwn Ewropeaidd a Chyngor Ewrop, tra'n ceisio cymell dinasoedd ac awdurdodau cyhoeddus i fod yn fwy amlieithog, hefyd yn eu hannog i gynnig cyfleoedd i ddinasyddion ddysgu'r iaith leol ar gost isel.

Canolbwyntiwn ar ieithoedd mewn gwasanaethau cyhoeddus a manau cyhoeddus ar lefel dinas (cyngor) h.y. ar lefel canol dinas *nid* ar lefel ddatganoledig gwahanol gymdogaethau. Defnyddiwn argymhellion Rhwydwaith Eurocities prif ddinasoedd Ewrop ynghyd ag argymhellion diweddar arloeswr Ewropeaidd yn y maes hwn, sef dinas Sheffield yn y DU. Cafodd *Sheffield City Languages Strategy* ei chyhoeddi yn 2004 a cheisiodd gysylltu dysgu iaith ag agenda dinas ehangach cynhwysiant. Yn 2008, Sheffield oedd y ddinas gyntaf yn Ewrop lle y cafodd ei pholisïau iaith eu proffilio gan Gyngor Ewrop, sy'n rhoi cymorth arbenigol i hunanwerthuso polisïau gwledydd, rhanbarthau neu ddinasoedd. Cafodd adroddiad dinas yn trafod y gwaith o hyrwyddo amlieithrwydd mewn addysg a thu hwnt, gan gynnwys busnes, ei lunio gan Reynolds (2008).

Nod ymchwil Ewrop Gyfoethog ei Hieithoedd oedd archwilio strategaethau a pholisïau iaith ar lefel dinas, ac er mwyn gwneud hyn edrychwyd ar y dimensiynau canlynol:

- i ba raddau y mae gan y ddinas strategaeth sefydliadol i hyrwyddo amlieithrwydd
- a gaiff gwasanaethau a dogfennau eu darparu mewn ieithoedd heblaw am yr iaith genedlaethol
- presenoldeb ar y we mewn ieithoedd eraill
- y defnydd o ddehonglwyr a chyfieithwyr mewn gwasanaethau cyhoeddus
- yr ieithoedd a gaiff eu cynnwys yn nisgrifiadau swydd staff, yr hyfforddiant iaith a ddarperir, recriwtio siaradwyr ieithoedd eraill a'r cofnodion a gedwir ar sgiliau iaith staff
- recriwtio siaradwyr ieithoedd eraill a'r cofnodion a gedwir ar sgiliau iaith staff
- cydnabod sgiliau lluosieithrwydd staff.

Hefyd, gofynnwyd i gynrychiolwyr dinasoedd nodi sawl iaith y mabwysiadwyd y polisïau uchod ar eu cyfer. Yn ogystal, cafodd yr ieithoedd gwirioneddol a gynigiwyd gan ddinasoedd mewn *cyfleusterau cyfathrebu llafar ac ysgrifenedig* eu harolygu mewn gwasanaethau addysg, brys, iechyd, cymdeithasol, cyfreithiol, trafndiaeth, mewnffudo a thwristiaeth, yn ogystal â rhaglenni theatr.

Casglwyd data Ewrop Gyfoethog ei Hieithoedd drwy gyfuniad o holiaduron, cyfweiliadau ac ymchwil ddesg, ac yn y rhan fwyaf o achosion fe'i cyflwynwyd gan gynrychiolwyr awdurdodau'r dinasoedd. Yn anochel, mae natur yr holiaduron yn golygu na ellir mynd i fanylder, ond maent serch hynny yn ddefnyddiol fel canfyddiadau dangosol i'w trafod a'u harchwilio yn y dyfodol.

Cafodd cyfanswm o 64 o ddinasoedd eu harolygu. Nodir y rhestr lawn o ddinasoedd a'r meini prawf ar gyfer eu dethol yn Rhan 1 o'r llyfr hwn. Ar y cyfan, cafodd prifddinas, yr ail ddinas fwyaf, a dinas/tref ag iaith ranbarthol eu dewis mewn perthynas â phob gwlad/rhanbarth. Nodir y data a gofnodwyd ar gyfer strategaethau a pholisïau iaith ar lefel sefydliadol yn Nhabl 41.

Tabl 41: Y strategaethau a'r polisiau iaith a gofnodwyd mewn 64 o ddinasoedd a gymerodd ran

Dimensiwn	Cyffredin	Achlysurol	Absennol
Â strategaeth sefydliadol i hyrwyddo amlieithrwydd	20	25	19
Gwasanaethau amlieithog	30	24	10
Presenoldeb gwefan mewn ieithoedd eraill	27	18	19
Adroddiadau bwrdeistrefol blynyddol mewn ieithoedd eraill	15	10	39
Defnyddio cyfieithwyr a dehonglwyr	35	24	5
Ieithoedd yn nisgrifiadau swydd staff	23	27	13
Hyfforddiant iaith i staff	18	24	22
Recriwtio siaradwyr ieithoedd eraill	11	30	23
Cofnodi sgiliau iaith staff	17	9	37

Yn ôl adroddiadau ymchwilwyr, mae'r dinasoedd yn darparu gwasanaethau mewn 140 o ieithoedd heblaw am yr iaith genedlaethol, a cheir rhagor o fanylion am yr ieithoedd a gynigir yn Nhabl 46.

Y darlun cyffredinol sy'n dod i'r amlwg yw bod tua hanner y dinasoedd a arolygwyd yn nodi eu bod yn cynnig gwasanaethau amlieithog ar raddfa eang, tra bod gan draean strategaeth sefydliadol ar gyfer hyrwyddo amlieithrwydd a roddir ar waith yn eang. Dim ond 10 dinas o'r 64 a arolygwyd nad ydynt yn darparu gwasanaethau amlieithog. Mae gan 27 o ddinasoedd wasanaethau cyflawn mewn ieithoedd eraill ar y we, tra bod 18 yn nodi bod hyn ar gael, ond yn rhannol yn unig. Mae'r defnydd o gyfieithwyr a dehonglwyr yn ffynhonnell wybodaeth bwysig i siaradwyr ieithoedd lleol nad ydynt yn frodorol. Caiff gwasanaethau o'r fath eu darparu'n eang mewn 35 o ddinasoedd ac yn rhannol mewn 24 ohonynt. Dim ond pum dinas a nododd nas cynigir o gwbl. Mae 23 o ddinasoedd (dros draean) yn nodi ei bod hi'n gyffredin cynnwys ieithoedd yn nisgrifiadau swydd eu staff, gyda 27 arall yn nodi mai dim ond yn achlysurol y mae hyn yn digwydd. Mae 18 o ddinasoedd yn rhoi hyfforddiant iaith trwyadl i staff gyda 24 arall yn nodi bod hyn yn digwydd yn achlysurol. Dim ond mewn 11 o ddinasoedd y caiff siaradwyr ieithoedd eraill eu recriwtio'n eang. Ychydig o dan draean o ddinasoedd sy'n cadw cofnod o sgiliau iaith staff fel mater o drefn, tra nad oes gan dros hanner y fath weithdrefn.

Yn ogystal â holi cynrychiolwyr dinasoedd am y graddau y rhoddir y polisiau uchod ar gyfer amlieithrwydd ar waith, gofynnodd ymchwilwyr Ewrop Gyfoethog ei Hieithoedd hefyd am nifer yr ieithoedd y gweithredir y polisiau hyn ar eu cyfer. Dengys Tabl 42 ddsbarthiad dinasoedd lle y ystyrir y ddwy elfen.

Tabl 42: Polisiau ar gyfer amlieithrwydd a nifer yr ieithoedd a gynigir mewn 64 o'r dinasoedd dan sylw

Dim polisiau ar waith	Un ddinas
Polisiau annatblygedig mewn nifer fach iawn o ieithoedd	Chwe dinas
Polisiau wedi'u datblygu'n rhannol mewn ychydig ieithoedd	21 o ddinasoedd
Polisiau wedi'u datblygu mewn sawl iaith	31 o ddinasoedd
Polisiau wedi'u datblygu'n dda mewn llawer o ieithoedd	Tair dinas
Polisiau wedi'u datblygu'n dda iawn mewn llawer o ieithoedd	Dwy ddinas

Y pum dinas â'r polisiau mwyaf datblygedig yn y nifer fwyaf o ieithoedd yn ôl y data yw Fienna, Barcelona, Llundain, Milan a Krakow yn y drefn honno. Mae dinasoedd eraill yn dueddol o gynnig rhai gwasanaethau mewn llawer o ieithoedd, ond mae eraill ond yn gwneud hyn yn yr iaith genedlaethol neu nifer gyfyngedig o ieithoedd. Yn Nhabl 43 caiff y gwasanaethau eu hunain eu graddio yn ôl nifer yr ieithoedd y'u cynigir ynddynt.

Tabl 43: Gwasanaethau cyhoeddus wedi'u rhoi mewn trefn o'r nifer fwyaf i'r nifer leiaf o ieithoedd lle y cynigir cyfleusterau cyfathrebu mewn 64 o ddinasoedd dan sylw

Cyfathrebu llafar	Cyfathrebu ysgrifenedig
1. Gwasanaethau twristiaeth	Gwasanaethau twristiaeth
2. Gwasanaethau mewnfudo ac integreiddio	Gwasanaethau mewnfudo ac integreiddio
3. Gwasanaethau cyfreithiol	Gwasanaethau trafndiaeth
4. Gwasanaethau iechyd	Gwasanaethau iechyd
5. Gwasanaethau cymdeithasol	Gwasanaethau brys
6. Gwasanaethau brys	Gwasanaethau cymdeithasol
7. Gwasanaethau addysg	Gwasanaethau cyfreithiol
8. Gwasanaethau trafndiaeth	Gwasanaethau addysg
9. Rhaglenni theatr	Rhaglenni theatr
10. Dadleuon gwleidyddol a phrosesau gwneud penderfyniadau	Dadleuon gwleidyddol a phrosesau gwneud penderfyniadau

Ceir y ddarpariaeth orau mewn twristiaeth, mewnfudo ac integreiddio, gwasanaethau cyfreithiol (cyfathrebu llafar) a thrafnidiaeth (cyfathrebu ysgrifenedig). Hefyd, caiff gwasanaethau iechyd eu cynnig mewn nifer o ieithoedd fel arfer. Ceir y lefelau isaf o wasanaethau amlieithog yn y sector diwylliannol (theatr) a dadleuon gwleidyddol/prosesau gwneud penderfyniadau. Hefyd, nid yw gwasanaethau addysg mor uchel â'r disgwyl o ystyried y nifer fawr o fyfyrwyr (a'u rhieni) sy'n mynychu ysgolion ledled Ewrop nad ydynt yn siarad iaith swyddogol y wlad/rhanbarth lle y'u haddysgir yn rhugl. Gall y sgorau isel ar gyfer dadleuon gwleidyddol a phrosesau gwneud penderfyniadau gael effaith negyddol ar sicrhau bod pob rhanddeiliad, yn enwedig grwpiau lleiafrifol, newydd-ddyfodiaid a mewnfudwyr, yn cael cyfle cyfartal i gyfrannu at gymdeithas.

O ran y nifer wirioneddol o ieithoedd a gynigir ym mhob dinas, a'r amrywiaeth ohonynt, dylid unwaith eto bwysleisio bod y data'n seiliedig ar holiaduron ac ymatebion ysgrifenedig gan gynrychiolwyr dinasoedd. Byddai angen archwilio'r data ymhellach er mwyn pennu a gaiff yr ieithoedd y nodwyd eu bod yn cael eu cynnig eu cynnig mewn gwirionedd, ynghyd â chysondeb a lefelau sgiliau iaith. Serch hynny, mae data Ewrop Gyfoethog ei Hieithoedd a gasglwyd yn ddangosydd da ac yn llwyfan ar gyfer ymchwil bellach.

Nodir dosbarthiad dinasoedd yn ôl nifer yr ieithoedd lle mae gwasanaethau cyfathrebu llafar ar gael yn Nhabl 44.

Tabl 44: Dosbarthiad dinasoedd yn ôl nifer yr ieithoedd lle mae gwasanaethau cyfathrebu llafar ar gael mewn 10 o wasanaethau cyhoeddus

Graddau gwasanaethau amlieithog llafar	Nifer y dinasoedd
Gwasanaethau ond ar gael yn yr iaith genedlaethol	1
Gwasanaethau ar gael mewn un neu ddwy iaith fel arfer	23
Gwasanaethau ar gael mewn tair neu bedair iaith fel arfer	23
Gwasanaethau ar gael mewn mwy na phedair iaith fel arfer	17

Yn ôl yr ymatebion a roddwyd, mae 17 o ddinasoedd yn cynnig y rhan fwyaf o wasanaethau mewn mwy na phedair iaith, tra bod 23 ohonynt yn eu cynnig mewn tair neu bedair iaith. Y 10 dinas sy'n nodi eu bod yn cynnig y nifer fwyaf o wasanaethau cyfathrebu llafar yn y nifer fwyaf o ieithoedd mewn trefn yw Llundain, Aberdeen, Glasgow, Madrid, Valencia, Zürich, Milan, Belfast, Barcelona a Lugano.

Ar gyfer cyfathrebu ysgrifenedig, nodir dosbarthiad gwasanaethau yn ôl yr un system yn Nhabl 45.

Tabl 45: Dosbarthiad dinasoedd yn ôl nifer yr ieithoedd lle mae gwasanaethau cyfathrebu ysgrifenedig ar gael mewn 10 o wasanaethau cyhoeddus

Graddau gwasanaethau amlieithog ysgrifenedig	Nifer y dinasoedd
Gwasanaethau ond ar gael yn yr iaith genedlaethol	1
Gwasanaethau ar gael mewn un neu ddwy iaith fel arfer	30
Gwasanaethau ar gael mewn tair neu bedair iaith fel arfer	27
Gwasanaethau ar gael mewn mwy na phedair iaith fel arfer	6

Mae llai o ddinasoedd ar y brig ar gyfer cyfathrebu ysgrifenedig, sy'n awgrymu bod llai o bwyslais yn cael ei roi ar ddarparu dogfennau mewn sawl iaith nag ar ddarparu gwasanaethau dehongli a chyfryngu yn y fan a'r lle. Tra bod 40 o ddinasoedd yn cynnig cyfleusterau cyfathrebu llafar mewn mwy na thair iaith, mae 33 o ddinasoedd yn gwneud hynny'n ysgrifenedig. Yn ôl y data a nodwyd, y 10 dinas sy'n cynnig y nifer fwyaf o wasanaethau cyfathrebu ysgrifenedig yn y nifer fwyaf o ieithoedd mewn trefn yw Llundain, Glasgow, Aberdeen, Belfast, Valencia, Sevilla, Lugano, Zürich, Madrid a Milan.

Yr hyn y mae'r data lefel uchel hwn yn ei awgrymu yw bod dinasoedd eisoes yn ystyriol o anghenion iaith dinasyddion, o leiaf yn achos y gwasanaethau mwyaf hanfodol, ond bod lle i ddatblygu o ran ehangu'r amrywiaeth o wasanaethau lle y cynigir sawl iaith. O ran yr ieithoedd a gynigir gan ddinasoedd mewn gwirionedd, dengys Tabl 46 yr 20 o ieithoedd a grybwyllir fwyaf yn y polisiau a'r gwasanaethau a arolygwyd.

Tabl 46: Sbectrwm amlieithog o ieithoedd a gofnodir ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus a manau cyhoeddus mewn 64 o ddinasoedd (Yr 20 uchaf o ran ieithoedd y tu allan i'r wlad neu'r rhanbarth cyfeirio)

leithoedd mewn gwasanaethau cyhoeddus a manau cyhoeddus	Sawl gwaith y sonnr amdanynt
1. Saesneg	771
2. Almaeneg	290
3. Rwseg	285
4. Ffrangeg	255
5. Sbaeneg	153
6. Tsieinëeg	117
7. Arabeg	117
8. Eidaleg	98
9. Pwyleg	69
10. Tyrceg	67
11. Rwmaneg	60
12. Croateg	58
13. Portiwgaleg	55
14. Bosnieg	37
15. Japanaeg	36
16. Hwngareg	34
17. Wrddw	34
18. Albaneg	27
19. Serbeg	27
20. Perseg	21

Saesneg yw'r iaith a gynnigir fwyaf o bell ffordd heblaw am yr iaith genedlaethol ar gyfer gwasanaethau llafar ac ysgrifenedig ym mhob dinas a arolygwyd, wedi'i dilyn gan Almaeneg, Rwseg, Ffrangeg a Sbaeneg. Mae Tsieinëeg ac Arabeg hefyd yn dod i'r amlwg fel blaenoriaeth uchel a chânt eu cynnig gan nifer o ddinasoedd. Mae'r canlyniadau ar gyfer y pum iaith bennaf mewn papurau newydd a gwasanaethau/manau cyhoeddus ar lefel dinas yn debyg iawn. Fel yn achos yr ieithoedd y cynigir papurau newydd ynddynt, gallwn dybio bod dau fath o grŵp targed ar gyfer gwasanaethau cyfathrebu llafar ac ysgrifenedig mewn gwasanaethau cyhoeddus a manau cyhoeddus: a) gwasanaethau ar gyfer teithwyr rhyngwladol, pobl fusnes a thwristiaid mewn Saesneg, Almaeneg, Rwseg, Ffrangeg, Sbaeneg ac Eidaleg; b) gwasanaethau ar gyfer grwpiau mewnfydwyr mewn Arabeg, Tyrceg, Croateg, Tsieinëeg ac ati. Fodd bynnag, gall fod nifer o resymau pam bod dinasoedd yn rhoi blaenoriaeth i rai ieithoedd yn fwy nag eraill, ac mae hwn yn faes i'w archwilio ymhellach gyda gweinyddwyr dinasoedd a'u timau cyfathrebu.

2.9 Ieithoedd mewn busnes

Mae sefydliadau'r UE wedi hyrwyddo amlieithrwydd fel ffactor mewn perthynas â chystadleurwydd Ewrop, a symudedd a chyflogadwyedd pobl, yn gyson. Yng Nghyngedig Cyngor yr UE (2008), galwyd ar i fusnesau feithrin sgiliau mewn ystod eang o ieithoedd er mwyn ehangu mynediad i farchnadoedd, ac fe'u hanogwyd i roi mwy o sylw i sgiliau iaith wrth ddatblygu gyrfaedd staff. Yng Nogfen Gyfathrebu'r Comisiwn Ewropeaidd o'r un flwyddyn cyfeiriwyd at astudiaeth ELAN yn 2006, a ddaeth i'r casgliad bod sgiliau ieithyddol a rhyngddwylliannol yn berthnasol i lwyddiant ym maes allforio, a bod cryn dipyn o fusnes wedi'i gollu i Ewrop o ganlyniad i ddiffyg sgiliau o'r fath.

Roedd y Grŵp Lefel Uchel ar Amieithrwydd (2007) hefyd wedi neilltuo rhan o'i adroddiad i fusnes, gan ddod i'r casgliad, er mai Saesneg oedd y brif iaith fusnes, mai ieithoedd eraill fyddai'n rhoi'r fantais gystadleuol i gwmnïau'r UE. Argymhellodd y dylai cwmnïau fuddsoddi mewn ieithoedd a hefyd ddefnyddio adnoddau iaith presennol eu staff, llunio strategaethau rheoli iaith a sefydlu partneriaethau cyhoeddus-preifat â'r sector addysg er mwyn sicrhau bod yr ieithoedd cywir ar gyfer byd busnes yn cael eu dysgu.

Cyhoeddodd y Fforwm Busnes ar gyfer Amieithrwydd (2008), a sefydlwyd gan y Comisiwn Ewropeaidd, gyfres newydd o argymhellion ar strategaethau iaith ym myd busnes. Yn ei sylwadau i gloi, nododd y canlynol:

Mae angen i gwmnïau ystyried sgiliau iaith presennol o fewn y cwmni a defnyddio'r rhain yn strategol. Dylent roi sylw i'w polisiau recriwtio, eu strategaethau hyfforddi a'u hegwyddorion ar gyfer symudedd. Gallant annog staff i ddefnyddio a datblygu'r sgiliau sydd ganddynt eisoes a chynnig hyfforddiant iaith sy'n eu cymell ac sy'n gydnaws â gofynion y gweithle. (2008:13)

Yn unol â'r argymhellion hyn, sefydlwyd arolwg ar gyfer Ewrop Gyfoethog ei Hieithoedd i archwilio strategaethau iaith cwmnïau, i weld a ydynt yn blaenoriaethu sgiliau iaith o ran recriwtio ac yn cefnogi hyfforddiant iaith i'w cyflogaion, a hefyd i bennu faint o amlieithrwydd a geir o fewn cwmnïau a'r amrywiaeth o ieithoedd a ddefnyddir i gyfathrebu â chwsmeriaid ac mewn deunyddiau hyrwyddo. Rhennir y meini prawf a ystyriwyd yn dri phrifategori: *strategaethau iaith cyffredinol cwmnïau, strategaethau iaith mewnol, a strategaethau iaith allanol.*

Casglodd ymchwilwyr Ewrop Gyfoethog ei Hieithoedd ddata o set ddethol o gwmnïau mewn dinasoedd ledled yr holl wledydd/rhanbarthau a chafodd 484 o gwmnïau eu harolygu i gyd. Targedwyd pedwar sector busnes (banciau, gwestai, cwmnïau adeiladu ac archfarchnadoedd) fel yr eglurwyd yn Rhan 1 yn Nhabl 5. Y rheswm dros wneud hyn oedd ein bod am gasglu data ar gwmnïau sydd, yn ogystal â gwneud busnes â gwledydd eraill, hefyd yn delio â chwsmeriaid i raddau helaeth. Gofynnwyd i gasglwyr data gynnal yr arolwg gydag o leiaf 24 o gwmnïau yn eu gwlad/rhanbarth, gyda samplau wedi'u dosbarthu mor gyfartal â phosibl rhwng busnesau amlgenedlaethol/rhyngwladol, cenedlaethol a rhanbarthol neu leol, ac mor gyfartal â phosibl rhwng sectorau busnes. Roedd hi'n anodd gwireddu'r uchelgais hon yn yr holl wledydd/rhanbarthau. Rhydd Tabl 47 y dosbarthiad o fathau o fusnesau a arolygwyd. Yn gyffredinol, er bod nifer y gwestai a gymerodd ran yn gymharol uchel o gymharu â sectorau eraill, roedd cydbwysedd da rhwng y sectorau.

Tabl 47: Dosbarthiad cwmnïau mewn sectorau gwahanol (Nifer = 484)

Gwestai	Banciau	Cwmnïau adeiladu	Archfarchnadoedd	Cyfanswm
140	120	116	108	484

O dan y pennawd *Strategaethau iaith cyffredinol cwmnïau*, atebodd cynrychiolwyr cwmnïau gwestiynau am y canlynol:

- a oes gan y cwmni strategaeth iaith benodol ar waith
- a yw'r cwmni yn rhoi pwyslais ar sgiliau iaith wrth recriwtio pobl
- a ddarperir ar gyfer symudedd rhyngwladol staff at ddibenion dysgu iaith ac ymwybyddiaeth ryngddiwylliannol
- y defnydd o gyfieithwyr/dehonglwyr allanol
- a gedwir cofnodion ar sgiliau iaith staff
- y defnydd o rwydweithiau ar gyfer hyfforddiant iaith
- ymwybyddiaeth o raglenni/cyllid yr UE
- y defnydd o raglenni/cyllid yr UE.

Dangosir y canlyniadau ar gyfer y 484 o gwmnïau a arolygwyd yn Nhabl 48.

Tabl 48: Cwmnïau a nododd bolisiau ac arferion ar gyfer amlieithrwydd mewn pedwar sector (% o 484 o gwmnïau)

Polisi	Cyffredin	Achlysurol	Absennol
Strategaeth iaith	24	28	48
Sgiliau iaith wrth recriwtio	55	28	17
Symudedd	23	27	50
Y defnydd o gyfieithwyr/dehonglwyr allanol	22	35	43
Cofnodi sgiliau iaith staff	1	29	70
Y defnydd o rwydweithiau ar gyfer hyfforddiant iaith	10	15	75
Y defnydd o raglenni/cyllid yr UE	5	8	87
Ymwybyddiaeth o raglenni/cyllid yr UE	0	27	73

Dengys y canlyniadau fod chwarter y cwmnïau yn y sectorau hyn yn meddu ar strategaeth iaith benodol, a bod dros hanner yn ystyried sgiliau iaith wrth recriwtio staff newydd. Mae chwarter yn annog symudedd staff at ddibenion dysgu iaith a meithrin ymwybyddiaeth ryngddiwylliannol yn rheolaidd. Fodd bynnag, nid yw 70 y cant yn cadw cofnod o sgiliau iaith staff, ac ychydig iawn sy'n manteisio ar raglenni'r UE ar gyfer dysgu iaith.

O ran *strategaethau iaith mewnol*, gofynnwyd i fusnesau nodi sut maent yn hyrwyddo sgiliau iaith yn y gweithle, a'u hymagwedd tuag at yr ieithoedd a ddefnyddir mewn dogfennau ac i gyfathrebu'n fewnol. Er mwyn pennu pwysigrwydd cymharol yr iaith genedlaethol, Saesneg, ac ieithoedd rhanbarthol/Ileiafrifol, ieithoedd tramor ac ieithoedd mewnffudwyr i'r cwmnïau hyn, gofynnwyd iddynt nodi pa arferion a ddilynir ganddynt ar gyfer pob math o iaith, a hefyd i nodi pa ieithoedd heblaw am yr iaith genedlaethol a Saesneg a gaiff y mwyaf o sylw. Y meysydd a gwmpaswyd oedd:

- partneriaethau â'r sector addysg er mwyn meithrin sgiliau iaith cyflogeion
- cynlluniau gwobrwyo/hyrwyddo ar sail sgiliau iaith
- darpariaeth hyfforddiant iaith
- y defnydd o CEFR mewn hyfforddiant iaith
- yr ieithoedd a ddefnyddir ar gyfer dogfennau'r gweithle a'r fewnwyd
- yr ieithoedd a ddefnyddir ar gyfer meddalwedd a rhaglenni'r we.

Dangosir y canlyniadau yn Nhabl 49 yn ôl y math o iaith.

Tabl 49: Cwmnïau sy'n nodi arfer da yn ôl y math o iaith: IG = iaith/ieithoedd Cenedlaethol; SB = Saesneg Busnes; IE = ieithoedd eraill (% o 484 o gwmnïau)

Meini Prawf	Cyffredin			Achlysurol			Absennol		
	IG	SB	IE	IG	SB	IE	IG	SB	IE
Partneriaethau â'r sector addysg	7	10	7	10	17	7	83	73	86
Cynlluniau gwobrwyo/hyrwyddo	5	11	5	9	12	6	86	77	89
Darpariaeth hyfforddiant iaith	14	27	12	18	23	12	68	50	76
Y defnydd o CEFR mewn hyfforddiant iaith	4	7	3	7	9	6	89	84	91
Yr ieithoedd a ddefnyddir ar gyfer dogfennau'r gweithle a'r fewnrwyd	96	41	14	3	21	10	1	38	76
Yr ieithoedd a ddefnyddir ar gyfer meddalwedd a rhaglenni'r we	88	46	11	6	22	5	6	32	84

Fel y gwelwn o Dabl 49, nodir darpariaeth eang o ran hyfforddiant iaith ar gyfer Saesneg busnes mewn 27 y cant o'r cwmnïau a arolygwyd, gyda 14 y cant yn cynnig cymorth yn yr iaith genedlaethol i siaradwyr nad ydynt yn frodorol, a 12 y cant ar gyfer ieithoedd eraill. Mae gan ganran gymharol fechan gynlluniau gwobrwyo neu hyrwyddo, gydag 11 y cant yn nodi bod hyn yn eang ar gyfer Saesneg busnes a dim ond 5 y cant ar gyfer yr iaith genedlaethol ac ieithoedd eraill. Ymddengys hefyd fod nifer y cwmnïau sy'n sefydlu partneriaethau â'r sector addysg i feithrin sgiliau iaith eu staff yn fach, gyda chwarter yn gwneud hynny naill ai'n rheolaidd neu'n achlysurol ar gyfer Saesneg, 17 y cant ar gyfer yr iaith genedlaethol gyda siaradwyr nad ydynt yn frodorol, a 14 y cant ar gyfer datblygu ieithoedd eraill. Caiff y CEFR ei ddefnyddio'n eang gan ganran fechan iawn o'r cwmnïau a arolygwyd i ddatblygu cwricwla a gwerthuso cynnydd, gan awgrymu bod angen codi ymwybyddiaeth.

O ran yr ieithoedd a ddefnyddir mewn gwirionedd yn nogfennau gweithleoedd ac ar fewnrwydi corfforaethol, fel y disgwylir yr iaith genedlaethol sy'n drech, er bod bron i hanner y cwmnïau a arolygwyd yn nodi bod Saesneg busnes hefyd yn cael ei defnyddio'n eang. Caiff ieithoedd eraill eu defnyddio'n eang mewn ychydig dros 10 y cant o'r cwmnïau a arolygwyd.

Wrth edrych ar *strategaethau iaith allanol* gofynnwyd i gwmnïau pa ieithoedd a ddefnyddir ganddynt i gyfathrebu'n allanol yn eu:

- hadroddiadau busnes blynyddol
- deunyddiau marchnata
- brand/hunaniaeth gorfforaethol
- gwefan y cwmni.

Dangosir y canlyniadau yn Nhabl 50 yn ôl y math o iaith.

Tabl 50: Yr ieithoedd a ddefnyddir gan gwmnïau i gyfathrebu'n allanol: IG = iaith/ieithoedd cenedlaethol; SB = Saesneg busnes; IE = ieithoedd eraill (% o 484 o gwmnïau)

Math o gyfathrebu	Cyffredin			Achlysurol			Absennol		
	IG	SB	IE	IG	SB	IE	IG	SB	IE
Adroddiad busnes blynyddol	92	38	11	2	11	5	6	51	84
Deunyddiau marchnata	95	40	19	2	17	11	3	42	70
Brand corfforaethol	92	48	22	5	24	19	3	28	59
Gwefan y cwmni	92	61	30	2	5	5	6	34	65

Dengys y canlyniadau hyn, yn y sectorau a arolygwyd, fod ychydig dan hanner y cwmnïau yn defnyddio Saesneg busnes yn eang yn ogystal â'r iaith genedlaethol i gyfathrebu'n allanol, a bod cynifer â 30 y cant yn defnyddio ieithoedd eraill ar eu gwefannau.

Mae'r Fforwm Busnes ar gyfer Amlieithrwydd (2008: 13) yn amlygu strategaethau iaith lluosog fel un o amodau sylfaenol llwyddiant mewn masnach a busnes i fusnesau Ewropeaidd:

Caiff cynnydd go iawn ei weld os bydd busnesau, o ficro gwmnïau i gwmnïau amlgenedlaethol, yn datblygu strategaethau iaith creadigol a dynamig, wedi'u haddasu yn unol â phosibiliadau unigol pob sefydliad.

Ceisiodd arolwg Ewrop Gyfoethog ei Hieithoedd weld sut y caiff yr uchelgais hon ei gwredu drwy ofyn i gwmnïau pa ieithoedd penodol a gaiff eu blaenoriaethu a'u hyrwyddo yn ogystal â'r iaith genedlaethol a Saesneg. Mae Tabl 51 yn dadansoddi'r ieithoedd eraill yn ôl pa mor aml y'u nodwyd gan y sawl a ymatebodd i'r holiadur ac yn rhestru'r 20 o ieithoedd ar y brig.

Almaeneg, Rwseg, Ffrangeg, Sbaeneg ac Eidaleg yw'r ieithoedd a ddefnyddir fwyaf gan y cwmnïau a arolygwyd. O'r data a gyflwynwyd ar ddsbarthiad ieithoedd, daw'n glir bod rhai ieithoedd, megis Almaeneg, Ffrangeg a Japanaeg, yn cael eu defnyddio gan amrywiaeth o gwmnïau mewn amrywiaeth cyfoethog o wledydd. Eto i gyd, caiff rhai ieithoedd, megis Rwseg a Ffinneg, eu defnyddio'n bennaf mewn cymdogaethau cyfagos. Mae'r ffaith bod Ffinneg yn cael ei nodi gan y rhan fwyaf o gwmnïau yn Estonia yn ei rhoi yn uchel ar y rhestr. Caiff Tsieinëeg, Tyrceg, Arabeg a Japanaeg eu gwerthfawrogi gan rai cwmnïau yn Ewrop er y gellir disgwyl iddynt gael mwy o flaenoriaeth. Bydd angen gwneud ymchwil fanylach er mwyn cael cipolwg pellach ar y rhesymau dros y dewis o ieithoedd gan gwmnïau, ac mae angen i'r canlyniadau gael eu cymharu ag astudiaethau tebyg yn y sectorau hyn a sectorau eraill er mwyn gweld pa batrymau sy'n dod i'r amlwg.

Tabl 51: Sbectrwm amlieithog o ieithoedd y nodir eu bod yn cael eu blaenoriaethu gan 484 o gwmnïau mewn pedwar sector (Yr 20 iaith uchaf ar wahân i Saesneg y tu allan i'r wlad neu'r rhanbarth cyfeirio)

ieithoedd mewn busnes	Sawl gwaith y'u nodwyd	Dosbarthiad ieithoedd yn ôl pa mor aml y'u nodwyd mewn gwahanol wledydd (os cafodd iaith ei nodi gan fwy na 5 gwlad, dim ond y gwledydd hynny â'r 5 cyfanswm uchaf a nodir)
1. Almaeneg	430	Y Swistir, Cantonau Genefa a Ticino yn unig (57), Sbaen* (38), Bosnia a Herzegovina (33), Hwngari/Lithwania/yr Iseldiroedd (27)
2. Rwseg	333	Estonia (94), yr Wcráin (78), Lithwania (64), Gwlad Groeg (20), Gwlad Pwyl (15)
3. Ffrangeg	322	Y Swistir, Cantonau Zürich a Ticino yn unig (71), Sbaen* (47), DU (41), yr Iseldiroedd (37), Portiwgal (33)
4. Sbaeneg	155	Portiwgal (31), y Swistir (29), DU (28), yr Iseldiroedd (18), Ffrainc (16)
5. Eidaleg	134	Y Swistir, Cantonau Zürich a Genefa yn unig (26), Awstria (24), Bosnia (16), Sbaen* (15), DU (15)
6. Ffinneg	66	Estonia (59), Denmarc (2), Lithwania (2), yr Iseldiroedd/Gwlad Pwyl/DU (1)
7. Tsieinëeg	55	DU (34), Gwlad Groeg (9), Sbaen* (4), yr Iseldiroedd (3), Gwlad Pwyl (2)
8. Pwyleg	47	Yr Iseldiroedd (12), yr Wcráin (11), Lithwania (7), Awstria (6), DU (5)
9. Portiwgaleg	35	Sbaen* (13), y Swistir (11), yr Iseldiroedd (3), DU (3), Awstria/Ffrainc (2)
10. Tyrceg	29	Bosnia a Herzegovina (13), yr Iseldiroedd (6), y Swistir (4), Awstria (3), Rwmania (2)
11. Arabeg	26	DU (10), Portiwgal/y Swistir (4), Gwlad Groeg (3), Sbaen* (2)
12. Croateg	26	Awstria (17), Hwngari/yr Eidal (3), y Swistir (2), Bosnia a Herzegovina (1)
13. Tsieceg	26	Awstria (16), Hwngari (6), Gwlad Pwyl (3), y Swistir (1)
14. Hwngareg	23	Awstria (11), Gwlad Pwyl (9), Rwmania (3)
15. Catalaneg	22	Sbaen* (18), DU (3), Gwlad Pwyl (1)
16. Swedeg	22	Estonia (12), Denmarc (4), Lithwania/DU (2), Gwlad Pwyl/Sbaen* (1)
17. Japanaeg	20	DU (7), Gwlad Pwyl (5), yr Eidal (3), yr Iseldiroedd (2), Gwlad Groeg/y Swistir/yr Wcráin (1)
18. Latfieg	20	Estonia/Lithwania (9), Denmarc/DU (1)
19. Rwmaneg	19	Awstria (9), Gwlad Groeg (5), Hwngari (3), Bwlgaria (2)
20. Daneg	18	Hwngari (6), Lithwania (5), Estonia/Gwlad Pwyl (3), DU (1)

*Yr ieithoedd a nodwyd yn Sbaen: dim ond yr ieithoedd hynny a nodwyd yn Madrid, Sevilla a Valencia a ystyriwyd.

2.10 Safbwyntiau trawstoriadol ar y proffiliau amliaith a gafwyd y tu hwnt i addysg

Er mwyn cael trosolwg cymharol o ddisbarthiad gwahanol ieithoedd ar draws gwahanol barthau iaith y tu hwnt i addysg, nodir yn Nhabl 52 yr 20 iaith a grybwyllir fwyaf ar wahân i'r ieithoedd cenedlaethol ym mharthau iaith y wasg, gwasanaethau cyhoeddus a manau cyhoeddus, a busnes.

Tabl 52: Dosbarthiad ieithoedd mewn papurau newydd, gwasanaethau/manau cyhoeddus a busnes y tu allan i'r wlad neu'r rhanbarth cyfeirio (Yr 20 uchaf)

leithoedd papurau newydd	Cyfanswm nifer y papurau newydd gwahanol	leithoedd mewn gwasanaethau cyhoeddus/manau cyhoeddus	Cyfanswm nifer yr ieithoedd a grybwyllwyd	leithoedd mewn busnesau (heblaw am Saesneg)	Cyfanswm nifer yr ieithoedd a grybwyllwyd
Saesneg	408	Saesneg	771	Almaeneg	430
Almaeneg	270	Almaeneg	290	Rwseg	333
Ffrangeg	181	Rwseg	285	Ffrangeg	322
Rwseg	162	Ffrangeg	255	Sbaeneg	155
Eidaleg	127	Sbaeneg	153	Eidaleg	134
Arabeg	77	Tsieinëeg	117	Ffinneg	66
Tyrceg	54	Arabeg	117	Tsieinëeg	55
Sbaeneg	51	Eidaleg	98	Pwyleg	47
Iseldireg	46	Pwyleg	69	Portiwgaleg	35
Albaneg	40	Tyrceg	67	Tyrceg	29
Serbeg	36	Rwmaneg	60	Arabeg	26
Tsieinëeg	27	Croateg	58	Croateg	26
Croateg	23	Portiwgaleg	55	Tsieceg	26
Bwlgareg	12	Bosniëg	37	Hwngareg	23
Japanaeg	11	Japanaeg	36	Catalaneg	22
Pwyleg	10	Hwngareg	34	Swedeg	22
Groeg	8	Wrdw	34	Japanaeg	20
Bosniëg	7	Albaneg	27	Latfieg	20
Hwngareg	7	Serbeg	27	Rwmaneg	19
Swedeg	6	Perseg	21	Daneg	18

Cyfeiriadau yn Rhan 1 a 2

Baetens Beardsmore, H. (2008). Language promotion by European supra-national institutions. Yn: O. García (gol.) *Bilingual Education: Multilingual and Multicultural Children and Youths in 21st Century Schools*. Efrog Newydd: Blackwell.

Ball, J. (2011). *Enhancing Learning of Children from Diverse Language Backgrounds: Mother tongue-based Bilingual or Multilingual Education in the Early Years*. Paris: UNESCO.

Beacco, J.C. a M. Byram (2007). *From Linguistic Diversity to Plurilingual Education. Guide for the development of language education policies in Europe*. Strasbwrg: Yr Is-adran Polisi Iaith. Cyngor Ewrop.

Beacco, J.C. ac eraill (2010). *Guide for the Development and Implementation of Curricula for Plurilingual and Intercultural Education*. Strasbwrg: Yr Is-adran Polisi Iaith. Cyngor Ewrop.

Fforwm Busnes ar gyfer Amlieithrwydd (2008). *Languages Mean Business. Companies Work Better with Languages*. Brwsel: Cymunedau Ewropeaidd.

Llwyfan Busnes ar gyfer Amlieithrwydd (2011). *Report on the period September 2009 – June 2011*. Brwsel: Y Comisiwn Ewropeaidd.

CILT (2006). *ELAN: Effects on the European Economy of Shortages of Foreign Language Skills in Enterprise*. CILT Llundain: Y Ganolfan Ieithoedd Genedlaethol.

Llwyfan Cymdeithas Sifil ar Amlieithrwydd (2009). <http://www.euroclio.eu/new/index.php/partners-mainmenu-530/european-citizenship/1207-eu-civil-society-platform-on-multilingualism>

Dogfen Weithio Staff y Comisiwn (2008). *Inventory of Community Actions in the Field of Multilingualism*. Dogfen a gyflwynwyd ar y cyd â Dogfen Gyfathrebu'r Comisiwn i Senedd Ewrop, y Cyngor ac eraill. Brwsel: Cymunedau Ewropeaidd.

Papur Gweithio Staff y Comisiwn (2011a). *An inventory of Community Actions in the Field of Multilingualism – 2011 update*. Brwsel: Y Comisiwn Ewropeaidd.

Papur Gweithio Staff y Comisiwn (2011b). *Report on the Implementation of the Council Resolution of 21 November 2008 on a European Strategy for Multilingualism*. Brwsel: Y Comisiwn Ewropeaidd.

Papur Gweithio Staff y Comisiwn (2011c). *Language Learning at Pre-Primary School Level: Making it Efficient and Sustainable. A Policy Handbook*. Brwsel: Y Comisiwn Ewropeaidd.

Pwyllgor y Gweinidogion (1998). Argymhellad i Aelod-wladwriaethau ynghylch Ieithoedd Modern. Strasbwrg: Cyngor Ewrop.

Pwyllgor y Gweinidogion (2008). Argymhellion i Aelod-wladwriaethau ar Ddefnyddio'r Fframwaith Cyfeirio Ewropeaidd Cyffredin ar gyfer Ieithoedd a Hyrwyddo Lluosieithrwydd. Strasbwrg: Cyngor Ewrop.

Cyngor Ewrop (1954). Y Confensiwn Diwylliannol Ewropeaidd. Strasbwrg: Cyngor Ewrop.

Cyngor Ewrop (2001). *A Common European Framework of Reference for Languages: Learning, Teaching, Assessment*. Caergrawnt: Gwasg Prifysgol Caergrawnt.

Cyngor yr Undeb Ewropeaidd (2002a). Cynnig ar Amrywiaeth Ieithyddol a Dysgu Ieithoedd. Brwsel: Y Comisiwn Ewropeaidd.

Cyngor yr Undeb Ewropeaidd (2002b). Casgliadau Llywyddiaeth y Cyngor Ewropeaidd yn Barcelona, 15-16 Mawrth 2002. Brwsel: Cymunedau Ewropeaidd.

Cyngor yr Undeb Ewropeaidd (2008). Cynnig y Cyngor ar Strategaeth Ewropeaidd ar gyfer Amlieithrwydd. Brwsel: Cymunedau Ewropeaidd.

Cyngor yr Undeb Ewropeaidd (2011). Casgliadau'r Cyngor ar Gymwyseddau Iaith i Wella Symudedd. Brwsel: Cymunedau Ewropeaidd.

Cullen, J., ac eraill (2008). *Multilingualism: Between Policy Objectives and Implementation*. Brwsel: Senedd Ewrop.

Y Siarter Ewropeaidd ar gyfer Ieithoedd Rhanbarthol neu Ieithoedd Lleiafrifol (1992). Strasbwrg: Cyngor Ewrop.

Y Comisiwn Ewropeaidd (1995). *Whitebook. Teaching and Learning: Towards a Cognitive Society*. Brwsel: Y Comisiwn Ewropeaidd.

Y Comisiwn Ewropeaidd (1995). *White paper on Education and Training – Teaching and Learning – Towards the Learning Society. Dogfen Gyfathrebu (95) 590 terfynol, 29 Tachwedd 1995*. Brwsel: Y Comisiwn Ewropeaidd.

Y Comisiwn Ewropeaidd (2001). *Europeans and Languages. Special Eurobarometer Report 54*. Brwsel: Y Comisiwn Ewropeaidd.

Y Comisiwn Ewropeaidd (2006). *Europeans and their Languages. Special Eurobarometer Report 243*. Brwsel: Y Comisiwn Ewropeaidd.

Y Comisiwn Ewropeaidd (2008). Dogfen Gyfathrebu'r Comisiwn i Senedd Ewrop, y Cyngor, Pwyllgor Economaidd a Chymdeithasol Ewrop, a Phwyllgor y Rhanbarthau. *Multilingualism: An Asset for Europe and A Shared Commitment*. Brwsel: Cymunedau Ewropeaidd.

Y Comisiwn Ewropeaidd (2010). Dogfen Gyfathrebu'r Comisiwn i Senedd Ewrop, y Cyngor, Pwyllgor Economaidd a Chymdeithasol Ewrop, a Phwyllgor y Rhanbarthau. *A New Impetus for European Cooperation in Vocational Education and Training to Support the Europe 2020 Strategy*. Brwsel: Cymunedau Ewropeaidd.

- Y Comisiwn Ewropeaidd (2012). *Europeans and their Languages. Special Eurobarometer Report 386*. Brwsel: Y Comisiwn Ewropeaidd.
- Y Comisiwn Ewropeaidd (2012). *First European Survey on Language Competences*. Adroddiad Terfynol a Chrynodeb Gweithredol. Brwsel: Y Comisiwn Ewropeaidd.
- Papur Gwyrdd y Comisiwn Ewropeaidd (2008). *Migration and Mobility: Challenges and Opportunities for EU Education Systems*. Brwsel: Y Comisiwn Ewropeaidd.
- Portffolio Ieithoedd Ewropeaidd. Strasbwrg: Cyngor Ewrop.
- Senedd Ewrop (2003). Cynnig Senedd Ewrop gydag Argymhellion i'r Comisiwn ar Ieithoedd Rhanbarthol ac Ieithoedd Llai eu Defnydd yn Ewrop yng Nghyd-destun Ehangu ac Amrywiaeth Ddiwylliannol. Brwsel: Senedd Ewrop.
- Senedd Ewrop (2009). Cynnig Senedd Ewrop ar Amlieithrwydd: Ased ar gyfer Ewrop ac Ymrwymiad ar y Cyd. Brwsel: Senedd Ewrop.
- Eurydice (2009). *Integrating Immigrant Children into Schools in Europe*. Brwsel: Eurydice/Y Comisiwn Ewropeaidd.
- Eurydice/EuroStat (2008). *Key Data on Teaching Languages at School in Europe*. Brwsel/Lwcsembwrg: Eurydice/EuroStat.
- Eurydice/EuroStat (2009). *Key Data on Education in Europe*. Brwsel: Eurydice/Eurostat.
- Extra, G. (2010). *Mapping linguistic diversity in multicultural contexts: Demolinguistic perspectives*. Yn: J. Fishman ac O. Garcia (gol.), *Handbook of Language and Ethnic Identity*, Ail Argraffiad. Rhydychen: Gwasg Prifysgol Rhydychen, 107-122.
- Extra, G. a D. Gorter (gol.) (2008). *Multilingual Europe: Facts and Policies*. Berlin/Efrog Newydd: Mouton de Gruyter.
- Extra, G. ac Yağmur, K. (gol.) (2004). *Urban Multilingualism in Europe: Immigrant Minority Languages at Home and at School*. Clevedon: Multilingual Matters.
- Extra, G. a K. Yağmur (2011). *Report on the Pilot Studies in Poland and Spain*. Berlin/Brwsel: British Council.
- Fishman, J. ac O. Garcia (gol.) (2010). *Handbook of Language and Ethnic Identity. Disciplinary and Regional Perspectives*. Rhydychen/Efrog Newydd: Gwasg Prifysgol Rhydychen.
- Grin, F. (2003). *Language Policy Evaluation and the European Charter for Regional and Minority Languages*. Hampshire: Palgrave Macmillan.
- Grŵp y Deallusion ar gyfer Trafod Rhyngddiwylliannol (2008). *A Rewarding Challenge. How the Multiplicity of Languages Could Strengthen Europe*. Brwsel: Cymunedau Ewropeaidd.
- Heller, M. (2007). Bilingualism as ideology and practice. Yn: M. Heller (gol.), *Bilingualism: A Social Approach*. Basingstoke: Palgrave, 1-24.
- Grŵp Lefel Uchel ar Amlieithrwydd (HLGM) (2007). *Final report*. Brwsel: Cymunedau Ewropeaidd.
- McPake, J. a T. Tinsley (cydgyssylltwyr) (2007). *Valuing All Languages in Europe*. Graz: ECML.
- Media Consulting Group (2007). *Study on dubbing and subtitling needs and practices in the European audiovisual industry*. Brwsel: Y Comisiwn Ewropeaidd.
- Media Consulting Group (2011). *Study on the Use of Subtitling. The Potential of Subtitling to Encourage Language Learning and Improve the Mastery of Foreign Languages*. Brwsel: Y Comisiwn Ewropeaidd.
- Nic Craith, M. (2003). Facilitating or generating linguistic diversity. The European Charter for Regional or Minority Languages. Yn: G. Hogan-Brun a S. Wolff (gol.), *Minority Languages in Europe. Frameworks, Status, Prospects*, 56-72. Hampshire: Palgrave Macmillan.
- OMC Group Languages for Jobs (2011). *Providing Multilingual Communication Skills for the Labour Market*. Brwsel: Y Comisiwn Ewropeaidd.
- Y Cynulliad Seneddol (1998). Argymhelliad ar Amrywio Ieithyddol. Strasbwrg: Cyngor Ewrop.
- Y Cynulliad Seneddol (2001). Argymhelliad ar Flwyddyn Ieithoedd Ewrop. Strasbwrg: Cyngor Ewrop.
- Y Cynulliad Seneddol (2003). Argymhelliad ar Ddiogelu Ieithoedd Arwyddion yn Aelod-wladwriaethau Cyngor Ewrop. Strasbwrg: Cyngor Ewrop.
- Y Cynulliad Seneddol (2006). Argymhelliad ar Rôl y Famaith mewn Addysg yn yr Ysgol. Strasbwrg: Cyngor Ewrop.
- Y Cynulliad Seneddol (2008). Argymhelliad ar Integreiddio Oedolion sy'n Fewnfudwyr ac Addysg. Strasbwrg: Cyngor Ewrop.
- Prosiect PIMLICO (2011). *Report on Language Management Strategies and Best Practice in European SMEs*. Brwsel: Y Comisiwn Ewropeaidd.
- Poulain, M. (2008). *European migration statistics: definitions, data and challenges*. Yn: M. Barni a G. Extra (gol.), *Mapping Linguistic Diversity in Multicultural Contexts*. Berlin/Efrog Newydd: Mouton de Gruyter, 43-66.
- Reynolds, C. (2008). *Sheffield's Language Education Policies*. Adroddiad Dinas. Strasbwrg/Sheffield: Cyngor Ewrop/Cyngor Dinas Sheffield.

Schermer, T. (2011). Language Politics. Yn: B. Wolff, M. Steinbach a R. Pfau (gol.), *Handbook of Sign Linguistics* (i'w gyhoeddi)

Strubell, M. ac eraill (2007). *The diversity of language teaching in the European Union*. Adroddiad terfynol i'r Comisiwn Ewropeaidd, Cyfarwyddiaeth Gyffredinol Addysg a Diwylliant. Brwsel: Cymunedau Ewropeaidd.

UNESCO (2003). *Recommendation Concerning the Promotion and Use of Multilingualism and Universal Access to Cyberspace*. Paris: UNESCO.

Rhestr Termau

Mae'r diffiniadau a roddir o ran lefelau a mathau o addysg yn deillio o'r *Dosbarthiad Rhyngwladol Safonol ar gyfer Addysg* (ISCE). Defnyddir yr ISCE yn eang mewn amrywiaeth o ddogfennau *Eurydice* gyda data allweddol ar addysg yn Ewrop.

Cwricwlwm

Y rhaglen addysgol gyflawn ar gyfer math o ysgol. Mae'n nodi pa bynciau a addysgir am sawl awr yr wythnos a sawl wythnos y flwyddyn yn ôl blwyddyn/gradd, ac mae'n nodi'r cynnwys a'r lefel y mae angen ei chyrraedd i gwblhau'r pwnc yn llwyddiannus yn ôl blwyddyn/gradd.

Ieithoedd tramor

Ieithoedd na chânt eu dysgu na'u defnyddio yn y cartref ond a ddysgir ac a addysgir yn yr ysgol neu a ddefnyddir fel ieithoedd cyfathrebu ehangach mewn sectorau ar wahân i'r sector addysg.

Mewnfudwyr

Yn nogfennau *Eurydice* ac ystadegau *EuroStat*, ystyr mewnfudwyr yw grwpiau o'r boblogaeth yn y wlad y maent yn byw ynddi sydd wedi'u *geni dramor* a/neu grwpiau o'r boblogaeth *nad ydynt yn dod o'r wlad*. O ran prosiect Ewrop Gyfoethog ei Hieithoedd, gall mewnfudwyr fod yn unigolion a aned dramor neu beidio a gallant fod yn unigolion nad ydynt yn dod o'r wlad y maent yn byw ynddi neu beidio, yn dibynnu ar ystod gyfan o reoliadau newidiol ar gael *dinasyddiaeth* mewn gwledydd penodol.

Plant mewnfudwyr

Plant sy'n mynd i'r ysgol mewn gwlad ar wahân i'w mamwlad, neu famwlad eu rhieni neu eu neiniau/teidiau. Mae'r cylch gorchwyl hwn yn cwmpasu sawl sefyllfa gyfreithiol wahanol, gan gynnwys sefyllfa ffoaduriaid, ceiswyr lloches, plant gweithwyr sy'n mewnfudwyr, plant gwladolion o drydedd wlad â statws preswyllo hirdymor, plant gweithwyr o drydedd wlad nad ydynt yn breswylwyr hirdymor, plant nad ydynt yn preswyllo'n rheolaidd a phlant mewnfudwyr nad ydynt o reidrwydd yn cael budd o ddarpariaethau cyfreithiol sy'n ymwneud yn benodol ag addysg.

Ieithoedd mewnfudwyr

Ieithoedd a siaredir gan mewnfudwyr a'u disgynyddion yn y wlad y maent yn byw ynddi ac sy'n tarddu o amrywiaeth eang o wledydd tarddiad (blaenorol).

Hyfforddiant mewn swydd i athrawon

Cyrsiau gloywi i athrawon (sydd eisoes yn addysgu) ar y datblygiadau diweddaraf ym maes yr athro a/neu'r maes addysgeg/addysg.

Addysg uwchradd is

Mae'n parhau â'r rhaglenni sylfaenol a addysgir ar lefel gynradd, er bod mwy o ffocws ar addysgu pynciau penodol fel arfer. Mae diwedd y lefel hon yn cyd-fynd â diwedd addysg orfodol fel arfer. Yng nghyd-destun y gwledydd a gymerodd ran yn Ewrop Gyfoethog ei Hieithoedd, gall addysg uwchradd is a/neu uwch gyfeirio at wahaniaethau *sy'n ymwneud ag oedran* a/neu wahaniaethau *sy'n ymwneud â'r math o addysg a gynygir*.

Mamiaith/iaith frodorol

Fel arfer, ystyrir mai dyma'r iaith gyntaf a ddysgir a bod yr iaith honno yn cael ei deall o hyd. Caiff y cwestiwn ymchwil traddodiadol ar famiaith mewn astudiaethau mawr ar boblogaeth Ewrop (gan gynnwys gwaith ymchwil y cyfrifiad) ei ddisodli'n raddol gan gwestiwn ymchwil ar iaith yr aelwyd gan fod y cysyniad olaf yn fwy tryloyw i *hysbyswyr* o'i gymharu â'r cysyniadau o 'famiaith' neu 'iaith frodorol'.

Amlieithrwydd

Presenoldeb mwy nag un amrywiad o iaith mewn ardal ddaearyddol fach neu fawr, h.y. ffordd o siarad grŵp cymdeithasol pa un a gaiff ei chydnabod yn ffurfiol fel iaith ai peidio.

Iaith/ieithoedd cenedlaethol

Iaith/ieithoedd swyddogol cenedl-wladwriaeth.

Lluosieithrwydd

Y repertoire o amrywiadau o ieithoedd a ddefnyddir gan lawer o unigolion; mae'n cynnwys yr amrywiad o iaith y cyfeirir ato fel arfer fel mamiaith neu iaith gyntaf ac unrhyw nifer o ieithoedd neu amrywiadau eraill.

Addysg cyn cynradd

Diffinnir addysg cyn cynradd fel cam cychwynnol addysg drefnedig. Caiff yr addysg hon ei darparu mewn ysgol neu ganolfan ar gyfer plant tair oed a hŷn.

Hyfforddiant cyn swydd i athrawon

Cwrs/rhaglen sy'n hyfforddi myfyrwyr i ddod yn athrawon cymwysedig h.y. mae'n cael ei gynnal cyn i'r unigolyn ddechrau addysgu.

Addysg gynradd

Mae'r lefel hon yn dechrau rhwng pedair a saith mlwydd oed, mae'n orfodol ym mhob gwlad/rhanbarth ac mae'n para am rhwng pump a chwe blynedd fel arfer.

Addysg a hyfforddiant galwedigaethol cyhoeddus

Addysg a hyfforddiant galwedigaethol a ariennir yn gyhoeddus, h.y. ni chaiff ei ariannu'n breifat.

Addysg prifysgol gyffredinol gyhoeddus

Addysg mewn prifysgolion cyhoeddus (nid preifat), ac eithrio prifysgolion sy'n rhai technegol neu feddygol yn unig.

Ieithoedd rhanbarthol neu ieithoedd lleiafrifol

Ieithoedd a ddefnyddir yn draddodiadol mewn tiriogaeth benodol mewn gwladwriaeth gan wladolion y wladwriaeth honno sy'n grŵp llai o ran niferoedd na gweddill poblogaeth y wladwriaeth. Maent yn wahanol i *iaith/ieithoedd y wladwriaeth* (diffiniad yn seiliedig ar y *Siarter Ewropeaidd ar gyfer Ieithoedd Rhanbarthol neu Ieithoedd Lleiafrifol*, Cyngor Ewrop 1992). Fel rheol, ieithoedd poblogaethau sydd â gwreiddiau ethnig yn yr ardaloedd dan sylw neu sydd wedi ymgartrefu yn y rhanbarthau dan sylw ac wedi byw yno ers cenedlaethau yw'r ieithoedd hyn. Gellir rhoi statws *iaith swyddogol* i ieithoedd rhanbarthol/lleiafrifol ond bydd y statws hwn, drwy ddiffiniad, yn gyfyngedig i'r ardal y siaredir yr ieithoedd ynddi.

Romani/Sinte

Dylid cyfeirio atynt fel ieithoedd rhanbarthol/lleiafrifol ac *nid* ieithoedd 'annhiriogaethol' yng nghyd-destun y gwledydd a gymerodd ran ym mhrosiect Ewrop Gyfoethog ei Hieithoedd.

Ieithoedd arwyddion

Mae ieithoedd arwyddion yn ieithoedd gweledol a gyflëir drwy ddefnyddio'r dwylo a chanddynt eu gramadeg a'u geirfa eu hunain. Dyma ieithoedd naturiol pobl sydd wedi cael eu geni'n fyddar. Nid yw ieithoedd arwyddion yn deillio o ieithoedd llafar ac nid ydynt yn rhyngwladol nac yn fyd-eang. Defnyddir cannoedd o wahanol ieithoedd arwyddion ledled y byd.

Addysgu yn iaith X/addysgu iaith X

Os caiff ei nodi fel hyn, ni wahaniaethir rhwng addysgu *yn yr iaith*, h.y. defnyddio'r iaith fel *cyfrwng addysgu*, ac *addysgu'r iaith*, h.y. ei haddysgu fel *pwnc* yng nghwricwlwm yr ysgol.

Addysg uwchradd uwch

Fel arfer, mae'r lefel hon yn dechrau ar ddiwedd addysg orfodol. Pymtheg neu un ar bymtheg yw'r oedran ar gyfer cael mynediad fel arfer. Mae angen cymwysterau mynediad (diwedd addysg orfodol) a gofynion mynediad sylfaenol eraill fel arfer. Mae gan y broses addysgu fwy o ogwydd tuag at bynciau o gymharu ag addysg uwchradd is. Fel arfer, mae addysg uwchradd uwch yn para rhwng dwy a phum mlynedd. Yng nghyd-destun y gwledydd a gymerodd ran yn Ewrop Gyfoethog ei Hieithoedd, gall addysg uwchradd is a/neu uwch gyfeirio at wahaniaethau *sy'n ymwneud ag oedran* a/neu wahaniaethau *sy'n ymwneud â'r math o addysg a gynigir*.

Addysg a hyfforddiant galwedigaethol

Mae addysg a hyfforddiant galwedigaethol yng ngwledydd Ewrop yn cwmpasu amryw o systemau cenedlaethol sydd â'u gwreiddiau mewn amgylcheddau economaidd a chymdeithasol penodol. Gall addysg a hyfforddiant galwedigaethol fod yn rhan o addysg uwchradd neu addysg drydyddol neu gall fod yn rhan o fathau galwedigaethol o addysg i oedolion. Fel arfer, mae'n cynnwys amryw o ddarparwyr hyfforddiant galwedigaethol a rhaglenni hyfforddi mewn fframweithiau cymharol reoledig. O ran y prosiect hwn, *nid* yw addysg a hyfforddiant galwedigaethol yn cynnwys addysg prifysgol, a gwmpesir gan Barth 4B.

RHAN 3

Proffiliau Cenedlaethol a Rhanbarthol

Cyflwyniad

Guus Extra, Martin Hope & Kutlay Yağmur

Mae Rhan 3 o'r cyhoeddiad hwn yn cynnwys 25 o broffiliau cenedlaethol a rhanbarthol, a ddosberthir ar draws 19 o benodau. Darperir proffiliau cenedlaethol ar gyfer 15 o wledydd h.y. 12 o wledydd yr Undeb Ewropeaidd (UE), ynghyd â'r Swistir, Bosnia a Herzegovina a'r Wcráin. Darperir proffiliau rhanbarthol ar gyfer pedair o wledydd yr UE (yr Iseldiroedd, Sbaen, y DU a'r Almaen). Mae pob proffil yn darparu data ansoddol a meintiol ac yn cynnwys gwybodaeth am y cyd-destun cenedlaethol/rhanbarthol, yr wyth parth iaith y cyfeirir atynt yn Rhannau 1 a 2 o'r cyhoeddiad hwn, canfyddiadau allweddol cyffredinol a mentrau a/neu gynlluniau peilot addawol. Mae'r opsiynau y cyfeirir atynt ym mhob un o'r wyth parth iaith a ddewiswyd wedi'u cyflwyno yn Rhan 2 o'r astudiaeth hon. Dangosir fformat y proffiliau a rhoddir esboniad ohonynt ar dudalennau canlynol y cyflwyniad hwn.

1. Awstria
2. Bosnia a Herzegovina
3. Bwlgaria
4. Denmarc
5. Estonia
6. Ffrainc
7. Yr Almaen
8. Gwlad Groeg
9. Hwngari
10. Yr Eidal
11. Lithwania
12. Yr Iseldiroedd
 - 12.1 Yr Iseldiroedd yn ei chyfanrwydd
 - 12.2 Fryslân
13. Gwlad Pwyl
14. Portiwgal
15. Rwmania
16. Sbaen
 - 16.1 Madrid, Valencia, Sevilla
 - 16.2 Catalwnia
 - 16.3 Gwlad y Basg
17. Y Swistir
18. Yr Wcráin
19. Y Deyrnas Unedig
 - 19.1 Lloegr
 - 19.2 Cymru
 - 19.3 Yr Alban
 - 19.4 Gogledd Iwerddon

CANLLAWIAU AR FFORMAT Y PROFFILIAU CENEDLAETHOL/RHANBARTHOL

IC=iaith/leithoedd Cenedlaethol
IT=leithoedd Tramor
IRh/LI=leithoedd Rhanbarthol neu Leiafrifol
IM=leithoedd Mewnfuldwyr

Diben y canllawiau canlynol yw helpu darlledwyr i ddehongli'r proffiliau cenedlaethol/rhanbarthol. Cyfuniad o ganlyniadau arolwg, a gyflwynir yn y tablau, a sylwebaeth ar y canlyniadau hyn, a ysgrifennwyd gan y sawl a fu'n ymchwilio i'r wlad/rhanbarth, yw'r proffiliau. Mae'r opsiynau a gyflwynir ym mhob tabl yn adlewyrchu'r cwestiynau gwirioneddol ofynnwyd yn holiadur Ewrop Gyfoethog ei Hieithoedd (LRE).

Rhennir pob proffil yn adrannau fel a ganlyn:

Cyd-destun y Wlad/Rhanbarth

Yn yr adran hon, disgrifir cyd-destun y wlad/rhanbarth. Rhoddir gwybodaeth am yr ieithoedd a geir o safbwynt cymdeithasol-hanesyddol, demograffig a chyfreithiol.

Parth 1: Ieithoedd mewn dogfennau swyddogol a chronfeydd data

Mae'r adran hon yn rhoi gwybodaeth safonol am ddeddfwriaeth iaith a dogfennau polisi swyddogol ar gyfer ieithoedd cenedlaethol (IC), ieithoedd tramor (IT), ieithoedd

rhanbarthol/leiafrifol (IRh/LI) ac ieithoedd mewnfuldwyr (IM). Mae hefyd yn disgrifio'r dull o gasglu data a ddefnyddir ar gyfer ieithoedd ym mhob gwlad/rhanbarth.

Parth 2: Ieithoedd mewn addysg cyn cynradd

Yn yr adran hon, rhoddir gwybodaeth am y ddarpariaeth addysgu ieithoedd mewn addysg cyn cynradd mewn ieithoedd rhanbarthol/leiafrifol, ieithoedd tramor ac ieithoedd mewnfuldwyr. Rhoddir gwybodaeth hefyd am y cymorth ychwanegol a geir yn yr iaith genedlaethol. Ar gyfer pob math o iaith, rhoddir gwybodaeth am y canlynol: grwpiau targed: hyd addysg ieithoedd; gofynion o ran maint y grŵp; sawl diwrnod yr wythnos y mae'r addysg ar gael; yr hyfforddiant cyn swydd a'r hyfforddiant mewn swydd a ddarperir i athrawon a'r ffynhonnell ariannol. Dangosir yr ymatebion posibl i bob cwestiwn yn y tabl isod, a gofynnwyd i ymchwilwyr ddewis yr ymateb sy'n cynrychioli'r arfer cyffredin yn eu gwlad/rhanbarth. Yr opsiwn cyntaf yw'r un yr ystyrir ei fod wedi'i alinio orau ag argymhellion ac arferion Ewropeaidd dymunol.

	Grwpiau targed	Hyd	Gofynion o ran isafswm maint y grŵp	Diwrnodau'r wythnos	Hyfforddiant cyn swydd i athrawon	Hyfforddiant mewn swydd i athrawon	Arian ar gael gan y wladwriaeth
IRh/LI	pawb/siaradwyr brodorol yn unig/dim cymorth	≥2 flynedd/1 flwyddyn/<1 flwyddyn	dim/5-10/>10	>1 diwrnod/0.5-1 diwrnod/<0.5 diwrnod	pwnc-benodol/cyffredinol/dim	pwnc-benodol/cyffredinol/dim	llawn/rhannol/dim
IT	pawb/cyfyngedig/dim cymorth	≥2 flynedd/1 flwyddyn/<1 flwyddyn	dim/5-10/>10	>1 diwrnod/0.5-1 diwrnod/<0.5 diwrnod	pwnc-benodol/cyffredinol/dim	pwnc-benodol/cyffredinol/dim	llawn/rhannol/dim
IM	pawb/siaradwyr brodorol yn unig/dim cymorth	≥2 flynedd/1 flwyddyn/<1 flwyddyn	dim/5-10/>10	>1 diwrnod/0.5-1 diwrnod/<0.5 diwrnod	pwnc-benodol/cyffredinol/dim	pwnc-benodol/cyffredinol/dim	llawn/rhannol/dim
Cymorth IC ychwanegol	pawb/plant mewnfuldwyr yn unig/dim cymorth	≥2 flynedd/1 flwyddyn/<1 flwyddyn	dim/5-10/>10	>1 diwrnod/0.5-1 diwrnod/<0.5 diwrnod	pwnc-benodol/cyffredinol/dim	pwnc-benodol/cyffredinol/dim	llawn/rhannol/dim

Parth 3: Ieithoedd mewn addysg gynradd

Yn yr adran hon, rhoddir gwybodaeth am ieithoedd mewn addysg gynradd. Rhennir y wybodaeth yn ddwy adran: *trefniadaeth* addysg ieithoedd ac arferion *addysgu* gwirioneddol.

O ran *trefniadaeth*, rhoddir gwybodaeth am addysg ieithoedd ar gyfer y pedwar math o iaith: yr iaith genedlaethol, ieithoedd rhanbarthol/lleiafrifol, ieithoedd mewnudwyr ac ieithoedd tramor. O ran cymorth yn yr iaith genedlaethol, rhoddir gwybodaeth am y cwricwlwm, y graddau y rhoddir cymorth ychwanegol i newydd-ddyfodiaid, p'un a yw profion diagnostig ar gael wrth ddechrau a ph'un a gaiff sgiliau iaith disgyblion eu monitro gan ddefnyddio

ffyrdd safonol. Caiff addysg ieithoedd rhanbarthol/lleiafrifol, addysg ieithoedd mewnudwyr ac addysg ieithoedd tramor eu hasesu o nodweddion y cwricwlwm, y math o grwpiau targed, p'un a ddefnyddir yr ieithoedd hyn fel cyfrwng addysgu (CLIL); dechrau addysg ieithoedd; eu lle yn y cwricwlwm; p'un a oes gofynion o ran maint y grŵp; p'un a gaiff sgiliau iaith eu monitro gan ddefnyddio ffyrdd safonol; p'un a bennwyd lefelau cyflawniad; a'r math o arian sydd ar gael. Ar gyfer pob cwestiwn, yr opsiwn cyntaf yw'r un yr ystyrir ei fod wedi'i alinio orau ag argymhellion ac arferion Ewropeaidd dymunol.

3a. Trefniadaeth

	Cwricwlwm	Cymorth ychwanegol i newydd-ddyfodiaid	Profion diagnostig wrth ddechrau	Monitro sgiliau iaith
Cymorth IC	cydlynol a chliir/cyffredinol/dim canllawiau	cyn prif ffrwd/yn ystod prif ffrwd/absennol	pawb/mewnudwyr yn unig/absennol	cededlaethol safonol/lefel ysgol/absennol

	Grwpiau targed	Cwricwlwm	Ieithoedd yn cael ei defnyddio fel cyfrwng addysgu (CLIL)	Dechrau addysg iaith	Amserlennu	Gofynion o ran isafswm maint y grŵp	Monitro sgiliau iaith	Y lefel y mae angen ei chyrraedd	Arian ar gael gan y wladwriaeth
IRh/LI	pawb/siaradwyr brodorol yn unig/dim cymorth	cydlynol a chliir/cyffredinol/dim canllawiau	eang/lleol/absennol	o flwyddyn 1/o'r cyfnod canol/cyfnod olaf yn unig	yn ystod oriau ysgol/yn rhannol yn ystod oriau ysgol/y tu allan i oriau ysgol	dim/5-10/>10	cededlaethol safonol/lefel ysgol/absennol	normau ar lefel genedlaethol neu ranbarthol/normau ar lefel ysgol/heb ei nodi	llawn/rhannol/dim
IT	pawb/cyfyngedig/dim cymorth	cydlynol a chliir/cyffredinol/dim canllawiau	eang/lleol/absennol	o flwyddyn 1/o'r cyfnod canol/cyfnod olaf yn unig	yn ystod oriau ysgol/yn rhannol yn ystod oriau ysgol/y tu allan i oriau ysgol	dim/5-10/>10	cededlaethol safonol/lefel ysgol/absennol	wedi'i chysylltu â'r Fframwaith Cyfeirio Ewropeaidd Cyffredin/normau ar lefel genedlaethol neu ysgol/heb ei nodi	llawn/rhannol/dim
IM	pawb/siaradwyr brodorol yn unig/dim cymorth	cydlynol a chliir/cyffredinol/dim canllawiau	eang/lleol/absennol	o flwyddyn 1/o'r cyfnod canol/cyfnod olaf yn unig	yn ystod oriau ysgol/yn rhannol yn ystod oriau ysgol/y tu allan i oriau ysgol	dim/5-10/>10	cededlaethol safonol/lefel ysgol/absennol	normau ar lefel genedlaethol neu ranbarthol/normau ar lefel ysgol/heb ei nodi	llawn/rhannol/dim

3b. Addysgu

Athrawon yw'r allwedd i gyflawni amcanion dysgu mewn unrhyw system addysg. Yn y tabl hwn, rhoddir gwybodaeth i ddarllenwyr am athrawon ieithoedd a'u cymwysterau ffurfiol mewn ysgolion cynradd. Ar gyfer pob math o iaith, ceir gwybodaeth am

gymwysterau ffurfiol athrawon; p'un a ydynt yn cael hyfforddiant cyn swydd a hyfforddiant mewn swydd; ac, yn achos ieithoedd tramor, p'un a ydynt yn manteisio ar raglenni symudedd rhyngwladol.

	Cymwysterau athrawon	Hyfforddiant cyn swydd i athrawon	Hyfforddiant mewn swydd i athrawon	Symudedd
Cymorth IC ychwanegol	athrawon iaith/athrawon cyffredinol/anghymwys	pwnc-benodol/cyffredinol/dim	pwnc-benodol/cyffredinol/dim	Dd/G
IRh/LI	athrawon iaith/athrawon cyffredinol/anghymwys	pwnc-benodol/cyffredinol/dim	pwnc-benodol/cyffredinol/dim	Dd/G
IT	athrawon iaith/athrawon cyffredinol/anghymwys	pwnc-benodol/cyffredinol/dim	pwnc-benodol/cyffredinol/dim	yn cael ei gynnwys mewn hyfforddiant/ cymorth ariannol anffurfiol/dim
IM	athrawon iaith/athrawon cyffredinol/anghymwys	pwnc-benodol/cyffredinol/dim	pwnc-benodol/cyffredinol/dim	Dd/G

Parth 4: Ieithoedd mewn addysg uwchradd

Yn yr un modd ag addysg gynradd, rhoddir gwybodaeth i ddarllenwyr am ddau brif ddimensiwn: *trefniadaeth* addysg ieithoedd ac arferion *addysgu* gwirioneddol. O ran *trefniadaeth*, rhoddir gwybodaeth am addysg yn yr iaith genedlaethol, gyda ffocws ar y cwricwlwm ei hun; lefel y cymorth ychwanegol a roddir i newydd-ddyfodiaid; p'un a yw profion diagnostig ar gael wrth ddechrau; a ph'un a gaiff sgiliau iaith disgyblion eu monitro gan ddefnyddio ffyrdd safonol. Ar gyfer addysg ieithoedd rhanbarthol/lleiafrifol, addysg ieithoedd mewn fudwyr ac addysg

ieithoedd tramor rhoddir gwybodaeth am y grwpiau targed; y cwricwlwm; p'un a ddefnyddir yr ieithoedd hyn fel cyfrwng addysgu; eu lle yn y cwricwlwm; p'un a oes gofynion o ran maint y gr p; p'un a gaiff sgiliau iaith eu monitro gan ddefnyddio ffyrdd safonol; p'un a bennwyd lefelau cyflawniad; a'r math o arian sydd ar gael ar gyfer addysg ieithoedd. Yr opsiwn cyntaf yw'r un yr ystyrir ei fod wedi'i alinio orau ag argymhellion ac arferion Ewropeaidd dymunol.

	Cwricwlwm	Cymorth ychwanegol i newydd-ddyfodiaid	Profion diagnostig wrth ddechrau	Monitro sgiliau iaith
Cymorth IC	cydlynol a chlir/cyffredinol/dim canllawiau	cyn prif ffrwd/yn ystod prif ffrwd/absennol	pawb/mewn fudwyr yn unig/absennol	cededlaethol safonol/lefel ysgol/absennol

	Grwpiau targed	Cwricwlwm	Ieithoedd yn cael eu defnyddio fel cyfrwng addysgu (CLIL)	Amserlennu	Gofynion o ran isafswm maint y grŵp	Monitro sgiliau iaith	Y lefel y mae angen ei chyrraedd	Arian ar gael gan y wladwriaeth
IRh/LI	pawb/siaradwyr brodorol yn unig/dim cymorth	cydlynol a chlir/cyffredinol/dim canllawiau	eang/lleol/absennol	yn ystod oriau ysgol/yn rhannol yn ystod oriau ysgol/y tu allan i oriau ysgol	dim/5-10/>10	cededlaethol safonol/lefel ysgol/absennol	normau ar lefel genedlaethol neu ranbarthol/normau ar lefel ysgol/heb ei nodi	llawn/rhannol/dim
IT	pawb/cyfyngedig/dim cymorth	cydlynol a chlir/cyffredinol/dim canllawiau	eang/lleol/absennol	yn ystod oriau ysgol/yn rhannol yn ystod oriau ysgol/y tu allan i oriau ysgol	dim/5-10/>10	cededlaethol safonol/lefel ysgol/absennol	wedi'i chysylltu â'r Fframwaith Cyfeirio Ewropeaidd Cyffredin/normau ar lefel genedlaethol neu ysgol/heb ei nodi	llawn/rhannol/dim
IM	pawb/siaradwyr brodorol yn unig/dim cymorth	cydlynol a chlir/cyffredinol/dim canllawiau	eang/lleol/absennol	yn ystod oriau ysgol/yn rhannol yn ystod oriau ysgol/y tu allan i oriau ysgol	dim/5-10/>10	cededlaethol safonol/lefel ysgol/absennol	normau ar lefel genedlaethol neu ranbarthol/normau ar lefel ysgol/dim normau	llawn/rhannol/dim

4b. Addysgu

Yn yr un modd â'r is-barth *addysgu* mewn ysgolion cynradd, yn y tabl hwn rhoddir gwybodaeth i ddarllenwyr am athrawon ieithoedd a'u cymwysterau ffurfiol o ran y pedwar math o iaith mewn ysgolion uwchradd. Ar gyfer pob math o iaith, rhoddir

gwybodaeth am gymwysterau ffurfiol athrawon; p'un a ydynt yn cael hyfforddiant cyn swydd a hyfforddiant mewn swydd; ac, ar gyfer athrawon ieithoedd tramor, p'un a ydynt yn manteisio ar raglenni symudedd rhyngwladol.

	Cymwysterau athrawon	Hyfforddiant cyn swydd i athrawon	Hyfforddiant mewn swydd i athrawon	Lefel yr iaith sydd ei hangen	Symudedd
Cymorth IC ychwanegol	athrawon iaith/ athrawon cyffredinol/ anghymwys	pwnc-benodol/ cyffredinol/dim	pwnc-benodol/ cyffredinol/dim	wedi'i chysylltu â'r Fframwaith Cyfeirio Ewropeaidd Cyffredin/ normau ar lefel genedlaethol neu ysgol/heb ei nodi	Dd/G
IRh/LI	athrawon iaith/ athrawon cyffredinol/ anghymwys	pwnc-benodol/ cyffredinol/dim	pwnc-benodol/ cyffredinol/dim	Dd/G	Dd/G
IT	athrawon iaith/ athrawon cyffredinol/ anghymwys	pwnc-benodol/ cyffredinol/dim	pwnc-benodol/ cyffredinol/dim	wedi'i chysylltu â'r Fframwaith Cyfeirio Ewropeaidd Cyffredin/ safonau cenedlaethol neu ranbarthol/dim	yn cael ei gynnwys mewn hyfforddiant/ cymorth ariannol anffurfiol/dim
IM	athrawon iaith/ athrawon cyffredinol/ anghymwys	pwnc-benodol/ cyffredinol/dim	pwnc-benodol/ cyffredinol/dim	Dd/G	Dd/G

Parth 5: Ieithoedd mewn addysg bellach ac addysg uwch

5a. Addysg bellach (mewn tri sefydliad Addysg a Hyfforddiant Galwedigaethol)

Cynigir Addysg a Hyfforddiant Galwedigaethol (AHG) mewn llawer o wledydd. Ym mhob un o'r gwledydd a ddewiswyd, ymchwiliodd arolwg Ewrop Gyfoethog ei Hieithoedd i'r sefydliad AHG mwyaf ac, yn yr un modd â mathau eraill o ysgolion, casglwyd gwybodaeth am y pedwar prif fath o iaith mewn addysg.

Yn y cyhoeddiad hwn, rhoddir gwybodaeth i ddarllenwyr am addysg ieithoedd rhanbarthol/lleiafrifol, addysg ieithoedd tramor ac addysg ieithoedd mewn fudwyr o ran yr amrywiaeth o raglenni iaith sydd ar gael; nodweddion y cwricwlwm; p'un a oes lefelau cyflawniad i'w cyrraedd; a'r math o arian sydd ar gael ar gyfer addysgu'r mathau gwahanol hyn o ieithoedd.

Oherwydd diffyg lle, nid oedd yn bosibl cynnwys gwybodaeth am y cymorth ychwanegol a roddir ar gyfer yr iaith genedlaethol yma ond, ar wefan Ewrop Gyfoethog ei Hieithoedd, rhoddir gwybodaeth fanwl am yr amrywiaeth o raglenni cymorth iaith; y math o grwpiau targed; p'un a yw'r cwricwlwm yn gydlynol ac yn glir; p'un a yw sefydliad AHG yn cynnig sgiliau sy'n gysylltiedig â swyddi a/neu uwchsgilio'n gyffredinol; y graddau y mae arian ar gael gan y wladwriaeth; p'un a oes interniaethau ar gael mewn cwmnïau a ph'un a ddefnyddir offerynnau'r UE.

Ar gyfer pob cwestiwn, yr opsiwn cyntaf yw'r un yr ystyrir ei fod fwyaf cyson ag argymhellion ac arferion Ewropeaidd a ddymunir.

		Ystod o raglenni iaith	Cwricwlwm	Y lefel y mae angen ei chyrraedd	Arian ar gael gan y wladwriaeth
IRh/LI	Sefydliad A	amrywiaeth eang/ cyfyngedig/dim manylion	cydlynol a chlir/ cyffredinol/dim canllawiau	Dd/G	llawn/rhannol/dim
	Sefydliad B	amrywiaeth eang/ cyfyngedig/dim manylion	cydlynol a chlir/ cyffredinol/dim canllawiau	Dd/G	llawn/rhannol/dim
	Sefydliad C	amrywiaeth eang/ cyfyngedig/dim manylion	cydlynol a chlir/ cyffredinol/dim canllawiau	Dd/G	llawn/rhannol/dim
IT	Sefydliad A	amrywiaeth eang/ cyfyngedig/dim manylion	cydlynol a chlir/ cyffredinol/dim canllawiau	wedi'i chysylltu â'r Fframwaith Cyfeirio Ewropeaidd Cyffredin/cenedlaethol/dim	llawn/rhannol/dim
	Sefydliad B	amrywiaeth eang/ cyfyngedig/dim manylion	cydlynol a chlir/ cyffredinol/dim canllawiau	wedi'i chysylltu â'r Fframwaith Cyfeirio Ewropeaidd Cyffredin/cenedlaethol/dim	llawn/rhannol/dim
	Sefydliad C	amrywiaeth eang/ cyfyngedig/dim manylion	cydlynol a chlir/ cyffredinol/dim canllawiau	wedi'i chysylltu â'r Fframwaith Cyfeirio Ewropeaidd Cyffredin/cenedlaethol/dim	llawn/rhannol/dim
IM	Sefydliad A	amrywiaeth eang/ cyfyngedig/dim manylion	cydlynol a chlir/ cyffredinol/dim canllawiau	Dd/G	llawn/rhannol/dim
	Sefydliad B	amrywiaeth eang/ cyfyngedig/dim manylion	cydlynol a chlir/ cyffredinol/dim canllawiau	Dd/G	llawn/rhannol/dim
	Sefydliad C	amrywiaeth eang/ cyfyngedig/dim manylion	cydlynol a chlir/ cyffredinol/dim canllawiau	Dd/G	llawn/rhannol/dim

5b. Addysg uwch (mewn tair prifysgol)

Ym mhob un o'r dinasoedd a ddewiswyd, targedwyd y brifysgol gyffredinol fwyaf a ariennir gan y wladwriaeth. Rhoddir gwybodaeth i ddarllenwyr am yr iaith/ieithoedd addysgu yn y prifysgolion hyn; pa ieithoedd a ddefnyddir ar wefannau prifysgolion; pwy yw'r grwpiau targed ar gyfer cymorth

ychwanegol yn yr iaith genedlaethol; p'un a oes lefelau cyflawniad mewn ieithoedd tramor; y broses o recriwtio myfyrwyr nad ydynt yn fyfyrwyr o'r wlad; p'un a oes rhaglenni rhyngwladol ar gael ar gyfer myfyrwyr ieithoedd a myfyrwyr nad ydynt yn fyfyrwyr iaith.

	Iaith/ieithoedd a ddefnyddir fel y cyfrwng addysgu	Ieithoedd ar wefan	Grwpiau targed ar gyfer cymorth ychwanegol yn yr iaith genedlaethol	Y lefel i'w chyrraedd o ran addysgu ieithoedd tramor	Recriwtio myfyrwyr nad ydynt yn fyfyrwyr o'r wlad	Symudedd ar gyfer myfyrwyr iaith	Symudedd ar gyfer myfyrwyr nad ydynt yn fyfyrwyr iaith
Prifysgol A	enedlaethol, tramor a Rh/LI/ cenedlaethol a thramor/ cenedlaethol yn unig	enedlaethol, tramor a Rh/LI/ cenedlaethol a thramor/ cenedlaethol yn unig	pawb/cyfyngedig/ dim	wedi'i chysylltu â'r Fframwaith Cyfeirio Ewropeaidd Cyffredin/lefel genedlaethol neu sefydliad/dim	rhyngwladol a mewnfudwyr/ rhyngwladol yn unig/dim ond myfyrwyr brodorol sy'n siarad yr iaith genedlaethol	gorfodol/ dewisol/dim cynnig	gorfodol/ dewisol/dim cynnig
Prifysgol B	enedlaethol, tramor a Rh/LI/ cenedlaethol a thramor/ cenedlaethol yn unig	enedlaethol, tramor a Rh/LI/ cenedlaethol a thramor/ cenedlaethol yn unig	pawb/cyfyngedig/ dim	wedi'i chysylltu â'r Fframwaith Cyfeirio Ewropeaidd Cyffredin/lefel genedlaethol neu sefydliad/dim	rhyngwladol a mewnfudwyr/ rhyngwladol yn unig/dim ond myfyrwyr brodorol sy'n siarad yr iaith genedlaethol	gorfodol/ dewisol/dim cynnig	gorfodol/ dewisol/dim cynnig
Prifysgol C	enedlaethol, tramor a Rh/LI/ cenedlaethol a thramor/ cenedlaethol yn unig	enedlaethol, tramor a Rh/LI/ cenedlaethol a thramor/ cenedlaethol yn unig	pawb/cyfyngedig/ dim	wedi'i chysylltu â'r Fframwaith Cyfeirio Ewropeaidd Cyffredin/lefel genedlaethol neu sefydliad/dim	rhyngwladol a mewnfudwyr/ rhyngwladol yn unig/dim ond myfyrwyr brodorol sy'n siarad yr iaith genedlaethol	gorfodol/ dewisol/dim cynnig	gorfodol/ dewisol/dim cynnig

Parth 6: Ieithoedd yn y cyfryngau clyweledol a'r wasg

Ym mhob un o'r dinasoedd a ddewiswyd, casglwyd gwybodaeth am yr amrywiaeth o ieithoedd nad ydynt yn ieithoedd cenedlaethol ar y radio a'r teledu, isdeitlo a throsleisio o ran cynrychiadau teledu nad ydynt yn yr iaith genedlaethol ac yn y

sinema, yr ieithoedd rhanbarthol/lleiafrifol a gynigir y tu allan i'r rhanbarth ac argaeledd iaith arwyddion ar y teledu. Yr opsiwn cyntaf yw'r un yr ystyrir ei fod fwyaf cyson ag argymhellion ac arferion Ewropeaidd a ddymunir.

Dinasoedd	Cynrychiadau teledu nad ydynt yn yr iaith genedlaethol	Ffilmiau yn y sinema nad ydynt yn yr iaith genedlaethol	Rhaglenni mewn ieithoedd Rh/LI y tu allan i'r rhanbarth	Argaeledd iaith arwyddion ar y teledu
Dinas 1	wedi'u hisdeitlo/wedi'u trosleisio	wedi'u hisdeitlo/wedi'u trosleisio	bob amser/yn rheolaidd/ weithiau/byth	bob amser/yn rheolaidd/ weithiau/byth
Dinas 2	wedi'u hisdeitlo/wedi'u trosleisio	wedi'u hisdeitlo/wedi'u trosleisio	bob amser/yn rheolaidd/ weithiau/byth	bob amser/yn rheolaidd/ weithiau/byth
Dinas 3	wedi'u hisdeitlo/wedi'u trosleisio	wedi'u hisdeitlo/wedi'u trosleisio	bob amser/yn rheolaidd/ weithiau/byth	bob amser/yn rheolaidd/ weithiau/byth

Casglwyd gwybodaeth hefyd am y papurau newydd sydd ar gael mewn ieithoedd nad ydynt yn ieithoedd cenedlaethol ac ieithoedd nad ydynt yn ieithoedd rhanbarthol ym mhob un o'r dinasoedd a

arolygwyd. Rhoddir y wybodaeth hon ar wefan Ewrop Gyfoethog ei Hieithoedd ac yn Rhan 2 o'r cyhoeddiad hwn ar lefel Ewropeaidd yn unig.

Parth 7: Ieithoedd mewn gwasanaethau cyhoeddus a manau cyhoeddus

Ym mhob un o'r dinasoedd a ddewiswyd, casglwyd gwybodaeth am strategaethau iaith sefydliadol ar lefel dinas ac i ba raddau y ceir cyfleusterau cyfathrebu ar lafar a chyfleusterau cyfathrebu ysgrifenedig amlieithog mewn amrywiaeth o barthau. O ran strategaethau iaith sefydliadol, nodir nifer yr ieithoedd y caiff y strategaethau hyn eu mabwysiadu ar eu cyfer yn y tabl. O ran

cyfleusterau cyfathrebu, mae'r tabl yn dangos y prif gyfleusterau amlieithog ym mhob un o'r dinasoedd a arolygwyd, yn ôl eu trefn.

Ceir gwybodaeth am y proffiliau amlieithog a nodwyd ar gyfer ieithoedd mewn gwasanaethau cyhoeddus a manau cyhoeddus ar wefan Ewrop Gyfoethog ei Hieithoedd.

Strategaethau iaith sefydliadol ar lefel dinas (3 dinas)

Nifer yr ieithoedd	Ar y wefan	Defnyddio cyfieithwyr	Cymwyseddau iaith mewn disgrifiadau swydd	Recriwtio siaradwyr ieithoedd	Hyfforddiant iaith a gynigir i gyflogeion	Cofnod o sgiliau iaith cyflogeion
>4	A B C	A B C	A B C	A B C	A B C	A B C
3-4	A B C	A B C	A B C	A B C	A B C	A B C
1-2	A B C	A B C	A B C	A B C	A B C	A B C

7b. Cyfleusterau cyfathrebu

Pum prif gyfleuster cyfathrebu ar lafar	Pum prif gyfleuster cyfathrebu ysgrifenedig

Parth 8: Ieithoedd mewn busnes (allan o 24 o gwmnïau)

Ym mhob un o'r dinasoedd a ddewiswyd, casglwyd gwybodaeth gan gwmnïau dethol am eu strategaethau iaith cyffredinol a'u strategaethau iaith mewnol ac allanol ar gyfer yr iaith genedlaethol, Saesneg busnes ac ieithoedd ychwanegol. Yn y tablau isod, dangosir nifer y cwmnïau a nododd fod strategaeth benodol yn cael ei defnyddio'n eang. Ar wefan Ewrop Gyfoethog

ei Hieithoedd, mae'r tablau hefyd yn dangos nifer y cwmnïau a nododd fod y strategaethau hyn yn cael eu defnyddio'n achlysurol neu nad ydynt yn cael eu defnyddio o gwbl. Ceir gwybodaeth am broffiliau amlieithog mewn busnesau ar wefan Ewrop Gyfoethog ei Hieithoedd.

8a. Strategaethau iaith cyffredinol

	STRATEGAETHAU IAITH CYFFREDINOL							
	Argaeledd strategaeth iaith	Pwyslais ar sgiliau iaith wrth Recrwtio	Darpariaeth symudedd rhyngwladol	Y defnydd o gyfieithwyr/dehonglwyd allanol	Cofnodi sgiliau iaith staff	Y defnydd o rwydweithiau ar gyfer hyfforddiant iaith	Y defnydd o raglenni/cyllid yr UE	Ymwybyddiaeth o raglenni/cyllid yr UE
Defnyddir yn eang								

8b. Strategaethau iaith mewnol/allanol

		STRATEGAETHAU IAITH MEWNOL						STRATEGAETHAU IAITH ALLANOL			
		Partneriaethau â'r sector addysg	Cynlluniau gwobrwyo/dyrchafu yn seiliedig ar sgiliau iaith	Darpariaeth hyfforddiant iaith	Defnyddir y Fframwaith Cyfeirio Ewropeaidd Cyffredin	Defnyddir iaith ar gyfer dogfennau yn y gweithle/mewnwyd	Defnyddir iaith ar gyfer meddalwedd, rhaglenni'r we	Defnyddir iaith ar gyfer adroddiadau blynyddol/busnes	Defnyddir iaith ar gyfer marchnata	Defnyddir iaith ar gyfer brandio/hunaniaeth	Defnyddir iaith ar gyfer gwefan
Iaith Genedlaethol	defnyddir yn eang										
Saesneg Busnes	defnyddir yn eang										
Ieithoedd ychwanegol	defnyddir yn eang										

1 AWSTRIA

Tanja Nagel, Anke Schad, Barbara Semmler a Michael Wimmer

Cyd-destun y wlad

Yn ôl y cyfrifiad seiliedig ar gofrestr diweddaraf yn 2011, mae gan Weriniaeth Awstria boblogaeth o 8.43 miliwn, gyda'r niferoedd â dinasyddiaeth dramor yn codi rhwng 2001 a 2011 fwy na thraean (dros 35%) i 957,000. Daw'r gyfran fwyaf o fewnfudwyr presennol o wledydd yr UE, gyda nifer y dinasyddion o'r Almaen sy'n byw yn Awstria yn fwy na dyblu (dros 110%) i 152,000, tra gwnaeth yr ail grŵp mwyaf o fewnfudwyr, sy'n cynnwys Serbiaid, Montenegroiaid a Kosofaniaid, aros yn sefydlog ar 133,000 a lleihaodd y trydydd grŵp mwyaf, mewnudwyr o Dwrci, 10% i 114,000 (Statistik Austria 2011).

Mae'r broses o gyfrifo siaradwyr ieithoedd lleiafrifol mewn cyfrifiadau swyddogol (yn seiliedig ar y categori ieithoedd llafar, *Umgangssprachen*) wedi'i beirniadu gan sefydliadau hawliau grwpiau lleiafrifol, sy'n nodi bod llawer o leiafrifoedd yn dewis Almaeneg fel eu prif iaith o ganlyniad i bwysau gwirioneddol neu ganfyddedig, fel y noda Pwyllgor Cynghorol Cyngor Ewrop ar y Confensiwn Fframwaith ar gyfer Diogelu Lleiafrifoedd Cenedlaethol yn ei drydedd farn ar Awstria. Mae'r Pwyllgor Cynghorol yn 'strongly encourages the Austrian authorities to ensure that any future census related to language use contains open-ended lists and allows for the possibility to indicate multiple languages and identities' (y Pwyllgor Cynghorol 2011: 11-12). I wneud y pwynt, mae grwpiau lleiafrifol hefyd yn datgan eu niferoedd amcangyfrifedig eu hunain o siaradwyr. Yn achos Hwngareg, er enghraifft, cafodd 25,884 o siaradwyr eu cyfrif yn y cyfrifiad diwethaf â chwestiwn iaith yn 2001, tra bod eu hamcangyfrif eu hunain bron dwbl hynny (Initiative Minderheiten n.d.).

Mae gan Awstria amrywiaeth sylweddol, yn enwedig ymhlith plant a phobl ifanc. Mae cyfran y disgyblion sy'n defnyddio iaith ar wahân i Almaeneg yn eu bywydau bob dydd ar ei uchaf yn Fienna (41.8%) ac ar ei hisaf yn Carinthia (8.9%). Nodweddir y grŵp o bobl ifanc ddwyieithog neu amlieithog gan heterogenedd o ran eu hanes mewn fudo, sydd hefyd yn effeithio ar broffil iaith a phroffil addysg unigolyn (Biffi/Skrivanek 2011:1).

1 Ieithoedd mewn dogfennau swyddogol a chronfeydd data

Ymdrinnir â'r iaith genedlaethol ac ieithoedd rhanbarthol/lleiafrifol mewn deddfwriaeth iaith a/neu ddogfennau polisi iaith. (Cyd-)ariennir y broses o ddysgu ac addysgu'r iaith genedlaethol i blant a/neu oedolion sy'n byw dramor ac sydd â diddordeb mewn dysgu Almaeneg mewn saith gwlad: y Weriniaeth Tsiec, Hwngari, yr Eidal, Gwlad Pwyl, Serbia, Slofacia a Slofenia. Mae Awstria wedi llofnodi ac wedi cadarnhau'r *Siarter Ewropeidd ar gyfer Ieithoedd Rhanbarthol neu Ieithoedd Lleiafrifol*. Cydnabyddir yr ieithoedd rhanbarthol/lleiafrifol canlynol yn y Siarter: Croateg Burgenland, Croateg, Tsieceg, Hwngareg yn Burgenland, Hwngareg yn Fienna, Romani Burgenland, Slofaceg, Slofeneg yn Carinthia, a Slofeneg yn Styria. Ceir darpariaeth addysg swyddogol ar gyfer ieithoedd rhanbarthol/lleiafrifol mewn rhanbarthau penodol, a gefnogir gan y Siarter.

Nid oes unrhyw ddulliau swyddogol o gasglu data cenedlaethol/rhanbarthol ar amrywiaeth ieithyddol yn Awstria mwyach. Mae data'r cyfrifiad (2001) wedi'i ddisodli gan ddata'r gofrestr (2011) nad yw'n cynnwys cwestiwn am iaith.

Cafodd y Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Integreiddio, a gyhoeddwyd yn 2011, ei gydgyssylltu gan y Weinyddiaeth Gartref drwy gynnal deialog ag arbenigwyr a rhanddeiliaid. Ystyrir mai hyfedredd mewn Almaeneg sy'n allweddol i integreiddio. Rhaid i'r rheini sy'n mewn fudo i Awstria basio arholiad iaith (lefel A1) cyn dod i mewn i'r wlad. Mae'r rhagofynion hyn yn golygu bod Awstria yn debyg i'r Almaen, Ffrainc, Denmarc a'r Iseldiroedd (Bundesministerium für Inneres 2011).

Ym mis Mehefin 2011, cyhoeddodd llywodraeth Awstria ei thrydydd adroddiad ar weithredu'r Siarter Ewropeidd ar gyfer Ieithoedd Rhanbarthol neu Ieithoedd Lleiafrifol. Mae'r adroddiad hefyd yn cyfeirio at ddiwygio'r gyfraith gyfansoddiadol yn 2011, gan sicrhau ateb sefydlog i'r *Ortstafelstreit* diflas (dadlau ynghylch arwyddion dwyieithog) ynghylch y defnydd o ieithoedd lleiafrifol mewn topograffi ac mewn gwasanaethau cyhoeddus penodol yn Burgenland a Carinthia (Bundeskanzleramt 2011:11).

IC=iaith/leithoedd Cenedlaethol
IT=leithoedd Tramor
IRh/LI=leithoedd Rhanbarthol neu Leiafrifol
IM=leithoedd Mewnudwyr

leithoedd mewn addysg cyn cynradd (Ni cheir darpariaeth ar gyfer ieithoedd tramor ac ieithoedd mewnudwyr)

	Grwpiau targed	Hyd	Gofynion o ran isafswm maint y grŵp	Diwrnodau'r wythnos	Hyfforddiant cyn swydd i athrawon	Hyfforddiant mewn swydd i athrawon	Arian ar gael gan y wladwriaeth
IRh/LI	pawb	≥2 flynedd	dim	0.5-1 diwrnod	cyffredinol	pwnc-benodol	llawn
Cymorth IC ychwanegol	pawb	≥2 flynedd	dim	0.5-1 diwrnod	pwnc-benodol	pwnc-benodol	llawn

leithoedd a gynigir mewn addysg cyn cynradd

IRh/LI	Croateg Burgenland, Tsieceg, Hwngareg, Eidaleg yn Tyrol, Slofaceg, Slofeneg
---------------	---

Ers 2010 mae wedi bod yn ofynnol i blant gael addysg cyn cynradd o bump oed ledled Awstria. Cafodd y mesur hwn ei gyflwyno'n bennaf i sicrhau bod pob plentyn yn dysgu Almaeneg cyn dechrau'r ysgol.

Fel y disgrifir yn y *Proffil Polisi Addysg Iaith*, nodweddir addysg cyn cynradd gan system ddarniog nad yw wedi'i chanoli. Mae hyn yn effeithio ar weithredu amrywiaeth iaith o ran faint a gynigir (gyda gwahaniaethau rhwng y **Länder** unigol) a'r ansawdd a gynigir, yn enwedig o ran cymwysterau addysgwyr iaith (Bundesministerium für Unterricht, Kunst und Kultur/Bundesministerium für Wissenschaft und Forschung/Österreichisches Sprachen Kompetenz Zentrum 2008: 82-88).

leithoedd mewn addysg gynradd

Trefniadaeth

	Cwricwlwm	Cymorth ychwanegol i newydd-ddyfodiaid	Profion diagnostig wrth ddechrau	Monitro sgiliau iaith
Cymorth IC	cydlynol a chlir	cyn prif ffrwd	pawb	lefel ysgol

	Grwpiau targed	Cwricwlwm	CLIL	Dechrau addysg iaith	Amserlennu	Gofynion o ran isafswm maint y grŵp	Monitro sgiliau iaith	Y lefel y mae angen ei chyrraedd	Arian ar gael gan y wladwriaeth
IRh/LI	pawb	dim canllawiau	lleoledig	o flwyddyn 1	yn rhannol yn ystod oriau ysgol	>10	lefel ysgol	heb ei nodi	llawn
IT	pawb	cydlynol a chlir	lleoledig	o flwyddyn 1	yn ystod oriau ysgol	dim	lefel ysgol	heb ei nodi	llawn
IM	siaradwyr brodorol yn unig	cydlynol a chlir	absennol	o flwyddyn 1	y tu allan i oriau ysgol	>10	lefel ysgol	heb ei nodi	llawn

Addysgu

	Cymwysterau athrawon	Hyfforddiant cyn swydd i athrawon	Hyfforddiant mewn swydd i athrawon	Symudedd
Cymorth IC	athrawon cyffredinol	pwnc-benodol	pwnc-benodol	Dd/G
IRh/LI	athrawon iaith	pwnc-benodol	pwnc-benodol	Dd/G
IT	athrawon cyffredinol	pwnc-benodol	pwnc-benodol	cymorth ariannol anffurfiol
IM	athrawon iaith	pwnc-benodol	pwnc-benodol	Dd/G

Ieithoedd a gynigir mewn addysg gynradd

IRh/LI	Burgenland-Croateg, Tsieceg, Hwngareg, Romani, Slofaceg, Slofeneg
IT	Croateg, Tsieceg, Saesneg, Ffrangeg, Hwngareg, Eidaleg, Slofaceg, Slofeneg (un o'r ieithoedd hyn yn orfodol)
IM	Albaneg, Bosniog/Croateg/Serbeg, Pwyleg, Rwseg, Tyrceg

O ganlyniad i'r datblygiad demograffig, ystyrir bod ehangu *Muttersprachlicher Unterricht* (addysg iaith mewnudwyr), yn enwedig ar lefel gynradd, yn flaenoriaeth gan y llywodraeth. Yn ôl y cwricwlwm, nod *Muttersprachlicher Unterricht* yw galluogi dwyieithrwydd a chydaddoldeb rhwng ieithoedd aelwyd mewnudwyr ac Almaeneg.

Ym mlwyddyn ysgol 2009/10, cymerodd 29.4% o ddisgyblion ysgol gynradd yn Awstria ag iaith ychwanegol ar wahân i Almaeneg ran yn *Muttersprachlicher Unterricht* (Bundesministerium für Unterricht, Kunst und Kultur 2011: 13).

Yr Adran Mewnudwyr ac Ysgolion yn y Weinyddiaeth Ffederal dros Addysg, Diwylliant a'r Celfyddydau sy'n cydgyssylltu'r cynnig. Cyhoedda daflenni gwybodaeth; er enghraifft, ar y fframwaith cyfreithiol, data ac ystadegau. Ar y llwyfan www.muttersprachlicher-unterricht.at gellir cael gwybodaeth am y broses gofrestru i rieni mewn Bosniog/Croateg/Serbeg, Twrceg ac Albaneg.

O ran addysgu iaith mewnudwyr, yn ogystal ag ar gyfer ieithoedd tramor a lleiafrifol eraill, y brif her yw nid yn unig ehangu, ond hefyd wella ansawdd. Yn y ddwy ystyr, mae nifer yr athrawon cymwysedig yn her allweddol sy'n gofyn am ddiwygio addysg athrawon (Bundesministerium für Unterricht, Kunst und Kultur/Bundesministerium für Wissenschaft und Forschung/Österreichisches Sprachen Kompetenz Zentrum 2008: 88-91).

Mae Fienna yn cymryd rhan ym Mhrosiect Dinasoedd Amlieithog Ewrop, gan gasglu data ymhlith disgyblion ysgolion cynradd i gasglu gwybodaeth am y cysylltiad rhwng amrywiaeth ieithyddol a llwyddiant academiaidd (Brizic 2011).

leithoedd mewn addysg uwchradd

Trefniadaeth

	Cwricwlwm	Cymorth ychwanegol i newydd-ddyfodiaid	Profion diagnostig wrth ddechrau	Monitro sgiliau iaith
Cymorth IC	cydlynol a chlir	cyn prif ffrwd	absennol	lefel ysgol

	Grwpiau targed	Cwricwlwm	CLIL	Amserlennu	Gofynion o ran isafswm maint y grŵp	Monitro sgiliau iaith	Y lefel y mae angen ei chyrraedd	Arian ar gael gan y wladwriaeth
IRh/LI	pawb	cydlynol a chlir	lleoledig	yn rhannol yn ystod oriau ysgol	>10	lefel ysgol	heb ei nodi	llawn
IT	pawb	cydlynol a chlir	lleoledig	yn ystod oriau ysgol	dim	lefel ysgol	wedi'i chysylltu â'r Fframwaith Cyfeirio Ewropeaidd Cyffredin	llawn
IM	siaradwyr brodorol yn unig	cydlynol a chlir	lleoledig	y tu allan i oriau ysgol	>10	lefel ysgol	normau ar lefel ysgol	llawn

Addysgu

	Cymwysterau athrawon	Hyfforddiant cyn swydd i athrawon	Hyfforddiant mewn swydd i athrawon	Lefel yr iaith sydd ei hangen	Symudedd
Cymorth IC	athrawon iaith	pwnc-benodol	pwnc-benodol	heb ei nodi	Dd/G
IRh/LI	athrawon iaith	pwnc-benodol	pwnc-benodol	Dd/G	Dd/G
IT	athrawon iaith	pwnc-benodol	pwnc-benodol	wedi'i chysylltu â'r Fframwaith Cyfeirio Ewropeaidd Cyffredin	yn cael ei gynnwys mewn hyfforddiant
IM	athrawon iaith	pwnc-benodol	pwnc-benodol	Dd/G	Dd/G

Ieithoedd a gynigir mewn addysg uwchradd

IRh/LI	Burgenland-Croateg, Tsieceg, Hwngareg, Romani, Slofaceg, Slofeneg
IT	Saesneg, Ffrangeg, Eidaleg, Sbaeneg. Ar lefel ysgolion uwchradd academiaidd: 2 orfodol. Ar lefel ysgolion uwchradd cyffredinol: 1 gorfodol
IM	Albaneg, Bosniwg/Croateg/Serbeg, Pwyleg, Rwseg, Tyrceg

O'r lefel uwchradd (ISCED 2) ymlaen, caiff system ysgolion Awstria ei rhannu'n ysgolion uwchradd cyffredinol (*Hauptschule*) ac ysgolion uwchradd academiaidd. Mae'r rhyngwyneb hwn yn hanfodol o ran prosesau addysg ieithyddol y gellir amharu arnynt, eu parhau neu eu gwella.

Yn 2009/10 Fienna oedd yr unig *Bundesland* oedd yn darparu *Muttersprachlicher Unterricht* (addysg iaith mewnfudwyr) mewn ysgolion uwchradd academiaidd yn ogystal ag ysgolion uwchradd cyffredinol (Bundesministerium für Unterricht, Kunst und Kultur 2011: 25). Ym mhob *Bundesländer* arall fe'i darparwyd mewn ysgolion uwchradd cyffredinol yn unig.

Fodd bynnag, mae'r cwricwlwm mewn ysgolion uwchradd academiaidd yn cynnwys dwy iaith dramor fodern orfodol (neu un a Lladin), yn wahanol i'r cwricwlwm *Hauptschul*, sydd ond yn cynnwys un.

Cyflwynwyd yr Ysgol Ganol Newydd yn 2008/09 i oresgyn y rhaniad traddodiadol. Erbyn 2015/16, caiff pob *Hauptschulen* ei thrawsnewid yn Ysgol Ganol Newydd. Mae dysgu cymdeithasol ac integreiddio, ynghyd â system addysgu fwy unigol a gwahanol, yn rhan o gysyniad addysgeg yr Ysgol Ganol Newydd. Y prif nod yw datblygu potensial disgyblion o gefndir mewnfudol.

Saesneg yw'r iaith dramor fodern a ddewisir fwyaf mewn ysgolion ar bob lefel, ac fe'i hastudir gan bron 99% o ddisgyblion. Gall ieithoedd rhanbarthol a lleiafrifol hefyd gael eu cynnig fel pwnc mewn ysgolion uwchradd. Mae'r hyn a ddarperir yn dibynnu ar y rhanbarth: yn Burgenland, mae 12.9% o ddisgyblion yn dysgu Croateg ac mae 10.6% o ddisgyblion yn Carinthia yn dysgu Slofeneg (data o flwyddyn ysgol 2004/5, Bundesministerium für Unterricht, Kunst und Kultur/ Bundesministerium für Wissenschaft und Forschung/Österreichisches Sprachen Kompetenz Zentrum 2008: 149).

Ieithoedd mewn addysg bellach ac addysg uwch**Addysg bellach (mewn tri sefydliad AHG) (Ni cheir darpariaeth ar gyfer ieithoedd Rh/LI)**

		Ystod o raglenni iaith	Cwricwlwm	Y lefel y mae angen ei chyrraedd	Arian ar gael gan y wladwriaeth
IT	Sefydliad A	amrywiaeth eang	cyffredinol	wedi'i chysylltu â'r Fframwaith Cyfeirio Ewropeaidd Cyffredin	dim
	Sefydliad B	amrywiaeth eang	cydlynol a chlir	wedi'i chysylltu â'r Fframwaith Cyfeirio Ewropeaidd Cyffredin	rhannol
	Sefydliad C	amrywiaeth eang	cyffredinol	wedi'i chysylltu â'r Fframwaith Cyfeirio Ewropeaidd Cyffredin	rhannol
IM	Sefydliad A	amrywiaeth eang	cyffredinol	Dd/G	dim
	Sefydliad B				
	Sefydliad C				

Addysg uwch (mewn tair prifysgol)

	iaith/ ieithoedd a ddefnyddir fel y cyfrwng addysgu	ieithoedd ar wefan	Grwpiau targed ar gyfer cymorth ychwanegol yn yr iaith genedlaethol	Y lefel i'w chyrhaedd o ran addysgu ieithoedd tramor	Recriwtio myfyrwyr rhyngwladol	Symudedd ar gyfer myfyrwyr iaith	Symudedd ar gyfer myfyrwyr nad ydynt yn fyfyrwyr iaith
Prifysgol A	cenedlaethol a thramor	cenedlaethol a thramor	cyfyngedig	wedi'i chysylltu â'r Fframwaith Cyfeirio Ewropeaidd Cyffredin	rhyngwladol yn unig	dewisol	dewisol
Prifysgol B	cenedlaethol, tramor, Rh/LI	cenedlaethol a thramor	cyfyngedig	wedi'i chysylltu â'r Fframwaith Cyfeirio Ewropeaidd Cyffredin	rhyngwladol a mewnfudwyr	dewisol	dewisol
Prifysgol C	cenedlaethol a thramor	cenedlaethol a thramor	cyfyngedig	wedi'i chysylltu â'r Fframwaith Cyfeirio Ewropeaidd Cyffredin	rhyngwladol yn unig	dewisol	dewisol

Ar wahân i hyfforddiant galwedigaethol oedolion ac addysg brifysgol, dylai traddodiad Awstria o *Volkshochschulen* (VHS), sy'n deillio o fentrau bourgeois a dosbarth gweithiol yn y 19eg ganrif gael ei grybwyll yng nghyd-destun dysgu iaith. Gyda chyfran o 39.4% o unedau addysg yn 2009/10, ieithoedd yw'r maes addysg cryfaf yn VHS (Verband Österreichischer Volkshochschulen 2011: 1). Ar hyn o bryd mae VHS Fienna yn cynnig mwy na 60 o ieithoedd.

Ieithoedd yn y cyfryngau clyweledol a'r wasg

Cynyrchiadau teledu nad ydynt yn yr iaith genedlaethol	Ffilmiau yn y sinema nad ydynt yn yr iaith genedlaethol	Rhaglenni mewn ieithoedd Rh/LI y tu allan i'r rhanbarth	Argaeledd iaith arwyddion ar y teledu
wedi'u trosleisio	wedi'u trosleisio	weithiau	weithiau

Yn unol â'r gyfraith, rhaid i gorfforaeth ddarlledu Awstria sef ORF ddarparu gwasanaethau i siaradwyr ieithoedd rhanbarthol a lleiafrifol cydnabyddedig. Ar wahân i gylchgronau teledu a radio, mae'r llwyfan ar-lein *volksgruppen.orf.at* yn darparu newyddion a gwybodaeth a ffrydiau fideo byw mewn Croateg, Tsieceg, Hwngareg, Romani, Slofaceg a Slofeneg.

FM4 yw gorsaf radio'r ORF sy'n targedu cynulleidfifa ifanc. Er yn ddwyieithog, Saesneg yw'r brif iaith a siaredir. Caiff y bwletinâu newyddion eu darllen yn Saesneg a dwywaith y dydd yn Ffrangeg. Anogir cyflwynwyr a gwsteion ar yr awyrg FM4 i ddilyn 'Egwyddor Siaradwr Brodorol' FM4 a siarad yn eu mamiaith.

leithoedd mewn gwasanaethau cyhoeddus a mannau cyhoeddus

Strategaethau iaith sefydliadol ar lefel dinas (2 dinas)

Nifer yr ieithoedd	Ar y wefan	Defnyddio cyfieithwyr	Cymwyseddau iaith mewn disgrifiadau swydd	Recriwtio siaradwyr ieithoedd	Hyfforddiant iaith a gynigir i gyflogeion	Cofnod o sgiliau iaith cyflogeion
>4	Fienna	Fienna Graz	Graz	Fienna Graz	Fienna	Fienna Graz
3-4						
1-2	Graz		Fienna		Graz	

Cyfleusterau cyfathrebu

Pum prif gyfleuster cyfathrebu ar lafar	Pum prif gyfleuster cyfathrebu ysgrifenedig
Twristiaeth Mewnfudo ac integreiddio Dadleuon gwleidyddol a gwneud penderfyniadau Addysg Trafnidiaeth	Twristiaeth Trafnidiaeth Theatr Mewnfudo ac integreiddio

Er i brosiect Ewrop Gyfoethog ei Hieithoedd ganolbwyntio ar ddinasoedd mawr o ran poblogaeth, nodweddir Awstria yn bennaf gan drefi llai, sydd hefyd yn y rhanbarthau â lleiafrifoedd ieithyddol cydnabyddedig (*Volksgruppen*). Felly, mae'r diwygiad cyfansoddiadol a nodwyd uchod a benderfynwyd gan y senedd yn 2011 ar y defnydd o ieithoedd lleiafrifol (BGBl. I Nr. 46/2011) mewn topograffeg a'r ieithoedd swyddogol i'w defnyddio mewn gwasanaethau cyhoeddus yn effeithio ar y trefi llai hynny yn bennaf.

leithoedd mewn busnes (allan o 19 o gwmnïau)

	Strategaethau iaith cyffredinol							
	Argaeledd strategaeth iaith	Pwyslais ar sgiliau iaith wrth recriwtio	Darpariaeth symudedd rhyngwladol	Y defnydd o gyfieithwyr/dehonglwyd allanol	Cofnodi sgiliau iaith staff	Y defnydd o rwydweithiau ar gyfer hyfforddiant iaith	Y defnydd o raglenni/cyllid yr UE	Ymwybyddiaeth o raglenni/cyllid yr UE
Defnyddir yn eang	6	12	5	4	0	0	2	0

		Strategaethau iaith mewnol						Strategaethau iaith allanol			
		Partneriaethau â'r sector addysg	Cynlluniau gwobrwyo/dyrchafu yn seiliedig ar sgiliau iaith	Darpariaeth hyfforddiant iaith	Defnyddir y Fframwaith Cyfeirio Ewropeaidd Cyffredin	Defnyddir iaith ar gyfer dogfennau yn y gweithle/mewnwyd	Defnyddir iaith ar gyfer meddalwedd, rhaglenni'r we	Defnyddir iaith ar gyfer adroddiadau blynyddol/busnes	Defnyddir iaith ar gyfer marchnata	Defnyddir iaith ar gyfer brandio/hunaniaeth	Defnyddir iaith ar gyfer gwefan
IC	defnyddir yn eang	4	0	5	1	19	19	19	19	18	18
Saesneg Busnes	defnyddir yn eang	7	2	9	2	7	5	9	6	9	12
leithoedd ychwanegol	defnyddir yn eang	6	0	4	1	2	2	2	3	4	3

Yn 2005, cynhaliodd y Sefydliad Ymchwil ar Gymwysterau a Hyfforddiant Economi Awstria (ibw) arolwg ymhlith 2,017 o gwmnïau yn Awstria ar eu galw am ieithoedd tramor. Dywedodd 86% fod angen ieithoedd tramor arnynt. Yn 45% o'r cwmnïau, mae angen Saesneg ar y 'rhan fwyaf' o gyflogeion. Ar gyfer cysylltu â phartneriaid busnes yn Nwyrain Ewrop, Almaeneg yw'r iaith a ddefnyddir, yn ôl yr arolwg (Tritscher-Archan 2008: 172).

Tra bod sgiliau iaith yn Awstria, fel gwlad sy'n allforio, yn cael eu hystyried yn draddodiadol fel ffordd o gael mynediad i farchnadoedd tramor, mae rhai cwmnïau, megis banciau a darparwyr telathrebu, hefyd yn ymateb i farchnad fewndirol fwyfwy amrywiol gyda'r hyn a elwir yn ethno farchnata, gan ddefnyddio ieithoedd mewnfydwyr yn eu hymgyrchoedd a'u gwasanaethau.

Canfyddiadau allweddol cyffredinol

Nodweddir Awstria gan ddatblygiadau amwys o ran amlieithrwydd a lluosieithrwydd. Ar y naill law, mae'r rhaglen lywodraethu yn cydnabod amrywiaeth cynyddol cymdeithas yn Awstria drwy bwysleisio pwysigrwydd caffael sgiliau iaith yn bennaf drwy addysgu plant a phobl ifanc, yn enwedig gan gyfeirio at Saesneg, ieithoedd y gwledydd cyfagos, ac ieithoedd mewnfudwyr (Republik Österreich 2008: 206).

Ar y llaw arall, mae a wnelo'n bennaf ag adnoddau (er enghraifft, o ran nifer yr athrawon cymwysedig), sy'n atal creu darpariaeth addysg iaith fwy amrywiol a chynhwysfawr ac sy'n ei gwneud hi'n anodd sefydlu proses addysg iaith barhaus.

Er mai'r iaith Almaeneg a ystyrir fel yr iaith bwysicaf i integreiddio'n llwyddiannus (a atgyfnerthir hefyd gan bolisiau addysg a mewnfudo presennol), mae cymdeithas yn araf dddod yn ymwybodol o fanteision sgiliau iaith ychwanegol, o leiaf pan ystyrir eu bod yn 'ddefnyddiol', er enghraifft o ran yr economi ar gyfer masnach a busnes allforio penodol.

Mentrau a chynlluniau peilot addawol

Mae llawer o enghreifftiau o arfer da ledled Ewrop Gyfoethog Ei Hieithoedd. Un enghraifft yw prosiect y mae EDUCULT yn chwarae rhan ynddo: mae *Sag's multi* yn gystadleuaeth rhethreg flynyddol i ddisgyblion dwyieithog a drefnir gan gymdeithas o bobl fusnes, sef *Verein Wirtschaft für Integration (VWFI)* ynghyd ag EDUCULT. Bydd disgyblion o ddosbarth saith (12 oed) ymlaen yn cyflwyno eu hareithiau gan newid rhwng Almaeneg a'u hiaith ychwanegol. Ers 2009, mae tua 700 o ddisgyblion wedi cymryd rhan yn y gystadleuaeth, gan gyflwyno mewn dros 40 o ieithoedd.

SPIN: Mae SprachenInnovationsNetzwerk, rhwydwaith a gychwynnwyd gan yr *Österreichisches Sprachen-Kompetenz-Zentrum (ÖSZ)*, yn darparu cronfa ddata yn www.oesz.at/spin ar brosiectau iaith blaengar i gyhoedd ehangach sydd â diddordeb.

Cyfeiriadau

Biffi, Gudrun, Skrivaneck, Isabella (2011): *Schule-Migration-Gender Endbericht*. Astudiaeth a gomisiynwyd gan Bundesministerium für Unterricht, Kunst und Kultur. Ar gael yn www.bmukk.gv.at/medienpool/21041/schule_migration_gender_eb.pdf Cyrchwyd 7 Rhagfyr 2011.

Brizic, Katharina (2011): *Multilingual cities* Wien. Ar gael yn www.oeaw.ac.at/dinamlex/Multilingual-Cities_Wien-2009_Endbericht-V1Stand20111111.pdf Cyrchwyd 7 Rhagfyr 2011.

Bundeskanzleramt Österreich (2011): 3. *Bericht der Republik Österreich* gemäß Artikel 15 Abs. 1 der Europäischen Charta der Regional- oder Minderheitensprachen. Ar gael yn www.bka.gv.at/DocView.axd?CobId=45599 Cyrchwyd 7 Rhagfyr 2011.

Bundesministerium für Inneres (2011): *Nationaler Aktionsplan für Integration*. Ar gael yn www.integrationsfonds.at/nap/bericht/ Cyrchwyd 7 Rhagfyr 2011.

Bundesministerium für Unterricht, Kunst und Kultur (2011): *Der muttersprachliche Unterricht in Österreich. Statistische Auswertung für das Schuljahr 2009/10*. Ar gael yn www.bmukk.gv.at/medienpool/3720/nr5_11.pdf Cyrchwyd 7 Rhagfyr 2011.

Bundesministerium für Unterricht, Kunst und Kultur und Bundesministerium für Wissenschaft und Forschung, Österreichisches Sprachen Kompetenz Zentrum (gol.) (2008): *Language Education Policy Profile. Country Report Austria*. Ar gael yn www.oesz.at/download/spol/lepp_engl_1.pdf Cyrchwyd 7 Rhagfyr 2011.

Initiative Minderheiten (n.d.): *Minderheiten in Österreich/ Volksgruppen*. Ar gael yn http://minderheiten.at/index.php?option=com_content&task=view&id=26&Itemid=30 Cyrchwyd 9 Rhagfyr 2011.

Republik Österreich (2008): *Regierungsprogramm 2008-2013*. Ar gael yn www.bka.gv.at/DocView.axd?CobId=32965 Cyrchwyd 7 Rhagfyr 2011.

Statistik Austria (2011): *Registrierzählung 2011. Pressemeldung*. Ar gael yn www.statistik.at/web_de/presse/059977 Cyrchwyd 7 Rhagfyr 2011.

Tritscher-Archan, Sabine (gol.), Institut für Bildungsforschung der Wirtschaft (2008): *Fremdsprachen für die Wirtschaft. Zahlen, Daten, Fakten*.

Verband österreichischer Volkshochschulen (2011): *Statistikbericht 2011*. Ar gael yn http://files.adulteducation.at/statistik/berichte/statistik_2011.pdf Cyrchwyd 7 Rhagfyr 2011.

2 BOSNIA A HERZEGOVINA

Jasmin Džindo a Selma Žerić

Cyd-destun y wlad

Mae Bosnia a Herzegovina yn wlad amlgenedl ac amliaith a chanddi dair iaith genedlaethol swyddogol, sef Bosniég, Croateg a Serbeg (gyda sgrïpt Lladin a sgrïpt Syrïlig). Mae'r ieithoedd hyn yn deillio o'r iaith Serbo-Croateg, sef iaith swyddogol yr hen Iwgoslafia. Ar ôl i Iwgoslafia gael ei diddymu, aeth Bosnia a Herzegovina ati i safoni'r iaith honno yn *iaith Fosniég*, *iaith Groateg* ac *iaith Serbeg*, ac mae'r tair ohonynt wedi'u sefydlu'n gyfreithlon fel ieithoedd swyddogol cwbl gyfartal yn y diriogaeth. Ychydig iawn o wahaniaeth sydd rhwng yr ieithoedd hyn yn ramadegol, yn eiriadurol ac yn seinegol. Mae hyn yn arwain at y casgliad bod poblogaeth gyfan Bosnia a Herzegovina yn deall y tair iaith, a'u bod yn rhydd i benderfynu pa iaith i'w defnyddio yn eu bywydau proffesiynol a'u bywydau bob dydd.

Ieithoedd mewn dogfennau swyddogol a chronfeydd data

Ymdrinnir â'r tair iaith genedlaethol (Bosniég, Croateg a Serbeg), ieithoedd tramor ac ieithoedd rhanbarthol/lleiafrifol mewn dogfennau polisi iaith. Mae'r Siarter Ewropeaidd ar gyfer Ieithoedd Rhanbarthol neu Ieithoedd Lleiafrifol wedi'i llofnodi gan y llywodraeth ac wedi'i chadarnhau gan y senedd. Cydnabyddir yr ieithoedd canlynol yn y Siarter: Albaneg, Tsieceg, Almaeneg, Hwngareg, Eidaleg, Iddeweg (Iddew-Almaeneg a Ladino), Macedoneg, Montenegreg, Pwyleg, Rwmaneg, Rwseg, Slofaceg, Slofeneg, Tyrceg ac Wcreineg. Nid oes unrhyw ddulliau swyddogol o gasglu data cenedlaethol ar amrywiaeth ieithyddol.

Mae nifer fawr o ddeddfau sy'n rheoleiddio addysg cyn cynradd, addysg gynradd, addysg uwchradd, addysg bellach ac addysg uwch, fel y *Ddeddf Fframwaith ar Addysg Cyn Cynradd yn Bosnia a Herzegovina* (2007), y *Ddeddf ar yr Asiantaeth ar gyfer Addysg Cyn Cynradd, Addysg Gynradd ac Addysg Uwchradd* (2007), y *Ddeddf Fframwaith ar Addysg Gynradd ac Addysg Uwchradd yn Bosnia a Herzegovina* (2003), y *Ddeddf Fframwaith ar Addysg Alwedigaethol Uwchradd* (2008), a'r *Ddeddf Fframwaith ar Addysg Uwch yn Bosnia a Herzegovina* (2007).

Ceir deddfwriaeth sy'n cynnwys erthyglau'n ymwneud ag ieithoedd cenedlaethol, sef *Cyfansoddiad Bosnia a Herzegovina*. Y deddfwriaeth hon yw gweithred gyfreithiol sylfaenol y wlad ac fe'i defnyddir i sefydlu trefn wleidyddol a chyfreithiol. Gan fod dau endid yn Bosnia a Herzegovina, Ffederasiwn Bosnia a Herzegovina a Gweriniaeth Srpska, ceir dau gyfansoddiad pellach – *Cyfansoddiad Ffederasiwn Bosnia a Herzegovina* a *Chyfansoddiad Gweriniaeth Srpska*, sydd hefyd yn sôn am ieithoedd cenedlaethol, yn ogystal â'r sgrïpt/sgrïptiau swyddogol. Ceir polisiâu iaith swyddogol hefyd, a grëwyd er mwyn

hyrwyddo'r gwaith o ddysgu ac addysgu ieithoedd cenedlaethol, ieithoedd tramor ac ieithoedd rhanbarthol/lleiafrifol, megis *Cynllun Gweithredu Diwygiedig Bosnia a Herzegovina ar Anghenion Addysgol y Roma* (a gyhoeddwyd gan y Weinyddiaeth Hawliau Dynol a Ffoaduriaid). Caiff iaith arwyddion ei chydabod yn swyddogol yn nogfennau'r wladwriaeth sy'n ymwneud â pholisïâu iaith swyddogol. Caiff y mater hwn ei gwmpasu gan y *Ddeddf ar Ddefnyddio Iaith Arwyddion yn Bosnia a Herzegovina* (2009). Mae gan bobl fyddar yr hawl gyfreithiol i ddefnyddio iaith arwyddion o ran gweithdrefnau amrywiol unrhyw sefydliad yn Bosnia a Herzegovina.

Yn ogystal â'r ffaith iddi gael ei rhannu'n weinyddol yn ddau endid, mae Bosnia a Herzegovina hefyd yn cynnwys *Ardal Brčko*. Nid yw'r ardal hon yn perthyn i'r naill endid na'r llall ac mae'n uned weinyddol ar wahân. Rhennir Ffederasiwn Bosnia a Herzegovina ymhellach yn ddeg canton. Caiff y cantonau hyn eu hystyried yn unedau ffederal o fewn yr endid ac mae ganddynt gryn dipyn o ymreolaeth. O ganlyniad i'r ffaith bod strwythur y wladwriaeth yn gymhleth iawn, nid oes unrhyw ymagweddau cydlynol tuag at bolisïâu addysg na pholisïâu iaith. O gofio hyn, mae'r sefyllfa gyfredol o ran ieithoedd swyddogol yn amrywio. Ar wahân i'r gwahaniaethau amrywiol rhwng yr endidau, ceir hefyd amrywiaethau o fewn y cantonau hefyd, gan fod Gweinyddiaeth Addysg wahanol ym mhob canton, gyda'i deddfau ei hun. O gofio pa mor eang yw'r sail gyfreithiol, nid yw gwleidyddiaeth yr ieithoedd yn gwbl gyson, ac nid yw'n anarferol i fwyafrif y boblogaeth mewn canton penodol (ac endid Gweriniaeth Srpska) bennu'r iaith swyddogol mewn sefydliadau addysgol. Mae'r cwricwla yn seiliedig ar un o'r tair iaith genedlaethol ond mae'r tair iaith genedlaethol yn bresennol ar bob lefel o'r system addysg, o addysg cyn cynradd i addysg uwch. Mae'r myfyrwyr yn penderfynu ym mha iaith y caiff eu dosbarthiadau ei chynnal ar ddechrau ysgol gynradd. Caiff gwerslyfrau a chwricwla eu haddasu yn unol â'r penderfyniad hwn. Ar wahân i ieithoedd cenedlaethol, mae pob lefel addysgol yn Bosnia a Herzegovina yn cynnig amrywiaeth eang o ieithoedd tramor. Fodd bynnag, nid oes cytgordd yn hyn o beth ychwaith. O ganlyniad, cynigir ieithoedd tramor gwahanol mewn ysgolion yn yr un canton, a ledled gwahanol gantonau hefyd. Fel arfer, cynigir pump neu chwe iaith dramor ar lefel addysg cyn cynradd, addysg gynradd ac addysg uwchradd megis Saesneg, Almaeneg, Ffrangeg, Eidaleg, Rwseg neu Arabeg, yn dibynnu ar yr endid neu'r canton y mae'r ysgol wedi'i lleoli ynddo. Mae sefydliadau addysg uwch yn Bosnia a Herzegovina yn cynnig Arabeg, Tsieceg, Saesneg, Ffrangeg, Almaeneg, Groeg, Eidaleg, Lladin, Perseg, Rwseg, Sbaeneg a Thyrcceg.

IC=iaith/leithoedd Cenedlaethol
IT=leithoedd Tramor
IRh/LI=leithoedd Rhanbarthol neu Leiafrifol
IM=leithoedd Mewnfudwyr

leithoedd mewn addysg cyn cynradd (Ni cheir darpariaeth ar gyfer cymorth ychwanegol yn yr iaith genedlaethol, ieithoedd Rh/LI nac ieithoedd mewnfudwyr)

	Grwpiau targed	Hyd	Gofynion o ran isafswm maint y grŵp	Diwrnodau'r wythnos	Hyfforddiant cyn swydd i athrawon	Hyfforddiant mewn swydd i athrawon	Arian ar gael gan y wladwriaeth
IT	pawb	≥2 flynedd	dim	<0.5 diwrnod	dim	dim	rhannol

leithoedd a gynigir mewn addysg cyn cynradd

IT	Saesneg, Almaeneg, Ffrangeg
-----------	-----------------------------

Caiff ieithoedd eu haddysgu ar lefel cyn cynradd ledled Bosnia a Herzegovina. Mabwysiedir ymagwedd gydlynol, integredig tuag at gwricwla dysgu ieithoedd a rhoddir sylw arbennig i luosieithrwydd yn yr ystafell ddosbarth ac amlieithrwydd mewn cymdeithas yn gyffredinol. Yr ieithoedd tramor a gynigir ar lefel addysg cyn cynradd fel arfer yw Saesneg, Almaeneg a Ffrangeg. Ni chynigir unrhyw ieithoedd mewnfudwyr.

leithoedd mewn addysg gynradd (Ni cheir darpariaeth ar gyfer ieithoedd mewnfudwyr)

Trefniadaeth

	Cwricwlwm	Cymorth ychwanegol i newydd-ddyfodiaid	Profion diagnostig wrth ddechrau	Monitro sgiliau iaith
Cymorth IC	cydlynol a chlir	cyn prif ffrwd	absennol	lefel ysgol

	Grwpiau targed	Cwricwlwm	CLIL	Dechrau addysg iaith	Amserlennu	Gofynion o ran isafswm maint y grŵp	Monitro sgiliau iaith	Y lefel y mae angen ei chyrraedd	Arian ar gael gan y wladwriaeth
IRh/LI	pawb	cydlynol a chlir	eang	o flwyddyn 1	yn ystod oriau ysgol	dim	lefel ysgol	heb ei nodi	llawn
IT	pawb	cydlynol a chlir	lleoledig	o flwyddyn 1	yn ystod oriau ysgol	dim	enedlaethol safonol	normau ar lefel genedlaethol neu ysgol	llawn

Addysgu

	Cymwysterau athrawon	Hyfforddiant cyn swydd i athrawon	Hyfforddiant mewn swydd i athrawon	Symudedd
Cymorth IC	athrawon iaith	cyffredinol	pwnc-benodol	Dd/G
IRh/LI	athrawon iaith	pwnc-benodol	pwnc-benodol	Dd/G
IT	athrawon iaith	cyffredinol	pwnc-benodol	cymorth ariannol anffurfiol

leithoedd a gynigir mewn addysg gynradd

IC eraill	Bosnieg, Croateg, Serbeg
IT	Saesneg neu Almaeneg yn orfodol. Arabeg, Ffrangeg neu Eidaleg yn ddewisol.

Defnyddir cwricwlwm cydlynol a chlir i addysgu ieithoedd cenedlaethol yn ogystal ag ieithoedd tramor drwy gydol addysg gynradd. Dim ond yn yr ieithoedd cenedlaethol y cynhelir dosbarthiadau a rhaid dewis un iaith dramor orfodol o blith pump neu chwe iaith wahanol, gan gynnwys Saesneg, Almaeneg, Ffrangeg, Eidaleg, Rwseg ac Arabeg. Addysgir rhai o'r ieithoedd hyn fel ieithoedd gorfodol a rhai fel ieithoedd tramor dewisol. Fe'u cynigir fel rhan o'r cwricwlwm, a chaiff lefel hyfedredd ei phrofi a'i monitro'n rheolaidd gan ddefnyddio ffyrdd safonol, yn ôl oedran. Ni chaiff ieithoedd mewnfydwyr eu haddysgu mewn ysgolion cynradd.

leithoedd mewn addysg uwchradd (Ni cheir darpariaeth ar gyfer ieithoedd mewnfydwyr)

Trefniadaeth

	Cwricwlwm	Cymorth ychwanegol i newydd-ddyfodiaid	Profion diagnostig wrth ddechrau	Monitro sgiliau iaith
Cymorth IC	cydlynol a chlir	cyn prif ffrwd	pawb	cenedlaethol safonol

	Grwpiau targed	Cwricwlwm	CLIL	Amserlennu	Gofynion o ran isafswm maint y grŵp	Monitro sgiliau iaith	Y lefel y mae angen ei chyrraedd	Arian ar gael gan y wladwriaeth
IRh/LI	pawb	cydlynol a chlir	eang	yn rhannol yn ystod oriau ysgol	dim	cenedlaethol safonol	normau ar lefel genedlaethol neu ranbarthol	llawn
IT	pawb	cydlynol a chlir	lleoledig	yn ystod oriau ysgol	dim	cenedlaethol safonol	normau ar lefel genedlaethol neu ysgol	llawn

Addysgu

	Cymwysterau athrawon	Hyfforddiant cyn swydd i athrawon	Hyfforddiant mewn swydd i athrawon	Lefel yr iaith sydd ei hangen	Symudedd
Cymorth IC	athrawon iaith	pwnc-benodol	pwnc-benodol	normau ar lefel genedlaethol neu ysgol	Dd/G
IRh/LI	athrawon iaith	pwnc-benodol	pwnc-benodol	Dd/G	Dd/G
IT	athrawon iaith	pwnc-benodol	pwnc-benodol	safonau cenedlaethol neu ranbarthol	cymorth ariannol anffurfiol

Ieithoedd a gynigir mewn addysg uwchradd

IC eraill	Bosnïeg, Croateg, Serbeg
IT	Saesneg neu Almaeneg yn orfodol Arabeg, Ffrangeg, Eidaleg, Rwseg, Tyrceg yn ddewisol

Yr hyn a welir ar lefel uwchradd yw cyfuniad o addysgu ieithoedd tramor fel pwnc ac addysgu pob pwnc mewn iaith dramor, er na chaiff y dull olaf ei ddefnyddio'n aml iawn. Defnyddir cwricwla cydlynol a chilir i addysgu ieithoedd cenedlaethol ac ieithoedd tramor a chaiff lefel hyfedredd ei phrofi a'i monitro'n rheolaidd gan ddefnyddio ffyrdd safonol, yn ôl oedran. Mae dwy iaith dramor yn orfodol ar lefel uwchradd, a rhaid dewis o blith chwech neu saith ohonynt gan gynnwys Saesneg, Almaeneg, Ffrangeg, Eidaleg, Rwseg, Tyrceg ac Arabeg. Addysgir rhai o'r ieithoedd hyn fel ieithoedd gorfodol a rhai fel ieithoedd tramor dewisol. Ni chaiff ieithoedd mewnfwfudwyr eu haddysgu mewn ysgolion uwchradd.

Ieithoedd mewn addysg bellach ac addysg uwch**Addysg Bellach (mewn tri AHG) (Ni cheir darpariaeth ar gyfer ieithoedd mewnfwfudwyr)**

		Ystod o raglenni iaith	Cwricwlwm	Y lefel y mae angen ei chyrraedd	Arian ar gael gan y wladwriaeth
IRh/LI	Sefydliad A	amrywiaeth eang	cydlynol a chilir	Dd/G	rhannol
	Sefydliad B	amrywiaeth eang	cydlynol a chilir	Dd/G	rhannol
	Sefydliad C	amrywiaeth eang	cydlynol a chilir	Dd/G	rhannol
IT	Sefydliad A	amrywiaeth eang	cydlynol a chilir	wedi'i chysylltu â'r Fframwaith Cyfeirio Ewropeaidd Cyffredin	llawn
	Sefydliad B	amrywiaeth eang	cydlynol a chilir	enedlaethol	llawn
	Sefydliad C	amrywiaeth eang	cydlynol a chilir	enedlaethol	llawn

Addysg uwch (mewn tair prifysgol)

	Iaith/ieithoedd a ddefnyddir fel y cyfrwng addysgu	Ieithoedd ar wefan	Grwpiau targed ar gyfer cymorth ychwanegol yn yr iaith genedlaethol	Y lefel i'w chyrraedd o ran addysgu ieithoedd tramor	Recriwtio myfyrwyr nad ydynt yn fyfyrwyr o'r wlad	Symudedd ar gyfer myfyrwyr iaith	Symudedd ar gyfer myfyrwyr nad ydynt yn fyfyrwyr iaith
Prifysgol A	enedlaethol, tramor a Rh/LI	enedlaethol, tramor a Rh/LI	cyfyngedig	lefel genedlaethol neu sefydliad	rhyngwladol a mewnfwfudwyr	dewisol	dewisol
Prifysgol B	enedlaethol, tramor a Rh/LI	enedlaethol, tramor a Rh/LI	cyfyngedig	lefel genedlaethol neu sefydliad	rhyngwladol a mewnfwfudwyr	dewisol	dewisol
Prifysgol C	enedlaethol, tramor a Rh/LI	enedlaethol, tramor a Rh/LI	cyfyngedig	lefel genedlaethol neu sefydliad	rhyngwladol a mewnfwfudwyr	dewisol	dewisol

Yn ôl y sefydliadau a gymerodd ran yn yr arolwg, mae sefydliadau addysg uwch yn Bosnia a Herzegovina yn cynnig dewis eang o raglenni mewn ieithoedd cenedlaethol ac ieithoedd tramor, o sgiliau cyfathrebu sylfaenol i sgiliau ieithyddol uwch. Llunnir cwricwla cydlynol a chilir ar gyfer dysgu ieithoedd cenedlaethol ac ieithoedd tramor, a gall myfyrwyr ddewis astudio Saesneg, Almaeneg, Eidaleg, Ffrangeg, Sbaeneg, Tyrceg, Arabeg, Perseg, Lladin, Groeg, Rwseg a Tsiegeg.

leithoedd yn y cyfryngau clyweledol a'r wasg

Cynrychiadau teledu nad ydynt yn yr iaith genedlaethol	Ffilmiau yn y sinema nad ydynt yn yr iaith genedlaethol	Rhaglenni mewn ieithoedd Rh/LI y tu allan i'r rhanbarth	Argaeledd iaith arwyddion ar y teledu
wedi'u hisdeitlo	wedi'u hisdeitlo	bob amser neu yn rheolaidd	weithiau

Caiff yr ieithoedd cenedlaethol eu cynrychioli i'r un graddau, fwy neu lai, yn y cyfryngau clyweledol a'r wasg argraffedig. Fodd bynnag, y mwyafrif sy'n penderfynu pa iaith genedlaethol a ddefnyddir fwyaf ar lefel leol. Nid oes unrhyw werthusiad systematig o'r ieithoedd hyn yn y cyfryngau. Ceir tri phrif ddarlledwr o ran y cyfryngau clywedol ar lefel y wladwriaeth: radio a theledu'r wladwriaeth (BHRT) a'r darlledwyr FTV ac RTRS ar lefel endidau. Defnyddir y ddwy sgrïpt ar deledu'r wladwriaeth: efallai y caiff rhaglen deledu ei darlledu yn y sgrïpt Lladin un diwrnod, ac yn y sgrïpt Sylilig y diwrnod nesaf.

Ar wahân i ieithoedd cenedlaethol, mae papurau newydd ar gael yn Saesneg, Ffrangeg, Almaeneg ac Eidaleg hefyd.

leithoedd mewn gwasanaethau cyhoeddus a manau cyhoeddus

Strategaethau iaith sefydliadol ar lefel dinas

Nifer yr ieithoedd	Ar y wefan	Defnyddio cyfieithwyr	Cymwyseddau iaith mewn disgrifiadau swydd	Recriwtio siaradwyr ieithoedd	Hyfforddiant iaith a gynigir i gyflogaion	Cofnod o sgiliau iaith cyflogaion
>4						
3-4	Sarajevo Mostar					
1-2	Banja Luka	Sarajevo Mostar Banja Luka	Sarajevo Mostar Banja Luka	Sarajevo Mostar Banja Luka	Sarajevo Mostar Banja Luka	

Cyfleusterau cyfathrebu

Tri phrif gyfleuster cyfathrebu ar lafar	Tri phrif gyfleuster cyfathrebu ysgrifenedig
Twristiaeth Trafnidiaeth Mewnfudo ac integreiddio	Twristiaeth Trafnidiaeth Mewnfudo ac integreiddio

Mae awdurdodau lleol yn cyfathrebu drwy gyfrwng yr ieithoedd cenedlaethol, gyda rhywfaint o Saesneg ac Almaeneg yn cael eu defnyddio hefyd. Yr ieithoedd cenedlaethol a ddefnyddir i gyfathrebu ar lafar ac yn ysgrifenedig mewn cyfleusterau bwrdeistrefol hefyd, heblaw am wasanaethau trafndiaeth, twristiaeth, mewnfudo ac integreiddio lle defnyddir Saesneg, Almaeneg a Ffrangeg hefyd.

leithoedd mewn busnes (allan o 29 o gwmnïau)

	STRATEGAETHAU IAITH CYFFREDINOL							
	Argaeledd strategaeth iaith	Pwyslais ar sgiliau iaith wrth recriwtio	Darpariaeth symudedd rhyngwladol	Y defnydd o gyfieithwyr/dehonglwy'r allanol	Cofnodi sgiliau iaith staff	Y defnydd o rwydweithiau ar gyfer hyfforddiant iaith	Y defnydd o raglenni/cyllid yr UE	Ymwybyddiaeth o raglenni/cyllid yr UE
Defnyddir yn eang	4	26	10	6	0	4	0	0

		STRATEGAETHAU IAITH MEWNOL						STRATEGAETHAU IAITH ALLANOL			
		Partneriaethau â'r sector addysg	Cynlluniau gwobrwyo/dyrchafu yn seiliedig ar sgiliau iaith	Darpariaeth hyfforddiant iaith	Defnyddir y Fframwaith Cyfeirio Ewropeaidd Cyffredin	Defnyddir iaith ar gyfer dogfennau yn y gweithle/mewnwyd	Defnyddir iaith ar gyfer meddalwedd, rhaglenni'r we	Defnyddir iaith ar gyfer adroddiadau blynyddol/busnes	Defnyddir iaith ar gyfer marchnata	Defnyddir iaith ar gyfer brandio/hunaniaeth	Defnyddir iaith ar gyfer gwefan
IC	defnyddir yn eang	0	6	3	0	29	23	29	28	27	29
Saesneg Busnes	defnyddir yn eang	0	14	6	2	21	24	11	20	16	25
leithoedd ychwanegol	defnyddir yn eang	0	4	3	0	3	1	1	0	5	2

Y brif iaith a ddefnyddir gan y cwmnïau a gymerodd ran yn yr arolwg i gyfathrebu ar lafar ac yn ysgrifenedig yw un o'r tair iaith genedlaethol (yn dibynnu ar y diriogaeth), gyda'r iaith Saesneg hefyd yn cael ei defnyddio i ryw raddau.

Canfyddiadau allweddol cyffredinol

Yn ôl dynameg datblygiad cymdeithasol ac economaidd yn Bosnia a Herzegovina, gwlad sy'n anelu at fod yn aelod o'r UE, mae awdurdodau'r wladwriaeth, yn ogystal ag awdurdodau endidau a chantonau, yn gweithio'n barhaus i gysoni a gwella cwmpas polisiau iaith ymhellach. Yn seiliedig ar y ffeithiau a nodwyd yn flaenorol, ac o gofio mai dim ond cipolwg ar y sefyllfa gyfredol a roddir yn y traethawd hwn, gallwn ddod i'r casgliad nad yw'r sefyllfa amliaith ymddangosiadol gymhleth yn ein gwlad yn rhwystr cyfathrebu cyffredinol mewn bywyd bob dydd. Wrth gwrs, mae llawer o le i wella; er enghraifft, cysoni deddfau, yn ogystal â chodi ymwybyddiaeth y cyhoedd o fodolaeth y tair genedlaethol swyddogol a'r ddwy sgrïpt, a ddylai gael eu derbyn a'u parchu o ran eu holl nodweddion tebyg, a'r mân wahaniaethau sydd rhyngddynt.

3 BWLGARIA

Gueorgui Jetchev

Cyd-destun y wlad

Bu taleithiau canoloesol Bwlgaria yn cefnogi tair canolfan ddiwylliannol bwysig a chanddynt draddodiad llenyddol cryf: ysgolion llenyddol Preslav ac Ohrid (yn ystod y Deyrnas Fwlgaraidd Gyntaf, 8fed-11eg ganrif) ac ysgol lenyddol Tarnovo (yr Ail Deyrnas Fwlgaraidd, 12fed-14eg ganrif). O dan yr Ymerodraeth Otoman, llwyddodd y Bwlgariaid i wrthsefyll y dylanwadau diwylliannol a ddeilliai o'r awdurdodau a oedd yn siarad Tyrceg a'r Groegiaid.

Mae Bwlgariaid wedi arddel safbwyntiau cyson gadarn ynghylch y defnydd cywir o'u hiaith a'u traddodiadau llenyddol. Mae gwyl gyhoeddus arbennig a gynhelir ar 24 Mai bob blwyddyn yn dathlu gwaith cenhadol a llenyddol Sant Cyril a Sant Methodius a fu'n apostolion i'r Slafiaid ac yn gyd-nawddseintiau Ewrop. Mae'r diwrnod hefyd yn dathlu'r wyddor Syrilig, y llenyddiaeth a'r diwylliant a grëwyd ym Mwlgaria.

Nid yw Cyfansoddiad 1991 yn defnyddio'r termau 'cenedlaethol' na 'lleiafrifoedd ethnig'. Fodd bynnag, mae'n gwarantu prif hawliau unigolion sy'n perthyn i grwpiau ethnig, ieithyddol a chrefyddol. Mae Erthygl 36 yn rhoi'r hawl i aelodau o grwpiau ethnig astudio a defnyddio eu hiaith eu hunain, ac mae Erthygl 54 yn rhoi hawl iddynt ddatblygu eu diwylliant eu hunain yn unol â'u hunanadnabyddiaeth ethnig, a gydnabyddir ac a warentir o dan y gyfraith. Mae hyn oll wedi creu fframwaith cyfreithiol a gwleidyddol sy'n gwarantu hawliau cyfartal i'r lleiafrifoedd ym Mwlgaria.

Nod model ethnig Bwlgaria yw cydbwysu egwyddorion integreiddio, gwerthoedd cenedlaethol ac Ewropeaidd cyffredin, a pharch tuag at hunaniaeth ethnig a chrefyddol.

Yn ôl cyfrifiad 2011, mae'r iaith Fwlgareg yn famiaith i 85.2% o'r boblogaeth, mae'r iaith Tyrceg yn famiaith i 9.1% ac mae'r iaith Romani yn famiaith i 4.2% o'r boblogaeth. Yn ôl y Sefydliad Ystadegau Gwladol, mae data'r cyfrifiad yn dangos cydberthynas gref rhwng hunanbenderfyniad ethnig ac ieithyddol.

1 Ieithoedd mewn Dogfennau swyddogol a chronfeydd data

Ymdrinnir â'r iaith genedlaethol, ieithoedd tramor, ieithoedd rhanbarthol/lleiafrifol ac ieithoedd mewnfudwyr mewn deddfwriaeth iaith a/neu ddogfennau polisi iaith. (Cyd-)ariennir y broses o ddysgu ac addysgu'r iaith genedlaethol ar gyfer plant a/neu oedolion o Fwlgaria sy'n byw dramor mewn tua 30 o wledydd yn Ewrop a thramor. Nid yw Bwlgaria wedi llofnodi na chadarnhau'r *Siarter Ewropeaidd ar gyfer Ieithoedd Rhanbarthol neu Ieithoedd Lleiafrifol*. Fodd bynnag, ar lefel genedlaethol, ceir darpariaeth addysg swyddogol ar gyfer pedair iaith ranbarthol/lleiafrifol ar lefel gwlad neu ranbarth: Armeneg, Hebraeg, Romani a Thyrcceg.

Ceir dulliau swyddogol o gasglu data cenedlaethol ar amrywiaeth ieithyddol ym Mwlgaria ar ffurf data cyfrifiad a gaiff ei ddiweddarau o bryd i'w gilydd. Mae'r dulliau hyn o gasglu data yn ymdrin ag amrywiadau ar yr iaith genedlaethol, ieithoedd rhanbarthol/lleiafrifol ac ieithoedd mewnfudwyr, yn seiliedig ar gwestiwn am famiaith.

Gellir dod o hyd i'r cwricwla swyddogol mewn Bwlgareg ar gyfer dinasyddion Bwlgaria dramor ar wefan y Weinyddiaeth Addysg, Ieuenctid a Gwyddoniaeth (MoEYS). Mae'r cwricwla hyn yn rhan o raglen iaith a Diwylliant Cenedlaethol Dramor y llywodraeth.

Mae'r Pwyllgor Addysg, Gwyddoniaeth, Plant, Ieuenctid a Chwaraeon a'r Pwyllgor Diwylliant, Cymdeithas Sifil a'r Cyfryngau yn y Cynulliad Cenedlaethol yn gyfrifol am yr holl faterion sy'n ymwneud â'r iaith genedlaethol, am gynigion drafft ac am wneud argymhellion. Caniateir i wyddonwyr ac arbenigwyr gymryd rhan yng nghyfarfodydd y Pwyllgorau. Mae *Sefydliad yr Iaith Fwlgareg* yn Athrofa Gwyddorau Bwlgaria yn gorff cydgysylltu canolog sy'n gyfrifol am bolisi iaith cenedlaethol Bwlgaria (<http://www.ibl.bas.bg/en/index.htm>). Mae'r Sefydliad yn cydweithio ag adrannau iaith a llenyddiaeth Bwlgaria prifysgolion.

Mae Cyfansoddiad 1991 yn datgan mai'r iaith Fwlgareg yw unig iaith swyddogol y wlad (Erthygl 3), ond mae hefyd yn gwarantu (Erthygl 36) bod gan ddinasyddion nad yw Bwlgareg yn famiaith iddynt yr hawl i astudio a defnyddio eu mamiaith.

Mae gwladwriaeth Bwlgaria wedi bod yn rhan o'r Confensiwn Fframwaith ar gyfer Diogelu Lleiafrifoedd Cenedlaethol ers 7 Mai 1999. Mae'r Cyngor Cenedlaethol ar gyfer Cydweithio ar Faterion Ethnig ac Integreiddio (<http://www.nccedi.government.bg/>), y mae ei ysgrifenyddiaeth yn rhan o weinyddiaeth y llywodraeth (Cyngor y Gweinidogion), yn monitro'r broses o weithredu'r Confensiwn yn genedlaethol.

Bellach, mae gan bobl Dwrcaid, Roma a lleiafrifoedd eraill hawl i gael hyfforddiant yn eu mamiaith. Mae Deddf Safonau Addysg, Addysg Gyffredinol Sylfaenol a'r Cwricwlwm a basiwyd ym mis Gorffennaf 1999 ac a ddiwygiwyd yn 2002, yn nodi bod y 'famiaith' yn bwnc dewisol gorfodol yn y cwricwla addysg gynradd ac addysg uwchradd (Erthygl 15-3). Mae Rheolau Gweithredu Deddf Addysg Gyhoeddus 1991, a ddiwygiwyd yn 1998, yn rhoi diffiniad o'r term 'mamiaith': yr iaith a ddefnyddir gan y plentyn i gyfathrebu â'i deulu (Erthygl 8-2). Sefydlwyd y Ganolfan ar gyfer Integreiddio Plant a Phobl Ifanc o Leiafrifoedd Ethnig mewn Addysg (<http://coiduem.mon.bg>) yn 2005. Y Ganolfan yw'r unig sefydliad llywodraethol y mae ei enw yn cynnwys y term 'o'r lleiafrifoedd' yn hytrach na 'dinasyddion nad yw Bwlgareg yn famiaith iddynt'.

Mae Deddf Radio a Theledu 1998 yn cynnwys erthygl ar raglenni mewn ieithoedd lleiafrifol:

Erthygl 49: (1) Bydd Radio Cenedlaethol Bwlgaria a Theledu Cenedlaethol Bwlgaria yn cynhyrchu rhaglenni cenedlaethol a rhanbarthol; darllediadau ar gyfer gwledydd tramor, gan gynnwys ar gyfer Bwlgariaid sy'n byw dramor; darllediadau ar gyfer gwladolion Bwlgaria nad yw Bwlgareg yn famiaith iddynt, gan gynnwys yn eu hiaith eu hunain.

Yn 2004, crëwyd y Ganolfan Iaith Arwyddion Genedlaethol gan Undeb y Byddar ym Mwlgaria. Mae Teledu Cenedlaethol Bwlgaria yn darparu gwasanaeth iaith arwyddion dyddiol ar gyfer y newyddion am 4pm.

IC=Iaith/Ieithoedd Cenedlaethol

IT=Ieithoedd Tramor

IRh/LI=Ieithoedd Rhanbarthol neu Leiafrifol

IM=Ieithoedd Mewnffudwyr

leithoedd mewn addysg cyn cynradd (Ni cheir darpariaeth ar gyfer ieithoedd Rh/LI nac ieithoedd mewnffudwyr)

	Grwpiau targed	Hyd	Gofynion o ran isafswm maint y grŵp	Diwrnodau'r wythnos	Hyfforddiant cyn swydd i athrawon	Hyfforddiant mewn swydd i athrawon	Arian ar gael gan y wladwriaeth
IT	pawb	≥2 flynedd	dim	<0.5 diwrnod	pwnc-benodol	pwnc-benodol	dim
Cymorth IC	pawb	1 flwyddyn	dim	0.5-1 diwrnod	pwnc-benodol	pwnc-benodol	llawn

leithoedd a gynigir mewn addysg cyn cynradd

IT	Saesneg, Ffrangeg, Almaeneg, Eidaleg, Rwseg, Sbaeneg
-----------	--

Mae'r rhaglen genedlaethol ar gyfer datblygu dulliau addysgu ysgolion ac addysg cyn cynradd (2006-2015) yn sôn am yr angen i gynnig rhaglenni i blant nad yw Bwlgareg yn famiaith iddynt yn yr iaith Fwlgareg sydd wedi'u haddasu i ddiwallu eu hanghenion arbennig yn ystod y flwyddyn o addysg cyn ysgol a fu'n orfodol ers 2003. Cyflwynodd y Ddeddf Addysg Genedlaethol, a ddiwygiwyd yn 2002, gwricwlwm arbenigol yn yr iaith Fwlgareg ar gyfer y plant hyn.

leithoedd mewn addysg gynradd (Ni cheir darpariaeth ar gyfer ieithoedd mewnudwyr)

Trefniadaeth

	Cwricwlwm	Cymorth ychwanegol i newydd-ddyfodiaid	Profion diagnostig wrth ddechrau	Monitro sgiliau iaith
Cymorth IC	cydlynol a chlir	cyn prif ffrwd	pawb	enedlaethol safonol

	Grwpiau targed	Cwricwlwm	CLIL	Dechrau addysg iaith	Amserlennu	Gofynion o ran isafswm maint y grŵp	Monitro sgiliau iaith	Y lefel y mae angen ei chyrraedd	Arian ar gael gan y wladwriaeth
IRh/LI	siaradwyr brodorol yn unig	cydlynol a chlir	absennol	o flwyddyn 1	yn rhannol yn ystod oriau ysgol	>10	lefel ysgol	normau ar lefel ysgol	llawn
IT	pawb	cydlynol a chlir	absennol	o flwyddyn 1	yn ystod oriau ysgol	>10	enedlaethol safonol	wedi'i chysylltu â'r Fframwaith Cyfeirio Ewropeaidd Cyffredin	llawn

Addysgu

	Cymwysterau athrawon	Hyfforddiant cyn swydd i athrawon	Hyfforddiant mewn swydd i athrawon	Symudedd
Cymorth IC	athrawon iaith	pwnc-benodol	pwnc-benodol	Dd/G
IRh/LI	athrawon iaith	pwnc-benodol	cyffredinol	Dd/G
IT	athrawon iaith	pwnc-benodol	pwnc-benodol	dim

leithoedd a gynigir mewn addysg gynradd

IRh/LI	Armeneg, Hebraeg, Romani, Tyrceg
IT	Saesneg, Ffrangeg, Almaeneg, Eidaleg, Rwseg, Sbaeneg: un o'r ieithoedd hyn yn orfodol

Gellir dod o hyd i'r cwricwla swyddogol ar gyfer y pedair iaith a gynigir fel pwnc 'mamaiaith' (Tyrceg, Armeneg, Hebraeg, Romani) ar gyfer addysg gynradd ac addysg uwchradd ar wefan MoEYS. Nid yw hyfforddiant mamaiaith yn orfodol; 'pwnc dewisol gorfodol' yn unig ydyw sy'n golygu y gellir ei ddewis o restr o bynciau amgen yn cynnwys Saesneg, Almaeneg, Ffrangeg neu Rwseg. Dyma pam bod cyn lleied o blant Tyrcaidd yn ymgymryd â'r cyrsiau hyn, ac mae eu niferoedd wedi bod yn lleihau yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

Ieithoedd mewn addysg uwchradd (Ni cheir darpariaeth ar gyfer ieithoedd mewnudwyr)

Trefniadaeth

	Cwricwlwm	Cymorth ychwanegol i newydd-ddyfodiaid	Profion diagnostig wrth ddechrau	Monitro sgiliau iaith
Cymorth IC	cydlynol a chlir	cyn prif ffrwd	mewnudwyr yn unig	cenedlaethol safonol

	Grwpiau targed	Cwricwlwm	CLIL	Amserlennu	Gofynion o ran isafswm maint y grŵp	Monitro sgiliau iaith	Y lefel y mae angen ei chyrraedd	Arian ar gael gan y wladwriaeth
IRh/LI	siaradwyr brodorol yn unig	cydlynol a chlir	absennol	yn rhannol yn ystod oriau ysgol	>10	lefel ysgol	normau ar lefel ysgol	llawn
IT	pawb	cydlynol a chlir	lleoledig	yn ystod oriau ysgol	>10	cenedlaethol safonol	wedi'i chysylltu â'r Fframwaith Cyfeirio Ewropeaidd Cyffredin	llawn

Addysgu

	Cymwysterau athrawon	Hyfforddiant cyn swydd i athrawon	Hyfforddiant mewn swydd i athrawon	Lefel yr iaith sydd ei hangen	Symudedd
Cymorth IC	athrawon iaith	pwnc-benodol	pwnc-benodol	normau ar lefel genedlaethol neu ysgol	Dd/G
IRh/LI	athrawon iaith	pwnc-benodol	cyffredinol	Dd/G	Dd/G
IT	athrawon iaith	pwnc-benodol	pwnc-benodol	wedi'i chysylltu â'r Fframwaith Cyfeirio Ewropeaidd Cyffredin	cymorth ariannol anffurfiol

Ieithoedd a gynigir mewn addysg uwchradd

IRh/LI	Armeneg, Hebraeg, Romani, Tyrceg
IT (cynigir yr ieithoedd mewn print italig mewn ysgolion uwchradd uwch yn unig)	Croateg, Tsieceg, Saesneg, Ffrangeg, Almaeneg, Eidaleg, Japanaeg, Corëeg, Pwyleg, Rwmaneg, Rwseg, Serbeg, Slofaceg, Sbaeneg: Un neu ddwy o blith y rhain yn orfodol, 2il neu 3ydd yn ddewisol

Mae rhwydwaith dwys o ysgolion sydd â gogwydd tuag at ieithoedd tramor (ym mhob un o'u gwersi neu yn rhai ohonynt) ledled y wlad. Mae'r ysgolion hyn yn defnyddio'r iaith dramor gyntaf fel cyfrwng addysgu ar gyfer amrywiaeth o bynciau yn cynnwys mathemateg, ffiseg, cemeg, bioleg, daearyddiaeth, hanes ac athroniaeth. Caiff y pynciau hyn eu haddysgu gan ddefnyddio dulliau *Dysgu Integredig Cynnwys ac Iaith* o ddechrau addysg uwchradd uwch (y nawfed a'r degfed flwyddyn). Mae'r ysgolion hyn yn cynnig cwrs iaith dwys (o leiaf 18 awr yr wythnos) am flwyddyn (blwyddyn olaf addysg uwchradd isaf – yr wythfed flwyddyn).

Ar lefel addysg uwchradd uwch, mae'n anodd dod o hyd i ddsbarth nad yw'n rhan o'r rhwydwaith. Sefydlwyd y model ysgol 'â gogwydd tuag at ieithoedd tramor' yn 1952 mewn ysgol yn Lovech, tref yng Ngogledd Bwlgaria, lle mai Saesneg, Ffrangeg ac Almaeneg oedd y tair iaith addysgu. Yn 1960, sefydlwyd ysgolion newydd mewn trefi eraill, yn cynnwys y brifddinas, gyda phob un o'r tair iaith hyn yn cael eu haddysgu ar wahân a chyda Rwseg. Yn 1970, ychwanegwyd Sbaeneg at y rhwydwaith. Ers 1990, caiff pob un o'r ieithoedd a grybwyllir uchod, yn ogystal ag ieithoedd eraill, eu cynnig ledled y wlad mewn ysgolion 'â gogwydd tuag at ieithoedd tramor' (naill ai'n rhannol neu'n llawn).

leithoedd mewn addysg bellach ac addysg uwch

Addysg bellach (mewn tri sefydliad AHG) (Ni cheir darpariaeth ar gyfer ieithoedd Rh/LI nac ieithoedd mewnudwyr)

		Ystod o raglenni iaith	Cwricwlwm	Y lefel y mae angen ei chyrraedd	Arian ar gael gan y wladwriaeth
IT	Sefydliad A	amrywiaeth eang	cydlynol a chlir	wedi'i chysylltu â'r Fframwaith Cyfeirio Ewropeaidd Cyffredin	llawn
	Sefydliad B	cyfyngedig	cydlynol a chlir	enedlaethol	llawn
	Sefydliad C	amrywiaeth eang	cydlynol a chlir	wedi'i chysylltu â'r Fframwaith Cyfeirio Ewropeaidd Cyffredin	dim

Addysg uwch (mewn tair prifysgol)

	Iaith/ieithoedd a ddefnyddir fel y cyfrwng addysgu	Ieithoedd ar wefan	Grwpiau targed ar gyfer cymorth ychwanegol yn yr iaith genedlaethol	Y lefel i'w chyrraedd o ran addysgu ieithoedd tramor	Recriwtio myfyrwyr nad ydynt yn fyfyrwyr o'r wlad	Symudedd ar gyfer myfyrwyr iaith	Symudedd ar gyfer myfyrwyr nad ydynt yn fyfyrwyr iaith
Prifysgol A	enedlaethol a thramor	enedlaethol a thramor	pawb	wedi'i chysylltu â'r Fframwaith Cyfeirio Ewropeaidd Cyffredin	rhyngwladol a mewnudwyr	dewisol	dewisol
Prifysgol B	enedlaethol a thramor	enedlaethol a thramor	cyfyngedig	lefel genedlaethol neu sefydliad	rhyngwladol a mewnudwyr	dewisol	dewisol
Prifysgol C	enedlaethol a thramor	enedlaethol yn unig	cyfyngedig	wedi'i chysylltu â'r Fframwaith Cyfeirio Ewropeaidd Cyffredin	rhyngwladol a mewnudwyr	dewisol	dewisol

Cynigir cwrs dwy flynedd mewn Bwlgareg fel iaith dramor i fyfyrwyr Erasmus, yn ogystal â myfyrwyr tramor sy'n mynychu prifysgol. Mae angen dybryd am arbenigwyr cymwys iawn ar gyfer y cyrsiau mewn iaith a llenyddiaeth Dyrcaidd ym mhrifysgolion Sofia, Plovdiv a Shumen, a hefyd yn y Sefydliad Islamaidd Uwch yn Sofia, a'r theatrau Tyrcaidd newydd yn Kurdzhali a Razgrad, sy'n dibynnu ar y prifysgolion am y ddarpariaeth hon.

leithoedd yn y cyfryngau clyweledol a'r wasg

Cynyrchiadau teledu nad ydynt yn yr iaith genedlaethol	Ffilmiau yn y sinema nad ydynt yn yr iaith genedlaethol	Rhaglenni mewn ieithoedd Rh/LI y tu allan i'r rhanbarth	Argaeledd iaith arwyddion ar y teledu
wedi'u trosleisio	wedi'u hisdeitlo	weithiau	bob amser yn Sofia rheolaidd yn Plovdiv weithiau yn Shumen

Mae Radio Bulgaria yn cynnig rhaglenni ar y we mewn deg o ieithoedd: Saesneg, Almaeneg, Rwseg, Ffrangeg, Sbaeneg, Serbeg, Groeg, Albaneg, Tyrceg ac Arabeg.

Mae'r iaith Dyrceg wedi'i chyflwyno yn y cyfryngau torfol hefyd, er ar raddfa gymharol fach. Mae Radio Cenedlaethol Bwlgaria wedi bod yn darparu darllediadau hanner awr o hyd yn y bore a chyda'r nos i'r boblogaeth Dyrcaidd ym Mwlgaria ers 1993. Mae'r newyddion a chaneuon gwerin Tyrcaidd a Bwlgaraidd yn cael eu cynnwys yn y darllediadau. Yng ngwanwyn 2001, dechreuodd Teledu Cenedlaethol Bwlgaria ddarlledu rhaglenni 10 munud o hyd mewn Tyrceg.

Yn ystod y cyfnod pontio, gwnaethpwyd ymgais hefyd i sefydlu gwasg Dyrcaidd. Ar hyn o bryd, gellir cael tri phapur newydd wythnosol yn Sofia (*Sabah*, *Zaman* a *Müslümanlar*), papur newydd i blant o'r enw *Filiz* a chylchgrawn i blant o'r enw *Balon*.

leithoedd mewn gwasanaethau cyhoeddus a manau cyhoeddus

Strategaethau iaith sefydliadol ar lefel dinas

Nifer yr ieithoedd	Ar y wefan	Defnyddio cyfieithwyr	Cymwyseddau iaith mewn disgrifiadau swydd	Recriwtio siaradwyr ieithoedd	Hyfforddiant iaith a gynigir i gyflogeion	Cofnod o sgiliau iaith cyflogeion
>4		Shumen				
3-4		Sofia Plovdiv		Sofia		
1-2	Sofia Plovdiv Shumen		Sofia Plovdiv Shumen	Plovdiv Shumen	Sofia Plovdiv Shumen	

Cyfleusterau cyfathrebu

Pum prif gyfleuster cyfathrebu ar lafar	Pum prif gyfleuster cyfathrebu ysgrifenedig
Twristiaeth Cyfreithiol Iechyd Gwasanaethau brys Trafnidiaeth Mewnfudo ac integreiddio	Twristiaeth Trafnidiaeth Gwasanaethau brys Iechyd Mewnfudo ac integreiddio

Mae llawer i'w wneud o hyd i atgyfnerthu amlieithrwydd yn y maes hwn. Mae pob un o'r tair dinas a fu'n destun y gwaith ymchwil, Sofia, Plovdiv a Shumen, oll yn darparu gwasanaethau cyfyngedig mewn ieithoedd tramor, gyda ffocws ar wasanaethau brys, gwasanaethau mewnfudo a gwasanaethau twristiaeth, er bod cyfieithwyr yn cael eu defnyddio'n aml. Ar wahân i Fwlgareg, Saesneg yw'r iaith a ddefnyddir amlaf o ran gwasanaethau cyhoeddus a manau cyhoeddus gyda rhai gwasanaethau hefyd ar gael mewn Tyrceg, Almaeneg, Ffrangeg a Rwseg. Mae gwefannau pob dinas ar gael yn Saesneg, ond ceir fersiwn Rwseg ar gyfer Shumen hefyd. Mae'r gweinyddwyr ym mhob dinas yn recriwtio cyflogeion sy'n siarad ieithoedd tramor. Saesneg yw'r brif flaenoriaeth a darperir gwersi Saesneg i gyflogeion hefyd yn ystod eu cyflogaeth.

leithoedd mewn busnes (allan o 24 o gwmnïau)

	STRATEGAETHAU IAITH CYFFREDINOL							
	Argaeledd strategaeth iaith	Pwyslais ar sgiliau iaith wrth recriwtio	Darpariaeth symudedd rhyngwladol	Y defnydd o gyfieithwyr/dehonglwy'r allanol	Cofnodi sgiliau iaith staff	Y defnydd o rwydweithiau ar gyfer hyfforddiant iaith	Y defnydd o raglenni/cyllid yr UE	Ymwybyddiaeth o raglenni/cyllid yr UE
Defnyddir yn eang	1	7	0	1	0	0	0	0

		STRATEGAETHAU IAITH MEWNOL						STRATEGAETHAU IAITH ALLANOL			
		Partneriaethau â'r sector addysg	Cynlluniau gwobrwyo/dyrchafu yn seiliedig ar sgiliau iaith	Darpariaeth hyfforddiant iaith	Defnyddir y Fframwaith Cyfeirio Ewropeaidd Cyffredin	Defnyddir iaith ar gyfer dogfennau yn y gweithle/mewnwyd	Defnyddir iaith ar gyfer meddalwedd, rhaglenni'r we	Defnyddir iaith ar gyfer adroddiadau blynyddol/busnes	Defnyddir iaith ar gyfer marchnata	Defnyddir iaith ar gyfer brandio/hunaniaeth	Defnyddir iaith ar gyfer gwefan
IC	defnyddir yn eang	0	0	0	0	21	18	22	23	18	23
Saesneg Busnes	defnyddir yn eang	0	1	0	1	5	7	8	4	9	12
Ieithoedd ychwanegol	defnyddir yn eang	0	0	0	0	0	0	0	0	1	0

Yn yr un modd â Gwasanaethau Cyhoeddus a Mannau Cyhoeddus, mae llawer i'w wneud i atgyfnerthu amlieithrwydd mewn busnes. Mae bron hanner y cwmnïau a fu'n destun yr arolwg yn meddu ar ryw fath o strategaeth iaith a defnyddir Saesneg Busnes gan ddwy ran o dair o gwmnïau yn ychwanegol at yr iaith Fwlgareg at ddibenion hyrwyddo ac ar y we. Anaml iawn y defnyddir ieithoedd eraill ac ni ddarperir hyfforddiant mewn ieithoedd ar wahân i Saesneg Busnes weithiau. Mae rhai cwmnïau wedi meithrin partneriaethau â'r sector addysg i gefnogi hyfforddiant iaith, ac mae nifer fach iawn ohonynt yn defnyddio rhwydweithiau rhyngwladol i gefnogi sgiliau iaith eu cyflogeion.

Canfyddiadau allweddol cyffredinol

Dangosodd ymchwil Ewrop Gyfoethog ei Hieithoedd fod llawer o bwyntiau cryf o ran amlieithrwydd ym maes addysg ar bob lefel, a hynny o ran yr iaith genedlaethol ac ieithoedd tramor. Mae rhai camau pwysig wedi'u cymryd i sicrhau y gwneir mwy o ddefnydd o ieithoedd rhanbarthol/leiafrifol ym meysydd addysg a'r cyfryngau.

Y meysydd y mae angen eu datblygu ymhellach yw gwasanaethau cyhoeddus a manau cyhoeddus, a busnes.

Mentrau a chynlluniau peilot addawol

Roedd Lilyana Kovatcheva, Cyfarwyddwraig y Ganolfan ar gyfer Integreiddio Plant a Phobl Ifanc o Leiafrifoedd Ethnig mewn Addysg (sydd â chyswllt â MoEYS), yn un o chwe ymgynghorydd cenedlaethol y Fframwaith Cwricwlwm ar gyfer Romani, a grëwyd gan Is-adran Polisi Iaith Cyngor Ewrop yn 2008 (www.coe.int/t/dg4/linguistic/Romani_doc_EN.asp).

Mae Diwrnod Ieithoedd Ewrop ym Mwlgaria yn ddigwyddiad llwyddiannus a drefnir gan EUNIC – rhwydwaith Sefydliadau Diwylliant Cenedlaethol yr Undeb Ewropeaidd. Cyfrannodd yr aelod-sefydliadau canlynol at y digwyddiad diwethaf: Llysgenhadaeth Awstria, British Council, y Ganolfan Tsiecaidd, y Sefydliad Pwylaidd, y Sefydliad Ffrengig, Sefydliad Goethe, y Sefydliad Diwylliant Groegaidd, Sefydliad Diwylliannol Hwngari, Instituto Cervantes, Llysgenhadaeth Sbaen, Sefydliad Diwylliannol yr Eidal yn ogystal â phartneriaid o Ganolfan Diwylliannol Rwsia, Llysgenhadaeth y Swistir, Cyfarwyddiaeth Gyffredinol Cyfieithu y Comisiwn Ewropeaidd, Sefydliad Diwylliannol Bwlgaria, a'r Ganolfan Datblygu Adnoddau Dynol. Cefnogwyd Diwrnod Ieithoedd Ewrop 2011 gan Fwrdeistref Sofia, MoEYS a Radio Cenedlaethol Bwlgaria, a oedd yn bartner ym maes y cyfryngau.

Cyfeiriadau

Y Sefydliad Ystadegau Gwladol, Gweriniaeth Bwlgaria: cyfrifiad 2011 yng Ngweriniaeth Bwlgaria (data terfynol).

Pwyllgor Cyngori ar y Confensiwn Fframwaith ar gyfer Diogelu Leiafrifoedd Cenedlaethol: Barn ar Fwlgaria. (mabwysiadwyd 27 Mai 2004).

Stoycheva, Maria, Chavdarova, Albena a Veselinov, Dimitar (2011) *Language Policies Bulgaria-Europe (Ezikovi politiki. Bulgaria-Evropa)*. Sofia, Universitetsko izdatelstvo 'Sv. Kliment Ohridski'.

Pachev, Angel (2006): *Ezikovite obštnosti*, Sofia, Sema RŠ.

Videnov, Mihail (2005): *Diglosijata*, Sofia, Akademično izdatelstvo Marin Drinov.

Jetchev, Gueorgui (2006): «Éléments de politique linguistique de l'État bulgare», *Lengas*, revue de sociolinguistique, n° 60, tud. 191-203.

4 DENMARC

Sabine Kirchmeier-Andersen

Cyd-destun y wlad

Daneg yw iaith swyddogol Denmarc, sydd â thua 5,500,000 o drigolion. Mae 90% o'r rhain yn Daniaid ethnig sy'n siarad Daneg fel eu mamiaith. Yn achos y 10% sy'n weddill, dim ond un iaith lleiafrifol, sef Almaeneg, a gydnabyddir yn swyddogol. Ceir tua 20,000 o siaradwyr brodorol Almaeneg yn Ne Jutland.

Ar wahân i'r siaradwyr Daneg sy'n byw yn Nenmarc, Daneg hefyd yw iaith frodorol neu ddiwylliannol tua 50,000 o ddinasyddion Almaenig-Danaidd sy'n byw yn ne Schleswig.

Ar Ynysoedd y Ffaro ac Ynys Las, mae'r gyfraith ymreolaeth yn sicrhau statws swyddogol eu hieithoedd, er bod Daneg yn bwnc gorfodol mewn ysgolion. Yng Ngwlad yr Iâ, mae Daneg wedi bod yn rhan o'r cwricwlwm ysgol ers dechrau'r 19eg ganrif ac fe'i defnyddir o hyd i hwyluso'r cyfathrebu â gwledydd Nordig eraill.

Mae Denmarc wedi cadarnhau'r *Confensiwn Ieithoedd Nordig* (1987), sy'n sicrhau'r hawl i ddinasyddion Nordig ddefnyddio eu hiaith eu hunain i gyfathrebu â'r awdurdodau ym mhob gwlad Nordig. Mae Denmarc hefyd wedi cadarnhau'r *Datganiad am yr Ieithoedd Nordig* (2006), sef dogfen bolisi ar y cyd gan Gyngor Nordig y Gweinidogion. Dywed y dylai ieithoedd cenedlaethol a lleiafrifol gael eu cefnogi a'u diogelu, y dylai prifysgolion ddefnyddio strategaeth iaith gyfochrog sy'n sicrhau bod Saesneg yn cael ei defnyddio ochr yn ochr â'r ieithoedd cenedlaethol, ac y dylai dinasyddion gwledydd Nordig gael y cyfle i ddysgu eu mamiaith a meithrin sgiliau mewn iaith o bwys rhyngwladol a sgiliau mewn iaith dramor arall.

Ieithoedd mewn dogfennau swyddogol a chronfeydd data

Ymdrinnir â'r iaith genedlaethol, ieithoedd tramor, ieithoedd rhanbarthol/lleiafrifol ac ieithoedd mewnfudwyr mewn deddfwriaeth iaith. (Cyd-)ariennir y broses o ddysgu ac addysgu'r iaith genedlaethol ar gyfer plant a/neu oedolion o Ddenmarc sy'n byw dramor mewn tua 20 o wledydd yn Ewrop a thramor. Mae Denmarc wedi llofnodi ac wedi cadarnhau'r *Siarter Ewropeaidd ar gyfer Ieithoedd Rhanbarthol neu Ieithoedd Lleiafrifol*. Cydnabyddir Almaeneg fel iaith ranbarthol/lleiafrifol yn y Siarter. Diogelir Esgimöeg-Alewteg (yn Ynys Las) a Ffaröeg o dan y Deddfau ar Ymreolaeth. Yn Nenmarc, ceir darpariaeth swyddogol ar gyfer yr iaith Almaeneg mewn addysg, a gefnogir gan y Siarter.

Nid oes unrhyw ddulliau swyddogol o gasglu data cenedlaethol/rhanbarthol ar amrywiaeth ieithyddol yn Nenmarc.

Ni weithredir unrhyw systemau casglu data swyddogol yn genedlaethol nac yn rhanbarthol o ran amrywiaeth ieithyddol yn Nenmarc.

Ni ddarperir ar gyfer y defnydd o Ddaneg nac ieithoedd eraill yn y Cyfansoddiad ar yr iaith Ddaneg ac nid oes cyfraith benodol sy'n darparu rheoliadau cyffredinol ar gyfer defnyddio'r iaith. Fodd bynnag, mae dyfarniadau ar iaith yn rhan o ddeddfwriaeth mewn meysydd eraill, er enghraifft wrth hyrwyddo Daneg fel ail iaith i fyfyrwyr lleiafrifol, ac mae cyfraith yn bodoli sy'n nodi bod yn rhaid i bob ysgol a sefydliad cyhoeddus ddefnyddio'r orgraff Ddaneg a ddarperir gan *Gyngor yr Iaith Ddaneg*. Er nad oes cydnabyddiaeth swyddogol na dogfennau polisi mewn perthynas ag ieithoedd arwyddion, ceir argymhellion swyddogol ar gyfer addysgu ieithoedd arwyddion.

IC=laith/leithoedd Cenedlaethol
IT=leithoedd Tramor
IRh/LI=leithoedd Rhanbarthol neu Leiafrifol
IM=leithoedd Mewnffudwyr

leithoedd mewn addysg cyn cynradd (Ni cheir darpariaeth ar gyfer ieithoedd tramor)

	Grwpiau targed	Hyd	Gofynion o ran isafswm maint y grŵp	Diwrnodau'r wythnos	Hyfforddiant cyn swydd i athrawon	Hyfforddiant mewn swydd i athrawon	Arian ar gael gan y wladwriaeth
IRh/LI	pawb	1 flwyddyn	5-10	0.5-1 diwrnod	cyffredinol	cyffredinol	llawn
IM	siaradwyr brodorol yn unig	1 flwyddyn	5-10	0.5-1 diwrnod	cyffredinol	cyffredinol	llawn
Cymorth IC	pawb	1 flwyddyn	dim	0.5-1 diwrnod	cyffredinol	pwnc-benodol	llawn

leithoedd a gynigir mewn addysg cyn cynradd

IRh/LI	Almaeneg
IM	Albaneg, Arabeg, Bosniog, Islandeg, Pwnjabeg, Somaliog, Tamil, Tyrceg, Wrddw

Mae dros 85% o blant yn Nenmarc yn derbyn gofal dydd preifat neu gyhoeddus. Rhaid i awdurdodau lleol yn Nenmarc fonitro datblygiad ieithyddol pob plentyn nad yw'n derbyn gofal dydd yn dair oed, a rhoi prosesau ysgogi iaith ar waith hyd at 15 awr yr wythnos os oes angen. Diben ysgogi iaith yw dysgu'r sgiliau iaith angenrheidiol mewn Daneg i'r plentyn cyn iddo ddechrau'r ysgol. Nid oes rhaid i blant sy'n derbyn gofal dydd yn rheolaidd gael eu monitro ond byddant yn destun prosesau ysgogi iaith gorfodol os oes angen.

leithoedd mewn addysg gynradd (Ni cheir darpariaeth ar gyfer ieithoedd Rh/LI)

Trefniadaeth

	Cwricwlwm	Cymorth ychwanegol i newydd-ddyfodiaid	Profion diagnostig wrth ddechrau	Monitro sgiliau iaith
Cymorth IC	cydlynol a chlir	cyn prif ffrwd	pawb	cenedlaethol safonol

	Grwpiau targed	Cwricwlwm	CLIL	Dechrau addysg iaith	Amserlennu	Gofynion o ran isafswm maint y grŵp	Monitro sgiliau iaith	Y lefel y mae angen ei chyrraedd	Arian ar gael gan y wladwriaeth
IT	pawb	cydlynol a chlir	absennol	o'r cyfnod canol	yn ystod oriau ysgol	5-10	cenedlaethol safonol	normau ar lefel genedlaethol neu ysgol	llawn
IM	siaradwyr brodorol yn unig	cydlynol a chlir	absennol	o flwyddyn 1	y tu allan i oriau ysgol	>10	lefel ysgol	heb ei nodi	llawn

Addysgu

	Cymwysterau athrawon	Hyfforddiant cyn swydd i athrawon	Hyfforddiant mewn swydd i athrawon	Symudedd
Cymorth IC	athrawon cyffredinol	cyffredinol	cyffredinol	Dd/G
IT	athrawon iaith	pwnc-benodol	cyffredinol	cymorth ariannol anffurfiol
IM	athrawon iaith	cyffredinol	cyffredinol	Dd/G

leithoedd a gynigir mewn addysg gynradd

IT	Saesneg a Ffrangeg neu Almaeneg yn orfodol; Sbaeneg, Almaeneg, Ffrangeg ac ieithoedd mewnudwyr yn ddewisol
IM	Albaneg, Arabeg, Bosniég, Islandeg, Somaliég, Tamil, Tyrceg, Wrddw/Pwnjabeg

Fel arfer, mae plant yn Nenmarc yn dechrau'r ysgol gynradd yn bump neu'n chwech oed a byddant yn gadael yn 15 neu'n 16 oed.

Hyd at 2002 darparwyd addysg allgyrsiol mewn ieithoedd mewnudwyr ar lefel ysgol gynradd ac fe'i hariannwyd gan y llywodraeth. Mae hyn yn dal i fod yn wir yn achos plant o'r UE, yr Ardal Economaidd Ewropeaidd (EEA), Ynys Las ac Ynysoedd y Ffaro. O ran pob plentyn arall, ers 2002 mater i bob cymuned leol fu darparu addysg mewn ieithoedd mewnudwyr. Felly, dim ond mewn cymunedau mawr sydd â nifer fawr o fewnudwyr, megis Copenhagen, y cynigir addysg mewn ieithoedd mewnudwyr.

Mae adroddiad pwyllgor diweddar sef *Sprog er nøglen til verden* (2011) yn awgrymu cyflwyno Saesneg ym mlwyddyn gyntaf yr ysgol gynradd a chyflwyno trydedd iaith (Ffrangeg neu Almaeneg) yn 11-12 oed. At hynny, mae'r adroddiad yn awgrymu y dylai ystod eang o ieithoedd megis Arabeg, Tsieinëeg a Phortiwgaleg/Brasilleg gael eu cynnig fel opsiynau dewisol.

leithoedd mewn addysg uwchradd (Ni cheir darpariaeth ar gyfer ieithoedd Rh/LI)

Trefniadaeth

	Cwricwlwm	Cymorth ychwanegol i newydd-ddyfodiaid	Profion diagnostig wrth ddechrau	Monitro sgiliau iaith
Cymorth IC	cydlynol a chlr	absennol	absennol	absennol

	Grwpiau targed	Cwricwlwm	CLIL	Amserlennu	Gofynion o ran isafswm maint y grŵp	Monitro sgiliau iaith	Y lefel y mae angen ei chyrraedd	Arian ar gael gan y wladwriaeth
IT	pawb	cydlynol a chlr	absennol	yn rhannol yn ystod oriau ysgol	>10	cenedlaethol safonol	wedi'i chysylltu â'r Fframwaith Cyfeirio Ewropeaidd Cyffredin	llawn
IM	pawb	cydlynol a chlr	absennol	y tu allan i oriau ysgol	5-10	lefel ysgol	normau ar lefel ysgol	llawn

Addysgu

	Cymwysterau athrawon	Hyfforddiant cyn swydd i athrawon	Hyfforddiant mewn swydd i athrawon	Lefel yr iaith sydd ei hangen	Symudedd
Cymorth IC	athrawon iaith	pwnc-benodol	cyffredinol	normau ar lefel genedlaethol neu ysgol	Dd/G
IT	athrawon iaith	pwnc-benodol	cyffredinol	safonau cenedlaethol neu ar draws y rhanbarth	cymorth ariannol anffurfiol
IM	athrawon iaith	pwnc-benodol	cyffredinol	ddim yn berthnasol	Dd/G

Ieithoedd a gynigir mewn addysg uwchradd

IT (cynigir yr ieithoedd mewn print itelig ar lefel uwchradd uwch yn unig)	Saesneg yn orfodol. Groeg Hynafol, Tsieinëeg, Ffrangeg, Almaeneg, Eidaleg, Japanaeg, Lladin, Rwseg, Sbaeneg yn ddewisol
IM	Arabeg a Thyrcceg

Disgwylir i fyfyrwyr feddu ar wybodaeth dda o'r iaith genedlaethol yn yr ysgol uwchradd uwch yn Nenmarc. Mae asesu sgiliau iaith yn rhan o'r weithdrefn dderbyn ar lefel uwchradd.

Daneg a Saesneg yw'r unig ieithoedd gorfodol, tra bod Groeg Hynafol, Arabeg, Tsieinëeg, Almaeneg, Ffrangeg, Eidaleg, Japanaeg, Lladin, Rwseg, Sbaeneg a Thyrcceg wedi bod yn ddewisol ers y diwygiad diweddaraf yn 2005. Mae'r diwygiad wedi arwain at leihad sylweddol yn nifer y myfyrwyr sy'n astudio llawer o ieithoedd tramor. Lleihodd nifer y myfyrwyr sy'n astudio tair iaith dramor o 41% i 3% ac, er gwaethaf mân addasiadau i'r diwygiad, nid yw'r darlun wedi newid yn sylweddol.

Ieithoedd mewn addysg bellach ac addysg uwch**Addysg bellach (mewn tri sefydliad AHG) (Ni cheir darpariaeth ar gyfer ieithoedd Rh/LI nac ieithoedd mewnfudwyr)**

		Ystod o raglenni iaith	Cwricwlwm	Y lefel y mae angen ei chyrraedd	Arian ar gael gan y wladwriaeth
IT	Sefydliad A				
	Sefydliad B	dim manylion	dim canllawiau	dim	llawn
	Sefydliad C				

Addysg uwch (mewn tair prifysgol)

	Iaith/ieithoedd a ddefnyddir fel y cyfrwng addysgu	Ieithoedd ar wfan	Grwpiau targed ar gyfer cymorth ychwanegol yn yr iaith genedlaethol	Y lefel i'w chyrraedd o ran addysgu ieithoedd tramor	Recriwtio myfyrwyr nad ydynt yn fyfyrwyr o'r wlad	Symudedd ar gyfer myfyrwyr iaith	Symudedd ar gyfer myfyrwyr nad ydynt yn fyfyrwyr iaith
Prifysgol A	enedlaethol a thramor	enedlaethol a thramor	pawb	dim	rhyngwladol yn unig	dewisol	dewisol
Prifysgol B	enedlaethol a thramor	enedlaethol a thramor	pawb	dim	rhyngwladol yn unig	dewisol	dewisol
Prifysgol C	enedlaethol, tramor a Rh/LI	enedlaethol a thramor	cyfyngedig	dim	rhyngwladol yn unig	dewisol	dewisol

Mae prifysgolion yn Nenmarc yn cydymffurfio â'r system addysg Eingl-Sacsonaidd (Baglor-Meistr) yn dilyn y broses o greu *Ardal Addysg Uwch Ewropeaidd* (proses Bologna). O ganlyniad i'r newidiadau hyn, yn ogystal â mwy o ffocws ar ryngwladoli yn gyffredinol a denu myfyrwyr rhyngwladol, mae'r prifysgolion yn Nenmarc yn cynnig dros 25% o'u cyrsiau yn Saesneg. Hefyd mae ysgolion proffesiwn academi (90-150 ECTS) ac ysgolion baglor proffesiynol (180-240 ECTS) yn cynnig eithaf tipyn o raglenni yn Saesneg.

Ers 2005, mae nifer y myfyrwyr sy'n astudio rhaglenni mewn ieithoedd tramor ar wahân i Saesneg wedi lleihau'n raddol, sydd wedi arwain at gau sawl rhaglen iaith. Caiff Sbaeneg, Almaeneg a Ffrangeg eu haddysgu mewn sawl man o hyd ond nid astudir Eidaleg na Rwseg bron o gwbl. Sylwyd ar gynnydd bach mewn Japanaeg a Tsieinëeg. Mae rhai prifysgolion yn cynnig Tyrceg ac Arabeg.

leithoedd yn y cyfryngau clyweledol a'r wasg

Cynyrchiadau teledu nad ydynt yn yr iaith genedlaethol	Ffilmiau yn y sinema nad ydynt yn yr iaith genedlaethol	Rhaglenni mewn ieithoedd Rh/LI y tu allan i'r rhanbarth	Argaeledd iaith arwyddion ar y teledu
wedi'u hisdeitlo	wedi'u hisdeitlo	bob amser	rheolaidd yn Copenhagen byth yn Aarhus ac Aabenraa

Mae gan Ddenmarc chwe sianel deledu genedlaethol, y telir am dair ohonynt (DR1, DR2 a TV2) drwy ffi'r drwydded gyffredinol. Hefyd, mae sawl sianel deledu leol yn darlledu bob dydd. Yn ôl cyfraith a basiwyd ym mis Rhagfyr 2002, rhaid i raglenni ar radio a theledu cyhoeddus sicrhau bod y cyhoedd yn gallu cael gafael ar wybodaeth a dadleuon cymdeithasol pwysig. Rhaid iddynt hefyd ddefnyddio'r iaith Ddaneg a diwylliant Denmarc.

Caiff iaith arwyddion ei chynnig yn rheolaidd mewn digwyddiadau pwysig yn y cyfryngau ac mae sianel iaith arwyddion arbennig ar gael.

leithoedd mewn gwasanaethau cyhoeddus a manau cyhoeddus

Strategaethau iaith sefydliadol ar lefel dinas

Nifer yr ieithoedd	Ar y wefan	Defnyddio cyfieithwyr	Cymwyseddau iaith mewn disgrifiadau swydd	Recriwtio siaradwyr ieithoedd	Hyfforddiant iaith a gynigir i gyflogeion	Cofnod o sgiliau iaith cyflogeion
>4	Copenhagen	Copenhagen Aabenraa			Copenhagen	
3-4						
1-2	Aabenraa		Aabenraa	Aabenraa	Aabenraa	

Cyfleusterau cyfathrebu

Pum prif gyfleuster cyfathrebu ar lafar	Pum prif gyfleuster cyfathrebu ysgrifenedig
Gwasanaethau brys Mewnfudo ac integreiddio Twristiaeth Iechyd =Cymdeithasol =Cyfreithiol	Mewnfudo ac integreiddio Cyfreithiol Twristiaeth Iechyd Cymdeithasol

Yn ôl y *Confensiwn Iaith Nordig*, mae gan siaradwyr ieithoedd Nordig yr hawl i annerch sefydliadau cyhoeddus mewn unrhyw un o'r gwledydd Nordig yn eu hiaith eu hunain.

leithoedd mewn busnes (allan o 12 o gwmnïau)

	STRATEGAETHAU IAITH CYFFREDINOL							
	Argaeledd strategaeth iaith	Pwyslais ar sgiliau iaith wrth recriwtio	Darpariaeth symudedd rhyngwladol	Y defnydd o gyfieithwyr/dehonglwyf allanol	Cofnodi sgiliau iaith staff	Y defnydd o rwydweithiau ar gyfer hyfforddiant iaith	Y defnydd o raglenni/cyllid yr UE	Ymwybyddiaeth o raglenni/cyllid yr UE
Defnyddir yn eang	4	7	1	5	0	0	0	0

		STRATEGAETHAU IAITH MEWNOL						STRATEGAETHAU IAITH ALLANOL			
		Partneriaethau â'r sector addysg	Cynlluniau gwoerwyo/dyrchafu yn seiliedig ar sgiliau iaith	Darpariaeth hyfforddiant iaith	Defnyddir y Fframwaith Cyfeirio Ewropeaidd Cyffredin	Defnyddir iaith ar gyfer dogfennau yn y gweithle/mewnwyd	Defnyddir iaith ar gyfer meddalwedd, rhaglenni'r we	Defnyddir iaith ar gyfer adroddiadau blynyddol/busnes	Defnyddir iaith ar gyfer marchnata	Defnyddir iaith ar gyfer brandio/Hunaniaeth	Defnyddir iaith ar gyfer gwefan
IC	defnyddir yn eang	1	0	3	0	11	11	10	12	12	11
Saesneg Busnes	defnyddir yn eang	0	0	2	0	3	6	4	3	5	6
leithoedd ychwanegol	defnyddir yn eang	0	0	0	0	0	0	0	0	0	2

Busnesau bach a chanolig a geir yn Nenmarc ar y cyfan. Mae gan 92% o gwmnïau lai na 10 o gyflogeion ac mae gan lai na 2% fwy na hanner cant. Mae 68% o swyddi mewn cwmnïau preifat.

Yn ôl arolwg gan *Ddiwydiant Denmarc* yn 2007, mae dros 25% o fusnesau mawr yn defnyddio Saesneg fel yr iaith gorfforaethol. Mae'r defnydd o ieithoedd eraill a gwasanaethau cyfieithu yn lleihau. Mae Diwydiant Denmarc wedi mynegi cryn bryder ynghylch y lleihad yn nifer y myfyrwyr iaith ac mae wedi awgrymu cymwyseddau cyfunol, h.y. cyfuno sgiliau peirianeg a sgiliau iaith fel un ateb.

Canfyddiadau allweddol cyffredinol

Dros y ganrif a hanner diwethaf, mae Denmarc wedi bod yn wlad uniaith ar y cyfan gyda Daneg yn brif iaith a lle'r oedd gan ei dinasyddion feistrolaeth gymharol dda ar Ffrangeg ac Almaeneg ac, ers 1945, Saesneg. At hynny, mae Daniaid wedi gallu mwynhau rhwydd hynt i weddill Sgandinafia am fod Daneg, Norwyeg a Swedeg yn gyd-ddealladwy.

Dros y 10 mlynedd diwethaf mae Saesneg wedi ennill tir ar draul Ffrangeg ac Almaeneg. Mae strategaeth iaith Daneg/Saesneg gyfochrog llywodraeth Denmarc wedi cefnogi'r datblygiad hwn yn gryf. Mae sgiliau iaith mewn ieithoedd tramor yn cynnwys ieithoedd Sgandinafia yn lleihau, ac nid yw'r feistrolaeth ar ieithoedd mewnfudwyr megis Arabeg a Thyrcceg wedi cael ei hybu'n ased. O ganlyniad, gwelwn lai a llai o ddi-ddordeb mewn ieithoedd tramor heblaw am Saesneg mewn prifysgolion, cwmnïau ac ysgolion. Bydd yr awgrymiadau diweddar i gyflwyno Saesneg ar ddechrau'r ysgol gynradd fwy na thebyg yn cyflymu'r datblygiad hwn ymhellach. Os yw Denmarc am gyflawni polisiau iaith yr UE a Chyngor Ewrop, gallai'r datblygiad hwn fynd yn her fawr.

Mentrau a chynlluniau peilot addawol

Dysgu Integredig Cynnwys ac Iaith (CLIL):
Yn *Købmagergade skole* yn Fredericia arbrofir gyda rhyngwladoli a bu *Dysgu Integredig Cynnwys ac Iaith* (CLIL) ar waith ers 2001. Yn 2005, sefydlwyd ffrwd ryngwladol ar gyfer yr ysgol uwchradd is lle addysgwyd gwyddorau megis bioleg a mathemateg drwy gyfrwng y Saesneg gan athrawon Saesneg brodorol.

Y Ganolfan er Rhyngwladoli a Defnydd Iaith Cyfochrog (CIP):
Sefydlwyd y *Ganolfan er Rhyngwladoli a Defnydd Iaith Cyfochrog* (CIP) yn 2008 ym Mhrifysgol Copenhagen er mwyn ategu ymdrechion y Brifysgol i weithredu polisi iaith yn seiliedig ar egwyddorion defnydd iaith cyfochrog.

Cydgysylltu Ieithoedd Nordig:
Sefydlwyd Cydgysylltu Ieithoedd Nordig yn 2009 drwy nawdd Cyngor Nordig y Gweinidogion er mwyn gwella'r gyd-ddealltwriaeth rhwng siaradwyr ieithoedd tir mawr Sgandinafia: Daneg, Swedeg a Norwyeg.

Tegn på sprog (Iaith arwyddion):
Prosiect ymchwil a datblygu yw *Tegn på sprog*. Fe'i sefydlwyd yn 2008 am gyfnod o chwe blynedd gan y Gweinyddiaethau Addysg ac Integreiddio ar y cyd â phrifysgolion, colegau prifysgolion ac ysgolion. Nod y prosiect yw dysgu sut mae plant sy'n siarad Daneg fel ail iaith yn mynd i'r afael â Daneg ysgrifenedig, a datblygu strategaethau addysgu newydd.

Cyfeiriadau

Sprog til Tiden (Iaith gydag amser). Adroddiad gan grŵp polisi iaith llywodraeth Denmarc (2008).

Sprog er nøglen til verden (Iaith yw'r allwedd i'r byd). Adroddiad gan weithgor o dan y weinyddiaeth ymchwil, arloesi ac addysg uwch (2011).

Y Confensiwn Ieithoedd Nordig (1987).

www.efnil.org

5 ESTONIA

Kersti Sõstar

Cyd-destun y wlad

Cyn y gallwn ddeall y sefyllfa ieithyddol bresennol yn Estonia, rhaid edrych ar ei hanes. Cyn y Rhyfel Byd Cyntaf, roedd Estonia yn rhan o ymerodraeth Rwsia am ddwy ganrif. Fodd bynnag, iaith swyddogol awdurdodau gwladol oedd Almaeneg tan 1880 pan gymerodd Rwseg ei lle. Cafodd yr iaith Estoneg statws iaith swyddogol yn ystod cyfnod cyntaf annibyniaeth Gweriniaeth Estonia (1918-1940) ar sail Cyfansoddiad cyntaf Estonia yn 1920. Yn ystod y cyfnod Sofietaidd (1945–1985), parhaodd Estoneg i ddatblygu, ond i raddau llai nag o'r blaen. Ar y pryd, bu rheoli o'r canol ledled yr Undeb Sofietaidd mewn Rwseg yn teyrnasu mewn gwahanol rannau o'r economi. Lledaenodd Rwseg i rannau eraill o fywyd hefyd. Cafodd dinasyddion Sofietaidd nad oeddent yn siarad Estoneg a oedd wedi symud i Estonia eu cyflogi yn y sector cyhoeddus, ond nid oedd angen iddynt fedru Estoneg mewn unrhyw ffordd tan 1989. Ers hynny, rhoddwyd mwy o sylw i greu cyfleoedd i ddysgu Estoneg i bawb sy'n byw yn y wlad, yn ogystal â dysgu ieithoedd tramor. Mae'r polisi iaith hefyd yn anelu at gefnogi'r hawl i leiafrifoedd cenedlaethol gynnal eu diwylliannau.

Ieithoedd mewn dogfennau swyddogol a chronfeydd data

Ymdrinnir â'r iaith genedlaethol, ieithoedd tramor ac ieithoedd mewnfudwyr mewn deddfwriaeth iaith a/neu ddogfennau polisi iaith. (Cyd-)ariennir y broses o ddysgu ac addysgu'r iaith genedlaethol ar gyfer plant a/neu oedolion o Estonia sy'n byw dramor yng Ngwlad Belg a Lwcsembwrg. Nid yw Estonia wedi llofnodi na chadarnhau'r *Siarter Ewropeaidd ar gyfer Ieithoedd Rhanbarthol neu Ieithoedd Lleiafrifol*. Fodd bynnag, mae'r *Ddeddf genedlaethol newydd ar Ieithoedd* (2011) yn datgan ei bod yn bwysig diogelu holl ieithoedd rhanbarthol/lleiafrifol Estonia.

Ceir dulliau swyddogol o gasglu data cenedlaethol ar amrywiaeth ieithyddol yn Estonia ar ffurf data cyfrifiad a gaiff ei ddiweddarau o bryd i'w gilydd. Mae'r dulliau hyn o gasglu data yn ymddrin ag amrywiadau ar yr iaith genedlaethol, ieithoedd rhanbarthol/lleiafrifol ac ieithoedd mewnfudwyr, yn seiliedig ar gwestiwn am famiaith a chwestiwn am hyfedredd iaith sy'n gofyn i ba raddau y gellir siarad/deall/darllen/ysgrifennu'r iaith.

Yn ogystal â'r *Ddeddf Iaith*, caiff defnydd iaith ei reoli hefyd gan y Cyfansoddiad, y *Ddeddf Ddinasyddiaeth* a sawl deddf *arpawb* sy'n ymwneud ag addysg yng Ngweriniaeth Estonia. Mae'r *Ddeddf Iaith* yn canolbwyntio ar yr amodau sydd ynghlwm wrth ddefnyddio mathau o Estoneg, ieithoedd tramor, ieithoedd lleiafrifol ac *Iaith Arwyddion Estoneg*, yn ogystal â defnydd iaith pobl ag anghenion arbennig. Mae gan strategaethau datblygu iaith ran allweddol i'w chwarae. Lluniodd y *Cyngor Estoneg*, a sefydlwyd gan y Gweinidog Addysg, y strategaeth gyntaf ar gyfer datblygu Estoneg rhwng 2004 a 2010; mae *Cynllun Datblygu Iaith Estonia* wedi'i baratoi ar gyfer y cyfnod 2011-2017. Mae'r ddwy ddogfen hyn hefyd yn mynd i'r afael â materion sy'n ymwneud ag amlieithrwydd ac ieithoedd tramor i ryw raddau. Ymdrinnir â materion sy'n ymwneud ag ieithoedd tramor yn *Strategaeth Ieithoedd Tramor Estonia 2009-2015* (www.hm.ee/index.php?03247 *Eesti võõrkeelte strateegia 2009-2015*).

Yn ôl y Weinyddiaeth Addysg ac Ymchwil, ni fwriedir cadarnhau'r *Siarter Ewropeaidd ar gyfer Ieithoedd Rhanbarthol neu Ieithoedd Lleiafrifol* yn y dyfodol agos, ond mae Estonia yn bodloni'r meini prawf a geir ynddi.

IC=iaith/leithoedd Cenedlaethol
IT=leithoedd Tramor
IRh/LI=leithoedd Rhanbarthol neu Leiafrifol
IM=leithoedd Mewnfuldwy

leithoedd mewn addysg cyn cynradd (Ni cheir darpariaeth ar gyfer ieithoedd Rh/LI, ieithoedd mewnfuldwy na chymorth ychwanegol yn yr iaith genedlaethol)

	Grwpiau targed	Hyd	Gofynion o ran isafswm maint y grŵp	Diwrnodau'r wythnos	Hyfforddiant cyn swydd i athrawon	Hyfforddiant mewn swydd i athrawon	Arian ar gael gan y wladwriaeth
IT	dim cymorth	<1 flwyddyn	dim	<0.5 diwrnod	cyffredinol	cyffredinol	dim

leithoedd a gynigir mewn addysg cyn cynradd

IT	Saesneg, Almaeneg, Ffrangeg, Rwseg
-----------	------------------------------------

Mewn meithrinfeydd Estoneg a ddefnyddir gan mwyaf ond gellir defnyddio iaith arall yn dibynnu ar benderfyniad llywodraeth leol. Mae'r hyn a addysgir yn seiliedig ar y cwricwlwm cenedlaethol ar gyfer sefydliadau gofal plant cyn ysgol. I blant nad ydynt yn siarad Estoneg, addysgir Estoneg o dair oed, gyda'r wladwriaeth yn cefnogi hyfforddiant iaith drwy lywodraethau lleol. Mae llawer o'r meithrinfeydd lle yr addysgir Estoneg wedi cymryd rhan yn y rhaglen trochi iaith ers 2003. Mae'r athrawon meithrinfeydd hynny sydd ynghlwm wrth y rhaglen wedi cael hyfforddiant arbennig. Mae a wnelo astudio Estoneg fel mamiaith â dysgu sut i ynganu, strwythuro brawddegau, darllen ac ysgrifennu, a thanio diddordeb plant mewn llenyddiaeth.

Ar gais rhieni, yn ogystal â chyda chymorth cynrychioliadau iaith a diwylliannol gwledydd tramor, caiff ieithoedd tramor eu haddysgu fwyfwy mewn sefydliadau gofal plant cyn ysgol. Fodd bynnag, nid oes unrhyw ddata ystadegol ar yr ieithoedd tramor a addysgir mewn meithrinfeydd.

leithoedd mewn addysg gynradd (Ni cheir darpariaeth ar gyfer ieithoedd Rh/LI nac ieithoedd mewnfuldwy)

Trefniadaeth

	Cwricwlwm	Cymorth ychwanegol i newydd-ddyfodiaid	Profion diagnostig wrth ddechrau	Monitro sgiliau iaith
Cymorth IC	cydlynol a chlir	cyn prif ffrwd	absennol	lefel ysgol

	Grwpiau targed	Cwricwlwm	CLIL	Dechrau addysg iaith	Amserlennu	Gofynion o ran isafswm maint y grŵp	Monitro sgiliau iaith	Y lefel y mae angen ei chyrraedd	Arian ar gael gan y wladwriaeth
IT	pawb	cydlynol a chlir	absennol	o'r cyfnod canol	yn ystod oriau ysgol	dim	lefel ysgol	wedi'i chysylltu â'r Framwaith Cyfeirio Ewropeaidd Cyffredin	llawn

Addysgu

	Cymwysterau athrawon	Hyfforddiant cyn swydd i athrawon	Hyfforddiant mewn swydd i athrawon	Symudedd
Cymorth IC	athrawon iaith	pwnc-benodol	pwnc-benodol	Dd/G
IT	athrawon iaith	pwnc-benodol	pwnc-benodol	cymorth ariannol anffurfiol

Ieithoedd a gynigir mewn addysg gynradd

IT	Naill ai Saesneg, Almaeneg, Ffrangeg neu Rwseg: un iaith yn orfodol, ac mae'r gweddi yn ddewisol
-----------	--

Mae addysgu'r famiaith (iaith a llenyddiaeth Estoneg neu Rwseg) yn orfodol yn ystod cyfnod cyntaf yr ysgol gynradd (yn ogystal â phob cyfnod arall yn yr ysgol). Mae ieithoedd tramor wedi cael eu haddysgu mewn ysgolion addysg gyffredinol gan ddechrau yn y trydydd dosbarth ers blwyddyn academaidd 1991/1992, gyda phlant (neu rieni) yn gallu dewis yr iaith i'w hastudio (Saesneg, Rwseg, Ffrangeg neu Almaeneg). Mewn ysgolion lle nad Estoneg yw'r iaith addysgu, addysgir yr iaith genedlaethol o ddsbarth un. Yn ogystal ag Estoneg, addysgir ieithoedd tramor yn unol â chwricwlwm ysgolion. Cafodd y rhaglen astudio Estoneg gyntaf i ysgolion lle mai iaith addysgu arall a ddefnyddiwyd ei mabwysiadu yn 1997. Er mwyn helpu plant i ddysgu Estoneg, mae llawer o'r ysgolion hynny wedi ymuno â'r rhaglen trochi iaith gynnar. O dan gwricwlwm 2002, rhoddwyd y cyfle i ysgolion ddechrau dysgu ieithoedd tramor o ddsbarth un ac roedd yn orfodol iddynt ddechrau eu dysgu o ddsbarth tri.

Ieithoedd mewn addysg uwchradd (Ni cheir darpariaeth ar gyfer ieithoedd Rh/LI)

Trefniadaeth

	Cwricwlwm	Cymorth ychwanegol i newydd-ddyfodiaid	Profion diagnostig wrth ddechrau	Monitro sgiliau iaith
Cymorth IC	cydlynol a chdir	cyn prif ffrwd	absennol	enedlaethol safonol

	Grwpiau targed	Cwricwlwm	CLIL	Amserlennu	Gofynion o ran isafswm maint y grŵp	Monitro sgiliau iaith	Y lefel y mae angen ei chyrraedd	Arian ar gael gan y wladwriaeth
IT	pawb	cydlynol a chdir	absennol	yn ystod oriau ysgol	dim	enedlaethol safonol	wedi'i chysylltu â'r Fframwaith Cyfeirio Ewropeaidd Cyffredin	llawn
IM	siaradwyr brodorol yn unig	dim canllawiau	absennol	y tu allan i oriau ysgol	>10	absennol	normau ar lefel genedlaethol neu ranbarthol	dim

Addysgu

	Cymwysterau athrawon	Hyfforddiant cyn swydd i athrawon	Hyfforddiant mewn swydd i athrawon	Lefel yr iaith sydd ei hangen	Symudedd
Cymorth IC	athrawon cyffredinol	pwnc-benodol	pwnc-benodol	wedi'i chysylltu â'r Fframwaith Cyfeirio Ewropeaidd Cyffredin	Dd/G
IT	athrawon cyffredinol	pwnc-benodol	pwnc-benodol	wedi'i chysylltu â'r Fframwaith Cyfeirio Ewropeaidd Cyffredin	dim
IM	athrawon cyffredinol	cyffredinol	cyffredinol	Dd/G	Dd/G

leithoedd a gynigir mewn addysg uwchradd

IT	Saesneg, Almaeneg, Ffrangeg, Rwseg, ieithoedd eraill: mae dwy o'r ieithoedd hyn yn orfodol
IM	Tsieiñeg, Ffinneg, Swedeg

Yn 1996 cafodd y cwricwlwm addysg gyffredinol cenedlaethol cyntaf ei fabwysiadu lle cafodd cynnwys rhaglenni astudio ei gyflwyno fesul cyfnod ysgol. Yn seiliedig ar y cwricwlwm cenedlaethol, paratôdd ysgolion eu meysydd llafur, gan gynnwys ar gyfer y famiaith a llenyddiaeth (Estoneg a Rwseg) ac ar gyfer ieithoedd tramor. Addysgid iaith dramor A, h.y. yr iaith dramor gyntaf, o ddsbarth tri ac addysgid iaith dramor B o ddsbarth chwech. Ychwanegwyd y drydedd iaith dramor, sef iaith dramor C, fel pwnc dewisol yn nosbarth deg. Dros y blynyddoedd diwethaf, mae bron i hanner yr holl ddisgyblion uwchradd wedi dewis Saesneg fel eu hiaith dramor gyntaf, gyda Rwseg yn ail ac Almaeneg yn drydedd. Yn y flwyddyn academaidd 2010/2011, cafodd Almaeneg ei hastudio gan 8.9% ond dim ond 1.9% o'r holl ddisgyblion a wnaeth astudio Ffrangeg. O blith y pynciau dewisol, Almaeneg yw'r dewis mwyaf cyffredin. Yn ogystal â'r ieithoedd hyn, mae sawl ysgol yn cynnig y cyfle i ddysgu ieithoedd eraill megis Hebraeg, Tsieiñeg (Mandarin), Sbaeneg, Eidaleg, Japanaeg, Lladin, Swedeg neu Ffinneg fel trydedd iaith dramor.

Er mwyn helpu disgyblion i ddysgu Estoneg fel ail iaith o ddsbarth chwech, mae llawer o ysgolion wedi ymuno â'r rhaglen trochi iaith hwyr. Yn 2007, dechreuodd ysgolion gynrig hyfforddiant mewn Estoneg yn rhannol ar y cyd ag ieithoedd eraill; yn y flwyddyn academaidd 2011/2012, caiff 60% o'r nifer ofynnol o gyrsiau gorfodol eu haddysgu mewn Estoneg. Gweithredwyd cwricwla cenedlaethol diwygiedig mewn ysgolion cynradd ac uwchradd o 2011/2012. Caiff canlyniadau dysgu ar gyfer Estoneg fel ail iaith ac ieithoedd tramor eu hasesu yn unol â system lefelau hyfedredd ieithyddol Cyngor Ewrop.

leithoedd mewn addysg bellach ac addysg uwch

Addysg bellach (mewn tri sefydliad AHG) (Ni cheir darpariaeth ar gyfer ieithoedd Rh/LI nac ieithoedd mewnudwyr)

	Ystod o raglenni iaith	Cwricwlwm	Y lefel y mae angen ei chyrraedd	Arian ar gael gan y wladwriaeth
IT	Sefydliad A			
	Sefydliad B	amrywiaeth eang	cydlynol a chllir	llawn
	Sefydliad C	cyfyngedig	cydlynol a chllir	llawn

Addysg uwch (mewn tair prifysgol)

	Iaith/ ieithoedd a ddefnyddir fel y cyfrwng addysgu	Ieithoedd ar wefan	Grwpiau targed ar gyfer cymorth ychwanegol yn yr iaith genedlaethol	Y lefel i'w chyrhaedd o ran addysgu ieithoedd tramor	Recriwtio myfyrwyr nad ydynt yn fyfyrwyr o'r wlad	Symudedd ar gyfer myfyrwyr iaith	Symudedd ar gyfer myfyrwyr nad ydynt yn fyfyrwyr iaith
Prifysgol A	cenedlaethol a thramor	cenedlaethol, thramor a Rh/LI	cyfyngedig	wedi'i chysylltu â'r Fframwaith Cyfeirio Ewropeaidd Cyffredin	rhyngwladol a mewn-fudwyr	dewisol	dewisol
Prifysgol B	cenedlaethol a thramor	cenedlaethol a thramor	cyfyngedig	wedi'i chysylltu â'r Fframwaith Cyfeirio Ewropeaidd Cyffredin	rhyngwladol yn unig	dewisol	dewisol
Prifysgol C	cenedlaethol, thramor a Rh/LI	cenedlaethol a thramor	pawb	wedi'i chysylltu â'r Fframwaith Cyfeirio Ewropeaidd Cyffredin	rhyngwladol a mewn-fudwyr	dewisol	dewisol

Estoneg yw'r iaith addysgu mewn ysgolion galwedigaethol; y Gweinidog Addysg ac Ymchwil sy'n penderfynu a ddefnyddir iaith arall fel iaith addysgu. Mae ysgolion galwedigaethol yn darparu addysg yn unol â chwricwla ysgolion a'r chwricwla cenedlaethol ar gyfer pynciau galwedigaethol. Rhaid addysgu Estoneg mewn ysgolion galwedigaethol ar gyfer dosbarthiadau drwy gyfrwng Rwseg ac mae'n seiliedig ar y lefel a gyflawnir ar ddiwedd addysg sylfaenol (hynny yw ISCED II neu'r nawfed Estoneg). Addysgir ieithoedd tramor fel dwy elfen wahanol o dan ddau gwricwlwm: ieithoedd tramor ac ieithoedd tramor arbenigol. Er yn achos rhai disgyblaethau technegol nad oes braidd dim hyfforddiant iaith dramor, ar gyfer nifer o ddisgyblaethau gwasanaeth mae'r ieithoedd tramor a addysgir mewn ysgolion galwedigaethol yn cynnwys Saesneg, Ffrangeg, Almaeneg, Rwseg, Eidaleg, Swedeg a Ffinneg.

Awdurdod Cymwysterau Estonia sy'n cydgyssylltu'r broses o ddatblygu safonau proffesiynol, sy'n nodi'r lefel ofynnol o hyfedredd mewn Estoneg ac mewn ieithoedd tramor at ddiben astudio ar gyfer y proffesiwn dan sylw. Pennwyd gofynion ar gyfer gweision sifil, cyflogaion ac entrepreneuriaid o ran medru'r Estoneg mewn rheoliad gan y llywodraeth. Yn dilyn diwygiad a wnaed i'r *Ddeddf Iaith* (2008), cyflwynwyd lefelau gofynnol o hyfedredd ieithyddol yn gydnaws â *Fframwaith Cyfeirio Ewropeaidd Cyffredin* Cyngor Ewrop; cynhelir arholiadau hyfedredd mewn Estoneg ar lefelau A2, B1, B2 ac C1 gan y wladwriaeth.

Yn ôl y *Ddeddf Prifysgolion*, Estoneg yw'r iaith addysgu mewn prifysgolion; cyngor y brifysgol sy'n pennu'r defnydd o ieithoedd eraill. Ar y naill law, y nod yw darparu addysg uwch Estoneg sy'n meithrin lefel uchel o hyfedredd mewn Estoneg; ond ar y llaw arall, yn enwedig ar lefel astudiaethau uwch, mae cyfran yr addysg yn Saesneg yn tyfu mewn perthynas â rhyngwladoli. Caiff Rwseg ei defnyddio hefyd fel iaith addysgu mewn sefydliadau addysg uwch.

Bydd myfyrwyr sy'n astudio am Fagloraeth neu ddiploma yn dilyn Saesneg fel pwnc cyffredinol, ac yna Rwseg, Estoneg fel ail iaith neu iaith dramor, Almaeneg ac, i raddau llai, Ffrangeg. Mae'r cyfle i ddysgu ieithoedd tramor eraill wedi cynyddu'n sylweddol drwy ganolfannau iaith prifysgolion: mae'n bosibl astudio Eidaleg, Sbaeneg, Ffinneg, Swedeg, Tyrceg ac ieithoedd eraill. Caiff ieithoedd tramor eu haddysgu i ieithegwyr tramor fel arbenigedd ac i bob myfyriwr arall fel iaith gyffredinol ac arbenigol. Er mai fel pynciau dewisol y gellir astudio ieithoedd tramor o dan gwricwla fel arfer, mae canlyniadau dysgu lefelau addysg uwch a nodir yn y *Safon Addysg Uwch* hefyd yn darparu ar gyfer hyfedredd mewn iaith dramor. Rhydd hyn gymhellant i ddysgu ieithoedd tramor. Mae sgiliau iaith dramor da ymhlith athrawon a myfyrwyr yn sail i geisio cyflawni nodau'r *Strategaeth Rhyngwladoli Addysg Uwch*.

leithoedd yn y cyfryngau clyweledol a'r wasg

Cynrychiadau teledu nad ydynt yn yr iaith genedlaethol	Ffilmiau yn y sinema nad ydynt yn yr iaith genedlaethol	Rhaglenni mewn ieithoedd Rh/LI y tu allan i'r rhanbarth	Argaeledd iaith arwyddion ar y teledu
wedi'u hisdeitlo yn Tallinn a Tartu wedi'u trosleisio yn Narva	wedi'u hisdeitlo yn Tallinn a Tartu wedi'u trosleisio yn Narva	bob amser yn Tallinn a Tartu yn rheolaidd yn Narva	bob amser

Mae'r arfer cyffredin o isdeitlo rhaglenni teledu a ffilmiau yn golygu bod pobl yn dod i gysylltiad ag ieithoedd heblaw am Estoneg o oedran cynnar. Fodd bynnag, mae'r mwyafrif helaeth o raglenni tramor a ddangosir ar y teledu yn Estonia mewn Saesneg, felly dod i gysylltiad â'r iaith Saesneg, ac i raddau llai Rwseg, Almaeneg a Sbaeneg a wna gwylwyr yn bennaf. Mae rhaglenni plant, cartwnau yn arbennig, yn cael eu trosleisio'n aml.

Mae'r amrywiaeth o ieithoedd ar wahân i Estoneg a gynigir ar deledu cenedlaethol yn gyfyngedig. Mae *Darlledu Cenedlaethol Estonia* wedi ymdrechu i gynig rhaglenni newyddion a diwylliannol mewn Rwseg. Ar y llaw arall, mae teledu lloeren a'r rhyngwlad yn cynnig rhaglenni o bob cwr o'r byd a chânt eu gwyllo'n helaeth. Fodd bynnag, nid yw'r mathau hynny o ddarparwyr teledu wedi cael eu cynnwys yn yr astudiaeth hon.

Mae dewis cyfyngedig o bapurau newydd iaith dramor, o Rwsia yn bennaf, ar gael yn y tair dinas a arolygwyd. Mae twristiaeth a phresenoldeb cymuned Rwsiaidd fawr yn egluro'r cynnig ieithyddol o ran papurau newydd.

leithoedd mewn gwasanaethau cyhoeddus a manau cyhoeddus

Strategaethau iaith sefydliadol ar lefel dinas

Nifer yr ieithoedd	Ar y wefan	Defnyddio cyfieithwyr	Cymwyseddau iaith mewn disgrifiadau swydd	Recriwtio siaradwyr ieithoedd	Hyfforddiant iaith a gynigir i gyflogeion	Cofnod o sgiliau iaith cyflogeion
>4	Tallinn					
3-4	Tartu	Tallinn Tartu	Tallinn			Narva
1-2	Narva	Narva	Tartu Narva	Tallinn Tartu Narva	Tallinn Tartu Narva	

Cyfleusterau cyfathrebu

Pum prif gyfleuster cyfathrebu ar lafar	Pum prif gyfleuster cyfathrebu ysgrifenedig
Twristiaeth Addysg Gwasanaethau brys =lechyd =Cymdeithasol =Cyfreithiol =Trafnidiaeth =Mewnfudo ac integreiddio	Twristiaeth Addysg Argyfwng =lechyd =Cymdeithasol =Cyfreithiol =Trafnidiaeth =Mewnfudo ac integreiddio

Mae *Deddf Iaith* Gweriniaeth Estonia, a fabwysiadwyd yn 1995, yn diffinio ymhle y mae'n rhaid i Estoneg gael ei defnyddio. Mae hefyd yn pennu amodau a graddau'r defnydd o ieithoedd lleiafrifoedd cenedlaethol mewn asiantaethau gwladol a llywodraethau lleol. Mewn ardaloedd lle mae o leiaf hanner y boblogaeth yn perthyn i grŵp lleiafrifoedd cenedlaethol, mae gan drigolion yr hawl i gael gwybodaeth yn yr iaith leiafrifol honno (yn ogystal ag Estoneg) oddi wrth llywodraeth leol ac asiantaethau gwladol yn yr ardal honno. Dyna beth sy'n digwydd mewn dwy o'r tair dinas a arolygwyd. Caiff gwasanaethau yn y dinasoedd hyn eu cynnig mewn sawl iaith ond Rwseg, Saesneg a Ffinneg a gynigir yn bennaf. Mae gwefannau dinasoedd ar gael mewn ieithoedd ar wahân i'r iaith genedlaethol, hefyd mewn Saesneg a Rwseg. Yn ogystal, cynigir gwybodaeth sylfaenol am ddinas a gwybodaeth i dwristiaid mewn Ffinneg, Swedeg ac Almaeneg.

leithoedd mewn busnes (allan o 24 o gwmnïau)

	STRATEGAETHAU IAITH CYFFREDINOL							
	Argaeledd strategaeth iaith	Pwyslais ar sgiliau iaith wrth recriwtio	Darpariaeth symudedd rhyngwladol	Y defnydd o gyfieithwyr/dehonglwy'r allanol	Cofnodi sgiliau iaith staff	Y defnydd o rwydweithiau ar gyfer hyfforddiant iaith	Y defnydd o raglenni/cyllid yr UE	Ymwybyddiaeth o raglenni/cyllid yr UE
Defnyddir yn eang	5	15	7	6	0	6	0	0

		STRATEGAETHAU IAITH MEWNOL						STRATEGAETHAU IAITH ALLANOL			
		Partneriaethau â'r sector addysg	Cynlluniau gwobrwyo/dyrchafu yn seiliedig ar sgiliau iaith	Darpariaeth hyfforddiant iaith	Defnyddir y Fframwaith Cyfeirio Ewropeaidd Cyffredin	Defnyddir iaith ar gyfer dogfennau yn y gweithle/mewnwyd	Defnyddir iaith ar gyfer meddalwedd, rhaglenni'r we	Defnyddir iaith ar gyfer Adroddiadau blynyddol/busnes	Defnyddir iaith ar gyfer marchnata	Defnyddir iaith ar gyfer brandio/hunaniaeth	Defnyddir iaith ar gyfer gwefan
IC	defnyddir yn eang	4	1	7	1	24	21	24	24	23	19
Saesneg Busnes	defnyddir yn eang	2	0	8	0	9	13	9	12	9	14
Ieithoedd ychwanegol	defnyddir yn eang	3	1	7	0	3	4	4	8	5	15

Yn hanesyddol, mae cysylltiadau a masnach ryngwladol wedi bod yn bwysig iawn i economi Estonia a dyna fel y mae heddiw. Ar y cyfan, mae arferion iaith yn llawer cryfach na strategaethau iaith ysgrifenedig cwmnïau. Yn gyffredinol, ystyrir bod medrusrwydd ieithyddol yn ofyniad pwysig i gyflogeion. Mae'n gyffredin i lawer o swyddi ofyn am fedru'r Rweg ac un iaith dramor ychwanegol, Saesneg neu Almaeneg, fel rhagofyniad.

Nid adlewyrchir pwysigrwydd amlieithrwydd yn Estonia ym mhroffil iaith busnesau yno. Nid yw'r pedwar math o gwmni a astudiwyd (bancau, gwestai, archfarchnadoedd a chwmnïau adeiladu) o reidrwydd yn fathau o gwmnïau sy'n masnachu'n rhyngwladol. Mae siopau bach lleol a busnesau adeiladu yn targedu cymunedau lleol yn unig.

Canfyddiadau allweddol cyffredinol

Mae Estonia wedi mynd i'r afael â materion ieithyddol dros amser ac wedi gwneud ei gorau i gynnal a datblygu Estoneg; gwella sgiliau iaith y boblogaeth gyfan; a hyrwyddo'r defnydd o ieithoedd amrywiol. Wrth ddadansoddi ei pholisi addysg iaith, cafodd Estonia gymorth *Is-adran Polisi Iaith* Cyngor Ewrop. Cwblhawyd y gwaith dadansoddi yn 2011. Pennodd strategaethau ar gyfer Estoneg ac ieithoedd tramor a ddatblygwyd dros y degawd diwethaf nodau pellach. Mae'r broses o lunio strategaethau wedi chwarae rhan bwysig, gan ddwyn ynghyd arbenigwyr o wahanol feysydd, sydd, yn ei thro, wedi gwella'r cydweithredu sy'n ymwneud ag iaith. Mae ymdrechion ar y cyd wedi cyfrannu at gryfhau sefyllfa Estoneg mewn addysg drwyddi draw. Er bod yr holl amcanion strategol yn werthfawr, mae eu gweithredu yn dibynnu ar argaeledd adnoddau. Gwelir hyn yn arbennig o ran gweithredu'r *Strategaeth Ieithoedd Tramor*.

I grynhof, mae Estonia wedi creu amodau da i addysgu Estoneg fel mamiaith a'r iaith wladol. O ran ieithoedd eraill, Rwseg a Saesneg sy'n drech, tra bod ieithoedd eraill yn cael eu dysgu a'u defnyddio yn llai aml o lawer. Mae sefydliadau addysgol yn ceisio cyflwyno cyfleoedd mwy amrywiol i ddysgu trydedd iaith dramor yn eu cwricwla. Caiff y broses o ddatblygu amlieithrwydd ei chefnogi a'i hannog gyda chymorth prosiectau amrywiol i addysgu, er enghraifft, Ffrangeg, Almaeneg, Swedeg a Ffinneg. Fodd bynnag, mae cryn dipyn o waith gan Estonia i'w wneud o hyd cyn y bydd yn wirioneddol amlieithog.

Mentrau a chynlluniau peilot addawol

Dylid anelu at gyflawni'r amcanion o ran hyrwyddo dysgu a lledaenu Estoneg fel mamiaith ac ail iaith a nodir yng *Nghynllun Datblygu Iaith Estonia*. Mae'r broses o newid i ddefnyddio Estoneg fel iaith addysgu mewn ysgolion lle y defnyddir ieithoedd eraill ar wahân i Estoneg, a ddechreuodd yn 2007, wedi gofyn am lawer o adnoddau a bydd yn dal i ofyn am hynny. Mae'r broses hon wedi bod yn fwy llwyddiannus mewn ysgolion a ymunodd â'r rhaglen trochi iaith. Hefyd, dylai'r fethodoleg ar gyfer addysgu pynciau ac iaith integredig ddod yn fwy cyffredin.

Er bod ieithoedd tramor yn cael eu crybwyll yng nghynlluniau datblygu iaith Estonia a bod cynlluniau datblygu sy'n ymwneud ag ieithoedd tramor yn cyfeirio at gysylltiadau â'r famiaith, mae'r amcanion sydd a wnelo â mamiaith ac ieithoedd tramor yn aml wedi'u gwahanu mewn cynlluniau datblygu iaith. Dylai Estonia ddilyn y ddogfen *Common European Framework of Reference for Languages: Learning, Teaching and Assessment*, o ran yr egwyddorion a nodir yn y ddogfen a'r lefelau o hyfedredd iaith a ddiffinnir gan Gyngor Ewrop. Cafodd y ddogfen hon ei chyfieithu i'r Estoneg yn 2006 ar gais y Weinyddiaeth Addysg ac Ymchwil. Nod *Strategaeth Ieithoedd Tramor Estonia* yw hyrwyddo parhad y polisi o ddysgu ac addysgu ieithoedd tramor, yn ogystal â pharhad egwyddorion ariannu cydnabod ac asesu sgiliau iaith. O'r llw o amcanion strategol, dylai'r rhai a flaenoriaethir gael eu hamlygu.

Tra bod y gwaith o asesu hyfedredd oedolion mewn Estoneg fel ail iaith yn seiliedig ar lefelau hyfedredd iaith Cyngor Ewrop, dylai'r broses o ddatblygu adnoddau hunanasesu (megis y *Portfolio Iaith*) a phroffion cenedlaethol barhau a dylid derbyn tystysgrifau rhyngwladol o hyfedredd yn ôl y lefelau hyfedredd iaith hyn. Mae gweithredu'r *Cwricwlwm Cenedlaethol* (2011) yn seiliedig ar lefelau hyfedredd iaith Cyngor Ewrop yn her i'r system addysg. Dylai dealltwriaeth o'r lefelau hyfedredd iaith gael ei rhannu a'i chysoni mewn addysg alwedigaethol ac addysg i oedolion, yn ogystal ag ymhlith cyflogwyr.

Cyfeiriadau

Cynllun Datblygu Iaith Estonia 2011-2017
www.hm.ee/index.php?03238

Proffil Polisi Addysg Iaith: Estonia
www.hm.ee/index.php?044904

Proffil Polisi Addysg Iaith: Estonia
www.hm.ee/index.php?044904

Strategaeth Ieithoedd Tramor Estonia 2009-2015
www.hm.ee/index.php?03238

6 FFRAINC

Louis-Jean Calvet

Cyd-destun y wlad

Cyn mynd ati i ddisgrifio'r cyd-destun cenedlaethol yn Ffrainc, mae'n bwysig pwysleisio'r ffaith bod yr holiadur a ddefnyddiwyd yn seiliedig ar y dybiaeth bod modd cymharu sefyllfaoedd yn Ewrop. Felly, mae risg y gall rhai nodweddion cenedlaethol penodol gael eu hanwybyddu. Mae'n deg wrth gwrs ystyried effaith cyfarwydddebau Ewropeaidd ar faterion ieithyddol, ac mae canlyniadau'r arolwg yn darparu cronfa ddata werthfawr o'r gwledydd dan sylw. Byddai'n ddi-ddorol cyflwyno'r data hwn i'r cyhoedd ar ffurf mynegai 'ar gais' yn seiliedig ar *Fynegai Bywyd Gwell* OECD, er enghraifft.

Mae Ffrainc (Ffrainc Fetropolitan a thiriogaethau dramor) yn wlad lle siaredir nifer fawr o ieithoedd, boed yn fewndarddol neu o ganlyniad i ymfudo. Fel rhan o'r gwaith ar y *Siarter Ewropeaidd ar gyfer Ieithoedd Rhanbarthol neu Ieithoedd Lleiafrifol*, cafodd yr ieithydd Bernard Cerquiglini ei gomisiynu gan y Weinyddiaeth ar gyfer Addysg Genedlaethol, Ymchwil a Thechnoleg a'r Weinyddiaeth Diwylliant a Chyfathrebu i lunio adroddiad ar *Ieithoedd Ffrainc* a gyflwynwyd i'r awdurdodau ym mis Ebrill 1999. Ar wahân i'r iaith swyddogol, nododd yr adroddiad fod 75 o ieithoedd eraill yn cael eu siarad yn y wlad. Ieithoedd a siaredir gan wladolion Ffrainc yw'r rhain ac felly dylid ychwanegu'r ieithoedd niferus a siaredir gan fewnfudwyr at y rhestr hon. Dylid nodi yma nad yw lleiafrifoedd ethnig na lleiafrifoedd cenedlaethol yn cael eu monitro yn Ffrainc, a hynny am resymau moesegol.

Fodd bynnag, o ran trosglwyddo ieithoedd mewnfudwyr ac ieithoedd rhanbarthol, mae cyfrifiad 1999 yn darparu data diddorol. Mae'n dangos bod 26% o bobl Ffrainc wedi'u magu gan rieni a oedd yn siarad iaith ar wahân i Ffrangeg yn y cartref. Mae'r ymatebwyr yn nodi 6,700 o 'enwau ieithoedd' sy'n cyfateb i tua 400 o ieithoedd a nodwyd ac a gatalogiwyd gan *Ethnologue* gyda chod ISO 639-3. O ran cyfraddau trosglwyddo ieithoedd, mae'r rheini ar gyfer ieithoedd mewnfudwyr yn cynnwys 86% ar gyfer Tyrceg a 25% ar gyfer Pwyleg ac, ar gyfer ieithoedd rhanbarthol, 45% ar gyfer iaith Alsás a 10% ar gyfer Llydaweg. Mae hyn yn golygu bod rhai ieithoedd mewnfudwyr yn cael eu trosglwyddo i raddau mwy o gymharu ag ieithoedd rhanbarthol a bod y gyfradd drosglwyddo yn uwch ar gyfer ieithoedd y mewnfudwyr diweddaraf. Ar y llaw arall, mae cyfradd trosglwyddo ieithoedd rhanbarthol yn gostwng yn barhaus.

Yn olaf, caiff Ffrangeg, sef iaith swyddogol dros 30 o wledydd lle mae'n ail iaith a lle mae ganddi amrywiaeth eang o ffurfiau, ei haddysgu fel iaith dramor i grwpiau mewnfudwyr yn Ffrainc.

Ieithoedd mewn dogfennau swyddogol a chronfeydd data

Ymdrinnir â'r iaith genedlaethol, ieithoedd tramor, ieithoedd rhanbarthol/lleiafrifol ac ieithoedd mewnfudwyr mewn deddfwriaeth iaith a/neu ddogfennau polisi iaith. (Cyd-)ariennir y broses o ddysgu ac addysgu'r iaith genedlaethol ar gyfer plant a/neu oedolion o Ffrainc sy'n byw dramor mewn tua 130 o wledydd yn Ewrop a thu hwnt. Mae llywodraeth Ffrainc wedi llofnodi'r *Siarter Ewropeaidd ar gyfer Ieithoedd Rhanbarthol neu Ieithoedd Lleiafrifol* ond nid yw'r senedd wedi'i chadarnhau. Ar lefel genedlaethol, caiff amrywiaeth o ieithoedd rhanbarthol/lleiafrifol ac ieithoedd mewnfudwyr eu cydnabod, eu diogelu a/neu eu hyrwyddo mewn dogfennau gwlad swyddogol, gan gynnwys addysg genedlaethol neu ranbarthol. Yr ieithoedd y cyfeirir atynt yw Basgeg, Llydaweg, Catalaneg, Corseg, Alsaceg, Moseleg, Fflemineg Orllewinol, Ffrengig-Brofensaleg, Langues d'Oil ('Ieithoedd y Gogledd' – Franc-Comtois, Wallon, Champenois, Picard, Normand, Gallo, Poitevin-Saintongeais, Lorrain, Bourguignon-Morvandiau), Ocsitaneg neu Langue d'Oc ('Ieithoedd y De' – Gascon, Languedocien, Provençal, Auvergnat, Limousin, Vivaro-Alpin), Parlers Liguriens (o ddyffryn Roya yn yr Alpes-Maritimes a Bonifacio yn Corsica), ynghyd â 41 o ieithoedd o diriogaethau tramor gan gynnwys rhestr swyddogol *Langues de France* a'r ieithoedd annhriogaethol a siaredir gan fewnfudwyr. Arabeg ddialectegol, Armeneg Orllewinol, Berber, Iddewig, Sbaeneg a Romani. Cyfeirir at ieithoedd rhanbarthol/lleiafrifol ac ieithoedd mewnfudwyr fel *Langues de France*, hynny yw, ieithoedd Ffrainc yn hytrach nag ieithoedd yn Ffrainc. Mae'r cyfryw gyfeiriad yn dangos safbwynt hynod gynhwysol ar ieithoedd lleiafrifol nas gwelir yn aml yng ngwledydd Ewrop.

Ceir dulliau swyddogol o gasglu data cenedlaethol ar amrywiaeth ieithyddol yn Ffrainc ar ffurf data arolwg a gaiff ei ddiweddarau o bryd i'w gilydd. Mae'r dulliau hyn o gasglu data yn ymdrin ag amrywiadau ar yr iaith genedlaethol, ieithoedd rhanbarthol/lleiafrifol ac ieithoedd mewnfudwyr, yn seiliedig ar gwestiwn am iaith yr aelwyd ynghyd â chwestiwn am hyfedredd iaith sy'n gofyn pa un a ellir siarad/deall/darllen/ysgrifennu'r iaith.

Mae Erthygl 2 o Gyfansoddiad Ffrainc (a ddiwygiwyd ar 25 Mehefin 1992) yn nodi mai Ffrangeg yw iaith y Weriniaeth Ffrengig ac mae Erthygl 75-1 (a ddiwygiwyd ar 23 Gorffennaf 2008) yn nodi bod ieithoedd rhanbarthol yn rhan o dreftadaeth genedlaethol (dylid nodi nad yw'r ieithoedd hyn wedi'u rhestru yn y Gyfansoddiad). Hefyd, caiff yr ieithoedd rhanbarthol hyn eu

haddysgu mewn ysgolion uwchradd a cheir arholiadau cystadleuol rheolaidd i recriwtio athrawon (CAPES). Mae Erthygl 1 o'r ddeddf ar ddefnyddio Ffrangeg (4 Awst 1994), 'Deddf Toubon' fel y'i gelwir, yn nodi mai Ffrangeg yw iaith addysgu, gweithio a thrafod mewn

gwasanaethau cyhoeddus. Caiff erthyglau eraill o'r ddeddf hon eu nodi isod o dan y penawdau perthnasol.

IC=iaith/leithoedd Cenedlaethol
IT=leithoedd Tramor
IRh/LI=leithoedd Rhanbarthol neu Leiafrifol
IM=leithoedd Mewnfwydwr

leithoedd mewn addysg cyn cynradd (ni cheir darpariaeth)

O ran y pennawd hwn a'r tri phennawd dilynol (addysg gynradd, addysg uwchradd ac addysg uwch), mae Erthygl 11 o'r Ddeddf ar ddefnyddio'r iaith Ffrangeg yn nodi mai Ffrangeg yw iaith addysgu, arholiadau ac arholiadau cystadleuol yn ogystal â thesiau a thraethodau hir mewn sefydliadau'r wladwriaeth a sefydliadau preifat, waeth eithriadau y gellir eu cyfiawnhau gan ofynion addysgu ieithoedd a diwylliannau rhanbarthol neu dramor neu lle mae'r athrawon yn gymdeithion dramor neu'n athrawon gwadd. Nid yw ysgolion dramor, y rheini a sefydlwyd yn arbennig i addysgu disgyblion dramor nac ysgolion sy'n addysgu gwersi o natur ryngwladol, yn ddarostyngedig i'r gofyniad hwn.

leithoedd mewn addysg gynradd

Trefniadaeth

	Cwricwlwm	Cymorth ychwanegol i newydd-ddyfodiaid	Profion diagnostig wrth ddechrau	Monitro sgiliau iaith
Cymorth IC	cydlynol a chlir	cyn prif ffrwd	absennol	enedlaethol safonol

	Grwpiau targed	Cwricwlwm	CLIL	Dechrau addysg iaith	Amserlennu	Gofynion o ran isafswm maint y grŵp	Monitro sgiliau iaith	Y lefel y mae angen ei chyrraedd	Arian ar gael gan y wladwriaeth
IRh/LI	pawb	cydlynol a chlir	lleoledig	o'r cyfnod canol	yn ystod oriau ysgol	dim	lefel ysgol	normau ar lefel genedlaethol neu ranbarthol	llawn
IT	pawb	cydlynol a chlir	lleoledig	o'r cyfnod canol	yn ystod oriau ysgol	dim	lefel ysgol	wedi'i chysylltu â'r Fframwaith Cyfeirio Ewropeaidd Cyffredin	llawn
IM	pawb	cyffredinol	absennol	cyfnod olaf yn unig	y tu allan i oriau ysgol	dim	lefel ysgol	heb ei nodi	rhannol

Addysgu

	Cymwysterau athrawon	Hyfforddiant cyn swydd i athrawon	Hyfforddiant mewn swydd i athrawon	Symudedd
Cymorth IC	athrawon iaith	pwnc-benodol	pwnc-benodol	Dd/G
IRh/LI	athrawon cyffredinol	pwnc-benodol	pwnc-benodol	Dd/G
IT	athrawon cyffredinol	pwnc-benodol	pwnc-benodol	dim
IM	athrawon cyffredinol	dim	cyffredinol	Dd/G

Ieithoedd a gynigir mewn addysg gynradd

IRh/LI	Basgeg, Llydaweg, Catalaneg, Corseg, Ocsitaneg yn Ffrainc Gyfandirol, Tahitiëg, ieithoedd Melanesia (Ajië, Drehu, Nengone, Paici) yn Ffrainc Dramor
IT	Gorfodol: un iaith o blith Saesneg, Almaeneg ac, yn llai cyffredin, ieithoedd eraill fel Arabeg, Tsieinëeg, Eidaleg, Portiwgaleg, Rwseg a Sbaeneg
IM	Arabeg, Croateg, Eidaleg, Portiwgaleg, Serbeg, Sbaeneg, Tyrceg

Ffrangeg yw iaith addysg gynradd. Ochr yn ochr â hyn, cynigir addysg mewn ieithoedd a diwylliannau treftadaeth (ELCO) ar gyfer nifer o ieithoedd mewn fudwyr fel Arabeg neu Dyrceg. Fe'u hanelir at blant mewn fudwyr ac fe'u trefnir yn yr ysgol yn ôl mamwlad y plant. O ran Arabeg, y ffurf safonol ar yr iaith a addysgir yn hytrach na'r ffurfiau ieithyddol a siaredir gan deuluoedd.

Mae disgyblion cynradd (99.9% o ddisgyblion yng nghylch 3) yn dysgu iaith dramor hefyd. Saesneg yw'r iaith honno fel arfer. Weithiau, addysgir iaith ranbarthol hefyd (49,800 o ddisgyblion).

Ceir hefyd ysgolion secwlaidd ac ysgolion am ddim a redir gan elusennau (er enghraifft, Diwan ar gyfer Llydaweg, Calendreta ar gyfer Ocsitaneg, Bressola ar gyfer Catalaneg) a'r iaith ranbarthol yw'r iaith addysgu yn yr ysgolion hynny.

Ieithoedd mewn addysg uwchradd**Trefniadaeth**

	Cwricwlwm	Cymorth ychwanegol i newydd-ddyfodiaid	Profion diagnostig wrth ddechrau	Monitro sgiliau iaith
Cymorth IC	cydlynol a chllir	cyn prif ffrwd	pawb	cededlaethol safonol

	Grwpiau targed	Cwricwlwm	CLIL	Amserlennu	Gofynion o ran isafswm maint y grŵp	Monitro sgiliau iaith	Y lefel y mae angen ei chyrraedd	Arian ar gael gan y wladwriaeth
IRh/LI	pawb	cydlynol a chllir	lleoledig	yn ystod oriau ysgol	dim	lefel ysgol	normau ar lefel genedlaethol neu ranbarthol	llawn
IT	pawb	cydlynol a chllir	eang	yn ystod oriau ysgol	dim	lefel ysgol	wedi'i chysylltu â'r Fframwaith Cyfeirio Ewropeaidd Cyffredin	llawn
IM	pawb	cyffredinol	eang	yn rhannol yn ystod oriau ysgol	dim	lefel ysgol	dim normau	rhannol

Addysgu

	Cymwysterau athrawon	Hyfforddiant cyn swydd i athrawon	Hyfforddiant mewn swydd i athrawon	Lefel yr iaith sydd ei hangen	Symudedd
Cymorth IC	athrawon iaith	pwnc-benodol	pwnc-benodol	Dd/G	Dd/G
IRh/LI	athrawon iaith	pwnc-benodol	pwnc-benodol	wedi'i chysylltu â'r Fframwaith Cyfeirio Ewropeaidd Cyffredin	Dd/G
IT	athrawon iaith	pwnc-benodol	pwnc-benodol	wedi'i chysylltu â'r Fframwaith Cyfeirio Ewropeaidd Cyffredin	dim
IM	athrawon cyffredinol	dim	pwnc-benodol	Dd/G	Dd/G

Ieithoedd a gynigir mewn addysg uwchradd

IRh/LI	Basgeg, Llydaweg, Catalaneg, Corseg, Creoliaith, Ocsitaneg, Alsaceg/Almaeneg, Moseleg, Tahitiëg, ieithoedd Melanesia (Ajië, Drehu, Nengone, Paici) yn Ffrainc Dramor
IT	2 iaith o 19 yn orfodol: Saesneg, Sbaeneg, Almaeneg, Arabeg, Tsieinëeg, Eidaleg, Portiwgaleg, Rwseg, Daneg, Iseldireg, Groeg, Hebraeg, Japanaeg, Norwyeg, Pwyleg, Swedeg, Tyrceg, Groeg Hynafol a Lladin. Mae ieithoedd eraill, megis rhai rhanbarthol, yn ddewisol
IM	Arabeg, Croateg, Eidaleg, Portiwgaleg, Serbeg, Sbaeneg a Thyrcceg

O dan y maes llafur gorfodol ar gyfer ieithoedd tramor, gall disgyblion ddewis o blith mwy o ieithoedd nag yn y rhan fwyaf o wledydd Ewropeaidd eraill. Rhennir yr ieithoedd hyn yn ddau fath yn ôl dau dull gwleidyddol: ieithoedd Aelod-wladwriaethau ar y naill law, ac ieithoedd sy'n cydfynd â dewsiadau polisi tramor Ffrainc (Arabeg, Tsieinëeg, Japanaeg) ar y llaw arall. Mae disgyblion (neu rieni) yn dueddol o ffafrio Saesneg, ac yna Sbaeneg ac Almaeneg. Dylid nodi nad yw Rwseg yn cael ei ffafrio mwyach ar ôl cwmp Wal Berlin ac mai Arabeg a ddewisir yn bennaf gan ddisgyblion sy'n fewnfudwyr.

Dylid ychwanegu 11 o ieithoedd rhanbarthol at yr ieithoedd tramor y nodir eu bod yn cael eu haddysgu ym mhroffil gwlad Ffrainc: Basgeg, Llydaweg, Catalaneg, Corseg, Creoliaith, Gallo, ieithoedd Melanesia, ieithoedd rhanbarthol Alsás, ieithoedd rhanbarthol Moselle, Ocsitaneg a Thahitiëg).

Hefyd, gall disgyblion sefyll papur *baccalauréat* mewn iaith ranbarthol neu dramor o'u dewis. Cafodd cyfanswm o 57 o ieithoedd eu hasesu, naill ai ar lafar neu'n ysgrifenedig, yn yr arholiad *baccalauréat* yn 2011.

Ieithoedd mewn addysg bellach ac addysg uwch

Addysg bellach (mewn tri AHG) (Ni cheir darpariaeth ar gyfer ieithoedd mewnfudwyr)

		Ystod o raglenni iaith	Cwricwlwm	Y lefel y mae angen ei chyrraedd	Arian ar gael gan y wladwriaeth
IRh/LI	Sefydliad A				
	Sefydliad B				
	Sefydliad C	cyfyngedig	cyffredinol	Dd/G	llawn
IT	Sefydliad A	amrywiaeth eang	cyffredinol	cenedlaethol	rhannol
	Sefydliad B	amrywiaeth eang	cyffredinol	wedi'i chysylltu â'r Fframwaith Cyfeirio Ewropeaidd Cyffredin	dim
	Sefydliad C	amrywiaeth eang	cydlynol a chdir	cenedlaethol	llawn

Addysg uwch (mewn tair prifysgol)

	Iaith/ieithoedd a ddefnyddir fel y cyfrwng addysgu	Ieithoedd ar wefan	Grwpiau targed ar gyfer cymorth ychwanegol yn yr iaith genedlaethol	Y lefel i'w chyrraedd o ran addysgu ieithoedd tramor	Recriwtio myfyrwyr nad ydynt yn fyfyrwyr o'r wlad	Symudedd ar gyfer myfyrwyr iaith	Symudedd ar gyfer myfyrwyr nad ydynt yn fyfyrwyr iaith
Prifysgol A	cenedlaethol a thramor	cenedlaethol a thramor	cyfyngedig	lefel genedlaethol neu sefydliad	rhyngwladol yn unig	gorfodol	gorfodol
Prifysgol B	cenedlaethol yn unig	cenedlaethol a thramor	cyfyngedig	wedi'i chysylltu â'r Fframwaith Cyfeirio Ewropeaidd Cyffredin	rhyngwladol yn unig	dewisol	dewisol
Prifysgol C	cenedlaethol yn unig	cenedlaethol yn unig	cyfyngedig	wedi'i chysylltu â'r Fframwaith Cyfeirio Ewropeaidd Cyffredin	rhyngwladol yn unig	dewisol	dewisol

O dan y gyfraith (gweler uchod), Ffrangeg yw iaith addysg uwch. Fodd bynnag, addysgir llawer o ieithoedd mewn prifysgolion (caiff 30 o ieithoedd eu haddysgu ym Mhrifysgol Aix-Marseille, er enghraifft), ac mae sefydliad addysg uwch arbenigol fel *Institut National des Langues et Civilisations Orientales (INALCO)* yn addysgu 93 o wahanol ieithoedd.

leithoedd yn y cyfryngau clyweledol a'r wasg

Cynrychiadau teledu nad ydynt yn yr iaith genedlaethol	Ffilmiau yn y sinema nad ydynt yn yr iaith genedlaethol	Rhaglenni mewn ieithoedd Rh/LI y tu allan i'r rhanbarth	Argaeledd iaith arwyddion ar y teledu
wedi'u trosleisio	wedi'u hisdeitlo	byth	yn rheolaidd

Ar lefel genedlaethol, darlledir rhaglenni lleol (radio a theledu) mewn ieithoedd rhanbarthol. Nid aeth yr arolwg i'r afael â mynediad i ieithoedd tramor ar deledu a dylid nodi yma bod y pecynnau cebl a lloeren amrywiol sydd ar gael yn ei gwneud yn bosibl i bobl gael gafael ar sianeli mewn nifer fawr o ieithoedd y byd. O ran y wasg, ceir rhai cyhoeddiadau mewn ieithoedd rhanbarthol ond ceir nifer fawr o gyhoeddiadau tramor. Mae effaith gyfunol twristiaeth a mewnfudo yn sicrhau bod amlieithrwydd allweddol yn parhau i fod yn bwysig yn Ffrainc. Mae ystod eang o gyfryngau print ar gael mewn ieithoedd tramor drwy gydol y flwyddyn ym Mharis a Marseille ac yn ystod y tymor twristiaeth yn Corte, gyda 13 o ieithoedd ym Marseille a 15 ym Mharis. Gellir cael gafael ar bron 80 o gyhoeddiadau mewn ieithoedd tramor yn y ddwy ddinas hyn.

leithoedd mewn gwasanaethau cyhoeddus a manau cyhoeddus

Strategaethau iaith sefydliadol ar lefel dinas

Nifer yr ieithoedd	Ar y wefan	Defnyddio cyfieithwyr	Cymwyseddau iaith mewn disgrifiadau swydd	Recriwtio siaradwyr ieithoedd	Hyfforddiant iaith a gynigir i gyflogeion	Cofnod o sgiliau iaith cyflogeion
>4	Marseille	Marseille			Paris	
3-4		Paris			Marseille	
1-2	Paris		Marseille	Marseille		

Cyfleusterau cyfathrebu

Pum prif gyfleuster cyfathrebu ar lafar	Pum prif gyfleuster cyfathrebu ysgrifenedig
Twristiaeth Trafnidiaeth Cyfreithiol Theatr Iechyd	Twristiaeth Trafnidiaeth Cyfreithiol =Addysg =Iechyd =Mewnfudo ac integreiddio =Theatr

Darperir gwasanaethau cyhoeddus yn Ffrangeg. Mae'r gyfraith ar ddefnyddio Ffrangeg yn nodi'n benodol bod yn rhaid i unigolion ddefnyddio Ffrangeg wrth gyflawni dyletswydd gyhoeddus, boed o dan gyfraith gyhoeddus neu breifat (Erthygl 5).

Yn y parth cyhoeddus, mae ieithoedd rhanbarthol yn ymddangos ar arwyddion stryd mewn rhai trefi ac ar arwyddion ffordd rhai priffyrdd wrth ymyl yr iaith Ffrangeg. Mae'r sefyllfa'n amrywio'n sylweddol o un rhanbarth i'r llall: mae Corseg yn amlwg iawn yng Nghorsica tra bod Llydaweg ac Ocsitaneg yn llai amlwg yn eu priod ranbarthau. Dylid ystyried y sefyllfa hon yng nghyd-destun yr hyn a nodwyd yn y cyflwyniad ynghylch cyfradd trosglwyddo isel yr ieithoedd hyn.

leithoedd mewn busnes (allan o 24 o gwmnïau)

	STRATEGAETHAU IAITH CYFFREDINOL							
	Argaeledd strategaeth iaith	Pwyslais ar sgiliau iaith wrth recriwtio	Darpariaeth symudedd rhyngwladol	Y defnydd o gyfieithwyr/dehonglwyr allanol	Cofnodi sgiliau iaith staff	Y defnydd o rwydweithiau ar gyfer hyfforddiant iaith	Y defnydd o raglenni/cyllid yr UE	Ymwybyddiaeth o raglenni/cyllid yr UE
Defnyddir yn eang	7	11	5	7	0	3	0	0

		STRATEGAETHAU IAITH MEWNOL						STRATEGAETHAU IAITH ALLANOL			
		Partneriaethau â'r sector addysg	Cynlluniau gwobrwyo/dyrchafu yn seiliedig ar sgiliau iaith	Darpariaeth hyfforddiant iaith	Defnyddir y Fframwaith Cyfeirio Ewropeaidd Cyffredin	Defnyddir iaith ar gyfer dogfennau yn y gweithle/mewnwyd	Defnyddir iaith ar gyfer meddalwedd, rhaglenni'r we	Defnyddir iaith ar gyfer adroddiadau blynyddol/busnes	Defnyddir iaith ar gyfer marchnata	Defnyddir iaith ar gyfer brandio/hunaniaeth	Defnyddir iaith ar gyfer gwefan
IC	defnyddir yn eang	3	1	4	1	23	21	23	23	23	22
Saesneg Busnes	defnyddir yn eang	4	2	12	3	12	11	7	11	12	12
leithoedd ychwanegol	defnyddir yn eang	2	1	5	1	1	0	1	0	2	1

O ran y defnydd o ieithoedd mewn cwmnïau, ieithoedd Ewropeaidd (Saesneg, Sbaeneg, Almaeneg, Iseldireg, Eidaleg, Portiwgaleg) yw'r ieithoedd mwyaf cyffredin. O ystyried yr amrywiol ffactorau, yr ieithoedd hyn yw'r rhai pwysicaf o'u cymharu ag ieithoedd eraill.

O ran contractau gwaith, mae cyfraith Ffrainc yn tynnu sylw at y flaenoriaeth y dylid ei rhoi i'r iaith Ffrangeg ac yn diogelu cyflogaion tramor ar yr un pryd. Yn wir, mae Erthygl 8 o'r ddeddf ar ddefnyddio Ffrangeg yn nodi, pan na ellir ond nodi swydd sydd o dan gontract gan ddefnyddio term tramor ac nad oes term cyfatebol ar ei gyfer yn Ffrangeg, rhaid i'r contract gynnwys esboniad o'r term tramor yn Ffrangeg. Os yw cyflogai yn dod o dramor a bod y contract yn ysgrifenedig, caiff cyfieithiad o'r contract ei ddrafftio, ar gais y cyflogai, yn ei iaith ei hun. Mae'r ddau destun yn gyfrwymol yn gyfreithiol. Os bydd anghysondebau rhwng y ddau destun, dim ond y testun a ddrafftiwyd yn iaith y cyflogai tramor y gellir ei ddefnyddio yn ei erbyn.

Canfyddiadau allweddol cyffredinol

Mae'n bwysig tanlinellu'r ffaith y gall realaeth a chymhlethdod sefyllfaoedd go iawn olygu y gall y drefn ddosbarthu sy'n gwahaniaethu rhwng 'ieithoedd mewnfudwyr' ac 'ieithoedd tramor' fod yn ddiffygiol. Er enghraifft, gall ieithoedd fel Eidaleg, Sbaeneg neu Bortiwgaleg gael eu haddysgu mewn ysgolion uwchradd fel ieithoedd 'tramor' ac, ar yr un pryd, gallant fod yn iaith gyntaf i rai mewnfudwyr. Dengys yr arolwg fod polisi iaith Ffrainc ym maes addysg yn agored yn ieithyddol (cynigir llawer o ieithoedd) ond ei fod hefyd, i'r un graddau, yn adlewyrchu'r agweddau ieithyddol ar globaleiddio (mae Saesneg yn dominyddu'n eang o gymharu ag Almaeneg a Sbaeneg). Fodd bynnag, dylid nodi bod y sefyllfa yn Corte yn rhoi'r argraff bod presenoldeb iaith ranbarthol, i bob golwg, yn arafu'r duedd tuag at amlieithrwydd.

Mentrau a chynlluniau peilot addawol

Yn rhyngwladol, trefnodd yr *Organisation Internationale de la Francophonie* fforwm byd-eang ar yr iaith Ffrangeg yng Nghwebéc yn 2012. Yn genedlaethol, trefnodd yr awdurdodau yn Ffrainc gonfensiwn ar amlieithrwydd mewn tiriogaethau tramor ym mis Rhagfyr 2011 a chyhoeddodd y Cyngor Cynghori Strategol ar Ieithoedd adroddiad o dan y teitl 'To learn a language is to learn about the world' ym mis Ionawr 2012. Mae prifysgolion, cynghorau dinas a chanolfannau hyfforddi yn Ffrainc yn gwneud cryn ymdrech i gynnig darpariaeth ar gyfer addysgu Ffrangeg fel iaith dramor gyda'r nod o integreiddio mewnfudwyr a lledaenu'r iaith Ffrangeg y tu allan i'r wlad. Bydd Prifysgol Strasbwrg yn mynd i'r afael â phrosiect sy'n ystyried y gyd-ddealltwriaeth rhwng ieithoedd cysylltiedig ar ddechrau'r flwyddyn academaidd 2012/13. Yn olaf, dewiswyd Marseille fel Prifddinas Diwylliant Ewrop ar gyfer 2013 a dylai hyn roi hwb i'w hymdrechion i ddod yn fwy amlieithog.

7 YR ALMAEN

Ingrid Gogolin, Joana Duarte, Patrick Grommes

Cyd-destun y wlad

Mae'r Almaen yn wladwriaeth ffederal a hynod ddatganoledig, yn enwedig o ran polisiau addysg, diwylliant a lles cymdeithasol. *Länder* (Taleithiau Ffederal) unigol sy'n gyfrifol am addysg yn benodol ac felly nid yw'n bosibl darparu gwybodaeth gyffredinol am yr Almaen yn ei chyfanrwydd. Dim ond tair o'r taleithiau hyn y mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio arnynt. Gan nad yw cyffredinoliad dibynadwy yn bosibl ar gyfer llawer o gwestiynau'r holiadur Ewrop Gyfoethog ei Hieithoedd, hyd yn oed o fewn talaith, mae'n well gennym gyflwyno ein hadroddiad heb ddata meintiol.

Yn yr adrannau canlynol, rydym yn cyflwyno darluniau o'r gwahanol barthau yr ymdrinnir â hwy o dan brosiect Ewrop Gyfoethog ei Hieithoedd. Ategir y darluniau hyn gan atebion i'r holiadur Ewrop Gyfoethog ei Hieithoedd. Ar gyfer parthau 1 i 4 (leithoedd mewn dogfennau swyddogol a chronfeydd data, addysg cyn cynradd, addysg gynradd ac addysg uwchradd), anfonwyd yr holiadur i arbenigwyr yn y priod weinyddiaethau yn Hambwrg, Gogledd Rhein-Westffalia, Sacsoni a Bafaria. Ar gyfer parth 5 (leithoedd mewn addysg bellach ac addysg uwch), gwnaethom gysylltu â thair ysgol a phrifysgol alwedigaethol yn ninasoedd Berlin, Flensburg a Munich. Ar gyfer Parthau 6 (leithoedd yn y cyfryngau clyweledol a'r wasg), 7 (leithoedd mewn gwasanaethau cyhoeddus a manau cyhoeddus) ac 8 (leithoedd mewn busnes), gwnaethom gysylltu â nifer cyfatebol o bobl yn ninasoedd Berlin, Flensburg a Munich. Cafodd y dinasoedd, yn ogystal â'r taleithiau, eu dewis ar gais Grŵp Llywio Ewrop Gyfoethog ei Hieithoedd.

leithoedd mewn dogfennau swyddogol a chronfeydd data

Ni chesglir unrhyw ddata ar amrywiaeth ieithyddol yn y wlad. O ran mudo, mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol (www.destatis.de/DE/) yn casglu data ar ddinasyddion tramor. Ers 2008, mae'r *Mikrozensus* – arolwg cynrychioliadol rheolaidd o gartrefi – yn casglu data ychwanegol ar 'fan geni'. Yn ddiweddar, mae data ar y cwestiwn 'pa iaith a siaredir fwyaf yn y cartref' wedi cael ei gasglu mewn nifer fach o daleithiau (e.e. yn Hambwrg, Gogledd Rhine-Westffalia) wrth i blant ddechrau yn yr ysgol.

leithoedd mewn addysg cyn cynradd

Mae nifer o raglenni arbennig ar waith mewn sefydliadau cyn cynradd. Nod llawer ohonynt yw integreiddio plant lleiafrifoedd sy'n fewnfwydwr cyn gynted â phosibl. Un o'r rhaglenni hyn oedd *Sag mal was*. Datblygwyd y rhaglen honno gan *Land Baden-Württemberg* (gweler www.sagmalwas-bw.de/) (*Baden-Württemberg-Stiftung*, 2011).

Mae ymgyrch fawr hefyd i godi ansawdd cymwysterau addysgwyr cyn cynradd gan nad oes gan y mwyafrif ohonynt raddau academiaidd. Nid yw'r mwyafrif ohonynt wedi cael hyfforddiant o'r ansawdd hwnnw ychwaith. Un o gonglfeini craidd y mentrau hyn yw sut i ddelio'n briodol ag amrywiaeth ieithyddol a diwylliannol mewn addysg elfennol (gweler, er enghraifft, www.weiterbildungsinitiative.de/; www.dji.de/sprachfoerderung).

Mewn 14 o'r 16 o daleithiau yn yr Almaen, mae gan blant â diffygion a nodwyd mewn Almaeneg yr hawl i gael cymorth arbennig cyn iddynt ddechrau ysgol gynradd. Nid yw'r mwyafrif helaeth o'r profion yn ystyried dwyieithrwydd nac amlieithrwydd fel ffactorau perthnasol o ran datblygiad iaith, ac nid ydynt yn ystyried ieithoedd ar wahân i Almaeneg ychwaith. Fodd bynnag, mae rhai profion yn cynnwys agwedd ar amlieithrwydd sy'n golygu y gellir cynnal profion dwyieithog mewn nifer o ieithoedd mewnfwydwr. Un enghraifft yw *HAVAS 5 Katze und Vogel*, prawf i blant pump a chwech oed, a datblygwyd ar gyfer yr Almaeneg a thua deg o ieithoedd mewnfwydwr (*Autorengruppe Bildungsberichterstattung*, 2012; Reich, Roth, a Neumann, 2007).

Darperir addysg cyn cynradd yn yr iaith Sorbeg mewn rhai ysgolion meithrin yn Sacsoni a Brandenburg, a darperir addysg cyn cynradd mewn Daneg mewn ysgolion meithrin o'r fath yn Schleswig-Holstein. Dim ond taleithiau Sacsoni, Brandenburg (Sorbeg) a Schleswig-Holstein sydd â mesurau ar gyfer diogelu lleiafrifoedd rhanbarthol yn eu cyfansoddiadau. Yn y taleithiau eraill, ni chaiff unrhyw ieithoedd lleiafrifol rhanbarthol eu cydnabod yn swyddogol.¹ Darperir addysg mewn nifer fawr o ieithoedd tramor ar wahân i Almaeneg (Saesneg a Ffrangeg gan amlaf) ac weithiau ceir darpariaeth mewn ieithoedd mewnfwydwr.

leithoedd mewn addysg gynradd

Almaeneg yw iaith yr addysg a ddarperir yn y rhan fwyaf o ysgolion cynradd yn yr Almaen, er nad oes unrhyw reoliad swyddogol sy'n nodi hyn. Mewn rhai taleithiau, ceir ysgolion cynradd unigol sydd wedi mabwysiadu modelau dwyieithog, fel y'u gelwir. Mae'r rhan fwyaf o'r ysgolion hyn – y mae rhai ohonynt yn galw eu hunain yn 'ysgolion rhyngwladol' – yn gweithio drwy gyfrwng y Saesneg neu un o'r ieithoedd tramor 'clasurol' pwysig eraill, fel Ffrangeg (gweler, er enghraifft, *Staatliche Europaschulen Berlin*). Mae rhai taleithiau wedi sefydlu modelau dwyieithog ar gyfer disgyblion o leiafrifoedd cynhenid (er enghraifft, Daneg yn Schleswig-Holstein a Sorbeg yn Sacsoni – gweler Gantefort a Roth 2011 i gael trosolwg). Yn yr un modd, mae ysgolion dwyieithog sy'n cynnig darpariaeth mewn ieithoedd lleiafrifol mewnfwydwr wedi'u sefydlu mewn rhai taleithiau. Mae Hambwrg yn un enghraifft o hyn. Yno, ceir chwe ysgol, y mae gan bob un ohonynt un gangen neu ddosbarth 'dwyieithog' lle y caiff disgyblion eu haddysgu mewn Eidaleg, Portiwgaleg, Sbaeneg a Thyrcceg (Duarte 2011).

¹ Mae a wnelo'r sylw hwn â'r system addysg gyfan.

Yn gyffredinol, Saesneg yw'r iaith dramor gyntaf. Fodd bynnag, yn ôl rheoliadau rhanbarthol, gall ieithoedd eraill gael eu cynnig hefyd. Mae ysgolion mewn rhanbarthau ffiniol, er enghraifft, yn cynnig Ffrangeg neu Iseldireg fel yr iaith dramor gyntaf. Mae rhai taleithiau yn cynnig yr iaith dramor gyntaf yn y dosbarth cyntaf, ond mae'r rhan fwyaf o blant yn dechrau yn y trydydd dosbarth, hynny yw, naw mlwydd oed. Lle y'i cynnigir, mae'r ddarpariaeth hon yn orfodol i bob plentyn, gan gynnwys plant mewnudwyr.

O ran yr addysg a ddarperir mewn ieithoedd lleiafrifol mewnudwyr, unwaith eto, ceir darluniau gwahanol iawn. Yn y 1970au, sefydlodd hen dalaith Bundesrepublik Deutschland systemau addysg mamiaith fel y'u gelwid o ran yr ieithoedd *Gastarbeiter* perthnasol, hynny yw, ieithoedd y gwledydd hynny yr oedd yr Almaen wedi ymrwmo i gontractau â hwy o ran anfon gweithwyr i'r wlad. Y prif ieithoedd oedd Eidaleg, Sbaeneg, Portiwgaleg, Groeg, 'Iwgoslafeg', Tyrceg ac, mewn achosion prin, Arabeg Moroco. Sefydlwyd y systemau hyn mewn ymateb i argymhellion y Gymuned Ewropeaidd.

Fodd bynnag, o ddiwedd y 1990au, ac yn enwedig ar ôl ailuno'r Almaen, pylodd y defnydd a wnaed o'r modelau hyn am sawl rheswm. Heddiw, nid oes unrhyw ddata dibynadwy ar gael ar nifer ac amrywiaeth yr ieithoedd mewnudwyr a addysgir naill ai o fewn y system ysgolion swyddogol neu'r tu allan iddi. Yn yr un modd, nid oes unrhyw ddata ar gael ychwaith ar nifer y rhai sy'n manteisio ar y rhaglenni hyn. Gallwn dybio, ar sail data a nodwyd, fod diddordeb sylweddol a chynyddol, yn ôl pob golwg, yn yr addysg a ddarperir drwy gyfrwng yr ieithoedd hyn (Fürstenau, Gogolin, ac Yagmur, 2003). Mae'r rhan fwyaf o'r ddarpariaethau yn seiliedig ar fentrau preifat ac nid ydynt yn gysylltiedig â'r system ysgolion swyddogol.

Mewn egwyddor, mae athrawon yn gymwys i addysgu Almaeneg yn ogystal ag ieithoedd tramor, gan fod yr addysg a ddarperir i athrawon Almaeneg yn ei gwneud yn ofynnol iddynt astudio dau bwnc. Caiff athrawon wedyn eu penodi yn ôl eu cymhwyster. Prin yw'r cymwysterau penodol sydd ar gael i athrawon ieithoedd mewnudwyr mewn prifysgolion yn yr Almaen. Addysgir nifer fach o athrawon Rwseg neu Dyrceg fel ieithoedd tramor, er enghraifft, ym Mhrifysgolion Hambwrg a Duisberg-Essen (Gogledd Rhein-Westffalia) a Tübingen (Baden-Württemberg). Rhaid i lefelau hyfedredd ar gyfer ieithoedd cenedlaethol ac ieithoedd tramor fodloni safonau cenedlaethol.

Ieithoedd mewn addysg uwchradd

Mae'r Almaen wedi sefydlu system eang o addysg ieithoedd tramor mewn ysgolion uwchradd. Mae'r mwyafrif helaeth o ddisgyblion yn dysgu o leiaf un iaith dramor, sef Saesneg. Mae Almaeneg yn orfodol ar bob lefel o addysg uwchradd ac mewn pob math o ysgol uwchradd. Mae hefyd yn rhan o bob arholiad gadael ysgol. Mae un iaith dramor yn orfodol ym mhob ysgol uwchradd hefyd, ac eithrio ysgolion anghenion arbennig. Dim ond at ddiben sefyll yr arholiad gadael ysgol uchaf (*Abitur*) y mae ail iaith dramor yn orfodol, ond fe'i cynnigir yn aml hefyd o ddosbarth chwech mewn ysgolion canolradd. Mae'r dewis a gynnigir o ran ieithoedd yn amrywio fesul rhanbarth, ac o ysgol i ysgol. Ffrangeg a Sbaeneg yw'r ieithoedd tramor mwyaf poblogaidd erbyn hyn. Fodd bynnag, mae ieithoedd fel Tsieinëeg neu Japanaeg yn denu nifer cynyddol o ddysgwyr, yn enwedig mewn ysgolion trefol. Mae ysgolion fwy neu lai'n rhydd i gynnig ystod o wahanol ieithoedd tramor yn eu cwricwla os ydynt yn dymuno hyrwyddo proffiliau neu raglenni penodol.

Mae Lladin yn parhau i fod yn ofynnol er mwyn astudio nifer o gyrsiau gradd (er enghraifft, doethuriaethau) yn y rhan fwyaf o brifysgolion. Felly, cynnigir Lladin (a Groeg glasurol i raddau llai) mewn llawer o ysgolion sy'n cynnig yr arholiad gadael ysgol uchaf, sef yr *Abitur*. Yn gyffredinol, caiff tua 15 o wahanol ieithoedd eu haddysgu fel ieithoedd tramor mewn ysgolion cyhoeddus yn yr Almaen.

Mae meysydd llafur ar gyfer Almaeneg fel Ail iaith ar gael yn y rhan fwyaf o daleithiau (gweler y trosolwg: www.bildungsserver.de/Lehrplaene-Richtlinien-3271.html). Yn gyffredinol, mae'r meysydd llafur hyn yn targedu disgyblion sydd newydd ddechrau yn y system. Eu nod yw helpu plant i drosglwyddo o 'ddosbarthiadau derbyn' cychwynnol i addysg brif ffrwd. Yn yr un modd ag a welir mewn ysgolion cynradd, cynnigir addysg ieithoedd treftadaeth mewn rhai ieithoedd mewnudwyr (er enghraifft, mewn 12 o ieithoedd yn Sacsoni), y tu allan i ysgolion prif ffrwd yn bennaf neu, ar y gorau, mewn cysylltiad â hwy. Mae'r rhan fwyaf o daleithiau wedi pennu ddarpariaethau ar gyfer cydnabod cyflawniad mewn dosbarthiadau ieithoedd treftadaeth, er enghraifft, drwy gynnwys y graddau a geir yn y priod ddosbarthiadau, waeth p'un a gânt eu cynnig fel rhan o'r system ysgolion prif ffrwd neu'r tu allan iddi, yn y dystysgrif ysgol swyddogol.

Ffenomen ddiweddar mewn ysgolion uwchradd yw'r cynnydd mewn rhaglenni dwyieithog gyda Saesneg. Mae'r rhaglenni hyn yn amrywio. Mae rhai ohonynt yn rhaglenni trochi, Saesneg yn unig; mae eraill yn defnyddio Almaeneg a Saesneg a gellir cyfeirio atynt fel rhaglenni Dysgu Integredig Cynnwys ac Iaith – CLIL. Yn y rhan fwyaf o achosion, caiff y rhaglenni hyn eu sefydlu yn y ffrwd uchaf mewn ysgolion uwchradd. At ei gilydd, mae addysg ieithoedd tramor wedi'i datblygu'n dda yn y system addysg yn yr Almaen a chynigir ystod eang o ieithoedd. Addysgu a dysgu Saesneg yw'r gofyniad sylfaenol bron a chynigir yr iaith i bob disgybl.

Yn ôl ein hysbyswyr, Almaeneg yw'r unig iaith a ddefnyddir ym maes addysg yn Bafaria. Mae ieithoedd tramor yn orfodol mewn ysgolion uwchradd is ac ysgolion uwchradd uwch. Mae'r union ddewis a gynnigir o ran ieithoedd yn amrywio o ysgol i ysgol a hefyd o ran y math o ysgol. Ymhlith yr ieithoedd tramor a gynnigir fel arfer mae Lladin, Rwseg, Ffrangeg, Eidaleg a Sbaeneg. Ni cheir unrhyw iaith ranbarthol neu leiafrifol yn Bafaria. Ni chaiff unrhyw ieithoedd mewnudwyr eu defnyddio fel cyfrwng addysgu. Mae athrawon Almaeneg ac ieithoedd tramor yn raddedigion a rhaid iddynt fodloni safonau hyfedredd clir.

Ni cheir unrhyw ieithoedd rhanbarthol neu leiafrifol yng Ngogledd Rhein-Westffalia. Defnyddir Almaeneg, yn ogystal ag ieithoedd tramor ac ieithoedd mewnudwyr, fel cyfrwng addysgu. Ceir cwricwlwm penodol ym mhob achos. Mae athrawon Almaeneg ac ieithoedd tramor yn gymwysedig a disgrifir lefel eu hyfedredd mewn safonau priodol.

Ieithoedd mewn addysg bellach ac addysg uwch

Addysg bellach (mewn tri sefydliad AHG)

Yn yr ysgolion a ymatebodd, roedd y ffocws ar sgiliau mewn Almaeneg a sgiliau mewn ieithoedd tramor (Saesneg, Ffrangeg a Sbaeneg) ac ni chynigiwyd unrhyw ieithoedd mewnudwyr. Cafwyd un canlyniad diddorol yn yr ysgol alwedigaethol yn Flensburg, lle'r oedd Daneg yn cael ei rhestru fel iaith dramor yn hytrach nag iaith leiafrifol gydnabyddedig.

Addysg uwch (mewn tair prifysgol)

Dosbarthwyd holiadur Ewrop Gyfoethog ei Hieithoedd i dair prifysgol, sef Prifysgol Ludwig Maximilians ym Munich, Prifysgol Flensburg a Phrifysgol Rhydd Berlin. Ym mhob un ohonynt, cafodd rywfaint o'r addysg ei darparu mewn Almaeneg ac ieithoedd tramor. Nid oedd cwestiwn ynglŷn â'r iaith addysgu yn yr holiadur ond Saesneg yw'r iaith honno fwy na thebyg. Mae'r tair prifysgol yn cynnig gwefannau a gwybodaeth am ofynion derbyn mewn Almaeneg ac ieithoedd tramor. Mae Prifysgol Flensburg yn cyfeirio at y defnydd o 'ieithoedd rhanbarthol a lleiafrifol'; yn ymarferol, mae'n debygol mai cyfeiriad at Ddaneg, iaith leiafrifol ranbarthol yr ardal, yw hwn. Ymhlith yr ieithoedd a gynigir yn y prifysgolion a arolygwyd mae Arabeg, Basgeg, Tsieinëeg, Saesneg, Ffrangeg, Eidaleg, Iseldireg, Perseg, Pwyleg, Portiwgaleg, Rwseg, Sbaeneg, Tyrceg a Daneg.

Ieithoedd yn y cyfryngau clyweledol a'r wasg

Tan ddiwedd y 1990au, roedd llawer o orsafoedd radio a theledu cyhoeddus a phreifat yn darlledu rhaglenni mewn tafodieithoedd rhanbarthol, ieithoedd lleiafrifol cynhenid neu ieithoedd mewnfudwyr. Yn aml, cyfeiriwyd at yr olaf o'r rhain fel rhaglenni (neu hyd yn oed orsafoedd) amlddiwylliannol. Mae'r rhaglenni radio a theledu hyn fwy neu lai wedi diflannu o dan gyfraith gyhoeddus.

Un orsaf 'amliath' sylweddol yw'r orsaf deledu gydweithredol Ffrengig-Almaeneg ARTE. Mae ARTE yn cynnig ail raglen sain – mewn Ffrangeg neu Almaeneg – ar gyfer y rhan fwyaf o'i rhaglenni. Ymhlith yr opsiynau 'amliath' eraill a gynigir fwyaf mae isdeitlau, mewn Almaeneg, ar gyfer y sawl sydd â nam ar eu clyw a sylwebaeth sain ar gyfer y sawl sydd â nam ar eu golwg. Dim ond ar gyfer nifer fach o raglenni y cynigir iaith arwyddion; nid oes unrhyw reoliad sy'n ei gwneud yn ofynnol i gynnig y ddarpariaeth hon. Marchnad uniaith yw'r farchnad teledu a radio breifat ar y cyfan. Fodd bynnag, mae teledu cebl a lloeren a radio yn galluogi cynulleidfaoedd i gael mynediad i lawer o orsafoedd tramor, gan gynnwys llawer o'r DU a Ffrainc. Fodd bynnag, ceir nifer fawr o raglenni mewn ieithoedd mewnfudwyr hefyd, er enghraifft, o Rwsia a Thwrci.

Un arall o nodweddion teledu Almaeneg, yn ogystal â'r farchnad ffilmiau ehangach, yw'r arfer o drosleisio ffilmiau iaith dramor. Caiff mwy neu lai bob ffilm a chyfres deledu dramor ei throslaisio. Dim ond mewn achosion eithriadol y gellir cael gafael ar yr iaith wreiddiol drwy ail raglen sain. Yn yr un modd, dim ond fersiynau wedi'u trosleisio o ffilmiau iaith dramor y mae'r rhan fwyaf o sinemâu prif ffrwd yn eu dangos. Caiff fersiynau iaith wreiddiol a fersiynau wedi'u hisdeitlo eu cyfyngu fwy neu lai i sinemâu bach yn sgil datblygiad 'diwydiant trosleisio' sylweddol a diwydiant ffilmiau llwyrchus.

Ceir llawer mwy o deitlau papur newydd a llawer mwy o ddewis o ran iaith y papurau hynny yn Berlin o gymharu â Flensburg. Nid yw hynny'n syndod o ystyried maint y ddwy ddinas a chymeriad rhyngwladol dinas fel Berlin. Papurau newydd mewn ieithoedd Ewropeaidd a welir fwyaf yn Berlin, ond ceir rhai hefyd mewn Tsieinëeg, Japanaeg, Arabeg ac ieithoedd Affricanaidd eraill.

Yn ôl y disgwyl, nid yw ieithoedd lleiafrifol cynhenid yn chwarae rôl sylweddol yn y cyfryngau yn yr Almaen, ac eithrio yn y rhanbarthau lle caiff yr ieithoedd hynny eu cydnabod.

Mae cyfryngau ieithoedd mewnfudwyr yn gyffredin. Gellir dod o hyd i gyfryngau yn yr ieithoedd tramor sy'n cynrychioli prif bartneriaid gwleidyddol ac economaidd yr Almaen ym mhob rhanbarth. Un o'r datblygiadau diweddar yn y farchnad papurau newydd yw 'argraffu ar alw'. Mae'r dechnoleg hon yn golygu y gellir cynnig cyfrwng argraffedig mewn unrhyw iaith, hyd yn oed os mai dim ond un cais a wneir.

Ieithoedd mewn gwasanaethau cyhoeddus a manau cyhoeddus

Strategaethau iaith sefydliadol ar lefel dinas

Iaith swyddogol yr Almaen yw Almaeneg ond nid oes unrhyw gyfundrefniad o ran 'iaith genedlaethol'. Mae'n rhaid i unrhyw ohebiaeth sy'n gyfreithiol gyfrwymol fod yn yr iaith Almaeneg neu fel arall tybir nad yw'n bodoli. Yn achos anghydfodau cyfreithiol, mae gan ddiffynyddion yr hawl i gael help yn eu mamiaith gan ddehonglwr.

Fodd bynnag, yn ymarferol, ymddengys fod dinasoedd mwy o faint yn yr Almaen yn cymryd agwedd bragmataidd ac mae dinasoedd yn anelu at gyfleu cymaint o wybodaeth â phosibl i'r sawl sy'n siarad ieithoedd ar wahân i Almaeneg, yn enwedig o ran lles cymdeithasol a chynhwysiant cymdeithasol, diogelwch, gwasanaethau mewnfudo a thwristiaeth. Nid yw'n glir o'r atebion i'r holiadur i ba raddau y mae hyn yn cynrychioli strategaeth gydlynol.

Noda ymatebwyr o'r tair dinas – Berlin, Flensburg a Munich – fod strategaeth hyrwyddo amlieithrwydd yn cael ei harfer yn achlysurol o leiaf. Mae gan yr iaith Ddaneg statws arbennig fel iaith leiafrifol swyddogol yn Schleswig-Holstein. Cefnogir Saesneg, fel ym mhobman yn yr Almaen, at ddibenion busnes a thu hwnt. Mae'r ymatebydd o Munich yn rhoi enghreifftiau manwl iawn o'r gefnogaeth a roddir i amlieithrwydd.

Yn y paragraffau canlynol, nodir rhai o'r atebion a gafwyd ar gyfer Berlin a Munich. Nid oes gennym unrhyw wybodaeth bellach ar gyfer Flensburg.

Gofynnodd parth 7A am strategaethau iaith sefydliadol ar lefel dinas neu gyngor. Nododd y person cyswilt yn Berlin ei bod hi'n anodd ateb y cwestiynau hyn ar lefel, neu yn achos Berlin, ar lefel gwladwriaeth.² Yma, unwaith eto, mae datganoli yn elfen gyffredinol o weinyddiaeth a gwleidyddiaeth: mae awdurdodau rhanbarthol yn rhydd i bennu eu polisiau eu hunain. Y prif bynciau sy'n galw am ohebiaeth amliath o safbwynt yr ymatebydd yw diogelwch, atal troseddau a damweiniau a gwybodaeth gyffredinol. Er enghraifft, dosberthir taflenni ar ddiogelwch y cartref mewn Arabeg a Thyrcceg mewn ardaloedd lle ceir nifer fawr o fewnfudwyr.

Hefyd, mae rhannau o wefan cyngor y ddinas a gwybodaeth arall ar gael yn Saesneg, Ffrangeg, Eidaleg, Tsieinëeg, Pwyleg, Rwseg, Tyrceg, Serbeg, Croateg a Sbaeneg. Yn y rhan fwyaf o achosion eraill, defnyddir cymwyseddau gweision sifil neu gyflogieion eraill y wladwriaeth mewn gwahanol ieithoedd ar sail ad hoc. Mae hyn yn arwain at sefyllfa lle mae ystod eang o

²Mae gan y tair dinas Almaeneg Berlin, Bremen a Hambwrg statws gwleidyddol *Bundesländer* (Taleithiau Ffederal).

ieithoedd ar gael mewn rhai achosion ac Almaeneg a Saesneg yn unig mewn achosion eraill, yn dibynnu ar bwy sy'n gweithio ar ba sifft. Defnyddir cyfieithwyr neu ddehonglwyd allanol cymwys at ddibenion cyfreithiol ac mewn erlyniadau troseddol. Ymddengys mai dim ond yr heddlu sy'n gofyn am sgiliau mewn ieithoedd heblaw Almaeneg fel cymhwysedd ychwanegol. Caiff y sgiliau hyn eu gwobrwyo â chredydau ychwanegol wrth wneud cais. Mae hyn yn gymwys i ieithoedd allweddol fel Arabeg, Saesneg, Tsieinëeg, Ffrangeg, Eidaleg, Croateg, a Serbeg Pwyleg, Rwseg, Sbaeneg, Tyrceg a Fietnameg.

Mae'r awdurdodau yn ninas Munich yn rhoi darlun mwy amrywiol. Fodd bynnag, effaith strategaeth gyfathrebu ymatebydd penodol yw hon fwy na thebyg. Ym Munich, er enghraifft, nodir bod yr adran lles cymdeithasol yn cynnig gwasanaethau dehongli mewn Albaneg, Amhareg, Arabeg, iaith Azerbaijan, Bosniëg/Croateg/Serbeg, Bwlgareg, Tsieinëeg, Tsieceg, Dari, Saesneg, Ffilipino, Ffrangeg, Groeg, Hebraeg, Hindi, Eidaleg, Kikongo, Kiswahili, Cwrdeg, Laoseg, iaith Macedonia, Pashto, Pwyleg, Portiwgaleg, Pwnjabeg, Rwmaneg, Rwseg, Slofeneg, Somalieg, Sbaeneg, Tamil, Tajik, Thai, Tyrceg, Uyghur, Wcreineg, Wrddw a Fietnameg. Mae'r awdurdod addysg a chwaraeon yn cynnig cyngor ar bynciau addysgol mewn llawer o'r ieithoedd hyn hefyd. Mae Dinas Munich yn defnyddio Saesneg, Ffrangeg, Eidaleg, Arabeg, Tsieinëeg, Rwseg, Japanaeg, Sbaeneg a Phortiwgaleg ar y we. Mae gweinyddiaeth y Ddinas yn cynnig gwasanaethau cyfieithu a dehongli yn Saesneg, Ffrangeg, Tyrceg, Bosniëg/Croateg/Serbeg. Mae cymorth allanol ar gael hefyd ar gyfer 40 o ieithoedd eraill. Mae Dinas Munich hefyd yn cydnabod amlieithrwydd drwy ganiatáu i ymgeiswyr am swyddi wrthbwysu 'diffygion' o ran cymhwysedd yn yr iaith Almaeneg â chymhwyseddau mewn ieithoedd eraill. Hefyd, gall cyrsiau iaith a ddarperir ar gyfer staff awdurdodau'r ddinas gael eu noddi'n rhannol os yw'r iaith yn debygol o fod yn ddefnyddiol iddynt yn eu swydd. Fodd bynnag, fel y gwelir yn Berlin, ni chaiff sgiliau iaith cyflogeion eu holrhain ym Munich.

Mae parth 7B yn gofyn am gyfleusterau cyfathrebu ar lafar yn y ddinas. Prin fu'r ymatebion a gafwyd yn yr adran hon, o bosibl oherwydd y modd y cafodd y cwestiynau eu fformiwleiddio neu'r ffaith bod rhai gwasanaethau, er enghraifft trafniadaeth a gwybodaeth i dwristiaid, yn cael eu darparu gan gwmnïau preifat. Rhoddwyd rhywfaint o wybodaeth fanwl am y gwasanaethau brys yn Berlin. Yn dibynnu ar bwy sydd ar ddyletswydd, siaredir Tyrceg, Rwseg, Pwyleg, Sbaeneg, Eidaleg, Iseldireg, Portiwgaleg, Ffrangeg a Saesneg i wahanol raddau ond yn annibynnol ar iaith gyntaf yr unigolyn. Yn aml, darperir gwasanaethau mewnffudo ac integreiddio yn Saesneg. Mewn rhai achosion, darperir y gwasanaethau hyn mewn Ffrangeg, Tyrceg, Rwseg a Sbaeneg hefyd. Defnyddir cymorth allanol ar gyfer ieithoedd fel Arabeg, Fietnameg, Rwmaneg a Bwlgareg. Mae theatrau yn cynnig gwybodaeth mewn Almaeneg a Saesneg yn bennaf. Yr eithriad i hyn yw'r Theatr Rwseg ac un theatr ymylol, yr *ufa-Fabrik*, lle cynigir gwybodaeth yn Saesneg, Sbaeneg a Ffrangeg. Nid yw'r wybodaeth sydd gennym ar gyfer Munich mor fanwl.

Mae llawer o ddinasoedd yn yr Almaen naill ai wedi sefydlu Cyngor Dinasyddion Tramor (*Ausländerbeirat*) neu sefydliadau tebyg sy'n delio â buddiannau mewnffudwyr ac yn eu helpu i integreiddio.

Yna, gofynnodd parth 7C am gyfleusterau cyfathrebu ysgrifenedig. Nid yw'r atebion a roddwyd yma yn cynnig unrhyw ddealltwriaeth ychwanegol o gymharu â'r ddau barth blaenorol. Yr argraff

gyffredinol yw bod y ddwy ddinas fawr yn cydnabod amrywiaeth ieithyddol ond y gallai eu hymateb iddi fod yn fwy cydlynol.

Ieithoedd mewn busnes³

Mae'r drafodaeth gyhoeddus ynghylch ieithoedd mewn busnesau yn yr Almaen yn canolbwyntio ar ddau fater. Y cyntaf yw cymhwyseddau yn yr iaith Almaeneg. Mae sefydliadau cyflogwyr – ymhlith eraill – yn cwyno nad oes gan y sawl sy'n gadael ysgol ddigon o sgiliau mewn Almaeneg i ddechrau prentisiaeth. Er bod y gŵyn hon weithiau'n cael ei chyfeirio at y rheini o gefndir mewnffudo sy'n gadael ysgol, mae'n fwy cyffredinol fel arfer ac yn cyfeirio at y bobl ifanc â thystysgrif gadael ysgol o'r ffyrddau isaf. Yr ail fater yw bod nifer o astudiaethau pwysig yn dangos nad yw meistrolaeth o'r Saesneg a'r Almaeneg yn ddigon mwyach. Mae cyflogwyr bellach yn disgwyl i'w cyflogeion feistrolï ieithoedd ychwanegol (Meyer ac Apfelbaum, 2010).

O'r 15 o gwmnïau y gwnaethom siarad â hwy, gellir dod i'r casgliad bod strategaethau amliaith yn chwarae rôl yn y cwmnïau, ar yr amod bod angen defnyddio ieithoedd eraill i gyfathrebu'n fewnol yn achos cwmnïau rhyngwladol neu gyfathrebu â chwsmeriaid, cleientiaid a phartneriaid busnes. Fodd bynnag, mewn llawer o achosion, ni fyddai'r strategaethau hyn yn cael eu galw'n 'strategaethau amliaith'. Yn hytrach, byddent yn rhan o gysyniadau mwy cyffredinol ar gyfer delio ag amrywiaeth.

O ran arferion rheoli iaith penodol, mae bron pob un (13 allan o 15) yn defnyddio Almaeneg mewn dogfennau mewnol. Mae dau gwmni yn defnyddio Saesneg i raddau helaeth tra bod pum cwmni yn defnyddio Saesneg yn achlysurol. Nid yw'r cwmnïau eraill yn defnyddio Saesneg o gwbl. Dim ond tri cwmni sy'n defnyddio ieithoedd eraill, sef: Daneg (banc); Slofeneg, Rwseg, Pwyleg, Eidaleg, Hwngareg, Tsieceg a Bwlgareg (cwmni adeiladu – gellid tybio ei fod yn defnyddio'r ieithoedd a siaredir yn yr ardal y mae'n gweithredu ynddi a'r ieithoedd a siaredir yng ngwledydd genedigol ei gyflogeion); a Saesneg a Ffrangeg (gwesty). Ceir darlun tebyg iawn o ran iaith meddalwedd fewnol, iaith gweithgareddau marchnata ac iaith gwefannau. Ceir un eithriad – banc sy'n nodi ei fod yn defnyddio Almaeneg a Daneg ar gyfer pob un o'r gweithgareddau hyn. Nodwyd hefyd fod un cwmni adeiladu wedi cynnal ymgyrch farchnata mewn Daneg ond mae'r ymgyrch honno bellach wedi cael ei dirwyn i ben. Yn ôl yr ymateb a roddwyd, mae un o'r gwestai yn darparu gwybodaeth ar ei wefan yn Saesneg, Ffrangeg, 'iaith Belg', Sbaeneg, Eidaleg, Iseldireg, 'Awstreg', Portiwgaleg, 'Almaeneg y Swistir' a 'Brasilleg'. Dim ond dau gwmni sy'n defnyddio cyfieithwyr neu ddehonglwyd allanol i raddau helaeth. Defnyddir cyfieithwyr neu ddehonglwyd allanol gan bedwar cwmni yn achlysurol. Dim ond un cwmni, sef banc, sy'n cadw cofnod rheolaidd o sgiliau Almaeneg a Saesneg ei gyflogeion.

Nid yw'r atebion anecdotaidd hyn yn caniatáu unrhyw gyffredinolï. Gellir eu dehongli fel arwydd o ddiffyg diddordeb mewn rheoli ieithoedd. Dim ond pan fo gofynion busnesau yn golygu bod angen iddynt gyfathrebu mewn ieithoedd ar wahân i Almaeneg y daw hyn yn berthnasol. Gellid gofyn pa ddisgwyliad arall y gallai fod gan bobl o'r sector busnes. Gallai Meyer (2009) ddangos bod cwmnïau Almaeneg yn mynd ati i fuddsoddi mewn amrywiaeth ieithyddol ymhlith eu staff os caiff hyn ei gyfiawnhau gan ofynion rheoli amrywiaeth ar y naill law, a'u maes busnes ar y llaw arall.

³Prin oedd yr atebion a gafwyd i'r holiadur gan fod llawer o gwmnïau yn amharod i ddatgelu eu polisiau mewnol.

Casgliadau allweddol cyffredinol

Yn yr Almaen, ceir amwysedd tuag at amrywiaeth ieithyddol. Ar y naill law, mae llawer o fentrau ac ymgyrchoedd cyhoeddus yn cyfleu neges 'Almaeneg yn unig'. Mae un o ymgyrchoedd diweddar *Deutschlandstiftung* (a gefnogir gan y Gweinidog Maria Böhmer o'r Comisari Cenedlaethol ar gyfer Integreiddio Mudwyr a Cheiswyr Lloches) yn un enghraifft o'r math hwn o strategaeth. Y neges a gyfleir yw mai siarad Almaeneg yw'r ffordd orau (os nad yr unig ffordd) o integreiddio (www.ich-spreche-deutsch.de/de/) Ar y llaw arall, ac o leiaf ar sail rethregol, ceir datganiadau clir sy'n cefnogi ac yn cydnabod amlieithrwydd. Un enghraifft o hyn yw'r ymgyrch 'Amlieithrwydd – ieithoedd heb ffiniau' a sefydlwyd gan Sefydliad Goethe (gweler www.goethe.de/ges/spa/prj/sog/deindex.htm). Hyd yn oed ar y lefel wleidyddol uchaf, caiff amlieithrwydd ei gydnabod yn aml. Ceir enghraifft o hyn yn y 'Cynllun Integreiddio Cenedlaethol', sef fframwaith gwleidyddol a ddatblygwyd ar ran y llywodraeth ganolog (Bundesregierung, 2007). Yn yr adran sy'n ymdrin ag addysg, ceir datganiad sy'n nodi y bydd Gweinidogion Materion Diwylliannol y taleithiau yn buddsoddi mewn strategaethau sy'n hyrwyddo gwell meistrolaeth o'r Almaeneg ymhlith disgyblion. Fodd bynnag, ar wahân i'r gefnogaeth a roddir i ddysgu Almaeneg, mae'r Gweinidogion yn datgan bod y taleithiau yn cydnabod pwysigrwydd a pherthnasedd amlieithrwydd i bob disgybl. Mae hyn yn cynnwys ieithoedd treftadaeth neu ieithoedd teuluol plant mewnudwyr. Nodir mesurau priodol sy'n cefnogi'r broses o bennu amlieithrwydd fel egwyddor gyffredinol mewn ysgolion (Bundesregierung, 2007, tud. 25 f, ein cyfieithiad). Mae'r 'polisiau a'r arferion ym maes amlieithrwydd' a nodir gan brosiect Ewrop Gyfoethog ei Hieithoedd yn rhoi darlun amhendant a chyfnewidiol iawn o'r sefyllfa ac rydym yn argyhoeddedig nad yn yr Almaen yn unig y gwelir sefyllfa o'r fath. Yn hytrach, tybiwn ei fod yn rhoi braslun priodol o gymdeithasau Ewropeaidd yn gyffredinol.

Mentrau a chynlluniau peilot addawol

Er nad oes strategaeth gyffredinol ar gyfer delio ag amlieithrwydd yn yr Almaen, cafwyd mwy o gydnabyddiaeth swyddogol ohono yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Gellir nodi llawer o fentrau addawol; ond, mewn system ddatganoledig fel y gwelir yn yr Almaen, mae'n debygol na chânt eu darganfod ar sail offerynnau Ewrop Gyfoethog ei Hieithoedd. Mae'r mentrau'n amrywio o fodolau addysg ddwyieithog i fodolau amrywiol o arloesedd mewn ysgolion sy'n ceisio sicrhau bod amlieithrwydd yn un o nodweddion cyffredinol addysg ieithoedd (gweler prosiectau '*Durchgängige Sprachbildung/*'*Addysg Ieithoedd Barhaus*' – www.foermig.uni-hamburg.de). Mae nifer o brosiectau yn hyrwyddo amrywiaeth ieithyddol fel un o nodweddion cyffredinol addysg blynyddoedd cynnar (Tracy, Weber, a Münch, 2006). Gwelir y mentrau hyn yn y sector preifat yn ogystal ag ysgolion elfennol cyhoeddus. Maent yn cynnwys modelau sy'n ymdrin ag ieithoedd tramor 'clasurol', sef Saesneg neu Ffrangeg, a modelau sy'n mynd i'r afael ag ieithoedd mewnudwyr. Mae pyrth gwybodaeth ar gael i rieni yn ogystal ag athrawon neu arbenigwyr â diddordeb (gweler, er enghraifft, www.fmk-online.de/ o ran ieithoedd tramor; neu byrth rhanbarthol fel *Bilingual erziehen* laddysgu'n ddwyieithogl, www.bilingual-erziehen.de sy'n cyfeirio at bob model, waeth pa ieithoedd yr eir i'r afael â hwy). Fel y gwelir yn yr enghraifft olaf, defnyddir y termau 'dwyieithog' ac 'amlieithog' yn aml fel pe baent yn gyfystyron, a hynny gan fentrau preifat, y cyhoedd a gwleidyddion ac mewn gwaith ymchwil.

Enghraifft arall yw'r strategaethau rheoli amrywiaeth niferus a weithredir gan gwmnïau. Fel arfer, mewn cwmnïau mawr yn hytrach na mentrau bach a chanolig y gwelir strategaethau o'r fath. Fodd bynnag, mae'r mentrau hyn hefyd yn datblygu ffyrdd o ddelio ag amrywiaeth ymhlith eu staff neu eu cleientiaid. Mewn cwmnïau moduro mawr, er enghraifft, mae grwpiau adnoddau iaith yn gofalu am aelodau o staff sy'n fewnfudwyr. Mae cymorth ar gyfer galluoedd mewn ieithoedd treftadaeth yn un agwedd ar weithgareddau o'r fath.

I gloi: er na welir llawer o fentrau sy'n hyrwyddo amlieithrwydd ar lefel rheolau a rheoliadau cyhoeddus, ceir llawer o fentrau ar lefel ranbarthol a lleol. Mewn geiriau eraill, po agosaf yr edrychwn ar arferion, po fwyaf y canfyddiadau y gallwn eu llunio am brofiadau amlieithrwydd.

Cyfeiriadau

Autorengruppe Bildungsberichterstattung (Gol.). (2012). *Bildung in Deutschland 2012. Ein indikatorengestützter Bericht mit einer Analyse zu Perspektiven des Bildungswesens im demografischen Wandel. Im Auftrag der Ständigen Konferenz der Kultusminister der Länder in der Bundesrepublik Deutschland und des Bundesministeriums für Bildung und Forschung*. Bielefeld: W. Bertelsmann.

Baden-Württemberg-Stiftung (Gol.). (2011). *Sag' mal was – Sprachförderung für Vorschulkinder. Zur Evaluation des Programms der Baden-Württemberg-Stiftung*. Tübingen: Narr Francke Attempto Verlag.

Bundesregierung. (2007). *Der Nationale Integrationsplan. Neue Wege, neue Chancen*. Berlin: Adalwyd o www.bmj.bund.de/files/-/2321/181007_Nationaler%20Integrationsplan.pdf.

Duarte, J. (2011). Bilingual language proficiency. A comparative study. Münster u.a.: Waxmann.

Fürstenau, S., Gogolin, I., ac Yagmur, K. (Gol.). (2003). *Mehrsprachigkeit in Hamburg. Ergebnisse einer Sprachenerhebung an den Grundschulen in Hamburg*. Münster u.a.: Waxmann.

Gantefort, Christoph a Roth, Hans-Joachim (2011): *Sorbisch-Deutsche Schulen in Sachsen. Ergebnisse zur Sprachentwicklung in der Sekundarstufe I. Hamburg and Köln: Prifysgol Cologne*. Ar gael o dan: <http://search.sachsen.com/web/>

Meyer, B. (2009). Nutzung der Mehrsprachigkeit von Menschen mit Migrationshintergrund. Berufsfelder mit besonderem Potenzial. Nürnberg: Bundesamt für Migration und Flüchtlinge.

Meyer, B., ac Apfelbaum, B. (Gol.). (2010). *Multilingualism at Work. From policies to practices in public, medical and business settings* (Cyf. 9). Amsterdam: John Benjamins.

Reich, H. H., Roth, H.-J., a Neumann, U. (Gol.). (2007). *Sprachdiagnostik im Lernprozess. Verfahren zur Analyse von Sprachständen im Kontext von Zweisprachigkeit*. Münster: Waxmann.

Tracy, R., Weber, A., a Münch, A. (2006). *Frühe Mehrsprachigkeit. Mythen – Risiken – Chancen*. Stuttgart: Bande-Württemberg-Stiftung.

8 GWLAD GROEG

Sara Hannam ac Evagelia Papathanasiou

Cyd-destun y wlad

Mae gan Wlad Groeg boblogaeth o tua 11,320,000 (Eurostat, 2011) ac mae yn rhan ddeheuol Gorynys y Balcanau. Groeg yw'r iaith genedlaethol ac fe'i siaredir gan y rhan fwyaf o'r boblogaeth. Siaredir amrywiaeth o ieithoedd eraill hefyd sy'n cynrychioli hen gymunedau o fewnfudwyr a mewnfudwyr mwy diweddar o'r rhan fwyaf o'r gwledydd Balcanaidd a Thwrci, Tsieina, Pacistan, Sri Lanca, Affganistan, Ynysoedd y Philipinau a gwahanol wledydd yn Affrica (Hannam a Papathanasiou, 2011). Mae Tyrceg hefyd yn iaith ranbarthol. Ar yr adeg y casglwyd y data, roedd Gwlad Groeg yn wynebu cwmp economaidd ac mae'n dal i fod mewn sefyllfa fregus o ran y strwythurau Ewropeaidd sy'n effeithio ar bob lefel o addysg a gwasanaethau cyhoeddus.

Ieithoedd mewn dogfennau swyddogol a chronfeydd data

Ymdrinnir â'r iaith genedlaethol ac ieithoedd tramor mewn deddfwriaeth iaith a/neu ddogfennau polisi iaith. (Cyd-)ariennir y broses o ddysgu ac addysgu'r iaith genedlaethol ar gyfer plant a/neu oedolion o Wlad Groeg sy'n byw dramor mewn gwledydd ledled Ewrop, yn bennaf oll yn yr Almaen, yn y Deyrnas Unedig ac yn Ffrainc, a hefyd yn UDA, Awstralia a rhai gwledydd yn Affrica. Nid yw Gwlad Groeg wedi cadarnhau/llofnodi'r *Siarter Ewropeaidd ar gyfer Ieithoedd Rhanbarthol neu Ieithoedd Lleiafrifol*. Mae Gwlad Groeg yn un o blith nifer o wledydd yn yr UE sy'n methu â llofnodi oherwydd cyfyngiadau yng Nghyfansoddiad y wlad. Byth oddi ar *Gytundeb Lausanne* (24 Gorffennaf 1923) a arweiniodd at yr hyn y cyfeirir ato fel 'cyfnewid poblogaethau', nid yw Gwlad Groeg na Thwrci yn cydnabod bodolaeth lleiafrifoedd ethnig ar eu priod diriogaethau. Dim ond lleiafrifoedd crefyddol a gydnabyddir gan y ddwy wlad. Yng Ngwlad Groeg, mae hyn yn arbennig o wir am y gymuned Dyrcaidd yn nhalaith Gogledd-ddwyrainol Thrace, y cyfeirir ati fel lleiafrif Mwslimaidd.

Nid oes unrhyw ddulliau swyddogol o gasglu data cenedlaethol/rhanbarthol ar amrywiaeth ieithyddol yng Ngwlad Groeg.

Mae ieithoedd rhanbarthol, ieithoedd lleiafrifol ac ieithoedd mewnfudwyr yn bwnc gwleidyddol sensitif (Kiliari, 2009) gan ei fod yn cyffwrdd â'r trafodaethau ynghylch y llif mewnfudo a'r broses o reoli mewnfudo. Er bod ysgolion sy'n cynnig addysg mewn Tyrceg yn ardal Thracia, cyflwynir y ddarpariaeth hon ar gyfer y gymuned Fwslimaidd leiafrifol ac ni cheir unrhyw gyfeiriad amlwg at iaith y gymuned hon mewn dogfen bolisi. Mae'n bosibl y caiff polisi iaith ar ieithoedd tramor ei ddatblygu'n fuan ac mae arolwg wedi'i sefydlu gan y Weinyddiaeth Addysg i fynd i'r afael â'r angen i hyrwyddo ieithoedd treftadaeth myfyrwyr tramor a myfyrwyr dychweledig (www.diapolis.auth.gr, 2011).

IC=iaith/leithoedd Cenedlaethol
IT=leithoedd Tramor
IRh/LI=leithoedd Rhanbarthol neu Leiafrifol
IM=leithoedd Mewnudwyr

leithoedd mewn addysg cyn cynradd (Ni cheir darpariaeth)

leithoedd mewn addysg gynradd (Ni cheir darpariaeth ar gyfer leithoedd mewnudwyr)

Trefniadaeth

	Cwricwlwm	Cymorth ychwanegol i newydd-ddyfodiaid	Profion diagnostig wrth ddechrau	Monitro sgiliau iaith
Cymorth IC	cydlynol a chlir	cyn prif ffrwd	absennol	cenedlaethol safonol

	Grwpiau targed	Cwricwlwm	CLIL	Dechrau addysg iaith	Amserlennu	Gofynion o ran isafswm maint y grŵp	Monitro sgiliau iaith	Y lefel y mae angen ei chyrraedd	Arian ar gael gan y wladwriaeth
IRh/LI	siaradwyr brodorol yn unig	cyffredinol	eang	o flwyddyn 1	yn ystod oriau ysgol	dim	cenedlaethol safonol	heb ei nodi	llawn
IT	pawb	cydlynol a chlir	lleoledig	o flwyddyn 1	yn ystod oriau ysgol	dim	cenedlaethol safonol	heb ei nodi	llawn

Addysgu

	Cymwysterau athrawon	Hyfforddiant cyn swydd i athrawon	Hyfforddiant mewn swydd i athrawon	Symudedd
Cymorth IC	athrawon iaith	pwnc-benodol	dim	Dd/G
IRh/LI	athrawon iaith	pwnc-benodol	pwnc-benodol	Dd/G
IT	athrawon iaith	pwnc-benodol	pwnc-benodol	cymorth ariannol anffurfiol

leithoedd a gynigir mewn addysg gynradd

IRh/LI	Tyrceg
IT	Saesneg a Ffrangeg neu Almaeneg

Nid oes gan y wlad unrhyw ddarpariaeth orfodol ar gyfer leithoedd tramor ar lefel cyn cynradd. Er hyn, caiff leithoedd tramor eu cyflwyno mewn ysgolion cynradd a chaiff hynny ei gymryd o ddifrif. Ceir buddsoddiad sylweddol gan y wladwriaeth a thrwy ddarpariaeth breifat ychwanegol. Nid yw'r canlyniadau yn adlewyrchu'n ddigonol faint y buddsoddiad ar hyn o bryd o ran yr iaith Groeg nac leithoedd tramor. Ar lefel gynradd y cynigir Tyrceg mewn ysgolion yn rhanbarth Thracia hefyd, a hynny ar gyfer y boblogaeth sefydledig sy'n deillio o'r symudiadau o ran poblogaeth rhwng Gwlad Groeg a Thwrci. Mae mwy na 200 o ysgolion yn cynnig Tyrceg ar lefel gynradd er bod y niferoedd wedi lleihau yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Mae llai na deg ysgol yn cynnig y ddarpariaeth hon ar lefel uwchradd (Συντονιστικό Γραφείο Μειονοτικών Σχολείων – Swyddfa Cydgysylltu Ysgolion Lleiafrifol, 2011). Yr iaith Saesneg sy'n dominyddu o hyd o ran yr leithoedd tramor a gynigir. Canfuwyd bod dymuniad i ddarparu mwy o leithoedd ar wahân i Saesneg, Ffrangeg ac Almaeneg (gyda'r ddwy olaf yn cael eu darparu hefyd). Ceir rhywfaint o ddarpariaeth hyfforddiant i athrawon mewn Eidaleg, Sbaeneg, rhai leithoedd Balcanaidd a Thyrcceg er mai prin yw'r ddarpariaeth a gynigir yn ysgolion y wladwriaeth. Ni chynrychiolir leithoedd mewnudwyr yn y sector hwn o hyd a chanfuwyd tystiolaeth bod llawer ohonynt yn cael eu haddysgu o fewn y cymunedau eu hunain.

leithoedd mewn addysg uwchradd (Ni cheir darpariaeth ar gyfer ieithoedd Rh/LI nac ieithoedd mewnfudwyr)

Trefniadaeth

	Cwricwlwm	Cymorth ychwanegol i newydd-ddyfodiaid	Profion diagnostig wrth ddechrau	Monitro sgiliau iaith
Cymorth IC	cydlynol a chlr	cyn prif ffrwd	absennol	lefel ysgol

	Grwpiau targed	Cwricwlwm	CLIL	Amserlennu	Gofynion o ran isafswm maint y grŵp	Monitro sgiliau iaith	Y lefel y mae angen ei chyrraedd	Arian ar gael gan y wladwriaeth
IT	pawb	cydlynol a chlr	absennol	yn ystod oriau ysgol	>10	lefel ysgol	normau ar lefel genedlaethol neu ysgol	llawn

Addysgu

	Cymwysterau athrawon	Hyfforddiant cyn swydd i athrawon	Hyfforddiant mewn swydd i athrawon	Lefel yr iaith sydd ei hangen	Symudedd
Cymorth IC	athrawon iaith	cyffredinol	cyffredinol	heb ei nodi	Dd/G
IT	athrawon iaith	cyffredinol	cyffredinol	safonau cenedlaethol neu ranbarthol	cymorth ariannol anffurfiol

Ieithoedd a gynigir mewn addysg uwchradd

IT	Saesneg yn orfodol Ffrangeg ac Almaeneg yn ddewisol
-----------	--

Caiff nifer sylweddol o oriau eu neilltuo i ddysgu ieithoedd tramor mewn addysg uwchradd gyda phwys mawr yn cael ei roi ar lwyddo mewn arholiadau iaith. Yn aml, ariennir darpariaeth ychwanegol gan deuluoedd. Saesneg yw'r iaith orfodol ac mae ieithoedd tramor eraill (Ffrangeg, Almaeneg, Eidaleg a Sbaeneg) yn rhai dewisol. Ceir rhywfaint o dystiolaeth o Ddysgu Integredig Cynnwys ac Iaith (CLIL) arbrofol yn un o ysgolion y wladwriaeth yn Thessaloniki, a hynny'n drwy gyfrwng y Saesneg. At hynny, mae rhaglenni amlgyfrwng (megis Xenios) a thechnolegau newydd yn cael eu rhoi ar waith fel rhan o ddull trawsgwricwlaidd o addysgu ieithoedd tramor (Tangas, 2006). Ni chynrychiolir ieithoedd mewnfudwyr yn y sector hwn o hyd.

leithoedd mewn addysg bellach ac addysg uwch

Addysg bellach (mewn tri sefydliad AHG) (Ni cheir darpariaeth ar gyfer ieithoedd Rh/LI nac ieithoedd mewnfudwyr)

		Ystod o raglenni iaith	Cwricwlwm	Y lefel y mae angen ei chyrraedd	Arian ar gael gan y wladwriaeth
IT	Sefydliad A				
	Sefydliad B				
	Sefydliad C	cyfyngedig	dim canllawiau	dim	llawn

Addysg uwch (mewn dwy brifysgol)

	Iaith/ieithoedd a ddefnyddir fel y cyfrwng addysgu	Ieithoedd ar wefan	Grwpiau targed ar gyfer cymorth ychwanegol yn yr iaith genedlaethol	Y lefel i'w chyrraedd o ran addysgu ieithoedd tramor	Recriwtio myfyrwyr nad ydynt yn fyfyrwyr o'r wlad	Symudedd ar gyfer myfyrwyr iaith	Symudedd ar gyfer myfyrwyr nad ydynt yn fyfyrwyr iaith
Prifysgol A	cenedlaethol a thramor	cenedlaethol a thramor	pawb	lefel genedlaethol neu sefydliad	rhyngwladol yn unig	dewisol	dewisol
Prifysgol B	cenedlaethol a thramor	cenedlaethol a thramor	cyfyngedig	lefel genedlaethol neu sefydliad	rhyngwladol a mewnfudwyr	dewisol	dewisol

Ymddengys fod sefydliadau Addysg a Hyfforddiant Galwedigaethol (AHG) yn gweithredu'n bennaf drwy gyfrwng yr iaith Groeg a bod y ddarpariaeth iaith, lle y'i cynigir, yn canolbwyntio ar yr iaith Saesneg. Roedd y sefydliad yn Athen a arolygwyd yn gweithredu nifer fawr o raglenni hyfforddi yn yr iaith Groeg ar gyfer ffoaduriaid, mewnfudwyr a dychweledigion a gynigwyd gan y Weinyddiaeth Llafur a Nawdd Cymdeithasol. Cafodd cyfanswm o 15 o raglenni, a oedd yn para 300 awr yr un, eu darparu ar gyfer 323 o ffoaduriaid, mewnfudwyr a dychweledigion a aeth ymlaen wedyn i sefyll arholiad ar gyfer y dystysgrif cyrhaeddiad yn yr iaith Groeg a drefnwyd gan *Ganolfan yr Iaith Groeg*. Cafwyd problemau sylweddol yn cael gafael ar ddata ar sefydliadau AHG a oedd yn ymddangos fel pe baent yn mynd drwy gyfnod o newid ac yn cael eu harolygu gan yr Adran Addysg ar y pryd.

Ceir amrywiaeth ehangach o lawer o ieithoedd mewn prifysgolion a hynny, fwy na thebyg, oherwydd dylanwad rhaglenni fel *Erasmus*. Gwelir mentrau sy'n darparu ar gyfer myfyrwyr sy'n dod o wledydd gwahanol ond sydd hefyd yn cynnig cyfleoedd dysgu i fyfyrwyr o Wlad Groeg mewn ieithoedd Ewropeaidd ac ieithoedd eraill. Ceir tystiolaeth o arferion arbrofol mewn ysgolion a gynhyrchir gan adrannau prifysgolion (er enghraifft, caiff y prosiect CLIL yn Thessaloniki ei arwain gan Brifysgol Aristotle yn Thessaloniki).

leithoedd yn y cyfryngau clyweledol a'r wasg

Cynrychiadau teledu nad ydynt yn yr iaith genedlaethol	Ffilmiau yn y sinema nad ydynt yn yr iaith genedlaethol	Rhaglenni mewn ieithoedd Rh/LI y tu allan i'r rhanbarth	Argaeledd iaith arwyddion ar y teledu
wedi'u hisdeitlo	wedi'u hisdeitlo	weithiau	weithiau

Ni chaiff cymunedau iaith newydd amser swyddogol ar y teledu na'r radio er nad ydynt yn cael eu hatal rhag defnyddio tonnau awyr. Caiff ffilmiau eu ffrydio gan ddefnyddio isdeitlau ac anaml iawn y ceir darpariaeth trosleisio, heblaw am raglenni plant. At hynny, darperir gwasanaeth iaith arwyddion i gyd-fynd â nifer fach o oriau o newyddion fel sy'n ofynnol gan Ddeddf Gwlad Groeg. Canfuwyd amrywiaeth eang o bapurau newydd yn cael eu gwerthu mewn ieithoedd gwahanol sy'n dangos llithriant rhwng poblogaethau gwirioneddol a'r rhai a gydnabyddir yn swyddogol. Gwelwyd yr amrywiad mwyaf yn y brifddinas, Athen.

leithoedd mewn gwasanaethau cyhoeddus a manau cyhoeddus

Strategaethau iaith sefydliadol ar lefel dinas

Nifer yr ieithoedd	Ar y wfan	Defnyddio cyfieithwyr	Cymwyseddau iaith mewn disgrifiadau swydd	Recriwtio siaradwyr ieithoedd	Hyfforddiant iaith a gynigir i gyflogeion	Cofnod o sgiliau iaith cyflogeion
>4						Thessaloniki
3-4		Xanthi				
1-2	Xanthi			Xanthi		

Cyfleusterau cyfathrebu

Dau brif gyfleuster cyfathrebu ar lafar	Dau brif gyfleuster cyfathrebu ysgrifenedig
Addysg Twristiaeth	Mewnfudo ac integreiddio Twristiaeth

Cafwyd cryn anhawster i gael gafael ar ddata ar gyfer y set hon ar adeg o gynnwrf gwleidyddol ac economaidd. Ymddengys nad oes polisi systematig ar waith ar gyfer delio ag ieithoedd eraill mewn perthynas â cheisio gwasanaethau cyhoeddus a darparu gwasanaethau o'r fath. Lle mae darpariaeth ar gael, roedd yn ad hoc ei natur. Ymddengys mai'r iaith Saesneg sy'n dominyddu yn y lleoliadau hyn. Mae disgwyliad bod y sawl sy'n defnyddio gwasanaethau cyhoeddus yn gallu siarad ac ysgrifennu yn yr iaith Groeg.

leithoedd mewn busnes (allan o 24 o gwmnïau)

	STRATEGAETHAU IAITH CYFFREDINOL							
	Argaeledd strategaeth iaith	Pwyslais ar sgiliau iaith wrth recriwtio	Darpariaeth symudedd rhyngwiadol	Y defnydd o gyfieithwyr/dehonglwy'r allanol	Cofnodi sgiliau iaith staff	Y defnydd o rwydweithiau ar gyfer hyfforddiant iaith	Y defnydd o raglenni/cyllid yr UE	Ymwybyddiaeth o raglenni/cyllid yr UE
Defnyddir yn eang	9	14	8	1	0	4	1	0

		STRATEGAETHAU IAITH MEWNOL						STRATEGAETHAU IAITH ALLANOL			
		Partneriaethau â'r sector addysg	Cynlluniau gwobrwyo/dyrchafu yn seiliedig ar sgiliau iaith	Darpariaeth hyfforddiant iaith	Defnyddir y Fframwaith Cyfeirio Ewropeaidd Cyffredin	Defnyddir iaith ar gyfer dogfennau yn y gweithle/mewnwyd	Defnyddir iaith ar gyfer meddalwedd, rhaglenni'r we	Defnyddir iaith ar gyfer adroddiadau blynyddol/busnes	Defnyddir iaith ar gyfer marchnata	Defnyddir iaith ar gyfer brandio/hunaniaeth	Defnyddir iaith ar gyfer gwefan
IC	defnyddir yn eang	1	2	2	0	21	18	20	22	19	20
Saesneg Busnes	defnyddir yn eang	2	4	6	0	10	12	9	12	13	22
leithoedd ychwanegol	defnyddir yn eang	0	2	1	0	0	0	0	1	0	2

Mae galw mawr am ieithoedd tramor yn y sector busnes a chânt eu hystyried yn hanfodol yn hytrach nag yn ddymunol. Fodd bynnag, yn y busnesau a arolygwyd, ymddengys mai ychydig iawn o sylw a roddir i'r gwerth sy'n gysylltiedig â recriwtio cyllTogeion sy'n meddu ar wybodaeth am ieithoedd mewnfudwyr. Ceir defnydd pragmatig o'r rhan fwyaf o ieithoedd Balcanaidd mewn gohebiaeth o ganlyniad i gysylltiadau busnes a masnach cryf â gwledydd cyfagos. Lle na ddefnyddir yr ieithoedd hyn yn y gweithle, defnyddir yr iaith Saesneg fel iaith gyffredin ac, o ganlyniad, ymddengys mai ar ruglder yn y Saesneg y rhoddir y gwerth mwyaf. Ychydig iawn o fusnesau sydd â pholisi ar gyfer gwobrwyo rhuglder mewn ieithoedd neu strwythurau i gefnogi amlieithrwydd. Mae'n bosibl bod hyn yn digwydd ar raddfa ehangach na'r hyn a nodwyd gan y data ond ni chaiff ei ddirnad o safbwynt amlieithrwydd.

Canfyddiadau allweddol cyffredinol

Mae buddsoddiad sylweddol a hirdymor ym maes dysgu ieithoedd tramor yng Ngwlad Groeg. Siaredir amrywiaeth o ieithoedd eraill hefyd o'r gwledydd Balcanaidd a rhannau eraill o'r byd ond prin yw'r drafodaeth ynglŷn â hyn gan ei fod yn gysylltiedig â dadleuon ynghylch mewnfudo. Yn gyffredinol, roedd amharodrwydd i ddarparu data yn y rhan fwyaf o feysydd a chredwn fod hyn, yn rhannol, o ganlyniad i'r ffaith nad yw ymchwil o'r fath yn gyfarwydd, a'r ffaith ein bod yn holi ar adeg pan fo'r argyfwng economaidd ar ei anterth a'r wlad ar ei gwyliadwriaeth. Nid oedd amlieithrwydd yn cael ei ystyried yn flaenoriaeth gan lawer o'r darpar ddarparwyr data. Yn amlwg, mae angen mynd i'r afael ag unieithrwydd o ran gwasanaethau'r wladwriaeth a gwasanaethau cyhoeddus yng Ngwlad Groeg ac mae'r ffaith bod yr iaith Saesneg yn dominyddu yn peri pryder ym mhob maes. Gall y ffaith nad oes llawer o asiantaethau allweddol yn gweithio ar amlieithrwydd yn sector y wladwriaeth na'r sector cyrff anllywodraethol fod yn rhwystri i hyn gan fod y cyfrifoldeb ar hyn o bryd yn nwylo ymchwilwyr unigol a sefydliadau cymunedol. Efallai bod y cyfryw sefydliadau yn canolbwyntio fel arfer ar ehangu cyfranogiad a chynrychiolaeth gwahanol gymunedau ieithyddol – ni chafwyd unrhyw dystiolaeth o'r mathau hyn o fentrau wrth fynd ati i gasglu data.

Mentrau a chynlluniau peilot addawol

O ran ieithoedd rhanbarthol ac ieithoedd lleiafrifol mewn addysg gynradd, canfuwyd tystiolaeth o ddwy raglen ym Mhrifysgol Aristotle yn Thessaloniki sy'n cynnig help i ysgolion â dychweledigion, mewnfudwyr a myfyrwyr Roma. Dyma'r unig dro y cynrychiolwyd y gymuned Roma yn ein set ddata. Mae'r arolwg i hyrwyddo ieithoedd treftadaeth yn fenter addawol iawn hefyd. Mae partneriaethau rhwng y Weinyddiaeth Addysg a phrifysgolion yn cynnig cyrsiau mis o hyd ar iaith a diwylliant modern Gwlad Groeg i fyfyrwyr tramor, athrawon Groeg ac ysgolheigion Groeg. Mae ysgoloriaethau ar gael i fyfyrwyr o Wlad Groeg i astudio yn yr UE a gwledydd eraill a mynychu seminarau israddedig, ôl-raddedig ac ieithoedd tramor. Mae *Sefydliad Ysgoloriaethau'r Wladwriaeth* yn dyfarnu ysgoloriaethau symudedd i fyfyrwyr a staff addysgu i'w hannog i gysylltu â systemau addysg eraill ac ymgyfarwyddo â diwylliant ac iaith gwlad Ewropeaidd arall (Eurydice 2009/10: 222-223). Dyna'r sefyllfa yn 2010 ac efallai ei bod wedi newid ers dechrau'r argyfwng economaidd.

Cyfeiriadau

Swyddfa Cydgysylltu Ysgolion Lleiafrifol <http://syntonistiko.compulaw.gr/> Cyrchwyd 2 Rhagfyr 2011.

Eurostat <http://epp.eurostat.ec.europa.eu/tgm/table.do?tab=table&language=en&pcode=tps00001&tableSelection=1&footnotes=yes&labeling=labels&plugin=1>. Cyrchwyd 2 Rhagfyr 2011.

Hannam, S. a Papathanasiou, E. (2011) Current Issues and Trends in Language Education in Greece: A Brief Overview. Yn *Towards a Language Rich Europe - Multilingual essays on language policies and practices*, British Council.

Kiliari, A. (2009) Language Practice in Greece: The Effects of European Policy on Multilingualism. Yn *European Journal of Language Policy*. 1/1. tud. 21-28.

Tangas, P. (2006) Multimedia and Foreign Language Teaching: the Case of Greece. Yn Grabe, D. a Zimmemann, L. (gol), *Multimedia Applications in Education Conference Proceedings 2006*, FH JOANNEUM, Graz, Awstria, tud. 139-48. Ar gael o: http://pek-patras.ach.sch.gr/docs/yliko0910/Multimedia_and_Foreign_Language_Teaching_the_Case_of_Greece_Tagkas.pdf Cyrchwyd 5 Rhagfyr 2011.

9 HWNGARI

Csilla Bartha

Cyd-destun y wlad

Mae gan Hwngari boblogaeth o 9,960,000.¹ Ceir 13 o leiafrifoedd a gydnabyddir yn swyddogol,² sy'n cyfrif am bron 3% o gyfanswm y boblogaeth yn ôl data cyfrifiad 2001 a thua 8-10% yn ôl amcangyfrifon diweddar.³ Y lleiafrif mwyaf yw'r Roma, yr amcangyfrifir eu bod yn cyfrif am 6-10% o gyfanswm poblogaeth y wlad a 60% o'i phoblogaeth leiafrifol. Fe'u tangynrychiolir mewn swyddi ag awdurdod ac mae ganddynt statws economaidd-gymdeithasol sylweddol is na lleiafrifoedd eraill.

Mae mewnfudo yn ffenomen sydd ar gynydd gyda 206,909 o wladolion trydedd gwlad yn cyfrif am tua 2% o'r boblogaeth. Mae hon yn nifer gymharol fach o gymharu â'r ffigurau mewnfudo ar gyfer gwledydd eraill yn Ewrop. Mae nifer a chyfran y bobl sy'n perthyn i'r grwpiau mwyaf sylweddol o fewnfudwyr fel a ganlyn: Rwmaniaid (76,878- 37%), Almaenwyr (20,232- 9%), Serbiaid (16,301- 9%), Wcreiniaid (16,537- 9%), Tsieinaid (11,829- 6%) a Slofaiciaid (3%).⁴

Ieithoedd mewn dogfennau swyddogol a chronfeydd data

Ymdrinnir â'r iaith genedlaethol, ieithoedd tramor ac ieithoedd rhanbarthol/lleiafrifol mewn deddfwriaeth iaith a/neu ddogfennau polisi iaith. (Cyd-)ariennir y broses o ddysgu ac addysgu Hwngareg ar gyfer plant a/neu oedolion o Hwngari sy'n byw dramor yn Awstria. Mae Hwngari wedi llofnodi ac wedi cadarnhau'r *Siarter Ewropeaidd ar gyfer Ieithoedd Rhanbarthol neu Ieithoedd Lleiafrifol*. Cydnabyddir yr wyth iaith ranbarthol/lleiafrifol ganlynol yn y Siarter: Croateg, Almaeneg, Romani, Rwmaneg, Serbeg, Slofaceg, Slofeneg a Boyash. Ceir darpariaeth addysg swyddogol ar gyfer yr wyth iaith hyn ar lefel genedlaethol neu ranbarthol, a gefnogir gan y Siarter. Ar wahân i'r ieithoedd rhanbarthol/lleiafrifol a gydnabyddir yn y Siarter, caiff yr ieithoedd rhanbarthol/lleiafrifol canlynol eu hyrwyddo mewn dogfennau gwlad swyddogol: Armeneg, Bwlgareg, Groeg, Pwyleg, Rwtheneg ac Wcreineg.

Ceir dulliau swyddogol o gasglu data cenedlaethol ar amrywiaeth ieithyddol yn Hwngari ar ffurf data cyfrifiad a gaiff ei ddiweddarau o bryd i'w gilydd. Mae'r dulliau hyn o gasglu data yn ymddrin ag amrywiadau ar yr iaith genedlaethol ac ieithoedd rhanbarthol/lleiafrifol, yn seiliedig ar gwestiwn am iaith yr aelwyd a mamiaith ynghyd â chwestiwn am hyfedredd iaith sy'n gofyn pa un a ellir siarad/deall/darllen/ysgrifennu'r iaith.

Ers 1 Ionawr 2012, mae'r fframwaith cyfreithiol ar gyfer amrywiaeth ieithyddol ac amlieithrwydd yn Hwngari wedi newid. Fodd bynnag, byddwn yn dadansoddi'r sefyllfa ieithyddol yn seiliedig ar y ddeddfwriaeth a oedd mewn grym pan gwblhawyd holiadur Ewrop Gyfoethog ei Hieithoedd.

Nid yw hen Gyfansoddiad Hwngari yn cynnwys unrhyw ddarpariaethau penodol ynglŷn ag iaith swyddogol y wladwriaeth. Roedd Erthygl 68 yn nodi y byddai Gweriniaeth Hwngari yn darparu ar gyfer diogelu lleiafrifoedd cenedlaethol a lleiafrifoedd ethnig ac yn sicrhau eu bod yn cymryd rhan mewn materion cyhoeddus, yn meithrin eu diwyllianau, yn defnyddio eu hieithoedd brodorol, yn cael eu haddysgu yn eu hieithoedd brodorol ac yn defnyddio enwau yn eu hieithoedd brodorol.¹

¹ Mae cyfansoddiad newydd Hwngari a basiwyd yn 2011 (*Cyfraith Sylfaenol*) yn cydnabod mai'r iaith Hwngareg yw iaith swyddogol y wladwriaeth. Mae'n ymrwymo i ddiogelu'r iaith Hwngareg ac iaith Arwyddion Hwngari fel rhan o ddiwylliant Hwngari. Mae Erthygl XXIX yn nodi y caiff pob cenedl a phob grŵp ethnig sy'n byw yn Hwngari ei ystyried yn rhan o'r endid sy'n ffurfio'r wladwriaeth. Mae gan bob dinesydd Hwngaraidd sy'n perthyn i genedl yr hawl i arddel ei hunaniaeth a'i diogelu. Bydd gan leiafrifoedd cenedlaethol a lleiafrifoedd ethnig yr hawl i ddefnyddio eu hieithoedd eu hunain, i ddefnyddio eu henwau yn eu hieithoedd eu hunain yn unigol ac ar y cyd, i feithrin eu diwylliant ac i gael eu haddysgu yn eu hieithoedd eu hunain. Mae'r cyfansoddiad newydd yn gwahardd yn benodol wahaniaethu ar sail tarddiad ac iaith genedlaethol hefyd.

¹ <http://portal.ksh.hu/pls/ksh/docs/hun/xftp/gyor/nep/nep21111.pdf>

² A lleiafrif ieithyddol a gydnabyddir yn statudol, sef Pobl fyddar.

³ Edit H. Kontra – Csilla Bartha (2010): Foreign language education in Hungary: Concerns and controversies. Yn: *Sociolinguistica* 24/2010. tud. 61-84, tud. 74.

⁴ <http://portal.ksh.hu/pls/ksh/docs/hun/xftp/stattukor/nemzvand/nemzvand09.pdf>

Roedd Deddf LXXVII 1993 ar Hawliau Lleiafrifoedd Cenedlaethol a Lleiafrifoedd Ethnig² yn cydnabod 13 o ieithoedd lleiafrifol: Armeneg, Bwlgareg, Croateg, Almaeneg, Groeg, Sipsi (Romani a Boyash), Pwyleg, Rwmaneg, Rwtheneg, Serbeg, Slofaceg, Slofeneg ac Wcreineg. Yn ogystal â'r ddeddf hon, mae'r addysg a gynigir heddiw drwy gyfrwng ieithoedd lleiafrifol ac ieithoedd tramor yn seiliedig ar Ddeddf Addysg Gyhoeddus 1993, Archddyfarniadau'r Llywodraeth ar y Cwricwlwm Craidd Cenedlaethol (1995) a'r arholiadau gadael ysgol (*Matura*) (1997), a Deddf Addysg Uwch 2005.

Mae Hwngari wedi cadarnhau dwy ddogfen bwysicaf Cyngor Ewrop, y Siarter Ewropeaidd ar gyfer ieithoedd Rhanbarthol neu ieithoedd lleiafrifol (1992/1995/1998) a'r Confensiwn Fframwaith er Diogelu Lleiafrifoedd Cenedlaethol (1995/1998), ar gyfer ieithoedd y lleiafrifoedd traddodiadol: Croateg, Almaeneg, Rwmaneg, Serbeg, Slofaceg a Slofeneg. Roedd Deddf XLIII 2008 yn cynnwys ieithoedd Sipsi (Romani a Boyash) o dan gwmpas Erthygl 2(2).

Ystyrir mai Deddf CXXV 2009 ar Iaith Arwyddion Hwngari a'r defnydd o iaith Arwyddion Hwngari yw'r ddeddf fwyaf diweddar ar iaith arwyddion yn Ewrop ac mae'n diffinio'r gymuned fyddar fel lleiafrif ieithyddol. Yn ôl y ddeddf honno, o 1 Medi 2017 ymlaen, bydd addysg ddwyieithog yn iaith Arwyddion Hwngari/Hwngareg yn orfodol i blant fyddar mewn ysgolion ar gyfer y byddar ac yn ddewisol mewn ysgolion sy'n integreiddio, hyd yn oed os caiff ei dewis gan riant un plentyn.

Ceir tri offeryn cyfreithiol pwysig ym maes ymfudo: Deddf I 2007 ar Dderbyn Unigolion sydd â'r Hawl i Symud a Phreswyllo'n Rhydd a'u Preswyliaeth, Deddf II 2007 ar Dderbyn a Hawl Preswyllo Gwladolion Trydedd Gwlad, a Deddf LXXX 2007 ar Geisio Lloches.

²Mae'r gwahaniaeth rhwng 'lleiafrif cenedlaethol' a 'lleiafrif ethnig' mewn terminoleg Hwngaraidd yn seiliedig yn bennaf ar b'un a oes gan leiafrif 'wladwriaeth y maent yn perthyn iddi' ai peidio. Nid oes gan y bobl Roma wladwriaeth o'r fath ac felly cânt eu hystyried yn lleiafrif ethnig. Yn rhinwedd *Deddf CLXXIX 2011 ar Hawliau Cenedlaethol*, a ddaeth i rym ar 1 Ionawr 2012, "cenedligrwydd" yw'r term newydd y dylid ei ddefnyddio yn lle "lleiafrifoedd cenedlaethol ac ethnig".

IC=Iaith/Ieithoedd Cenedlaethol

IT=Ieithoedd Tramor

IRh/LI=Ieithoedd Rhanbarthol neu Leiafrifol

IM=Ieithoedd Mewnffudwyr

ieithoedd mewn addysg cyn cynradd (Ni cheir darpariaeth ar gyfer ieithoedd tramor, ieithoedd mewnffudwyr na chymorth ychwanegol yn yr iaith genedlaethol)

	Grwpiau targed	Hyd	Gofynion o ran isafswm maint y grŵp	Diwrnodau'r wythnos	Hyfforddiant cyn swydd i athrawon	Hyfforddiant mewn swydd i athrawon	Arian ar gael gan y wladwriaeth
IRh/LI	Pawb	≥2 flynedd	5-10	>1 diwrnod	pwnc-benodol	cyffredinol	llawn

Ieithoedd a gynigir mewn addysg cyn cynradd:

IRh/LI	Bwlgareg, Croateg, Almaeneg, Groeg, Romani/Boyash, Rwmaneg, Rwtheneg, Serbeg, Slofaceg, Slofeneg
---------------	--

Cynigir addysg cyn cynradd mewn ysgolion ar gyfer lleiafrifoedd cenedlaethol a sefydliadau dwyieithog penodol. Mae'n rhaid i lywodraethau lleol ddarparu addysg cyn cynradd mewn ieithoedd rhanbarthol/lleiafrifol mewn anheddiad os yw rhieni o leiaf wyth disgybl yn gwneud cais amdani. Mae rhaglen addysg i leiafrifoedd ar waith mewn 927 o feithrinfeydd (21% o'r holl feithrinfeydd). Mae mwy na 40,000 o blant (12.5% o'r holl blant mewn addysg cyn cynradd) wedi'u cofrestru mewn meithrinfeydd i leiafrifoedd, a mwy na 21,000 o blant yn cael addysg i leiafrifoedd Sipsi ond dim ond 2.4% ohonynt (tua 500 o blant) sy'n cael eu haddysgu drwy gyfrwng yr iaith Romani/Boyash.¹ Mewn llawer o achosion, mae rhaglenni i leiafrifoedd (ar bob lefel o'r system addysg) yn gweithredu fel ffurfiau cudd ar addysgu ieithoedd tramor, yn enwedig yn achos yr iaith Almaeneg, lle nad oes gan blant gefndir lleiafrifol o gwbl o bosibl, ond mae ysgolion yn defnyddio'r label addysg i leiafrifoedd er mwyn cael cymorth ariannol ychwanegol. Er bod addysg cyn cynradd drwy gyfrwng ieithoedd tramor yn dod yn fwyfwy poblogaidd mewn meithrinfeydd preifat (lle telir ffioedd fel arfer), nid yw'n arfer cyffredin mewn sefydliadau cyhoeddus. Ni ddarperir unrhyw addysg cyn cynradd drwy gyfrwng ieithoedd mewnfudwyr.

Ieithoedd mewn addysg gynradd (Ni cheir darpariaeth ar gyfer ieithoedd mewnfudwyr)

Trefniadaeth

	Cwricwlwm	Cymorth ychwanegol i newydd-ddyfodiaid	Profion diagnostig wrth ddechrau	Monitro sgiliau iaith
Cymorth IC	cydlynol a chlir	cyn prif ffrwd	mewnfudwyr yn unig	enedlaethol safonol

	Grwpiau targed	Cwricwlwm	CLIL	Dechrau addysg iaith	Amserlennu	Gofynion o ran isafswm maint y grŵp	Monitro sgiliau iaith	Y lefel y mae angen ei chyrraedd	Arian ar gael gan y wladwriaeth
IRHLL	pawb	cydlynol a chlir	lleoledig	o flwyddyn 1	yn rhannol yn ystod oriau ysgol	5-10	lefel ysgol	normau ar lefel genedlaethol neu ranbarthol	llawn
IT	pawb	cydlynol a chlir	lleoledig	o'r cyfnod canol	yn ystod oriau ysgol	dim	lefel ysgol	normau ar lefel genedlaethol neu ysgol	llawn

¹Mae'r plant eraill yn cael yr hyn a elwir yn addysg ddiwylliannol y Sipsi lle cânt eu haddysgu'n gyfan gwbl drwy gyfrwng yr iaith Hwngareg, Nemzeti és Etnikai Jogok Országgyűlési Biztosa, *Jelentés a nemzeti és etnikai kisebbségi óvodai nevelés helyzetéről*. Budapest, 2011, tud. 23-42. <http://www.kisebbségiombudsman.hu/data/files/205104474.pdf>

Addysgu

	Cymwysterau athrawon	Hyfforddiant cyn swydd i athrawon	Hyfforddiant mewn swydd i athrawon	Symudedd
Cymorth IC	athrawon iaith	pwnc-benodol	pwnc-benodol	Dd/G
IRh/LI	athrawon iaith	pwnc-benodol	pwnc-benodol	Dd/G
IT	athrawon iaith	pwnc-benodol	pwnc-benodol	cymorth ariannol anffurfiol

Ieithoedd a gynigir mewn addysg gynradd

IRh/LI	Bwlgareg, Croateg, Almaeneg, Groeg, Pwyleg, Romani/Boyash, Rwmaneg, Rwtheneg, Serbeg, Slofaceg, Slofeneg
IT	Gorfodol: Un iaith o blith Saesneg, Almaeneg, Ffrangeg, Eidaleg, Rwseg Dewisol: Lladin

Cynigir rhaglenni addysg ieithoedd rhanbarthol/lleiafrifol mewn 608 o sefydliadau (26.5% o'r holl ysgolion cynradd). Mae mwy na 100,000 o blant (14% o'r holl fyfyrwyr mewn ysgolion cynradd) wedi'u cofrestru mewn addysg ieithoedd rhanbarthol/lleiafrifol. Nid oes gan y cymunedau Armenaidd, Wcreinaidd na Phwylaidd addysg ieithoedd lleiafrifol yn y system addysg gyhoeddus ac ni chaiff 92% o blant Roma eu haddysgu mewn Romani/Boyash o gwbl.¹ Mae mwy na hanner y plant yn cael addysg drwy gyfrwng yr iaith Almaeneg leiafrifol, gan fod agweddau cadarnhaol a phenderfyniadau rhieni yn cael eu dylanwadu gan werth canfyddedig yr iaith Almaeneg safonol yn y farchnad ryngwladol. Mae un iaith dramor yn orfodol o ddosbarth pedwar addysg gynradd ymlaen. Nid yw'n arfer cyffredin i ddarparu addysg gynradd drwy gyfrwng ieithoedd mewn fudwyr, ac eithrio mewn ysgol gynradd Tsieineaidd-Hwngaraidd yn Budapest.

Ieithoedd mewn addysg uwchradd (Ni cheir darpariaeth ar gyfer ieithoedd mewn fudwyr)

Trefniadaeth

	Cwricwlwm	Cymorth ychwanegol i newydd-ddyfodiaid	Profion diagnostig wrth ddechrau	Monitro sgiliau iaith
Cymorth IC	cydlynol a chlir	cyn prif ffrwd	mewn fudwyr yn unig	enedlaethol safonol

	Grwpiau targed	Cwricwlwm	CLIL	Amserlennu	Gofynion o ran isafswm maint y grŵp	Monitro sgiliau iaith	Y lefel y mae angen ei chyrraedd	Arian ar gael gan y wladwriaeth
IRh/LI	pawb	cydlynol a chlir	eang	yn ystod oriau ysgol	dim	lefel ysgol	normau ar lefel genedlaethol neu ranbarthol	llawn
IT	pawb	cydlynol a chlir	lleoledig	yn ystod oriau ysgol	dim	lefel ysgol	wedi'i chysylltu â'r Fframwaith Cyfeirio Ewropeaidd Cyffredin	llawn

¹ Nemzeti és Etnikai Jogok Országgyűlési Biztos, *Jelentés a nemzeti és etnikai kisebbségi általános iskolai nevelés-oktatás helyzetéről*, Budapest, 2011, tud. 33-42. <http://www.kisebbségiombudsman.hu/data/files/217986220.pdf>

Addysgu

	Cymwysterau athrawon	Hyfforddiant cyn swydd i athrawon	Hyfforddiant mewn swydd i athrawon	Lefel yr iaith sydd ei hangen	Symudedd
Cymorth IC	athrawon iaith	pwnc-benodol	pwnc-benodol	normau ar lefel genedlaethol neu ysgol	Dd/G
IRh/LI	athrawon iaith	pwnc-benodol	pwnc-benodol	Dd/G	Dd/G
IT	athrawon iaith	pwnc-benodol	pwnc-benodol	wedi'i chysylltu â'r Fframwaith Cyfeirio Ewropeaidd Cyffredin	cymorth ariannol anffurfiol

leithoedd a gynigir mewn addysg uwchradd

IRh/LI	Romani, Boyash
IT	Gorfodol: Saesneg, Almaeneg, Ffrangeg, Eidaleg, Rwseg, Sbaeneg Dewisol: Tsieinëeg, Lladin

Mewn egwyddor, mae myfyrwyr yn rhydd i ddewis pa iaith dramor y maent am ei hastudio. Yn ymarferol, Saesneg, Ffrangeg, Almaeneg, Sbaeneg, Eidaleg a Rwseg yw'r ieithoedd tramor a gynigir ar lefel uwchradd is. Cynigir ieithoedd eraill (er enghraifft, Boyash, Tsieinëeg, Romani) hefyd ar lefel uwchradd uwch. Er hynny, mae Hwngari mewn safle uchel iawn o ran nifer y myfyrwyr sy'n dysgu un iaith dramor yn unig (57.2%; cyfartaledd yr UE: 33.4%).¹

leithoedd mewn addysg bellach ac addysg uwch

Addysg bellach (mewn tri sefydliad AHG) (Ni cheir darpariaeth ar gyfer ieithoedd mewnfudwyr)

		Ystod o raglenni iaith	Cwricwlwm	Y lefel y mae angen ei chyrraedd	Arian ar gael gan y wladwriaeth
IRh/LI	Sefydliad A	amrywiaeth eang	cydlynol a chllir	Dd/G	llawn
	Sefydliad B	dim manylion	cyffredinol	Dd/G	llawn
	Sefydliad C	amrywiaeth eang	cyffredinol	Dd/G	rhannol
IT	Sefydliad A	amrywiaeth eang	cydlynol a chllir	wedi'i chysylltu â'r Fframwaith Cyfeirio Ewropeaidd Cyffredin	llawn
	Sefydliad B	dim manylion	cyffredinol	dim	llawn
	Sefydliad C	amrywiaeth eang	cydlynol a chllir	cenedlaethol	rhannol

¹Eurostat (2009): European day of languages. Datganiad Newyddion Eurostat, Stat 09/137. <http://europa.eu/rapid/pressReleasesAction.do?reference=STAT/09/137&type=HTML>

Addysg uwch (mewn tair prifysgol)

	Iaith/ieithoedd a ddefnyddir fel y cyfrwng addysgu	Ieithoedd ar wefan	Grwpiau targed ar gyfer cymorth ychwanegol yn yr iaith genedlaethol	Y lefel i'w chyrraedd o ran addysgu ieithoedd tramor	Recriwtio myfyrwyr nad ydynt yn fyfyrwyr o'r wlad	Symudedd ar gyfer myfyrwyr iaith	Symudedd ar gyfer myfyrwyr nad ydynt yn fyfyrwyr iaith
Prifysgol A	cededlaethol, tramor a Rh/LI	cededlaethol a thramor	cyfyngedig	lefel genedlaethol neu sefydliad	rhyngwladol yn unig	dewisol	dewisol
Prifysgol B	cededlaethol, tramor a Rh/LI	cededlaethol a thramor	cyfyngedig	dim	rhyngwladol yn unig	dewisol	dewisol
Prifysgol C	cededlaethol a thramor	cededlaethol a thramor	cyfyngedig	wedi'i chysylltu â'r Fframwaith Cyfeirio Ewropeaidd Cyffredin	rhyngwladol a mewnfudwyr	dewisol	dewisol

Nid yw addysgu'r iaith genedlaethol ac ieithoedd rhanbarthol/lleiafrifol yn chwarae rôl bwysig mewn addysg a hyfforddiant galwedigaethol (AHG) nac addysg prifysgol. Mae pob un o'r prifysgolion a gymerodd ran yn yr arolwg yn cynnig cyrsiau a addysgir drwy gyfrwng iaith dramor (Saesneg, Almaeneg a Ffrangeg yn bennaf). Mae rhai prifysgolion yn cynnig eu cyfnod dysgu cyfan (y telir ffioedd amdano) mewn iaith dramor er mwyn denu myfyrwyr tramor.

Ceir chwe sefydliad addysg uwch sy'n hyfforddi athrawon ieithoedd lleiafrifol. Ni ddarperir unrhyw hyfforddiant i athrawon ar gyfer Armeneg na Rwtheneg. Mae chwe sefydliad addysg uwch yn darparu hyfforddiant i athrawon addysg elfennol is sy'n addysgu Croateg, Almaeneg, Romani/Boyash, Serbeg, Slofaceg a Rwmaneg. Mae saith sefydliad yn cynnig rhaglenni hyfforddiant i athrawon meithrin drwy gyfrwng yr ieithoedd lleiafrifol Croateg, Almaeneg, Romani/Boyash, Serbeg, Slofaceg, Slofeneg a Rwmaneg. O ganlyniad i'r ffaith bod llai o fyfyrwyr yn dewis hyfforddiant i athrawon drwy gyfrwng iaith leiafrifol, mae gweithrediad parhaus system addysg gyhoeddus leiafrifol – heblaw am Almaeneg – eisoes o dan fygythiad.¹

Ieithoedd yn y cyfryngau clyweledol a'r wasg

Cynrychiadau teledu nad ydynt yn yr iaith genedlaethol	Ffilmiau yn y sinema nad ydynt yn yr iaith genedlaethol	Rhaglenni mewn ieithoedd Rh/LI y tu allan i'r rhanbarth	Argaeledd iaith arwyddion ar y teledu
wedi'u trosleisio	wedi'u trosleisio	Rheolaidd yn Budapest Byth yn Pécs a Debrecen	weithiau

Caiff y cyfryngau yn Hwngari eu dominyddu gan Hwngareg. Fodd bynnag, cynigir rhaglenni radio a theledu mewn ieithoedd rhanbarthol/lleiafrifol ar sianeli cyhoeddus, a cheir rhai gorsafoedd radio sy'n darlledu'n gyfan gwbl mewn ieithoedd rhanbarthol/lleiafrifol (er enghraifft MR4, Radio C). Yn gyffredinol, caiff rhaglenni teledu mewn ieithoedd ar wahân i Hwngareg eu trosleisio mewn Hwngareg. Cynigir gwasanaeth dehongli iaith arwyddion mewn digwyddiadau pwysig ym maes y cyfryngau. Yn unol â *Deddf Iaith Arwyddion Hwngari*, bydd y darlledwr teledu cyhoeddus yn sicrhau, yn ystod ei wasanaeth darlledu, fod pob cyhoeddiad a bwletin newyddion sydd o ddiddordeb i'r cyhoedd, ffilmiau a rhaglenni gwasanaeth cyhoeddus yn cynnwys isdeitlau neu ddehongliad iaith arwyddion Hwngareg am nifer benodol o oriau o 2010, ac yn gyfan gwbl o 2015 ymlaen.

¹ Nemzeti és Etnikai Jogok Országgyűlési Biztosa, Jelentés a nemzetiségi felsőoktatás helyzetéről, Budapest, 2011, tud. 4-7. www.kisebbszegebudman.hu/data/files/223936615.pdf

leithoedd mewn gwasanaethau cyhoeddus a manau cyhoeddus

Strategaethau iaith sefydliadol ar lefel dinas

Nifer yr ieithoedd	Ar y wefan	Defnyddio cyfieithwyr	Cymwyseddau iaith mewn disgrifiadau swydd	Recriwtio siaradwyr ieithoedd	Hyfforddiant iaith a gynigir i gyflogeion	Cofnod o sgiliau iaith cyflogeion
>4		Debrecen		Debrecen		Debrecen
3-4	Budapest Pécs	Budapest Pécs				
1-2	Debrecen		Budapest Debrecen	Pécs	Budapest Pécs Debrecen	

Cyfleusterau cyfathrebu

Pum prif gyfleuster cyfathrebu ar lafar	Pum prif gyfleuster cyfathrebu ysgrifenedig
Addysg Cymdeithasol Gwasanaethau brys Cyfreithiol Mewnfudo ac integreiddio	Cymdeithasol Cyfreithiol Mewnfudo ac integreiddio Twristiaeth Gwasanaethau brys

Nodweddir gweinyddiaeth gyhoeddus y tair dinas yn yr arolwg gan broffil amliaith gymharol isel. Mae'r rhan fwyaf o ddinasoedd yn darparu gwasanaethau llafar a/neu ysgrifenedig mewn ieithoedd tramor ac, yn achlysurol, ieithoedd rhanbarthol/lleiafrifol, ond ni cheir unrhyw strategaethau iaith sefydliadol. Defnyddir dehonglwyr, ond ni chânt eu cyflogi'n barhaol. Caiff y repertoire o ieithoedd ar wahân i Hwngareg ei ddominyddu gan Saesneg ac i raddau llai, Almaeneg. Mewn ardaloedd â chymunedau lleiafrifol, gall eu hiaith ymddangos mewn gwasanaethau cyhoeddus hefyd.

leithoedd mewn busnes (allan o 21 o gwmnïau)

	STRATEGAETHAU IAITH CYFFREDINOL							
	Argaeledd strategaeth iaith	Pwyslais ar sgiliau iaith wrth recriwtio	Darpariaeth symudedd rhyngwladol	Y defnydd o gyfieithwyr/dehonglwy'r allanol	Cofnodi sgiliau iaith staff	Y defnydd o rwydweithiau ar gyfer hyfforddiant iaith	Y defnydd o raglenni/cyllid yr UE	Ymwybyddiaeth o raglenni/cyllid yr UE
Defnyddir yn eang	3	5	11	6	0	3	1	0

		STRATEGAETHAU IAITH MEWNOL						STRATEGAETHAU IAITH ALLANOL			
		Partneriaethau â'r sector addysg	Cynlluniau gwobrwyo/dyrchafu yn seiliedig ar sgiliau iaith	Darpariaeth hyfforddiant iaith	Defnyddir y Fframwaith Cyfeirio Ewropeaidd Cyffredin	Defnyddir iaith ar gyfer dogfennau yn y gweithle/mewnwyd	Defnyddir iaith ar gyfer meddalwedd, rhaglenni'r we	Defnyddir iaith ar gyfer adroddiadau blynyddol/busnes	Defnyddir iaith ar gyfer marchnata	Defnyddir iaith ar gyfer brandio/hunaniaeth	Defnyddir iaith ar gyfer gwefan
IC	defnyddir yn eang	2	0	2	1	18	17	17	16	16	18
Saesneg Busnes	defnyddir yn eang	2	0	3	3	12	11	9	6	14	13
leithoedd ychwanegol	defnyddir yn eang	1	0	1	0	1	1	1	1	1	5

Yn gyffredinol, mae gan y busnesau a gymerodd ran yn yr arolwg broffil iaith isel. Mae traean ohonynt yn meddu ar ryw fath o bolisi iaith, ond nid ydynt yn buddsoddi rhyw lawer mewn sgiliau iaith ar gyfer eu cyflogaion. Yn y rhan fwyaf o achosion, mae'r sgiliau iaith yn cael eu meithrin cyn iddynt gael eu cyflogi. Mae tua hanner y cwmnïau yn darparu rhywfaint bach o hyfforddiant mewn Saesneg busnes ar gyfer cyflogaion, ac ychydig iawn ohonynt sy'n rhoi cymorth mewn Hwngareg i'r sawl nad ydynt yn siarad yr iaith. Yr iaith genedlaethol a'r iaith Saesneg yw'r prif ieithoedd a ddefnyddir, ac yna Ffrangeg ac Almaeneg.

Canfyddiadau allweddol cyffredinol

Mae Hwngari yn cael ei hadnabod fel gwlad uniaith; fodd bynnag, mae'r realiti yn wahanol iawn. Mae'n amhosibl rhoi ateb cywir i'r cwestiwn ynghylch p'un a gaiff lluosieithrwydd yn yr ystafell ddosbarth ac amlieithrwydd yn y gymdeithas ehangach eu cydnabod yn Hwngari gan fod sawl ffurf ar addysg a gwahanol fathau o ysgolion. Hyd yn oed gyda'r un math o ysgolion, mae gwahaniaethau enfawr o ran effeithlonrwydd addysg. Mae tri phrif fath o raglen addysgol a dau fath ychwanegol o raglen addysgol ar gyfer lleiafrifoedd: y tri phrif fath yw rhaglenni mamiaith, rhaglenni dwyieithog a rhaglenni addysgu iaith, a'r mathau ychwanegol yw addysg gwelliant academaidd i leiafrifoedd Sipsi ac addysg atodol drwy gyfrwng ieithoedd lleiafrifol.

Ceir ysgolion cyhoeddus sy'n arbenigo mewn cefnogi addysg drwy gyfrwng ieithoedd tramor ac addysg ddwyieithog. Yn y sefydliadau hyn, mae'r gefnogaeth a ddangosir i ieithoedd ar wahân i Hwngareg a'r broses o'u haddysgu yn digwydd ar lefel uchel fel arfer, tra bod addysg gyffredinol yn cael ei nodweddu gan lefel is yn hyn o beth.

Mae'r rhan fwyaf o bobl Roma a phobl Fyddar yn Hwngari yn rhannu nifer o nodweddion cyffredin. Gyda thraddodiad hir o gael eu gwerthuso yn ôl y graddau y caiff eu hiaith ei chydnabod (Romani ac iaith Arwyddion yn y drefn honno), mae'r nodweddion hyn yn cynnwys graddau mwy neu lai o arwahanu cymdeithasol, sy'n gysylltiedig â chyfradd cyflogaeth isel, sefyllfa gymdeithasol wael, ychydig iawn o gyfleoedd yn y farchnad lafur a thlodi dybryd. Mae cysylltiad agos rhwng pob un o'r rhain a'r lefel addysg isel a'r gyfradd gadael uchel o addysg gyhoeddus sy'n nodweddu nifer sylweddol o bobl ifanc Roma a phobl ifanc Fyddar.

Y rheswm pennaf am y diffyg ieithoedd mewnfudwyr mewn addysg, busnes a gweinyddiaeth gyhoeddus yw'r nifer cymharol isel o fewnfudwyr. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn Hwngariaid ethnig sy'n siarad Hwngareg fel eu mamiaith ac sy'n dod o wledydd cyfagos. Mae cyfran y myfyrwyr tramor mewn addysg gyhoeddus yn isel hefyd.¹

Er bod y fframwaith cyfreithiol sy'n cefnogi ieithoedd lleiafrifol ac addysg ieithoedd tramor wedi'i hen sefydlu, mae llawer i'w wneud o hyd o ran gweithredu amlieithrwydd o safbwynt ymarferol.² Mae ystadegau a ddarparwyd gan Ewrobaromedr Arbennig 243 yn 2006 yn nodi mai dim ond 42% o'r boblogaeth sy'n gallu cynnal sgwrs mewn o leiaf un iaith dramor o gymharu â chyfartaledd yr UE sef 56%.³

Mentrau a chynlluniau peilot addawol

Mae llawer o fentrau addawol a datblygiadau arloesol ar waith yn Hwngari o ran y ddarpariaeth iaith Arwyddion i Bobl Fyddar yn ogystal â'r ieithoedd Romani a Boyash. Mae'r rhain yn cynnwys: gweithredu Deddf iaith Arwyddion newydd; dwy raglen newydd ym Mhrifysgol Eötvös Loránd – BA mewn iaith Arwyddion Hwngari ac Addysgu Saesneg fel iaith Dramor i Ddysgwyr sy'n Fyddar; y Kedves Ház (Tŷ Hyfryd) yn Nyírtelek; y rhaglen 'Pedellus' yn Ózd; prosiect Ysgol Dr. Ámbédkar yn Sajókaza; a Sefydliad Cyhoeddus ac Ysgol Uwchradd Gandhi yn Pécs.¹ Ym maes addysg ieithoedd tramor, rhaid sôn am *Brosiect Ieithoedd y Byd*, sef nifer o is-raglenni a roddwyd ar waith rhwng 2003 a 2007.²

Er bod cymathiad ieithyddol wedi bod yn digwydd mewn cymunedau lleiafrifol, mae yno agweddau cadarnhaol tuag at sgiliau amliaith gyda'r cenedlaethau iau yn dangos cymhelliant cryf tuag at ddysgu gwahanol ieithoedd tramor. Mae gan yr iaith Rwseg werth cynyddol yn y farchnad ac mae hynny'n dystiolaeth gref o'r ffaith bod Hwngari wedi llwyddo i oresgyn y duedd ideolegol tuag at hen arferion mewn addysg ieithoedd tramor.

¹ Illés Katalin – Medgyesi Anna (2009): Migráns gyermekek oktatása. Menedék – Migránsokat Segítő egyesület. Az Európai Unió Európai Integráció Alapjának támogatásával megvalósuló program kiadványa. www.menedek.hu/files/20090831konyv_belso.pdf

² Edit H. Kontra – Csilla Bartha (2010): Foreign language education in Hungary: Concerns and controversies. Yn: Sociolinguistica 24/2010, tud. 61-84, tud. 68.

³ Y Comisiwn Ewropeaidd (2006): Europeans and their languages 2005. ec.europa.eu/public_opinion/archives/ebs/ebs_243_en.pdf

¹ Bartha Csilla – Hámori Ágnes (2011): Cigány közösségek, nyelvi sokszínűség és az oktatás nyelvi kihívásai – magyarországi helyzetkép. Yn: Európai Tükör, XI. évfolyam, 3. szám, tud. 107-131. www.kormany.hu/download/7/1b/20000/europai_tukor_2011_03.pdf

² Fischer Márta – Öveges Enikő (2008): A Világ–Nyelv pályázati csomag háttere és megvalósítása (2003-2006). Áttekintő tanulmány. www.okm.gov.hu/letolt/vilagnyelv/vny_fischer_oveges_090115.pdf

10 YR EIDAL

Monica Barni

Cyd-destun y wlad

Mae Eidaleg yn cael ei defnyddio a'i siarad fel y brif iaith gan oddeutu 90% o boblogaeth yr Eidal. (ISTAT, 2007). Mae hyn yn newid sylweddol o gymharu â'r traddodiad Eidalidd idiomatig am ganrifoedd, a nodweddiwyd gan lu o ieithoedd lleol.

Cyn Uno'r Eidal (1861), Eidaleg oedd yr iaith a ddefnyddid am ganrifoedd fel yr iaith lenyddol, ond dim ond yn ardaloedd Fflorens-Twsgani a Rhufain y'i siaredid (De Mauro, 1963, 1979, 1994). Ar ôl 1861, arweiniodd uno gwleidyddol y wlad at angen am uno ieithyddol a defnyddio iaith safonol. O ganlyniad, mewn canrif a hanner, gwelwyd lleihad amlwg yn y defnydd o dafodieithoedd. Bellach, mae tua 6.4% o'r boblogaeth ond yn defnyddio tafodiaith ar yr aelwyd a'r tu allan iddo, gyda dros 40% o Eidalwyr yn dweud eu bod yn defnyddio Eidaleg safonol a thafodiaith Eidaleg, yn dibynnu ar y cyd-destun. Yn yr un modd, mae rhai ieithoedd rhanbarthol/lleiafrifol wedi, dros amser, wrthsefyll grymoedd uno ac fe'u siaredir gan 3.9% o'r boblogaeth (ISTAT, 2007).

Er gwaethaf ymlediad cyffredinol Eidaleg safonol, a ddefnyddir gan y mwyafrif helaeth o Eidalwyr, mae gan yr Eidal hunaniaeth ieithyddol o hyd a nodweddir gan ystod eang o dafodieithoedd, amrywiadau a chyweiriau (www.ethnologue.com/ethno_docs/distribution.asp?by=country). Ychwanegwyd ffactor newydd i'r darlun cymhleth hwn yn ddiweddar: mewnudwyr o dramor. Heddiw, ceir dros 5,000,000 o fewnudwyr yn yr Eidal - un mewnudwr am bob 12 o drigolion (Caritas, 2011). Nid oes cyfrifiad ar ieithoedd mewnudwyr, ond mae ymchwil a gynhaliwyd mewn rhannau amrywiol o'r Eidal yn amcangyfrif bod tua 200 o ieithoedd newydd yn bodoli yn y wlad (Bagna, Barni, Vedovelli, 2006; Barni, 2008). Nodweddir mewnudo yn yr Eidal gan amlganologrwydd y tarddle a chan amryw foddolrwydd anheddu yn y diriogaeth o safbwynt meintioli ac ansoddol (megis hyd amser a math o barhauster). Heddiw, ceir mewnudwyr ym mhob rhan o'r Eidal a gwelir newid ieithyddol o'r bôn i'r brig (Vedovelli, 2010).

Adlewyrchir y broses o gyflunio sefyllfa ieithyddol yr Eidal, rhwng eithafion ceisio gwlad uniaith a lluosieithrwydd presennol ac o'r newydd, yng nghanlyniadau ymchwil Ewrop Gyfoethog ei Hieithoedd.

Ieithoedd mewn dogfennau swyddogol a chronfeydd data

Ymdrinnir â'r iaith genedlaethol, ieithoedd tramor ac amrywiaeth o ieithoedd rhanbarthol/lleiafrifol mewn deddfwriaeth iaith a/neu ddogfennau polisi iaith. (Cyd-) ariennir y broses o ddysgu ac addysgu'r iaith genedlaethol ar gyfer plant a/neu oedolion o'r Eidal sy'n byw dramor mewn mwy na 30 o wledydd yn Ewrop a thramor. Mae llywodraeth yr Eidal wedi llofnodi'r *Siarter Ewropeaidd ar gyfer Ieithoedd Rhanbarthol neu Ieithoedd Lleiafrifol* ond nid yw senedd y wlad wedi'i chadarnhau. Fodd bynnag, ar lefel genedlaethol, caiff y 12 iaith ranbarthol/lleiafrifol ganlynol eu cydnabod, eu diogelu a/neu eu hyrwyddo mewn dogfennau gwlad swyddogol neu ddeddfwriaeth: Albaneg, Catalaneg, Croateg, Ffrengig-Brofensaleg, Ffrangeg, Ffriwleg, Almaeneg, Groeg, Lladin, Ocsitaneg, Sardeg a Slofeneg. Fel arfer, ceir darpariaeth addysg swyddogol yn y rhanbarthau lle siaredir yr ieithoedd hyn.

Ceir dulliau swyddogol o gasglu data cenedlaethol ar amrywiaeth ieithyddol yn yr Eidal ar ffurf data arolwg a gaiff ei ddiweddarau o *bryd i'w gilydd*. Mae'r dulliau hyn o gasglu data yn ymdrin ag amrywiadau ar yr iaith genedlaethol ac ieithoedd rhanbarthol/lleiafrifol, yn seiliedig ar gwestiwn am iaith yr aelwyd.

Er na chyfeirir at Eidaleg fel iaith swyddogol y Weriniaeth yn y Cyfansoddiad (1946), caiff lleiafrifoedd eu crybwyll a honnir eu bod yn cael eu diogelu. Fodd bynnag, dim ond tua hanner canrif yn ddiweddarach y cafodd ieithoedd rhanbarthol/lleiafrifol eu cydnabod a'u diogelu o dan y gyfraith (482/1999).

Yn 2010 cafodd rhaglen profion Eidaleg ar gyfer mewnudwyr oedd am breswyllo yn y wlad yn yr hirdymor ei gyflwyno (D.M. 4/06/2010) ac yn 2011 daeth medrusrwydd mewn Eidaleg yn un o faterion allweddol y cytundeb integreiddio rhwng mewnudwr a'r Wladwriaeth (D.P.R. 14/09/2011, n. 179).

O ran dogfennaeth ar ieithoedd, mae'r Eidal ar ei hôl hi o'i chymharu â rhai gwledydd eraill yn Ewrop, gan nad yw'r cyfrifiad mwyaf diweddar (2011) hyd yn oed yn cynnwys cwestiwn ar ieithoedd neu dafodieithoedd. Gwelir un cam cadarnhaol yn arolygon *Multiscopo*, lle mae'r mwyaf diweddar, a gynhaliwyd yn 2006, wedi dangos natur luosog yr ieithoedd a geir heddiw ac a ddefnyddir yn ddyddiol gan Eidalwyr (ISTAT, 2007). Mae angen cynnal ymchwil gynhwysfawr ar ieithoedd mewnudwyr o hyd, ar wahân i ddata ar sefyllfaoedd lleol unigol.

IC=iaith/leithoedd Cenedlaethol
IT=leithoedd Tramor
IRh/LI=leithoedd Rhanbarthol neu Leiafrifol
IM=leithoedd Mewnudwyr

leithoedd mewn addysg cyn cynradd (Ni cheir darpariaeth ar gyfer ieithoedd tramor, ieithoedd mewnudwyr na chymorth ychwanegol yn yr iaith genedlaethol)

	Grwpiau targed	Hyd	Gofynion o ran isafswm maint y grŵp	Diwrnodau'r wythnos	Hyfforddiant cyn swydd i athrawon	Hyfforddiant mewn swydd i athrawon	Arian ar gael gan y wladwriaeth
IRh/LI	pawb	≥2 flynedd	dim	>1 diwrnod	dim	cyffredinol	llawn

leithoedd a gynigir mewn addysg cyn cynradd

IRh/LI	Albaneg, Croateg, Ffrengig-Brofensaleg, Ffrangeg, Ffriwleg, Ocsitaneg, Almaeneg, Groeg, Lladin, Sardeg, Slofeneg
---------------	--

Yn gyffredinol, dengys y canlyniadau cymharol fach ym meysydd addysg cyn cynradd, addysg gynradd ac addysg uwchradd na roddir fawr ddim sylw i ieithoedd ar wahân i Eidaleg, boed hwy'n ieithoedd tramor neu'n ieithoedd mewnudwyr. Gellir cysylltu'r canlyniadau yn y meysydd hyn â diffyg medruswydd llawer o Eidalwyr mewn ieithoedd tramor, a ddogfennir mewn astudiaethau megis Ewrobaromedr (2006) ac Eurydice/Eurostat (2008).

Yn gyffredinol, mae'r canlyniadau yn amlgu'r ffaith, rhwng addysg cyn cynradd a'r ysgol uwchradd uwch, fod lle i wella o ran yr amrywiaeth o ieithoedd a gynigir, trefniadaeth dysgu: a hyfforddiant i athrawon iaith. At hynny, dylid nodi mai Saesneg yw'r iaith a gaiff ei haddysgu a'i hannog fwyaf o ran ieithoedd tramor ar bob lefel mewn ysgolion.

Mewn addysg cyn cynradd, yr unig ieithoedd a gynigir ar wahân i Eidaleg yw ieithoedd rhanbarthol/ lleiafrifol, a dim ond yn yr ardaloedd lle y'u siaredir, diolch i'r ffaith eu bod yn cael eu diogelu o dan y gyfraith. Ni chynigir addysg mewn unrhyw ieithoedd tramor nac ieithoedd mewnudwyr.

leithoedd mewn addysg gynradd (Ni cheir darpariaeth ar gyfer ieithoedd mewnudwyr)

Trefniadaeth

	Cwricwlwm	Cymorth ychwanegol i newydd-ddyfodiaid	Profion diagnostig wrth ddechrau	Monitro sgiliau iaith
Cymorth IC	cyffredinol	absennol	absennol	lefel ysgol

	Grwpiau targed	Cwricwlwm	CLIL	Dechrau addysg iaith	Amserlennu	Gofynion o ran isafswm maint y grŵp	Monitro sgiliau iaith	Y lefel y mae angen ei chyrraedd	Arian ar gael gan y wladwriaeth
IRh/LI	pawb	cydlynol a chlir	eang	o flwyddyn 1	yn ystod oriau ysgol	dim	absennol	heb ei nodi	llawn
IT	pawb	cyffredinol	absennol	o flwyddyn 1	yn ystod oriau ysgol	dim	lefel ysgol	normau ar lefel genedlaethol neu ysgol	llawn

Addysgu

	Cymwysterau athrawon	Hyfforddiant cyn swydd i athrawon	Hyfforddiant mewn swydd i athrawon	Symudedd
Cymorth IC	athrawon iaith	pwnc-benodol	cyffredinol	Dd/G
IRh/LI	athrawon cyffredinol	cyffredinol	cyffredinol	Dd/G
IT	athrawon cyffredinol	dim	cyffredinol	dim

Ieithoedd a gynigir mewn addysg gynradd

IRh/LI	Albaneg, Catalaneg, Croateg, Ffrengig-Brofensaleg, Ffrangeg, Ffrwileg, Ocsitaneg, Almaeneg, Groeg, Lladin, Sardeg, Slofeneg
IT	Saesneg: gorfodol

Mewn addysg gynradd, Saesneg yw'r unig iaith a gynigir ar wahân i Eidaleg. Mae'r gefnogaeth gref a roddir iddi ar bob lefel mewn ysgolion yn cael ei chyfiawnhau gan y ffaith mai Saesneg gaiff ei defnyddio fwyaf gan ddisgyblion yn y dyfodol, er bod arolygon ac astudiaethau megis ELAN (2006) yn amlygu'r ffaith bod ieithoedd eraill hefyd yn bwysig yn y byd gwaith. Mae ieithoedd eraill a siaredir ar yr aelwyd gan ddisgyblion o gefndir mewn fudo wedi cael eu cyflwyno mewn tua 90% o ysgolion y wladwriaeth ond nid yw datblygu'r fath ieithoedd yn rhan o'r amcanion addysgol. Mae'r un peth yn wir am gymorth strwythuredig i ddysgu Eidaleg fel ail iaith, er y gall ysgolion unigol gyflwyno hyn i brosiectau peilot. Fel arall, caiff y gwaith o gydnabod a diogelu ieithoedd rhanbarthol/Ileiafrifol effaith gadarnhaol ar addysg, o ran trefniadaeth a hyfforddiant athrawon, yn yr ardaloedd lle y caiff ieithoedd rhanbarthol/Ileiafrifol eu siarad.

Mewn addysg gynradd, mae proffil yr Eidal yn is na llawer o wledydd eraill o ran trefniadaeth ac addysgu ieithoedd tramor. Mae hyn yn deillio o ddiffyg cwricwlwm cydlynol ac absenoldeb monitro rheolaidd a gofynion penodol o ran yr hyfedredd sydd ei angen. Mae hyn yn gysylltiedig â materion eraill a gaiff effaith uniongyrchol ar arlwy ieithyddol maes addysg, gan gynnwys: diffyg hyfforddiant cyn swydd ac mewn swydd i athrawon ieithoedd tramor cynradd; a diffyg diwylliant asesu ieithyddol yn yr Eidal (Machetti, 2010), ar lefel ymchwil ac o ran hyfforddiant athrawon. Caiff hyn effaith uniongyrchol ar agweddau ysgolion ac athrawon tuag at brofi ac asesu iaith (Barni a Machetti, 2005). Mae hyn hefyd yn wir am y lefelau ysgol eraill.

Ieithoedd mewn addysg uwchradd (Ni cheir darpariaeth ar gyfer ieithoedd mewn fudwyr)

Trefniadaeth

	Cwricwlwm	Cymorth ychwanegol i newydd-ddyfodiaid	Profion diagnostig wrth ddechrau	Monitro sgiliau iaith
Cymorth IC	cyffredinol	absennol	absennol	lefel ysgol

	Grwpiau targed	Cwricwlwm	CLIL	Amserlennu	Gofynion o ran isafswm maint y grŵp	Monitro sgiliau iaith	Y lefel y mae angen ei chyrraedd	Arian ar gael gan y wladwriaeth
IRh/LI	pawb	cydlynol a chdir	lleoledig	yn ystod oriau ysgol	dim	absennol	normau ar lefel ysgol	llawn
IT	pawb	cyffredinol	lleoledig	yn ystod oriau ysgol	dim	lefel ysgol	normau ar lefel genedlaethol neu ysgol	llawn

Addysgu

	Cymwysterau athrawon	Hyfforddiant cyn swydd i athrawon	Hyfforddiant mewn swydd i athrawon	Lefel yr iaith sydd ei hangen	Symudedd
Cymorth IC	athrawon iaith	cyffredinol	cyffredinol	wedi'i chysylltu â'r Fframwaith Cyfeirio Ewropeaidd Cyffredin	Dd/G
IRh/LI	athrawon iaith	pwnc-benodol	pwnc-benodol	Dd/G	Dd/G
IT	athrawon iaith	cyffredinol	cyffredinol	safonau cenedlaethol neu ranbarthol	dim

leithoedd a gynigir mewn addysg uwchradd

IRh/LI	Albaneg, Catalaneg, Croateg, Ffrengig-Brofensaleg, Ffrangeg, Ffriwleg, Ocsitaneg, Almaeneg, Groeg, Lladin, Sardeg, Slofeneg
IT	Saesneg ac iaith dramor arall: gorfodol mewn ysgolion uwchradd is. Saesneg: gorfodol mewn ysgolion uwchradd uwch (ac eithrio ysgolion sydd â rhaglenni sy'n gysylltiedig â dysgu iaith)

Gwelir canlyniadau cymharol well mewn ysgolion uwchradd. Mae presenoldeb ail iaith dramor mewn ysgolion uwchradd is a chynnig ieithoedd rhanbarthol/lleiafrifol yn ffactorau sy'n cyfrannu at gyfoethogi iaith. Mewn addysg uwchradd uwch, fodd bynnag, Saesneg a welir fwyaf unwaith eto. Caiff mwy o ieithoedd (Ffrangeg, Almaeneg a Sbaeneg yn bennaf) ond eu cynnig mewn sefydliadau addysgol lle mai'r prif amcan yw dysgu iaith.

Ar hyn o bryd nid oes modd darogan effeithiau cyflwyno deddfwriaeth ddiweddar ynghylch methodoleg Dysgu Integredig Cynnwys ac Iaith (CLIL) (2010) ym mlwyddyn olaf addysg uwchradd uwch (gan ddechrau mewn ysgolion iaith o'r drydedd flwyddyn): nid yw hyfforddiant athrawon ar gyfer yr amcan hwn wedi'i gyflwyno eto a dim ond cyllideb fach sydd ar gyfer CLIL. Mae'r un peth yn wir am gyflwyniad diweddar graddau MA a chyrсияu hyfforddiant cyn swydd i athrawon mewn ysgolion uwchradd.

Fel gyda'r lefelau ysgol eraill, ni chaiff ieithoedd mewnfydwyr eu cydnabod na'u cefnogi mewn ysgolion uwchradd o gwbl.

leithoedd mewn addysg bellach ac addysg uwch

Addysg bellach (mewn tri sefydliad AHG)

		Ystod o raglenni iaith	Cwricwlwm	Y lefel y mae angen ei chyrraedd	Arian ar gael gan y wladwriaeth
IRh/LI	Sefydliad A				
	Sefydliad B	cyfyngedig	cydlynol a chlir	Dd/G	rhannol
	Sefydliad C				
IT	Sefydliad A	amrywiaeth eang	cydlynol a chlir	wedi'i chysylltu â'r Fframwaith Cyfeirio Ewropeaidd Cyffredin	rhannol
	Sefydliad B	amrywiaeth eang	cydlynol a chlir	wedi'i chysylltu â'r Fframwaith Cyfeirio Ewropeaidd Cyffredin	rhannol
	Sefydliad C	cyfyngedig	cyffredinol	dim	rhannol
IM	Sefydliad A	cyfyngedig	cyffredinol	Dd/G	dim
	Sefydliad B				
	Sefydliad C				

Addysg uwch (mewn tair prifysgol)

	laith/ ieithoedd a ddefnyddir fel y cyfrwng addysgu	ieithoedd ar wefan	Grwpiau targed ar gyfer cymorth ychwanegol yn yr iaith genedlaethol	Y lefel i'w chyrraedd o ran addysgu ieithoedd tramor	Recriwtio myfyrwyr nad ydynt yn fyfyrwyr o'r wlad	Symudedd ar gyfer myfyrwyr iaith	Symudedd ar gyfer myfyrwyr nad ydynt yn fyfyrwyr iaith
Prifysgol A	enedlaethol a thramor	enedlaethol a thramor	cyfyngedig	dim	rhyngwladol a mewnfudwyr	dewisol	dewisol
Prifysgol B	enedlaethol a thramor	enedlaethol a thramor	cyfyngedig	dim	rhyngwladol a mewnfudwyr	dewisol	dewisol
Prifysgol C	enedlaethol a thramor	enedlaethol a thramor	cyfyngedig	wedi'i chysylltu â'r Fframwaith Cyfeirio Ewropeaidd Cyffredin	rhyngwladol a mewnfudwyr	dewisol	dewisol

Fel gyda meysydd addysgol eraill, mae'r arlwy AHG gyffredinol yn y tair dinas enghreifftiol – Rhufain, Milan a Trieste – fwy neu lai'n gysylltiedig ag ieithoedd Ewropeaidd, gyda Saesneg ben ac ysgwydd uwchben y gweddi. Mewn AHG, mae addysgu Eidaleg yn nodwedd amlwg oherwydd nifer y tramorwyr sy'n oedolion lle mai addysg gyhoeddus i oedolion yw'r unig ffordd o ddysgu iaith y gymdeithas lle maent yn byw ac yn gweithio. Gwyddom fod y mewnfudwyr sy'n buddsoddi mewn hyfforddiant iaith yn isel mewn nifer o gymharu â'r nifer wirioneddol sy'n byw yn yr Eidal. Ar hyn o bryd, ni ellir cyfrifo effeithiau'r Archddyfarniad Gweinidogol dyddiedig 4 Mehefin 2010 sydd wedi pennu ei bod yn ofynnol i basio arholiad mewn Eidaleg ar lefel A2 er mwyn cael yr hawl i fyw yn yr UE yn yr hirdymor a'r cytundeb integreiddio diweddar, sy'n nodi ei bod yn ofynnol medru'r iaith Eidaleg er mwyn gallu byw a gweithio yn yr Eidal.

Yn y tair prifysgol a arolygwyd, ceir amrywiaeth eang o ieithoedd, ond fe'u cynigir yn bennaf yng Nghyfadrannau'r Celfyddydau.

Ieithoedd yn y cyfryngau clyweledol a'r wasg

Cynrychiadau teledu nad ydynt yn yr iaith genedlaethol	Ffilmiau yn y sinema nad ydynt yn yr iaith genedlaethol	Rhaglenni mewn ieithoedd Rh/LI y tu allan i'r rhanbarth	Argaeledd iaith arwyddion ar y teledu
wedi'u trosleisio wedi'u hisdeitlo weithiau yn Trieste	wedi'u trosleisio	byth rheolaidd yn Trieste	byth

Mae'r dewis o ieithoedd yn y cyfryngau clyweledol o ran niferoedd ac ansawdd hefyd yn brin. Nid yw'r arfer o drosleisio ffilmiau a rhaglenni teledu a gynhyrchir dramor yn helpu pobl i ddod i gysylltiad ag ieithoedd yn yr Eidal. Yr unig iaith sydd ar gael o bryd i'w gilydd yw Saesneg ac mae hynny'n gyfyngedig iawn. Yr ieithoedd eraill a gynigir ar y radio yw'r ieithoedd a ddefnyddir mewn rhaglenni a gynhyrchir gan gymunedau mewnfudwyr. Mae Slofeneg, fel iaith ranbarthol/lleiafrifol, i'w gweld yn Trieste i raddau.

Ceir gwell canlyniadau o ran papurau newydd. Mae'r ieithoedd sydd ar gael yn adlewyrchu presenoldeb cymunedau mewnfudwyr, ond hefyd dwristiaid, gyda'r rhan fwyaf o bapurau newydd mewn ieithoedd Ewropeaidd. Mae'r Eidal yn denu miliynau o dwristiaid bob blwyddyn. Yn 2010 cafwyd 44 miliwn o ymwelwyr, gydag un rhan o bump ohonynt yn dod o'r Almaen. Y pum prif wlad ar ôl yr Almaen yw Ffrainc, Awstria, y Swistir a'r DU sy'n cynrychioli bron 60% o bob blwyddyn (RTBicocca, 2011). Ymddengys fod presenoldeb papurau newydd i'w gwerthu yn yr ieithoedd hyn yn cael ei ysgogi gan yr angen i fodloni'r galw ymhlith yr ymwelwyr hyn yn hytrach nag unrhyw alw o du Eidalwyr. Mae nifer cyfartalog yr Eidalwyr sy'n darllen llyfrau a phapurau newydd yn llawer is na'r cyfartaledd ar gyfer Ewrop (ISTAT, 2011; De Mauro, 2011). Mae'r papurau newydd mewn Slofeneg, Croateg ac Albaneg yn Trieste yn adlewyrchu agosrwydd daearyddol a diwylliannol y gwledydd lle y caiff ieithoedd o'r fath eu siarad a gogwydd hanesyddol y ddinas hon tuag at y Balcanau.

leithoedd mewn gwasanaethau cyhoeddus a manau cyhoeddus

Strategaethau iaith sefydliadol ar lefel dinas

Nifer yr ieithoedd	Ar y wefan	Defnyddio cyfieithwyr	Cymwyseddau iaith mewn disgrifiadau swydd	Recriwtio siaradwyr ieithoedd	Hyfforddiant iaith a gynigir i gyflogeion	Cofnod o sgiliau iaith cyflogeion
>4	Milan	Rhufain Milan Trieste	Milan			Milan Trieste
3-4					Milan	
1-2	Rhufain		Rhufain Trieste	Rhufain Trieste	Rhufain Trieste	

Cyfleusterau cyfathrebu

Pum prif gyfleuster cyfathrebu ar lafar	Pum prif gyfleuster cyfathrebu ysgrifenedig
lechyd Twristiaeth Gwasanaethau brys Cyfreithiol Trafnidiaeth	Twristiaeth Gwasanaethau brys lechyd Mewnfudo Trafnidiaeth

Nid oes gan yr un o'r tair dinas a ddewiswyd ar gyfer yr ymchwil strategaethau sefydliadol sylweddol o ran hyrwyddo amlieithrwydd. Ar y cyfan, nid ystyrir bod medrusrwydd ieithyddol yn bwysig i gyflogeion wrth eu recriwtio, fel strategaeth yrfaol, nac fel math o hyfforddiant mewn swydd. Mewn gwasanaethau cyhoeddus yn Trieste, mae Slofeneg yn bodoli, mewn cyfleusterau cyfathrebu ysgrifenedig a llafar.

Yn y ddau gyd-destun olaf hyn mae proffil cyffredinol yr Eidal wedi gwella oherwydd, mewn sefydliadau cyngor dinas, yn enwedig o ran gwasanaethau i drigolion, rhoddir mwy o sylw i ieithoedd ar wahân i Eidaleg o ganlyniad i'r galw cynyddol ymhlith mewnfudwyr. Profir hyn gan y gwasanaethau cyhoeddusrwydd a chyfryngu llawn gwybodaeth a ddarperir gan amlaf mewn ieithoedd megis Tsieinëeg, Arabeg, Rwmaneg, Rwseg ac Albaneg – ieithoedd y cymunedau mewnfudwyr a geir yn yr Eidal. Fodd bynnag, hyd yn oed yn y gwasanaethau hyn, ieithoedd Ewropeaidd sydd amlycaf, o ran eu defnydd mewn twristiaeth a'u defnydd eang ymhlith mewnfudwyr (yn enwedig Ffrangeg a Sbaeneg).

leithoedd mewn busnes (allan o 24 o gwmnïau)

	STRATEGAETHAU IAITH CYFFREDINOL							
	Argaeledd strategaeth iaith	Pwyslais ar sgiliau iaith wrth recriwtio	Darpariaeth symudedd rhyngwladol	Y defnydd o gyfieithwyr/dehonglwy'r allanol	Cofnodi sgiliau iaith staff	Y defnydd o rwydweithiau ar gyfer hyfforddiant iaith	Y defnydd o raglenni/cyllid yr UE	Ymwybyddiaeth o raglenni/cyllid yr UE
Defnyddir yn eang	7	10	6	2	0	3	5	0

		STRATEGAETHAU IAITH MEWNOL						STRATEGAETHAU IAITH ALLANOL			
		Partneriaethau â'r sector addysg	Cynlluniau gwobrwyo/dyrchafu yn seiliedig ar sgiliau iaith	Darpariaeth hyfforddiant iaith	Defnyddir y Fframwaith Cyfeirio Ewropeaidd Cyffredin	Defnyddir iaith ar gyfer dogfennau yn y gweithle/mewnwyd	Defnyddir iaith ar gyfer meddalwedd, rhaglenni'r we	Defnyddir iaith ar gyfer adroddiadau blynyddol/busnes	Defnyddir iaith ar gyfer marchnata	Defnyddir iaith ar gyfer brandio/hunaniaeth	Defnyddir iaith ar gyfer gwefan
IC	defnyddir yn eang	2	2	3	4	24	21	24	21	24	20
Saesneg Busnes	defnyddir yn eang	4	2	6	5	5	5	5	6	10	10
Ieithoedd ychwanegol	defnyddir yn eang	2	1	3	2	2	1	2	2	2	3

Ym maes busnes, mae'r Eidal wedi cyflawni canlyniadau cymharol is, sy'n cadarnhau'r hyn sydd wedi dod i'r amlwg eisoes mewn ymchwil arall (ELAN, 2006). Mae diffyg ymwybyddiaeth ymhlith busnesau (yn enwedig ymhlith busnesau bach a chanolig, sy'n allweddol i economi'r Eidal) o'r ffaith bod diffyg sgiliau mewn ieithoedd tramor yn cyfyngu ar y posibilrwydd o ryngwladoli mewn marchnad fwyfwy byd-eang. Mae'r ystyriaeth isel a roddir i bwysigrwydd Saesneg hyd yn oed hefyd yn syndod. Dim ond ar gyfer rhai mathau o gyflogion yr ystyrir ei bod yn bwysig. Mae'r rhan fwyaf o gwmnïau a arolygwyd ond yn darparu deunydd brandio a marchnata, dogfennau gweithle, y fewnrwyd a'u gwefan mewn Eidaleg. Mae hyn yn lleihau'r posibilrwydd o gyrraedd marchnadoedd rhyngwladol, yn enwedig i gwmnïau canolig a mawr. Un o ganlyniadau hyn yw'r datganiad gan y busnesau a arolygwyd nad ydynt yn gwneud llawer o ddefnydd o gyfieithwyr mewnol ac allanol. A allwn ystyried bod hyn yn arwydd o'r amharodrwydd gan fusnesau yn yr Eidal i fentro i farchnadoedd tramor ac o ganlyniad i hynny gan fusnesau tramor i fuddsoddi yn yr Eidal? Mae bodolaeth gwahanol ieithoedd a'r defnydd ohonynt yn chwarae rhan allweddol yn y gwaith o ddarbwylo cwmnïau i ystyried rhywle yn lleoliad busnes (Land, 2000).

Canfyddiadau allweddol cyffredinol

I grynhoi, mae ymchwil Ewrop Gyfoethog ei Hieithoedd yn cadarnhau bod cymdeithas yn yr Eidal yn byw drwy 'gwestiwn o ieithoedd' cyffredinol, a bod ofn amrywiaeth ieithyddol yn dominyddu (Vedovelli, 2010). O ganlyniad, nid oes fawr ddim medrusrwydd mewn ieithoedd tramor, o'r rhai a siaredir fwyaf i'r rhai sy'n llai adnabyddus, ond sydd yr un mor bwysig i'r bobl sy'n eu siarad, gan eu bod yn ddolen gyswllt â'r Eidal ac yn cefnogi busnesau mewn marchnadoedd newydd.

Y prif reswm dros hyn yw'r sefyllfa uniaith sydd wedi bod yn nodweddiadol o bolisi addysg ar ôl Uno'r Eidal yn 1861 ac a ategir gan y ffaith nad yw cymdeithas yn gyffredinol yn barod i dderbyn ieithoedd eraill. Yn ail, mae o ganlyniad i aneffeithlonrwydd camau sefydliadol a gymerir gan ein gwladwriaeth, a nodweddir gan y ffaith nad oes digon o adnoddau, trefniadaeth na hyfforddiant i athrawon, ac sy'n arwain at ddiffyg cyswllt systemataidd â byd busnes. Mewn ysgolion, ar wahân i Eidaleg, canolbwyntir ar Saesneg yn unig sydd – yn anad dim – yn cael ei haddysgu gydag adnoddau prin sy'n aml yn golygu mai ofer yw ymdrechion athrawon neu ysgolion unigol. Hyd yn oed heddiw, nodweddir pobl ifanc sydd wedi cyrraedd diwedd eu cyfnod yn yr ysgol gan y nifer fawr o achosion o 'gymhwysedd addysgol' mewn iaith dramor: mwythair sy'n cyfeirio'n uniongyrchol at ddiffyg cymhwysedd yn y byd real.

Mae'r ieithoedd mewnudwyr a geir heddiw yn yr Eidal yn gyfystyr â neollusieithrwydd. Gall yr ieithoedd hyn helpu ein gwlad i fod yn llai ofnus o ran amrywiaeth ieithyddol, ond anwybyddir y cyfle hwn o hyd.

Mentrau a chynlluniau peilot addawol

Gallai effeithiau cyflwyno methodoleg CLIL mewn addysg uwchradd uwch a chysiau MA a hyfforddiant cyn gwasanaeth i athrawon fod yn fentrau addawol ond ni ellir cadarnhau hyn eto. Yn sgil cyflwyno blwyddyn o hyfforddiant (TFA, DM 249/2010 ac Archddyfarniad Gweinidogol 31/2012) i athrawon newydd mewn ysgolion uwchradd yn ddiweddar, bwriedir agor cysiau i athrawon Tsieinëeg, Arabeg, Japanaeg, Groeg Fodern a Slofeneg, yn ogystal â Saesneg, Ffrangeg, Almaeneg, Sbaeneg a Rwseg, a gynigir yn draddodiadol. Efallai y bydd hon yn dod yn fenter bwysig o ran hyrwyddo amlieithrwydd a chydabod ieithoedd rhanbarthol/llieiafrifol ac ieithoedd mewnudwyr.

Caiff rhai mentrau a chynlluniau peilot addawol eu cynnal gan ysgolion neu athrawon unigol ac maent yn tystio i allu athrawon i ymateb yn greadigol, er enghraifft pan fydd disgyblion nad ydynt yn siarad Eidaleg yn ymuno â'u dosbarth. Mewn rhai achosion, cânt eu cysylltu a'u dogfennu ar lefel ranbarthol, yn arbennig gan yr awdurdodau rhanbarthol hynny (megis Toscana, Lombardia, Emilia Romagna a Trentino Alto-Adige) sy'n darparu mwy o gymorth ar gyfer ieithoedd ar wahân i Eidaleg. Fodd bynnag, mewn llawer o achosion mae'r mentrau hyn yn benodol i athro neu ysgol ac ni fwriedir iddynt ychwaith gael eu hatgynhyrchu mewn cyd-destunau gwahanol.

Cyfeiriadau

Bagna C., Barni M., Vedovelli M., 2007, *Italiano in contatto con lingue immigrate: nuove vie del plurilinguismo in Italia*. Yn C. Consani, P. Desideri (a cura di), *Minoranze linguistiche. Prospettive, strumenti, territori*. Roma, Carocci: 270-290.

Barni M., 2008, *Mapping immigrant languages in Italy*. Yn M. Barni, G. Extra (gol.), *Mapping linguistic diversity in multicultural contexts*, Berlin, Mouton de Gruyter: 217-242.

Barni M., Machetti S., 2005, *The (lack of) professionalism in language assessment in Italy*, crynodeb o boster a gyflwynwyd yn 2il Gynhadledd EALTA, Voss, Norwy, 2-5 Mehefin, 2005.

Caritas/Migrantes, *Immigrazione. Dossier statistico 20011*, Roma, Idos.

De Mauro T., 1963, *Storia linguistica dell'Italia unita*, Bari, Laterza.

De Mauro T., 1979, *L'Italia delle Italie*, Firenze, Nuova Guaraldi.

De Mauro T. (a cura di), 1994, *Come parlano gli italiani*, Fondazione IBM Italia, Firenze, La Nuova Italia.

De Mauro T., 2011, *Per la storia linguistica dell'Italia contemporanea*, 'Italice', 88, 1: 40-58.

ISTAT, 2007, *La lingua italiana, i dialetti e le lingue straniere, Anno 2006*, http://portal-lem.com/images/it/Italie/Lingue_e_dialetti_e_lingue_straniere_in_Italia.pdf.

ISTAT, 2011, *La lettura dei libri in Italia, Anno 2010*, www.istat.it/it/archivio/27201

Land A. (2000), *Languages speak volumes for global businesses*. Yn P. Baker, J. Eversley (gol.), *Multilingual Capital*, Llundain, Battlebrige Publications.

Machetti S., 2010, *Valutazione linguistica e formazione professionale. Un dibattito aperto*. Yn M. Mezzadri (a cura di), *Le lingue dell'educazione in un mondo senza frontiere*, Perugia, Guerra Edizioni: 293-302.

RTBicocca, 2011, *Turismo Internazionale, Anno 2010*, www.rtbicocca.it/studi/category/5-turismo.

Vedovelli M., 2010, *Prima persona plurale futuro indicativo: noi saremo*, Roma, Edup.

11 LITHWANIA

Irena Smetonienė a Julija Moskvina

Cyd-destun y wlad

Yn ôl data rhagarweiniol y cyfrifiad poblogaeth a thair ar 1 Mawrth 2011, roedd 3,054 miliwn o breswylwyr arferol yn Lithwania. O gymharu â data 2001 (3,484 miliwn), mae 12% (430,200 o bobl) yn llai o drigolion yn Lithwania. Y prif reswm dros y fath ddirywiad yw ymfudo (76%): mae 328,300 o ddinasyddion wedi gadael a dim ond 64,200 sydd wedi cyrraedd. Mae newid naturiol negyddol hefyd wedi cael cryn effaith ar y dirywiad yn y boblogaeth (24%, neu 101,900 o bobl).

Daw dinasyddion Lithwania o amrywiaeth o gefndiroedd ethnig. Dangosodd y data a gasglwyd yn ystod cyfrifiad 2001 fod 115 o grwpiau lleiafrifoedd ethnig yn byw yn Lithwania, ond dim ond 29 ohonynt oedd â 100 neu fwy o gynrychiolwyr.

Lithwaniaid sy'n cyfrif am y mwyafrif o drigolion Lithwania (83.5% yn 2001). Mae'r cyfrifiadau diweddaraf yn awgrymu bod poblogaeth Lithwania yn dod yn fwyfwy homogenaidd.

Ceir y cyfansoddiad ethnig mwyaf amrywiol yn Vilnius: yn 2001 roedd cyfanswm o 57.8% o Lithwaniaid, 18.7% o Bwyliaid, a 14% o Rwsiaid o blith holl boblogaeth y ddinas. Yr ail ddinas o ran cyfansoddiad ethnig yw Klaipėda sydd â 71.3% o Lithwaniaid, 21.3% o Rwsiaid, a thua 2% o Wcreiniaid a Belarwsiaid.

Nifer gymharol fach o bobl sy'n dod i mewn i Lithwania, ac o ganlyniad i'r dirywiad economaidd diweddar mae wedi lleihau hyd yn oed ymhellach. Yn ôl yr Adran Ystadegol, yn 2010 derbyniodd Lithwania 5,231 o bobl o dramor, ac roedd 1.6 o fewnfudwyr fesul 1,000 o ddinasyddion (o gymharu â 2.8 yn 2008). Roedd y rhan fwyaf o newydd-ddyfodiaid yn ddinasyddion o Weriniaeth Lithwania oedd yn dychwelyd i fyw yn eu mamwlad.

Yn 2001, nododd y cyfrifiad fod 40% o'r holl boblogaeth yn hyddysg mewn un iaith, ar wahân i'w mamiaith, roedd chwarter y boblogaeth yn hyddysg mewn dwy iaith, ac roedd tua 6% yn hyddysg mewn tair neu fwy o ieithoedd ar wahân i'w mamiaith (nid arolygwyd pa mor hyddysg oeddent).

Ieithoedd mewn dogfennau swyddogol a chronfeydd data

Ymdrinnir â'r iaith genedlaethol, ieithoedd tramor ac ieithoedd rhanbarthol/lleiafrifol mewn deddfwriaeth iaith a/neu ddogfennau polisi iaith. (Cyd-)ariennir y broses o ddysgu ac addysgu'r iaith genedlaethol ar gyfer plant a/neu oedolion o Lithwania sy'n byw dramor ym Melarws, Georgia, Latfia, Moldofa, Gwlad Pwyl, Rwsia a'r Wcráin. Nid yw Lithwania wedi llofnodi/cadarnhau'r *Siarter Ewropeaidd ar gyfer Ieithoedd Rhanbarthol neu Ieithoedd Lleiafrifol*. Fodd bynnag, ar lefel genedlaethol, caiff tair iaith ranbarthol/lleiafrifol eu cydnabod, eu diogelu a'u hyrwyddo mewn dogfennau gwlad swyddogol neu ddeddfwriaeth: Rwseg, Pwyleg a Belarwseg. Ceir darpariaeth addysg swyddogol yn y tair iaith hyn a Hebraeg.

Ceir dulliau swyddogol o gasglu data cenedlaethol ar amrywiaeth ieithyddol yn Lithwania ar ffurf data cyfrifiad a gaiff ei ddiweddarau o bryd i'w gilydd. Mae'r dulliau hyn o gasglu data yn ymdrin ag amrywiadau ar yr iaith genedlaethol, ieithoedd rhanbarthol/lleiafrifol ac ieithoedd mewnfwudwyr, yn seiliedig ar gwestiwn am yr iaith frodorol.

Mae gan Lithwania ddiddordeb arbennig yn statws ei hiaith wladol a'r defnydd a wneir ohoni. Yn 1995, mabwysiadwyd y *Gyfraith ar Iaith Wladol Gweriniaeth Lithwania* ac mae fersiwn diwygiedig o'r ddogfen hon wedi'i anfon i'r *Seimas* (senedd) yn ddiweddar. Diben y gyfraith yw pennu parthau diogelwch yr iaith wladol a'r defnydd a wneir ohoni; dyletswyddau awdurdodau a sefydliadau cyhoeddus o ran yr iaith wladol; hawl dinasyddion i ddefnyddio'r iaith wladol mewn amryw barthau; a'r sicrwydd cenedlaethol o ran cefnogi a diogelu'r iaith wladol. Mae'r gyfraith yn caniatáu ar gyfer polisi iaith mwy tryloyw a rhesymegol. Mae'n helpu i sicrhau bod Lithwaneg yn weithredol mewn agweddau amrywiol ar fywyd, ac mae'n hyrwyddo atgyfnerthu cymdeithas sifil Lithwania ymhellach. Bydd y gyfraith newydd yn cyfrannu ymhellach at ddiogelu a gwella natur unigryw, gyfoethog a bywiog yr iaith Lithwaneg – caffaeliad cyffredin mwyaf pobl Lithwania – yng nghyd-destun cymuned Ewropeaidd amlddiwylliannol ac amlieithog o wledydd.

O ran hawliau lleiafrifoedd ethnig, gan gynnwys eu hawl i ddiogelu eu hieithoedd a'u diwylliannau eu hunain, mae Lithwania wedi derbyn nifer o gyfrifoldebau o ran diogelu hawliau lleiafrifoedd. Noda Erthygl 29 o Gyfansoddiad Lithwania na ddylid cyfyngu ar hawliau unigolyn ar sail ei genedligrwydd na'i iaith. Mae'r Erthygl yn dilyn traddodiad casurol y cysyniad o hawliau dynol sy'n rhoi gwahaniaethu ar sail iaith ar yr un lefel â gwahaniaethu ar sail hil neu ryw. I'r gwrthwyneb, nid yw Cytundeb Maastricht ar yr Undeb Ewropeaidd yn sôn am

wahaniaethu ar sail iaith o gwbl. Rhwng 1989 a 2009 cafodd y defnydd o ieithoedd eraill ei reoleiddio gan y *Gyfraith ar Leiafrifoedd Ethnig*. Ar hyn o bryd, caiff amlieithrwydd mewn addysg ei lywodraethu gan gyfreithiau penodol a *Chonfensiwn Framwaith Cyngor Ewrop ar gyfer Diogelu Lleiafrifoedd Ethnig* (a gadarnhawyd ar 8 Mawrth 2000). Fel wyth o Aelod-wladwriaethau eraill yr UE, nid yw Lithwania wedi cadarnhau *Siarter Ewropeaidd Cyngor Ewrop ar gyfer Ieithoedd Rhanbarthol neu Ieithoedd Lleiafrifol*. Dylai awdurdodau'r UE adolygu'r cysyniadau o leiafrifoedd rhanbarthol ac ethnig a sefydlu ffordd newydd o feithrin amrywiaeth ieithyddol a diwylliannol yn Ewrop.

Dylai'r dull hwn o weithredu hefyd adlewyrchu'r realiti newydd - y ffaith, mewn rhai Aelod wladwriaethau, y gall iaith wladol fod yn iaith a siaredir gan leiafrif o'r boblogaeth yn hytrach na mwyafrif.

Caiff y ffordd yr ymdrinnir ag amlieithrwydd yn Lithwania ei hadlewyrchu hefyd yn y cyfrifiad o'r boblogaeth. Yn yr holl gyfrifiadau, gofynnwyd i ddinasyddion am yr ieithoedd roeddent yn hyddysg ynddynt, ond yn 2011, cafodd holiadur y cyfrifiad ei wella. Er mwyn casglu data ar ddwyieithrwydd/amlieithrwydd, gallai dinasyddion ddatgan dwy neu fwy o ieithoedd brodorol yn hytrach nag un.

IC=Iaith/Ieithoedd Cenedlaethol
IT=Ieithoedd Tramor
IRh/LI=Ieithoedd Rhanbarthol neu Leiafrifol
IM=Ieithoedd Mewn-fudwyr

Ieithoedd mewn addysg cyn cynradd (Ni cheir darpariaeth ar gyfer ieithoedd tramor nac ieithoedd mewn-fudwyr)

	Grwpiau targed	Hyd	Gofynion o ran isafswm maint y grŵp	Diwrnodau'r wythnos	Hyfforddiant cyn swydd i athrawon	Hyfforddiant mewn swydd i athrawon	Arian ar gael gan y wladwriaeth
IRh/LI	pawb	≥2 flynedd	dim	<0.5 diwrnod	pwnc-benodol	pwnc-benodol	llawn
Cymorth IC ychwanegol	pawb	≥2 flynedd	dim	0.5-1 diwrnod	pwnc-benodol	cyffredinol	llawn

Ieithoedd a gynigir mewn addysg cyn cynradd

IRh/LI	Belarwseg, Hebraeg, Pwyleg, Rwseg
---------------	-----------------------------------

Yn ôl y Weinyddiaeth Addysg, mae tua 700 o sefydliadau cyn ysgol yn Lithwania. Yn y rhan fwyaf ohonynt, yr iaith addysgu yw Lithwaneg, ond ceir rhai sefydliadau sy'n addysgu plant mewn Rwseg, Pwyleg, Hebraeg, Ffrangeg neu Felarwseg. Yn 1995, cafodd iaith arwyddion ei chydabod yn swyddogol gan y llywodraeth fel yn iaith frodorol i bobl fyddar. Mae'r rhan fwyaf o blant cyn oed ysgol yn dechrau dysgu iaith dramor flwyddyn neu ddwy cyn dechrau mynychu ysgol gynradd, ond mae hefyd lawer o ysgolion cyn cynradd lle, ar gais rhieni, mae plant yn dechrau dysgu ieithoedd eraill (Saesneg fel arfer) o dair oed ymlaen.

Ieithoedd mewn addysg gynradd (Ni cheir darpariaeth ar gyfer ieithoedd mewnfudwyr)

Trefniadaeth

	Cwricwlwm	Cymorth ychwanegol i newydd-ddyfodiaid	Profion diagnostig wrth ddechrau	Monitro sgiliau iaith
Cymorth IC	cydlynol a chlir	cyn prif ffrwd	pawb	cenedlaethol safonol

	Grwpiau targed	Cwricwlwm	CLIL	Dechrau addysg iaith	Amserlennu	Gofynion o ran isafswm maint y grŵp	Monitro sgiliau iaith	Y lefel y mae angen ei chyrraedd	Arian ar gael gan y wladwriaeth
IRh/LI	pawb	cydlynol a chlir	eang	o flwyddyn 1	yn ystod oriau ysgol	dim	lefel ysgol	normau ar lefel genedlaethol neu ranbarthol	llawn
IT	pawb	cydlynol a chlir	lleoledig	o flwyddyn 1	yn ystod oriau ysgol	dim	lefel ysgol	normau ar lefel genedlaethol neu ysgol	llawn

Addysgu (Ni cheir darpariaeth ar gyfer ieithoedd mewnfudwyr)

	Cymwysterau athrawon	Hyfforddiant cyn swydd i athrawon	Hyfforddiant mewn swydd i athrawon	Symudedd
Cymorth IC	athrawon iaith	pwnc-benodol	pwnc-benodol	Dd/G
IRh/LI	athrawon iaith	pwnc-benodol	pwnc-benodol	Dd/G
IT	athrawon iaith	pwnc-benodol	pwnc-benodol	cymorth ariannol anffurfiol

Ieithoedd a gynigir mewn addysg gynradd

IRh/LI	Belarwseg, Hebraeg, Pwyleg, Rwseg
IT	Un iaith o blith Saesneg, Ffrangeg ac Almaeneg yn orfodol

Cynhelir addysg gynradd mewn ieithoedd brodorol (Lithwaneg, Rwseg, Pwyleg, Hebraeg a Belarwseg) yn unol â'r rhaglen a fabwysiadwyd gan y Weinyddiaeth Addysg. Fodd bynnag, ar gais rhieni neu warcheidwaid, gall rhai pynciau cwricwlwm dethol gael eu haddysgu yn yr iaith wladol swyddogol. Mae iaith dramor (Saesneg, Ffrangeg neu Almaeneg) yn orfodol o'r ail flwyddyn ysgol. Ni chaiff ieithoedd mewnfudwyr mewn addysg (cyn) gynradd eu harfer na'u llywodraethu gan unrhyw ddeddfwriaeth. Yn Lithwania rhoddir cryn sylw i hyfforddiant athrawon. Dim ond unigolion sydd wedi ennill cymhwyster athro ysgol gynradd a gaiff weithio mewn ysgol gynradd a dim ond y rhai â lefel benodol o gymhwysedd yn yr iaith benodol a gaiff addysgu iaith dramor. Ni roddir unrhyw hyfforddiant arbennig i athrawon sy'n gweithio gyda lleiafrifoedd ethnig, ond tybir bod y sgiliau methodolegol angenrheidiol a gaiff eu meithrin gan athrawon yn ystod eu haddysg uwch yn gyffredin i bob iaith.

leithoedd mewn addysg uwchradd

Trefniadaeth (Ni cheir darpariaeth ar gyfer ieithoedd mewnudwyr)

	Cwricwlwm	Cymorth ychwanegol i newydd-ddyfodiaid	Profion diagnostig wrth ddechrau	Monitro sgiliau iaith
Cymorth IC	cydlynol a chlir	cyn prif ffrwd	mewnudwyr yn unig	cededlaethol safonol

	Grwpiau targed	Cwricwlwm	CLIL	Amserlennu	Gofynion o ran isafswm maint y grŵp	Monitro sgiliau iaith	Y lefel y mae angen ei chyrraedd	Arian ar gael gan y wladwriaeth
IRh/LI	pawb	cydlynol a chlir	eang	yn ystod oriau ysgol	dim	cededlaethol safonol	normau ar lefel genedlaethol neu ranbarthol	llawn
IT	pawb	cydlynol a chlir	lleoledig	yn ystod oriau ysgol	>10	lefel ysgol	wedi'i chysylltu â'r Fframwaith Cyfeirio Ewropeaidd Cyffredin	llawn

Addysgu (Ni cheir darpariaeth ar gyfer ieithoedd mewnudwyr)

	Cymwysterau athrawon	Hyfforddiant cyn swydd i athrawon	Hyfforddiant mewn swydd i athrawon	Lefel yr iaith sydd ei hangen	Symudedd
Cymorth IC	athrawon iaith	pwnc-benodol	pwnc-benodol	normau ar lefel genedlaethol neu ysgol	Dd/G
IRh/LI	athrawon iaith	pwnc-benodol	pwnc-benodol	wedi'i chysylltu â'r Fframwaith Cyfeirio Ewropeaidd Cyffredin	Dd/G
IT	athrawon iaith	pwnc-benodol	pwnc-benodol	dim	cymorth ariannol anffurfiol

Ieithoedd a gynigir mewn addysg uwchradd

IRh/LI	Belarwseg, Hebraeg, Pwyleg, Rwseg
IT	Un iaith o blith Saesneg, Ffrangeg ac Almaeneg yn orfodol. Ieithoedd eraill yn ddewisol

Yn ôl Erthygl 30 o'r *Gyfraith ar Addysg*, caiff holl ddinasyddion Gweriniaeth Lithwania a thramorwyr sydd â hawl i fyw yn y wlad yn barhaol neu dros dro addysg yn yr iaith wladol er mwyn rhoi'r cyfle iddynt integreiddio'n ddiraffferth mewn bywyd cyhoeddus. Mae rhai ysgolion addysg gyffredinol neu addysg nad yw'n ffurfiol yn cefnogi darpariaeth addysgol yn ieithoedd lleiafrifoedd ethnig ac yn ceisio cynnal eu diwylliant. Yn unol â'r rheoliadau hyn a cheisiadau rhieni, gall y cwricwlwm cyffredinol neu rai pynciau gael eu haddysgu yn un o'r ieithoedd lleiafrifoedd ethnig. Yn y fath ysgolion, mae'r iaith Lithwaneg yn rhan annatod o'r cwricwlwm a rhoddir yr un sylw i'w haddysgu ag ieithoedd brodorol. Os oes gwir angen hyfforddiant ychwanegol yn yr iaith frodorol a bod arbenigwr yn yr iaith dan sylw yn bresennol, bydd y wladwriaeth, ysgolion cyn cynradd trefol ac ysgolion addysg gyffredinol fel arfer yn galluogi myfyrwyr o leiafrifoedd ethnig i'w dysgu ochr yn ochr â'r brif iaith addysgu.

Ceir un iaith dramor orfodol mewn addysg uwchradd. Fel arfer, bydd disgyblion yn parhau i ddysgu'r un iaith a ddewiswyd ganddynt yn yr ysgol gynradd (Saesneg, Ffrangeg neu Almaeneg) ond gallant hefyd ddewis o blith ieithoedd tramor eraill. Yn ôl y cynlluniau addysg cyffredinol ar gyfer addysg gynradd ac addysg uwchradd (2011-2013), gall disgyblion ddewis eu hail iaith dramor o blith Saesneg, Latfieg, Pwyleg, Ffrangeg, Rwseg, Almaeneg ac ieithoedd eraill. Dylai'r ysgol ei gwneud yn bosibl i ddewis ail iaith dramor o blith o leiaf ddwy iaith dramor ychwanegol a darparu'r amodau angenrheidiol i ddysgu'r dewis iaith.

Nid oes unrhyw ddarpariaeth addysgol mewn ieithoedd mewnfudwyr am nad oes unrhyw alw penodol amdani. Fodd bynnag, ceir rhai tybiaethau cyfreithiol – nodar *Gyfraith ar Addysg* y caiff plant unigolyn â'r hawl i fyw yng Ngweriniaeth Lithwania'n barhaol neu dros dro y cyfle i ddysgu'r iaith wladol, cael addysg yn yr iaith wladol a, lle y bo modd, hefyd ddysgu eu hiaith frodorol.

Mae Erthygl 48 o'r *Gyfraith ar Addysg* yn pennu pwy a gaiff weithio fel athro, sef unigolyn sydd wedi cyrraedd lefel addysg uwch neu ôl uwchradd ac sydd â chymhwyster mewn addysgeg. Darperir ystod eang o arbenigeddau ym Mhrifysgol Gwyddorau Addysgol Lithwania. Mae'r sefydliad hwn yn paratoi athrawon Lithwaneg, Rwseg, Pwyleg a Belarwseg fel ieithoedd brodorol ac athrawon Saesneg, Ffrangeg ac Almaeneg fel ieithoedd tramor.

Ieithoedd mewn addysg bellach ac addysg uwch

Addysg bellach (mewn tri sefydliad AHG) (Ni cheir darpariaeth ar gyfer ieithoedd mewnfudwyr)

		Ystod o raglenni iaith	Cwricwlwm	Y lefel y mae angen ei chyrraedd	Arian ar gael gan y wladwriaeth
IRh/LI	Sefydliad A				
	Sefydliad B	amrywiaeth eang	cydlynol a chlir	Dd/G	llawn
	Sefydliad C				
IT	Sefydliad A	amrywiaeth eang	cydlynol a chlir	cenedlaethol	llawn
	Sefydliad B	amrywiaeth eang	cydlynol a chlir	cenedlaethol	llawn
	Sefydliad C				

Addysg uwch (mewn tair prifysgol)

	iaith/ ieithoedd a ddefnyddir fel y cyfrwng addysgu	ieithoedd ar wefan	Grwpiau targed ar gyfer cymorth ychwanegol yn yr iaith genedlaethol	Y lefel i'w chyrhaedd o ran addysgu ieithoedd tramor	Recriwtio myfyrwyr nad ydynt yn fyfyrwyr o'r wlad	Symudedd ar gyfer myfyrwyr iaith	Symudedd ar gyfer myfyrwyr nad ydynt yn fyfyrwyr iaith
Prifysgol A	cenedlaethol a thramor	cenedlaethol a thramor	dim	wedi'i chysylltu â'r Fframwaith Cyfeirio Ewropeaidd Cyffredin	rhyngwladol yn unig	dewisol	dewisol
Prifysgol B	cenedlaethol a thramor	cenedlaethol a thramor	cyfyngedig	dim	rhyngwladol a mewnfudwyr	dewisol	dewisol
Prifysgol C	cenedlaethol, tramor a Rh/LI	cenedlaethol a thramor	cyfyngedig	wedi'i chysylltu â'r Fframwaith Cyfeirio Ewropeaidd Cyffredin	rhyngwladol a mewnfudwyr	dewisol	dewisol

Gan fod ysgolion galwedigaethol yn canolbwyntio'n bennaf ar bynciau galwedigaethol, mae ieithoedd yn cael llai o sylw mewn gwirionedd. Mewn ysgolion galwedigaethol sydd hefyd yn darparu'r dystysgrif addysg uwchradd, rhaid i ieithoedd tramor gael eu haddysgu yn ôl y rhaglenni a'r safonau a gymeradwywyd gan y Weinyddiaeth Addysg. Gwelir bod myfyrwyr ar y lefel hon fel arfer yn dewis Rwseg fel eu hiaith dramor gyntaf, efallai oherwydd eu dewis arbenigedd.

Mae gan brifysgolion eu polisi iaith eu hunain. Er enghraifft, ym Mhrifysgol Vilnius, mae Lladin yn orfodol i holl fyfyrwyr y Gyfadran Ieitheg. Yn ogystal â phwnc ieitheg Lithwaneg, rhydd y Gyfadran raglenni astudio mewn ieitheg Rwseg, Pwyleg, Saesneg, Almaeneg, Ffrangeg a Llychlyneg. Mae arbenigeddau dwbl sy'n cyfuno astudio Lithwaneg ag astudio ieithoedd megis Pwyleg, Almaeneg, Sbaeneg, Eidaleg, Estoneg, Latfieg, Tyrceg, Slofeneg neu Dsieceg yn boblogaidd iawn ymhlith myfyrwyr y Gyfadran. Ym mlynnyddoedd cyntaf y cwrs i israddedigion, caiff myfyrwyr yn y brifysgol gyfan beth hyfforddiant mewn ieithoedd tramor. Ar y cyfan, mae'r rhan fwyaf o israddedigion yn parhau ag astudiaethau uwch yr iaith dramor gyntaf neu'r ail iaith dramor a ddewiswyd ganddynt yn yr ysgol; fodd bynnag, yn ddiweddar bu tueddiad i astudio ieithoedd nas addysgwyd yn yr ysgol (er enghraifft Portiwgaleg neu Bwyleg). Mae hefyd angen i fyfyrwyr ieitheg Lithwaneg fynychu cyrsiau iaith mewn Latfieg, Pwyleg a Lladin. Mae prifysgolion eraill yn dewis ieithoedd tramor yn unol â'u hanghenion penodol, gyda Saesneg yn ddewis iaith. Mae prifysgolion hefyd yn darparu nifer gynyddol o raglenni astudio a addysgir yn Saesneg (yn enwedig ar lefel graddedigion); drwy wneud hynny maent yn gobeithio denu myfyrwyr o wledydd eraill. Gall dinasyddion o Lithwania o gefndir Pwyleg astudio mewn Pwyleg ar bob lefel addysgol.

ieithoedd yn y cyfryngau clyweledol a'r wasg

Cynyrchiadau teledu nad ydynt yn yr iaith genedlaethol	Ffilmiau yn y sinema nad ydynt yn yr iaith genedlaethol	Rhaglenni mewn ieithoedd Rh/LI y tu allan i'r rhanbarth	Argaeledd iaith arwyddion ar y teledu
wedi'u trosleisio	wedi'u hisdeitlo	bob amser	weithiau

Ar wahân i'r cynnwys clyweledol sydd ar gael mewn Lithwaneg, gall gwrandawyr radio yn Lithwania a chynulleidfaoedd teledu a sinema ddewis o blith darllediadau a ffilmiau mewn Rwseg a Saesneg yn bennaf. Ar raglenni teledu cenedlaethol, caiff cynyrchiadau mewn ieithoedd heblaw am Lithwaneg eu trosleisio fel arfer. Mewn sinemâu caiff ffilmiau eu hisdeitlo fel wahân i waith ar gyfer plant, sydd wedi'i drosleisio mewn Lithwaneg fel arfer. Llwm yw'r arlwy teledu ar gyfer pobl fyddar a'r rheini â nam ar eu clyw, sy'n deillio o'r ffaith mai prin y caiff rhaglenni teledu eu hisdeitlo, yn ogystal â darparu iaith arwyddion o ran cynyrchiadau teledu ac yn olaf ansawdd gwael yr iaith arwyddion pan fo ar gael. O ran y wasg yn Lithwania, mae llyfrau, yn ogystal â phapurau newydd, cylchgronau a chyfnodolion eraill, yn lleihau mewn nifer yn ogystal â maint eu dosbarthiad.

leithoedd mewn gwasanaethau cyhoeddus a mannau cyhoeddus

Strategaethau iaith sefydliadol ar lefel dinas

Nifer yr ieithoedd	Ar y wefan	Defnyddio cyfieithwyr	Cymwyseddau iaith mewn disgrifiadau swydd	Recriwtio siaradwyr ieithoedd	Hyfforddiant iaith a gynigir i gyflogeion	Cofnod o sgiliau iaith cyflogeion
>4		Vilnius				
3-4	Klaipėda		Vilnius		Vilnius Kaunas	
1-2	Vilnius Kaunas	Kaunas Klaipėda	Klaipėda			Vilnius

Cyfleusterau cyfathrebu

Pum prif gyfleuster cyfathrebu ar lafar	Pum prif gyfleuster cyfathrebu ysgrifenedig
Twristiaeth Addysg Gwasanaethau brys Iechyd =Cymdeithasol =Trafnidiaeth =Mewnfudo ac integreiddio	Addysg Twristiaeth Theatr Trafnidiaeth =Gwasanaethau brys =Cymdeithasol =Mewnfudo ac integreiddio

O edrych ar y defnydd o ieithoedd ar wahân i'r iaith wladol yn y sector gwasanaethau cyhoeddus mewn tair dinas yn Lithwania, gwelir bod y dewis o iaith yn dibynnu ar gyfansoddiad ethnig y boblogaeth mewn rhannau gwahanol o'r wlad. Mae bwrdeistrefi yn cynnig gwasanaethau addysgol yn eu hiaith frodorol i ddinasyddion gwahanol gefndiroedd ethnig. Ceir darpariaeth dda o wasanaethau cyhoeddus mewn Rwseg yn y prif ddinasoedd yn Lithwania. Yn ddiweddar, mae'r awdurdodau lleol wedi talu mwy a mwy o sylw i newydd-ddyfodiaid o'r UE neu wledydd eraill. Gall pobl nad ydynt yn medru'r iaith wladol i lefel ddigonol gael gwasanaethau bwrdeistrefol yn llafar a/neu'n ysgrifenedig mewn Saesneg a Rwseg. Yn y sector twristiaeth, mae'r amrywiaeth o wasanaethau fymryn yn ehangach. Er gwaethaf y defnydd cymharol eang o ieithoedd tramor mewn gwahanol agweddau ar weithgareddau bwrdeistrefol, sylw cyfyngedig a roddir gan sefydliadau llywodraeth leol i hyrwyddo sgiliau iaith eu staff, er eu bod yn gwneud hyn i raddau mwy na'r sector preifat.

leithoedd mewn busnes (allan o 24 o gwmnïau)

	STRATEGAETHAU IAITH CYFFREDINOL							
	Argaeledd strategaeth iaith	Pwyslais ar sgiliau iaith wrth recriwtio	Darpariaeth symudedd rhyngwladol	Y defnydd o gyfieithwyr/dehonglwy'r allanol	Cofnodi sgiliau iaith staff	Y defnydd o rwydweithiau ar gyfer hyfforddiant iaith	Y defnydd o raglenni/cyllid yr UE	Ymwybyddiaeth o raglenni/cyllid yr UE
Defnyddir yn eang	4	17	3	13	1	3	3	1

		STRATEGAETHAU IAITH MEWNOL						STRATEGAETHAU IAITH ALLANOL			
		Partneriaethau â'r sector addysg	Cynlluniau gwobrwyo/dyrchafu yn seiliedig ar sgiliau iaith	Darpariaeth hyfforddiant iaith	Defnyddir y Fframwaith Cyfeirio Ewropeaidd Cyffredin	Defnyddir iaith ar gyfer dogfennau yn y gweithle/mewnwyd	Defnyddir iaith ar gyfer meddalwedd, rhaglenni'r we	Defnyddir iaith ar gyfer adroddiadau blynyddol/busnes	Defnyddir iaith ar gyfer marchnata	Defnyddir iaith ar gyfer brandio/hunaniaeth	Defnyddir iaith ar gyfer gwefan
IC	defnyddir yn eang	0	0	2	1	24	21	24	23	23	23
Saesneg Busnes	defnyddir yn eang	3	0	8	0	12	12	10	14	15	21
leithoedd ychwanegol	defnyddir yn eang	0	0	1	0	3	3	3	12	12	17

Caiff ystod gymharol eang o ieithoedd eu defnyddio gan ac o fewn y cwmnïau a arolygwyd yn Lithuania. Yr iaith fusnes fwyaf cyffredin yw Saesneg, ond bydd hysbysebion a deunydd marchnata yn defnyddio Rwseg ac Almaeneg hefyd yn eithaf aml. Mae'r defnydd o ieithoedd tramor mewn busnes yn cyfateb mewn egwyddor i brif dueddiadau masnach dramor y wlad. Yn dibynnu ar amcanion a natur gweithgareddau cwmni, caiff ieithoedd fel Latfieg, Pwyleg, Estoneg, Daneg, Ffrangeg a Bwlgareg eu defnyddio i gyfathrebu'n fewnol ac yn allanol mewn rhai o'r gwestai, archfarchnadoedd a banciau a arolygwyd. Awgryma canlyniadau'r arolwg mai dim ond cyfran fechan o gwmnïau sy'n gweithredu yn y wlad sy'n cydnabod bod strategaethau iaith yn elfen bwysig o ddatblygiad y cwmni er bod angen gwneud mwy o ymchwil ar y pwnc hwn. Er gwaethaf yr amrywiaeth o ieithoedd a ddefnyddir ym myd busnes yn Lithuania, nid yw cwmnïau yn talu digon o sylw i ddysgu neu wella eu sgiliau iaith. Y prif resymau a'r rhai mwyaf credadwy dros y sefyllfa bresennol yw'r canlynol – ystyrir yn aml fod medrusrwydd cyflogeion mewn ieithoedd tramor yn ddigonol gan eu cyflogwyr neu ymddengys fod costau hyfforddi cyflogeion yn rhy uchel i berchenogion y cwmnïau (yn enwedig busnesau bach a chanolig). Ar y llaw arall, mae'r entrepreneuriaid yn manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd a ddarperir gan eu rhywdweithiau sy'n gweithredu yn Lithuania ac mewn gwledydd tramor i wella medrusrwydd iaith eu staff.

Canfyddiadau allweddol cyffredinol

Mae'r gyfraith yn Lithwania yn caniatáu ac yn hyrwyddo lluosieithrwydd (amlieithrwydd ymhlith unigolion). Serch hynny, mae'r broses o weithredu'r *Strategaeth Ewropeaidd ar gyfer Amlieithrwydd* y Comisiwn Ewropeaidd yn effeithlon yn her nad oes cydgysylltiad na chydweithrediad sefydliadol yn perthyn iddi ac ni ddyrennir cyfrifoldebau'n dda.

Mentrau a chynlluniau peilot addawol

Ers 2010, mae menter *Gwobrau'r Llysgennad Ieithoedd* wedi bod yn hyrwyddo amlieithrwydd yn Lithwania. Caiff y fenter flynyddol hon ei chydgysylltu gan y *Sefydliad Cymorth Cyfnewid mewn Addysg* mewn partneriaeth â sefydliadau eraill (gan gynnwys y British Council) fel rhan o'r rhaglen *Label Ewropeaidd*. Dyfarnwyd teitl *Llysgennad Ieithoedd y Flwyddyn* eisoes i unigolyn (2010), menter busnes (2011) ac ysgol yn 2012 caiff ysgol ei gwobrwyo. Nod trefnwyr *Gwobrau'r Llysgennad Ieithoedd* yw cyfrannu at y ddealltwriaeth bod buddsoddi mewn dysgu iaith yn talu ffordd ar lefel unigol a lefel busnes, ac annog y gwaith strategol o gynllunio buddsoddi mewn addysgu iaith ar lefel wladol.

Cyfeiriadau

Lietuvos ekonomikos perspektyvos, 2009.
DnB NORD bankas, 2009.

LR Visuomenės informavimo įstatymas, 1996 m. liepos 2 d., Nr. I-1418. Valstybės žinios, 2006-07-27, Nr. 82-3254.

Markevičienė R., Tamulynienė L., Lietuvos spaudos statistika 2010. Lietuvos Martyno Mažvydo biblioteka. Bibliografijos ir knygotyros centras. Vilnius, 2011.

Pedagogų rengimo programos. Prieiga per internetą: www.vpu.lt/Page.aspx?pageID=2722

Teisės aktų bazė. Prieiga per internetą: www3.lrs.lt/pls/inter/w5_show?p_r=3984&p_k=1

Informacinės visuomenės plėtros komitetas. Prieiga per internetą: www3.lrs.lt/pls/inter/w5_show?p_r=6141&p_k=1

Lietuvos statistikos departamentas. Prieiga per internetą: www.stat.gov.lt

Švietimo ir mokslo ministerija. Prieiga per internetą: www.smm.lt

12 YR ISELDIROEDD

12.1 Iseldiroedd yn ei chyfanrwydd

Saskia Benedictus-van den Berg

Cyd-destun y wlad

Mae'r proffil hwn yn disgrifio'r sefyllfa yn yr Iseldiroedd cyfan; caiff y sefyllfa benodol yn Nhalaith Fryslân ei disgrifio yn y proffil ar Fryslân.

Mae gan Deyrnas yr Iseldiroedd boblogaeth o 16.6 miliwn. Mae gan tua 1.9 miliwn (neu 11.4%) gefndir nad yw'n Orllewinol (mewnfudwyr cenhedlaeth gyntaf neu ail genhedlaeth). Mae gan ddwy ran o dair o fewnfudwyr gefndir Tyrcaidd, Morocaid, Caribiaidd neu Swrinamaidd (CBS, 2011a). Gellir eu rhannu'n grŵp cyn-drefedigaethol, y mewnfudwyr Caribiaidd a Swrinamaidd a ddaw o ardaloedd yn y Caribi lle mai Iseldireg yw'r iaith swyddogol, a grŵp nad yw'n drefedigaethol, mewnfudwyr Tyrcaidd a Morocaid nad ydynt wedi cael unrhyw gyswllt blaenorol â'r iaith Iseldireg na diwylliant y wlad.

Iseldireg yw iaith swyddogol yr Iseldiroedd. Dim ond yn 1995 yr ymgorfforwyd hyn yn y gyfraith (Nederlandse Taalunie, 2011). Yn yr un ddeddf (*Algemene Wet Bestuursrecht*) rhoddwyd statws swyddogol i'r iaith Ffriseg yn nhalaith Fryslân.

Yn yr Iseldiroedd, mae'n rhaid i wladolion nad ydynt yn hanu o'r Iseldiroedd, ac yn arbennig fewnfudwyr nad ydynt yn hanu o'r Gorllewin, basio arholiad ar wybodaeth am yr iaith Iseldireg a diwylliant/hanes y wlad i ddangos eu bod wedi integreiddio'n ddigonol yng nghymdeithas y wlad. Mae'r llywodraeth yn rhoi pwyslais ar gyfrifoldeb y dinasyddion eu hunain ac yn rhoi pwys mawr ar yr iaith Iseldireg. Adlewyrchir hyn yng nghanlyniadau'r astudiaeth hon.

Ieithoedd mewn dogfennau swyddogol a chronfeydd data

Ymdrinnir â'r iaith genedlaethol, ieithoedd tramor ac ieithoedd rhanbarthol/lleiafrifol mewn deddfwriaeth iaith a/neu ddogfennau polisi iaith. (Cyd-)ariennir y broses o ddysgu ac addysgu'r iaith genedlaethol ar gyfer plant a/neu oedolion o'r Iseldiroedd sy'n byw dramor mewn mwy nag 80 o wledydd, yn enwedig mewn gwledydd cyfagos megis yr Almaen, Gwlad Belg a Ffrainc. Mae'r Iseldiroedd wedi cadarnhau'r *Siarter Ewropeaidd ar gyfer Ieithoedd Rhanbarthol neu Ieithoedd Lleiafrifol*. Cydnabyddir y pum iaith ranbarthol/lleiafrifol ganlynol yn y Siarter: Ffriseg, Limbwrgeg, Sacsoneg Isel, Romani ac Iddew-Almaeneg. Dim ond ar gyfer yr iaith Ffriseg y ceir darpariaeth addysg swyddogol ar lefel ranbarthol, a gefnogir gan y Siarter.

Dim ond mewn perthynas â'r iaith Ffriseg y ceir dulliau swyddogol o gasglu data ar amrywiaeth ieithyddol yn yr Iseldiroedd, a hynny ar ffurf data arolwg a gaiff ei ddiweddarau o bryd i'w gilydd. Mae'r dulliau hyn o gasglu data yn ymddrin â'r iaith Ffriseg, yn seiliedig ar gwestiwn am iaith yr aelwyd a chwestiwn am hyfredredd iaith sy'n gofyn pa un a ellir siarad/deall/darllen/ysgrifennu'r iaith (ac i ba raddau y gellir gwneud hynny).

Ni chaiff data ar amrywiaeth ieithyddol ei gasglu'n genedlaethol, er y byddai cronfeydd data wedi'u diweddarau'n rheolaidd ar amrywiaeth ieithyddol yn darparu gwybodaeth hanfodol i lunio polisiau, fel sy'n digwydd mewn gwledydd eraill.

IC=iaith/leithoedd Cenedlaethol
IT=leithoedd Tramor
IRh/LI=leithoedd Rhanbarthol neu Leiafrifol
IM=leithoedd Mewnfuldwy

leithoedd mewn addysg cyn cynradd (Ni cheir darpariaeth ar gyfer ieithoedd tramor nac ieithoedd mewnfuldwy)

	Grwpiau targed	Hyd	Gofynion o ran isafswm maint y grŵp	Diwrnodau'r wythnos	Hyfforddiant cyn swydd i athrawon	Hyfforddiant mewn swydd i athrawon	Arian ar gael gan y wladwriaeth
IRh/LI	pawb	≥2 flynedd	dim	>1 diwrnod	cyffredinol	cyffredinol	llawn
Cymorth IC ychwanegol	pawb	≥2 flynedd	dim	>1 diwrnod	cyffredinol	cyffredinol	llawn

leithoedd a gynigir mewn addysg cyn cynradd

IRh/LI	Ffriseg yn Fryslân yn unig
---------------	----------------------------

Mae addysg cyn cynradd yn ddewisol ond yn eang. Dangosir y pwys a roddir ar yr iaith Iseldireg gan y Weinyddiaeth Addysg mewn rhaglenni a gynigir i blant mewn ysgolion cyn cynradd i fynd i'r afael â diffygion iaith (Iseldireg) ac oedi o ran datblygu iaith (Iseldireg) (Ministerie van Onderwijs, Cultuur en Wetenschap, 2011b). Mae hyn yn unol â chynnig gan Senedd Ewrop yn 2009 sy'n nodi bod angen mynd i'r afael â'r iaith genedlaethol yn arbennig ar lefel cyn ysgol.

leithoedd mewn addysg gyrradd (Ni cheir darpariaeth ar gyfer ieithoedd mewnfuldwy)

Trefniadaeth

	Cwricwlwm	Cymorth ychwanegol i newydd-ddyfodiaid	Profion diagnostig wrth ddechrau	Monitro sgiliau iaith
Cymorth IC	cyffredinol	cyn prif ffrwd	absennol	cenedlaethol safonol

	Grwpiau targed	Cwricwlwm	CLIL	Dechrau addysg iaith	Amserlennu	Gofynion o ran isafswm maint y grŵp	Monitro sgiliau iaith	Y lefel y mae angen ei chyrraedd	Arian ar gael gan y wladwriaeth
IRh/LI	pawb	cyffredinol	lleoledig	o flwyddyn 1	yn ystod oriau ysgol	dim	absennol	normau ar lefel genedlaethol neu ranbarthol	llawn
IT	pawb	cyffredinol	lleoledig	cyfnod olaf yn unig	yn ystod oriau ysgol	dim	lefel ysgol	normau ar lefel genedlaethol neu ysgol	llawn

Addysgu

	Cymwysterau athrawon	Hyfforddiant cyn swydd i athrawon	Hyfforddiant mewn swydd i athrawon	Symudedd
Cymorth IC	athrawon cyffredinol	pwnc-benodol	cyffredinol	Dd/G
IRh/LI	athrawon iaith	pwnc-benodol	cyffredinol	Dd/G
IT	athrawon cyffredinol	cyffredinol	pwnc-benodol	dim

leithoedd a gynigir mewn addysg gynradd

IRh/LI	Ffriseg yn Fryslân yn unig
IT	Saesneg yn orfodol; Almaeneg, Ffrangeg a Sbaeneg yn ddewisol

Mae addysg yn orfodol i blant rhwng pump ac 16 oed. Fodd bynnag, mae dros 95% o blant yn dechrau mynychu'r ysgol gynradd yn bedair oed. Fel mewn addysg cyn cynradd, mae addysg gynradd yn cynnwys rhaglenni i fynd i'r afael ag oedi a diffygion yn yr iaith (Iseldireg) (Ministerie van Onderwijs, Cultuur en Wetenschap, 2011b). Mae llywodraeth yr Iseldiroedd yn rhoi pwyslais ar bwysigrwydd Iseldireg a rhifydded drwy gydol addysg. Datblygwyd fframweithiau ar gyfer iaith a rhifydded. Noda'r fframweithiau lefelau o hyfedredd sy'n gysylltiedig â cherrig milltir gwahanol yng ngyrfaedd addysgol disgyblion, megis ar ddiwedd addysg gynradd. Mae'r fframweithiau wedi'u hymgorffori mewn deddf a ddaeth i rym yn 2010, ond bydd y broses o weithredu'r lefelau fframwaith mewn cynnwys addysgol ac arholiadau yn digwydd yn raddol yn y blynyddoedd sydd i ddod (Ministerie van Onderwijs, Cultuur en Wetenschap, 2011a).

Mae Saesneg yn orfodol yn nwy flynedd olaf addysg gynradd. Arferid darparu ar gyfer addysg mewn ieithoedd mewnfwfudwyr o dan y gyfraith. Rhwng 1974 a 2004 darparwyd addysg allgyrsiol mewn ieithoedd mewnfwfudwyr ar lefel ysgol gynradd ac fe'i hariannwyd gan y llywodraeth. Daeth yr arian i ben am fod addysg mewn ieithoedd mewnfwfudwyr yn mynd yn groes i'r polisi integreiddio plant lleiafrifoedd sy'n fewnfudwyr (Extra ac Yağmur, 2006: 55). Meistrol'r iaith Iseldireg sy'n sail i integreiddio yn ôl y llywodraeth (Eerste Kamer, 2004). Serch hynny, mae'r gyfraith yn dal i ganiatáu defnyddio ieithoedd yn ychwanegol at Iseldireg ar gyfer plant nad ydynt yn dod o gefndiroedd Iseldiraidd os yw hynny'n eu helpu i ddechrau mewn addysg Iseldiraidd a throsglwyddo iddi.

Mewn ymateb i'r ffaith bod diffyg darpariaeth gyhoeddus ar gyfer ieithoedd mewnfwfudwyr ar lefel addysg cyn cynradd/addysg gynradd, gweithredwyd mentrau preifat. Er enghraifft, mae ysgolion Tsieineaidd, Japaneaidd, Pwylaidd a Rwsiaidd wedi cael eu sefydlu sy'n darparu addysg ategol yn yr ieithoedd a'r diwylliannau y cyfeirir atynt. Mae'r mentrau hynny i'w gweld dros y wlad i gyd ac fe'u gweithredir yn y gymuned yn bennaf. Hefyd, cyflwynwyd sefydliad Iseldiraidd-Tyrcaidd cymysg i ddatblygu'r gwaith o ddarparu addysg Dyrceg (allgyrsiol) (Stichting TON). Mae'r mentrau preifat hyn yn gweithredu'r argymhellion a wnaed gan Gyngor Addysg yr Iseldiroedd i lywodraeth yr Iseldiroedd yn 2011, o ran addysg ieithoedd mewnfwfudwyr (Onderwijsraad, 2001). Ni chafodd y cynigion hyn eu gweithredu gan y llywodraeth.

leithoedd mewn addysg uwchradd

Trefniadaeth

	Cwricwlwm	Cymorth ychwanegol i newydd-ddyfodiaid	Profion diagnostig wrth ddechrau	Monitro sgiliau iaith
Cymorth IC	cyffredinol	cyn prif ffrwd	absennol	lefel ysgol

	Grwpiau targed	Cwricwlwm	CLIL	Amserlennu	Gofynion o ran isafswm maint y grŵp	Monitro sgiliau iaith	Y lefel y mae angen ei chyrraedd	Arian ar gael gan y wladwriaeth
IRh/LI	pawb	cyffredinol	lleoledig	yn ystod oriau ysgol	dim	lefel ysgol	normau ar lefel genedlaethol neu ranbarthol	llawn
IT	pawb	cyffredinol	lleoledig	yn ystod oriau ysgol	dim	lefel ysgol	wedi'i chysylltu â'r Fframwaith Cyfeirio Ewropeaidd Cyffredin	llawn
IM	pawb	cyffredinol	absennol	yn ystod oriau ysgol	dim	lefel ysgol	normau ar lefel genedlaethol neu ranbarthol	llawn

Addysgu

	Cymwysterau athrawon	Hyfforddiant cyn swydd i athrawon	Hyfforddiant mewn swydd i athrawon	Lefel yr iaith sydd ei hangen	Symudedd
Cymorth IC	athrawon iaith	pwnc-benodol	pwnc-benodol	normau ar lefel genedlaethol neu ysgol	Dd/G
IRh/LI	athrawon iaith	pwnc-benodol	cyffredinol	Dd/G	Dd/G
IT	athrawon iaith	pwnc-benodol	pwnc-benodol	safonau cenedlaethol neu ranbarthol	cymorth ariannol anffurfiol
IM	athrawon iaith	pwnc-benodol	cyffredinol	Dd/G	Dd/G

leithoedd a gynigir mewn addysg uwchradd

IRh/LI	Ffriseg yn Fryslân yn unig
IT (cynigir yr ieithoedd mewn llythrennau italig mewn ysgolion uwchradd uwch yn unig)	Gorfodol: Saesneg ynghyd ag un iaith arall ar y lefel uchaf o addysg uwchradd. Dewisol: Groeg Hynafol, Tsieinëeg, Ffrangeg, Almaeneg, Eidaleg, Lladin, Rwseg, Sbaeneg
IL	Arabeg, Tyrceg

Caiff y fframwaith ar gyfer iaith mewn addysg gynradd ei ddefnyddio mewn addysg uwchradd hefyd. Mae hyfedredd mewn Iseldireg yn orfodol ar bob lefel o addysg uwchradd ac mae hefyd yn rhan o bob arholiad, felly hefyd Saesneg. Mae newydd-ddyfodiaid i'r Iseldiroedd yn mynychu addysg ar wahân i ddechrau, am ddwy flynedd ar gyfartaledd. Mae'r addysg honno'n canolbwyntio ar sgiliau mewn Iseldireg a sgiliau hanfodol eraill. Ar ôl hynny, maent yn dechrau addysg brif ffrwd. Ar wahân i Saesneg, dim ond ar y lefel uchaf o addysg uwchradd y mae ail iaith dramor yn orfodol; fel arfer Almaeneg neu Ffrangeg ac weithiau Sbaeneg fydd hon. Mae gan ysgolion y rhyddid i gynnig ieithoedd tramor ychwanegol.

Gall Tyrceg ac Arabeg gael eu cynnig fel pynciau a'u sefyll fel pwnc arholiad. Fodd bynnag, yr ysgolion sy'n penderfynu a ydynt am gynnig yr ieithoedd hyn ac mae llawer ohonynt yn gwneud hynny. At hynny, mae cyfran y disgyblion sy'n sefyll arholiadau mewn naill ai Tyrceg neu Arabeg yn isel a chwympodd o tua 0.28% yn 2002 i 0.08% yn 2003. Mae wedi codi fymryn eto, i 0.13% yn 2011, ond nid yw ar lefel 2002 o hyd (Alberts ac Erens, 2011). Un rheswm posibl dros y gostyngiad hwn yw'r ffaith bod y llywodraeth wedi rhoi'r gorau i ariannu addysg mewn ieithoedd mewnfudwyr fel y nodwyd uchod. Mae'r diffyg diddordeb hwn mewn Tyrceg ac Arabeg hyd yn oed yn fwy nodedig o ystyried y cynnydd yn nifer y plant Tyrcaidd-Iseldiraidd a Morocaidd-Iseldiraidd mewn ysgolion cynradd trefol. Mae a wnelo'r atebion a roddwyd uchod â'r ysgolion hynny sy'n cynnig Arabeg a/neu Dyrceg.

Un ffenomenon diweddar yw'r cynnydd mewn ysgolion uwchradd sy'n cynnig rhaglen ddwyieithog mewn Iseldireg a Saesneg (*Dysgu Integredig Cynnwys ac Iaith* – CLIL yw'r enw a roddir arni fel rheol). Yn y rhan fwyaf o achosion mae a wnelo hyn â'r lefel uchaf o addysg uwchradd, sy'n paratoi ar gyfer y brifysgol, ond yn fwy diweddar mae hefyd wedi cael ei gweithredu ar lefelau is (Europees Platform, 2011a). Hefyd, ar lefelau cyn cynradd ac ysgol gynradd, mae nifer gynyddol o ysgolion yn treulio mwy o amser ar addysg Saesneg (dysgu iaith dramor yn gynnar) (Europees Platform, 2011b). Mae'r datblygiadau hyn wedi codi cwestiwn ynghylch y cymwysterau dwyieithog y dylai athrawon mewn ysgolion dwyieithog feddu arnynt.

leithoedd mewn addysg bellach ac addysg uwch

Addysg bellach (mewn tri sefydliad AHG) (Ni cheir darpariaeth ar gyfer ieithoedd mewnfudwyr nac ieithoedd Rh/LI)

		Ystod o raglenni iaith	Cwricwlwm	Y lefel y mae angen ei chyrraedd	Arian ar gael gan y wladwriaeth
IT	Sefydliad A	cyfyngedig	cyffredinol	wedi'i chysylltu â'r Fframwaith Cyfeirio Ewropeaidd Cyffredin	rhannol
	Sefydliad B	amrywiaeth eang	cydlynol a chllir	wedi'i chysylltu â'r Fframwaith Cyfeirio Ewropeaidd Cyffredin	rhannol
	Sefydliad C	amrywiaeth eang	cyffredinol	wedi'i chysylltu â'r Fframwaith Cyfeirio Ewropeaidd Cyffredin	rhannol

Addysg uwch (mewn dwy brifysgol)

	iaith/ieithoedd a ddefnyddir fel y cyfrwng addysgu	ieithoedd ar wefan	Grwpiau targed ar gyfer cymorth ychwanegol yn yr iaith genedlaethol	Y lefel i'w chyrraedd o ran addysgu ieithoedd tramor	Recriwtio myfyrwyr nad ydynt yn fyfyrwyr o'r wlad	Symudedd ar gyfer myfyrwyr iaith	Symudedd ar gyfer myfyrwyr nad ydynt yn fyfyrwyr iaith
Prifysgol A	cenedlaethol a thramor	cenedlaethol a thramor	pawb	wedi'i chysylltu â'r Fframwaith Cyfeirio Ewropeaidd Cyffredin	rhyngwladol yn unig	dewisol	dewisol
Prifysgol B	cenedlaethol a thramor	cenedlaethol a thramor	pawb	wedi'i chysylltu â'r Fframwaith Cyfeirio Ewropeaidd Cyffredin	rhyngwladol yn unig	dewisol	dewisol

Caiff y fframwaith ar gyfer iaith mewn addysg gynradd ac addysg uwchradd ei ddefnyddio hefyd mewn Addysg a Hyfforddiant Galwedigaethol (AHG).

Mewn addysg brifysgol cafodd y system addysg Eingl-Sacsonaidd (Baglor-Meistr) ei chyflwyno o 2002 ymlaen. Roedd yn rhan o'r broses o greu Ardal Addysg Uwch Ewropeaidd (proses Bologna). O ganlyniad i'r newidiadau hyn, yn ogystal â mwy o ffocws ar ryngwladoli yn gyffredinol, i ddenu myfyrwyr rhyngwladol, mae addysg brifysgol yn yr Iseldiroedd bellach yn cynnig mwyfwy lawer o gursiau Meistr drwy gyfrwng y Saesneg. Mae hyn wedi sbarduno trafodaeth ynghylch y defnydd o Saesneg o gymharu ag Iseldireg mewn addysg brifysgol ac ynghylch ansawdd addysg o ran hyfedredd athrawon a myfyrwyr prifysgol yn yr iaith Saesneg.

Ieithoedd yn y cyfryngau clyweledol a'r wasg

Cynrychiadau teledu nad ydynt yn yr iaith genedlaethol	Ffilmiau yn y sinema nad ydynt yn yr iaith genedlaethol	Rhaglenni mewn ieithoedd Rh/LI y tu allan i'r rhanbarth	Argaeledd iaith arwyddion ar y teledu
wedi'u hisdeitlo	wedi'u hisdeitlo	weithiau	weithiau

Mae'r arfer cyffredin o isdeitlo rhaglenni teledu sydd mewn ieithoedd heblaw am Iseldireg yn golygu bod plant yn dod i gysylltiad ag amrywiaeth o wahanol ieithoedd o oedran cynnar. Mae hyn yn unol â Chynnig Senedd Ewrop ar Amlieithrwydd (2009). Fodd bynnag, mae'r mwyafrif helaeth o raglenni tramor a ddangosir ar y teledu yn yr Iseldiroedd mewn Saesneg, felly dod i gysylltiad â diwylliant ac iaith Saesneg Prydain ac America a wna gwylwyr yn bennaf. Mae rhaglenni plant, cartwnau yn arbennig, yn cael eu trosleisio'n aml.

Yn Fryslân, mae'r prif ddarlledwr radio a theledu rhanbarthol yn defnyddio Ffriseg gan amlaf ac weithiau Iseldireg. Felly, mae cyfryngau clyweledol Ffriseg yn arbennig yn gweithredu'n unol ag argymhellion Cyngor Ewrop a'r UE yn yr ystyr eu bod yn dangos yr amrywiad iaith yn y dalaith.

Mae'r amrywiaeth o ieithoedd ar wahân i Iseldireg a gynigir ar y teledu yn yr Iseldiroedd yn gyfyngedig.

leithoedd mewn gwasanaethau cyhoeddus a manau cyhoeddus

Strategaethau iaith sefydliadol ar lefel dinas

Nifer yr ieithoedd	Ar y wefan	Defnyddio cyfieithwyr	Cymwyseddau iaith mewn disgrifiadau swydd	Recriwtio siaradwyr ieithoedd	Hyfforddiant iaith a gynigir i gyflogeion	Cofnod o sgiliau iaith cyflogeion
>4	Amsterdam	Amsterdam	Amsterdam		Amsterdam Leeuwarden	
3-4						
1-2	Rotterdam Leeuwarden	Leeuwarden	Leeuwarden	Leeuwarden		

Cyfleusterau cyfathrebu

Pum prif gyfleuster cyfathrebu ar lafar	Pum prif gyfleuster cyfathrebu ysgrifenedig
Iechyd Cyfreithiol Cymdeithasol Twristiaeth Trafnidiaeth	Twristiaeth Iechyd Cymdeithasol Trafnidiaeth Cyfreithiol

Mae'r amrywiaeth o ieithoedd a ddefnyddir mewn gwasanaethau cyhoeddus a manau cyhoeddus (yn y dinasoedd a astudiwyd) yn gyfyngedig. Mae Iseldireg yn safonol. Dim ond weithiau y defnyddir Tyrceg ac Arabeg, ond yr iaith a gynigir fwyaf yw Saesneg. Yn Fryslân, caiff pobl ddefnyddio Ffriseg i gyfathrebu â gwasanaethau cyhoeddus. Fodd bynnag, yn aml, dim ond yn Iseldireg y mae gwybodaeth ysgrifenedig ar gael gan y gwasanaethau hynny.

Gwasanaeth all gael ei ddefnyddio ar gyfer pob math o fater cyhoeddus yw gwasanaeth dehongli dros y ffôn (tolkentelefoon). Mewn gofal iechyd y defnyddir y gwasanaeth hwn fwyaf. Roedd y llywodraeth arfer talu amdano, ond daeth yr arian hwn i ben ar 1 Ionawr 2012. Ystyrir bellach mai cyfrifoldeb y claf ei hun yw gallu siarad Iseldireg neu drefnu ei ddehonglydd ei hun a thalu amdano (Rijksoverheid, 2011).

Ieithoedd mewn busnes (allan o 24 o gwmnïau)

	STRATEGAETHAU IAITH CYFFREDINOL							
	Argaeledd strategaeth iaith	Pwyslais ar sgiliau iaith wrth recriwtio	Darpariaeth symudedd rhyngwladol	Y defnydd o gyfieithwyr/dehonglwy'r allanol	Cofnodi sgiliau iaith staff	Y defnydd o rwydweithiau ar gyfer hyfforddiant iaith	Y defnydd o raglenni/cyllid yr UE	Ymwybyddiaeth o raglenni/cyllid yr UE
Defnyddir yn eang	2	14	4	1	1	0	1	0

		STRATEGAETHAU IAITH MEWNOL						STRATEGAETHAU IAITH ALLANOL			
		Partneriaethau â'r sector addysg	Cynlluniau gwobrwyo/dyrchafu yn seiliedig ar sgiliau iaith	Darpariaeth hyfforddiant iaith	Defnyddir y Fframwaith Cyfeirio Ewropeaidd Cyffredin	Defnyddir iaith ar gyfer dogfennau yn y gweithle/mewnwyd	Defnyddir iaith ar gyfer meddalwedd, rhaglenni'r we	Defnyddir iaith ar gyfer adroddiadau blynyddol/busnes	Defnyddir iaith ar gyfer marchnata	Defnyddir iaith ar gyfer brandio/hunaniaeth	Defnyddir iaith ar gyfer gwefan
IC	defnyddir yn eang	1	0	0	0	22	20	20	23	20	23
Saesneg Busnes	defnyddir yn eang	2	0	3	0	9	11	11	7	10	13
Ieithoedd ychwanegol	defnyddir yn eang	1	0	2	0	3	3	2	3	4	5

Mae allforion yn cyfrif am dros 70% o'r CMC (CBS, 2011b). Nid adlewyrchir y pwysigrwydd hwn ym mhroffil ieithoedd busnes yr Iseldiroedd, er nad yw'r pedwar math o gwmni a astudiwyd (banciau, gwestai, archfarchnadoedd a chwmnïau adeiladu) o reidrwydd yn fathau o gwmnïau sy'n masnachu'n rhyngwladol. Yn arbennig, ni fydd gan gwmnïau lleol na rhanbarthol ogwydd gwneud busnes dramor. Yn gyffredinol, nid yw rôl iaith ym myd busnes yn amlwg. Gallai busnesau gael eu gwneud yn fwy ymwybodol o fanteision economaidd amlieithrwydd.

Mewn cwmnïau yn Fryslân, defnydd anffurfiol a wneir o Ffriseg gan fwyaf ac nid yw Ffriseg ysgrifenedig yn chwarae rhan o gwbl.

Canfyddiadau allweddol cyffredinol

Ar adeg pan fo amrywiaeth ieithyddol a globaleiddio ar gynydd, mae llywodraeth yr Iseldiroedd yn rhoi pwyslais ar yr iaith Iseldireg. Mae hyn yn unol â pholisi Comisiwn Ewropeaidd/ Cyngor Ewrop. Ar y llaw arall, mae polisi Comisiwn Ewropeaidd/ Cyngor Ewrop hefyd yn pwysleisio cynnwys ieithoedd lleiafrifol, tramor a mewnfudwyr mewn addysg ac mewn rhannau eraill o gymdeithas. Yn enwedig mewn perthynas ag ieithoedd mewnfudwyr, gallai polisi'r Iseldiroedd fod yn fwy cydnaws â pholisi Ewrop.

Serch hynny, ceir amryw fentrau sy'n cydnabod gwerth amlieithrwydd a'i fanteision. Er enghraifft, mae sawl ysgol breifat sy'n darparu addysg ychwanegol mewn ieithoedd mewnfudwyr. O fewn addysg uwchradd, mae addysgu pynciau drwy gyfrwng y Saesneg (CLIL) yn dod yn fwyfwy cyffredin. Ni chaiff yr amcan 'mamiath + 2' ei gyflawni'n llawn, ond mae'r ffaith bod Saesneg yn orfodol yn yr ysgol uwchradd yn golygu y bydd y rhan fwyaf o ddisgyblion yn dysgu o leiaf un iaith dramor.

Mentrau a chynlluniau peilot addawol

Caiff prosiect arloesol diddorol fel enghraifft o arfer da ei gynnal yn ninas Utrecht, sef pedwaredd ddinas fwyaf yr Iseldiroedd. Mae Utrecht yn disgrifio ei hun fel crochan o amlieithrwydd (Dinas Utrecht, 2009: 1). Gall cyfran fawr o'r boblogaeth siarad tair neu fwy o ieithoedd; caiff y cysylltiad â pholisi Ewrop ei wneud yn amlwg yn y prosiect ac mae'r nod o ran 'mamiath + 2' yn cael ei hyrwyddo. At hynny, mae'r ddinas yn gartref i lawer o gwmnïau rhyngwladol ac mae prifysgol Utrecht yn denu llawer o fyfyrwyr tramor. Mae'r ddinas am ddefnyddio'r nodwedd hon fel man cychwyn tuag at ddatblygu Utrecht fel *labordy amlieithrwydd* (ibidem: 1). Mae astudiaethau amrywiol yn seiliedig ar amlieithrwydd wedi cael eu lansio, ac mae prosiectau amlieithrwydd wedi cael eu sefydlu (ibidem). Yn 2011 cafodd adroddiad ei gyhoeddi fel rhan o'r prosiect: 'The Dutch City of Utrecht as a European Hotspot and Laboratory for Multilingualism' (Martinovic, 2011).

Cyfeiriadau

Alberts, R.V.J. a B.J.M. Erens (2011). *Verslag van de examencampagne 2011 voortgezet onderwijs*. Arnhem: Stichting Cito Instituut voor Toetsontwikkeling.

Centraal Bureau voor de Statistiek (2011a). 'Bevolking; leeftijd, herkomstgroepering, geslacht en regio, 1 januari.' Ar gael yn: <http://statline.cbs.nl/StatWeb/publication/?DM=SLNL&PA=37713> Cyrchwyd 9 Rhagfyr 2011.

Centraal Bureau voor de Statistiek, 2011b. *De Nederlandse economie 2010*. Den Haag/Heerlen: Centraal Bureau voor de Statistiek. Ar gael yn: www.cbs.nl/NR/rdonlyres/03E81D9F-8714-4AEA-B0F7-8EC72111EA56/0/2010p19pub.pdf Cyrchwyd: 28 Hydref 2011.

Dinas Utrecht, yr Adran Materion Cyhoeddus, Mewnol, Cymhorthdal (2009). *Utrecht: Multilingual hotspot and laboratory in Europe*. Ar gael yn: http://ec.europa.eu/languages/documents/utrecht-multilingual-hotspot-and-laboratory-in-europe_en.pdf Cyrchwyd 13 Hydref 2011.

Eerste Kamer der Staten-Generaal (2004). *Beeindiging bekostiging onderwijs in allochtone levende talen*. Ar gael yn: www.eerstekamer.nl/wetsvoorstel/29019_beeindiging_bekostiging Cyrchwyd 7 Hydref 2011.

Senedd Ewrop (2009). *EP Resolution on Multilingualism: an asset for Europe and a shared commitment*. Brwsel: Senedd Ewrop.

Europees Platform (2011a). *Tto. Tweetalig onderwijs – Content and Language Integrated Learning*. Ar gael yn: www.europeesplatform.nl Cyrchwyd 16 Rhagfyr 2011.

Europees Platform (2011b). *Vroeg vreemde talen onderwijs*. Ar gael yn: www.europeesplatform.nl Cyrchwyd 16 Rhagfyr 2011.

Extra, G. a D. Gorter (gol.) (2001). *The other languages of Europe: Demographic, sociolinguistic and educational perspectives*. Clevedon: Multilingual Matters.

Extra, G. a K. Yağmur (2006). 'Immigrant Minority Languages at Home and at School. A Case Study of the Netherlands.' *European Education* 38.2, tud. 50-63.

Martinovic, B. (2011). *The Dutch City of Utrecht as a European Hotspot and Laboratory for Multilingualism*. Utrecht: Prifysgol Utrecht. Ar gael yn: <https://docs.google.com/viewer?url=http://www.utrecht.nl/images/Secretarie/Internationaal/pdf/Multilingualism%2520Utrecht.pdf&embedded=true&chrome=true> Cyrchwyd 19 Rhagfyr 2011.

Ministerie van Onderwijs, Cultuur en Wetenschap (2011a). *Doorlopende leerlijnen taal en rekenen*. Ar gael yn: www.taalenrekenen.nl/ Cyrchwyd 14 Hydref 2011.

Ministerie van Onderwijs, Cultuur en Wetenschap (2011b). *Leerachterstand. Taalachterstand bij peuters*. Ar gael yn: www.rijksoverheid.nl/onderwerpen/leerachterstand/taalachterstand-bij-peuters Cyrchwyd 16 Rhagfyr 2011.

Mortier, J. (2009). *Nederland meertalenland. Feiten, perspectieven en meningen over meertaligheid*. Amsterdam: Aksant.

Nederlandse Taalunie, 2011. *Het Nederlandse taalgebied*. Ar gael yn: taalunieversum.org/taalpeil/2005/het_nederlandse_taalgebied.html Cyrchwyd Hydref 2011.

Onderwijsraad, 2001. *Samen naar de taalschool. Nieuwe moderne vreemde talen in perspectief*. Den Haag. Ar gael yn: www.onderwijsraad.nl/upload/publicaties/423/documenten/advies_taalschool.pdf Cyrchwyd 27 Hydref 2011.

Rijksoverheid (2011). *Tolk- en vertaaldiensten in de zorg*. Ar gael yn: www.rijksoverheid.nl/onderwerpen/kwaliteit-van-de-zorg/tolk-en-vertaaldiensten-in-de-zorg Cyrchwyd 13 Hydref 2011.

12 YR ISELDIROEDD

12.2 Fryslân

Saskia Benedictus-van den Berg

Cyd-destun rhanbarthol

Mae a wnelo'r proffil hwn â'r sefyllfa yn nhalaith Fryslân ac mae'n canolbwyntio ar nodweddion y dalaith honno yn y meysydd canlynol: leithoedd mewn dogfennau swyddogol a chronfeydd data, addysg cyn cynradd, addysg gynradd ac addysg uwchradd. Argymhellir eich bod yn darllen y proffil hwn ar y cyd â'r proffil ar yr Iseldiroedd.

Mae Fryslân yn dalaith yng ngogledd yr Iseldiroedd. Talaith amaethyddol ydyw ar y cyfan (Provinsje Friesland, 2010) ac nid yw mor ddwys ei phoblogaeth â'r wlad gyfan: 193 o bobl/km² o gymharu â 491 yn genedlaethol (CBS, 2012). Mae'r bron i 650,000 o bobl sy'n byw yn Fryslân yn cyfateb i tua 4% o gyfanswm poblogaeth yr Iseldiroedd. Ceir 3.7% o fewnfudwyr nad ydynt yn hanu o'r Gorllewin yno; mae'r ganran hon yn sylweddol is na'r 11.4% i'r Iseldiroedd gyfan. Mae pobl o gefndir Iracaidd, Morocaidd, Swirinamaidd neu Garibäidd yn cyfateb i 39% o'r mewnfudwyr nad ydynt yn hanu o'r Gorllewin a geir yn Fryslân (CBS, 2011).

Ffriseg yw iaith swyddogol y dalaith, ynghyd ag Iseldireg, sy'n golygu mai Fryslân yw'r unig dalaith ddwyieithog swyddogol yn yr Iseldiroedd. Mae ychydig dros hanner poblogaeth Fryslân yn siarad Ffriseg fel eu mamiaith. Gall y rhan fwyaf o'r trigolion ddeall yr iaith naill ai'n dda (20%) neu'n dda iawn (65%). Gall tri chwarter y boblogaeth siarad Ffriseg i lefel resymol i uchel. Unwaith eto, dywed tri chwarter y boblogaeth eu bod yn gallu darllen Ffriseg yn rhesymol, yn eithaf da neu'n dda iawn. Fodd bynnag, dim ond 12% all ysgrifennu'n dda yn Ffriseg (Provinsje Friesland, 2011a).

leithoedd mewn dogfennau swyddogol a chronfeydd data

Ymdrinnir â'r iaith genedlaethol, ieithoedd tramor a'r iaith Ffriseg mewn deddfwriaeth iaith a dogfennau polisi iaith. Mae'r iaith Ffriseg yn un o ieithoedd swyddogol yr Iseldiroedd, ar y cyd â'r iaith Iseldireg.

Dim ond mewn perthynas â'r iaith Ffriseg y ceir dulliau swyddogol o gasglu data ar amrywiaeth ieithyddol yn yr Iseldiroedd, a hynny ar ffurf data arolwg a gaiff ei ddiweddarau o bryd i'w gilydd. Mae'r dulliau hyn o gasglu data yn ymdrin â'r iaith Ffriseg, yn seiliedig ar gwestiwn am iaith yr aelwyd a chwestiwn am hyfedredd iaith sy'n gofyn pa un a ellir siarad/deall/darllen/ysgrifennu'r iaith (ac i ba raddau y gellir gwneud hynny).

Ffriseg yw'r unig iaith lleiafrifol y mae llywodraeth yr Iseldiroedd wedi cadarnhau Rhan III o'r *Siarter Ewropeaidd ar gyfer leithoedd Rhanbarthol neu leithoedd Lleiafrifol* (ECRML) yn ei chylch; dim ond o dan Ran II y cydnabyddir ieithoedd rhanbarthol eraill. Arweiniodd y cadarnhad at sefydlu Corff Cyngorol yr Iaith Ffriseg ('Consultatief orgaan Fries') yn 1998, sef corff sy'n cynghori'r Gweinidog dros Faterion Mewnol (Ministerie van Binnenlandse Zaken en Koninkrijksrelaties, 2011). Hefyd, yn 2005, cadarnhaodd Senedd yr Iseldiroedd y *Confensiwn Fframwaith ar gyfer Diogelu Lleiafrifoedd Cenedlaethol*, gan felly gydnabod Ffrisiaid fel lleiafrif cenedlaethol (Riemersma a De Jong, 2007).

Cafodd sefyllfa gyfreithiol Ffriseg ei threfnu yn 1995 yn y ddeddf 'Algemene Wet Bestuursrecht'. Yn 2011, cynigodd llywodraeth yr Iseldiroedd fil newydd ar y defnydd o'r iaith Ffriseg. Nod y bil yw sicrhau bod pawb yn cael yr hawl i ddefnyddio, Iseldireg neu Ffriseg wrth ymdrin â'r farnwriaeth a'r weinyddiaeth yn Nhalaith Fryslân ac felly atgyfnerthu'r posibiladau o ran defnyddio'r iaith Ffriseg. At hynny, mae'r bil yn rhagweld sefydlu *Cyngor Iaith Ffriseg*. Yn ymarferol, mae hyn yn golygu bod cylch gwaith y Corff Cyngorol a nodwyd uchod yn tyfu (Ministerie van Binnenlandse Zaken en Koninkrijksrelaties, 2011). Mae gan y rhan fwyaf o'r 27 o fwrdeistrefi yn Fryslân bolisi iaith penodol (Provinsje Fryslân, 2011a).

Yn Fryslân caiff data ar amrywiaeth ieithyddol ei gasglu mewn dwy ffordd. Yn gyntaf, cynhaliwyd arolygon iaith helaeth yn 1967, 1980 ac 1994; caiff yr arolwg nesaf ei gynllunio yn y dyfodol agos. Ar wahân i hynny, bob pedair blynedd, mae'r awdurdodau Taleithiol yn cynnal arolwg sylfaenol o hyfedredd yn yr iaith Ffriseg a'r defnydd a wneir ohoni yn y dalaith (*De Fryske taalatlas*). Ymddangosodd rhifyn cyntaf yr arolwg hwn yn 2007; rhydd wybodaeth sylfaenol i'r awdurdodau yn Fryslân lunio eu polisi iaith (Provinsje Fryslân, 2011a). Nid yw'r arolygon hyn yn rhoi gwybodaeth am ieithoedd mewnfudwyr; canolbwyntir ar yr iaith Ffriseg.

IC=iaith/leithoedd Cenedlaethol
IT=leithoedd Tramor
IRh/LI=leithoedd Rhanbarthol neu Leiafrifol
IM=leithoedd Mewnudwyr

leithoedd mewn addysg cyn cynradd (Ni cheir darpariaeth ar gyfer ieithoedd tramor nac ieithoedd mewnudwyr)

	Grwpiau targed	Hyd	Gofynion o ran isafswm maint y grŵp	Diwrnodau'r wythnos	Hyfforddiant cyn swydd i athrawon	Hyfforddiant mewn swydd i athrawon	Arian ar gael gan y wladwriaeth
IRh/LI	pawb	≥2 flynedd	dim	>1 diwrnod	cyffredinol	cyffredinol	llawn
Cymorth IC	pawb	≥2 flynedd	dim	>1 diwrnod	cyffredinol	cyffredinol	llawn

leithoedd a gynigir mewn addysg cyn cynradd

IRh/LI	Ffriseg
---------------	---------

Ceir dros 60 o gylchoedd chwarae dwyieithog (Iseldireg-Ffriseg) neu Ffriseg yn Fryslân (Sintrum Frysktalige Berne-opfang, 2011). Y Ganolfan ar gyfer Gofal Dydd Ffriseg (*Sintrum Frysktalige Berne-opfang*) sy'n gyfrifol am redeg y cylchoedd chwarae hyn (Riemersma a De Jong, 2007).

Wrth hyfforddi athrawon ar gyfer addysg cyn cynradd dim ond sylw cyffredinol a roddir i'r sefyllfa amlieithog yn y dalaith; nid yw addysgu'r iaith Ffriseg yn rhan o'r hyfforddiant ffurfiol.

O fewn addysg cyn cynradd, rhoddir sylw i amlieithrwydd yn ogystal â dysgu Iseldireg a Ffriseg, ond ni ddarperir ar gyfer ieithoedd tramor nac ieithoedd mewnudwyr. Felly, cylTawnir argymhellion yr UE i ryw raddau, ond gellid gwella ar hyn hyd yn oed ymhellach.

leithoedd mewn addysg gynradd (Ni cheir darpariaeth ar gyfer ieithoedd mewnudwyr)

Trefniadaeth

	Cwricwlwm	Cymorth ychwanegol i newydd-ddyfodiaid	Profion diagnostig wrth ddechrau	Monitro sgiliau iaith
Cymorth IC	cyffredinol	cyn prif ffrwd	absennol	enedlaethol safonol

	Grwpiau targed	Cwricwlwm	CLIL	Dechrau addysg iaith	Amserlennu	Gofynion o ran isafswm maint y grŵp	Monitro sgiliau iaith	Y lefel y mae angen ei chyrraedd	Arian ar gael gan y wladwriaeth
IRh/LI	pawb	cyffredinol	lleoledig	o flwyddyn 1	yn ystod oriau ysgol	dim	absennol	normau ar lefel genedlaethol neu ranbarthol	llawn
IT	pawb	cyffredinol	lleoledig	cyfnod olaf yn unig	yn ystod oriau ysgol	dim	lefel ysgol	normau ar lefel genedlaethol neu ysgol	llawn

Addysgu

	Cymwysterau athrawon	Hyfforddiant cyn swydd i athrawon	Hyfforddiant mewn swydd i athrawon	Symudedd
Cymorth IC	athrawon cyffredinol	pwnc-benodol	cyffredinol	Dd/G
IRh/LI	athrawon iaith	pwnc-benodol	cyffredinol	Dd/G
IT	athrawon cyffredinol	cyffredinol	pwnc-benodol	dim

Ieithoedd a gynigir mewn addysg gynradd

IRh/LI	Ffriseg
IT	Gorfodol: Saesneg Dewisol: Ffrangeg, Almaeneg, Sbaeneg

Mae'r iaith Ffriseg yn bwnc gorfodol mewn addysg gynradd yn Fryslân. Mewn sawl achos, fodd bynnag, treulir llai nag awr yr wythnos ar Ffriseg (Inspectie van het Onderwijs, 2010); ystyriwyd bod hyn yn annigonol gan Bwyllgor Arbenigol y Siarter Ewropeaidd ar gyfer Ieithoedd Rhanbarthol neu Ieithoedd Lleiafrifol, o ystyried yr ymgymeriadau wedi'u llofnodi a'u cadarnhau yn Rhan III o'r Siarter (Cyngor Ewrop, 2008).

Mae'r deddfau addysg cenedlaethol yn caniatáu defnyddio Ffriseg fel iaith addysgu, ac mae llawer o ysgolion yn gwneud hynny. Fodd bynnag, treulir mwy o amser ar Ffriseg yn y dosbarthiadau iau na'r dosbarthiadau uwch. Nid yw chwarter yr ysgolion cynradd yn defnyddio Ffriseg fel iaith addysgu o gwbl (Inspectie van het Onderwijs, 2010). Nododd yr Arolygiaeth Addysg nad oedd gan tua 20% o athrawon gymwysterau ffurfiol i addysgu Ffriseg (ibidem). O fewn addysg gynradd yn Fryslân, ni thelir unrhyw sylw penodol i ieithoedd mewnfudwyr.

Ieithoedd mewn addysg uwchradd (Ni cheir darpariaeth ar gyfer ieithoedd mewnfudwyr)**Trefniadaeth**

	Cwricwlwm	Cymorth ychwanegol i newydd-ddyfodiaid	Profion diagnostig wrth ddechrau	Monitro sgiliau iaith
Cymorth IC	cyffredinol	cyn prif ffrwd	absennol	lefel ysgol

	Grwpiau targed	Cwricwlwm	Amserlennu	Gofynion o ran isafswm maint y grŵp	Monitro sgiliau iaith	Y lefel y mae angen ei chyrraedd	Arian ar gael gan y wladwriaeth	Amserlennu
IRh/LI	pawb	cyffredinol	lleoledig	yn ystod oriau ysgol	dim	lefel ysgol	normau ar lefel genedlaethol neu ranbarthol	llawn
IT	pawb	cyffredinol	lleoledig	yn ystod oriau ysgol	dim	cenedlaethol safonol	normau ar lefel genedlaethol neu ysgol	llawn

Addysgu

	Cymwysterau athrawon	Hyfforddiant cyn swydd i athrawon	Hyfforddiant mewn swydd i athrawon	Lefel yr iaith sydd ei hangen	Symudedd
Cymorth IC	athrawon iaith	pwnc-benodol	pwnc-benodol	normau ar lefel genedlaethol neu ysgol	Dd/G
IRh/LI	athrawon cyffredinol	pwnc-benodol	cyffredinol	Dd/G	Dd/G
IT	athrawon iaith	pwnc-benodol	pwnc-benodol	safonau cenedlaethol neu ranbarthol	cymorth ariannol anffurfiol

Ieithoedd a gynigir mewn addysg uwchradd

IRh/LI	Ffriseg
IT (cynigir yr ieithoedd mewn print italig mewn ysgolion uwchradd uwch yn unig)	Saesneg yn orfodol ynghyd ag un iaith arall ar y lefel uchaf o addysg uwchradd. Groeg Hynafol, Tsieinëeg, Ffrangeg, Almaeneg, Eidaleg, Lladin, Rwseg, Sbaeneg yn ddewisol.

Mae Ffriseg fel pwnc yn orfodol yn y ddau ddisbarth cyntaf mewn addysg uwchradd. Gellir ei astudio fel pwnc arholiad, ond nid yw pob ysgol uwchradd yn ei gynnig (Inspectie van het Onderwijs, 2010), ac nid oes llawer o ddisgyblion yn sefyll yr arholiad: yn 2011, dim ond 47 o ddisgyblion a wnaeth sefyll arholiadau mewn Ffriseg (Alberts ac Erens, 2011). Ni thelir unrhyw sylw penodol i ieithoedd mewnfudwyr o fewn addysg uwchradd.

Canfyddiadau allweddol cyffredinol

Mae Fryslân yn dalaith sydd â dwy iaith swyddogol, a welir yng nghanlyniadau'r astudiaeth. Yn enwedig ym maes addysg telir sylw strwythurol i'r iaith Ffriseg, er na chaiff ymgymeriadau wedi'u llofnodi a'u cadarnhau'r Siarter Ewropeaidd ar gyfer leithoedd Rhanbarthol neu leithoedd Lleiafrifol eu cyflawni yn gyfan gwbl. O ran y continwmm addysg, o addysg cyn cynradd, drwy addysg gynradd ac uwchradd i addysg bellach ac addysg uwch, daw statws yr iaith Ffriseg yn llai ac yn llai amlwg.

Mae'r sefyllfa o ran ieithoedd tramor ac ieithoedd mewnfudwyr yr un peth ag yn yr Iseldiroedd yn gyffredinol. Mae ieithoedd mewnfudwyr yn cael llai o sylw mewn addysg yn Fryslân, all ddeillio o'r ffaith bod cyfran isel o fewnfudwyr yn y dalaith.

Mentrau a chynlluniau peilot addawol

Pecyn iaith

Pan fydd rhieni yn Fryslân yn cofrestru genedigaeth eu plentyn, cânt becyn iaith (*Taaltaske*). Cynigir y pecyn iaith hwn gan dalaith Fryslân. Y nod yw tanlinellu manteision lluosieithrwydd. Mae'r deunyddiau a geir yn y pecyn yn cynnwys llawlyfr ar luosieithrwydd, llyfr Ffriseg i blant, a CD gyda chaneuon i blant (Provinsje Fryslân, 2011b).

Addysg deirieithog

Yn y dalaith ceir sawl ysgol gynradd deirieithog. Mae'r ysgolion hyn yn defnyddio Iseldireg, Ffriseg a Saesneg fel ieithoedd addysgu, gan ddechrau gyda rhaniad 50-50 rhwng Iseldireg a Ffriseg fel ieithoedd addysgu yn y chwe dosbarth cyntaf (plant rhwng pedwar a deg oed) a gorffen gyda 40% Iseldireg, 40% Ffriseg ac 20% Saesneg yn y ddau ddosbarth olaf (plant 11 a 12 oed). Mae'r model teirieithog hwn yn esgor ar ganlyniadau cadarnhaol: nid yw'r amser a dreulir ar Saesneg a Ffriseg yn cael effaith negyddol ar allu disgyblion mewn Iseldireg ar ddiwedd yr ysgol gynradd ac mae'n gymaradwy â lefelau cenedlaethol; mae sgiliau darllen ac ysgrifennu Ffriseg disgyblion yn gwella; ac mae'r disgyblion yn fwy cyfforddus yn defnyddio Saesneg (Taalsintrum Frysk/Cedin, 2011b). Yn 2011 roedd y rhwydwaith o ysgolion teirieithog wedi tyfu i 41 o aelodau (Taalsintrum Frysk/Cedin, 2011a).

Cyfeiriadau

Alberts, R.V.J. a B.J.M. Erens (2011). *Verslag van de examencampagne 2011 voortgezet onderwijs*. Arnhem: Stichting Cito Instituut voor Toetsontwikkeling. Ar gael yn: www.cito.nl/~media/cito_nl/Files/Voortgezet%20onderwijs/Cito_verslag_examencampagne_2011.ashx

Centraal Bureau voor de Statistiek (2011). *Bevolking; leeftijd, herkomstgroepering, geslacht en regio, 1 januari*. Ar gael yn: <http://statline.cbs.nl/StatWeb/publication/?DM=SLNL&PA=37713> Cyrchwyd 9 Rhagfyr 2011.

Centraal Bureau voor de Statistiek (2012). *Regionale kerncijfers Nederland*. Ar gael yn: <http://statline.cbs.nl/StatWeb/publication/?DM=SLNL&PA=70072ned&D1=0,56,78-79,81&D2=0,6&D3=15-16&HDR=T&STB=G1,G2&VW=T> Cyrchwyd 3 Ionawr 2012.

Cyngor Ewrop (2008). *European Charter for Regional or Minority Languages. Application of the charter in the Netherlands. 3rd monitoring cycle*. Strasbwrg: Cyngor Ewrop. Ar gael yn: www.coe.int/t/dg4/education/minlang/Report/EvaluationReports/NetherlandsECRML3_en.pdf Cyrchwyd 8 Rhagfyr 2011.

Inspectie van het Onderwijs (2010). *Tussen wens en werkelijkheid. De kwaliteit van het vak Fries in het basisonderwijs en het voortgezet onderwijs in Friesland*. Utrecht. Ar gael yn: www.onderwijsinspectie.nl/actueel/publicaties/Tussen+wens+en+werkelijkheid.html Cyrchwyd 8 Rhagfyr 2011.

Ministerie van Binnenlandse Zaken en Koninkrijksrelaties (2011). *Wet gebruik Friese taal – Memorie van Toelichting*. Ar gael yn: www.internetconsultatie.nl/wetfriesetaal Cyrchwyd 8 Rhagfyr 2011.

Provinsje Fryslân (2010). *De staat van Fryslân. Beleids- en geo-informatie, november 2010*. Ar gael yn: www.fryslan.nl/download.asp?objectID=33162&link=De+staat+van+Fryslan%2Epdf Cyrchwyd 9 Rhagfyr 2011.

Provinsje Fryslân (2011a). *De Fryske taal atlas: Friese taal in beeld 2011*. Leeuwarden. Ar gael yn: www.fryslan.nl/taalatlas Cyrchwyd 9 Rhagfyr 2011.

Provinsje Fryslân (2011b). *Taaltasje. Taaltaske*. Ar gael yn: <http://fryslan.nl/taaltaske> Cyrchwyd 9 Rhagfyr 2011.

Riemersma, A. ac S. de Jong (2007). *Frisian: The Frisian language in education in the Netherlands*, 4ydd argraffiad. Ljouwert/ Leeuwarden: Canolfan Ymchwil Mercator. Ar gael yn: www.mercator-research.eu/fileadmin/mercator/dossiers_pdf/frisian_in_netherlands4th_072010.pdf Cyrchwyd 3 Ionawr 2012.

Sintrum Frysktalige Berne-opfang (2011). *Sintrum Frysktalige Berne-opfang*. www.sfbo.nl/engels/ Cyrchwyd 6 Rhagfyr 2011.

Taalsintrum Frysk/Cedin (2011). *De Trijetalige skoalle*. Ar gael yn: www.taalsintrum.nl/trijetalige-skoalle.html Cyrchwyd 9 Rhagfyr 2011.

Taalsintrum Frysk/Cedin (2011). *De Trijetalige Skoalle*. Drachten: Taalsintrum Frysk/Cedin. Ar gael yn: www.3ts.nl/images/trijetalige-skoalle2011.pdf Cyrchwyd 9 Rhagfyr 2011.

13 GWLAD PWYL

Liliana Szczuka-Dorna

Cyd-destun y wlad

Lleolir Gweriniaeth Gwlad Pwyl yng nghanol Ewrop ac mae'n cyd-ffinio â Kaliningrad, Oblast, Lithwania, Belarws, yr Wcráin, Slofacia, y Weriniaeth Tsiec, yr Almaen a'r Môr Baltig. Mae gan y wlad boblogaeth o dros 38 miliwn ac arwynebedd o 312,679 o gilometrau sgwâr (Swyddfa Ystadegau Gwladol).

Yr iaith swyddogol yw Pwyleg, sef iaith 'Lechitic' a siaredir gan siaradwyr brodorol yng Ngwlad Pwyl a thramor. Un o'r ieithoedd rhanbarthol yng Ngwlad Pwyl yw Casiwbeg, a ddefnyddir gan grŵp ethnig brodorol penodol. Ymhlith yr ieithoedd lleiafrifol yng Ngwlad Pwyl mae Belarwseg, Lithwaneg,, Almaeneg, Slofaceg, Rwseg, Wcreineg ac Iddew-Almaeneg. Ceir hefyd ieithoedd pobl alltud a ddefnyddir gan grwpiau ethnig nad oes ganddynt diriogaeth yn Ewrop, megis. Iddew-Almaeneg, Romani, Karaim, Grabar (Hen Armeneg) a Thatar. Ymhlith y prif ieithoedd mewn fudwyr mae Tsieceg, Iddew-Almaeneg Dwyreiniol, Groeg, Lithwaneg, Rwseg a Slofaceg. Y prif ieithoedd tramor a siaredir gan Bwyliaid yw Saesneg, Rwseg ac Almaeneg.

1 Ieithoedd mewn dogfennau swyddogol a chronfeydd data

Ymdrinnir â'r iaith genedlaethol ac amrywiaeth eang o ieithoedd rhanbarthol/lleiafrifol mewn deddfwriaeth iaith a/neu ddogfennau polisi iaith. (Cyd-)ariennir y broses o ddysgu ac addysgu'r iaith genedlaethol ar gyfer plant a/neu oedolion o Wlad Pwyl sy'n byw dramor mewn mwy na 25 o wledydd yn Ewrop a thramor. Mae Gwlad Pwyl wedi llofnodi ac wedi cadarnhau'r *Siarter Ewropeaidd ar gyfer Ieithoedd Rhanbarthol neu Ieithoedd Lleiafrifol*. Cydnabyddir y 15 iaith ranbarthol/lleiafrifol ganlynol yn y Siarter: Armeneg, Belarwseg, Tsieceg, Almaeneg, Hebraeg, Karaim, Casiwbeg, Lemko, Lithwaneg, Romani, Rwseg, Slofaceg, Tatareg, Wcreineg ac Iddew-Almaeneg. Ceir darpariaeth swyddogol ar gyfer y 15 iaith hyn mewn addysg ranbarthol, a gefnogir gan y Siarter.

Ceir dulliau swyddogol o gasglu data cenedlaethol ar amrywiaeth ieithyddol yng Ngwlad Pwyl ar ffurf data cyfrifiad a gaiff ei ddiweddarau o bryd i'w gilydd. Mae'r dulliau hyn o gasglu data yn ymdrin ag amrywiadau ar yr iaith genedlaethol, ieithoedd rhanbarthol/lleiafrifol ac ieithoedd mewn fudwyr, yn seiliedig ar gwestiwn am iaith yr aelwyd.

Bu tuedd ers nifer o flynyddoedd i ddechrau deialog ymhlith llawer o randdeiliaid ynghylch ieithoedd rhanbarthol/lleiafrifol. Ar 12 Mai 2003, llofnododd yr Wcráin y *Siarter Ewropeaidd ar gyfer Ieithoedd Rhanbarthol neu Ieithoedd Lleiafrifol*. Daeth y Siarter i rym yng Ngwlad Pwyl ar 1 Mehefin 2009. Nododd Gwlad Pwyl y byddai'n cymhwyso Rhannau II a III o'r Siarter at Armeneg, Belarwseg, Tsieceg, Almaeneg, Hebraeg, Karaim, Casiwbeg, Lemko-Rwtheneg, Lithwaneg, Romani, Rwseg, Slofaceg, Tatareg, Wcreineg ac Iddew-Almaeneg.

Gellir cael gafael ar wybodaeth swyddogol am y polisi iaith gan y Sefydliad Ystadegau Gwladol, y Weinyddiaeth Addysg, y Weinyddiaeth Gwyddoniaeth ac Addysg Uwch yn ogystal â llawer o dudalennau gwe prosiectau rhyngwladol. Mae'r cyhoeddiad swyddogol *Education in the School Year 2009/2010 yn rhoi gwybodaeth am bob agwedd ar addysg gan gynnwys ieithoedd rhanbarthol/lleiafrifol ac ieithoedd tramor.*

Newidiadau yn y system addysg a reoleiddir gan Ddeddf 8 Ionawr 1999, *Rheoliadau ar gyfer Diwygio'r System Addysg*, yw'r dystiolaeth orau bod newidiadau sylfaenol wedi'u cyflwyno yn y system addysg yng Ngwlad Pwyl er mwyn rhoi'r wybodaeth a'r sgiliau angenrheidiol i blant, disgyblion ac oedolion.

IC=Iaith/Ieithoedd Cenedlaethol
IT=Ieithoedd Tramor
IRh/LI=Ieithoedd Rhanbarthol neu Leiafrifol
IM=Ieithoedd Mewnfuldwyr

Ieithoedd mewn addysg cyn cynradd (Ni cheir darpariaeth)

Nid oes rhwymedigaeth i ddysgu ieithoedd tramor ar lefel cyn cynradd. Ni chânt eu cynnwys yn y cwricwlwm. Fodd bynnag, mae'r rhan fwyaf o blant yn dechrau dysgu ieithoedd tramor ar lefel addysg cyn cynradd. Fel arfer, rhieni neu noddwyr sy'n deall yr angen i siarad ieithoedd tramor sy'n talu am y cyrsiau. Cyrsiau sydd wedi'u teilwra'n arbennig i ddiwallu anghenion dysgwyr ifanc yw'r rhain. Mae'r cyrsiau'n cyfuno 'chwarae' ag iaith benodol, gan ddefnyddio methodoleg newydd a thechnegau sy'n briodol i blant. Yr ieithoedd tramor mwyaf poblogaidd yw Saesneg, Almaeneg a Ffrangeg. Er bod addysg ieithoedd tramor wedi bod yn datblygu'n gyflym ar lefel cyn cynradd, mae angen cyflwyno ffyrdd o drefnu cyrsiau gyda/gan athrawon cymwys iawn sy'n debyg i'r rhai a welir ar lefel addysg gynradd ac uwchradd. Dylid cychwyn trafodaeth gyhoeddus â chynrychiolwyr llywodraeth leol, y weinyddiaeth a rhieni.

Ieithoedd mewn addysg gynradd (Ni cheir darpariaeth ar gyfer ieithoedd mewnfuldwyr)

Trefniadaeth

	Cwricwlwm	Cymorth ychwanegol i newydd-ddyfodiaid	Profion diagnostig wrth ddechrau	Monitro sgiliau iaith
Cymorth IC	cydlynol a chlir	cyn prif ffrwd	absennol	lefel ysgol

	Grwpiau targed	Cwricwlwm	CLIL	Dechrau addysg iaith	Amserlennu	Gofynion o ran isafswm maint y grŵp	Monitro sgiliau iaith	Y lefel y mae angen ei chyrraedd	Arian ar gael gan y wladwriaeth
IRh/LI	pawb	cydlynol a chlir	absennol	o'r cyfnod canol	yn rhannol yn ystod oriau ysgol	5-10	lefel ysgol	normau ar lefel ysgol	llawn
IT	pawb	cydlynol a chlir	lleoledig	o flwyddyn 1	yn ystod oriau ysgol	dim	lefel ysgol	normau ar lefel genedlaethol neu ysgol	llawn

Addysgu

	Cymwysterau athrawon	Hyfforddiant cyn swydd i athrawon	Hyfforddiant mewn swydd i athrawon	Symudedd
Cymorth IC	athrawon iaith	pwnc-benodol	pwnc-benodol	Dd/G
IRh/LI	athrawon cyffredinol	cyffredinol	cyffredinol	Dd/G
IT	athrawon iaith	pwnc-benodol	pwnc-benodol	cymorth ariannol anffurfiol

Ieithoedd a gynigir mewn addysg gynradd

IRh/LI	Casiwbeg
IT	Un iaith o blith Saesneg, Almaeneg neu Ffrangeg yn orfodol

Yng Ngwlad Pwyl, mae addysg orfodol yn dechrau yn saith oed mewn ysgolion cynradd ac yn gorffen yn 16 oed (ond nid yn hwyrach na 18 oed) mewn ysgolion uwchradd is. Ers 2004/2005, mae'n orfodol i blant yng Ngwlad Pwyl fynychu dosbarth '0' fel y'i gelwir naill ai mewn meithrinfa neu ysgol gynradd.

Ieithoedd rhanbarthol neu ieithoedd lleiafrifol

Gall plant ddilyn cyrsiau mewn ieithoedd rhanbarthol neu ieithoedd lleiafrifol. Yn ôl Swyddfa Ystadegau Gwlad Pwyl, yn y flwyddyn ysgol 2010/2011, roedd 46,500 o blant yn dilyn cyrsiau mewn ieithoedd rhanbarthol neu ieithoedd lleiafrifol. Almaeneg, sef iaith y lleiafrif cenedlaethol mwyaf yng Ngwlad Pwyl, oedd y brif iaith a ddysgwyd.

Ieithoedd tramor

Mewn ysgolion cynradd, mae un iaith dramor yn orfodol o'r dosbarth cyntaf hyd at saith oed. Bydd y sefyllfa hon yn newid er gwell ar ôl 2014 pan gaiff y system addysg ei diwygio'n llawn. Yr ieithoedd tramor mwyaf poblogaidd a addysgir yw Saesneg, Almaeneg a Ffrangeg. Mae'r sefyllfa o ran addysg gynradd yn gadarnhaol. Cyflwynodd rhaglenni a ddatblygwyd yn ddiweddar ddsbarthiadau iaith orfodol i blant saith oed yn 2009/10: caiff un iaith dramor orfodol ei haddysgu o'r dosbarth cyntaf a chaiff ail iaith dramor orfodol ei haddysgu mewn ysgolion uwchradd iau. Mae athrawon yn broffesiynol ac yn gymwys iawn. Maent wedi graddio o wahanol adrannau ieitheg ac wedi meithrin eu sgiliau drwy ddilyn gwahanol gyrsiau, ennill ysgoloriaethau a chymryd rhan mewn gweithdai a chynadleddau.

Mae disgyblion cynradd yn sefyll 'prawf cymhwysedd' ac un o'r cymhwyseddau hynny yw prawf iaith dramor ysgrifenedig.

Ieithoedd mewn addysg uwchradd (Ni cheir darpariaeth ar gyfer ieithoedd Rh/LI nac ieithoedd mewnfudwyr)**Trefniadaeth**

	Cwricwlwm	Cymorth ychwanegol i newydd-ddyfodiaid	Profion diagnostig wrth ddechrau	Monitro sgiliau iaith
Cymorth IC	cydlynol a chdir	cyn prif ffrwd	pawb	lefel ysgol

	Grwpiau targed	Cwricwlwm	CLIL	Amserlennu	Gofynion o ran isafswm maint y grŵp	Monitro sgiliau iaith	Y lefel y mae angen ei chyrraedd	Arian ar gael gan y wladwriaeth
IT	pawb	cydlynol a chdir	lleoledig	yn ystod oriau ysgol	dim	lefel ysgol	normau ar lefel genedlaethol neu ysgol	llawn

Addysgu

	Cymwysterau athrawon	Hyfforddiant cyn swydd i athrawon	Hyfforddiant mewn swydd i athrawon	Lefel yr iaith sydd ei hangen	Symudedd
Cymorth IC	athrawon iaith	pwnc-benodol	pwnc-benodol	heb ei nodi	Dd/G
IT	athrawon iaith	pwnc-benodol	pwnc-benodol	safonau cenedlaethol neu ranbarthol	cymorth ariannol anffurfiol

leithoedd a gynigir mewn addysg uwchradd

IT	Mae dwy iaith yn orfodol o blith Saesneg, Ffrangeg, Almaeneg, Eidaleg, Rwseg a Sbaeneg
-----------	--

Yn ystod addysg uwchradd, mae disgyblion yn parhau i astudio'r iaith dramor a ddewiswyd yn yr ysgol gynradd. Maent hefyd yn dechrau astudio iaith dramor arall yn y flwyddyn gyntaf o ysgol uwchradd. Mae dwy iaith dramor yn orfodol ac mae myfyrwyr yn dewis o blith Saesneg, Ffrangeg, Almaeneg, Eidaleg, Rwseg a Sbaeneg. Mae myfyrwyr yn dysgu Tsieinëeg mewn rhai ysgolion. Mewn rhai ysgolion uwchradd, cynigir bagloriaeth ryngwladol (CIB) ac mae'r cwricwlwm yn seiliedig ar gynnwys yn ogystal â dysgu iaith. Mae rhai ysgolion uwchradd yn darparu rhaglenni iaith dwys. Mae myfyrwyr yn sefyll eu harholiadau terfynol (*Matura*) a gaiff eu rhedeg gan y Bwrdd Arholi Canolog (ynghyd â'i ganghennau rhanbarthol) ar y cyd â'r Weinyddiaeth Addysg a chyrrff ymchwil a datblygu a phroffesiynol eraill. Un o'r pynciau yw arholiad iaith dramor.

Ni chaiff Casiwbeg ei haddysgu mewn ysgolion uwchradd. Yn ôl y Swyddfa Ystadegau, dewisodd y rhan fwyaf o fyfyrwyr brofion elfennol mewn ieithoedd rhanbarthol/Ileiafrifol yn yr arholiad (*Matura*) yn 2010.

Mae gan athrawon gymwysterau proffesiynol ac mae gan bob un o'r rheini sy'n gweithio mewn ysgolion uwchradd radd brifysgol (Meistr yn y Celfyddydau neu Feistr mewn Gwyddoniaeth). Rhoddir cyfarwyddyd clir iddynt gan y Weinyddiaeth Addysg ar ofynion y cwricwlwm a gofynion addysgu.

leithoedd mewn addysg bellach ac addysg uwch

Addysg bellach (mewn tri sefydliad AHG) (Ni cheir darpariaeth ar gyfer ieithoedd Rh/LI nac ieithoedd mewnfwduwyr)

		Ystod o raglenni iaith	Cwricwlwm	Y lefel y mae angen ei chyrraedd	Arian ar gael gan y wladwriaeth
IT	Sefydliad A	cyfyngedig	cydlynol a chlir	cenedlaethol	llawn
	Sefydliad B	cyfyngedig	cydlynol a chlir	cenedlaethol	llawn
	Sefydliad C	cyfyngedig	cydlynol a chlir	cenedlaethol	llawn

Addysg uwch (mewn tair prifysgol)

	laith/ieithoedd a ddefnyddir fel y cyfrwng addysgu	ieithoedd ar wefan	Grwpiau targed ar gyfer cymorth ychwanegol yn yr iaith genedlaethol	Y lefel i'w chyrraedd o ran addysgu ieithoedd tramor	Recriwtio myfyrwyr nad ydynt yn fyfyrwyr o'r wlad	Symudedd ar gyfer myfyrwyr iaith	Symudedd ar gyfer myfyrwyr nad ydynt yn fyfyrwyr iaith
Prifysgol A	cenedlaethol a thramor	cenedlaethol a thramor	cyfyngedig	wedi'i chysylltu â'r Fframwaith Cyfeirio Ewropeaidd Cyffredin	rhyngwladol yn unig	dewisol	dewisol
Prifysgol B	cenedlaethol a thramor	cenedlaethol a thramor	pawb	wedi'i chysylltu â'r Fframwaith Cyfeirio Ewropeaidd Cyffredin	rhyngwladol yn unig	dewisol	dewisol
Prifysgol C	cenedlaethol a thramor	cenedlaethol a thramor	pawb	wedi'i chysylltu â'r Fframwaith Cyfeirio Ewropeaidd Cyffredin	rhyngwladol a mewnfudwyr	dewisol	dewisol

Ar lefel hyfforddiant galwedigaethol, mae'r gwaith o addysgu ieithoedd tramor yn wynebu rhai anawsterau: caiff y rhaglen a'r maes llafur eu llunio'n lleol. Mae ysgolion galwedigaethol yn llunio eu gofynion iaith terfynol eu hunain ond ceir cysylltiad rhyngddynt a CEFR. Nid yw'r trefniadau sicrhau ansawdd a'r gweithdrefnau sy'n gysylltiedig â'r asesiad terfynol yn boblogaidd. Un o'r newidiadau a allai gael eu cyflwyno yw llwyfan cyffredin i gynnal deialog rhwng awdurdodau galwedigaethol er mwyn llunio gofynion cyffredin ar gyfer ieithoedd tramor, gan gynnwys maes llafur ac arholiad terfynol.

Mae rhaglenni prifysgolion yn cynnwys cyrsiau ieithoedd tramor gorfodol. Mae'r prifysgolion yng Ngwlad Pwyl yn hunanreolaethol a dylai'r rhaglen ar gyfer maes astudiaeth penodol gael ei chymeradwyo gan Fwrdd y Gyfadran. Mae'n anodd iawn safoni cyrsiau ieithoedd tramor mewn prifysgolion. Mae'r myfyrwyr yn sefyll arholiadau terfynol ar lefelau B1 neu B2 (cyloch cyntaf) neu lefelau B2 a C1 (ail gylch). Darperir cyrsiau fel Saesneg at Ddibenion Academaidd, ESP a sgiliau meddal ar gyfer myfyrwyr doethurol. Ymhlith yr ieithoedd a addysgir mae Saesneg, Almaeneg, Ffrangeg, Eidaleg, Sbaeneg, Tsieinëeg, Norwyeg, Arabeg, Japanaeg a Lithwaneg. Caiff Pwyleg ei chyflwyno fel iaith dramor i fyfyrwyr rhyngwladol sy'n dod i Wlad Pwyl fel myfyrwyr *Erasmus* neu ar gyfnewidfeydd preifat.

Mae llawer o brifysgolion yng Ngwlad Pwyl yn addysgu drwy gyfrwng y Saesneg neu'r Ffrangeg. Mae myfyrwyr Pwylaidd a rhyngwladol yn astudio graddau mewn ieithoedd nad ydynt yn ieithoedd brodorol iddynt. Er mwyn sicrhau y ceir mwy o safoni ac ansawdd gwell o ran addysgu, gall prifysgolion ymuno â SERMO (Y Gymdeithas Canolfannau Ieithoedd Tramor Academaidd).

leithoedd yn y cyfryngau clyweledol a'r wasg

Cynrychiadau teledu nad ydynt yn yr iaith genedlaethol	Ffilmiau yn y sinema nad ydynt yn yr iaith genedlaethol	Rhaglenni mewn ieithoedd Rh/LI y tu allan i'r rhanbarth	Argaeledd iaith arwyddion ar y teledu
wedi'u trosleisio	wedi'u hisdeitlo	weithiau	byth

Ar y teledu, caiff llawer o ffilmiau rhyngwladol eu trosleisio. Gwelir sefyllfa debyg yn y sinema lle ceir ffilmiau wedi'u trosleisio heb isdeitlau fel arfer. Darlledir rhai rhaglenni lloeren lle caiff yr isdeitlau eu hychwanegu at y ffilm wreiddiol.

Ceir rhai enghreifftiau da o deledu rhanbarthol (er enghraifft, Silesia television) sy'n darlledu rhaglenni lleol.

Mae'r papurau newydd mewn Pwyleg yn bennaf. Mae rhai papurau newydd rhyngwladol Saesneg, Ffrangeg, Almaeneg neu Eidaleg ar gael mewn rhai siopau llyfrau a siopau. Mae rhai papurau newydd Pwyleg yn cyhoeddi rhannau o'u herthyglau a newyddion ar dudalennau gwe yn Saesneg.

leithoedd mewn gwasanaethau cyhoeddus a manau cyhoeddus

Strategaethau iaith sefydliadol ar lefel dinas

Nifer yr ieithoedd	Ar y wefan	Defnyddio cyfieithwyr	Cymwyseddau iaith mewn disgrifiadau swydd	Recriwtio siaradwyr ieithoedd	Hyfforddiant iaith a gynigir i gyflogeion	Cofnod o sgiliau iaith cyflogeion
>4	Gdańsk	Gdańsk Kraków Warsaw				Gdańsk
3-4	Kraków					
1-2	Warsaw		Gdańsk Kraków		Gdańsk Kraków Warsaw	Kraków

Cyfleusterau cyfathrebu

Pum prif gyfleuster cyfathrebu ar lafar	Pum prif gyfleuster cyfathrebu ysgrifenedig
Mewnfudo ac integreiddio Theatr Twristiaeth Dadleuon gwleidyddol a gwneud penderfyniadau Gwasanaethau brys	Mewnfudo ac integreiddio Trafnidiaeth Twristiaeth Dadleuon gwleidyddol a gwneud penderfyniadau Theatr

Yng Ngwlad Pwyl, ceir rhai sefydliadau cyhoeddus sy'n darparu gwybodaeth mewn ieithoedd tramor, er enghraifft, mae gwefannau ar gael yn Saesneg yn ogystal â Phwyleg. Rhoddir gwybodaeth sylfaenol yn Saesneg mewn llawer o ddinasoedd. Defnyddir ieithoedd lleiafrifol ac mae awdurdodau yn gwarantu bod sefydliadau gweinyddiaeth gyhoeddus a gwasanaethau cyhoeddus yn cefnogi'r defnydd o ieithoedd lleiafrifol.

Mae cymhwysedd iaith yn rhan o'r disgrifiad swydd mewn rhai sefydliadau. Fodd bynnag, nid oes cynlluniau cyson ar waith o ran polisïau iaith, datblygu sgiliau iaith nac arfarnu ar sail gwybodaeth am ieithoedd tramor.

leithoedd mewn busnes (allan o 24 o gwmnïau)

	STRATEGAETHAU IAITH CYFFREDINOL							
	Argaeledd strategaeth iaith	Pwyslais ar sgiliau iaith wrth recriwtio	Darpariaeth symudedd rhyngwladol	Y defnydd o gyfieithwyr/dehonglwy'r allanol	Cofnodi sgiliau iaith staff	Y defnydd o rwydweithiau ar gyfer hyfforddiant iaith	Y defnydd o raglenni/cyllid yr UE	Ymwybyddiaeth o raglenni/cyllid yr UE
Defnyddir yn eang	8	14	6	5	0	1	0	0

		STRATEGAETHAU IAITH MEWNOL						STRATEGAETHAU IAITH ALLANOL			
		Partneriaethau â'r sector addysg	Cynlluniau gwobrwyo/dyrchafu yn seiliedig ar sgiliau iaith	Darpariaeth hyfforddiant iaith	Defnyddir y Fframwaith Cyfeirio Ewropeaidd Cyffredin	Defnyddir iaith ar gyfer dogfennau yn y gweithle/mewnwyd	Defnyddir iaith ar gyfer meddalwedd, rhaglenni'r we	Defnyddir iaith ar gyfer adroddiadau blynyddol/busnes	Defnyddir iaith ar gyfer marchnata	Defnyddir iaith ar gyfer brandio/hunaniaeth	Defnyddir iaith ar gyfer gwefan
IC	defnyddir yn eang	1	2	4	0	21	17	15	22	20	20
Saesneg Busnes	defnyddir yn eang	0	3	9	2	11	12	9	12	12	16
Ieithoedd ychwanegol	defnyddir yn eang	0	1	1	0	2	1	0	1	1	3

Mae Gwlad Pwyl yn wlad lle rhoddir sylw i lefel ieithoedd tramor mewn busnes. Mae adrannau adnoddau dynol yn cyflogi staff sy'n gwybod o leiaf ddwy iaith dramor. Rheolwyr cwmnïau sy'n gyfrifol am ddatblygu sgiliau iaith. Gall cyflogeion ddilyn cyrsiau iaith y telir amdanynt neu a gefnogir gan y cwmni. Er bod y cyrsiau a'r seminarau hyn yn cael arian a neilltuwyd ar gyfer prosiectau Ewropeaidd, nid oedd yn ymddangos fel pe bai'r cwmnïau a gymerodd ran yn ein hymchwil yn manteisio ar hyn fel ffordd o uwchraddio gwybodaeth eu staff. Dylid ymchwilio ymhellach er mwyn datrys y mater hwn.

Rhoddir cyfleoedd i reolwyr astudio iaith dramor. Mae'r data'n dangos y dylid rhoi'r un cyfleoedd i bob cyflogai gan gynnwys staff cyswllt cyntaf, er enghraifft, derbynyddion, clerod neu yrwyr bysys.

Mae cwmnïau yn defnyddio ieithoedd tramor nid yn unig at ddibenion hysbysebu a hyrwyddo mewn taflenni a ffolderi ond hefyd ar gyfer gwefannau eu sefydliadau. Y prif ieithoedd a ddefnyddir ar wahân i Saesneg yw Almaeneg, Rwseg, Ffrangeg, Hwngareg, Sbaeneg, Japanaeg, Eidaleg, Tsieinëeg, Tsieceg, Iseldireg a Slofaceg. Wcreineg, Arabeg, Belarwseg a Chorëeg yw ieithoedd brodorol sefydliadau partner.

Canfyddiadau allweddol cyffredinol

Mae Gwlad Pwyl wedi gweld newidiadau sylweddol ym maes addysg. Mae amrywiaeth o ddogfennau Ewropeaidd wedi creu tir cyffredin ac wedi gwneud Pwyliaid yn fwy ymwybodol o'r ffaith eu bod yn ddinasyddion Ewropeaidd. Mae nifer y disgyblion sy'n dysgu ieithoedd tramor mewn ysgolion yn cynyddu'n gyson. Saesneg yw'r iaith a addysgir fwyaf (89% o ddisgyblion mewn ysgolion cynradd, ysgolion uwchradd iau ac ysgolion uwchradd hŷn yn y flwyddyn ysgol 2010/2011). Ymhlith yr ieithoedd eraill a addysgir fwyaf mae Almaeneg (36.4% o fyfyrwyr), Rwseg (4.8%) a Ffrangeg (2.9%). Mae poblogrwydd yr ieithoedd tramor penodol a addysgir mewn ysgolion yn amrywio yn ôl rhanbarth. Roedd 46.8% o ddisgyblion ysgol yn dysgu un iaith dramor yn unig a bron un o bob dau o ddisgyblion yn dysgu dwy iaith. Mae cymwysterau athrawon yn dda iawn fel arfer. Ar wahân i addysg brifysgol, roedd gan un o bob tri athro statws athro swyddogol ac roedd athrawon siartredig – y radd uchaf o ran datblygiad proffesiynol – yn cyfrif am bron hanner y personél addysgu mewn ysgolion. Roedd y gweddill (23%) yn athrawon o dan gytundeb. Rhoddir y cyfle i ddisgyblion a myfyrwyr fynychu gwahanol gyrsgiau allgyrsiol, dosbarthiadau a grwpiau ymchwil a drefnir gan glybiau ac ysgolion. Hefyd, defnyddir arian Ewropeaidd i gynnal cyrsiau iaith ychwanegol mewn llawer o ysgolion cynradd ac ysgolion uwchradd yn y wlad.

Fodd bynnag, mae nifer o bwyntiau sydd angen eu hegluro ymhellach, fel statws addysgu ieithoedd tramor ar lefel cyn cynradd: statws ieithoedd tramor mewn sefydliadau addysg uwch; y defnydd o isdeitlau ar y teledu ac yn y sinema i hyrwyddo amlieithrwydd yn y cyfryngau: rhaglenni radio a rhai sianeli teledu sy'n darlledu rhaglenni mewn ieithoedd tramor neu ieithoedd lleiafrifol. Yn olaf ond nid lleiaf, dylid rhoi mwy o sylw i ieithoedd ym myd busnes, gan roi mwy o help ac arweiniad a chyflwyno mwy o fentrau yn y sector hwn. Ymwybyddiaeth ieithyddol a diwylliannol yw'r allwedd i lwyddiant yn y farchnad fusnes fyd-eang a rhyngwladol.

Mentrau a chynlluniau peilot addawol

Mae sefyllfa ieithoedd yng Ngwlad Pwyl yn newid er gwell. Mae llawer o fentrau newydd yn cael eu rhoi ar waith gan wahanol grwpiau o bobl y mae addysg ieithoedd yn flaenoriaeth iddynt yn ogystal â rhwymedigaeth. Dyma rai enghreifftiau o fentrau sy'n dylanwadu ar bolisi iaith yng Ngwlad Pwyl.

1. Cynadleddau, gweithdai a seminarau

Mae llawer o gynadleddau ar amlieithrwydd a lluosieithrwydd wedi'u trefnu yng Ngwlad Pwyl. Un fenter bwysig a drefnwyd ym mis Medi 2011 oedd y gynhadledd *Multilingual Competences for Professional and Social Success in Europe* a lywyddwyd gan Wlad Pwyl. Nod y gynhadledd oedd lansio trafodaeth swyddogol ar addysg ieithoedd a'i phwysigrwydd o ran sicrhau gwell cyflogadwyedd a chyfleoedd gyrfa.

2. *FIJED* – Sefydlwyd y *Sefydliad Ansawdd mewn Addysg* yn 2010 fel sefydliad mantell a man cyfarfod ar gyfer gwahanol gymdeithasau a sefydliadau sy'n gweithredu ym maes addysg. Nod FIJED yw hyrwyddo amlieithrwydd drwy drefnu digwyddiadau, cynadleddau a chyfarfodydd ar y cyd â chymdeithasau, cwmnïau cyhoeddi a'r Weinyddiaeth Addysg ac Addysg Uwch (gweler www.fijed.pl).

3. *FRSE* – Y *Sefydliad ar gyfer Datblygu'r System Addysg* yw un o'r sefydliadau mwyaf blaenllaw yn y farchnad Bwylaidd sy'n delio â gweithgareddau fel astudio dramor (y Rhaglen Dysgu Gydol Oes, Erasmus Mundus, Eurodesk), cynadleddau, digwyddiadau (eGefeillio) a chystadlaethau (Label Ieithoedd Ewropeaidd). Mae FRSE hefyd yn cyhoeddi *Języki Obce w szkole, Label Ieithoedd Ewropeaidd, Europa dla aktywnych*.

4. Cyhoeddiadau

Cyhoeddir erthyglau a phapurau mewn cyfnodolion Pwyleg a chyfnodolion tramor sy'n nodi cyflwr cyffredol y system addysg yng Ngwlad Pwyl. Cyhoeddwyd y llyfr *Internalization of higher education* a olygwyd gan Waldemar Martyniuk gan FRSE yn 2011.

5. *SERMO* – Sefydlwyd y *Gymdeithas Canolfannau Ieithoedd Tramor Academiaidd* yn 2006. Mae aelodau'r gymdeithas yn cynnwys penaethiaid a dirprwy benaethiaid canolfannau iaith prifysgolion yng Ngwlad Pwyl. Mae gweithgareddau SERMO yn anelu at gyflawni gwahanol dargedau a nodau; er enghraifft, safoni cynnwys yn ogystal â thargedau terfynol arholiadau iaith mewn prifysgolion yn unol â CEFR. Mae aelodau SERMO yn cyfarfod o leiaf ddwywaith y flwyddyn yn ystod cynadleddau a drefnir gan ganolfannau iaith. Ymhlith uchelgeisiau SERMO mae cydweithio â'r Weinyddiaeth Addysg, y Weinyddiaeth Gwyddoniaeth ac Addysg, KRASP, cymdeithasau eraill, y British Council a sefydliadau rhyngwladol (gweler www.sermo.org.pl).

6. Ceir llawer o fentrau lleol a chenedlaethol sy'n hyrwyddo'r gwaith o ddysgu ac addysgu'r iaith genedlaethol, ieithoedd rhanbarthol/leiafrifol ac ieithoedd tramor. Ymhlith y mentrau hyn mae:

- Astudio yng Ngwlad Pwyl – rhaglen i fyfyrwyr rhyngwladol sy'n astudio mewn prifysgolion yn y wlad (hyrwyddir iaith a diwylliant Gwlad Pwyl)
- CLIL- datblygwyd mewn addysg gynradd, addysg uwchradd ac addysg uwch
- *Diwrnod Ieithoedd Ewrop* a drefnir bob blwyddyn ym mis Medi ym mhob math o ysgolion ledled Gwlad Pwyl.

Mae'r mentrau hyn a mentrau eraill yn dangos bod ymwybyddiaeth ieithyddol a diwylliannol yn sail i addysg yng Ngwlad Pwyl. Mae angen i bob parti â diddordeb, gan gynnwys y llywodraeth, awdurdodau addysg, busnesau lleol a myfyrwyr a'u rhieni roi amser ac empathi i'r broses hon. Dylai dinasoedd yng Ngwlad Pwyl ddod yn fwy hygyrch, gan hyrwyddo goddefgarwch ac amlieithrwydd yn ogystal â lletygarwch Pwylaidd ymhlith dinasyddion y wlad ac ymwelwyr rhyngwladol.

Cyfeiriadau

Y Swyddfa Ystadegau Ganolog, www.stat.gov.pl

Cyngor Ewrop, <http://conventions.coe.int/Treaty>

Y Sefydliad Ansawdd mewn Addysg, www.fijed.pl

Y Sefydliad ar gyfer Datblygu'r System Addysg, www.frse.org.pl

Internacionalizacja studiów Wyższych, red. Waldemar Martyniuk, Fundacja Rozwoju Systemu Edukacji, 2011

Y Gymdeithas Canolfannau Ieithoedd Tramor Academiaidd www.sermo.org.pl

14 PORTIWGAL

J. Lachlan Mackenzie

Cyd-destun y wlad

Yn ôl canlyniadau dros dro cyfrifiad 2011, mae gan y Weriniaeth Bortiwgeidd boblogaeth o 10,561,614. Prif iaith y wlad yw Portiwgaleg. Mae'r iaith yn tarddu o ardal Galisia fel y'i hadnabyddir erbyn hyn (Gogledd-orllewin Sbaen) a rhan ogleddol y Portiwgal a welir heddiw. Parhai'r iaith Galiseg/Portiwgaleg i gael ei defnyddio yn ystod goruchafiaeth yr Arabiaid a sefydlodd ei hun fel y brif iaith wrth i'w siaradwyr symud i'r de. Sefydlwyd yr iaith Bortiwgaleg fel iaith y llys gan y Brenin Dinis yn 1297.

Bellach, mae Portiwgaleg yn iaith swyddogol mewn wyth gwlad (Portiwgal, Angola, Brasil, Cape Verde, Guinea-Bissau, Mozambique, São Tomé a Príncipe a Dwyrain Timor; y gwledydd CPLP fel y'u gelwir) ac un diriogaeth, Macau (Rhanbarth Gweinyddol Arbennig Macau yng Ngweriniaeth Pobl Tsieina). Amcangyfrifir bod cyfanswm o tua 240 miliwn o bobl yn siarad yr iaith. Ceir grwpiau gweddol fawr o alltudion sy'n siarad yr iaith Bortiwgaleg mewn amryw wledydd ledled y byd, yn fwyaf nodedig Ffrainc, Lwcsembwrg, Andorra, y DU, y Swistir, yr Unol Daleithiau, Canada, Venezuela a De Affrica.

Mae 4.1% o boblogaeth Portiwgal yn dod o wledydd eraill (2006; OCDE). Yn ôl ffigurau a ddarparwyd gan wasanaeth mewnffudo Portiwgal yn 2006, mae'r nifer fwyaf o ymfudwyr (mewn trefn ddisgynnol) yn dod o Cape Verde, Brasil, Angola, Guinea-Bissau a'r Wcraïn (a nifer o wledydd eraill Dwyrain Ewrop), yn ogystal ag India a Tsieina. Yn ogystal, ceir cymunedau alltud o'r DU a gwledydd eraill yn Ewrop. Mae cyfanswm o 5,580,700 o bobl yn rhan o'r gweithlu ym Mhortiwgal (2010; Pordata).

Mae gan Bortiwgal un iaith leiafrifol, sef *Mirandeg*, a siaredir ac a ysgrifennir i ryw raddau yn nhref Miranda do Douro ar y ffin ogledd-ddwyreiniol (poblogaeth o tua 2,000) ac yn yr ardaloedd cyfagos gan 10,000 o bobl ar y mwyaf, y mae (bron) pob un ohonynt yn ddwyieithog. Cafodd yr iaith ei chydabod yn 1999 fel iaith swyddogol ar y cyd â'r iaith Bortiwgaleg at ddibenion materion lleol. Mae'r iaith Firandeg yn perthyn yn ieithyddol i'r grŵp ieithoedd Asturias a León.

Mae Portiwgal hefyd yn cydnabod *iaith Arwyddion Portiwgal* fel iaith swyddogol, ar ôl nodi ei bod yn ddyletswydd ar y wladwriaeth i ddiogelu a rhoi gwerth iddi fel mynegiant diwylliannol a ffordd o gael mynediad i addysg a sicrhau cyfle cyfartal.

Mae addysg yn orfodol am 12 mlynedd o chwech oed: fe'i rhennir yn naw mlynedd o addysg gynradd, ac yna dair blynedd o naill ai addysg uwchradd neu addysg alwedigaethol.

Caiff yr iaith *Bortiwgaleg* ei nodi fel iaith swyddogol Portiwgal yng Nghyfansoddiad Gweriniaeth Portiwgal, paragraff 3, erthygl 11. Cydnabyddir *Mirandeg* fel iaith swyddogol yng nghyngor Miranda do Douro yn Neddf 7/99, dyddiedig 29 Ionawr 1999. Cydnabyddir *iaith Arwyddion Portiwgal* yn y diwygiad a wnaed i Gyfansoddiad Gweriniaeth Portiwgal yn 1997, erthygl 74, paragraff 2h.

Ieithoedd mewn dogfennau swyddogol a chronfeydd data

Ymdrinnir â'r iaith genedlaethol, ieithoedd tramor ac un iaith ranbarthol/leiafrifol (Mirandeg) mewn deddfwriaeth iaith a/neu ddogfennau polisi iaith. (Cyd-)ariennir y broses o ddysgu ac addysgu'r iaith genedlaethol ar gyfer plant a/neu oedolion o Bortiwgal sy'n byw dramor mewn 13 o wledydd yn Ewrop a thramor. Nid yw'r *Siarter Ewropeaidd ar gyfer Ieithoedd Rhanbarthol neu Ieithoedd Lleiafrifol* wedi'i llofnodi/cadarnhau. Ar lefel genedlaethol, Mirandeg yw'r unig iaith ranbarthol/leiafrifol a gydnabyddir ac y ceir darpariaeth addysgol ar ei chyfer hefyd.

Ceir dulliau swyddogol o gasglu data cenedlaethol ar amrywiaeth ieithyddol ym Mhortiwgal ar ffurf data cyfrifiad a gaiff ei ddiweddarau o bryd i'w gilydd. Fodd bynnag, dim ond mewn perthynas â'r iaith genedlaethol y cesglir y data hwn, yn seiliedig ar gwestiwn am famiaith.

Mae Portiwgal, y pennwyd ei ffiniau presennol i bob pwrpas yn 1249, mewn sefyllfa gymharol sefydlog yn ddemograffig ac yn ieithyddol fel gwlad uniaith fwy neu lai. Er hyn, mae'r wlad wedi dod i gysylltiad rheolaidd ag ieithoedd eraill dros y canrifoedd, yn Ewrop (Sbaeneg, Saesneg a Ffrangeg yn bennaf) a ledled y byd o ganlyniad i'w hanes trefedigaethol (ieithoedd De America, Affrica ac Asia). O ganlyniad, mae'r Portiwgeid wedi meithrin ymwybyddiaeth o fanteision amlieithrwydd ac mae llywodraethau olynol wedi cefnogi'r iaith genedlaethol ac wedi darparu ar gyfer addysgu ieithoedd tramor yn eu polisïau a'u deddfwriaeth, yn ogystal ag ariannu addysg yn yr iaith Bortiwgaleg dramor. Cydnabyddir yr iaith ranbarthol Mirandeg, ond nid yw ieithoedd mewnffudwyr wedi'u cydnabod mewn cyfraith na chyfrifiadau.

IC=iaith/leithoedd Cenedlaethol
IT=leithoedd Tramor
IRh/LI=leithoedd Rhanbarthol neu Leiafrifol
IM=leithoedd Mewnfuldwy

leithoedd mewn addysg cyn cynradd (Ni cheir darpariaeth ar gyfer cymorth ychwanegol yn yr iaith genedlaethol, ieithoedd tramor nac ieithoedd mewnfuldwy)

	Grwpiau targed	Hyd	Gofynion o ran isafswm maint y grŵp	Diwrnodau'r wythnos	Hyfforddiant cyn swydd i athrawon	Hyfforddiant mewn swydd i athrawon	Arian ar gael gan y wladwriaeth
IRh/LI	pawb	≥2 flynedd	dim	<0.5 diwrnod	pwnc-benodol	cyffredinol	llawn

leithoedd a gynigir mewn addysg cyn cynradd

IRh/LI	Mirandeg
---------------	----------

Mae addysg cyn cynradd yn ddewisol ym Mhortiwgal, ond o 2009 ymlaen, daeth yn rhwymedigaeth ar y wladwriaeth i sicrhau bod plant pum mlwydd oed yn cael addysg feithrin. Portiwgaleg yw'r unig iaith a ddefnyddir mewn addysg cyn cynradd yn achos y mwyafrif helaeth o ddisgyblion. Fodd bynnag, ers tua 1990, gwelwyd ymwybyddiaeth gynyddol o'r anawsterau a wynebir gan blant cyn ysgol nad yw Portiwgaleg yn iaith frodorol iddynt (Litwinoff 1992), sef y sawl sy'n siarad – yn bennaf – Creoliaith Cape Verde, 'Kriol' (Creoliaith Guinea-Bissau), un o greolieithoedd São Tomé a Príncipe, Wcreineg neu Tsieinëeg (gweler Mateus ac eraill 2008). Mae mesurau wedi'u cynnig i wella ymwybyddiaeth addysgwyr o'r sefyllfa a wynebir gan blant cyn ysgol sy'n ymfudwyr o ran dwyieithrwydd. Mae hyfforddiant cyn swydd ar gael i athrawon cyn ysgol yn yr ardal lle y siaredir yr iaith Mirandeg.

leithoedd mewn addysg gynradd (Ni cheir darpariaeth ar gyfer ieithoedd mewnfuldwy)

Trefniadaeth

	Cwricwlwm	Cymorth ychwanegol i newydd-ddyfodiaid	Profion diagnostig wrth ddechrau	Monitro sgiliau iaith
Cymorth IC	cydlynol a chdir	cyn prif ffrwd	mewnfuldwy yn unig	enedlaethol safonol

	Grwpiau targed	Cwricwlwm	CLIL	Dechrau addysg iaith	Amserlennu	Gofynion o ran isafswm maint y grŵp	Monitro sgiliau iaith	Y lefel y mae angen ei chyrraedd	Arian ar gael gan y wladwriaeth
IRh/LI	pawb	cyffredinol	eang	o flwyddyn 1	yn ystod oriau ysgol	dim	enedlaethol safonol	normau ar lefel genedlaethol neu ranbarthol	llawn
IT	pawb	cydlynol a chdir	absennol	o flwyddyn 1	tu allan i oriau ysgol	dim	enedlaethol safonol	normau ar lefel genedlaethol neu ysgol	llawn

Addysgu

	Cymwysterau athrawon	Hyfforddiant cyn swydd i athrawon	Hyfforddiant mewn swydd i athrawon	Symudedd
Cymorth IC	athrawon iaith	pwnc-benodol	pwnc-benodol	Dd/G
IRh/LI	athrawon iaith	pwnc-benodol	cyffredinol	Dd/G
IT	athrawon iaith	pwnc-benodol	pwnc-benodol	dim

Ieithoedd a gynigir mewn addysg gynradd

IRh/LI	Mirandeg
IT	Saesneg, Ffrangeg: un o'r ieithoedd hyn yn orfodol

Portiwgaleg yw iaith pob ysgol, er y gall ieithoedd eraill (fel Saesneg, Ffrangeg ac Almaeneg) gael eu defnyddio mewn rhai ysgolion preifat, ac mae'n bwnc drwy gydol addysg gynradd. Nid oes unrhyw addysgu gorfodol mewn iaith dramor yn ystod y cylch cyntaf (blwyddyn un i bedwar). Fodd bynnag, yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae'r Weinyddiaeth Addysg wedi argymhell yn gryf y dylai ysgolion gynnig gwersi yn Saesneg o flwyddyn tri yn y fframwaith 'cyfoethogi cwricwlaidd' (ac mae wedi rhoi arian i wneud hynny). Erbyn 2008, roedd dros 99% o ysgolion wedi rhoi'r argymhelliad hwn ar waith; roedd 50% yn cynnig gwersi Saesneg o flwyddyn un. Yn yr ail gylch (blynyddoedd pump i chwech), mae iaith dramor yn rhan o'r cwricwlwm gorfodol; mae'r llywodraeth bresennol yn cynnig y dylid pennu Saesneg fel yr iaith dramor ar gyfer yr ail gylch.

Mae athrawon cynradd, yn enwedig y rheini sy'n gweithio mewn ardaloedd amliaith, yn ymwybodol o luosieithrwydd y plant sydd yn eu gofal ac wedi'u hyfforddi i ddelio â hynny. Fodd bynnag, ni chaiff ieithoedd mewnfudwyr eu trin fel testun astudio, er bod y gymuned Wcreinaidd a'r gymuned Tsieineaidd wedi trefnu dosbarthiadau allanol yn eu priod ieithoedd. Yn yr ardal lle siaredir Mirandeg, mae athrawon wedi cael caniatâd, ers 1985, i roi sylw penodol i'r iaith a'i defnyddio fel cyfrwng addysgu.

Ieithoedd mewn addysg uwchradd (Ni cheir darpariaeth ar gyfer ieithoedd mewnfudwyr)

Trefniadaeth

	Cwricwlwm	Cymorth ychwanegol i newydd-ddyfodiaid	Profion diagnostig wrth ddechrau	Monitro sgiliau iaith
Cymorth IC	cydlynol a chlir	cyn prif ffrwd	pawb	cededlaethol safonol

	Grwpiau targed	Cwricwlwm	CLIL	Amserlennu	Gofynion o ran isafswm maint y grŵp	Monitro sgiliau iaith	Y lefel y mae angen ei chyrraedd	Arian ar gael gan y wladwriaeth
IRh/LI	pawb	cydlynol a chlir	eang	yn ystod oriau ysgol	dim	cededlaethol safonol	normau ar lefel genedlaethol neu ranbarthol	llawn
IT	pawb	cydlynol a chlir	absennol	yn ystod oriau ysgol	dim	cededlaethol safonol	wedi'i chysylltu â'r Fframwaith Cyfeirio Ewropeaidd Cyffredin	llawn

Addysgu

	Cymwysterau athrawon	Hyfforddiant cyn swydd i athrawon	Hyfforddiant mewn swydd i athrawon	Lefel yr iaith sydd ei hangen	Symudedd
Cymorth IC	athrawon iaith	pwnc-benodol	pwnc-benodol	normau ar lefel genedlaethol neu ysgol	Dd/G
IRh/LI	athrawon iaith	pwnc-benodol	pwnc-benodol	Dd/G	Dd/G
IT	athrawon iaith	pwnc-benodol	pwnc-benodol	safonau cenedlaethol neu ranbarthol	dim

leithoedd a gynigir mewn addysg uwchradd

IRh/LI	Mirandeg
IT (cynigir yr ieithoedd mewn print italig mewn ysgolion uwchradd uwch yn unig)	2 o blith Saesneg, Ffrangeg, Almaeneg, Sbaeneg, Lladin, Groeg yn orfodol.

Mewn addysg uwchradd (sy'n dechrau yn y trydydd cylch o addysg gynradd), mae'n orfodol astudio dwy iaith dramor; mae'r llywodraeth wedi cynnig y dylai'r iaith Saesneg fod yn un o'r rhain. O ran arfer presennol, mae'r mwyafrif helaeth o ddisgyblion yn cyfuno Saesneg gyda naill ai Ffrangeg, Almaeneg, Sbaeneg, Lladin neu iaith Groeg Glasurol (y caiff pob un ohonynt eu trefnu yn unol â'r *Fframwaith Cyfeirio Ewropeaidd Cyffredin*). Ym mlynnyddoedd 10 i 12, mae addysg drwy gyfrwng yr iaith Bortiwgaleg yn parhau, gyda dosbarthiadau mewn un iaith dramor ar gyfer disgyblion sy'n astudio'r gwyddorau ac mewn dwy iaith dramor ar gyfer disgyblion sy'n astudio'r dyniaethau. Ni chaiff ieithoedd mewnfudwyr eu hastudio mewn ysgolion ym Mhortiwgal ac nid ydynt ychwaith yn gyfrwng addysgu mewn ysgolion yno; dylid cofio bod tua 50% o fewnfudwyr yn dod o wledydd lle mae'r Bortiwgaleg yn iaith swyddogol. Gellir astudio'r iaith ranbarthol Mirandeg yn yr ardal lle siaredir Mirandeg.

leithoedd mewn addysg bellach ac addysg uwch (Ni cheir darpariaeth ar gyfer ieithoedd mewnfudwyr)

Addysg bellach (mewn tri sefydliad AHG)

		Ystod o raglenni iaith	Cwricwlwm	Y lefel y mae angen ei chyrraedd	Arian ar gael gan y wladwriaeth
IRh/LI	Sefydliad A				
	Sefydliad B				
	Sefydliad C	cyfyngedig	cyffredinol	Dd/G	llawn
IT	Sefydliad A	amrywiaeth eang	cydlynol a chlir	wedi'i chysylltu â'r Fframwaith Cyfeirio Ewropeaidd Cyffredin	llawn
	Sefydliad B	amrywiaeth eang	cydlynol a chlir	wedi'i chysylltu â'r Fframwaith Cyfeirio Ewropeaidd Cyffredin	llawn
	Sefydliad C	cyfyngedig	cydlynol a chlir	cenedlaethol	llawn

Addysg uwch (mewn tair prifysgol)

	iaith/ieithoedd a ddefnyddir fel y cyfrwng addysgu	ieithoedd ar wefan	Grwpiau targed ar gyfer cymorth ychwanegol yn yr iaith genedlaethol	Y lefel i'w chyrraedd o ran addysgu ieithoedd tramor	Recriwtio myfyrwyr nad ydynt yn fyfyrwyr o'r wlad	Symudedd ar gyfer myfyrwyr iaith	Symudedd ar gyfer myfyrwyr nad ydynt yn fyfyrwyr iaith
Prifysgol A	cenedlaethol a thramor	cenedlaethol a thramor	cyfyngedig	wedi'i chysylltu â'r Fframwaith Cyfeirio Ewropeaidd Cyffredin	rhyngwladol a mewnfudwyr	dewisol	dewisol
Prifysgol B	cenedlaethol a thramor	cenedlaethol a thramor	cyfyngedig	wedi'i chysylltu â'r Fframwaith Cyfeirio Ewropeaidd Cyffredin	rhyngwladol a mewnfudwyr	dewisol	dewisol
Prifysgol C	cenedlaethol a thramor	cenedlaethol a thramor	cyfyngedig	wedi'i chysylltu â'r Fframwaith Cyfeirio Ewropeaidd Cyffredin	rhyngwladol a mewnfudwyr	dewisol	dewisol

O ran addysg uwch, Portiwgaleg yw'r cyfrwng addysgu bron bob amser. Fodd bynnag, yn sgîl y broses o ryngwladoli addysg, sy'n llifo o Broses Bologna, mae rhai cyfadrannau bellach yn cynnig cyrsiau yn Saesneg a fynychir gan fyfyrwyr sy'n ymweld â'r wlad a myfyrwyr Portiwgeaidd fel ei gilydd. Yn gyffredinol, mae prifysgolion Portiwgal yn ymwybodol o werth cymhwysedd iaith. Maent yn darparu hyfforddiant mewn Portiwgaleg i'r sawl nad ydynt yn siarad yr iaith ac sy'n awyddus i ymuno â'u rhaglenni, ac mewn amrywiaeth eang o ieithoedd i unrhyw fyfyrwyr sydd am fanteisio ar y ddarpariaeth honno. Ni roddir unrhyw sylw penodol i ieithoedd rhanbarthol nac ieithoedd mewnfudwyr.

Mae sefydliadau sy'n cynnig hyfforddiant galwedigaethol yn sicrhau bod eu myfyrwyr yn cael eu haddysgu mewn Portiwgaleg er mwyn datblygu sgiliau o ran cywirdeb ieithyddol a chyfathrebu effeithiol. Yn gyffredinol, maent hefyd yn rhoi sylw i iaith dramor; mae gogwydd tuag at hyfedredd sy'n ymwneud â swyddi.

Ieithoedd yn y cyfryngau clyweledol a'r wasg

Cynrychiadau teledu nad ydynt yn yr iaith genedlaethol	Ffilmiau yn y sinema nad ydynt yn yr iaith genedlaethol	Rhaglenni mewn ieithoedd Rh/LI y tu allan i'r rhanbarth	Argaeledd iaith arwyddion ar y teledu
wedi'u hisdeitlo	wedi'u hisdeitlo	bob amser	yn rheolaidd

Dangosir rhaglenni teledu a ffilmiau mewn sinemâu yn yr iaith wreiddiol gydag isdeitlau Portiwgaleg – heblaw am rai cynrychiadau sydd wedi'u hanelu at blant sy'n cael eu trosleisio. Mae rhai rhaglenni teledu yn cynnwys ffenestr gyda dehonglydd yn cyfathrebu mewn iaith Arwyddion Portiwgaleg. Mae papurau newydd a chylchgronau ar gael mewn ieithoedd tramor, yn bennaf i ddiwallu anghenion twristiaid; ond ceir cyhoeddiadau hefyd ar gyfer mewnfudwyr, fel y papur newydd Rweg *Slovo*.

leithoedd mewn gwasanaethau cyhoeddus a manau cyhoeddus

Strategaethau iaith sefydliadol ar lefel dinas

Nifer yr ieithoedd	Ar y wefan	Defnyddio cyfieithwyr	Cymwyseddau iaith mewn disgrifiadau swydd	Recriwtio siaradwyr ieithoedd	Hyfforddiant iaith a gynigir i gyflogeion	Cofnod o sgiliau iaith cyflogeion
>4		Lisbon Oporto Miranda do Douro				
3-4	Miranda do Douro			Lisbon	Miranda do Douro	
1-2	Oporto		Lisbon Oporto Miranda do Douro	Oporto	Lisbon Oporto	

Cyfleusterau cyfathrebu

Pum prif gyfleuster cyfathrebu ar lafar	Pum prif gyfleuster cyfathrebu ysgrifenedig
Addysg Cyfreithiol Thwristiaeth Trafnidiaeth Mewnfudo ac integreiddio	Mewnfudo ac integreiddio Dadleuon gwleidyddol a gwneud penderfyniadau Addysg Gwasanaethau brys Trafnidiaeth

Mae cynghorau dinas yn ymwybodol o amlieithrwydd yn eu cymunedau i ryw raddau ac yn sicrhau bod rhai gwasanaethau ar gael yn Saesneg a Sbaeneg; gellir sicrhau gwasanaethau dehonglwyr drwy gyfleuster cenedlaethol ar gyfer cynifer â 60 o ieithoedd. Fel arfer, darperir deunydd ysgrifenedig a gynhyrchir gan gynghorau yn yr iaith Bortiwgaleg yn unig, er bod gwasanaethau mewnfudo a thwristiaeth yn rhai amliaith. Mae cyngor dinas Miranda do Douro yn darparu llawer o wasanaethau ysgrifenedig yn yr iaith Mirandeg a'r iaith Sbaeneg yn ogystal â Phortiwgaleg.

Ieithoedd mewn busnes (allan o 20 o gwmnïau)

	STRATEGAETHAU IAITH CYFFREDINOL							
	Argaeledd strategaeth iaith	Pwyslais ar sgiliau iaith wrth recriwtio	Darpariaeth symudedd rhyngwladol	Y defnydd o gyfieithwyr/dehonglwy'r allanol	Cofnodi sgiliau iaith staff	Y defnydd o rwydweithiau ar gyfer hyfforddiant iaith	Y defnydd o raglenni/cyllid yr UE	Ymwybyddiaeth o raglenni/cyllid yr UE
Defnyddir yn eang	5	8	3	0	0	1	0	0

		STRATEGAETHAU IAITH MEWNOL						STRATEGAETHAU IAITH ALLANOL			
		Partneriaethau â'r sector addysg	Cynlluniau gwobrwyo/dyrchafu yn seiliedig ar sgiliau iaith	Darpariaeth hyfforddiant iaith	Defnyddir y Fframwaith Cyfeirio Ewropeaidd Cyffredin	Defnyddir iaith ar gyfer dogfennau yn y gweithle/mewnwyd	Defnyddir iaith ar gyfer meddalwedd, rhaglenni'r we	Defnyddir iaith ar gyfer adroddiadau blynyddol/busnes	Defnyddir iaith ar gyfer marchnata	Defnyddir iaith ar gyfer brandio/hunaniaeth	Defnyddir iaith ar gyfer gwefan
IC	defnyddir yn eang	1	0	1	0	20	18	20	20	17	19
Saesneg Busnes	defnyddir yn eang	1	3	3	1	5	7	5	8	9	14
Ieithoedd ychwanegol	defnyddir yn eang	1	2	1	1	1	1	0	0	3	2

Roedd y cwmnïau a gymerodd ran yn yr arolwg yn adlewyrchu tuedd gyffredinol i ffafrio'r defnydd o'r iaith Bortiwgaleg ond hefyd i gydnabod pwysigrwydd Saesneg busnes ar gyfer rhyngweithio â chwsmeriaid a chwmnïau tramor. Ni roddir fawr o sylw i ieithoedd eraill ar y cyfan, heblaw am fusnesau â diddordebau penodol mewn rhai gwledydd tramor. Yn gyffredinol, ni roddir blaenoriaeth i'r gwaith o hyrwyddo cymwyseddau iaith cyflogaion yn yr iaith genedlaethol, Saesneg fel *lingua franca*, nac ieithoedd eraill. Nid yw amlieithrwydd yn uchel ar agenda'r mentrau Portiwgeaidd a gwblhaodd yr holiadur.

Canfyddiadau allweddol cyffredinol

Mae'n amlwg bod Portiwgal yn wlad sy'n ymwybodol iawn o statws ei hiaith genedlaethol fel y bumed iaith fwyaf cyffredin yn y byd, a'i bod hefyd yn cydnabod pwysigrwydd Saesneg (busnes) o ran rôl Portiwgal yn y byd sydd wedi globaleiddio. Mae'n hyrwyddo'r iaith ranbarthol *Mirandeg*, a siaredir gan 0.1% o boblogaeth y wlad, ac mae wedi rhoi diogelwch cyfansoddiadol i iaith Arwyddion Portiwgal. Portiwgaleg yw'r iaith a ddefnyddir mewn ysgolion, ond caiff yr iaith Saesneg ei defnyddio mewn ysgolion cynradd ymlaen a defnyddir ail iaith dramor hefyd. Mae'r cyfryngau yn cael dylanwad cadarnhaol ar agweddau'r cyhoedd tuag at ieithoedd tramor a'u sgiliau mewn ieithoedd tramor. Fodd bynnag, ni chaiff hyn ei adlewyrchu mewn gogwydd cryf ymhlith gwasanaethau cyhoeddus na busnesau i wella cymwyseddau iaith eu personél.

Mentrau a chynlluniau peilot addawol

Un cyfraniad amlwg tuag at godi ymwybyddiaeth lleiafrifoedd ieithyddol oedd y prosiect *Amrywiaeth Ieithyddol mewn Ysgolion ym Mhortiwgal* (2003-2007), a ariannwyd gan *Sefydliad Gulbenkian* ac a gynhaliwyd gan yr *Instituto de Linguística Teórica e Computacional* mewn cydweithrediad ag ysgolion gwahanol. Yn sgîl y prosiect hwnnw gwelwyd darpariaeth addysg ddwyieithog mewn ysgolion dethol (mae'r gwaith hwnnw'n parhau), datblygwyd deunyddiau, gwnaed argymhellion i'r Weinyddiaeth Addysg a chafwyd amryw gyhoeddiadau (gweler Mateus ac eraill 2008).

Mae'r British Council yn gweithio mewn partneriaeth â'r Weinyddiaeth Addysg ar brosiect peilot pedair blynedd (2011-2015) i gyflwyno addysg ddwyieithog mewn wyth o ysgolion cynradd y wladwriaeth ledled y wlad o flwyddyn un ymlaen. Rhoddir tua phum awr yr wythnos o wersi Saesneg ac mae'r British Council yn darparu hyfforddiant a chymorth.

Hefyd, gwnaed ymdrechion i hyrwyddo amlieithrwydd mewn busnes rhyngwladol, er enghraifft gan *Three Linguistic Spaces* (www.3el.org sy'n cyfeirio at ardaloedd o'r byd lle siaredir Ffrangeg, Sbaeneg a Phortiwgaleg), carfan bwysu sy'n pwysleisio rhyng-eglurder yr ieithoedd Romáwns.

Aeth y prosiect REFLECT (2000-2002), y prosiect PROTOCOL II (2002-2004) a'r prosiect ECLAT (2006-2008; mae'r wefan www.eclatproject.eu yn dal yn weithredol) ati i sefydlu cynllun archwilio iaith a diwylliant ar gyfer busnesau bach a chanolig sy'n canolbwyntio ar allforion, gan ddarparu data gwirioneddol ar anghenion a thueddiadau busnes ym maes sgiliau ieithyddol a diwylliannol a chynllunio iaith (Salomão 2011).

Cyfeiriadau

Litwinoff, Raja (1992). Projecto piloto de educação bilingue e bicultural no ensino pré-primário e primário *Documentos do Encontro a Comunidade Africana em Portugal*. Lisbon: Colibri, 71-73.

Mateus, Maria Helena Mira ac eraill (2008). *Diversidade Linguística na Escola Portuguesa*. Lisbon: Fundação Gulbenkian.

Salomão, Ricardo (2011). *Comunicação e exportação*. Lisbon: Nova Vega.

15 RWMANIA

Alexandru Cernat, Anca Nedelcu, Stefan Colibaba, Čalin Rus, Ruxandra Popovici

Cyd-destun y wlad

Mae gan Rwmania boblogaeth o 21,462,186 (y Sefydliad Ystadegau Gwladol, 2010¹) yn ôl yr adroddiad ar y cyfrifiad diwethaf a gynhaliwyd yn 2002. Amcangyfrifir bod 2.8 miliwn o bobl wedi gadael y wlad i chwilio am waith, gyda'r Eidal a Sbaen ymhlith y prif gyrchfannau (Sandu, 2010). Mae 20 o leiafrifoedd cenedlaethol yn cael eu cydnabod yn swyddogol (neu'n cael cynrychiolaeth wleidyddol swyddogol) yn Rwmania, sy'n cynrychioli mwy nag 11% o'r boblogaeth. Yn ôl cyfrifiad 2002, y grwpiau mwyaf yw'r Hwngariaid (6.6% o'r boblogaeth) a'r Roma (2.5% o'r boblogaeth). Mae'r Hwngariaid yn byw'n bennaf yn rhan ganolog a rhan orllewinol y wlad ac mae ganddynt gynrychiolaeth bwysig ym meysydd gwleidyddiaeth a'r cyfryngau torfol. Defnyddir yr iaith Hwngareg yn helaeth ym meysydd addysg a gweinyddiaeth leol ac yn y system gyfiawnder yn yr ardaloedd lle mae Hwngariaid yn cynrychioli dros 20% o'r boblogaeth leol. Caiff grŵp lleiafrifol y Roma ei dangynrychioli o hyd mewn swyddi pwysig. Caiff yr iaith Romani ei thangynrychioli hefyd yn y cyfryngau torfol ac ym maes addysg. Mae tua 11% o'r sefydliadau addysg cyn prifysgol yn Rwmania yn defnyddio iaith leiafrifol fel cyfrwng addysgu mewn o leiaf un adran, gyda'r iaith Hwngareg yn cael ei defnyddio gan 90% ohonynt.²

Mae mewnffudo yn ffenomen sydd ar gynydd ac amcangyfrifir bod 57,211 o wladolion trydedd gwlad. Daw'r tri phrif grŵp o Weriniaeth Moldofa (28%), Twrci (17%) a Tsieina (14%)³ (Y Comisiwn Ewropeaidd; Swyddfa Ystadegau'r Cymunedau Ewropeaidd, 2010, tud. 194). Nid yw hyn yn cynnwys dinasyddion yr Undeb Ewropeaidd. Mae Eurostat yn amcangyfrif y bydd y gyfradd fewnfudo ar gyfer Rwmania rhwng 2008 a 2060 yn 18.4 fesul 1,000 o drigolion (Alexe a Păunescu, 2010, tud. 22).

Caiff y data ystadegol ar faint a strwythur y boblogaeth ei ddiweddarau yn 2012 pan gyhoeddir canlyniadau terfynol cyfrifiad 2011.

Ieithoedd mewn dogfennau swyddogol a chronfeydd data

Ymdrinnir â'r iaith genedlaethol, ieithoedd tramor ac amrywiaeth o ieithoedd rhanbarthol/lleiafrifol mewn deddfwriaeth iaith a/neu ddogfennau polisi iaith. (Cyd-) ariennir y broses o ddysgu ac addysgu'r iaith genedlaethol ar gyfer plant a/neu oedolion o Rwmania sy'n byw dramor mewn 18 o wledydd yn Ewrop a thramor. Mae Rwmania wedi cadarnhau'r *Siarter Ewropeaidd ar gyfer Ieithoedd Rhanbarthol neu Ieithoedd Lleiafrifol*. Cydnabyddir yr 20 iaith ranbarthol/lleiafrifol ganlynol yn y Siarter: Albaneg, Armeneg, Bwlgareg, Tsieceg, Croateg, Almaeneg, Groeg, Hwngareg, Eidaleg, Macedoneg, Pwyleg, Romani, Rwseg, Rwtheneg, Serbeg, Slofaceg, Tatareg, Tyrceg, Wcreineg ac Iddew-Almaeneg. Ceir darpariaeth addysg swyddogol, a gefnogir gan y Siarter, ar gyfer 15 o'r ieithoedd hyn ar lefel genedlaethol neu ranbarthol. Ni cheir unrhyw gyfryw ddarpariaeth ar gyfer Albaneg, Armeneg, Macedoneg, Rwtheneg nac Iddew-Almaeneg.

Ceir dulliau swyddogol o gasglu data cenedlaethol ar amrywiaeth ieithyddol yn Rwmania ar ffurf data cyfrifiad a gaiff ei ddiweddarau o bryd i'w gilydd. Mae'r dulliau hyn o gasglu data yn ymddrin ag amrywiadau ar yr iaith genedlaethol, ieithoedd rhanbarthol/lleiafrifol ac ieithoedd mewnffudwyr, yn seiliedig ar gwestiwn am famiaith.

Yn 1995, llofnododd Rwmania *Gonfensiwn Fframwaith Cyngor Ewrop ar gyfer Diogelu Lleiafrifoedd Cenedlaethol*, ac yn 2007 dilyswyd y *Siarter Ewropeaidd ar gyfer Ieithoedd Rhanbarthol neu Ieithoedd Lleiafrifol*. Er mai Rwmaneg yw'r iaith swyddogol, ceir deg iaith leiafrifol â diogelwch cyffredinol: Albaneg, Armeneg, Groeg, Eidaleg, Macedoneg, Pwyleg, Romani, Rwtheneg, Tatareg ac Iddew-Almaeneg a deg iaith â diogelwch uwch: Bwlgareg, Tsieceg, Croateg, Almaeneg, Hwngareg, Rwseg, Serbeg, Slofaceg, Tyrceg ac Wcreineg.

Er bod pynciau sy'n ymwneud â'r ieithoedd hyn yn ymddangos yn y cyfryngau torfol o bryd i'w gilydd, prin yw'r data empirig ynghylch y pwnc o hyd. Ar lefel genedlaethol, dim ond yn y cyfrifiad cenedlaethol y gellir dod o hyd i wybodaeth gyda chwestiwn am y famiaith. At hynny, cafodd Rwmania ei chynnwys yn Ewrobaromedr 63.4 o 2005 (*Ewropeaid a'u hieithoedd*) a oedd yn gofyn i ymatebwyr am eu mamiaith, ieithoedd eraill yr oeddent yn eu medru a'u cymhwysedd iaith. Mae data ar y defnydd o ieithoedd lleiafrifol mewn addysg ar gael hefyd gan y Sefydliad Ystadegau Gwladol a'r Weinyddiaeth Addysg.¹

¹ <https://statistici.insse.ro>

² cyfrifiad 2002.

³ <http://ori.mai.gov.ro/api/media/userfiles/Proiecte--Strategii/Instruțiuni IF 1101 10012012>.

¹ <https://statistici.insse.ro>

IC=iaith/leithoedd Cenedlaethol
IT=leithoedd Tramor
IRh/LI=leithoedd Rhanbarthol neu Leiafrifol
IM=leithoedd Mewnfuldwy

leithoedd mewn addysg cyn cynradd (Ni cheir darpariaeth ar gyfer ieithoedd tramor nac ieithoedd mewnfuldwy)

	Grwpiau targed	Hyd	Gofynion o ran isafswm maint y grŵp	Diwrnodau'r wythnos	Hyfforddiant cyn swydd i athrawon	Hyfforddiant mewn swydd i athrawon	Arian ar gael gan y wladwriaeth
IRh/LI	siaradwyr brodorol yn unig	≥2 flynedd	dim	>1 diwrnod	pwnc-benodol	pwnc-benodol	llawn
Cymorth IC	pawb	≥2 flynedd	dim	0.5-1 diwrnod	pwnc-benodol	pwnc-benodol	llawn

leithoedd a gynigir mewn addysg cyn cynradd

IRh/LI	Bwlgareg, Croateg, Tsieceg, Almaeneg, Groeg, Hwngareg, Pwyleg, Serbeg, Slofaceg, Tyrceg, Wcreineg
---------------	---

Mae ieithoedd tramor yn ddewisol ar lefel cyn cynradd. Fodd bynnag, mae'r rhan fwyaf o feithrinfeidd yn cynnwys iaith dramor yn eu cwricwlwm. Mae'r ffaith bod blwyddyn mewn meithrinfa yn orfodol yn sicrhau bod y rhan fwyaf o'r plant yn cael eu cyflwyno i iaith dramor cyn iddynt ddechrau addysg gynradd. Mae'n werth nodi hefyd fod gan bob plentyn sy'n dod o grŵp lleiafrifol cydnabyddedig hawl gyfreithiol i gael addysg yn ei iaith ei hun. Er bod hon yn agwedd gadarnhaol bwysig, mae gwahaniaethau o hyd o ran y ffordd y caiff y gyfraith hon ei gweithredu ar gyfer grwpiau lleiafrifol gwahanol.

Hanes mewnfuldwr wlad, a'r ffaith bod y gyfradd ymfudo yn uwch na'r gyfradd fewnfudo, yw un o'r prif resymau dros y ffaith nad oes cynnig addysgol pwysig ar gael i fewnfudwyr. Daw'r grŵp pwysicaf o fewnfudwyr o Weriniaeth Moldofa ond nid yw addysg iaith yn broblem gan fod ganddynt yr un iaith a diwylliant tebyg iawn i'r Rwmaniaid.

leithoedd mewn addysg gynradd (Ni cheir darpariaeth ar gyfer ieithoedd mewnfuldwy)

Trefniadaeth

	Cwricwlwm	Cymorth ychwanegol i newydd-ddyfodiaid	Profion diagnostig wrth ddechrau	Monitro sgiliau iaith
Cymorth IC	cydlynol a chlir	cyn prif ffrwd	mewnfuldwy yn unig	cenedlaethol safonol

	Grwpiau targed	Cwricwlwm	CLIL	Dechrau addysg iaith	Amserlennu	Gofynion o ran isafswm maint y grŵp	Monitro sgiliau iaith	Y lefel y mae angen ei chyrraedd	Arian ar gael gan y wladwriaeth
IRh/LI	pawb	cydlynol a chlir	eang	o flwyddyn 1	yn ystod oriau ysgol	dim	cenedlaethol safonol	normau ar lefel genedlaethol neu ranbarthol	llawn
IT	pawb	cydlynol a chlir	absennol	o'r cyfnod canol	yn ystod oriau ysgol	dim	lefel ysgol	wedi'i chysylltu â'r Fframwaith Cyfeirio Ewropeaidd Cyffredin	llawn

Addysgu

	Cymwysterau athrawon	Hyfforddiant cyn swydd i athrawon	Hyfforddiant mewn swydd i athrawon	Symudedd
Cymorth IC	athrawon iaith	pwnc-benodol	pwnc-benodol	Dd/G
IRh/LI	athrawon iaith	pwnc-benodol	pwnc-benodol	Dd/G
IT	athrawon iaith	pwnc-benodol	pwnc-benodol	dim

leithoedd a gynigir mewn addysg gynradd

IRh/LI	Bwlgareg, Croateg, Almaeneg, Hwngareg, Eidaleg, Pwyleg, Romani, Rwseg-Lipofan, Serbeg, Slofaceg, Tyrceg, Wcreineg
IT	Saesneg, Ffrangeg, Almaeneg, Eidaleg, Rwseg, Sbaeneg: un o'r ieithoedd hyn yn orfodol

Ceir sefyllfa debyg mewn addysg gynradd lle mae un iaith dramor yn orfodol a'r ysgol sy'n penderfynu ar yr iaith honno. Er hynny, mae rhai ysgolion yn rhoi cyfle i blant a'u rhieni ddewis pa iaith y byddant yn ei dysgu. Mae rhai ysgolion hefyd yn addysgu'n llawn neu rannol mewn ieithoedd lleiafrifol, Hwngareg yn bennaf. Gall pob dosbarth gael ei addysgu yn yr iaith leiafrifol heblaw am ddsbarthiadau ar yr iaith Rwmaneg a llenyddiaeth Rwmania. Eto i gyd, nid oes unrhyw ddarpariaethau ar gyfer defnyddio ieithoedd mewnfudwyr mewn ysgolion cynradd.

Mae'r ddeddf addysg newydd yn rhoi mwy o ymreolaeth i'r ysgolion ac yn cynyddu'r gystadleuaeth rhyngddynt. Gellir disgwyl y bydd y broses hon yn gwella ansawdd yr ieithoedd tramor a addysgir gan ei bod yn ffactor pwysig wrth ddewis ysgol. Bydd y darpariaethau diweddar sy'n seiliedig ar y ddeddf newydd yn annog ysgolion i gynnig dosbarthiadau ar yr iaith Romani a'r diwylliant Roma hefyd ar gais rhieni.

leithoedd mewn addysg uwchradd (Ni cheir darpariaeth ar gyfer ieithoedd mewnfudwyr)

Trefniadaeth

	Cwricwlwm	Cymorth ychwanegol i newydd-ddyfodiaid	Profion diagnostig wrth ddechrau	Monitro sgiliau iaith
Cymorth IC	cydlynol a chlir	cyn prif ffrwd	absennol	cededlaethol safonol

	Grwpiau targed	Cwricwlwm	CLIL	Amserlennu	Gofynion o ran isafswm maint y grŵp	Monitro sgiliau iaith	Y lefel y mae angen ei chyrraedd	Arian ar gael gan y wladwriaeth
IRh/LI	pawb	cydlynol a chlir	eang	yn ystod oriau ysgol	>10	cededlaethol safonol	normau ar lefel genedlaethol neu ranbarthol	llawn
IT	pawb	cydlynol a chlir	lleoledig	yn ystod oriau ysgol	>10	lefel ysgol	wedi'i chysylltu â'r Fframwaith Cyfeirio Ewropeaidd Cyffredin	llawn

Addysgu

	Cymwysterau athrawon	Hyfforddiant cyn swydd i athrawon	Hyfforddiant mewn swydd i athrawon	Lefel yr iaith sydd ei hangen	Symudedd
Cymorth IC	athrawon iaith	pwnc-benodol	pwnc-benodol	normau ar lefel genedlaethol neu ysgol	Dd/G
IRh/LI	athrawon iaith	pwnc-benodol	pwnc-benodol	Dd/G	Dd/G
IT	athrawon iaith	pwnc-benodol	pwnc-benodol	wedi'i chysylltu â'r Fframwaith Cyfeirio Ewropeaidd Cyffredin	dim

leithoedd a gynigir mewn addysg uwchradd

IRh/LI	Bwlgareg, Croateg, Hwngareg, Eidaleg, Pwyleg, Romani, Rwseg-Lipofan, Slofaceg, Serbeg, Tyrceg, Wcreineg
IT	Saesneg, Ffrangeg, Almaeneg, Eidaleg, Portiwgaleg, Rwseg, Sbaeneg: dwy o'r ieithoedd hyn yn orfodol yn dibynnu ar yr hyn a gynigir gan yr ysgol

Mae gan addysg uwchradd nodweddion tebyg i addysg gynradd. Yn y rhan fwyaf o achosion, mae'r disgyblion yn parhau i astudio'r iaith dramor y dechreuwyd ei hastudio yn yr ysgol gynradd. Maent hefyd yn dechrau astudio iaith dramor arall yn y flwyddyn gyntaf o ysgol uwchradd. Ar lefel genedlaethol, ceir ysgolion sy'n cynnig rhaglenni astudio dwys mewn ieithoedd tramor ac ysgolion uwchradd arbenigol lle addysgir mewn iaith dramor benodol, megis Saesneg, Almaeneg, Ffrangeg, Eidaleg neu Sbaeneg.

Cynigir addysg uwchradd drwy gyfrwng ieithoedd lleiafrifol mewn rhanbarthau penodol o'r wlad. Y brif iaith leiafrifol gyda'r sefydliadau a'r staff angenrheidiol yw Hwngareg, ac wedyn Almaeneg, Wcreineg, Serbeg a Slofaceg. Mae disgyblion yn cael y cyfle i sefyll eu harholiadau cenedlaethol terfynol yn yr iaith leiafrifol gyda phrawf iaith Rwmaneg arbennig.

leithoedd mewn addysg bellach ac addysg uwch (Ni cheir darpariaeth ar gyfer ieithoedd mewnfudwyr)

Addysg bellach (mewn tri sefydliad AHG)

		Ystod o raglenni iaith	Cwricwlwm	Y lefel y mae angen ei chyrraedd	Arian ar gael gan y wladwriaeth
IRh/LI	Sefydliad A				
	Sefydliad B				
	Sefydliad C	amrywiaeth eang	cydlynol a chlir	Dd/G	llawn
IT	Sefydliad A	amrywiaeth eang	cydlynol a chlir	wedi'i chysylltu â'r Fframwaith Cyfeirio Ewropeaidd Cyffredin	llawn
	Sefydliad B	amrywiaeth eang	cydlynol a chlir	wedi'i chysylltu â'r Fframwaith Cyfeirio Ewropeaidd Cyffredin	llawn
	Sefydliad C	amrywiaeth eang	cydlynol a chlir	wedi'i chysylltu â'r Fframwaith Cyfeirio Ewropeaidd Cyffredin	llawn

Addysg uwch (mewn tair prifysgol)

	iaith/ ieithoedd a ddefnyddir fel y cyfrwng addysgu	ieithoedd ar wefan	Grwpiau targed ar gyfer cymorth ychwanegol yn yr iaith genedlaethol	Y lefel i'w chyrraedd o ran addysgu ieithoedd tramor	Recriwtio myfyrwyr nad ydynt yn fyfyrwyr o'r wlad	Symudedd ar gyfer myfyrwyr iaith	Symudedd ar gyfer myfyrwyr nad ydynt yn fyfyrwyr iaith
Prifysgol A	cenedlaethol, tramor a Rh/LI	cenedlaethol a thramor	cyfyngedig	wedi'i chysylltu â'r Fframwaith Cyfeirio Ewropeaidd Cyffredin	rhyngwladol yn unig	dewisol	dim cynnig
Prifysgol B	cenedlaethol a thramor	cenedlaethol a thramor	cyfyngedig	lefel genedlaethol neu sefydliad	rhyngwladol yn unig	dewisol	dim cynnig
Prifysgol C	cenedlaethol, tramor a Rh/LI	cenedlaethol, tramor a Rh/LI	cyfyngedig	wedi'i chysylltu â'r Fframwaith Cyfeirio Ewropeaidd Cyffredin	rhyngwladol yn unig	dewisol	dim cynnig

O ran hyfforddiant galwedigaethol, mae'r proffil iaith yn gymharol fach ar y cyfan gyda chynrychiolaeth gref o ran yr iaith genedlaethol ac ieithoedd tramor a dim ond rhai cyrsiau Hwngareg a Romani yn cael eu cynnig yn Cluj. Fodd bynnag, caiff Hwngareg ac Almaeneg, sef y prif ieithoedd lleiafrifol, eu cynrychioli'n dda ar lefel drydyddol mewn rhanbarthau lle ceir poblogaeth lleiafrifol sylweddol. Caiff yr iaith genedlaethol ac ieithoedd tramor eu cynrychioli'n dda. Yma, Saesneg a Ffrangeg sy'n cael blaenoriaeth gydag adrannau arbenigol mewn ieithoedd tramor neu hyd yn oed lefelau ôl-raddedig fel rhaglenni Meistr neu PhD yn cael eu haddysgu'n rhannol neu'n gyfan gwbl yn yr ieithoedd hyn.

Yn ddiweddar, gwelwyd mwy a mwy o fuddsoddiad mewn cyrsiau a addysgir drwy gyfrwng ieithoedd tramor, Saesneg a Ffrangeg yn bennaf, gyda rhai prifysgolion yn cadw adrannau ar gyfer Hwngareg ac Almaeneg hefyd. Caiff Romani, ynghyd ag ieithoedd lleiafrifol cenedlaethol eraill, eu hastudio hefyd mewn nifer o unedau addysg uwch iaith/addysgeg, sy'n paratoi athrawon gogyfer ag addysgu'r ieithoedd hyn yn y dyfodol. Yma, unwaith eto, nid oes unrhyw ddarpariaeth ar gyfer ieithoedd mewnfudwyr.

Ieithoedd yn y cyfryngau clyweledol a'r wasg

Cynrychiadau teledu nad ydynt yn yr iaith genedlaethol	Ffilmiau yn y sinema nad ydynt yn yr iaith genedlaethol	Rhaglenni mewn ieithoedd Rh/LI y tu allan i'r rhanbarth	Argaeledd iaith arwyddion ar y teledu
wedi'u hisdeitlo	wedi'u hisdeitlo	yn rheolaidd ym Mwcarést byth yn Iași bob amser yn Cluj	weithiau ym Mwcarést byth yn Iași a Cluj

Yn draddodiadol, mae'r cyfryngau torfol yn Rwmania yn defnyddio'r iaith genedlaethol ac ieithoedd lleiafrifol. Caiff y rhan fwyaf o'r ffilmiau a'r rhaglenni teledu tramor eu hisdeitlo a cheir gweddill y darllediadau yn yr iaith genedlaethol. Mae rhywfaint o le ar y sianeli teledu cyhoeddus cenedlaethol i raglenni mewn Hwngareg ac Almaeneg a rhai rhaglenni teledu lleol arbenigol a ddarlledir yn gyfan gwbl yn yr ieithoedd lleiafrifol hyn. Mae sianeli teledu mewn Hwngareg, Almaeneg, Serbeg ac ieithoedd lleiafrifol eraill ar gael yn helaeth drwy weithredwyr cebl. Yn gymharol ddiweddar, mae cartwnau wedi dechrau cael eu trosleisio a gall y gwyliwr newid iaith rhai rhaglenni yn ôl ei ddymuniad.

Mae'r papurau newydd yn Rwmaneg yn bennaf. Mae rhai papurau newydd rhyngwladol Saesneg, Ffrangeg neu Almaeneg ar gael mewn rhai siopau llyfrau a siopau. Yn rhan ganolog a rhan orllewinol y wlad, gellir cael gafael ar bapurau newydd a chylchgronau mewn Hwngareg ac Almaeneg hefyd. Mae'r cyfryngau ar-lein hefyd ar gael yn yr iaith genedlaethol ac ieithoedd lleiafrifol, yn ogystal â rhai ieithoedd mewnfudwyr fel Arabeg a Tsieinëeg.

leithoedd mewn gwasanaethau cyhoeddus a mannau cyhoeddus

Strategaethau iaith sefydliadol ar lefel dinas

Nifer yr ieithoedd	Ar y wefan	Defnyddio cyfieithwyr	Cymwyseddau iaith mewn disgrifiadau swydd	Recriwtio siaradwyr ieithoedd	Hyfforddiant iaith a gynigir i gyflogeion	Cofnod o sgiliau iaith cyflogeion
>4		Cluj	Cluj	Bwcarést lași Cluj		
3-4	Cluj				Cluj	
1-2	Bwcarést lași	Bwcarést lași	lași		Bwcarést	

Cyfleusterau cyfathrebu

Pum prif gyfleuster cyfathrebu ar lafar	Pum prif gyfleuster cyfathrebu ysgrifenedig
Cyfreithiol Mewnfudo ac integreiddio Twristiaeth Trafnidiaeth Cymdeithasol	Twristiaeth Mewnfudo ac integreiddio Dadleuon gwleidyddol a gwneud penderfyniadau Gwasanaethau brys Trafnidiaeth

Mae rhai sefydliadau cyhoeddus yn rhoi gwybodaeth mewn sawl iaith; er enghraifft, mae eu gwefannau ar gael yn Saesneg neu Ffrangeg yn ogystal â'r iaith genedlaethol. Defnyddir yr iaith Hwngareg hefyd yn rhan ganolog a rhan orllewinol y wlad ar gyfer deunydd ar-lein a rhai gwasanaethau cyhoeddus. Ceir cysylltiad rhwng y defnydd o ieithoedd lleiafrifol a strwythur y boblogaeth. Mewn ardaloedd lle mae poblogaeth lleiafrifol benodol yn cynrychioli o leiaf 20% o'r boblogaeth leol, bydd sefydliadau gweinyddiaeth gyhoeddus a gwasanaethau cyhoeddus yn sicrhau bod modd cyfathrebu yn yr iaith lleiafrifol fel y nodir yn y Cyfansoddiad, ac yn unol â'r cytuniadau rhyngwladol y mae Rwmania wedi glynu wrthynt.

Nid yw'r buddsoddiad mewn sgiliau iaith y tu mewn i sefydliadau cyhoeddus yn gyson. Fodd bynnag, ymddengys fod rhai sefydliadau wedi ymaddasu i'r sefyllfa leol. Mewn ardaloedd â grwpiau lleiafrifol mawr, caiff y gwasanaethau eu darparu fel arfer gan bersonél sy'n gallu siarad yr iaith lleiafrifol gyfatebol. Yn achos grŵp lleiafrifol y Roma, cyflogir cyfryngwyr i helpu'r grwpiau ethnig i gyfathrebu.

Ieithoedd mewn busnes (allan o 24 o gwmnïau)

	STRATEGAETHAU IAITH CYFFREDINOL							
	Argaeledd strategaeth iaith	Pwyslais ar sgiliau iaith wrth recriwtio	Darpariaeth symudedd rhyngwladol	Y defnydd o gyfieithwyr/dehonglwy'r allanol	Cofnodi sgiliau iaith staff	Y defnydd o rwydweithiau ar gyfer hyfforddiant iaith	Y defnydd o raglenni/cyllid yr UE	Ymwybyddiaeth o raglenni/cyllid yr UE
Defnyddir yn eang	3	17	4	3	0	0	0	0

		STRATEGAETHAU IAITH MEWNOL						STRATEGAETHAU IAITH ALLANOL			
		Partneriaethau â'r sector addysg	Cynlluniau gwobrwyo/dyrchafu yn seiliedig ar sgiliau iaith	Darpariaeth hyfforddiant iaith	Defnyddir y Fframwaith Cyfeirio Ewropeaidd Cyffredin	Defnyddir iaith ar gyfer dogfennau yn y gweithle/mewnwyd	Defnyddir iaith ar gyfer meddalwedd, rhaglenni'r we	Defnyddir iaith ar gyfer adroddiadau blynyddol/busnes	Defnyddir iaith ar gyfer marchnata	Defnyddir iaith ar gyfer brandio/hunaniaeth	Defnyddir iaith ar gyfer gwefan
IC	defnyddir yn eang	1	0	1	0	22	17	19	19	20	23
Saesneg Busnes	defnyddir yn eang	2	3	3	0	9	15	8	9	14	18
Ieithoedd ychwanegol	defnyddir yn eang	0	0	0	0	3	3	1	1	3	6

Mae'r busnesau a fu'n destun yr arolwg yn meddu ar broffil iaith canolig i isel. Er bod gan rai ohonynt strategaeth ac arferion iaith, mae'r buddsoddiad yn sgiliau iaith eu cyflogion yn isel iawn. Yn y rhan fwyaf o achosion, ymddengys eu bod wedi meithrin y sgiliau cyn iddynt gael eu cyflogi. Ymddengys mai'r iaith genedlaethol a'r iaith Saesneg yw'r prif ieithoedd a ddefnyddir, ac yna Ffrangeg ac Almaeneg. Argymhellir polisiau sy'n amlygu pwysigrwydd ieithoedd a'r buddsoddi sydd ei angen gan y sector preifat yn y sgiliau hyn er mwyn cynyddu arferion amliath busnesau.

Canfyddiadau allweddol cyffredinol

Ymddengys fod yr iaith genedlaethol, ieithoedd lleiafrifol ac ieithoedd tramor yn cael eu hyrwyddo'n dda yn y system addysg yn Rwmania. Ymddengys fod y busnesau yr ymchwiliwyd iddynt yma yn gwneud defnydd digonol o ieithoedd tramor, ond nad dynt yn buddsoddi'n sylweddol yn sgiliau iaith eu cyflogaion.

Caiff ieithoedd lleiafrifol eu cefnogi'n gyfreithiol drwy'r *Siarter Ewropeidd ar gyfer Ieithoedd Rhanbarthol neu Ieithoedd Lleiafrifol* a thrwy'r ddeddf addysg newydd. Fodd bynnag, nid yw'r realiti hwn yn arwain o reidrydd at ganlyniadau cyfartal ar gyfer pob iaith lleiafrifol. Er bod rhai ieithoedd lleiafrifol, er enghraifft Hwngareg, yn cael eu cynrychioli mewn gweithgareddau addysgol a diwylliannol, nid yw'r un peth yn wir am ieithoedd eraill fel Romani. Er bod buddsoddiadau wedi'u gwneud i helpu'r Roma i gael mynediad i ddarpariaethau gweinyddol, ysgolion a gwasanaethau cyhoeddus eraill drwy gyfryngwyr, mae llawer mwy i'w wneud i sicrhau bod cyfleoedd gwirioneddol ar gael i ddefnyddio'r iaith Romani ym maes addysg ac mewn mannau cyhoeddus. Er bod yr anghenion hyn yn hysbys a bod datganiadau cyfreithiol wedi'u gwneud parthed iaith a diwylliant y Roma (Hysbysiad y Weinyddiaeth Addysg 29323/20.04.2004), mae angen mesurau mwy ymarferol o hyd.

Agwedd arall y mae angen rhoi sylw iddi yw'r boblogaeth o fewnfudwyr, a'r materion iaith sy'n berthnasol iddynt, er enghraifft mynediad at addysg. Mae mewnfudo yn fwyaf tebygol o gynyddu yn yr hirdymor a dylid mynd ati i drafod a gweithredu polisïau i ddiwallu eu hanghenion. Gallai'r hyn a gynigir gan y prifysgolion, sef cynnwys yr iaith Rwmaneg fel iaith dramor, wella'r sefyllfa hefyd; byddai hyn yn ddefnyddiol i fyfyrwyr o dramor sy'n awyddus i astudio yn Rwmania. Byddai datblygu sgiliau iaith gweithwyr mewn sefydliadau cyhoeddus a gwella strategaethau cyfathrebu, yn enwedig y gwaith o ledaenu gwybodaeth mewn mwy o ieithoedd, o bwys cymdeithasol ac economaidd mawr i'r boblogaeth o fewnfudwyr ac entrepreneuriaid o dramor.

Mentrau a chynlluniau peilot addawol

Heddiw, mae tirwedd ieithyddol Rwmania yn un amrywiol ac mae tuedd gynyddol i gydnabod a hyrwyddo amlieithrwydd fel adnodd a gwerth i'r gymdeithas. Ceir disgrifiad cryno o rai o'r mentrau ffafriol yn y maes hwn isod.

O ran y llywodraeth, un o'r enghreifftiau yw astudiaeth yr Adran Cysylltiadau Rhyng-ethnig o *Amlieithrwydd ac Ieithoedd Lleiafrifol yn Rwmania*¹, a gynhaliwyd ar y cyd â'r Academi Rwmanaidd. Mae hefyd yn werth crybwyll rhaglenni Swyddfa Mewnfudo Rwmania neu Sefydliad Ymchwil Rwmania ar Lleafrifoedd Cenedlaethol yn Cluj Napoca (er enghraifft, y prosiect ar *Fforwm Dwyieithog*). Mae opsiynau polisi a phrosiectau diweddar Gweinyddiaeth Addysg Rwmania yn berthnasol hefyd. Er enghraifft, mae'r ddeddf addysg newydd, a gyflwynwyd ym mis Ionawr 2011, a'r drafft newydd o'r fframwaith cwricwlwm, yn amlygu pwysigrwydd datblygu cymhwysedd myfyrwyr i gyfathrebu mewn sawl iaith.

Mae menter ddiweddar y Gymdeithas Genedlaethol ar gyfer Rhaglenni Cymunedol, Cynrychiolaeth y Comisiwn Ewropeidd yn Rwmania a'r Adran Cysylltiadau Rhyng-ethnig, sef y digwyddiad *MALLtlingualism – Voices and Colour* a gynhaliwyd mewn canolfan siopa ym Mwcaraest, yn enghraifft o ffordd arloesol o gyrraedd cynulleidfaoedd ehangach mewn amgylchedd anffurfiol. Mae Diwrnod Ieithoedd Ewrop 2011, a ddathlwyd gan Sefydliad Diwylliannol Rwmania ac EUNIC Rwmania drwy fformat cyfnewidfa o weithgareddau diwylliannol, yn rhan o'r un ymdrech i gyfleu neges ynghylch amrywiaeth diwylliannol i'r cyhoedd.

Ymhlith yr enghreifftiau eraill o gydweithio rhwng cyrff y llywodraeth a chymdeithas sifil mae'r prosiect *Learn Romanian* a gynhaliwyd gan Brifysgol Gorllewin Timisoara, Sefydliad Rhyngddiwylliannol Timisoara a Gweinyddiaeth Addysg Rwmania, a'r prosiect *Migrant in Romania*,² a ariannwyd hefyd gan y Gronfa Integreiddio Ewropeidd ac a weithredwyd mewn partneriaeth â Sefydliad Rhyngddiwylliannol Timisoara a'r Gymdeithas i Ferched sy'n Ffoaduriaid yn Rwmania. Nod y fenter gyntaf yw cefnogi'r broses o ddysgu Rwmaneg ar lefel sylfaenol.

Mae'r ymwybyddiaeth gynyddol o bwysigrwydd amlieithrwydd yn cael ei hamlygu drwy'r prosiectau ymchwil a'r trafodaethau gwyddonol niferus sydd wedi'u trefnu'n ddiweddar mewn prifysgolion gan gyfadrannau iaith a chyfadrannau eraill. Mae'r mentrau hyn yn gyson ag awgrym a wnaed gan Leonard Orban, y Comisiynydd Ewropeidd ar gyfer Amlieithrwydd rhwng 2007 a 2010, ynghylch sefydlu cadeiryddion amlieithrwydd mewn prifysgolion.³ Un enghraifft yw'r gynhadledd a drefnwyd gan y Gyfadrannau Cymdeithaseg a Gwaith Cymdeithasol ym Mhrifysgol Babeş-Bolyai, Cluj sef 'From Immigration to Integration through Multilingualism'.⁴

Cyfeiriadau

Alexe, I. a Păunescu, B. (gol.) (2011). *Studia asupra fenomenului imigratie în România*.

Integrarea străinilor în societatea românească. Bucureşti: Fundația Soros.

Y Comisiwn Ewropeidd; Swyddfa Ystadegau'r Cymunedau Ewropeidd. (2010). *Europe in figures – Eurostat yearbook 2010*. Lwcsembwrg: Y Comisiwn Ewropeidd.

Sandu, D. (2010). *Lumile sociale ale migrației*. Iași: Polirom.

² www.migrant.ro

³ www.ziare.com/tv/ – cyfweiliad, 23 Tachwedd 2009.

⁴ www.lumebuna.ro/2011/05/29/conferinta-%E2%80%99Cde-la-imigrare-la-integrare-prin-multilingvism%E2%80%99D/

¹ www.insse.ro, www.edu.ro, www.dri.gov.ro

16 SBAEN

16.1 Madrid, Valencia, Sevilla

Marta Genís

Cyd-destun y wlad

Nid yw amlieithrwydd yn fater newydd i bobl Sbaen, gan fod pedwar o bob deg ohonynt yn byw mewn cymunedau lle ceir rwy nag un iaith swyddogol. O ystyried bod gan Sbaen boblogaeth o 47.1 miliwn o bobl (cyfrifiad 2011), mae'n awgrymu bod 34% o'r boblogaeth yn ddwyieithog o leiaf. Felly, mae amlieithrwydd yn nodwedd hanfodol o ddiwylliant y wlad.

Mae Cyfansoddiad Sbaen 1978 yn cydnabod bod yr amrywiaeth ieithyddol gyfoethog yn dreftadaeth ddiwylliannol y mae'n rhaid ei pharchu a'i diogelu, ac yn datgan y bydd ieithoedd eraill heblaw am yr un genedlaethol, sef Castileg, yn ieithoedd swyddogol yn eu priod gymunedau. Felly, gallwn ddweud bod Sbaen yn wlad amliath ac mai'r CastilMeg, a elwir fel arfer yn Sbaeneg, yw'r iaith swyddogol. Mae ieithoedd eraill, sef Galiseg, Catalaneg a Basgeg, hefyd yn ieithoedd swyddogol yn eu priod gymunedau ac mewn rhai tiriogaethau eraill a oedd, yn hanesyddol, yn rhan o'u continwmm ieithyddol, megis Valencia ac Ynysoedd Balears yn achos yr iaith Gatalaneg, a gogledd Navarra yn achos yr iaith Fasgeg. Gyda'i gilydd, mae fwy neu lai 16 miliwn o bobl yn siarad y tair iaith hyn.

At hynny, mae amrywiaeth eang o dafodieithoedd, megis tafodiaith *Andalusia*, *Canario*, *Extremeño* neu *Murciano*; a chaiff ieithoedd eraill eu cydnabod fel ieithoedd tiriogaethol yn y *Siarter Ewropeaidd ar gyfer Ieithoedd Rhanbarthol neu Ieithoedd Lleiafrifol* megis *Fablas Aragonesas* yn Aragón, *Bable* neu *Astweg* yn Asturias, *Valenciano* yn Valencia, ac *Aranés*, yr iaith swyddogol yn Vall d'Arán. Mae'r Siarter hefyd yn diogelu ieithoedd megis *Berber* yn Melilla, *Caló*, iaith annhoriogaethol a ddefnyddir gan y Sipsiwn, a *Phortiwgaleg* a ddefnyddir yn Extremadura a manau eraill ar y ffin â Phortiwgal. Dim ond rhai o'r amrywiaethau ieithyddol a siaredir yn lleol yw'r rhain.

Mae mewnfudo hefyd wedi dod ag ieithoedd eraill i Sbaen. Yn ôl cyfrifiad 2011, mae'r boblogaeth yn cynnwys 5.7 miliwn o dramorwyr (12.2%), y mae llawer ohonynt yn hanu o Dde America, lle y siaredir gwahanol amrywiaethau ar yr iaith Sbaeneg. Yr ieithoedd mewnfudwyr pwysicaf yn Sbaen yw *Arabeg*, *Bwlgareg*, *Tseinëeg*, *Saesneg*, *Almaeneg*, *Portiwgaleg* a *Rwmaneg*.

O ran addysg, nid yw ieithoedd byth wedi cael eu hystyried yn hanfodol yn Sbaen. Gellir olrhain yr arwydd cyntaf o bryder ynghylch ieithoedd tramor i'r Archddyfarniad Brenhinol dyddiedig 20 Gorffennaf 1900 a'r argymhelliad mai'r iaith Ffrangeg ddylai gael ei hastudio yn gyntaf, wedyn Saesneg neu Almaeneg er mwyn anghofio natur ynysig Sbaen tan hynny.

Roedd Deddf Addysg Gyffredinol 1970 yn ddatblygiad sylweddol o ran ieithoedd mewn addysg gan iddi gyflwyno ieithoedd tramor i'r trydydd cylch o addysg sylfaenol ac, yn fwyaf arwyddocaol, sicrhodd fod ieithoedd rhanbarthol a'u llenyddiaeth yn cael eu cynnwys yn system addysg cymunedau cyfatebol o addysg sylfaenol ymlaen.

Yn 1990, sefydlodd LOGSE (*Ley Orgánica General del Sistema Educativo*) system addysg ddatganoledig lle y gallai cymunedau ymreolaethol ddewis cynnwys y cwricwlwm.

Yr LOE (*Ley Orgánica de Educación*), a gymeradwywyd yn 2002, yw'r ddeddf gyfredol. O dan y ddeddf honno, dechreu ar y gwaith o addysgu ieithoedd tramor mewn ysgolion cynradd (o bum mlwydd oed) a chyflwynir trydedd iaith dramor ddewisol i blant naw mlwydd oed.

Ieithoedd mewn dogfennau swyddogol a chronfeydd data

Ymdrinir â'r iaith genedlaethol, ieithoedd tramor, ieithoedd rhanbarthol/lleiafrifol ac ieithoedd mewnfudwyr mewn deddfwriaeth iaith a/neu ddogfennau polisi iaith. (Cyd-)ariennir y broses o ddysgu ac addysgu Sbaeneg ar gyfer plant a/neu oedolion o Sbaen sy'n byw dramor mewn 13 o wledydd yn Ewrop a thramor, yn enwedig yn America Ladin. Mae Sbaen wedi llofnodi ac wedi cadarnhau'r *Siarter Ewropeaidd ar gyfer Ieithoedd Rhanbarthol neu Ieithoedd Lleiafrifol*. Cydnabyddir y 12 iaith ranbarthol/lleiafrifol ganlynol yn y Siarter: Araneg, Astweg/Bable, Basgeg, Catalaneg, Ffabl Aragoneg, Galiseg, Falenseg, Portiwgaleg, Arabeg, ieithoedd Berber, Caló a Romani. Ceir darpariaeth addysg swyddogol ar gyfer Basgeg, Catalaneg, Galiseg a Falenseg ar lefel ranbarthol, a gefnogir gan y Siarter.

Ceir dulliau swyddogol o gasglu data cenedlaethol ar amrywiaeth ieithyddol yn Sbaen ar ffurf data cyfrifiad a data arolwg a gaiff eu diweddarau o bryd i'w gilydd. Mae'r dulliau hyn o gasglu data yn ymdrin ag amrywiadau ar yr iaith genedlaethol, ieithoedd rhanbarthol/lleiafrifol ac ieithoedd mewnfudwyr, yn seiliedig ar gwestiwn am iaith yr aelwyd a chwestiwn am hyfedredd iaith sy'n gofyn pa un a ellir siarad/deall/darllen/ysgrifennu'r iaith (ac i ba raddau y gellir gwneud hynny).

Ymdrinir ag ieithoedd cenedlaethol, rhanbarthol, lleiafrifol, tramor a mewnfudwyr mewn amryw ddeddfwriaethau a dogfennau polisi yn Sbaen, yn bennaf Cyfansoddiad Sbaen a basiwyd gan *Cortes Generales* ac a gadarnhawyd gan bobl Sbaen yn 1978, a'r *Siarter Ewropeaidd ar gyfer Ieithoedd Rhanbarthol neu Ieithoedd Lleiafrifol*, a gadarnhawyd yn 2001. Mae'r *Fframwaith Cyfeirio Ewropeaidd Cyffredin ar gyfer Ieithoedd* hefyd wedi cael dylanwad mawr ar y system addysg yn Sbaen.

Mae sawl adroddiad a gyflwynwyd i'r UE yn esbonio'r hyn sydd wedi'i wneud ynghylch ieithoedd lleiafrifol neu ieithoedd rhanbarthol yn Sbaen ar ôl i wahanol statudau ymreolaeth y

rhanbarthau gael eu llofnodi yn y 1980au, gan sefydlu ieithoedd swyddogol y gwahanol gymunedau: cyflwynwyd *Aranés* fel cyd-iaith swyddogol yn nhestun newydd Statud Cataluña a ddeddfwyd ym mis Gorffennaf 2006; nodwyd *Fablas*, a siaredir yn Aragon, yn Neddf 3/1999 dyddiedig 10 Mawrth; pasiwyd y

Cynllun Cyffredinol ar gyfer Normaleiddio iaith Galicia gan y senedd ar 22 Medi 2004.

Fodd bynnag, ni chaiff ieithoedd rhanbarthol eu hyrwyddo na'u haddysgu mewn rhanbarthau eraill, gan adael y fenter yn nwylo clybiau neu athrofeydd rhanbarthol.

IC=iaith/ieithoedd Cenedlaethol
IT=ieithoedd Tramor
IRh/LI=ieithoedd Rhanbarthol neu Leiafrifol
IM=ieithoedd Mewnfudwyr

ieithoedd mewn addysg cyn cynradd

	Grwpiau targed	Hyd	Gofynion o ran isafswm maint y grŵp	Diwrnodau'r wythnos	Hyfforddiant cyn swydd i athrawon	Hyfforddiant mewn swydd i athrawon	Arian ar gael gan y wladwriaeth
IRh/LI	pawb	≥ 2 flynedd	dim	>1 diwrnod	pwnc-benodol	pwnc-benodol	llawn
IT	pawb	≥ 2 flynedd	dim	<0.5 diwrnod	pwnc-benodol	pwnc-benodol	llawn
IM	pawb	≥ 2 flynedd	dim	<0.5 diwrnod	cyffredinol	pwnc-benodol	rhannol
Cymorth IC	pawb	≥ 2 flynedd	5-10	0.5-1 diwrnod	pwnc-benodol	pwnc-benodol	llawn

ieithoedd a gynigir mewn addysg cyn cynradd

IRh/LI	Falenseg yn Valencia yn unig
IT	Saesneg yng nghymunedau Madrid a Valencia, a Saesneg, Ffrangeg ac Almaeneg yn Andalwsia
IM	Portiwgaleg yn Valencia, Portiwgaleg ac Arabeg Moroco yn Madrid, a Phortiwgaleg, Arabeg Moroco a Rwmaneg yn Andalwsia

Mewn addysg cyn cynradd y gwelir amlieithrwydd Sbaen yn fwyaf amlwg. Ceir sgoriau uchel ar gyfer ieithoedd tramor ac ieithoedd rhanbarthol/leiafrifol gyda'r *Cynllun Strategol ar gyfer Dinasyddiaeth ac Integreiddio 2007-2010* yn cynnwys, ymhlith ei gamau gweithredu, ddiogelu ieithoedd a diwylliannau plant mewnfudwyr a darpariaeth ar gyfer eu hyrwyddo yn y system addysg drwy gytundebau dwyochrog.

Yn dibynnu ar gymunedau penodol, mae'r ieithoedd tramor a gynigir yn cynnwys Saesneg, Ffrangeg, Almaeneg, Portiwgaleg, Arabeg a Rwmaneg. Fel arfer, mae naill ai Saesneg neu Ffrangeg yn orfodol, gyda'r gweddill yn ieithoedd dewisol.

leithoedd mewn addysg gynradd

Trefniadaeth

	Cwricwlwm	Cymorth ychwanegol i newydd-ddyfodiaid	Profion diagnostig wrth ddechrau	Monitro sgiliau iaith
Cymorth IC	cydlynol a chlir	cyn prif ffrwd	mewn fudwyr yn unig	cededlaethol safonol

	Grwpiau targed	Cwricwlwm	CLIL	Dechrau addysg iaith	Amserlennu	Gofynion o ran isafswm maint y grŵp	Monitro sgiliau iaith	Y lefel y mae angen ei chyrraedd	Arian ar gael gan y wladwriaeth
IRh/LI	pawb	cydlynol a chlir	eang	o flwyddyn 1	yn ystod oriau ysgol	dim	cededlaethol safonol	normau ar lefel genedlaethol neu ranbarthol	llawn
IT	pawb	cydlynol a chlir	eang	o flwyddyn 1	yn ystod oriau ysgol	dim	cededlaethol safonol	normau ar lefel genedlaethol neu ysgol	llawn
IM	siaradwyr brodorol yn unig	cydlynol a chlir	lleoledig	o flwyddyn 1	yn rhannol yn ystod oriau ysgol	dim	lefel ysgol	normau ar lefel ysgol	rhannol

Addysgu

	Cymwysterau athrawon	Hyfforddiant cyn swydd i athrawon	Hyfforddiant mewn swydd i athrawon	Symudedd
Cymorth IC	athrawon iaith	pwnc-benodol	pwnc-benodol	Dd/G
IRh/LI	athrawon iaith	pwnc-benodol	pwnc-benodol	Dd/G
IT	athrawon iaith	pwnc-benodol	pwnc-benodol	cymorth ariannol anffurfiol
IM	athrawon iaith	cyffredinol	pwnc-benodol	Dd/G

leithoedd a gynigir mewn addysg gynradd

IRh/LI	Falenseg yn Valencia yn unig
IT	Saesneg a Ffrangeg yn Madrid; Saesneg, Ffrangeg ac Almaeneg yn Valencia ac Andalwsia: un o'r ieithoedd hyn yn orfodol
IM	Arabeg Moroco a Phortiwgaleg yn Madrid ac Andalwsia

leithoedd mewn addysg uwchradd (Ni cheir darpariaeth ar gyfer ieithoedd mewn fudwyr)

Trefniadaeth

	Cwricwlwm	Cymorth ychwanegol i newydd-ddyfodiaid	Profion diagnostig wrth ddechrau	Monitro sgiliau iaith
Cymorth IC	cydlynol a chlir	cyn prif ffrwd	mewn fudwyr yn unig	cededlaethol safonol

	Grwpiau targed	Cwricwlwm	CLIL	Amserlennu	Gofynion o ran isafswm maint y grŵp	Monitro sgiliau iaith	Y lefel y mae angen ei chyrraedd	Arian ar gael gan y wladwriaeth
IRh/LI	pawb	cydlynol a chlir	eang	yn ystod oriau ysgol	dim	cededlaethol safonol	normau ar lefel genedlaethol neu ranbarthol	llawn
IT	pawb	cydlynol a chlir	lleoledig	yn ystod oriau ysgol	dim	lefel ysgol	heb ei nodi	llawn

Addysgu

	Cymwysterau athrawon	Hyfforddiant cyn swydd i athrawon	Hyfforddiant mewn swydd i athrawon	Lefel yr iaith sydd ei hangen	Symudedd
Cymorth IC	athrawon iaith	pwnc-benodol	pwnc-benodol	heb ei nodi	Dd/G
IRh/LI	athrawon iaith	pwnc-benodol	pwnc-benodol	Dd/G	Dd/G
IT	athrawon iaith	pwnc-benodol	pwnc-benodol	dim	cymorth ariannol anffurfiol

leithoedd a gynigir mewn addysg uwchradd

IRh/LI	Falenseg yn Valencia yn unig
IT	Saesneg, Ffrangeg, Almaeneg: un o'r ieithoedd hyn yn orfodol

Nid yw'r profffil ar gyfer addysg uwchradd mor arbennig gan nad yw'r duedd newydd ar gyfer amleithrwydd wedi cyrraedd y lefel hon eto, gan olygu mai dim ond rhai ysgolion uwchradd dwyieithog a geir. Er hynny, mae'r amrywiaeth o ieithoedd a gynigir, y modd y trefnir hyfforddiant a hyfforddiant i athrawon a'r cymwysterau yn nodedig.

Ni chaiff ieithoedd mewnudwyr eu haddysgu'n helaeth mewn addysg uwchradd er bod rhai cynlluniau gweithredu wedi'u rhoi ar waith, yn enwedig o ran hyrwyddo'r ieithoedd hynny. Mae'r broses o integreiddio mewnudwyr yn niwylant Sbaen drwy iddynt ddysgu'r iaith Sbaeneg wedi'i hyrwyddo hefyd.

leithoedd mewn addysg bellach ac addysg uwch

Addysg bellach (mewn tri sefydliad AHG) (Ni cheir darpariaeth ar gyfer ieithoedd Rh/LI nac ieithoedd mewnudwyr)

		Ystod o raglenni iaith	Cwricwlwm	Y lefel y mae angen ei chyrraedd	Arian ar gael gan y wladwriaeth
IT	Sefydliad A	dim manylebau	cydlynol a chllir	dim	llawn
	Sefydliad B	cyfyngedig	cydlynol a chllir	dim	llawn
	Sefydliad C	cyfyngedig	cydlynol a chllir	dim	llawn

Addysg uwch (mewn tair prifysgol)

	Iaith/ieithoedd a ddefnyddir fel y cyfrwng addysgu	Ieithoedd ar wefan	Grwpiau targed ar gyfer cymorth ychwanegol yn yr iaith genedlaethol	Y lefel i'w chyrraedd o ran addysgu ieithoedd tramor	Recriwtio myfyrwyr nad ydynt yn fyfyrwyr o'r wlad	Symudedd ar gyfer myfyrwyr iaith	Symudedd ar gyfer myfyrwyr nad ydynt yn fyfyrwyr iaith
Prifysgol A	enedlaethol a thramor	enedlaethol a thramor	pawb	wedi'i chysylltu â'r Fframwaith Cyfeirio Ewropeaidd Cyffredin	rhyngwladol a mewnudwyr	dewisol	dewisol
Prifysgol B	enedlaethol a thramor	enedlaethol a thramor	cyfyngedig	wedi'i chysylltu â'r Fframwaith Cyfeirio Ewropeaidd Cyffredin	rhyngwladol a mewnudwyr	dewisol	dewisol
Prifysgol C	enedlaethol a thramor	enedlaethol a thramor	cyfyngedig	wedi'i chysylltu â'r Fframwaith Cyfeirio Ewropeaidd Cyffredin	rhyngwladol a mewnudwyr	dewisol	dewisol

Mewn Hyfforddiant Galwedigaethol, dim ond Ffrangeg a Saesneg a gynigir ac nid ydynt yn bynciau gorfodol. Mae hynny'n egluro pam bod y canlyniadau mor isel. Mae angen i awdurdodau addysg dalu sylw i'r maes hwn, o ystyried mai nod Hyfforddiant Galwedigaethol yw derbyn addysg y gellir ei defnyddio mewn gwaith proffesiynol maes o law.

O ran addysg mewn prifysgolion, Saesneg a Ffrangeg yw'r prif ieithoedd tramor a gynigir, ac wedyn Almaeneg ac Eidaleg.

leithoedd yn y cyfryngau clyweledol a'r wasg

Cynrychiadau teledu nad ydynt yn yr iaith genedlaethol	Ffilmiau yn y sinema nad ydynt yn yr iaith genedlaethol	Rhaglenni mewn ieithoedd Rh/LI y tu allan i'r rhanbarth	Argaeledd iaith arwyddion ar y teledu
wedi'u trosleisio	wedi'u trosleisio	weithiau	yn rheolaidd

Gan fod pob darllediad teledu yn ddigidol, caiff iaith wreiddiol y cynhyrchiad ei thrawsyrro hefyd. Mae'r rhan fwyaf o'r rhaglenni a drosleisir hefyd ar gael yn y fersiwn wreiddiol, yn yr un modd â'r rheini yn yr ieithoedd rhanbarthol Catalaneg, Galiseg neu Fasgeg. Fodd bynnag, nid yw'r cyhoedd bob amser yn ymwybodol o hyd ac efallai mai dyma'r rheswm am y gwerthoedd isel a geir yn y maes hwn.

O ran y wasg a deunydd argraffedig, nodwyd chwe iaith wahanol mewn papurau newydd. Fodd bynnag, mae dominyddiaeth yr iaith Saesneg yn rhyfeddol.

leithoedd mewn gwasanaethau cyhoeddus a manau cyhoeddus

Strategaethau iaith sefydliadol ar lefel dinas

Nifer yr ieithoedd	Ar y wefan	Defnyddio cyfieithwyr	Cymwyseddau iaith mewn disgrifiadau swydd	Recriwtio siaradwyr ieithoedd	Hyfforddiant iaith a gynigir i gyflogeion	Cofnod o sgIMiau iaith cyflogeion
>4	Sevilla	Madrid Valencia Sevilla			Madrid	
3-4						
1-2	Valencia		Valencia Sevilla		Valencia Sevilla	

Cyfleusterau cyfathrebu

Pum prif gyfleuster cyfathrebu ar lafar	Pum prif gyfleuster cyfathrebu ysgrifenedig
Addysg Gwasanaethau brys lechyd Cymdeithasol Cyfreithiol	lechyd Cymdeithasol Mewnfudo ac integreiddio Twristiaeth Gwasanaethau brys

Er i 10 o ieithoedd gael eu nodi, Saesneg sy'n dominyddu yn y dinasoedd a fu'n rhan o'r arolwg. Ymddengys fod diddordeb cynyddol mewn amlieithrwydd a mwy o angen am fwy o ieithoedd mewn gwasanaethau cyhoeddus ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol.

Mae llawer llai o gyfleusterau llafar o'u cymharu â strategaethau sefydliadol neu gyfleusterau cyfathrebu ysgrifenedig.

leithoedd mewn busnes (allan o 24 o gwmnïau)

		STRATEGAETHAU IAITH CYFFREDINOL							
		Argaeledd strategaeth iaith	Pwyslais ar sgiliau iaith wrth recriwtio	Darpariaeth symudedd rhyngwladol	Y defnydd o gyfieithwyr/dehonglwyd allanol	Cofnodi sgiliau iaith staff	Y defnydd o rwydweithiau ar gyfer hyfforddiant iaith	Y defnydd o raglenni/cyllid yr UE	Ymwybyddiaeth o raglenni/cyllid yr UE
Defnyddir yn eang		5	11	4	10	0	0	3	0

		STRATEGAETHAU IAITH MEWNOL						STRATEGAETHAU IAITH ALLANOL			
		Partneriaethau â'r sector addysg	Cynlluniau gwobrwyo/dyrchafu yn seiliedig ar sgiliau iaith	Darpariaeth hyfforddiant iaith	Defnyddir y Fframwaith Cyfeirio Ewropeaidd Cyffredin	Defnyddir iaith ar gyfer dogfennau yn y gweithle/mewnwyd	Defnyddir iaith ar gyfer meddalwedd, rhaglenni'r we	Defnyddir iaith ar gyfer adroddiadau blynyddol/busnes	Defnyddir iaith ar gyfer marchnata	Defnyddir iaith ar gyfer brandio/hunaniaeth	Defnyddir iaith ar gyfer gwefan
IC	ymarfer yn eang	2	3	6	1	23	22	23	24	20	22
Saesneg Busnes	ymarfer yn eang	2	9	8	0	9	9	11	11	7	14
leithoedd ychwanegol	ymarfer yn eang	2	2	4	0	3	0	4	11	7	11

Ymddengys fod arferion rheoli, hyd yn oed os ydynt yn ddarostyngedig i ieithoedd cenedlaethol, wedi dod yn fwy sensitif i amlieithrwydd ond mae'r ffigurau yn dal i fod yn isel. Mae lle i wella yn y dyfodol, yn enwedig o ran strategaethau iaith a chymhwysedd iaith cylvTogeion. Mae gan gwmnïau rhyngwladol bersbectif mwy byd-eang o'r cyfryw faterion am eu bod yn gwybod bod amlieithrwydd yn gwella natur gystadleuol cwmnïau yn sylweddol.

Canfyddiadau allweddol cyffredinol

Ymhlith y meysydd penodol lle gwelwyd gwelliannau o ran amlieithrwydd yn ddiweddar mae addysg cyn cynradd ac addysg gynradd ac ieithoedd mewnfudwyr, gyda symudiad cynyddol a rheolaidd tuag ato.

Mae hefyd yn bwysig pwysleisio'r ymgais a wnaed gan wasanaethau cyhoeddus a mannau cyhoeddus i gyflwyno newid o ystyried y ffaith na ellid disgwyl dod o hyd i unrhyw iaith ar wahân i Sbaeneg ddegawd yn ôl.

Gellid dweud fwy neu lai'r un peth am bapurau newydd a llyfrau gydag arlwy enfawr yn cael ei chynnig nawr o gymharu â'r sefyllfa a fu dim ond ychydig flynyddoedd yn ôl.

Yn benodol, gwelir arfer neu arferion traddodiadol yn parhau ym meysydd y cyfryngau clyweledol a busnes.

Mentrau a chynlluniau peilot addawol

Mae'r ddogfen *Cynllun Gweithredu* ar gyfer 2010-2020 a lofnodwyd gan y llywodraeth yn 2010 yn rhestru 12 o amcanion i wella'r broses o ddysgu ieithoedd ac amlieithrwydd. Addysg athrawon yw un o'r rhai pwysicaf. Mae rhai o'r amcanion hyn eisoes wedi'u bodloni gan rhai o'r cymunedau ymreolaethol er bod yr argyfwng ariannol sydd ohono wedi arafu'r mentrau cyntaf.

Cyfeiriadau

Avance Censo 2001, INE. Yn www.ine.es/prensa/np648.pdf

Constitución española (1978) Yn <http://www.boe.es/aeboe/consultas/enlaces/documentos/ConstitucionCASTELLANO.pdf>

Fframwaith Cyfeirio Ewropeidd Cyffredin ar gyfer ieithoedd. Yn www.coe.int/t/dg4/linguistic/Source/Framework_EN.pdf

Cyngor Ewrop (2001), *The European Framework of Reference for the Teaching of Languages*. Strasbwrg: Cyngor Ewrop.

Y Siarter Ewropeidd ar gyfer ieithoedd Rhanbarthol neu ieithoedd Lleiafrifol. Yn www.coe.int/t/dg4/education/minlang/textcharter/default_en.asp

REAL DECRETO 831/2003, de 27 de junio, por el que se establece la ordenación general y las enseñanzas comunes de la Educación Secundaria Obligatoria.

Ley 10/2009 de 22 de diciembre de uso, protección y promoción de las lenguas propias de Aragón. Yn noticias.juridicas.com/base_datos/CCAA/ar-10-2009.html

Ley 14/1970, de 4 de agosto, General de Educación y Financiamiento de la Reforma Educativa. Yn http://www.boe.es/aeboe/consultas/bases_datos/doc.php?id=BOE-A-1970-852

Morales, C. ac eraill (2000) *La enseñanza de lenguas extranjeras en España*. Madrid: CIDE.MECD.

Plan de Acción 2010-2020 Yn www.educacion.gob.es/dctm/ministerio/horizontales/prensa/documentos/2010/plan-de-accion-2010-2011vdefinitivafinal.pdf?documentId=0901e72b801b3cad

Plan estratégico de ciudadanía e Integración 2007-2010 Yn http://extranjeros.mtin.es/es/IntegracionRetorno/Plan_estrategico/pdf/PECIDEF180407.pdf

Plan General de Normalización de la Lengua Gallega (2004) Yn www.xunta.es/linguagallega/arquivos/PNL22x24_textointegro.pdf

Programa de Lengua y cultura Portuguesa. Yn www.educacion.gob.es/educacion/sistema-educativo/educacion-inclusiva/programas-educativos/lengua-cultura-portuguesa.html

Real decreto de 20 de julio de 1900, Colección Legislativa de España, cyf. 2º de 1900, art. 3, tud. 533-534.

Estatuto de Cataluña Julio 2006. Yn www.gencat.cat/generalitat/cas/estatut/index_2006.htm

16 SBAEN

16.2 Catalwnia

F. Xavier Vila i Moreno

Cyd-destun rhanbarthol

Roedd cydnabod yn glir realiti amlieithog hanesyddol Sbaen yn flaenoriaeth allweddol pan gyflwynwyd democratiaeth. Yn dilyn hynny cafodd le amlwg yng Nghyfansoddiad Sbaen (erthygl 3) yn 1978 ac yn Statud Ymreolaeth dilynol Catalwnia (erthygl 3) yn 1979. Yn ôl y ddau destun, daeth Catalaneg a Chastileg (y term a ddefnyddir yn swyddogol yn y Cyfansoddiad i gyfeirio at Sbaeneg) yn ieithoedd swyddogol yng Nghatalwnia.

Mae'r gydnabyddiaeth hon wedi'i deall mewn ffyrdd gwahanol, ac mae dadleuon ynghylch polisiau iaith wedi parhau'n amlwg ers hynny. Mae'r dadleuon yn ymwneud â sut i weithredu'r 'statws swyddogol' hwn. Nid oedd gwahaniaethu rhwng Castileg fel iaith 'genedlaethol' a Chatalaneg fel iaith 'ranbarthol' yn gwneud fawr ddim synnwyr empirig yng Nghatalwnia, am fod y ddwy i'w gweld yn eang ym mhob ardal: mewn ymchwil yn y dyfodol, dylai'r ddwy gael eu labelu'n gyffredin ac yn fwy digonol, boed hynny'n genedlaethol, swyddogol, neu arall.

Yn fwy diweddar, mae rhai ffactorau eraill wedi hyrwyddo perthnasedd amlieithrwydd yng Nghatalwnia: (1) pwysigrwydd y diwydiant twristiaeth; (2) y broses integreiddio yn Ewrop; (3) y broses gyflym o ryngwladoli yn economi Catalwnia; a (4) yn ystod degawd cyntaf yr 21ain ganrif, dyfodiad dros 1.3 miliwn o fewnfudwyr o America Sbaeneg ei hiaith a gweddill y byd (*siaradwyr alloglot*). Mae'r boblogaeth hon o siaradwyr 'alloglot' yn hynod ddarniog ac wedi'i gwasgaru ar draws y wlad: yn ôl *Survey on the linguistic practices of Catalonia's population* (EULP 2008) y grŵp mwyaf oedd siaradwyr Arabeg (2.6% o'r boblogaeth gyfan dros 15 oed - ffigur sydd hefyd yn cynnwys llawer o siaradwyr Tamazight L1). Ni chyrhaeddodd unrhyw grŵp iaith gyntaf arall 1%: Rwmaneg, 0.09%; Galiseg, 0.6%; Ffrangeg, 0.5%; Portiwgaleg a Saesneg, 0.4%; Rwseg, 0.3% oedd y mwyaf amlwg ymhlith dros 400 o grwpiau L1 gwahanol.

Ieithoedd mewn dogfennau swyddogol a chronfeydd data

Ymdrinnir â'r iaith genedlaethol, ieithoedd tramor, ieithoedd rhanbarthol/lleiafrifol ac ieithoedd mewnfudwyr mewn deddfwriaeth iaith a/neu ddogfennau polisi iaith. (Cyd-)ariennir y broses o ddysgu ac addysgu Catalaneg ar gyfer plant a/neu oedolion o Gatalwnia sy'n byw dramor yn yr Ariannin, Ecwador, Portiwgal, y Swistir ac UDA. Mae Sbaen wedi llofnodi ac wedi cadarnhau'r *Siarter Ewropeaidd ar gyfer Ieithoedd Rhanbarthol neu Ieithoedd Lleiafrifol*. Ceir darpariaeth addysg swyddogol ar gyfer yr iaith Gatalaneg a'r iaith Araneg yng Nghatalwnia, a gefnogir gan y Siarter.

Ceir dulliau swyddogol o gasglu data rhanbarthol ar amrywiaeth ieithyddol yng Nghatalwnia ar ffurf data cyfrifiad, data o gofrestrau bwrdeistrefol a gaiff ei ddiweddarau'n barhaus a data arolwg cyfnodol. Mae'r dulliau hyn o gasglu data yn ymdrin ag amrywiadau ar yr iaith genedlaethol ac ieithoedd rhanbarthol, yn seiliedig ar gwestiwn am iaith yr aelwyd, cwestiwn am brif iaith, a chwestiwn am famiaith. At hynny, ceir cwestiwn am hyfedredd iaith sy'n gofyn pa un a ellir siarad/deall/darllen/ysgrifennu'r iaith (ac i ba raddau y gellir gwneud hynny).

Ers pleidleisio dros y Statud Ymreolaeth newydd yn 2006, cafodd Catalwnia drydedd iaith swyddogol – Ocsitaneg, iaith frodorol Val d'Aran, tiriogaeth fechan ym Mynyddoedd y Pyrenees yng Nghatalwnia. Cafodd statws swyddogol Ocsitaneg ei reoleiddio'n gyfreithiol gan Senedd Catalwnia ym mis Medi 2010, ond fe'i hataliwyd dros dro gan Lys Cyfansoddiadol Sbaen ar gais llywodraeth Sbaen.

ISW: Iaith Swyddogol y Wladwriaeth
IT: Ieithoedd Tramor
ISE: Ieithoedd Swyddogol Eraill
IM: Ieithoedd Mewnffudwyr

Ieithoedd mewn addysg cyn cynradd (Ni cheir darpariaeth ar gyfer ieithoedd mewnffudwyr ac ni cheir cymorth ar gyfer iaith swyddogol y wladwriaeth – Sbaeneg)

	Grwpiau targed	Hyd	Gofynion o ran isafswm maint y grŵp	Diwrnodau'r wythnos	Hyfforddiant cyn swydd i athrawon	Hyfforddiant mewn swydd i athrawon	Arian ar gael gan y wladwriaeth
ISE	pawb	≥2 flynedd	dim	>1 diwrnod	pwnc-benodol	pwnc-benodol	rhannol
IT	pawb	≥2 flynedd	dim	<0.5 diwrnod	pwnc-benodol	pwnc-benodol	rhannol

Ieithoedd a gynigir mewn addysg cyn cynradd

ISE	Catalaneg ym mhob man, ac Ocsitaneg-Araneg yn Val d'Aran
IT	Saesneg

Ieithoedd mewn addysg gynradd (Ni cheir darpariaeth ar gyfer ieithoedd mewnffudwyr)

Trefniadaeth

	Cwricwlwm	Cymorth ychwanegol i newydd-ddyfodiaid	Profion diagnostig wrth ddechrau	Monitro sgiliau iaith
Cymorth ISW	cydlynol a chlir	yn ystod y brif ffrwd	mewnffudwyr yn unig	cenedlaethol safonol

	Grwpiau targed	Cwricwlwm	CLIL	Dechrau addysg iaith	Amserlennu	Gofynion o ran isafswm maint y grŵp	Monitro sgiliau iaith	Y lefel y mae angen ei chyrraedd	Arian ar gael gan y wladwriaeth
ISE	pawb	cydlynol a chlir	eang	o flwyddyn 1	yn ystod oriau ysgol	dim	cenedlaethol safonol	normau ar lefel genedlaethol neu ranbarthol	llawn
IT	pawb	cydlynol a chlir	eang	o flwyddyn 1	yn ystod oriau ysgol	dim	cenedlaethol safonol	normau ar lefel genedlaethol neu ysgol	llawn

Addysgu

	Cymwysterau athrawon	Hyfforddiant cyn swydd i athrawon	Hyfforddiant mewn swydd i athrawon	Symudedd
Cymorth ISW	athrawon iaith	pwnc-benodol	pwnc-benodol	Dd/G
ISE	athrawon iaith	pwnc-benodol	pwnc-benodol	Dd/G
IT	athrawon iaith	pwnc-benodol	pwnc-benodol	yn cael ei gynnwys mewn hyfforddiant

leithoedd a gynigir mewn addysg gynradd

ISE	Catalaneg ym mhob man, ac Ocsitaneg-Araneg yn Val d'Aran
IT	Saesneg: gorfodol

Dros y ddau ddegawd diwethaf, mae addysg yng Nghatalwnia wedi bod yn seiliedig ar y 'model cysylltu', sy'n pennu na chaiff plant eu gwahanu yn ôl eu hiaith gyntaf; Catalaneg yw prif iaith addysg (fodd bynnag, mae gan blant yr hawl i gael eu haddysgu mewn Castileg yn eu blynyddoedd cyntaf mewn addysg os yw eu rhieni yn gofyn am hynny); a bydd pob plentyn yn ddwyieithog ac yn ddwylythrennog yn y ddwy iaith hyn erbyn diwedd addysg orfodol. Dengys canlyniadau cymaradwy fod y model hwn yn esgor ar ddwyieithrwydd yn achos y rhan fwyaf o blant, er mai Castileg sydd fwyaf hysbys o hyd (gweler Vila 2008, 2010). Gwelir y rheswm dros y fath ganlyniadau mewn cymysgedd o ffactorau demoieithyddol a chymdeithasol-ieithyddol: Castileg yw'r brif lingua franca rhwng siaradwyr Catalaneg, Castileg ac *alloglot*, ac o ystyried ei statws pwerus a'i hollbresenoldeb mewn cymdeithas, caiff ei dysgu'n gyflym gan siaradwyr nad ydynt yn frodorol. Dylid hefyd gofio, er y caiff y data a ddefnyddir yn yr ymchwil Ewrop Gyfoethog Ei Hieithoedd ei ddatgan gan ffynonellau swyddogol, dengys data arsylwadol a hunanddatganedig gan blant fod Castileg yn cael ei defnyddio'n aml wrth ryngweithio ag athrawon mewn dosbarthiadau yn enwedig os mai siaradwyr Castileg ac *alloglot* sydd yn y mwyafrif. Yn 2010, arweiniodd dyfarniad y bu dadlau mawr yn ei gylch am Statud Ymreolaeth newydd Catalwnia (2006) gan y Llys Cyfansoddiadol at ei gwneud yn ofynnol i Gastileg chwarae rôl fwy amlwg fel iaith weithredol yn ysgolion Catalwnia, ac felly agorodd y drws i wrthdaro cyfreithiol a gwleidyddol mawr sy'n dal i fodoli.

leithoedd mewn addysg uwchradd (Ni cheir darpariaeth ar gyfer ieithoedd mewnfudwyr)

Trefniadaeth

	Cwricwlwm	Cymorth ychwanegol i newydd-ddyfodiaid	Profion diagnostig wrth ddechrau	Monitro sgiliau iaith
Cymorth ISW	cydlynol a chlir	yn ystod y brif ffrwd	pawb	cededlaethol safonol

	Grwpiau targed	Cwricwlwm	CLIL	Amserlennu	Gofynion o ran isafswm maint y grŵp	Monitro sgiliau iaith	Y lefel y mae angen ei chyrraedd	Arian ar gael gan y wladwriaeth
ISE	pawb	cydlynol a chlir	eang	yn ystod oriau ysgol	dim	cededlaethol safonol	normau ar lefel genedlaethol neu ranbarthol	llawn
IT	pawb	cydlynol a chlir	lleoledig	yn ystod oriau ysgol	dim	cededlaethol safonol	normau ar lefel genedlaethol neu ysgol	llawn

Addysgu

	Cymwysterau athrawon	Hyfforddiant cyn swydd i athrawon	Hyfforddiant mewn swydd i athrawon	Lefel yr iaith sydd ei hangen	Symudedd
Cymorth ISW	athrawon iaith	pwnc-benodol	pwnc-benodol	wedi'i chysylltu â'r Fframwaith Cyfeirio Ewropeaidd Cyffredin	Dd/G
ISE	athrawon iaith	pwnc-benodol	pwnc-benodol	Dd/G	Dd/G
IT	athrawon iaith	pwnc-benodol	pwnc-benodol	wedi'i chysylltu â'r Fframwaith Cyfeirio Ewropeaidd Cyffredin	yn cael ei gynnwys mewn hyfforddiant

Ieithoedd a gynigir mewn addysg uwchradd

ISE	Catalaneg ym mhob man, ac Ocsitaneg-Araneg yn Val d'Aran
IT (<i>cynigir yr ieithoedd mewn print italig mewn ysgolion uwchradd uwch yn unig</i>)	Gorfodol: Un o blith Saesneg, Ffrangeg; Almaeneg ac Eidaleg weithiau Dewisol: <i>Groeg Hynafol, Lladin</i> ac eraill

Mae'r ymchwil yn eithaf cywir o ran darlunio sefyllfa'r rhan fwyaf o ieithoedd. Mae'r gwahaniaeth rhwng ieithoedd 'tramor' ac ieithoedd 'mewn-fudwyr' yn celu'r ffaith bod dau o'r prif grwpiau tramor L1 – sef siaradwyr Ffrangeg a Saesneg – yn ei chael hi'n gymharol hawdd i gael eu dysgu yn eu hiaith gyntaf o fewn y system addysgol. Mae nifer o ysgolion tramor preifat – Americanaidd, Ffrengig, Eidalaidd a 'rhyngwladol' – hefyd yn darparu ar gyfer trigolion tramor a phobl leol sy'n gymharol gefnog sydd am i'w plant fod yn lluosieithog.

Ieithoedd mewn addysg bellach ac addysg uwch

Addysg bellach (mewn tri sefydliad AHG) (Ni cheir darpariaeth ar gyfer ieithoedd mewn-fudwyr)

		Ystod o raglenni iaith	Cwricwlwm	Y lefel y mae angen ei chyrraedd	Arian ar gael gan y wladwriaeth
ISE	Sefydliad A	amrywiaeth eang	dim canllawiau	Dd/G	llawn
	Sefydliad B	cyfyngedig	cydlynol a chlir	Dd/G	llawn
	Sefydliad C	amrywiaeth eang	cyffredinol	Dd/G	llawn
IT	Sefydliad A	amrywiaeth eang	cydlynol a chlir	wedi'i chysylltu â'r Fframwaith Cyfeirio Ewropeaidd Cyffredin	llawn
	Sefydliad B	cyfyngedig	cydlynol a chlir	wedi'i chysylltu â'r Fframwaith Cyfeirio Ewropeaidd Cyffredin	llawn
	Sefydliad C	amrywiaeth eang	cydlynol a chlir	dim	rhannol

Addysg uwch (mewn tair prifysgol)

	Iaith/ieithoedd a ddefnyddir fel y cyfrwng addysgu	Ieithoedd ar wefan	Grwpiau targed ar gyfer cymorth ychwanegol yn yr iaith genedlaethol	Y lefel i'w chyrraedd o ran addysgu ieithoedd tramor	Recriwtio myfyrwyr nad ydynt yn fyfyrwyr o'r wlad	Symudedd ar gyfer myfyrwyr iaith	Symudedd ar gyfer myfyrwyr nad ydynt yn fyfyrwyr iaith
Prifysgol A	iaith swyddogol y wladwriaeth, ieithoedd tramor ac ieithoedd swyddogol eraill	iaith swyddogol y wladwriaeth, ieithoedd tramor ac ieithoedd swyddogol eraill	dim	wedi'i chysylltu â'r Fframwaith Cyfeirio Ewropeaidd Cyffredin	rhyngwladol a mewnfudwyr	dewisol	dewisol
Prifysgol B	iaith swyddogol y wladwriaeth, ieithoedd tramor ac ieithoedd swyddogol eraill	iaith swyddogol y wladwriaeth, ieithoedd tramor ac ieithoedd swyddogol eraill	cyfyngedig	wedi'i chysylltu â'r Fframwaith Cyfeirio Ewropeaidd Cyffredin	rhyngwladol a mewnfudwyr	dewisol	dewisol
Prifysgol C	iaith swyddogol y wladwriaeth, ieithoedd tramor ac ieithoedd swyddogol eraill	iaith swyddogol y wladwriaeth, ieithoedd tramor ac ieithoedd swyddogol eraill	cyfyngedig	wedi'i chysylltu â'r Fframwaith Cyfeirio Ewropeaidd Cyffredin	rhyngwladol yn unig	dewisol	dewisol

Mae'r ymchwil yn amlinellu'r amgylchedd cyffredinol ar gyfer dysgu iaith mewn Addysg a Hyfforddiant Galwedigaethol (AHG) ond nid yw'r sefydliadau uwch a gafodd eu cynnwys yn yr astudiaeth yn amlgu'r ystod eang o bosibiliadau dysgu iaith mewn llawer o brifysgolion yng Nghatalwnia, sydd, y tu hwnt i'r prif ieithoedd rhyngwladol, yn cynnwys ieithoedd rhanbarthol fel Ocsitaneg; ieithoedd mewnfudwyr cyffredin megis Tamazight/Berber; sawl iaith Ewropeaidd ganolog ei maint megis Iseldireg neu Swedeg; ac ieithoedd Asiaidd megis Japanaeg, Tsieinëeg, Farsi neu Dyrceg.

Ieithoedd yn y cyfryngau clyweledol a'r wasg

Cynrychiadau teledu nad ydynt yn yr iaith genedlaethol	Ffilmiau yn y sinema nad ydynt yn yr iaith genedlaethol	Rhaglenni ISE y tu allan i'r rhanbarth	Argaeledd iaith arwyddion ar y teledu
wedi'u hisdeitlo	wedi'u trosleisio	weithiau	weithiau

Yn ôl yr ymchwil, Castileg yw'r iaith a welir fwyaf yn y cyfryngau torfol, wedi'i dilyn gan Gatalaneg, a Saesneg gydag ieithoedd eraill bellter yn unig. Mae Castileg yn amlwg iawn ar y teledu, diolch i fodolaeth llawer o sianelau a ddarllidir ar draws Sbaen, ac yn y sinema, lle mai cynhyrchion a drosleisir yng Nghastileg sy'n dominyddu. Mewn cymhariaeth, roedd y gymhareb Catalaneg/Castileg yn llawer agosach ar y radio ac mewn papurau newydd.

Roedd y sefyllfa o ran ieithoedd eraill yn anos i'w nodi. Ers i deledu digidol gymryd lle teledu analog, colodd y cwestiwn o ran trosleisio ac isdeitlo ei bwysigrwydd, am fod y rhan fwyaf o orsafoedd teledu yn darlledu fersiwn gwreiddiol cynhyrchion tramor, gydag isdeitlau fel arfer, yn ogystal â fersiwn wedi'i drosleisio. Mae gwranddo ar y fersiynau gwreiddiol yn boblogaidd ymhlith rhai rhannau o gymdeithas, gan gynnwys rhai grwpiau o fewnfudwyr, ond nid oes unrhyw ymchwil ar gael hyd yma yn y maes penodol hwn. Roedd y defnydd o deledu lloeren hefyd yn gymharol gyffredin ymhlith cymunedau mewnfudwyr, ond mae niferoedd absoliwt bach pob grŵp iaith yn golygu na sylwir ar y defnydd hwn.

Erbyn diwedd 2011, roedd yr argyfwng economaidd yn lleihau'r cyflenwad ym mhob maes ac iaith. Er enghraifft, ym mis Rhagfyr 2011 cafodd y papur newydd Castileg oedd am ddim sef *ADN* ei gau. Mae'r argyfwng wedi cael effaith benodol ar fentrau lleol a chyhoeddus, megis gorsafoedd teledu lleol, a oedd yn gadarnle i Gatalaneg. Yn llawer pwysicach na hynny, ddiwedd 2011, cyhoeddodd llywodraeth Catalwnia doriadau difrifol i deledu cyhoeddus, a oedd fwy na thebyg yn golygu y byddai dwy sianel gyhoeddus – y ddwy mewn Catalaneg – yn rhoi'r gorau i ddarlledu.

leithoedd mewn gwasanaethau cyhoeddus a manau cyhoeddus

Strategaethau iaith sefydliadol ar lefel dinas

Nifer yr ieithoedd	Ar y wefan	Defnyddio cyfieithwyr	Cymwyseddau iaith mewn disgrifiadau swydd	Recriwtio siaradwyr ieithoedd	Hyfforddiant iaith a gynigir i gyflogeion	Cofnod o sgiliau iaith cyflogeion
>4		Barcelona Tarragona L'Hospitalet de Llobregat	Barcelona	Barcelona		
3-4	Barcelona				Barcelona	Barcelona
1-2	Tarragona L'Hospitalet de Llobregat		Tarragona L'Hospitalet de Llobregat	Tarragona L'Hospitalet de Llobregat	Tarragona L'Hospitalet de Llobregat	

Cyfleusterau cyfathrebu

Pum prif gyfleuster cyfathrebu ar lafar	Pum prif gyfleuster cyfathrebu ysgrifenedig
lechyd Cymdeithasol Mewnfudo ac integreiddio Addysg Gwasanaethau brys	Gwasanaethau brys lechyd Twristiaeth Cymdeithasol Mewnfudo ac integreiddio

Mae'r proffil amlieithog cryf a ddangosir gan y data ar gyfer gwasanaethau a manau cyhoeddus lleol yn adlewyrchu'n glir natur amrywiol y parth hwn, sy'n delio â phob math o gwsmer ar yr un pryd, er enghraifft pobl leol, mewnfudwyr a thwristiaid. Nid yw'n syndod felly glywed sôn am fodolaeth ieithoedd o wahanol deuluoedd a chyfandiroedd, o Gatalaneg i Japanaeg ac o Ffinneg i Swahili.

leithoedd mewn busnes (allan o 23 o gwmnïau)

	STRATEGAETHAU IAITH CYFFREDINOL							
	Argaeledd strategaeth iaith	Pwyslais ar sgiliau iaith wrth recriwtio	Darpariaeth symudedd rhyngwladol	Y defnydd o gyfieithwyr/dehonglwyr allanol	Cofnodi sgiliau iaith staff	Y defnydd o rwydweithiau ar gyfer hyfforddiant iaith	Y defnydd o raglenni/cyllid yr UE	Ymwybyddiaeth o raglenni/cyllid yr UE
Defnyddir yn eang	9	14	5	8	0	5	4	0

		STRATEGAETHAU IAITH MEWNOL						STRATEGAETHAU IAITH ALLANOL			
		Partneriaethau â'r sector addysg	Cynlluniau gwobrwyo/dyrchafu yn seiliedig ar sgiliau iaith	Darpariaeth hyfforddiant iaith	Defnyddir y Fframwaith Cyfeirio Ewropeaidd Cyffredin	Defnyddir iaith ar gyfer dogfennau yn y gweithle/mewnwyd	Defnyddir iaith ar gyfer meddalwedd, rhaglenni'r we	Defnyddir iaith ar gyfer adroddiadau blynyddol/busnes	Defnyddir iaith ar gyfer marchnata	Defnyddir iaith ar gyfer brandio/hunaniaeth	Defnyddir iaith ar gyfer gwefan
ISW	defnyddir yn eang	0	2	2	2	21	23	18	21	20	21
Saesneg Busnes	defnyddir yn eang	3	4	10	5	7	11	10	12	13	14
leithoedd ychwanegol	defnyddir yn eang	3	4	6	5	11	7	10	15	14	15

Mae'r data a gasglwyd yn awgrymu, yn gyffredinol, fod y sector preifat ar ei hôl hi o gymharu â sefydliadau cyhoeddus lleol wrth fabwysiadu strategaethau amlieithog yn eu harferion bob dydd. Yn y sector busnes, mae Catalaneg yn symud i'r trydydd safle, ar ôl Castileg a Saesneg busnes, ac fe'i dilynir o gryn bellter gan ieithoedd Ewropeaidd eraill, yn bennaf rhai twristiaid a thrigolion Ewropeaidd, neu ieithoedd eraill Sbaen. Mae ieithoedd nad ydynt yn rhai Ewropeaidd yn chwarae rôl ddibwys yn y sector hwn, gan awgrymu nad yw mewnfudwyr Affricanaidd nac Asiaidd na'r marchnadoedd yn y rhanbarthau hyn yn cael eu hystyried gan y cwmnïau yr ymgynghorwyd â hwy, neu fel arall, eu bod yn cael eu gwasanaethu ar ffurf Saesneg busnes..

Serch hynny, rhaid bod yn ofalus wrth ystyried y casgliadau hyn: yn ogystal â'r ffaith bod y sampl o gwmnïau a ddansodwyd yn fach, roedd hefyd yn heterogenaidd yn fewnol, gan gynnwys cwmnïau o wahanol sectorau, rhai ohonynt yn rhyngwladol, rhai yn gweithredu ar draws Sbaen, ac eraill ond yn gweithio yng Nghatalwnia. Mae cymharu gwasanaethau a manau cyhoeddus, lle mai dim ond sefydliadau lleol a gafodd eu dadansoddi, a byd busnes, yn gymhleth.

Canfyddiadau allweddol cyffredinol

- 1 Nid oedd gwahaniaethu rhwng Castileg fel iaith 'genedlaethol' a Chatalaneg fel iaith 'ranbarthol' yn gwneud fawr ddim synnwyr empirig yng Nghatalwnia, am fod y ddwy i'w gweld yn eang ym mhob ardal: mewn ymchwil yn y dyfodol, dylai'r ddwy gael eu labelu'n gyffredin ac yn fwy digonol, boed hynny'n genedlaethol, swyddogol, neu arall.
- 2 Mae prosiect Ewrop Gyfoethog Ei Hieithoedd yn canolbwyntio ar bolisiau iaith ar gyflenwad, ond dim ond ar ôl ystyried galw a chanlyniadau y gellir dadansoddi cyflenwad yn briodol. Yn ei hecosystem ieithyddol bresennol, mae swm cymharol fach o Gastileg yn yr ysgol yn esgor ar ganlyniadau da iawn o ran hyfedredd iaith, tra bod swm bach o Saesneg yn esgor ar ganlyniadau gwael yn yr iaith hon. Gall y ffyrdd sy'n arwain at luosieithrwydd fod yn wahanol ar gyfer pob iaith ym mhob sefyllfa, a rhaid i'r ecosystem ieithyddol gyfan gael ei hystyried. Yn yr ystyr hon, mae lle pendant i ddatblygu dysgu iaith dramor yn ecosystem ieithyddol Catalwnia.
- 3 Yn ei gyfanrwydd, mae'r holiadur yn adlewyrchu'n briodol sefyllfa wan 'ieithoedd mewnudwyr' yng Nghatalwnia, sefyllfa sy'n gyson â'u natur ddiweddar a'u heterogenedd. Ar ei ffurf bresennol, bwriedir i'r holiadur ond nodi mentrau sy'n effeithio ar rannau mawr o gymdeithas. Yn y dyfodol, gallai'r fethodoleg gael ei datblygu i ymgorffori mentrau cymunedol sy'n fwy hygyrch i grwpiau newydd, llai sefydledig o fewnudwyr - megis cyrsiau iaith ysgol ychwanegol, llyfrgelloedd a siopau llyfrau cymunedol, teledu lloeren neu deledu a gaiff ei wyllo ar y we. Dylai'r sylw ym maes addysgeg a roddir i'r ieithoedd hyn gynyddu er mwyn diogelu treftadaeth ieithyddol plant mewnudwyr er eu lles hwy ac er lles cymdeithas yng Nghatalwnia.

Mentrau a chynlluniau peilot addawol

- 1 Mae sawl rhaglen *Gwirfoddolwyr iaith*, a noddir gan fentrau cyhoeddus a phreifat, wedi arwain at greu 'cyplau ieithyddol' sydd wedi ei gwneud hi'n bosibl i filoedd o ddysgwyr Catalaneg ymarfer yr iaith gyda siaradwyr rhugl ar draws Catalwnia (cf. Boix-Fuster, Melià a Montoya 2011).
- 2 Mae Vila (2010) yn disgrifio nifer o weithgareddau sy'n ceisio codi ymwybyddiaeth o ieithoedd lleiafrifol a ddatblygwyd yng Nghatalwnia megis Gimcana De Les Llengües neu Primavera Amaziga.
- 3 Proxecto Galauda (<http://phobos.xtec.cat/galauda/lynGaliseg/>) – prosiect sydd wedi addysgu Galiseg yng Nghatalwnia a Chatalaneg yng Ngalisia mewn sawl canolfan addysg uwchradd fel ffordd o ehangu'r repertoire ieithyddol a chodi ymwybyddiaeth o werth amrywiaeth ieithyddol.

Cyfeiriadau

Boix-Fuster, Emili, Joan Melià, a Brauli Montoya. 2011. 'Policies promoting the use of Catalan in oral communications and to improve attitudes towards the language.' Tudalennau 150-181 yn *Democratic Policies for Language Revitalisation: The Case of Catalan* wedi'i olygu gan M. Strubell i Trueta ac E. Boix-Fuster. Basingstoke, Lloegr: Palgrave.

Vila i Moreno, F. Xavier. 2008. 'Catalan in Spain.' Tud. 157-183 yn *Multilingual Europe: Facts and Policies* wedi'i olygu gan G. Extra a D. Gorter. Berlin: Mouton de Gruyter.

Vila i Moreno, F. Xavier. 2010. 'Making choices for sustainable social plurilingualism: some reflexions from the Catalan language area.' Tud. 131-154 yn *International Perspectives on Bilingual Education: Policy, Practice, and Controversy* wedi'i olygu gan J. Petrovic. Charlotte, Gogledd Carolina: cyfres Information Age Publishing.

16 SBAEN

16.3 Gwlad y Basg

Ivân Igartua

Cyd-destun rhanbarthol

Mae gan Gymuned Ymreolaethol Gwlad y Basg (*Euskadi*) ddwy iaith swyddogol: Basgeg a Sbaeneg. Yn ôl yr amcangyfrifon diweddaraf, mae tua 32% o boblogaeth Gwlad y Basg yn ddwyieithog (bron 800,000 o bobl). Siaredir Basgeg mewn tiriogaethau eraill hefyd. Yn y rhan o Wlad y Basg sy'n rhan o Ffrainc, lle na chaiff yr iaith Fasgeg unrhyw gydnabyddiaeth weinyddol, mae tua thraean o'r boblogaeth yn siarad Basgeg (tua 80,000 o bobl). Yn Navarre, lle mae dim ond yn rhan ogleddol y diriogaeth y mae'r iaith yn swyddogol, caiff yr iaith ei siarad gan un o bob deg o'r boblogaeth (tua 50,000 o bobl).

Erbyn hyn, prin iawn yw'r rheini sydd ond yn siarad yr iaith Fasgeg. Mae Basgiaid nad ydynt yn siarad Sbaeneg na Ffrangeg yn cyfrif am lai nag 1% o'r boblogaeth. Yn sgil y sefyllfa gymdeithasol-ieithyddol bresennol, prif nod llywodraeth Gwlad y Basg yw hyrwyddo dwyieithrwydd ymarferol, yn seiliedig ar dair egwyddor: consensws ymhlith y grymoedd gwleidyddol a gynrychiolir yn Senedd Gwlad y Basg; cydnabyddiaeth o natur luosog y gymdeithas Fasgaid; a pharch tuag at ddewisiadau iaith y dinasyddion eu hunain. Dyma union ysbryd y Ddeddf Normaleiddio, a basiwyd yn 1982.

Ers hynny, mae sefyllfa'r iaith Fasgeg wedi gwella'n sylweddol ac nid yw sefyllfa'r iaith Sbaeneg wedi gwaethygu o gwbl. Yng Ngwlad y Basg, neu Euskadi, mae'r broses o normaleiddio'r iaith bob amser wedi cael ei hystyried yn rhywbeth cadarnhaol. Mae pobl Euskadi a'u llywodraeth wedi gwneud addewid i ymrwymo i ddwyieithrwydd ac nid unieithrwydd o un math neu'i gilydd. Mae'r syniad o hawliau ieithyddol yn elfen sylfaenol o ddeddfwriaeth ac arfer gwleidyddol Gwlad y Basg, hawliau siaradwyr Basgeg a Sbaeneg.

Yn ystod y tri deg mlynedd diwethaf, mae polisi'r iaith Fasgeg wedi bod yn seiliedig ar ddau faes â blaenoriaeth: addysg a gweinyddiaeth. Mae'r trydydd maes â blaenoriaeth mewn unrhyw broses normaleiddio (y cyfryngau, yn enwedig y teledu) wedi cael llai o effaith ar gaffaeliad yr iaith Fasgeg, ond bu'n hanfodol o ran datblygu amrywiaeth iaith safonol. Pan basiwyd y *Ddeddf Normaleiddio*, deallwyd mai dim ond am rai blynyddoedd y byddai'r gwahaniaeth rhwng meysydd â blaenoriaeth a meysydd heb flaenoriaeth (megis yr heddlu, y system iechyd cyhoeddus, y system cyfiawnder a chwmmiau sector preifat) yn para. Er ein bod eisoes ym mhedwerydd degawd y broses, mae'r gwahaniaeth hwnnw yn dal mewn grym, gan fod sefyllfa'r iaith Fasgeg mewn rhai o'r ardaloedd a nodwyd uchod yn parhau i fod yn wan.

O ddechrau'r broses normaleiddio, roedd yn glir i wleidyddion a'r gymdeithas Fasgaid y byddai'r iaith Fasgeg yn iaith swyddogol dros yr holl diriogaeth, hyd yn oed mewn mannau lle nad oedd wedi cael ei chlywed ers canrifoedd. Yn wir, yn achos yr iaith Fasgeg, byddai'n fwy cywir i siarad am adferiad neu adfywiad yr iaith yn hytrach na'r broses glasurrol o'i normaleiddio a'i safoni. Mae hyn yn golygu nad oedd y broses o drosglwyddo'r iaith o fewn y teulu yn ddigonol. Mae addysg yn yr ysgol wedi dod yn elfen allweddol o'r gwaith o adfer yr iaith ac mae'r broses adfer hon yn cael ei chyflawni drwy gonsensws cymdeithasol a rhyddid unigolion. Rhieni, ac nid llywodraeth Gwlad y Basg, sy'n dewis yr iaith y caiff eu plant eu haddysgu ynddi.

Un agwedd arbennig ar addysg yng Ngwlad y Basg yw'r broses o *Fasgeiddio* oedolion yn ieithyddol. Am ganrifoedd, roedd y gydberthynas rhwng yr iaith Fasgeg a'r iaith Sbaeneg neu Ffrangeg yn un unffordd. Rhoddodd llawer o siaradwyr Basgeg y gorau i siarad yr iaith. Naill ai o'u hewyllys eu hunain neu oherwydd yr amgylchiadau, gwnaethant fabwysiadu un o'r ieithoedd swyddogol. Ers y 1960au, mae'r gydberthynas rhwng yr iaith Fasgeg a'r iaith Sbaeneg neu Ffrangeg wedi bod yn fuddiol i'r ddwy ochr. Mae'r iaith Fasgeg yn parhau i golli siaradwyr yn y rhan o Wlad y Basg sy'n rhan o Ffrainc, ond, ar yr un pryd, mae llawer o Fasgiaid sy'n ystyried Ffrangeg neu Sbaeneg yn famiaith iddynt yn dysgu Basgeg. Mae rhai pobl sydd wedi dysgu Basgeg fel oedolion wedi cael cymaint o lwyddiant yn meistrolï'r iaith fel eu bod wedi dod yn awduron Basgeg enwog neu hyd yn oed yn aelodau o Academi'r iaith Fasgeg. Ar hyn o bryd, mae cynifer â 40,000 o bobl yn dysgu Basgeg neu'n gwella eu lefel mewn *euskaltegis*, canolfannau dysgu i oedolion lle y caiff yr iaith Fasgeg ei pherffeithio. Heb *euskaltegis* a'r cynnydd yn y niferoedd sy'n siarad Basgeg, byddai adfywiad yr iaith wedi bod bron yn amhosibl.

O ran gweinyddiaeth, mae sefydliadau cyhoeddus wedi gorfodi eu hunain i barchu dewis ieithyddol pob dinesydd, yn hytrach na'u gorfodi i ddefnyddio un iaith neu'r llall. Mae'n rhaid i lawer o weision sifil siarad dwy iaith swyddogol y gymuned ymreolaethol. Ar hyn o bryd, mae 44% o'r gweithwyr mewn sefydliadau cyhoeddus yng Ngwlad y Basg yn meddu ar dystysgrif iaith Basgeg. Yn wir, mae'n bosibl bod yn was sifil yng Ngwlad y Basg – hyd yn oed ar lefel uchel – heb wybod yr un gair o'r iaith Fasgeg, yn enwedig yn y meysydd heb flaenoriaeth y soniwyd amdanynt yn gynharach. Ar y llaw arall, mae data ar y ceisiadau a wneir gan ddinasyddion yn dangos mai dim ond 14-15% ohonynt sy'n gohebu â sefydliadau cyhoeddus yn yr iaith Fasgeg.

leithoedd mewn dogfennau swyddogol a chronfeydd data

Ymdrinnir â'r iaith Sbaeneg, yr iaith Fasgeg ac ieithoedd tramor mewn deddfwriaeth iaith a/neu ddogfennau polisi iaith. (Cyd-)ariennir y broses o ddysgu ac addysgu'r iaith Fasgeg dramor mewn dros 30 o brifysgolion yn Ewrop ac ar Gyfandiroedd America. Mae'r *Siarter Ewropeaidd ar gyfer Ieithoedd Rhanbarthol neu Ieithoedd Lleiafrifol* wedi'i llofnodi gan lywodraeth Sbaen ac wedi'i chadarnhau gan senedd y wlad. Ceir darpariaeth addysg swyddogol ar gyfer yr iaith Fasgeg yng Ngwlad y Basg, a gefnogir gan y Siarter.

Ceir dulliau swyddogol o gasglu data rhanbarthol ar amrywiaeth ieithyddol ar ffurf data cyfrifiad a data arolwg a gaiff eu diweddarau o bryd i'w gilydd yng Ngwlad y Basg. Mae'r dulliau hyn o gasglu data yn ymdrin ag amrywiadau ar yr iaith genedlaethol ac ieithoedd rhanbarthol, yn seiliedig ar gwestiwn am iaith yr aelwyd, cwestiwn am brif iaith, a chwestiwn am iaith gyntaf, ynghyd â chwestiwn am hyfedredd iaith sy'n gofyn pa un a ellir siarad/deall/darllen/ysgrifennu'r iaith (ac i ba raddau y gellir gwneud hynny).

O fewn yr ugain mlynedd diwethaf, mae llywodraeth Gwlad y Basg wedi cynhyrchu llawer o destunau ar gynllunio iaith a pholisi iaith. Ymhlith rhai o'r dogfennau mwyaf nodedig mae *General Plan for Promoting Basque* (EBPN, 1999) a'r traethawd byr *Towards a Renewed Agreement* (2009), sy'n gosod sail y polisi iaith ar ddechrau'r 21ain ganrif. Ar ôl i'r Ddeddf Normaleiddio (1982) gael ei phasio, cafodd deddfwriaeth ar sawl agwedd ar ddwyieithrwydd ei datblygu ymhellach, yn cynnwys y sector busnes preifat. Ers 1991, mae Arolygon Cymdeithasol-ieithyddol wedi'u cynnal bob pum mlynedd er mwyn nodi lefel y cymhwysedd ieithyddol a'r defnydd o ieithoedd yng Ngwlad y Basg. Mae'r arolwg hefyd yn cynnwys gwybodaeth sylfaenol am iaith gyntaf y dinasyddion. Yn 2011, cwblhaodd llywodraeth Gwlad y Basg astudiaeth yn seiliedig ar ddangosyddion o'r sefyllfa bresennol a datblygiad yr iaith Fasgeg.

ISW: Iaith Swyddogol y Wladwriaeth

IT: Ieithoedd Tramor

ISE: Ieithoedd Swyddogol Eraill

IM: Ieithoedd Mewnffudwyr

leithoedd mewn addysg cyn cynradd (Ni cheir darpariaeth ar gyfer ieithoedd mewnfudwyr)

	Grwpiau targed	Hyd	Gofynion o ran isafswm maint y grŵp	Diwrnodau'r wythnos	Hyfforddiant cyn swydd i athrawon	Hyfforddiant mewn swydd i athrawon	Arian ar gael gan y wladwriaeth
IT	pawb	≥ 2 flynedd	dim	0.5-1 diwrnod	pwnc-benodol	pwnc-benodol	llawn
ISE	pawb	≥ 2 flynedd	dim	>1 diwrnod	pwnc-benodol	pwnc-benodol	llawn
Cymorth ISW ychwanegol	pawb	≥ 2 flynedd	dim	0.5-1 diwrnod	pwnc-benodol	pwnc-benodol	llawn

leithoedd a gynigir mewn addysg cyn cynradd

ISE	Basgeg
IT	Saesneg

leithoedd mewn addysg gynradd (Ni cheir darpariaeth ar gyfer ieithoedd mewnfudwyr)

Trefniadaeth

	Cwricwlwm	Cymorth ychwanegol i newydd-ddyfodiaid	Profion diagnostig wrth ddechrau	Monitro sgiliau iaith
Cymorth ISW	cydlynol a chlir	cyn prif ffrwd	mewnfudwyr yn unig	cededaethol safonol

	Grwpiau targed	Cwricwlwm	CLIL	Dechrau addysg iaith	Amserlennu	Gofynion o ran isafswm maint y grŵp	Monitro sgiliau iaith	Y lefel y mae angen ei chyrraedd	Arian ar gael gan y wladwriaeth
ISE	pawb	cydlynol a chlir	eang	o flwyddyn 1	yn ystod oriau ysgol	dim	cededaethol safonol	normau ar lefel genedlaethol neu ranbarthol	llawn
IT	pawb	cydlynol a chlir	Mewn rhai ardaloedd	o flwyddyn 1	yn ystod oriau ysgol	dim	cededaethol safonol	normau ar lefel genedlaethol neu ysgol	llawn

Addysgu

	Cymwysterau athrawon	Hyfforddiant cyn swydd i athrawon	Hyfforddiant mewn swydd i athrawon	Symudedd
Cymorth ISW	athrawon iaith	cyffredinol	cyffredinol	Dd/G
ISE	athrawon iaith	pwnc-benodol	pwnc-benodol	Dd/G
IT	athrawon iaith	pwnc-benodol	pwnc-benodol	cymorth ariannol anffurfiol

leithoedd a gynigir mewn addysg gynradd

ISE	Basgeg
IT	Saesneg: gorfodol

leithoedd mewn addysg uwchradd (Ni cheir darpariaeth ar gyfer ieithoedd mewnfudwyr)

Trefniadaeth

	Cwricwlwm	Cymorth ychwanegol i newydd-ddyfodiaid	Profion diagnostig wrth ddechrau	Monitro sgiliau iaith
Cymorth ISW	cydlynol a chlir	cyn prif ffrwd	mewnfudwyr yn unig	cededaethol safonol

	Grwpiau targed	Cwricwlwm	CLIL	Amserlennu	Gofynion o ran isafswm maint y grŵp	Monitro sgiliau iaith	Y lefel y mae angen ei chyrraedd	Arian ar gael gan y wladwriaeth
ISE	pawb	cydlynol a chlir	eang	yn ystod oriau ysgol	dim	cededaethol safonol	normau ar lefel genedlaethol neu ranbarthol	llawn
IT	pawb	cydlynol a chlir	lleoledig	yn ystod oriau ysgol	dim	cededaethol safonol	wedi'i chysylltu â'r Fframwaith Cyfeirio Ewropeaidd Cyffredin	llawn

Addysgu

	Cymwysterau athrawon	Hyfforddiant cyn swydd i athrawon	Hyfforddiant mewn swydd i athrawon	Lefel yr iaith sydd ei hangen	Symudedd
Cymorth ISW	athrawon iaith	pwnc-benodol	cyffredinol	wedi'i chysylltu â'r Fframwaith Cyfeirio Ewropeaidd Cyffredin	Dd/G
ISE	athrawon iaith	pwnc-benodol	pwnc-benodol	Dd/G	Dd/G
IT	athrawon iaith	pwnc-benodol	pwnc-benodol	wedi'i chysylltu â'r Fframwaith Cyfeirio Ewropeaidd Cyffredin	cymorth ariannol anffurfiol

Ieithoedd a gynigir mewn addysg uwchradd

ISE	Basgeg
IT (cynigir yr ieithoedd mewn print italig mewn ysgolion uwchradd uwch yn unig)	Gorfodol: Basgeg, Saesneg, Almaeneg Dewisol: Arabeg, Ffrangeg, Eidaleg, Rwseg, Tyrceg

Yng Ngwlad y Basg, mae ysgolion yn chwarae rôl llawer pwysicach na theuluoedd bellach o ran trosglwyddo'r iaith Fasgeg. Mae 60% o rieni yn dewis yr iaith Fasgeg fel cyfrwng addysg i'w plant, p'un a ydynt yn siarad yr iaith ai peidio a ph'un a yw'r iaith yn fyw ac yn iach yn eu hardal/tref ai peidio (at hynny, mae 22% yn dewis model dwyieithog ac mae'r gweddill, 18%, yn dewis yr iaith Fasgeg fel pwnc yn yr ysgol). Mewn addysg cyn cynradd mae canran y rhieni sy'n dewis yr iaith Fasgeg ar gyfer eu plant hyd yn oed yn uwch. O ganlyniad, prin iawn yw'r plant o dan chwe blwydd oed sy'n siarad Sbaeneg yn unig bellach.

Y brif broblem a wynebir o ran ysgolion yw bod plant sy'n ystyried Sbaeneg fel eu mamiaith yn cysylltu'r iaith Fasgeg yn bennaf â gwaith cartref. Maent yn rhoi'r gorau i siarad Basgeg cyn gynted ag y maent y tu allan i'r ysgol. Fel arfer, dim ond Sbaeneg y mae plant o ardaloedd Sbaeneg eu hiaith yn ei siarad gartref neu ar y stryd, onid yw o leiaf un o'u rhieni yn siarad Basgeg. O dan y fath amgylchiadau, prin y maent yn teimlo'n hyderus nac yn gyfforddus yn defnyddio'r iaith a ddysgir ganddynt yn yr ysgol. Er hynny, fel y crybwyllwyd uchod, mae'r ysgol wedi dod yn rhan hanfodol o'r broses o adfywio'r iaith.

Mae'n rhaid dysgu iaith dramor mewn ysgolion cynradd yn ogystal ag ysgolion uwchradd. Er mai Saesneg a gynigir fel yr iaith dramor gyntaf yn y mwyafrif helaeth o ysgolion, gellir dysgu ieithoedd eraill megis Ffrangeg neu Almaeneg hefyd.

Ieithoedd mewn addysg bellach ac addysg uwch

Addysg bellach (mewn tri sefydliad AHG) (Ni cheir darpariaeth ar gyfer ieithoedd mewnfydwyr)

		Ystod o raglenni iaith	Cwricwlwm	Y lefel y mae angen ei chyrraedd	Arian ar gael gan y wladwriaeth
ISE	Sefydliad A	amrywiaeth eang	cydlynol a chlir	Dd/G	llawn
	Sefydliad B				
	Sefydliad C	cyfyngedig	dim canllawiau	Dd/G	llawn
IT	Sefydliad A	cyfyngedig	cydlynol a chlir	enedlaethol	llawn
	Sefydliad B	cyfyngedig	cyffredinol	dim	llawn
	Sefydliad C	cyfyngedig	cyffredinol	enedlaethol	llawn

Addysg uwch (mewn dwy brifysgol)

	laith/ieithoedd a ddefnyddir fel y cyfrwng addysgu	ieithoedd ar wefan	Grwpiau targed ar gyfer cymorth ychwanegol yn yr iaith genedlaethol	Y lefel i'w chyrraedd o ran addysgu ieithoedd tramor	Recriwtio myfyrwyr nad ydynt yn fyfyrwyr o'r wlad	Symudedd ar gyfer myfyrwyr iaith	Symudedd ar gyfer myfyrwyr nad ydynt yn fyfyrwyr iaith
Prifysgol A	cededaethol, tramor a Rh/LI	cededaethol, tramor a Rh/LI	cyfyngedig	lefel genedlaethol neu sefydliad	dim ond siaradwyr brodorol yr iaith genedlaethol	dim cynnig	dewisol
Prifysgol B	cededaethol, tramor a Rh/LI	cededaethol, tramor a Rh/LI	dim	dim	rhyngwladol yn unig	dim cynnig	dewisol

Mae 45% o fyfyrwyr ym Mhrifysgol Gwlad y Basg yn astudio drwy gyfrwng yr iaith Fasgeg ar hyn o bryd. O ganlyniad, mae sefyllfa'r iaith yn y sector prifysgolion yn llawer gwell nawr o gymharu â thri deg mlynedd yn ôl. Ar lefel raddedig ac yn arbennig ar lefel ôl-raddedig, caiff yr iaith Saesneg ei chyflwyno'n raddol mewn rhaglenni astudio.

Mae proffiliau amliaith yn dod i'r amlwg mewn addysg alwedigaethol hefyd, ond ar gyfradd arafach. Er enghraifft, dim ond 25% o fyfyrwyr sy'n dewis astudio drwy gyfrwng yr iaith Fasgeg.

Ieithoedd yn y cyfryngau clyweledol a'r wasg

Cynrychiadau teledu nad ydynt yn yr iaith genedlaethol	Ffilmiau yn y sinema nad ydynt yn yr iaith genedlaethol	Rhaglenni mewn ieithoedd Rh/LI y tu allan i'r rhanbarth	Argaeledd iaith arwyddion ar y teledu
wedi'u trosleisio	wedi'u trosleisio	weithiau	weithiau

Yng Ngwlad y Basg, ceir un papur newydd ar gyfer y wlad gyfan a bron 50 o gylchgronau rhanbarthol neu leol a gyhoeddir yn gyfan gwbl mewn Basgeg. Ceir hefyd ddwy sianel deledu gyhoeddus sy'n darlledu'n gyfan gwbl mewn Basgeg (a rhai sianeli lleol sy'n gwneud hynny hefyd). Mae presenoldeb ieithoedd eraill, ar wahân i'r iaith Fasgeg a'r iaith Sbaeneg, mewn cyhoeddiadau sydd ar gael i ddinasyddion Gwlad y Basg yn tyfu ond mae'r sefyllfa yn dal i adlewyrchu diddordeb cymharol fach mewn ieithoedd tramor.

Ieithoedd mewn gwasanaethau cyhoeddus a manau cyhoeddus

Strategaethau iaith sefydliadol ar lefel dinas

Nifer yr ieithoedd	Ar y wefan	Defnyddio cyfieithwyr	Cymwyseddau iaith mewn disgrifiadau swydd	Recriwtio siaradwyr ieithoedd	Hyfforddiant iaith a gynigir i gyflogeion	Cofnod o sgiliau iaith cyflogeion
>4						
3-4	Vitoria-Gasteiz					
1-2	Donostia-San Sebastian Bilbao	Donostia-San Sebastian Vitoria-Gasteiz Bilbao	Donostia-San Sebastian Vitoria-Gasteiz Bilbao	Donostia-San Sebastian Vitoria-Gasteiz Bilbao	Donostia-San Sebastian Vitoria-Gasteiz Bilbao	Donostia-San Sebastian Vitoria-Gasteiz Bilbao

Cyfleusterau cyfathrebu

Pum prif gyfleuster cyfathrebu ar lafar	Pum prif gyfleuster cyfathrebu ysgrifenedig
Cyfreithiol Mewnfudo ac integreiddio Twristiaeth Trafnidiaeth =Addysg =Gwasanaethau brys =lechyd =Cymdeithasol =Dadleuon gwleidyddol a gwneud penderfyniadau	Mewnfudo ac integreiddio Trafnidiaeth Twristiaeth Addysg Theatr

Fel arfer, cynigir gwasanaethau cyhoeddus mewn Sbaeneg a Basgeg, sef dwy iaith swyddogol Gwlad y Basg. Mewn rhai achosion (gwasanaethau cyfieithu, gwasanaethau ar gyfer mewnfudwyr yn bennaf, ac ati), defnyddir ieithoedd eraill megis Saesneg, Ffrangeg, Arabeg, Tsieinëeg, Rwseg, Georgeg neu Woloff.

Ieithoedd mewn busnes (allan o 20 o gwmnïau)

	STRATEGAETHAU IAITH CYFFREDINOL							
	Argaeledd strategaeth iaith	Pwyslais ar sgiliau iaith wrth recriwtio	Darpariaeth symudedd rhyngwladol	Y defnydd o gyfieithwyr/dehonglwy'r allanol	Cofnodi sgiliau iaith staff	Y defnydd o rwydweithiau ar gyfer hyfforddiant iaith	Y defnydd o raglenni/cyllid yr UE	Ymwybyddiaeth o raglenni/cyllid yr UE
Defnyddir yn eang	6	14	8	8	1	5	3	0

		STRATEGAETHAU IAITH MEWNOL						STRATEGAETHAU IAITH ALLANOL			
		Partneriaethau â'r sector addysg	Cynlluniau gwobrwyo/dyrchafu yn seiliedig ar sgiliau iaith	Darpariaeth hyfforddiant iaith	Defnyddir y Fframwaith Cyfeirio Ewropeaidd Cyffredin	Defnyddir iaith ar gyfer dogfennau yn y gweithie/mewnwyd	Defnyddir iaith ar gyfer meddalwedd, rhaglenni'r we	Defnyddir iaith ar gyfer adroddiadau blynyddol/busnes	Defnyddir iaith ar gyfer marchnata	Defnyddir iaith ar gyfer brandio/hunaniaeth	Defnyddir iaith ar gyfer gwefan
ISE	ymarfer yn eang	1	0	2	3	20	19	19	20	19	18
Saesneg Busnes	ymarfer yn eang	3	1	10	5	5	8	9	4	8	11
Ieithoedd ychwanegol	ymarfer yn eang	4	1	6	2	3	1	2	9	8	10

Mae cwmnïau o Wlad y Basg yn ceisio integreiddio arferion rheoli iaith yn eu gwaith bob dydd. Mae'r agwedd hon ar eu strategaeth busnes yn mynd ymhell y tu hwnt i ddwyieithrwydd swyddogol gan fod ieithoedd eraill (Saesneg yn bennaf, ond nid bob tro) yn gwbl angenrheidiol i feithrin cydberthnasau â chwmnïau o bob cwr o'r byd. Un agwedd y dylid mynd ati i'w gwella yw'r gwaith o hyrwyddo cymwyseddau iaith ymhlith cyflogaion.

Canfyddiadau allweddol cyffredinol

Mae gan Wlad y Basg broffiliau amliaith cymharol gryf mewn addysg gynradd ac addysg uwchradd ar gyfer Sbaeneg, Basgeg a'r prif ieithoedd tramor (gyda Saesneg ar y brig). Fodd bynnag, prin y gwelir ieithoedd mewnfudwyr yn cael eu defnyddio yn y system addysg, os o gwbl.

Mewn addysg uwch, y cyfryngau argraffedig, gwasanaethau cyhoeddus a chwmnïau preifat, mae proffiliau amliaith yn dod i'r amlwg ar gyfradd gymharol gyflym. Dylai hyn gael ei wella a'i atgyfnerthu yn y dyfodol drwy ddatblygu sail addysgol ddigonol sydd wedi'i chyfeirio at amlieithrwydd.

Mentrau a chynlluniau peilot addawol

Mae amlieithrwydd yn her i gymdeithas sydd ymhell o fod 100% yn ddwyieithog. Felly, wrth symud yn raddol tuag at gymdeithas ddwyieithog, mae'n rhaid ystyried yr angen a'r galw cynyddol am strategaethau amliaith. Mae un o'r strategaethau hyn eisoes ar waith: mae cynllun peilot wedi cael ei ddatblygu i gyflwyno fframwaith teirieithog mewn addysg gynradd ac addysg uwchradd. Mae tua 120 o ysgolion wedi mabwysiadu'r fframwaith newydd hwn, a fydd fwy na thebyg yn cael ei ehangu i gwmpasu'r system addysg gyfan.

O ran technolegau newydd, mae ymdrech fawr yn mynd rhagddi i greu system peiriant cyfieithu a all gyfieithu testun a gwefannau o Sbaeneg a Saesneg i Fasgeg ac i'r gwrthwyneb. Bydd yr adnodd newydd hwn yn seiliedig ar ddadansoddwr gramadegol pwerus a chronfa gyhoeddus fawr o gofau cyfieithu.

Ni fydd yn hawdd cyflawni nod y mentrau hyn (a mentrau eraill) ond, ar yr un pryd, mae'n nod deniadol iawn: datblygu a chryfhau proffiliau amliaith mewn cymdeithas sy'n awyddus i gynyddu'r defnydd o'r iaith Fasgeg, yr iaith gymdeithasol-ieithyddol wannaf, ac sy'n mynd ati i geisio gwneud hynny.

Cyfeiriadau

Euskara Biziberritzeko Plan Nagusia/Plan general de Promoción del Uso del Euskera (EBPN), Vitoria-Gasteiz, Eusko Jauriaritza/Gobierno Vasco, 1999.

Euskararen egoerari eta bilakaerari buruzko adierazleak/Indicadores de situación y evolución del euskera, Viceconsejería de Política Lingüística, 2011. www.euskara.euskadi.net/r59-738/es/contenidos/informacion/argitalpenak/es_6092/adjuntos/ebpn_txostena/EBPN%20Txostena%20cast.pdf.

Fourth Sociolinguistic Survey (2006), Vitoria-Gasteiz, Eusko Jauriaritza/Gobierno Vasco, 2008.

Itun berritu baterantz / Hacia un pacto renovado, Vitoria-Gasteiz, Eusko Jauriaritza/Gobierno Vasco, 2009 Fersiwn Saesneg: www.euskara.euskadi.net/r59-738/es/contenidos/informacion/7041/es_2447/adjuntos/Maketa-Pacto_Baja-1eng%202.pdf.

17 Y SWISTIR

Raphael Berthele, Bernhard Lindt-Bangerter, Susanne Obermayer

Cyd-destun y wlad

Mae'r Swistir yn gydffederasiwn seneddol, sy'n cynnwys 26 o gantonau ac, fel yr oedd yn 2010, sy'n gartref i 7.9 miliwn o drigolion. Fel taleithiau ffederal â'u cyfansoddiadau eu hunain, mae gan y cantonau lawer iawn o ymreolaeth. Yn arbennig, mae'r system addysgol yn cael ei threfnu gan gantonau; o ganlyniad, mae'r systemau ysgolion yn aml yn dra gwahanol rhwng cantonau. Ar hyn o bryd, ymdrechir i gysoni'r systemau, fel y nodwyd gan erthygl gyfansoddiadol yn 2006 a chan gyntundeb i gysoni addysg orfodol (gweler isod).

Yn y Swistir, mae pedair iaith wedi cael eu siarad yn draddodiadol mewn tiriogaethau cymharol homogenaidd: Almaeneg, Ffrangeg, Eidaleg a Rhaeto-Romaneg. Mae'r tair iaith gyntaf wedi bod yn ieithoedd cenedlaethol ers i'r Gydffederasiwn gael ei sefydlu yn 1848; bu'r olaf yn iaith genedlaethol ers 1938. Mae *Deddf ar Ieithoedd*, a fu mewn grym ers 2010, yn rheoleiddio'r defnydd o ieithoedd a'r modd y cânt eu hyrwyddo ac yn gwella statws Rhaeto-Romaneg fel un o'r ieithoedd swyddogol. Nid yw statws y tafodieithoedd Alemannaidd – mamiaith y rhan fwyaf o Swisiaid – wedi'i egluro eto. Er bod UNESCO yn ystyried tafodieithoedd Almaeneg y Swistir fel rhai o ieithoedd bregus y byd, mae sefydliadau addysgol yn dueddol o gyfyngu ar eu defnydd. Mae'r tafodieithoedd Eidaleg yn Ticino yn cael eu disodli fwyfwy gan Eidaleg safonol, ac mae'r mathau o Ffrengig-Brofensaleg a siaredir yng Ngorllewin y Swistir wedi diflannu.

Mae pob canton yn gyfrifol am ddiffinio ei iaith swyddogol ei hun. O'r 26 o gantonau, mae 17 wedi dynodi Almaeneg yn iaith swyddogol, mae pedwar wedi dynodi Ffrangeg ac mae un wedi dynodi Eidaleg. Mae tri chanton yn swyddogol ddwyieithog (Ffrangeg, Almaeneg) ac mae un canton yn deirieithog (Almaeneg, Rhaeto-Romaneg, Eidaleg). Ceir hefyd sawl bwrdeistref swyddogol ddwyieithog wrth y ffin ieithyddol Almaeneg-Ffrangeg. Mae canton teirieithog Graubünden yn unigryw o ran ei sefyllfa ieithyddol. Mae'r iaith lleiafrifol Rhaeto-Romaneg wedi bod yn colli tir ers canrifoedd; mae'r *lingua franca* Almaeneg yn fwyfwy yn bygwth natur gyfoethog a bywiogrwydd pedwaredd iaith y Swistir. Mewn ymgais i sefydlu tiriogaeth sy'n siarad Rhaeto-Romaneg, mae Graubünden wedi cyflwyno deddf ieithyddol gantonaidd newydd sy'n cynnwys darpariaethau newydd. Bellach, ystyrir bod bwrdeistref yn uniaith os oes 40% o'i phoblogaeth yn siarad Rhaeto-Romaneg, ac ystyrir ei bod yn amliath os oes 20% yn gwneud hynny. At hynny, mewn ardaloedd Rhaeto-Romaneg, y dafodiaith leol yw'r unig iaith a siaredir mewn meithrinfeydd ac ymlynyddoedd cyntaf yr ysgol gynradd.

Yn ôl y cyfrifiad cenedlaethol yn 2000, roedd 63.7% o'r boblogaeth yn siarad Almaeneg fel eu prif iaith, roedd 20.4% yn siarad Ffrangeg, roedd 6.5% yn siarad Eidaleg, roedd 0.5% yn siarad Rhaeto-Romaneg ac roedd 9% yn siarad iaith nad oedd yn un swyddogol.

Mae gan tua 30% o'r boblogaeth gefndir mewn fudo hynny yw, eu bod hwy eu hunain neu eu rhieni wedi mewn fudo i'r Swistir. Mae tua thraean o'r rhain yn ddinasyddion Swisaidd brodoredig. Yr ieithoedd a gynrychiolir fwyaf yn nhrefn amllder yw: Almaeneg, Ffrangeg, Eidaleg, Bosniwg/Croateg/Serbeg, Albaneg, Portiwgaleg, Sbaeneg, Saesneg, Tyrceg a Tamil (ffynhonnell: cyfrifiad 2000). Mae'r gwaith o integreiddio'n ieithyddol fewnfudwyr sy'n siarad iaith dramor yn rhan bwysig o bolisiau ffederal presennol (gan gynnwys cyrsiau iaith yn yr ieithoedd rhanbarthol).

Ieithoedd mewn dogfennau swyddogol a chronfeydd data

Ymdrinnir â'r pedair iaith genedlaethol (hynny yw, Ffrangeg, Almaeneg, Eidaleg a Rhaeto-Romaneg), ieithoedd tramor ac ieithoedd mewn fudwyr mewn deddfwriaeth iaith a/neu ddogfennau polisi iaith. (Cyd-) ariennir y broses o ddsygu ac addysgu'r ieithoedd cenedlaethol ar gyfer plant a/neu oedolion o'r Swistir sy'n byw dramor mewn mwy nag 20 o wledydd yn Ewrop a thramor. Mae'r *Siarter Ewropeaidd ar gyfer Ieithoedd Rhanbarthol neu Ieithoedd Lleiafrifol* wedi'i llofnodi gan lywodraeth y Swistir ac wedi'i chadarnhau gan senedd y wlad. Cydnabyddir yr ieithoedd canlynol yn y Siarter: Eidaleg a Rhaeto-Romaneg ar lefel ffederal, Ffrangeg yng nghanon Bern, Almaeneg yn Bosco-Gurin, Ederswiler ac yng nghanonau Fribourg a Valais, ac Iddew-Almaeneg, Yeneg a Walsar. Ceir darpariaeth addysg swyddogol ar lefel genedlaethol neu ranbarthol ar gyfer Rhaeto-Romaneg ac Eidaleg, a gefnogir gan y Siarter.

Ers 2010, mae data cenedlaethol swyddogol ar amrywiaeth ieithyddol yn y Swistir wedi'i gasglu drwy ddata o gofrestrau a gaiff eu diweddarau'n flynyddol (STATPOP). Mae'r dull hwn o gasglu data yn ymdrin ag amrywiadau ar yr iaith genedlaethol, ieithoedd rhanbarthol/lleiafrifol ac ieithoedd mewn fudwyr yn seiliedig ar dri chwestiwn iaith gwahanol, h.y., (1) 'beth yw eich prif iaith, h.y. ym mha iaith rydych yn meddwl a pha iaith rydych yn ei medru orau?', (2) 'pa iaith/ieithoedd rydych yn ei siarad/eu siarad gartref gydag aelodau o'ch teulu fel arfer?', a (3) 'pa iaith/ieithoedd rydych yn ei siarad/eu siarad yn y gwaith/yn eich sefydliad addysgol fel arfer?'

Hyd at 2000, roedd y Swistir yn cynnal cyfrifiad i gasglu data ar ei holl drigolion. O 2010 ymlaen, dim ond gwaith samplu ar hap a wneir, nad yw'n cynnwys datganiadau am lefel y bwrdeistrefi unigol ac sy'n arbennig o broblematig o ran asesu bywiogrwydd Rhaeto-Romaneg.

IC=iaith/leithoedd Cenedlaethol
IT=leithoedd Tramor
IRh/LI=leithoedd Rhanbarthol neu Leiafrifol
IM=leithoedd Mewnfudwyr

leithoedd mewn addysg cyn cynradd

Zürich (Ni cheir darpariaeth ar gyfer ieithoedd Rh/LI nac ieithoedd tramor)

Genefa (Ni cheir darpariaeth ar gyfer ieithoedd Rh/LI, ieithoedd tramor nac ieithoedd mewnfudwyr)

Ticino (Ni ddarperir unrhyw addysg iaith)

		Grwpiau targed	Hyd	Gofynion o ran isafswm maint y grŵp	Diwrnodau'r wythnos	Hyfforddiant cyn swydd i athrawon	Hyfforddiant mewn swydd i athrawon	Arian ar gael gan y wladwriaeth
IM	Zürich	siaradwyr brodorol yn unig	1 flwyddyn	dim	<0.5 diwrnod	cyffredinol	pwnc-benodol	rhannol
Cymorth IC	Zürich	plant mewnfudwyr yn unig	≥2 flynedd	dim	0.5-1 diwrnod	pwnc-benodol	dim	llawn
	Genefa	pawb	≥2 flynedd	dim	0.5-1 diwrnod	pwnc-benodol	pwnc-benodol	llawn

leithoedd a gynigir mewn addysg cyn cynradd

IM	Yn Zürich: Albaneg, Arabeg, Bosnieg, Tsieinëeg, Croateg, Ffinneg, Ffrangeg, Groeg, Hwngareg, Eidaleg, Corëeg, Portiwgaleg, Portiwgaleg (Brasil), Rwseg, Slofeneg, Sbaeneg (America Ladin), Tyrceg Yn Genefa: Albaneg, Arabeg, Eidaleg, Portiwgaleg, Sbaeneg a Thyrcceg
-----------	---

Wrth hyrwyddo sgiliau iaith mewn addysg cyn cynradd, mae'r awdurdodau'n canolbwyntio'n glir ar iaith swyddogol rhanbarth penodol. O dan bolisi addysgol cyfredol, bydd plant yn gyffredinol yn mynychu meithrinfa am ddwy flynedd ac, fel rheol, caiff prosesau integreiddio iaith eu cynnal drwy ddulliau trochi. Mewn meithrinfeydd â chanran uchel o blant sy'n siarad iaith dramor, cynigir dilyniannau iaith mewn grwpiau bach a chyda modiwlau dysgu iaith arbennig.

Yn y blynyddoedd i ddod, dylai'r mesurau penodol sy'n hyrwyddo gwaith integreiddio gefnogi'n gynyddol brosiectau sy'n cynnig camau ymyrryd cynnar (cyn ysgol) i helpu plant â chefnidir mewnfudo i ddysgu'r iaith leol.

leithoedd mewn addysg gynradd

Trefniadaeth

		Cwricwlwm	Cymorth ychwanegol i newydd-ddyfodiaid	Profion diagnostig wrth ddechrau	Monitro sgiliau iaith
Cymorth IC	Zürich	cydlynol a chlir	cyn prif ffrwd	mewnfudwyr yn unig	lefel ysgol
	Genefa	cydlynol a chlir	cyn prif ffrwd	absennol	cenedlaethol safonol
	Ticino	cyffredinol	cyn prif ffrwd	mewnfudwyr yn unig	absennol

		Grwpiau targed	Cwricwlwm	CLIL	Dechrau addysg iaith	Amserlennu	Gofynion o ran isafswm maint y grŵp	Monitro sgiliau iaith	Y lefel y mae angen ei chyrraedd	Arian ar gael gan y wladwriaeth
IC Eraill	Zürich	pawb	cydlynol a chlir	absennol	o'r cyfnod canol	yn ystod oriau ysgol	dim	cenedlaethol safonol	normau ar lefel genedlaethol neu ranbarthol	llawn
	Genefa	pawb	cydlynol a chlir	absennol	o flwyddyn 1	yn ystod oriau ysgol	dim	lefel ysgol	normau ar lefel genedlaethol neu ranbarthol	llawn
	Ticino	pawb	cydlynol a chlir	absennol	o'r cyfnod canol	yn ystod oriau ysgol	dim	lefel ysgol	normau ar lefel ysgol	llawn
IT	Zürich	pawb	cydlynol a chlir	absennol	o flwyddyn 1	yn ystod oriau ysgol	dim	cenedlaethol safonol	wedi'i chysylltu â'r Fframwaith Cyfeirio Ewropeaidd Cyffredin	llawn
	Genefa	pawb	cydlynol a chlir	absennol	o flwyddyn 1	yn ystod oriau ysgol	dim	lefel ysgol	normau ar lefel genedlaethol neu ysgol	llawn
	Ticino	pawb	cydlynol a chlir	absennol	o'r cyfnod canol	yn ystod oriau ysgol	dim	lefel ysgol	normau ar lefel genedlaethol neu ysgol	llawn
IM	Zürich	siaradwyr brodorol yn unig	cyffredinol	lleoledig	o flwyddyn 1	yn rhannol yn ystod oriau ysgol	dim	lefel ysgol	heb ei nodi	rhannol
	Genefa	Ni cheir darpariaeth								
	Ticino	Ni cheir darpariaeth								

Addysgu

		Cymwysterau athrawon	Hyfforddiant cyn swydd i athrawon	Hyfforddiant mewn swydd i athrawon	Symudedd
Cymorth IC	Zürich	athrawon cyffredinol	pwnc-benodol	dim	Dd/G
	Genefa	athrawon iaith	pwnc-benodol	pwnc-benodol	Dd/G
	Ticino	athrawon cyffredinol	cyffredinol	dim	Dd/G
IC Eraill	Zürich	athrawon cyffredinol	cyffredinol	dim	Dd/G
	Genefa	athrawon cyffredinol	pwnc-benodol	pwnc-benodol	Dd/G
	Ticino	athrawon cyffredinol	cyffredinol	dim	Dd/G
IT	Zürich	athrawon cyffredinol	pwnc-benodol	dim	yn cael ei gynnwys mewn hyfforddiant
	Genefa	athrawon cyffredinol	pwnc-benodol	pwnc-benodol	yn cael ei gynnwys mewn hyfforddiant
	Ticino	athrawon cyffredinol	cyffredinol	dim	yn cael ei gynnwys mewn hyfforddiant
IM	Zürich	athrawon cyffredinol	cyffredinol	pwnc-benodol	Dd/G
	Genefa	Ni cheir darpariaeth			
	Ticino	Ni cheir darpariaeth			

leithoedd a gynigir mewn addysg gynradd

IC Eraill	Almaeneg, Ffrangeg, Eidaleg
IT	Yn Zürich: Saesneg a Ffrangeg yn orfodol Yn Genefa: Saesneg ac Almaeneg yn orfodol Yn Ticino: Ffrangeg yn orfodol
IM	Yn Zürich: Albaneg, Arabeg, Bosniog, Bwlgareg, Tseineaidd, Croateg, Ffinneg, Ffrangeg, Groeg, Hwngareg, Eidaleg, Corëeg, Cwrdeg, Portiwgaleg, Rwsieg, Serbeg, Slofeneg, Sbaeneg, Swedeg, Tyrceg Yn Genefa: Albaneg, Arabeg, Eidaleg, Portiwgaleg, Sbaeneg a Thyrcceg

Yn y Swistir, rhaid i blant fynychu'r ysgol am naw mlynedd. Ar ôl y seithfed flwyddyn, mae gan y rhan fwyaf o gantonau ddau neu dri chategori gwahanol yn seiliedig ar allu academaidd. Bydd myfyrwyr fel arfer yn dechrau'r ysgol uwchradd uwch (Gymnasiwm) ar ôl yr wythfed neu'r nawfed dosbarth.

Mae addysgu ail iaith genedlaethol yn rhan draddodiadol o addysg orfodol. Fodd bynnag, dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, gwelwyd addysgu iaith yn newid yn sylweddol: lluniwyd cytundeb (*HarmoS*) rhwng y rhan fwyaf o'r cantonau gyda'r nod o gysoni dilyniant y pynciau a addysgir a'r nodau addysgol. Mae'r newidiadau pendant i addysgu iaith fel a ganlyn: ochr yn ochr ag ail iaith swyddogol ar gyfer pob myfyrwr, rhaid addysgu Saesneg. Hefyd, rhaid i'r iaith dramor gyntaf fod wedi'i chyflwyno erbyn y trydydd dosbarth fan bellaf; yr ail iaith dramor erbyn y pumed dosbarth. Yn y dyfodol, Almaeneg fydd yr iaith dramor gyntaf a gaiff ei haddysgu yn y Swistir sy'n siarad Ffrangeg ac mewn rhannau o Graubünden lle mai Rhaeto-Romaneg neu Eidaleg yw'r ieithoedd rhanbarthol; Ffrangeg fydd yr iaith dramor gyntaf yn Ticino sy'n siarad Eidaleg ac mewn llawer o gantonau sy'n siarad Almaeneg yng ngorllewin y Swistir. Yn nhiriogaethau Graubünden sy'n siarad Almaeneg, Eidaleg fydd yr iaith dramor gyntaf, tra bydd y rhan fwyaf o'r cantonau sy'n siarad Almaeneg yng nghanol a dwyrain y Swistir yn cyflwyno Saesneg fel yr iaith dramor gyntaf. Mae'r ffaith bod rhan o'r Swistir sy'n siarad Almaeneg wedi dewis Saesneg dros yr iaith genedlaethol Ffrangeg wedi esgor ar gryn feirniadaeth.

Nod *HarmoS* yw bod myfyrwyr yn meithrin sgiliau iaith cyffelyb yn y ddwy iaith dramor yn ystod eu blynyddoedd addysg orfodol. Mae safonau addysgol ar gyfer pob iaith a gaiff ei haddysgu yn cael eu drafftio ar hyn o bryd.

Fel rheol, mae'r gwaith o hyrwyddo a meithrin iaith gyntaf plant o gefndiroedd mewnffudo yn fater i'r gwledydd dan sylw, gyda sefydliadau preifat yn chwarae rhan hefyd ar adegau. Mae Cynhadledd Gweinidogion Cantonaidd Addysg yn argymhell y dylai'r cantonau gefnogi cyrsiau Treftadaeth Iaith a Diwylliant. Yn y rhan fwyaf o gantonau, darperir seilwaith ysgol (megis ystafelloedd dosbarth) ar gyfer y cyrsiau hyn, ac mae rhai cantonau sy'n siarad Almaeneg yn eu hachredu ar yr amod eu bod yn glynu wrth gwricwlwm fframwaith rhagnodedig. Yn y cantonau hyn, ceir mathau amrywiol o gydweithredu rhwng athrawon iaith arferol a threftadaeth, yn ogystal â chyfarwyddyd integredig.

leithoedd mewn addysg uwchradd

Trefniadaeth

		Cwricwlwm	Cymorth ychwanegol i newydd-ddyfodiaid	Profion diagnostig wrth ddechrau	Monitro sgiliau iaith
Cymorth IC	Zürich	cydlynol a chlir	cyn prif ffrwd	absennol	lefel ysgol
	Geneva	cydlynol a chlir	cyn prif ffrwd	absennol	cededlaethol safonol
	Ticino	cydlynol a chlir	cyn prif ffrwd	absennol	lefel ysgol

		Grwpiau targed	Cwricwlwm	CLIL	Amserlennu	Gofynion o ran isafswm maint y grŵp	Monitro sgiliau iaith	Y lefel y mae angen ei chyrraedd	Arian ar gael gan y wladwriaeth
IC Eraill	Zürich	pawb	cydlynol a chlir	lleoledig	yn ystod oriau ysgol	dim	cededlaethol safonol	normau ar lefel genedlaethol neu ranbarthol	llawn
	Geneva	pawb	cydlynol a chlir	lleoledig	yn ystod oriau ysgol	dim	cededlaethol safonol	normau ar lefel genedlaethol neu ranbarthol	llawn
	Ticino	pawb	cydlynol a chlir	lleoledig	yn ystod oriau ysgol	dim	lefel ysgol	normau ar lefel ysgol	llawn
IT	Zürich	pawb	cydlynol a chlir	lleoledig	yn ystod oriau ysgol	dim	cededlaethol safonol	wedi'i chysylltu â'r Fframwaith Cyfeirio Ewropeaidd Cyffredin	llawn
	Geneva	pawb	cydlynol a chlir	lleoledig	yn ystod oriau ysgol	dim	cededlaethol safonol	wedi'i chysylltu â'r Fframwaith Cyfeirio Ewropeaidd Cyffredin	llawn
	Ticino	pawb	cydlynol a chlir	lleoledig	yn ystod oriau ysgol	dim	lefel ysgol	normau ar lefel genedlaethol neu ysgol	llawn
IM	Zürich	siaradwyr brodorol yn unig	cyffredinol	lleoledig	yn rhannol yn ystod oriau ysgol	dim	lefel ysgol	normau ar lefel genedlaethol neu ranbarthol	rhannol
	Geneva	siaradwyr brodorol yn unig	cyffredinol	eang	tu allan i oriau ysgol	dim	lefel ysgol	dim normau	rhannol
	Ticino	Ni cheir darpariaeth							

Addysgu

		Cymwysterau athrawon	Hyfforddiant cyn swydd i athrawon	Hyfforddiant mewn swydd i athrawon	Lefel yr iaith sydd ei hangen	Symudedd
Cymorth IC	Zürich	athrawon iaith	pwnc-benodol	dim	wedi'i chysylltu â'r Fframwaith Cyfeirio Ewropeaidd Cyffredin	Dd/G
	Geneva	athrawon iaith	pwnc-benodol	pwnc-benodol	normau ar lefel genedlaethol neu ysgol	Dd/G
	Ticino	athrawon iaith	pwnc-benodol	dim	wedi'i chysylltu â'r Fframwaith Cyfeirio Ewropeaidd Cyffredin	Dd/G
IC Eraill	Zürich	athrawon iaith	pwnc-benodol	dim	Dd/G	Dd/G
	Geneva	athrawon iaith	pwnc-benodol	pwnc-benodol	Dd/G	Dd/G
	Ticino	athrawon iaith	pwnc-benodol	dim	Dd/G	Dd/G
IT	Zürich	athrawon iaith	pwnc-benodol	pwnc-benodol	wedi'i chysylltu â'r Fframwaith Cyfeirio Ewropeaidd Cyffredin	cymorth ariannol anffurfiol
	Geneva	athrawon iaith	pwnc-benodol	pwnc-benodol	safonau cenedlaethol neu ranbarthol	cymorth ariannol anffurfiol
	Ticino	athrawon iaith	pwnc-benodol	dim	safonau cenedlaethol neu ranbarthol	cymorth ariannol anffurfiol
IM	Zürich	athrawon cyffredinol	cyffredinol	pwnc-benodol	Dd/G	Dd/G
	Geneva	athrawon iaith	cyffredinol	cyffredinol	Dd/G	Dd/G
	Ticino	Ni cheir darpariaeth				

Ieithoedd a gynigir mewn addysg uwchradd

IC Eraill	Almaeneg, Ffrangeg, Eidaleg
IT	Saesneg, Groeg, Lladin, Sbaeneg: 1-2 o'r ieithoedd hyn yn orfodol
IM	Yn Zürich: Albaneg, Bosnia, Tseinaidd, Croateg, Croateg, Ffinneg, Ffrangeg, Groeg, Hwngari, yr Eidal, Corea, Cwrdeg., Portiwgaleg, Rwsieg, Serbeg, Slofeneg, Sbaeneg, Swedeg, Twrceg Yn Geneva: Albaneg, Arabeg, Eidaleg, Portiwgaleg, Sbaeneg a Thyrcceg

Mae addysgu ieithoedd cenedlaethol a thramor a hyrwyddo lluosieithrwydd yn dal i fynnu cryn dipyn o sylw'r awdurdodau cantonaidd a ffederal mewn addysg uwchradd. Fel rheol, mae dwy iaith dramor (iaith genedlaethol arall a Saesneg ar y cyfan) yn orfodol ar gyfer pob disgybl nes diwedd addysg uwchradd uwch. Ar ddiwedd yr ysgol uwchradd uwch, disgwylir i ddisgyblion fod wedi cyrraedd lefel B2 yn ôl *Fframwaith Cyfeirio Ewropeaidd Cyffredin ar gyfer Ieithoedd gan Gyngor Ewrop*.

Mae llawer o ysgolion uwchradd uwch yn cynnig cwricwla dwyieithog. Y prif gyfuniad iaith yw'r iaith swyddogol ranbarthol a Saesneg, yn enwedig yn y Swistir sy'n siarad Almaeneg. I'r disgyblion hynny o gefndir mewn-fudol ceir hefyd y posibilrwydd o gyrsiau allgyrsiol mewn ieithoedd mewn-fudwyr a drefnir gan y cymunedau iaith hyn ond a gefnogir yn aml gan awdurdodau ysgol lleol.

leithoedd mewn addysg bellach ac addysg uwch

Addysg bellach (mewn tri sefydliad AHG) (Ni cheir darpariaeth ar gyfer ieithoedd mewnfudwyr)

		Ystod o raglenni iaith	Cwricwlwm	Y lefel y mae angen ei chyrraedd	Arian ar gael gan y wladwriaeth
IC Eraill	Sefydliad A	amrywiaeth eang	cydlynol a chlir	Dd/G	rhannol
	Sefydliad B	amrywiaeth eang	cydlynol a chlir	Dd/G	llawn
	Sefydliad C	amrywiaeth eang	cydlynol a chlir	Dd/G	llawn
IT	Sefydliad A	amrywiaeth eang	cydlynol a chlir	enedlaethol	rhannol
	Sefydliad B	amrywiaeth eang	cydlynol a chlir	wedi'i chysylltu â'r Fframwaith Cyfeirio Ewropeaidd Cyffredin	llawn
	Sefydliad C	amrywiaeth eang	cydlynol a chlir	wedi'i chysylltu â'r Fframwaith Cyfeirio Ewropeaidd Cyffredin	llawn

Addysg uwch (mewn tair prifysgol)

	iaith/ieithoedd a ddefnyddir fel y cyfrwng addysgu	ieithoedd ar wefan	Grwpiau targed ar gyfer cymorth ychwanegol yn yr iaith genedlaethol	Y lefel i'w chyrraedd o ran addysgu ieithoedd tramor	Recriwtio myfyrwyr nad ydynt yn fyfyrwyr o'r wlad	Symudedd ar gyfer myfyrwyr iaith	Symudedd ar gyfer myfyrwyr nad ydynt yn fyfyrwyr iaith
Prifysgol A	enedlaethol, cenedlaethol arall a thramor	enedlaethol, cenedlaethol arall a thramor	pawb	wedi'i chysylltu â'r Fframwaith Cyfeirio Ewropeaidd Cyffredin	rhyngwladol a mewnfudwyr	dewisol	dewisol
Prifysgol B	enedlaethol, cenedlaethol arall a thramor	enedlaethol, cenedlaethol arall a thramor	pawb	dim	rhyngwladol a mewnfudwyr	dewisol	dewisol
Prifysgol C	enedlaethol, cenedlaethol arall a thramor	enedlaethol, cenedlaethol arall a thramor	cyfyngedig	wedi'i chysylltu â'r Fframwaith Cyfeirio Ewropeaidd Cyffredin	rhyngwladol yn unig	dewisol	dewisol

Mae gan y Swistir ganran gymharol fach o fyfyrwyr sy'n ennill cymhwyster i fynd i'r brifysgol. Y rheswm dros hyn yw bod llawer iawn o bwys yn cael ei roi ar hyfforddiant galwedigaethol o safon uchel. Mewn rhaglenni galwedigaethol, bydd prentisiaid yn gweithio mewn cwmni neu grefft tra'n mynychu ysgol 'alwedigaethol' unwaith neu ddwywaith yr wythnos, lle canolbwyntir i raddau amrywiol iawn ar hyrwyddo iaith swyddogol y rhanbarth neu ieithoedd tramor. Mewn rhaglenni hyfforddi masnachol, er enghraifft, rhoddir rôl amlwg i iaith (mae ail iaith swyddogol a Saesneg yn orfodol), lle mewn proffesiynau sy'n gofyn am waith â llaw yn bennaf, ymdrinnir ag ieithoedd tramor mewn ffordd ffwrdd-â-hi, os o gwbl. Felly, mae'n amhosibl gwneud datganiadau cyffredinol am y ffordd y caiff ieithoedd tramor eu trin mewn addysg alwedigaethol.

leithoedd yn y cyfryngau clyweledol a'r wasg

Cynrychiadau teledu nad ydynt yn yr iaith genedlaethol	Ffilmiau yn y sinema nad ydynt yn yr iaith genedlaethol	Rhaglenni mewn ieithoedd Rh/LI y tu allan i'r rhanbarth	Argaeledd iaith arwyddion ar y teledu
wedi'u trosleisio	wedi'u hisdeitlo	bob amser	yn rheolaidd

Caiff rhaglenni radio a theledu cenedlaethol o'r rhanbarthau iaith amrywiol eu darlledu ledled y Swistir. Caiff rhaglenni o ansawdd tebyg eu darlledu ar yr un telerau yn y pedwar rhanbarth iaith. Caiff arian ffi'r drwydded ei ailddosbarthu ar raddfa sylweddol i gwmnïau rhanbarthol y rhanbarthau ieithoedd lleiafrifol er mwyn cefnogi a hyrwyddo amrywiaeth ieithyddol a diwylliannol.

Hefyd, mae gan y rhan fwyaf o gartrefi deledu cebl neu ryngrwyd felly gallant gael gafael ar nifer fawr o raglenni domestig a thramor ychwanegol mewn ieithoedd amrywiol. Rhaid, fodd bynnag, nodi bod yn well gan y rhan fwyaf o'r rheini sy'n gwyllo'r teledu neu'n gwrando ar y radio ddarllediadau yn eu hiaith eu hunain. Er bod cyhoeddiadau'r wasg yn yr iaith genedlaethol a llawer o ieithoedd tramor ar gael ledled y wlad, maent yn cael eu darllen gan y priod gymunedau iaith yn bennaf.

leithoedd mewn gwasanaethau cyhoeddus a manau cyhoeddus

Strategaethau iaith sefydliadol ar lefel dinas

Nifer yr ieithoedd	Ar y wefan	Defnyddio cyfieithwyr	Cymwyseddau iaith mewn disgrifiadau swydd	Recriwtio siaradwyr ieithoedd	Hyfforddiant iaith a gynigir i gyflogeion	Cofnod o sglMiau iaith cyflogeion
>4		Zürich Geneva	Zürich			
3-4	Geneva Lugano	Lugano	Lugano			
1-2	Zürich		Geneva	Zürich Geneva	Zürich	

Cyfleusterau cyfathrebu

Pum prif gyfleuster cyfathrebu ar lafar	Pum prif gyfleuster cyfathrebu ysgrifenedig
Addysg Iechyd Cymdeithasol Cyfreithiol Mewnfudo ac integreiddio	Addysg Cyfreithiol Mewnfudo ac integreiddio Twristiaeth Trafnidiaeth

Yn y Weinyddiaeth Ffederal, mae canran y cyflogeion o un o'r cymunedau iaith swyddogol yn gymesur â'r boblogaeth yn gyffredinol. Serch hynny, ceir gwahaniaethau hierarchaidd, gyda thangynrychiolaeth rannol o'r lleiafrifoedd cenedlaethol mewn rolau gweithredol. At hynny, gwelwyd diffygion mewn perthynas â datblygu amlieithrwydd unigol cyflogeion yn y Weinyddiaeth Ffederal. Mae hefyd yn amlwg bod ieithoedd lleiafrifol mewnfydwyr wedi'u tangynrychioli yn y Weinyddiaeth Ffederal.

Yn draddodiadol, mae'r fyddin wedi bod yn safle cenedlaethol pwysig lle mae'r cymunedau ieithyddol amrywiol, yn enwedig y rhai llai o faint, wedi gallu defnyddio eu priod ieithoedd. Yn ddiweddar, cafodd byddin y Swistir ei lleihau'n sylweddol, a arweiniodd at fwy o grwpiau cymysg eu hiaith (arferai'r fyddin gael ei threfnu yn ôl tiriogaeth ac felly grwpiau uniaith a gafwyd yn bennaf, yn unol â'r egwyddor draddodiadol o diriogaetholrwydd). Heb bolisi iaith cydlynol yn y fyddin, mae'r datblygiad hwn yn esgor ar bryderon o *Almaeneiddio* yn y grwpiau lleiafrifol cenedlaethol, gan fod grwpiau cymysg yn dueddol o weithredu yn yr iaith fwyafrifol, sef Almaeneg.

Ieithoedd mewn busnes (allan o 32 o gwmnïau)

	STRATEGAETHAU IAITH CYFFREDINOL							
	Argaeledd strategaeth iaith	Pwyslais ar sgiliau iaith wrth recriwtio	Darpariaeth symudedd rhyngwladol	Y defnydd o gyfieithwyr/dehonglwy'r allanol	Cofnodi sgiliau iaith staff	Y defnydd o rwydweithiau ar gyfer hyfforddiant iaith	Y defnydd o raglenni/cyllid yr UE	Ymwybyddiaeth o raglenni/cyllid yr UE
Defnyddir yn eang	8	23	4	5	0	3	0	0

		STRATEGAETHAU IAITH MEWNOL						STRATEGAETHAU IAITH ALLANOL			
		Partneriaethau â'r sector addysg	Cynlluniau gwobrwyo/dyrchafu yn seiliedig ar sgiliau iaith	Darpariaeth hyfforddiant iaith	Defnyddir y Fframwaith Cyfeirio Ewropeaidd Cyffredin	Defnyddir iaith ar gyfer dogfennau yn y gweithle/mewnwyd	Defnyddir iaith ar gyfer meddalwedd, rhaglenni'r we	Defnyddir iaith ar gyfer adroddiadau blynyddol/busnes	Defnyddir iaith ar gyfer marchnata	Defnyddir iaith ar gyfer brandio/hunaniaeth	Defnyddir iaith ar gyfer gwefan
IC	defnyddir yn eang	4	0	5	2	30	28	29	29	32	28
Saesneg Busnes	defnyddir yn eang	3	1	6	2	11	7	4	7	13	10
Ieithoedd ychwanegol	defnyddir yn eang	3	0	3	1	7	3	7	5	11	13

Gall y prif ffactorau sy'n gweld busnesau yn rhoi gwerth ar sgiliau iaith fod yn gysylltiedig â'r gangen unigol, y cleientiaid a rôl unigolyn yn hierarchaeth y cwmni. Er mai dim ond i raddau cyfyngedig iawn y gall yr astudiaeth bresennol adlewyrchu'r datganiad hwn, mae'r data'n cadarnhau astudiaethau mwy sy'n datgelu bod ieithoedd cenedlaethol eraill yn parhau i chwarae rhan bwysig yn y byd proffesiynol. Mae'r astudiaethau hyn hefyd wedi dynodi na ellir sôn am broses gyffredinol o ddisodli'r iaith ranbarthol o blaid Saesneg ond yn hytrach ddisodli sectoraidd a lleol. Mae llawer o fusnesau llai ym mhob rhan o'r wlad yn uniaith.

Canfyddiadau allweddol cyffredinol

Mewn addysg orfodol, mae perthnasedd economaidd cryf Saesneg wedi arwain at gystadleuaeth â'r ieithoedd swyddogol nas siaredir mewn rhanbarth penodol. Mae'r sefyllfa yn gwanhau statws ieithoedd swyddogol llai, yn enwedig Eidaleg. Yn wir, prin y caiff Rhaeto-Romaneg ac Eidaleg eu cynrychioli mewn ysgolion neu fywyd cyhoeddus y tu hwnt i'w tiriogaethau eu hunain.

Mae hynt y broses o integreiddio'r ieithoedd gwreiddiol a siaredir gan fewnfudwyr a gosod gwerth arnynt yn anfodddhaol, mewn ysgolion ac mewn cymdeithas.

Mentrau a chynlluniau peilot addawol

Mae'r *Schweizer Institut für Kinder- und Jugendmedien* yn hyrwyddo llythrennedd mewn teuluoedd. Mae eu prosiect *Schenk mir eine Geschichte* (a gyfieithir yn fras fel *adroddwch stori i mi*) yn mynd i'r afael yn benodol â theuluoedd sydd wedi mewnfudo ac yn eu hannog i feithrin eu ieithoedd eu hunain (www.sikjm.ch/d/?d/lesefoerderung/projekte/family_literacy.html).

Mae *Ch Foundation* yn bwynt cyswllt pwysig i raglenni cyfnwid iaith yn y Swistir a thramor ar gyfer disgyblion ysgol, hyfforddeion a myfyrwyr prifysgol. Fe'i hariennir gan y Cydffederasiwn a'r cantonau yn bennaf (www.chstiftung.ch/).

Sefydlodd y canton Basel-Stadt gysyniad iaith cyffredinol ar gyfer ysgolion, sy'n cydnabod rolau'r ieithoedd amrywiol: Almaeneg fel y brif iaith, yr ieithoedd tramor a gaiff eu haddysgu ac ieithoedd gwreiddiol plant o gefndir mewnfudo (<http://sdu.edubs.ch/faecher/fremdsprachen/herkunftssprachen>).

Mae'r *Forum du bilinguisme* yn ninas ddwyieithog Biel/Bienne yn cefnogi prosiectau sy'n hyrwyddo amlieithrwydd. Er enghraifft, mae'r sefydliad yn dyfarnu 'label dwyieithrwydd' i gwmnïau sy'n arfer diwylliant o ddwyieithrwydd. (www.bilinguisme.ch/).

Mae sawl sefydliad academiaidd yn cyflawni ymchwil gymhwysol ym maes amlieithrwydd. Yn eu plith mae'r *Osservatorio linguistico della Svizzera italiana* a'r *Fachstelle für Mehrsprachigkeit* ym Mhrifysgol Addysg Athrawon Graubünden. Mae'r ddau sefydliad yn dilyn y sefyllfa bresennol o ran polisi iaith yn y Swistir sy'n siarad Eidaleg a Rhaeto-Romaneg ac yn llunio camau gweithredu. Mae'r *Ganolfan Ymchwil er Amlieithrwydd* yn Fribourg/Freiburg, sy'n cael arian gan y Cydffederasiwn, yn cydgysylltu ymchwil a gyflawnir gan sefydliadau academiaidd ar amlieithrwydd sefydliadol ac unigol (www4.ti.ch/index.php?id=38747; www.phgr.ch/Mehrsprachigkeit.404.0.html?&L=0; www.institute-miltilingualism.ch/en).

Cyfeiriadau

Cyfraith y Swistir ar ieithoedd: www.admin.ch/ch/d/ff/2007/6951.pdf

Cyfraith ar ieithoedd: www.gr-lex.gr.ch/frontend/versions/238

Cynhadledd Swisaidd Gweinidogion Cantonaidd Addysg (EDK), Addysgu ieithoedd (yn Almaeneg a Ffrangeg): www.edk.ch/dyn/11911.php (cyrchwyd Ionawr 2012).

Cynhadledd Swisaidd Gweinidogion Cantonaidd Addysg (EDK), Addysgu mewn ieithoedd mewnfudwyr (yn Almaeneg, Ffrangeg ac Eidaleg): www.edk.ch/dyn/19191.php (cyrchwyd Ionawr 2012).

Georges Lüdi; Iwar Werlen (2005) *Sprachenlandschaft in der Schweiz*, Neuchâtel, ar gael yn Swyddfa Ystadegol Ffederal y Swistir.

18 YR WCRÁIN

Lyubov Naydonova

Cyd-destun y wlad

Ar 1 Hydref 2011 roedd 45.7 miliwn o bobl yn byw yn yr Wcráin (yn ôl Gwasanaeth Ystadegau Gwladol yr Wcráin). Yn ôl cyfrifiad cenedlaethol 2001, roedd cynrychiolwyr dros 130 o genhedloedd a grwpiau ethnig yn byw yn yr Wcráin gydag Wcreiniaid yn cyfrif am 77.8% o'r boblogaeth. Rwsiaid oedd y grŵp lleiafrifol mwyaf a oedd yn cynnwys 8.3 miliwn o bobl (17.3% o boblogaeth y wlad). Amcangyfrifir bod yr holl leiafrifoedd ethnoieithyddol mawr eraill yn llai na 2.4 miliwn o bobl gyda'i gilydd (4.9% o boblogaeth yr Wcráin), gyda phob un ohonynt yn cynnwys llai na 300,000 o bobl.¹

Yn unol â *Deddf Ieithoedd* 1989 a *Chyfansoddiad* 1996, Wcreineg yw'r iaith wladol. Yr ieithoedd mwyaf cyffredin yn yr Wcráin yw Wcreineg a Rwseg. Mae'r Wcráin wedi'i rhannu'n rhanbarthol yn rhanbarth Gorllewinol sy'n siarad Wcreineg yn bennaf a rhanbarth Dwyreiniol sy'n siarad Rwseg yn bennaf, tra yn y rhanbarthau canol Rwseg sy'n dominyddu mewn dinasoedd mawr ac Wcreineg mewn trefi bach a phentrefi. Lleolir y trefi a'r dinasoedd mwyaf poblog yn nwyrain yr Wcráin, a ddylanwadodd ar y penderfyniad i ddewis Lviv ar gyfer yr ymchwil deirfwrdeistrefol fel y ddinas fwyaf ymhlith trefi a dinasoedd y Gorllewin sy'n siarad Wcreineg.

Effeithir ar dirlun ieithyddol yr Wcráin gan y ffaith mai Rwseg, nad yw'n iaith wladol, sy'n cael ei defnyddio gan y rhan fwyaf o'r boblogaeth gan gynnwys y bobl hynny sy'n perthyn i'r lleiafrifoedd eraill. Yn 2001, cydnabu 67.5% o drigolion yr Wcráin mai Wcreineg oedd eu mamiaith tra roedd 29.6% o'r farn mai Rwseg ydoedd. Yn ôl data cymdeithasegol diweddar², mae cyfathrebu drwy gyfrwng Wcreineg yn lleihau, tra bod cyfathrebu drwy gyfrwng Rwseg yn cynyddu.

Mae'r cydbwysedd rhwng yr iaith Wcreineg a'r iaith Rwseg yn bwnc trafod llosg yn gyhoeddus. Mae'r defnydd cynyddol o Wcreineg yn golygu bod llai o ddefnydd o Rwseg yn anochel. Yn gynharach, roedd proses hirdymor o wthio'r iaith Wcreineg o'r neilltu o blaid Rwseg. Mae cefnogaeth swyddogol i adnewyddu statws yr iaith Wcreineg ond erys statws gwirioneddol Rwseg mewn cymdeithas yn gryf. Mae taro'r cydbwysedd cywir rhwng Wcreineg a Rwseg yn dasg hanfodol i'r prosesau cymdeithasol a gwleidyddol presennol yn yr Wcráin.

Mae lefel y mewnfudo i'r Wcráin yn gymharol uchel gyda mwy na 30,000 o bobl yn dod i'r wlad bob blwyddyn.¹ Ystyrir bod y mewnfudwyr sy'n byw yn yr Wcráin yn lleiafrifoedd o ran materion ieithyddol. Fel rheol, mae newydd-ddyfodiaid yn dysgu Wcreineg (weithiau) neu Rwseg (yn fwy aml) neu'n defnyddio Saesneg.

Ieithoedd mewn dogfennau swyddogol a chronfeydd data

Ymdrinnir â'r iaith genedlaethol, ieithoedd tramor ac amrywiaeth eang o ieithoedd rhanbarthol/lleiafrifol mewn deddfwriaeth iaith a/neu ddogfennau polisi iaith. (Cyd-)ariennir y broses o ddysgu ac addysgu'r iaith genedlaethol ar gyfer plant a/neu oedolion o'r Wcráin sy'n byw dramor mewn 15 o wledydd yn Ewrop a thramor. Mae'r Wcráin wedi llofnodi ac wedi cadarnhau'r *Siarter Ewropeaidd ar gyfer Ieithoedd Rhanbarthol neu Ieithoedd Lleiafrifol*. Cydnabyddir y 13 iaith ranbarthol/lleiafrifol ganlynol yn y Siarter: Belarwseg, Bwlgareg, Tatareg y Crimea, Gagaus, Almaeneg, Groeg, Hwngareg, Moldofeg, Pwyleg, Rwmaneg, Rwseg, Slofaceg ac Iddew-Almaeneg. Ceir darpariaeth addysg swyddogol ar gyfer pob un o'r ieithoedd hyn ar lefel genedlaethol neu ranbarthol, a gefnogir gan y Siarter.

Ceir dulliau swyddogol o gasglu data cenedlaethol ar amrywiaeth ieithyddol yn yr Wcráin ar ffurf data cyfrifiad a data arolwg a gaiff ei ddiweddarau o bryd i'w gilydd. Mae'r dulliau hyn o gasglu data yn ymddrin ag amrywiadau ar yr iaith genedlaethol ac ieithoedd rhanbarthol/lleiafrifol, yn seiliedig ar gwestiwn am famiaith.

Yn 1996 llofnododd yr Wcráin y *Siarter Ewropeaidd ar gyfer Ieithoedd Rhanbarthol neu Ieithoedd Lleiafrifol* a ddaeth i rym ar 1 Ionawr 2003. Y prif awdurdod sy'n gyfrifol am faterion lleiafrifol yw'r *Pwyllgor Gwladol ar Genhedloedd a Chrefyddau*. Yn ôl y wybodaeth a roddwyd gan y llywodraeth caiff y sefyllfa ieithyddol ei monitro'n swyddogol yn yr Wcráin. Cyflwynodd yr Wcráin ei hadroddiad cyfnodol cyntaf ar weithredu'r Siarter i Gyngor Ewrop ym mis Awst 2007. Cafodd casgliadau'r adroddiad eu derbyn gan y Pwyllgor Arbenigol ar 27 Tachwedd 2008 a chafodd yr argymhellion cyfatebol eu cymeradwyo ym mis Gorffennaf 2010.³ Caiff materion ieithyddol eu hastudio'n systemataidd gan sefydliadau gwyddonol. Cyhoeddir canlyniadau ymchwil gymdeithasol a chymdeithasol-ieithyddol yn y cyfryngau torfol argraffedig ac electronig ac maent ar gael yn eang.

IC=Iaith/Ieithoedd Cenedlaethol
IT=Ieithoedd Tramor
IRh/LI=Ieithoedd Rhanbarthol neu Leiafrifol
IM=Ieithoedd Mewn-fudwyr

Ieithoedd mewn addysg cyn cynradd (Ni cheir darpariaeth ar gyfer ieithoedd mewn-fudwyr)

	Grwpiau targed	Hyd	Gofynion o ran isafswm maint y grŵp	Diwrnodau'r wythnos	Hyfforddiant cyn swydd i athrawon	Hyfforddiant mewn swydd i athrawon	Arian ar gael gan y wladwriaeth
IRh/LI	dim cymorth	≥2 flynedd	>10	>1 diwrnod	pwnc-benodol	pwnc-benodol	llawn
IT	dim cymorth	≥2 flynedd	>10	<0.5 diwrnod	pwnc-benodol	cyffredinol	rhannol
Cymorth IC	pawb	≥2 flynedd	dim	>1 diwrnod	cyffredinol	cyffredinol	llawn

Ieithoedd a gynigir mewn addysg cyn cynradd

IRHLL	Tatareg y Crimea, Almaeneg, Hwngareg, Moldofeg, Pwyleg, Rwmaneg, Rwseg
IT	Saesneg, Ffrangeg, Almaeneg, Sbaeneg: un o'r ieithoedd hyn yn orfodol

Mae system addysgol yr Wcráin yn cynnwys tua 15,000 o sefydliadau cyn cynradd ac 21,000 o ysgolion lle y caiff 84.6% o blant eu haddysgu mewn Wcreineg, caiff 14.8% eu haddysgu mewn Rwseg, ac yn yr ardaloedd lle mae llawer iawn o genhedloedd eraill yn byw caiff tua 6,500 o blant eu haddysgu mewn Hwngareg, Moldofeg, Rwmaneg, Tatareg y Crimea ac ieithoedd eraill. Ni ddarperir addysg cyn cynradd mewn Belarwseg, Gagaus na Groeg. Mae angen i'r awdurdodau gynnal mwy o ymgynghoriadau â siaradwyr yr ieithoedd hyn er mwyn cael gwell amcangyfrif o'r angen i addysgu plant yn eu hieithoedd lleiafrifol ac er mwyn sicrhau bod staff addysgu yn cael eu hyfforddi a bod deunyddiau addysgol yn cael eu darparu.

Ieithoedd mewn addysg gynradd (Ni cheir darpariaeth ar gyfer ieithoedd mewn-fudwyr)

Trefniadaeth

	Cwricwlwm	Cymorth ychwanegol i newydd-ddyfodiaid	Profion diagnostig wrth ddechrau	Monitro sgiliau iaith
Cymorth IC	cydlynol a chlir	absennol	absennol	lefel ysgol

	Grwpiau targed	Cwricwlwm	CLIL	Dechrau addysg iaith	Amserlennu	Gofynion o ran isafswm maint y grŵp	Monitro sgiliau iaith	Y lefel y mae angen ei chyrraedd	Arian ar gael gan y wladwriaeth
IRh/LI	pawb	cydlynol a chlir	eang	o flwyddyn 1	yn ystod oriau ysgol	dim	lefel ysgol	normau ar lefel genedlaethol neu ranbarthol	llawn
IT	pawb	cydlynol a chlir	lleoledig	o'r cyfnod canol	yn rhannol yn ystod oriau ysgol	dim	lefel ysgol	normau ar lefel genedlaethol neu ysgol	llawn

Addysgu

	Cymwysterau athrawon	Hyfforddiant cyn swydd i athrawon	Hyfforddiant mewn swydd i athrawon	Symudedd
Cymorth IC	athrawon cyffredinol	cyffredinol	cyffredinol	Dd/G
IRh/LI	athrawon iaith	pwnc-benodol	pwnc-benodol	Dd/G
IT	athrawon iaith	pwnc-benodol	pwnc-benodol	cymorth ariannol anffurfiol

Ieithoedd a gynigir mewn addysg gynradd

IRh/LI	Belarwseg, Bwlgareg, Tatareg y Crimea, Gagaus, Almaeneg, Groeg, Hebraeg, Hwngareg, Moldofeg, Pwyleg, Rwmaneg, Rwseg, Slofaceg
IT	Gorfodol: Saesneg, Almaeneg, Ffrangeg, Sbaeneg: yn dibynnu ar yr ysgol, un neu ddwy o'r ieithoedd hyn yn orfodol Dewisol: Corëeg, Tyrceg, Armeneg, Tsieceg, Fietnameg: ieithoedd dewisol, allgyrsiol

Arferai ieithoedd tramor gael eu haddysgu o'r pumed dosbarth ond ers 2002 fe'u haddysgwyd o'r ail ddsbarth. Bellach penderfynwyd, o 2010 ymlaen, y bydd un iaith dramor yn orfodol yn yr ysgol gynradd o'r dosbarth cyntaf. Rhwng 1996 a 2006 cynyddodd nifer yr athrawon ieithoedd tramor ar gyfer ysgolion cynradd bron chweplyg.

Ieithoedd mewn addysg uwchradd (Ni cheir darpariaeth ar gyfer ieithoedd mewnfudwyr)

Trefniadaeth

	Cwricwlwm	Cymorth ychwanegol i newydd-ddyfodiaid	Profion diagnostig wrth ddechrau	Monitro sgiliau iaith
Cymorth IC	cydlynol a chlir	absennol	pawb	lefel ysgol

	Grwpiau targed	Cwricwlwm	CLIL	Amserlennu	Gofynion o ran isafswm maint y grŵp	Monitro sgiliau iaith	Y lefel y mae angen ei chyrraedd	Arian ar gael gan y wladwriaeth
IRh/LI	pawb	cydlynol a chlir	eang	yn ystod oriau ysgol	dim	lefel ysgol	normau ar lefel genedlaethol neu ranbarthol	llawn
IT	pawb	cydlynol a chlir	absennol	yn ystod oriau ysgol	dim	lefel ysgol	wedi'i chysylltu â'r Fframwaith Cyfeirio Ewropeaidd Cyffredin	llawn

Addysgu

	Cymwysterau athrawon	Hyfforddiant cyn swydd i athrawon	Hyfforddiant mewn swydd i athrawon	Lefel yr iaith sydd ei hangen	Symudedd
Cymorth IC	athrawon iaith	pwnc-benodol	pwnc-benodol	normau ar lefel genedlaethol neu ysgol	Dd/G
IRh/LI	athrawon iaith	pwnc-benodol	pwnc-benodol	Dd/G	Dd/G
IT	athrawon iaith	pwnc-benodol	pwnc-benodol	safonau cenedlaethol neu ranbarthol	cymorth ariannol anffurfiol

leithoedd a gynigir mewn addysg uwchradd

IRh/LI	Rwseg, Hwngareg, Rwmaneg, Moldofeg, Tatareg y Crimea, Pwyleg, Almaeneg, Slofaceg, Belarwseg, Bwlgareg, Gagaus, Groeg, Iddeweg
IT	Saesneg, Almaeneg, Ffrangeg, Sbaeneg: yn dibynnu ar yr ysgol, un neu ddwy o'r ieithoedd hyn yn orfodol Corëeg, Tyrceg, Armeneg, Tsieceg, Fietnameg: ieithoedd dewisol, allgyrsiol

Mae tua 3.1 miliwn o blant mewn addysg uwchradd. Mae 16 o ieithoedd tramor ar gael i'w hastudio, y caiff un neu ddwy ohonynt eu dewis at ddiben dysgu gorfodol. Mae dros 90% o ysgolion yn dewis Saesneg. Dros y blynyddoedd diwethaf mae nifer yr athrawon Saesneg wedi tyfu dros draean (2008 o gymharu ag 1996).

Caiff yr iaith addysgu a ddefnyddir mewn ysgolion uwchradd ei phennu gan y rhieni ac yn y rhan fwyaf o achosion mae ganddynt ddewis. Mae darpariaeth dda ar gyfer addysgu mewn ysgolion uwchradd gan ddefnyddio ieithoedd lleiafrifol o gymharu â'r lefelau eraill o addysg. Mae'r rhagolygon o ran datblygu pellach yn creu'r amodau i addysgu plant mewn ysgolion uwchradd gan ddefnyddio'r ieithoedd Karaim, Krymchak a Romani.

leithoedd mewn addysg bellach ac addysg uwch

Addysg bellach (mewn tri sefydliad) (Ni cheir darpariaeth ar gyfer ieithoedd Rh/LI nac ieithoedd mewnfudwyr)

		Ystod o raglenni iaith	Cwricwlwm	Y lefel y mae angen ei chyrraedd	Arian ar gael gan y wladwriaeth
IT	Sefydliad A	cyfyngedig	cydlynol a chlir	enedlaethol	llawn
	Sefydliad B	cyfyngedig	cyffredinol	enedlaethol	llawn
	Sefydliad C	cyfyngedig	cydlynol a chlir	dim	llawn

Addysg uwch (mewn tair prifysgol)

	Iaith/ieithoedd a ddefnyddir fel y cyfrwng addysgu	Ieithoedd ar wefan	Grwpiau targed ar gyfer cymorth ychwanegol yn yr iaith genedlaethol	Y lefel i'w chyrraedd o ran addysgu ieithoedd tramor	Recriwtio myfyrwyr nad ydynt yn fyfyrwyr o'r wlad	Symudedd ar gyfer myfyrwyr iaith	Symudedd ar gyfer myfyrwyr nad ydynt yn fyfyrwyr iaith
Prifysgol A	enedlaethol a thramor	enedlaethol, tramor a Rh/LI	pawb	wedi'i chysylltu â'r Fframwaith Cyfeirio Ewropeaidd Cyffredin	rhyngwladol a mewnfudwyr	dewisol	dewisol
Prifysgol B	enedlaethol, tramor a Rh/LI	enedlaethol a thramor	pawb	lefel genedlaethol neu sefydliad	rhyngwladol a mewnfudwyr	dewisol	dewisol
Prifysgol C	enedlaethol yn unig	enedlaethol a thramor	pawb	lefel genedlaethol neu sefydliad	rhyngwladol yn unig	dewisol	dewisol

Caiff addysg alwedigaethol yn yr Wcráin ei darparu mewn 919 o sefydliadau addysgol gwladol gan ddefnyddio Wcreineg yn bennaf. Mae 39 o gyfleusterau addysgol yn cynnig addysg i'w myfyrwyr yn Rwseg (mewn 123 o gyfleusterau caiff y pynciau eu haddysgu mewn Rwseg yn rhannol), a dim ond mewn un sefydliad y caiff y pynciau eu haddysgu mewn Hwngareg. Mewn prifysgolion caiff ieithoedd tramor, yn ogystal ag ieithoedd lleiafrifol, eu haddysgu fel pynciau ar wahân ar y cyfan.

Ieithoedd yn y cyfryngau clyweledol a'r wasg

	Cynrychiadau teledu nad ydynt yn yr iaith genedlaethol	Ffilmiau yn y sinema nad ydynt yn yr iaith genedlaethol	Rhaglenni mewn ieithoedd Rh/LI y tu allan i'r rhanbarth	Argaeledd iaith arwyddion ar y teledu
Kyiv	wedi'u trosleisio weithiau	wedi'u trosleisio	byth	weithiau
Kharkiv	wedi'u hisdeitlo	wedi'u trosleisio	yn rheolaidd	weithiau
Lviv	wedi'u trosleisio weithiau	wedi'u trosleisio weithiau	weithiau	weithiau

Yn ôl gwasanaeth materion cyhoeddus y Weinyddiaeth Gyfiawnder, yn 2007 ymhlith y cyhoeddiadau cenedlaethol a argraffwyd roedd 4,390 o gyfnodolion argraffedig cofrestredig mewn Wcreineg yn unig, 2,495 o gyhoeddiadau mewn Rwseg a 35 o gyhoeddiadau mewn Saesneg. Roedd 4,389 o gyhoeddiadau ffurf gymysg cofrestredig: mae'r rhan fwyaf ohonynt mewn Rwseg ac ieithoedd eraill, mae 13 ohonynt mewn Tatareg y Crimea ac ieithoedd eraill, mae wyth ohonynt mewn Bwlgareg ac ieithoedd eraill, mae deg ohonynt mewn Pwyleg ac ieithoedd eraill, mae pump ohonynt mewn Rwmaneg ac ieithoedd eraill, mae 324 ohonynt mewn Saesneg ac ieithoedd eraill, mae 28 ohonynt mewn Almaeneg ac ieithoedd eraill, mae wyth ohonynt mewn Ffrangeg ac ieithoedd eraill, mae dau ohonynt mewn Tsieinëeg ac ieithoedd eraill, ac mae pedwar ohonynt mewn Belarwseg ac ieithoedd eraill. Nid yw'r tair dinas a ddewiswyd at ddibenion ymchwil yn dangos nifer fawr o gyhoeddiadau mewn ieithoedd lleiafrifol, ar wahân i Rwseg.

Nodweddir y sefyllfa ieithyddol yn y cyfryngau torfol gan ddau beth. Mae a wnelo'r cyntaf â'r gydberthynas rhwng y defnydd o Wcreineg a Rwseg lle mai Rwseg sy'n dominyddu fwyaf, yn enwedig o ran dosbarthiad papurau newydd a chylchgronau, iaith rhaglenni teledu yn ystod oriau brig, a rhestr chwarae gorsafoedd radio FM. Mae a wnelo'r ail â'r ffaith na ddiwellir anghenion iaith grwpiau lleiafrifol eraill o'r boblogaeth yn dda o'r hyn a welir. Felly, dim ond mewn pump o'r 26 o daleithiau yn yr Wcráin y darperir darllediadau teledu a radio mewn ieithoedd lleiafrifol (ar wahân i Rwseg). Erys barn gyffredinol sy'n hanu o'r cyfnod Sofietaidd y dylai grwpiau sy'n siarad ieithoedd eraill orfod diwallu eu hanghenion drwy droi at gyfryngau Rwseg.

Ieithoedd mewn gwasanaethau cyhoeddus a manau cyhoeddus

Strategaethau iaith sefydliadol ar lefel dinas

Nifer yr ieithoedd	Ar y wefan	Defnyddio cyfieithwyr	Cymwyseddau iaith mewn disgrifiadau swydd	Recriwtio siaradwyr ieithoedd	Hyfforddiant iaith a gynigir i gyflogeion	Cofnod o sgiliau iaith cyflogeion
>4						
3-4		Kyiv Kharkiv Lviv		Kharkiv		Kyiv
1-2			Kharkiv Lviv	Lviv	Kyiv Kharkiv Lviv	Kharkiv

Cyfleusterau cyfathrebu

Pum prif gyfleuster cyfathrebu ar lafar	Pum prif gyfleuster cyfathrebu ysgrifenedig
Mewnfudo ac integreiddio Trafnidiaeth Twristiaeth Iechyd Theatr	Twristiaeth Mewnfudo ac integreiddio Iechyd Trafnidiaeth =Addysg =Gwasanaethau brys =Cymdeithasol =Cyfreithiol =Theatr

O ran y gyfraith yr iaith wladol a ddefnyddir fwyaf. O'r ieithoedd lleiafrifol defnyddir Rwseg, yn enwedig yn Nwyrain yr Wcráin. Prin yw'r wybodaeth sydd ar gael am gyfieithu i ieithoedd eraill os na all unigolyn siarad Wcreineg na Rwseg. Caiff dogfennau swyddogol ar lefel llywodraeth leol eu cyhoeddi mewn Wcreineg a Rwseg, gyda chyfathrebu llafar mewn cyrff gwladol a chyhoeddus mewn ieithoedd eraill yn cael ei ddarparu ar lefel cynghorau pentref yn ardaloedd aneddiadau lleiafrifol. Darperir yn llawn ar gyfer defnyddio Wcreineg gan gynrychiolwyr lleiafrifoedd ethnig (ar wahân i Rwseg) wrth gyfathrebu â'r awdurdodau llywodraethol yn yr ardaloedd hynny lle mai'r grŵp ethnig cyfatebol sy'n cynrychioli'r mwyafrif neu ran sylweddol o'r boblogaeth ac fe'i cynrychiolir yn y llywodraeth. Mewn achosion eraill prin, os o gwbl, y caiff gofynion ieithyddol o'r fath eu bodloni.

Roedd Ewro 2012 yn yr Wcráin yn fodd o hyrwyddo cyflwyno Saesneg mewn mannau cyhoeddus a gwasanaethau cyhoeddus a datblygu ymhellach asiantaethau i ddarparu gwasanaethau i dwristiaid sy'n siarad ieithoedd eraill.

Ieithoedd mewn busnes (allan o 24 o gwmnïau)

	STRATEGAETHAU IAITH CYFFREDINOL							
	Argaeledd strategaeth iaith	Pwyslais ar sgiliau iaith wrth recriwtio	Darpariaeth symudedd rhyngwladol	Y defnydd o gyfieithwyr/dehonglwyr allanol	Cofnodi sgiliau iaith staff	Y defnydd o rwydweithiau ar gyfer hyfforddiant iaith	Y defnydd o raglenni/cyllid yr UE	Ymwybyddiaeth o raglenni/cyllid yr UE
Defnyddir yn eang	8	13	6	6	0	2	0	0

		STRATEGAETHAU IAITH MEWNOL						STRATEGAETHAU IAITH ALLANOL			
		Partneriaethau â'r sector addysg	Cynlluniau gwobrwyo/dyrchafu yn seiliedig ar sgiliau iaith	Darpariaeth hyfforddiant iaith	Defnyddir y Fframwaith Cyfeirio Ewropeaidd Cyffredin	Defnyddir iaith ar gyfer dogfennau yn y gweithie/mewnwyd	Defnyddir iaith ar gyfer meddalwedd, rhaglenni'r we	Defnyddir iaith ar gyfer adroddiadau blynyddol/busnes	Defnyddir iaith ar gyfer marchnata	Defnyddir iaith ar gyfer brandio/hunaniaeth	Defnyddir iaith ar gyfer gwefan
IC	defnyddir yn eang	4	0	5	2	30	28	29	29	32	28
Saesneg Busnes	defnyddir yn eang	2	0	6	1	9	15	11	5	11	12
Ieithoedd ychwanegol	defnyddir yn eang	0	1	0	1	10	12	6	7	11	15

Y wybodaeth am amrywiaeth ieithyddol yn y byd masnachol sydd brinnaf. O ran rheoleiddio mentrau, nid oes unrhyw ddarpariaeth yn gwahardd na'n cyfyngu ar y defnydd o ieithoedd rhanbarthol neu leiafrifol, o leiaf ymhlith y bobl sy'n defnyddio'r un iaith.

Canfyddiadau allweddol cyffredinol

Ar un llaw, mae a wnelo'r gydberthynas ieithyddol sy'n bodoli ar hyn o bryd yn yr Wcráin â pharhad y broses o Rwsieddio llwyr ac, ar y llaw arall, ag adlewyrchu dyhead pobl yr Wcráin am hunanymwybyddiaeth genedlaethol a gwleidyddol. Felly, mae'r defnydd o Wcreineg a Rwseg, sydd wedi dod yn bwnc cymdeithasol a gwleidyddol llosg, yn parhau i fod yn fater canolog o ran datblygu iaith. Mae angen i'r dadleuon ynghylch yr angen i ennill bri i Wcreineg a diogelu'r defnydd o Rwseg gael eu datrys yn strategol a'u rheoleiddio'n gyfreithiol.⁴ Edrychir ar feysydd penodol megis y cyfryngau torfol, addysg a bywyd cymdeithasol. Mae angen i'r gwaith o ddatblygu ieithoedd lleiafrifol eraill (ar wahân i Rwseg) gael cymorth gwladwriaethol ac mae angen gweld cynnydd o ran dyhead ymwybodol grwpiau ethnig i ddiogelu a datblygu eu hiaith, ac, felly, fynnu arfer eu hawliau i raddau llawn cyfraith yr Wcráin. Ar hyn o bryd, ieithoedd mewnfudwyr a ddiogelir leiaf yn yr Wcráin ac mae angen i'r awdurdodau gwladol a sefydliadau cyhoeddus dalu mwy o sylw iddynt, yn ogystal â'u cydnabod yn fwy mewn cymdeithas.

Ymhlith y mentrau pwysig ar gyfer cysylltiadau rhyngwladol a datblygiad diwylliannol lleiafrifoedd yr Wcráin mae'r canlynol: digwyddiadau diwylliannol ac addysgol sy'n anelu at ennyn goddefgarwch, parch tuag at ddiwylliant, hanes, arferion a thraddodiadau cynrychiolwyr gwahanol genhedloedd; cymorth ariannol gan y wladwriaeth i bapurau newydd a gyhoeddir mewn ieithoedd lleiafrifol a rhoi cymorth i ganolfannau diwylliannol; llwybrau twristiaeth i'r ardaloedd lle mae llawer iawn o grwpiau lleiafrifol yn byw ynddynt er mwyn meithrin ymwybyddiaeth o amrywiaeth a hunaniaeth ethnig, diwylliannol ac ieithyddol.

Cyfeiriadau

1. Cyhoeddiadau llyfrau cyfeirio ystadegol gan *Wasanaeth Ystadegol Gwladol* yr Wcráin www.ukrstat.gov.ua/
2. *Language Policy and Language Situation in Ukraine: Analysis and Recommendations*/ Gol. J. Besters-Dilger. 2il Argraffiad, Cyhoeddwy'r Kyiv-Mohyla Academy, 2008, 363, Prosiect INTAS *Language Policy in Ukraine: Anthropological, Linguistic and Further Perspectives* (2006-2008).
3. *Application of the Charter in Ukraine. First Stage of Monitoring: A Report by the Committee of Experts about the Charter Application by Ukraine*. Argymhelliad gan Bwyllgor Gweinidogion Cyngor Ewrop o ran y modd y caiff y Siarter ei Chymhwysu gan yr Wcráin/ECRML 2010 (6) – Strasbwrg, 7 Gorffennaf, 2010.
4. *Personal and Interpersonal Backgrounds for Increasing Status Value of Communication in Ukrainian among Students* (V.O. Vasiutynskyi, K.M. Kalachnikova).

19 Y DEYRNAS UNEDIG

19.1 LLOEGR

Teresa Tinsley a Philip Harding-Esch

Cyd-destun y wlad

Mae gan Loegr boblogaeth o 51.8 miliwn ac mae 16% ohonynt yn perthyn i grŵp lleiafrif ethnig neu'n hil gymysg.¹ Caiff ei ffafrio'n ieithyddol nid yn unig am mai prif iaith y byd – Saesneg – yw ei hiaith swyddogol ond hefyd am fod ganddi gryn dipyn o amrywiaeth ieithyddol – canfu'r arolwg diweddaraf fod 233 o ieithoedd gwahanol yn Llundain.² Mae gan un o bob chwech o blant ysgol gynradd (16.8%) ac un o bob wyth o blant ysgol uwchradd (12.3%) iaith arall ar wahân i Saesneg – bron miliwn ledled Lloegr.³

Dim ond un iaith leiafrifol ranbarthol a gydnabyddir yn Lloegr, sef Cernyweg, a ddefnyddir i ryw raddau gan rai cannoedd o bobl (2008).⁴

Ieithoedd mewn dogfennau swyddogol a chronfeydd data

Ymdrinnir â'r iaith Saesneg, ieithoedd tramor, ieithoedd rhanbarthol/lleiafrifol ac ieithoedd mewnfudwyr mewn deddfwriaeth iaith a/neu ddogfennau polisi iaith yn Lloegr. (Cyd-)ariennir y broses o ddysgu ac addysgu Saesneg ar gyfer plant a/neu oedolion o'r DU sy'n byw dramor yng Ngwlad Belg, Belize, Brunei, Canada, Cyprus, Ynysoedd Falkland, yr Almaen, Gibraltar, yr Eidal a'r Iseldiroedd. Mae'r DU wedi llofnodi ac wedi cadarnhau'r *Siarter Ewropeaidd ar gyfer Ieithoedd Rhanbarthol neu Ieithoedd Lleiafrifol*. Yn Lloegr, Cernyweg yw'r iaith ranbarthol/lleiafrifol a gydnabyddir yn y Siarter. Ceir hefyd ddarpariaeth addysg swyddogol ar gyfer yr iaith ar lefel ranbarthol.

Ceir dulliau swyddogol o gasglu data ar amrywiaeth ieithyddol ledled y DU yn Lloegr ar ffurf data o gofrestrau bwrdeistrefol, data cyfrifiad a data arolwg a gaiff eu diweddarau o bryd i'w gilydd. Mae'r dulliau hyn o gasglu data yn ymdrin ag amrywiadau ar yr iaith genedlaethol, ieithoedd rhanbarthol/lleiafrifol ac ieithoedd mewnfudwyr, yn seiliedig ar gwestiwn am iaith yr aelwyd, cwestiwn am brif iaith a chwestiwn am hyfedredd iaith sy'n gofyn pa un a ellir siarad/deall/darllen/ysgrifennu'r iaith (ac i ba raddau y gellir gwneud hynny).

Ychydig iawn o ddeddfwriaeth iaith a geir yn Lloegr neu'r DU yn gyffredinol, y tu hwnt i ddeddfwriaeth sy'n ymwneud ag ieithoedd rhanbarthol a lleiafrifol. Ymdriniwyd â Saesneg, ieithoedd tramor, ieithoedd rhanbarthol a lleiafrifol ac iaith arwyddion mewn amrywiaeth o bolisiâu a chanllawiau iaith. Yn Lloegr, yn dilyn yr etholiad yn 2010, mae llawer o'r rhain wedi cael eu hadolygu.

¹Swyddfa Ystadegau Gwladol, amcangyfrifon o'r boblogaeth breswyl yn ôl grŵp ethnig, 2009.

²Language Capital: mapping the languages of London's schoolchildren, Eversley ac eraill, CILT, 2011.

³Data disgyblion yr Adran Addysg 2011.

⁴Report on the Cornish Language Survey, Partneriaeth yr Iaith Gernyweg, 2008.

IC=Iaith/Ieithoedd Cenedlaethol
IT=Ieithoedd Tramor
IRh/LI=Ieithoedd Rhanbarthol neu Leiafrifol
IM=Ieithoedd MewnFudwyr

Ieithoedd mewn addysg cyn cynradd (Ni cheir darpariaeth ar gyfer ieithoedd tramor nac ieithoedd mewnfudwyr)

	Grwpiau targed	Hyd	Gofynion o ran isafswm maint y grŵp	Diwrnodau'r wythnos	Hyfforddiant cyn swydd i athrawon	Hyfforddiant mewn swydd i athrawon	Arian ar gael gan y wladwriaeth
IRh/LI	pawb	≥2 flynedd	dim	<0.5 diwrnod	cyffredinol	cyffredinol	rhannol
Cymorth IC	pawb	≥2 flynedd	dim	0.5-1 diwrnod	pwnc-benodol	pwnc-benodol	llawn

Ieithoedd a gynigir mewn addysg cyn cynradd

IRh/LI	Cernyweg yng Nghernyw
IT	Ffrangeg, Almaeneg, Eidaleg, Sbaeneg yn achlysurol

O bedair blwydd oed, mae pob plentyn â gallu cyfyngedig yn Saesneg yn cael cymorth ychwanegol gan athrawon a hyfforddwyd yn briodol. Caiff ieithoedd tramor eu haddysgu ar lefel cyn cynradd yn achlysurol ond nid yw athrawon yn cael unrhyw hyfforddiant arbennig. Addysgir Cernyweg yn anffurfiol mewn nifer fach o ysgolion cyn cynradd ac mae nifer yr ysgolion hynny ar gynydd.

Ieithoedd mewn addysg gynradd (Ni cheir darpariaeth ar gyfer ieithoedd mewnfudwyr)

Trefniadaeth

	Cwricwlwm	Cymorth ychwanegol i newydd-ddyfodiaid	Profion diagnostig wrth ddechrau	Monitro sgiliau iaith
Cymorth IC	cydlynol a chlir	cyn prif ffrwd	pawb	enedlaethol safonol

	Grwpiau targed	Cwricwlwm	CLIL	Dechrau addysg iaith	Amserlennu	Gofynion o ran isafswm maint y grŵp	Monitro sgiliau iaith	Y lefel y mae angen ei chyrraedd	Arian ar gael gan y wladwriaeth
IRh/LI	pawb	cydlynol a chlir	absennol	o flwyddyn 1	tu allan i oriau ysgol	5-10	enedlaethol safonol	normau ar lefel genedlaethol neu ranbarthol	rhannol
IT	pawb	cydlynol a chlir	lleoledig	o'r cyfnod canol	yn ystod oriau ysgol	dim	lefel ysgol	normau ar lefel genedlaethol neu ysgol	llawn

Addysgu

	Cymwysterau athrawon	Hyfforddiant cyn swydd i athrawon	Hyfforddiant mewn swydd i athrawon	Symudedd
Cymorth IC	athrawon cyffredinol	pwnc-benodol	pwnc-benodol	Dd/G
IRh/LI	athrawon cyffredinol	dim	pwnc-benodol	Dd/G
IT	athrawon cyffredinol	pwnc-benodol	pwnc-benodol	cymorth ariannol anffurfiol

leithoedd a gynigir mewn addysg gynradd

IRh/LI	Cernyweg
IT	Dewisol. Gall unrhyw iaith fyw gael ei chynnig. Yn ymarferol, Ffrangeg, Sbaeneg ac Almaeneg yn bennaf, gyda rhywfaint o Tsieinëeg, Eidaleg, Wrddw.
IM	Wrddw, Tsieinëeg, Tyrceg, er enghraifft

Yn 2000, yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus eang, argymhellodd *Ymchwiliad Nuffield i leithoedd*¹ y dylid rhoi cyfres o fesurau ar waith yn cynnwys dechrau dysgu iaith arall yn gynnar. Daeth hyn yn un o brif nodau'r *Strategaeth leithoedd Genedlaethol* ar gyfer Lloegr a lansiwyd gan y llywodraeth Lafur yn 2002. Erbyn 2010, yn dilyn rhaglen bellgyrhaeddol i ddatblygu'r cwricwlwm, rhoi cymorth i ysgolion a darparu hyfforddiant i athrawon, roedd 92% o ysgolion cynradd yn cynnig iaith dramor. Er mai Ffrangeg oedd yr iaith fwyaf cyffredin, roedd canllawiau yn annog yn gryf y dylid datblygu cymhwysedd iaith mewn ffordd gyfannol, gan wneud cysylltiadau amlwg â llythrennedd yn Saesneg ac mewn ieithoedd eraill yr oedd y plant yn gyfarwydd â hwy. Fel arfer, caiff ieithoedd tramor eu haddysgu gan athrawon cyffredinol sydd wedi cael hyfforddiant cyn swydd a hyfforddiant mewn swydd mewn addysgu ieithoedd; yn aml, fe'u cefnogir gan gydwethwyr mewn ysgolion uwchradd. Yn y rhan fwyaf o achosion, mae plant yn dechrau dysgu ieithoedd yn saith oed yn eu blwyddyn gyntaf o ysgolion cynradd. Caiff ieithoedd eu haddysgu am 30-40 munud yr wythnos fel arfer.²

Er i'r *Strategaeth leithoedd Genedlaethol* gael ei diddymu pan ddaeth y llywodraeth bresennol i rym, mae canllawiau anstatudol – *Fframwaith Cyfnod Allweddol 2 ar gyfer leithoedd* – ar gael o hyd, ac mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn seilio eu harfer ar y ddogfen hon. Mae ymgynghoriad ar y cwricwlwm cenedlaethol yn mynd rhagddi ar hyn o bryd ac mae'r pwyllgor cynghori wedi argymhell y dylai plant ddechrau dysgu ieithoedd o naw mlwydd oed o leiaf o 2014 ymlaen. Ym mis Mehefin 2012, cyhoeddodd y llywodraeth ei bwriad i ddeddfu i'w gwneud yn ofynnol i blant ddysgu ieithoedd tramor o saith mlwydd oed.

Mae sector *cyflenwol* gwirfoddol llewyrchus yn rhoi cyfleoedd i blant ysgol gynradd ac ysgol uwchradd (ac iau) ddysgu ieithoedd a siaredir yn eu cymunedau. Canfu arolwg yn 2005³ fod dosbarthiadau ar ôl ysgol a dosbarthiadau dydd Sadwrn yn darparu ar gyfer o leiaf 61 o ieithoedd. Rhoddwyd rhaglen genedlaethol arloesol, *Our Languages*, ar waith rhwng 2008 a 2010 i hyrwyddo ac atgyfnerthu'r ddarpariaeth hon a'i chysylltu ag ysgolion prif ffrwd. O dan y cynllun hwn, gall unrhyw iaith gael ei chynnig mewn ysgolion cynradd a chaiff rhai ieithoedd ehangach eu haddysgu, fel arfer mewn ardaloedd lle ceir llawer o bobl o grwpiau lleiafrifol a/neu fel rhan o raglenni 'blas ar iaith' a rhaglenni ymwybyddiaeth rhyngddiwylliannol.

Rhoddwyd arian drwy *Grant Cyflawniad Lleiafrifoedd Ethnig* (EMAG) i roi cymorth iaith i newydd-ddyfodiaid a disgyblion dwyieithog. Cynigir y cyfryw gymorth y tu allan i ddosbarthiadau prif ffrwd ac yn ystod y dosbarthiadau hynny a chaiff sgiliau eu monitro'n rheolaidd. Ers 2011, mae EMAG wedi'i 'brif ffrydio' o fewn cyllid cyffredinol ac mae rhywfaint o amheuaeth ynghylch sut y caiff ei ddefnyddio yn y dyfodol.

Yng Nghernyw, mae tua 30% o ysgolion cynradd y sir yn cynnig Cernyweg, fel pwnc allgyrsiol yn CA2 fel arfer. Mae arian cyfyngedig ar gael i helpu athrawon ac mae cwricwlwm cydlynol ar gyfer Cernyweg ar gael ynghyd ag asesiadau a gysylltir â CEFR.

¹ *Languages – the next generation: The final report and recommendations of the Nuffield Languages Inquiry*, Llundain, 2000

² *Language Learning at Key Stage 2: A longitudinal study*, Adroddiad Ymchwil DCSF RR198, Yr Adran Plant, Ysgolion a Theuluoedd, 2010.

³ *Community Language Learning in England, Wales and Scotland*, CILT, 2005.

leithoedd mewn addysg uwchradd (Ni cheir darpariaeth ar gyfer ieithoedd Rh/LI)

Trefniadaeth

	Cwricwlwm	Cymorth ychwanegol i newydd-ddyfodiaid	Profion diagnostig wrth ddechrau	Monitro sgiliau iaith
Cymorth IC	cydlynol a chlir	cyn prif ffrwd	pawb	cededlaethol safonol

	Grwpiau targed	Cwricwlwm	CLIL	Amserlennu	Gofynion o ran isafswm maint y grŵp	Monitro sgiliau iaith	Y lefel y mae angen ei chyrraedd	Arian ar gael gan y wladwriaeth
IT	pawb	cydlynol a chlir	absennol	yn ystod oriau ysgol	dim	cededlaethol safonol	wedi'i chysylltu â'r Fframwaith Cyfeirio Ewropeaidd Cyffredin	llawn
IM	pawb	cydlynol a chlir	absennol	yn rhannol yn ystod oriau ysgol	dim	cededlaethol safonol	dim normau	rhannol

Addysgu

	Cymwysterau athrawon	Hyfforddiant cyn swydd i athrawon	Hyfforddiant mewn swydd i athrawon	Lefel yr iaith sydd ei hangen	Symudedd
Cymorth IC	athrawon iaith	pwnc-benodol	pwnc-benodol	normau ar lefel genedlaethol neu ysgol	Dd/G
IT	athrawon iaith	pwnc-benodol	pwnc-benodol	safonau cenedlaethol neu ranbarthol	cymorth ariannol anffurfiol
IM	anghymwys	dim	pwnc-benodol	Dd/G	Dd/G

leithoedd a gynigir mewn addysg uwchradd

IT	Un iaith yn orfodol hyd at 14 oed. Unrhyw iaith fyw, ond gydag argymhelliad y dylai fod achrediad addas. Y prif ieithoedd a gynigir yw Ffrangeg, Almaeneg a Sbaeneg, ond maent hefyd yn cynnwys Eidaleg, Wrddw, Arabeg, Pwyleg, Tsieinëeg, Rwseg, Portiwgaleg, Tyrceg a Japanaeg
IM	Arabeg, Tsieinëeg, Wrddw, Pwyleg, Portiwgaleg, Tyrceg, Bengaleg a Phwnjabeg

Mae sefyllfa ieithoedd tramor mewn ysgolion uwchradd yn Lloegr wedi peri pryder ers nifer o flynyddoedd. Roedd ieithoedd yn orfodol i blant hyd at 16 oed tan 2004 pan gafodd yr oedran ei ostwng i 14. Ers hynny, mae'r nifer sy'n sefyll arholiad cyhoeddus wedi lleihau'n ddramatig: yn 2001, gwnaeth 78% o'r cohort sefyll arholiad TGAU mewn ieithoedd; dim ond 43% wnaeth hynny yn 2011. Gwelwyd y lleihad mwyaf yn y nifer sy'n astudio Ffrangeg ac Almaeneg; fodd bynnag, mae Sbaeneg a llawer o'r ieithoedd a addysgir i raddau llai wedi dod yn fwy poblogaidd. Mae nifer y disgyblion 16-18 oed sy'n astudio ieithoedd wedi aros yn fwy sefydlog. Y prif reswm am y llwyddiant cymharol hwn yw'r ffaith bod ieithoedd yn parhau i gael eu dysgu mewn ysgolion annibynnol, sy'n addysgu tua 7% o'r boblogaeth ysgol yn Lloegr ond sy'n cyfrif am dros 40% o'r cofrestrïadau lefel Uwch mewn ieithoedd. Mae hyn yn datgelu pryder allweddol ynghylch dyfodol addysgu ieithoedd yn Lloegr, sef anghydraddoldeb cymdeithasol.

Mae'r llywodraeth bresennol yn annog ysgolion i flaenoriaethu ieithoedd drwy gyflwyno Bagloriaeth Lloegr – math o ardystiad cyffredinol i fyfyrwyr sy'n llwyddo i basio pum pwnc allweddol yn dda, gan gynnwys iaith ar wahân i Saesneg. Mae panel cynghori'r llywodraeth ar y cwricwlwm cenedlaethol wedi argymhell y dylid gwneud dysgu ychwanegol yn orfodol unwaith eto i bob myfyriwr hyd at 16 oed.

Caiff ieithoedd eu haddysgu fel pynciau. Ceir hefyd gynlluniau peilot a chynlluniau CLIL unigol lle defnyddir iaith arall fel cyfrwng addysgu.¹ Cafwyd cwricwlwm clir, a chaiff sgiliau eu monitro gan ddefnyddio offerynnau cenedlaethol. Mae disgrifwyr 'targed cyrhaeddiad' y Cwricwlwm Cenedlaethol yn seiliedig ar yr *Ysgol Ieithoedd* (DCSF 2007) sydd wedi'i halinio â CEFR.

Ceir arholiadau cenedlaethol ar gyfer 28 o ieithoedd ac mae llawer o ysgolion uwchradd yn sicrhau bod disgyblion sydd wedi meithrin cymhwysedd ynddynt, y tu allan i ysgol brif ffrwd fel arfer, yn gallu sefyll yr arholiadau hynny. Mae menter a ddatblygwyd fel rhan o'r Strategaeth Ieithoedd Genedlaethol – *Asset Languages* – wedi llwyddo i ddatblygu arholiadau mewn ieithoedd newydd fel Cernyweg, Tamil ac Iorwba. Nid oedd arholiadau yn bodoli ar gyfer yr ieithoedd hynny yn flaenorol.

Yng Nghernyw, mae nifer fach o ysgolion uwchradd yn cynnig Cernyweg, fel pwnc allgyrsiol fel arfer. Fodd bynnag, mae nifer yr ysgolion hynny ar gynydd. Ni chynigir unrhyw gwricwlwm i ysgolion. Addysgir rhywfaint o Gymraeg a Gwyddeleg mewn canolfannau trefol fel Llundain.

Fel arfer, defnyddir y cwricwlwm Saesneg safonol ar gyfer Saesneg fel ail iaith (EAL).² Ceir diagnosis o sgiliau iaith Saesneg cyn dechrau addysg uwchradd a chaiff sgiliau eu monitro'n rheolaidd gan ddefnyddio offerynnau safonol sy'n briodol i oedran. Mae'r *Grant Cyflawniad Lleiafrifoedd Ethnig* wedi'i ddefnyddio hefyd i roi cymorth iaith mewn ysgolion uwchradd (gweler uchod – addysg gynradd)

¹ *Towards an integrated curriculum – CLIL national statement and guidelines*, 2009.

² Ffynhonnell: www.naldic.org.uk/eal-teaching-and-learning/faqs

Ieithoedd mewn addysg bellach ac addysg uwch

Addysg bellach (mewn tri sefydliad AHG) (Ni cheir darpariaeth ar gyfer ieithoedd Rh/LI)

		Ystod o raglenni iaith	Cwricwlwm	Y lefel y mae angen ei chyrraedd	Arian ar gael gan y wladwriaeth
IT	Sefydliad A	amrywiaeth eang	cydlynol a chlir	enedlaethol	rhannol
	Sefydliad B	dim manylebau	cydlynol a chlir	enedlaethol	rhannol
	Sefydliad C	amrywiaeth eang	cydlynol a chlir	enedlaethol	rhannol
IM	Sefydliad A				
	Sefydliad B				
	Sefydliad C	amrywiaeth eang	cydlynol a chlir	ddim yn berthnasol	rhannol

Addysg uwch (mewn tair prifysgol)

	Iaith/ieithoedd a ddefnyddir fel y cyfrwng addysgu	Ieithoedd ar wefan	Grwpiau targed ar gyfer cymorth ychwanegol yn yr iaith genedlaethol	Y lefel i'w chyrraedd o ran addysgu ieithoedd tramor	Recriwtio myfyrwyr nad ydynt yn fyfyrwyr o'r wlad	Symudedd ar gyfer myfyrwyr iaith	Symudedd ar gyfer myfyrwyr nad ydynt yn fyfyrwyr iaith
Prifysgol A	enedlaethol yn unig	enedlaethol yn unig	pawb	lefel genedlaethol neu sefydliad	rhyngwladol a mewnfudwyr	dewisol	dewisol
Prifysgol B	enedlaethol yn unig	enedlaethol yn unig	pawb	lefel genedlaethol neu sefydliad	rhyngwladol yn unig	gorfodol	dewisol
Prifysgol C	enedlaethol yn unig	enedlaethol yn unig	pawb	lefel genedlaethol neu sefydliad	rhyngwladol a mewnfudwyr	gorfodol	dewisol

Er bod y tri sefydliad galwedigaethol a arolygwyd ar gyfer Ewrop Gyfoethog ei Hieithoedd yn rhoi cymorth iaith, prin iawn yw'r ddarpariaeth ar gyfer ieithoedd yn Lloegr ochr yn ochr â chyrsgau galwedigaethol. Amcangyfrifodd arolwg yn 2006 fod llai nag 1% o'r holl fyfyrwyr ar gyrsgau galwedigaethol yn astudio iaith. O'r rheini, roedd y mwyafrif ohonynt yn astudio Sbaeneg naill ai ar gwrs Teithio a Thwristiaeth neu gwrs Busnes. Canfu arolwg dilynol yn 2011 fod y ddarpariaeth wedi dirywio hyd yn oed ymhellach ac nad oedd llawer yn cael ei wneud yn y sector i gysylltu ieithoedd â'r byd gwaith.¹

Mae prifysgolion yn Lloegr yn cynnig ystod eang o ieithoedd fel pynciau gradd neu fodiwlau cyflenwol. Mae ieithoedd traddodiadol ac astudiaethau llenyddol bob amser wedi bod yn boblogaidd yn y prifysgolion hŷn. Fodd bynnag, bu lleihad yn nifer y rheini sy'n astudio ieithoedd dros y degawdau diwethaf. Ers 2005, mae ieithoedd wedi'u dynodi fel 'pynciau strategol bwysig a bregus' mewn prifysgolion yn Lloegr. Golyga hyn eu bod yn gymwys i gael arian cyhoeddus ychwanegol i fynd i'r afael â'r dirywiad mewn gallu yn y wlad. Mae prinder cyrsiau gradd ar gyfer y pedair iaith gymunedol a siaredir fwyaf (y term yn y DU ar gyfer yr hyn y mae Ewrop Gyfoethog ei Hieithoedd yn cyfeirio atynt fel ieithoedd mewnfudwyr): Wrddw, Cantoneg, Pwnjabeg a Bengaleg, ac mae rhwystrau at hyfforddiant proffesiynol mewn ieithoedd cymunedol ar gyfer addysgu, cyfieithu a dehongli wedi'u nodi fel pryderon.² Mae'r crynhoad o ieithoedd yn y prifysgolion hŷn, y proffil dosbarth cul o israddedigion iaith a'r nifer isel o gyrsgau sy'n cyfuno ieithoedd â phynciau gwyddonol a thechnolegol yn bryderon ychwanegol yn y sector.

¹ *Vocationally related language learning in further education*, CLT, 2006.

² *Community Languages in Higher Education*, McPake a Sachdev, Routes into Languages, 2008.

leithoedd yn y cyfryngau clyweledol a'r wasg (mewn dwy ddinas)

Cynrychiadau teledu nad ydynt yn yr iaith genedlaethol	Ffilmiau yn y sinema nad ydynt yn yr iaith genedlaethol	Rhaglenni mewn ieithoedd Rh/LI y tu allan i'r rhanbarth	Argaeledd iaith arwyddion ar y teledu
wedi'u hisdeitlo	wedi'u hisdeitlo	weithiau	yn rheolaidd

Nid yw'r defnydd o ieithoedd ar wahân i Saesneg yn gyffredin yn y cyfryngau clyweledol prif ffrwd (fel radio a theledu daearol), er bod rhai cyfresi ditectif eithaf poblogaidd yn cael eu hisdeitlo; fodd bynnag, yn y cyfryngau diweddaraf – teledu cebl, lloeren, ar-lein – mae sianeli teledu ar gael yn eang mewn ieithoedd Ewropeaidd ac ieithoedd lleiafrifol. Ceir hefyd llawer o raglenni radio cymunedol mewn dinasoedd yn Lloegr. Mae papurau newydd ar gael mewn ystod eang o ieithoedd ar wahân i Saesneg yn enwedig mewn dinasoedd mawr. Dangosir ffilmiau iaith dramor yn y DU yn yr iaith wreiddiol bob amser gydag isdeitlau yn y sinema ac ar deledu. Cynigir iaith arwyddion yn rheolaidd mewn digwyddiadau pwysig yn y cyfryngau ym mhob dinas ac, yn ôl y gyfraith, mae'n ofynnol i ddarllenedwyr gynnig darpariaeth i wylwyr sydd â nam ar eu clyw.

leithoedd mewn gwasanaethau cyhoeddus a manau cyhoeddus

Strategaethau iaith sefydliadol ar lefel dinas (dwy ddinas)

Nifer yr ieithoedd	Ar y wefan	Defnyddio cyfieithwyr	Cymwyseddau iaith mewn disgrifiadau swydd	Recriwtio siaradwyr ieithoedd	Hyfforddiant iaith a gynigir i gyflogeion	Cofnod o sgiliau iaith cyflogeion
>4	Llundain Sheffield	Llundain Sheffield	Llundain	Llundain Sheffield		Llundain
3-4						
1-2						

Cyfleusterau cyfathrebu

Pum prif gyfleuster cyfathrebu ar lafar	Pum prif gyfleuster cyfathrebu ysgrifenedig
=Dadleuon gwleidyddol a gwneud penderfyniadau =Addysg =Gwasanaethau brys =Iechyd =Cymdeithasol =Cyfreithiol =Mewnfudo ac integreiddio	=Dadleuon gwleidyddol a gwneud penderfyniadau =Addysg =Iechyd =Cymdeithasol =Cyfreithiol =Mewnfudo ac integreiddio =Twristiaeth

Yn y dinasoedd a arolygwyd, mae'r heddlu, y gwasanaethau iechyd, y llysoedd a llywodraeth leol oll yn gwneud defnydd eang o wasanaethau cyfieithu a dehongli a darperir gwybodaeth ysgrifenedig a gwybodaeth ar-lein mewn amrywiaeth o ieithoedd. Diffinnir yr ieithoedd a gefnogir gan ieithoedd y cymunedau a wasanaethir.

Ieithoedd mewn busnes (allan o 21 o gwmnïau)

	STRATEGAETHAU IAITH CYFFREDINOL							
	Argaeledd strategaeth iaith	Pwyslais ar sgiliau iaith wrth recriwtio	Darpariaeth symudedd rhyngwladol	Y defnydd o gyfieithwyr/dehonglwy'r allanol	Cofnodi sgiliau iaith staff	Y defnydd o rwydweithiau ar gyfer hyfforddiant iaith	Y defnydd o raglenni/cyllid yr UE	Ymwybyddiaeth o raglenni/cyllid yr UE
Defnyddir yn eang	8	8	9	7	0	4	0	0

		STRATEGAETHAU IAITH MEWNOL						STRATEGAETHAU IAITH ALLANOL			
		Partneriaethau â'r sector addysg	Cynlluniau gwobrwyo/dyrchafu yn seiliedig ar sgiliau iaith	Darpariaeth hyfforddiant iaith	Defnyddir y Fframwaith Cyfeirio Ewropeaidd Cyffredin	Defnyddir iaith ar gyfer dogfennau yn y gweithle/mewnwyd	Defnyddir iaith ar gyfer meddalwedd, rhaglenni'r we	Defnyddir iaith ar gyfer adroddiadau blynyddol/busnes	Defnyddir iaith ar gyfer marchnata	Defnyddir iaith ar gyfer brandio/hunaniaeth	Defnyddir iaith ar gyfer gwefan
Saesneg	defnyddir yn eang	3	2	10	0	21	21	21	21	19	21
Ieithoedd ychwanegol	defnyddir yn eang	4	3	8	0	8	7	8	9	12	12

Nid yw amcangyfrifon o anghenion sgiliau ymhlith cyflogwyr yn y DU yn dueddol o ddangos bod galw mawr am ieithoedd.¹ Ar y naill law, mae'n bosibl mai'r canfyddiad cul sydd gan lawer o gyflogwr uniaith o werth ieithoedd i'w busnes sy'n gyfrifol am hynny; ar y llaw arall, efallai mai'r ffaith bod y sawl sydd yn gwerthfawrogi sgiliau iaith yn gallu recriwtio o blith nifer fawr o weithwyr amliiaith a aned dramor yw'r rheswm. Fodd bynnag, mae sefydliadau cyflogwyr fel y CBI yn tynnu sylw'n rheolaidd at bwysigrwydd cymhwysedd iaith ar gyfer cystadlu yn yr economi fyd-eang, a dangosodd arolwg diweddar mai dim ond chwarter o fusnesau'r DU nad oedd angen unrhyw sgiliau iaith ar wahân i Saesneg arnynt.² Dangosodd ymchwil ddiweddar ar y dulliau allforio a ddefnyddir gan fusnesau bach a chanolig eu bod yn ystyried iaith a materion diwylliannol cysylltiedig fel un o'r rhwystrau mwyaf i wneud busnes dramor.³

¹ Leitch Review of Skills, *Prosperity for all in the global economy: world class skills*, 2006.

² *Building for Growth: business priorities for education and skills*, Arolwg Addysg a Sgiliau CBI, 2011.

³ *The eXport factor, British SME's approach to doing business overseas*, Barclays a Chanolfan Ymchwil Busnesau Bach Prifysgol Kingston, 2011.

Canfyddiadau allweddol cyffredinol

Cafwyd cryn drafod ynghylch diffyg 'gallu cenedlaethol' mewn ieithoedd yn Lloegr yn ystod y blynyddoedd diwethaf ac yn enwedig yn sgil *Ymchwiliad Nuffield i Ieithoedd* yn 2000. Nodir bod ieithoedd yn bwysig mewn polisiau a thrafodaethau cyhoeddus, ond gwelwyd lluo o ddiffygion o ran arfer a darpariaeth. Mae hyn, yn ddiaw, yn adlewyrchu pwysigrwydd cynyddol Saesneg fel *lingua franca* a'r canfyddiad parhaus bod 'Saesneg yn ddigon' a bod ieithoedd eraill yn 'bwysig ond ddim yn angenrheidiol'.¹ Er gwaethaf hyn, gwelwyd cynnydd sylweddol ac arloesedd o ran dysgu ieithoedd eraill yn gynnar, cefnogi ieithoedd cymunedol a hyrwyddo cymhwysedd iaith ymhlith pobl ifanc. Yn rhannol o ganlyniad i hyn, erys ieithoedd ar yr agenda wleidyddol – nid dyna ddiwedd y stori.

Mentrau a chynlluniau peilot addawol

Mae Lloegr wedi bod yn weithgar iawn o ran cyflwyno tystiolaeth i ddangos bod angen ieithoedd a datblygu seiliau rhesymegol cydlynol dros ddysgu ieithoedd.

Roedd y *Strategaeth Ieithoedd Genedlaethol (2002-2011)* yn gyfrifol am nifer o fentrau allweddol, yn enwedig y fframwaith ar gyfer dysgu ieithoedd i blant saith i 11 oed (y *Fframwaith Cyfnod Allweddol 2 ar gyfer Ieithoedd*) a fframwaith asesu newydd (*Yr Ysgol Ieithoedd/Asset Languages*) yn seiliedig ar CEFR. Roedd y strategaeth hefyd yn cefnogi cysylltiadau rhwng ysgolion prif ffrwd ac ysgolion cyflenwol, fel y fenter *Our Languages*.

Mae *Routes into Languages*, a reolir gan Brifysgol Southampton, wedi targedu myfyrwyr ysgolion uwchradd gyda negeseuon ynghylch pwysigrwydd dysgu ieithoedd drwy ymgysylltiad uniongyrchol â phrifysgolion a chenhadon myfyrwyr. Mae wedi dod â phrifysgolion i gysylltiad ag ysgolion ac wedi datblygu rhai modelau cydweithio hynod lwyddiannus.

Dangosodd adroddiad CILT, *Labour Market Intelligence on Languages and Intercultural Skills in Higher Education*, a gyhoeddwyd yn 2011 fod angen amrywiaeth eang o ieithoedd yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat ar y cyd â sgiliau gwahanol ar gyfer y gweithle.

Yn 2011, lanswyd ymgyrch newydd i annog pobl i ddysgu ieithoedd – *Speak to the Future*. Mae'r ymgyrch hon wedi llwyddo i ennyn cefnogaeth eang ar gyfer pum mater allweddol er mwyn hyrwyddo pwysigrwydd sgiliau iaith a chyflwyno newidiadau mewn polisi ac agwedd.

¹ *Languages in Europe, Towards 2020 – Analysis and Proposals from the LETPP consultation and review. King ac eraill, Llundain, 2011.*

19 Y DEYRNAS UNEDIG

19.2 Cymru

Hywel Jones

Cyd-destun y wlad

Mae gan Gymru boblogaeth o dair miliwn. Yn 2001, roedd 20.8% (582,000) ohonynt yn gallu siarad Cymraeg, yn ôl y cyfrifiad.

Concruyd y wlad gan Loegr yn 1282, ac roedd *Deddf Uno* 1563 yn gwahardd y rheini a oedd yn defnyddio'r Gymraeg rhag dal swydd gyhoeddus. Roedd mwyafrif poblogaeth Cymru yn parhau i siarad Cymraeg tan ddiwedd y 19eg ganrif. Yn sgîl y chwyldro diwydiannol a arweiniodd at lawer o bobl yn mewnfudo, yn bennaf o Loegr ac Iwerddon, ynghyd â gwahardd y Gymraeg bron yn llwyr pan gyflwynwyd addysg orfodol, cafwyd dirywiad yn niferoedd a chanran y siaradwyr Cymraeg a chyfangu'r ardaloedd lle roedd y Gymraeg yn cael ei siarad gan lawer o bobl. Yn 2001, roedd 75,000 o siaradwyr Cymraeg yn byw yn y tair dinas a gwmpaswyd gan ymchwil Ewrop Gyfoethog ei Hieithoedd, yn cynrychioli 12% o gyfanswm eu poblogaeth.

Ar ddechrau'r 20fed ganrif Caerdydd oedd porthladd allforio glo mwya'r byd a daeth morwyr o rannau eraill o'r byd a sefydlu cymunedau o fewnfudwyr yno yn ogystal â rhai yng Nghasnewydd ac Abertawe. Yn fwy diweddar mae mewnfudwyr wedi dod o isgyfandir India ac, ers i'r UE ehangu, o ddwyrain Ewrop. Ganed 25% o'r boblogaeth yn 2001 y tu allan i Gymru (20% yn Lloegr).

Sefydlwyd Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn 1999. Ar y dechrau roedd ei rymoedd deddfwriaethol yn gyfyngedig i is-ddeddfwriaeth mewn rhai meysydd yn unig, gan gynnwys addysg. Ar ôl *Deddf Llywodraeth Cymru* 2006 a refferendwm a gynhaliwyd ym mis Mawrth 2011 mae ganddo bwerau deddfwriaethol sylfaenol bellach mewn llawer o feysydd polisi domestig.

Ieithoedd mewn dogfennau swyddogol a chronfeydd data

Ymdrinnir â'r iaith Saesneg, yr iaith Gymraeg ac ieithoedd tramor mewn deddfwriaeth iaith a/neu ddogfennau polisi iaith. Ni chaiff y broses o ddysgu ac addysgu'r iaith Gymraeg ar gyfer plant a/neu oedolion o Gymru sy'n byw dramor ei (chyd-)ariannu dramor. Mae'r DU wedi llofnodi ac wedi cadarnhau'r *Siarter Ewropeaidd ar gyfer Ieithoedd Rhanbarthol neu Ieithoedd Lleiafrifol*. Ceir darpariaeth addysg swyddogol, a gefnogir gan y Siarter, ar gyfer y Gymraeg yng Nghymru.

Ceir dulliau swyddogol o gasglu data ar amrywiaeth ieithyddol ledled y DU ar ffurf data cyfrifiad, data o gofrestrau bwrdeistrefol a data arolwg a gaiff eu diweddarau o bryd i'w gilydd. Mae'r dulliau hyn o gasglu data yn ymddrin ag amrywiadau ar yr ieithoedd cenedlaethol, ieithoedd rhanbarthol/lleiafrifol ac ieithoedd mewnfudwyr, yn seiliedig ar gwestiwn am iaith yr aelwyd, cwestiwn am brif iaith a chwestiwn am hyfedredd iaith sy'n gofyn pa un a ellir siarad/deall/darllen/ysgrifennu'r ieithoedd hyn (ac i ba raddau y gellir gwneud hyn).

Y darn cyntaf o ddeddfwriaeth yn ymwneud â statws y Gymraeg yn yr oes hon oedd *Deddf Llysoedd Cymru* (1942) a oedd yn caniatáu i'r iaith gael ei defnyddio i raddau cyfyngedig yn y llysoedd. Roedd *Deddf yr Iaith Gymraeg* 1967 yn gwarantu'r hawl i ddefnyddio'r Gymraeg fwy yn y llys ac roedd hefyd yn darparu ar gyfer ei defnyddio mewn gweinyddiaeth gyhoeddus. Sefydlodd *Deddf yr Iaith Gymraeg* (1993) yr egwyddor, wrth gynnal busnes cyhoeddus ac wrth weinyddu cyfiawnder yng Nghymru, y dylid trin y Gymraeg a'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal. Sefydlodd y ddeddf honno *Fwrdd yr Iaith Gymraeg*, gan roi rôl hyrwyddo a hwyluso defnyddio'r Gymraeg iddo a dyletswydd statudol i gytuno ar gynlluniau iaith Gymraeg cyrff cyhoeddus a monitro'r broses o'u rhoi ar waith. Roedd yn rhaid i'r cynlluniau iaith Gymraeg hynny nodi manylion y camau yr oedd cyrff cyhoeddus yn bwriadu eu cymryd er mwyn gweithredu egwyddor cydraddoldeb y ddeddf.

Mae *Mesur y Gymraeg* (2011) yn cynnwys datganiad bod 'gan y Gymraeg statws swyddogol yng Nghymru'. Mae'n darparu ar gyfer sefydlu *Comisiynydd y Gymraeg* a dileu *Bwrdd yr Iaith Gymraeg* (gweler yr adran Mentrau Addawol).

Mae iaith Arwyddion Prydain wedi'i chydabod yn iaith yn ei rhinwedd ei hun ond nid oes ganddi unrhyw ddeddfwriaeth gysylltiedig uniongyrchol, ac yn yr un modd nid oes deddfwriaeth ychwaith gan unrhyw ieithoedd tramor nac ieithoedd mewnfudwyr, ar wahân i ddeddfwriaeth yn ymwneud ag addysg. Pan gyfeirir at ieithoedd ar wahân i'r Gymraeg, mewn deddfwriaeth heblaw am bethau'n ymwneud ag addysg, cyfeirir atynt mewn cysylltiad â chyfleusterau dehongli neu gyfieithu yn bennaf.

IC=iaith/leithoedd Cenedlaethol
IT=leithoedd Tramor
IRh/LI=leithoedd Rhanbarthol neu Leiafrifol
IM=leithoedd Mewnfuldwy

leithoedd mewn addysg cyn cynradd (Ni cheir darpariaeth ar gyfer ieithoedd tramor nac ieithoedd mewnfuldwy)

	Grwpiau targed	Hyd	Gofynion o ran isafswm maint y grŵp	Diwrnodau'r wythnos	Hyfforddiant cyn swydd i athrawon	Hyfforddiant mewn swydd i athrawon	Arian ar gael gan y wladwriaeth
IRh/LI	pawb	≥ 2 flynedd	dim	>1 diwrnod	pwnc-benodol	pwnc-benodol	llawn
Cymorth IC	pawb	≥ 2 flynedd	dim	0.5-1 diwrnod	pwnc-benodol	pwnc-benodol	llawn

leithoedd a gynigir mewn addysg cyn cynradd

IRHLL	Welsh
--------------	-------

Ni ddarperir addysg cyn cynradd gan y wladwriaeth yn gyffredinol; daw'r rhan fwyaf o'r ddarpariaeth o'r sector gwirfoddol. Ffurfiwyd sefydliad, a elwir bellach yn *Mudiad Meithrin*, yn 1971 â'r nod o ddarparu ysgolion meithrin drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae ganddo dros 550 o gylchoedd chwarae, ac amcangyfrifir ei fod yn darparu ar gyfer tua 17% o blant dwy flwydd oed Cymru. Daw dros ddwy ran o dair o'r plant sy'n mynd i'w gylchoedd chwarae o gartrefi lle na siaredir Cymraeg fel prif iaith. Mynychu'r cylch chwarae yw eu cyflwyniad i'r iaith.

leithoedd mewn addysg gynradd (Ni cheir darpariaeth ar gyfer ieithoedd tramor nac ieithoedd mewnfuldwy)

Trefniadaeth

	Cwricwlwm	Cymorth ychwanegol i newydd-ddyfodiaid	Profion diagnostig wrth ddechrau	Monitro sgiliau iaith
Cymorth IC	cyffredinol	cyn prif ffrwd	pawb	lefel ysgol

	Grwpiau targed	Cwricwlwm	CLIL	Dechrau addysg iaith	Amserlennu	Gofynion o ran isafswm maint y grŵp	Monitro sgiliau iaith	Y lefel y mae angen ei chyrraedd	Arian ar gael gan y wladwriaeth
IRh/LI	pawb	cyffredinol	eang	o flwyddyn 1	yn ystod oriau ysgol	dim	lefel ysgol	normau ar lefel genedlaethol neu ranbarthol	llawn

Addysgu

	Cymwysterau athrawon	Hyfforddiant cyn swydd i athrawon	Hyfforddiant mewn swydd i athrawon	Symudedd
Cymorth IC	athrawon cyffredinol	pwnc-benodol	pwnc-benodol	Dd/G
IRh/LI	athrawon iaith	pwnc-benodol	pwnc-benodol	Dd/G

Ieithoedd a gynigir mewn addysg gynradd

IRh/LI	Cymraeg
---------------	---------

Caiff dros 20% o ddisgyblion mewn ysgolion cynradd eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg, cyfran sydd wedi bod yn cynyddu'n raddol ers blynyddoedd lawer. Mae addysg drwy gyfrwng y Gymraeg ar gael ledled Cymru. Addysgir y Gymraeg fel ail iaith i bob disgybl arall. Nid oes addysg drwy gyfrwng ieithoedd cymunedol (y term a ffeirir yn y DU ar gyfer yr hyn y mae Ewrop Gyfoethog ei Hieithoedd yn cyfeirio ato fel ieithoedd mewnfudwyr) nac ychwaith ieithoedd tramor ar gael. Caiff ieithoedd tramor eu haddysgu mewn rhai ysgolion, ynghyd ag ieithoedd mewnfudwyr i raddau llai. Darperir cymorth Saesneg ar gyfer disgyblion o leiafrifoedd ethnig hefyd.

Ieithoedd mewn addysg uwchradd (Ni cheir darpariaeth ar gyfer ieithoedd mewnfudwyr)**Trefniadaeth**

	Cwricwlwm	Cymorth ychwanegol i newydd-ddyfodiaid	Profion diagnostig wrth ddechrau	Monitro sgiliau iaith
Cymorth IC	cydlynol a chlir	cyn prif ffrwd	pawb	cededlaethol safonol

	Grwpiau targed	Cwricwlwm	CLIL	Amserlennu	Gofynion o ran isafswm maint y grŵp	Monitro sgiliau iaith	Y lefel y mae angen ei chyrraedd	Arian ar gael gan y wladwriaeth
IRh/LI	pawb	cydlynol a chlir	eang	yn ystod oriau ysgol	dim	cededlaethol safonol	heb ei nodi	llawn
IT	pawb	cydlynol a chlir	absennol	yn ystod oriau ysgol	dim	cededlaethol safonol	heb ei nodi	llawn

Addysgu

	Cymwysterau athrawon	Hyfforddiant cyn swydd i athrawon	Hyfforddiant mewn swydd i athrawon	Lefel yr iaith sydd ei hangen	Symudedd
Cymorth IC	athrawon iaith	pwnc-benodol	pwnc-benodol	heb ei nodi	Dd/G
IRh/LI	athrawon iaith	pwnc-benodol	pwnc-benodol	Dd/G	Dd/G
IT	athrawon iaith	pwnc-benodol	pwnc-benodol	dim	yn cael ei gynnwys mewn hyfforddiant

Ieithoedd a gynigir mewn addysg uwchradd

IRh/LI	Cymraeg
IT	Ffrangeg, Almaeneg, Sbaeneg: un o'r ieithoedd hyn yn orfodol

Mae addysg uwchradd drwy gyfrwng y Gymraeg hefyd yn cynyddu. Erbyn 2010/11 roedd 16.7% o ddisgyblion yn dysgu Cymraeg fel iaith gyntaf (roedd bron pob un mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg). Addysgir y Gymraeg fel ail iaith i bob disgybl arall er bod lefel y cyflawniad yn isel. Addysgir o leiaf un iaith dramor i bob disgybl hefyd yn ystod ei dair blynedd gyntaf yn yr ysgol uwchradd. Mae'r ganran sy'n mynd ymlaen i sefyll arholiad cyhoeddus mewn iaith dramor fodern yn 15 oed wedi bod yn gostwng ers nifer o flynyddoedd: cofrestrwyd 28% ar gyfer arholiad TGAU mewn iaith dramor fodern yn 2010, o gymharu â 50% yn 1997. Addysgir ieithoedd cymunedol mewn dyrnaid o ysgolion uwchradd a hynny'n ysbeidiol, yn dibynnu ar niferoedd y disgyblion sy'n gallu amrywio yn ôl tueddiadau mewnfudo. Yn yr un modd ag yn y sector cynradd, darperir cymorth Saesneg ar gyfer disgyblion o leiafrifoedd ethnig.

leithoedd mewn addysg bellach ac addysg uwch

Addysg bellach (mewn tri sefydliad AHG)

		Ystod o raglenni iaith	Cwricwlwm	Y lefel y mae angen ei chyrraedd	Arian ar gael gan y wladwriaeth
IRh/LI	Sefydliad A	amrywiaeth eang	cydlynol a chlir	Dd/G	rhannol
	Sefydliad B	amrywiaeth eang	cydlynol a chlir	Dd/G	rhannol
	Sefydliad C	amrywiaeth eang	cydlynol a chlir	Dd/G	rhannol
IT	Sefydliad A	amrywiaeth eang	cydlynol a chlir	wedi'i chysylltu â'r Fframwaith Cyfeirio Ewropeaidd Cyffredin	rhannol
	Sefydliad B	amrywiaeth eang	cydlynol a chlir	wedi'i chysylltu â'r Fframwaith Cyfeirio Ewropeaidd Cyffredin	rhannol
	Sefydliad C	amrywiaeth eang	cydlynol a chlir	wedi'i chysylltu â'r Fframwaith Cyfeirio Ewropeaidd Cyffredin	rhannol
IM	Sefydliad A				
	Sefydliad B				
	Sefydliad C	cyfyngedig	cyffredinol	ddim yn berthnasol	llawn

Addysg uwch (mewn tair prifysgol)

	Iaith/ieithoedd a ddefnyddir fel y cyfrwng addysgu	ieithoedd ar wefan	Grwpiau targed ar gyfer cymorth ychwanegol yn yr iaith genedlaethol	Y lefel i'w chyrraedd o ran addysgu ieithoedd tramor	Recriwtio myfyrwyr nad ydynt yn fyfyrwyr o'r wlad	Symudedd ar gyfer myfyrwyr iaith	Symudedd ar gyfer myfyrwyr nad ydynt yn fyfyrwyr iaith
Prifysgol A	cenedlaethol, tramor a Rh/LI	cenedlaethol, tramor a Rh/LI	pawb	lefel genedlaethol neu sefydliad	rhyngwladol yn unig	gorfodol	dewisol
Prifysgol B	cenedlaethol, tramor a Rh/LI	cenedlaethol, tramor a Rh/LI	cyfyngedig	lefel genedlaethol neu sefydliad	rhyngwladol yn unig	gorfodol	dewisol
Prifysgol C	cenedlaethol, tramor a Rh/LI	cenedlaethol, tramor a Rh/LI	cyfyngedig	lefel genedlaethol neu sefydliad	rhyngwladol yn unig	ddim ar gael	dewisol

Mae'r rhan fwyaf o gymunedau mewnfudwyr yn y tair dinas a gwmpaswyd gan ymchwil Ewrop Gyfoethog ei Hieithoedd. Serch hynny, prin yw'r galw a'r ddarpariaeth ar gyfer addysg mewn unrhyw iaith gymunedol benodol. Mae defnyddio'r Gymraeg fel cyfrwng addysgu yn llawer mwy prin yn y sectorau hyn. Mewn prifysgolion, mae'r ddarpariaeth o ran y Gymraeg, er nad yw'n helaeth iawn o hyd, wedi'i chrynhoi'n bennaf mewn prifysgolion nad oedd yr ymchwil yn eu cwmpasu, sef Bangor ac Aberystwyth, ac ym Mhrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant, Caerfyrddin.

Roedd trigolion o'r Undeb Ewropeaidd yn cyfrif am 5% o'r cofrestrïadau mewn sefydliadau addysg uwch yng Nghymru yn 2009/10 a thrigolion o wledydd eraill nad ydynt yn yr UE yn cyfrif am 13% arall. Ceir darpariaeth sylweddol i gefnogi'r myfyrwyr hyn yn Saesneg.

leithoedd yn y cyfryngau clyweledol a'r wasg

Cynrychiadau teledu nad ydynt yn yr iaith genedlaethol	Ffilmiau yn y sinema nad ydynt yn yr iaith genedlaethol	Rhaglenni mewn ieithoedd Rh/LI y tu allan i'r rhanbarth	Argaeledd iaith arwyddion ar y teledu
wedi'u hisdeitlo	wedi'u hisdeitlo	bob amser	weithiau

Mae defnyddio'r Gymraeg mewn cyfryngau clyweledol yn gyfyngedig i'r unig sianel deledu Gymraeg, S4C, (a sefydlwyd yn 1982) ac i raddau helaeth i wasanaeth radio Cymraeg cenedlaethol BBC Radio Cymru (a sefydlwyd yn 1977).

Nid oes gan ieithoedd eraill bron dim presenoldeb o gwbl yn safleoedd eraill y cyfryngau clyweledol prif ffrwd, heblaw am ambell i ffilm wedi'i hisdeitlo ar y teledu.

leithoedd mewn gwasanaethau cyhoeddus a manau cyhoeddus

Strategaethau iaith sefydliadol ar lefel dinas

Nifer yr ieithoedd	Ar y wefan	Defnyddio cyfieithwyr	Cymwyseddau iaith mewn disgrifiadau swydd	Recriwtio siaradwyr ieithoedd	Hyfforddiant iaith a gynigir i gyflogeion	Cofnod o sgiliau iaith cyflogeion
>4		Caerdydd Abertawe Casnewydd				
3-4						
1-2	Caerdydd Abertawe		Caerdydd Abertawe Casnewydd	Caerdydd Abertawe Casnewydd	Caerdydd Abertawe Casnewydd	Caerdydd Abertawe Casnewydd

Cyfleusterau cyfathrebu

Pum prif gyfleuster cyfathrebu ar lafar	Pum prif gyfleuster cyfathrebu ysgrifenedig
Cymdeithasol Cyfreithiol Mewnfudo ac integreiddio Twristiaeth Iechyd	cymdeithasol Twristiaeth =Addysg =Cyfreithiol =Trafnidiaeth =Theatr

Mae cynlluniau iaith Gymraeg mewn llywodraeth leol a chanolog ac yn ei hasiantaethau, sy'n ofynnol yn ôl *Deddf yr Iaith Gymraeg* (2003), yn sicrhau bod nifer o wasanaethau ar gael yn Gymraeg ac y defnyddir y Gymraeg yn helaeth, er enghraifft ar arwyddion a ffurflenni. Fodd bynnag, gan fod yr ymchwil wedi canolbwyntio ar dair dinas lle mae canran y siaradwyr Cymraeg yn isel o gymharu ag ardaloedd yng ngogledd a gorllewin Cymru, mae llai o wasanaethau'n cael eu darparu drwy gyfrwng y Gymraeg nag a fyddai'n cael eu darparu mewn ardaloedd lle mae canran uwch o siaradwyr Cymraeg yn byw. Ar y llaw arall, gan fod y dinasoedd hyn yn cynnwys crynodaau uwch o fewnfudwyr, mae'n debygol bod gwasanaethau dehongli yn cael eu defnyddio'n fwy helaeth nag y byddent yn cael eu defnyddio mewn manau eraill yng Nghymru.

leithoedd mewn busnes (allan o 20 o gwmnïau)

STRATEGAETHAU IAITH CYFFREDINOL								
	Argaeledd strategaeth iaith	Pwyslais ar sgiliau iaith wrth recriwtio	Darpariaeth symudedd rhyngwiadol	Y defnydd o gyfieithwyr/dehonglwy'r allanol	Cofnodi sgiliau iaith staff	Y defnydd o rwydweithiau ar gyfer hyfforddiant iaith	Y defnydd o raglenni/cyllid yr UE	Ymwybyddiaeth o raglenni/cyllid yr UE
Ymarfer yn eang	1	2	2	3	1	0	0	0

		STRATEGAETHAU IAITH MEWNOL						STRATEGAETHAU IAITH ALLANOL			
		Partneriaethau â'r sector /Addysg	Cynlluniau gwobrwyo/dyrchafu yn seiliedig ar sgiliau iaith	Darpariaeth hyfforddiant iaith	Defnyddir y Fframwaith Cyfeirio Ewropeaidd Cyffredin	Defnyddir iaith ar gyfer dogfennau yn y gweithle/mewnwyd	Defnyddir iaith ar gyfer meddalwedd, rhaglenni'r we	Defnyddir iaith ar gyfer Adroddiadau Blynyddol/Busnes	Defnyddir iaith ar gyfer Marchnata	Defnyddir iaith ar gyfer Brandio/Hunaniaeth	Defnyddir iaith ar gyfer Gwefan
Saesneg	defnyddir yn eang	0	1	1	0	20	20	20	20	20	20
Cymraeg	defnyddir yn eang	0	0	0	0	1	0	0	2	3	2
leithoedd ychwanegol	defnyddir yn eang	0	0	0	0	0	0	0	1	1	3

Cyfyngedig yw'r defnydd a wneir o ieithoedd heblaw am Saesneg mewn busnes mewnol yn y dinasoedd ond defnyddir rhywfaint o'r Gymraeg ar arwyddion ac mewn hysbysebion.

Canfyddiadau allweddol cyffredinol

Gwneir ymdrechion o hyd i sicrhau y caiff y Gymraeg a'r Saesneg eu trin yn gyfartal yng Nghymru. Gwnaed cynnydd da mewn addysg yn yr ysgol ond erys llawer i'w gyflawni mewn meysydd eraill. Cymharol wan yw presenoldeb ieithoedd tramor ac ieithoedd mewn fudwyr hyd yn oed mewn addysg yn yr ysgol.

Mentrau a chynlluniau peilot addawol

Sefydlwyd y *Coleg Cymraeg Cenedlaethol* yn 2011. Nid endid daearyddol unigol yw, na chorff sy'n dyfarnu graddau. Bydd yn gweithio gyda phob prifysgol yng Nghymru i sicrhau y ceir rhagor o gyfleoedd i fyfyrwyr astudio drwy gyfrwng y Gymraeg.

O dan *Fesur y Gymraeg* (2011) sefydlwyd Comisiynydd y Gymraeg ym mis 1 Ebrill 2012. Rhoddir swyddogaethau i'r Comisiynydd i hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg; gweithio tuag at sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg yng Nghymru; ymchwilio i achosion o ymyrryd â'r rhyddid i ddefnyddio'r Gymraeg; a chynnal ymchwiliadau i faterion cysylltiedig. Mae'r Comisiynydd yn ystyried yr 'egwyddor y dylai personau yng Nghymru allu byw eu bywydau drwy gyfrwng y Gymraeg os ydynt yn dymuno gwneud hynny'. Rhaid i Weinidogion Cymru (yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru) fabwysiadu strategaeth yn nodi sut maent yn bwriadu hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg. Mae hefyd yn caniatáu iddynt nodi safonau y mae'n rhaid i gyrrff cyhoeddus gydymffurfio â hwy. Bydd y safonau hyn yn disodli'r system bresennol o gynlluniau iaith Gymraeg. Bydd y Comisiynydd yn goruchwyllo'r broses o roi'r safonau ar waith.

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei strategaeth newydd ar gyfer y Gymraeg ar 1 Mawrth 2012.

Cyfeiriadau

Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg: gwybodaeth. Dogfen wybodaeth Rhif: 083/2010, Caerdydd, Llywodraeth Cymru (2010). http://wales.gov.uk/docs/dcells/publications/100420welshmediu_mstrategycy.pdf

Sicrhau bod ieithoedd yn cyfrif: ieithoedd tramor modern mewn ysgolion uwchradd a Llwybrau Dysgu 14–19 Dogfen wybodaeth Rhif: 088/2010, Caerdydd, Llywodraeth Cymru (2010). <http://wales.gov.uk/topics/educationandskills/publications/guidance/makinglanguagescount/?lang=cy>

Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 www.legislation.gov.uk/ukpga/1993/38/pdfs/ukpga_19930038_en.pdf

Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 www.legislation.gov.uk/mwa/2011/1/pdfs/mwa_20110001_we.pdf

Iaith fyw: iaith byw, Caerdydd, Llywodraeth Cymru (2012). <http://wales.gov.uk/docs/dcells/publications/122902wls201217cy.pdf>

19 Y DEYRNAS UNEDIG

19.3 Yr Alban

Teresa Tinsley a Philip Harding-Esch

Cyd-destun y wlad

Mae gan yr Alban boblogaeth o 5.22 miliwn. Mae 92,000, neu ychydig o dan 2% ohonynt, yn gwybod rhywfaint o Aeleg.¹ Mae'r Alban wedi bod yn denu mewnfudwyr ers 2002²: yn ôl cyfrifiad 2001, roedd pobl o leiafrifoedd ethnig nad oeddent yn wyn yn cyfrif am 2% o'r boblogaeth gyda'r mwyafrif o darddiad Pacistanaid. Fodd bynnag, erbyn 2009 dangosodd arolwg cenedlaethol o ddisgyblion³ fod 4.3% o blant ysgol yn defnyddio iaith ar wahân i Saesneg yn bennaf yn y cartref. Nodwyd bod cyfanswm o 138 o ieithoedd yn cael eu siarad, gyda'r iaith Bwyleg ar frig y rhestr (0.8% o'r boblogaeth ysgol) ac yna Bwnjabeg, Wrđw, Arabeg, Cantoneg, Ffrangeg a Gaeleg yn y drefn honno. Roedd 626 o ddisgyblion yn siarad Gaeleg yn bennaf yn y cartref, ychydig yn llai nag un o bob 1,000. Fodd bynnag, mae llawer mwy ohonynt yn cael eu haddysgu drwy gyfrwng Gaeleg neu'n cael eu haddysgu mewn Gaeleg drwy gyfrwng Gaeleg – 4,064 yn 2011, sef un o bob 180 o ddisgyblion.⁴

Dyma'r ail flwyddyn o weithredu *Cwricwlwm Rhagoriaeth* newydd yn yr Alban. Mae'r Cwricwlwm hwn yn trin y broses ddysgu mewn ffordd gyfannol yn hytrach nag fel cyfres o bynciau ar wahân. Lleisiwyd pryderon y gallai hyn waethygu'r sefyllfa ar gyfer ieithoedd wrth i ysgolion cynradd ac ysgolion uwchradd roi blaenoriaeth i rifedd, llythrennedd ac iechyd a lles. O ganlyniad, gorfodwyd Arolygiaeth Ysgolion yr Alban i wneud datganiad cryf ynghylch y pwysigrwydd y mae'n ei roi ar ieithoedd yn y cwricwlwm.⁵

Nid yw ieithoedd mewnfudwyr yn dueddol o gael eu cynnig mewn ysgolion yn yr Alban. Yn hytrach, rhoddir pwyslais ar addysgu Saesneg i blant mewnfudwyr.

Ieithoedd mewn dogfennau swyddogol a chronfeydd data

Ymdrinnir â'r iaith Saesneg, ieithoedd tramor, ieithoedd rhanbarthol/Ileiafrifol ac ieithoedd mewnfudwyr mewn deddfwriaeth iaith a/neu ddogfennau polisi iaith yn yr Alban. (Cyd-)ariennir y broses o ddysgu ac addysgu Saesneg ar gyfer plant a/neu oedolion o'r DU sy'n byw dramor yng Ngwlad Belg, Belize, Brunei, Canada, Cyprus, Ynysoedd Falkland, yr Almaen, Gibraltari, yr Eidal a'r Iseldiroedd. Mae'r DU wedi llofnodi ac wedi cadarnhau'r *Siarter Ewropeaidd ar gyfer Ieithoedd Rhanbarthol neu Ieithoedd Lleiafrifol*. Yn yr Alban, cydnabyddir yr ieithoedd rhanbarthol/Ileiafrifol canlynol yn y Siarter: Sgoteg a Gaeleg. Ceir darpariaeth addysgu swyddogol ar gyfer Gaeleg ar lefel ranbarthol, a gefnogir gan y Siarter.

Ceir dulliau swyddogol o gasglu data ar amrywiaeth ieithyddol ledled y DU yn yr Alban ar ffurf data cyfrifiad, data o gofrestrau bwrdeistrefol a data arolwg a gaiff eu diweddarau o bryd i'w gilydd. Mae'r dulliau hyn o gasglu data yn ymddrin ag amrywiadau ar yr iaith genedlaethol, ieithoedd rhanbarthol/Ileiafrifol ac ieithoedd mewnfudwyr, yn seiliedig ar gwestiwn am iaith yr aelwyd, prif gwestiwn iaith a chwestiwn am hyfiedredd iaith yn yr ieithoedd Saesneg, Sgoteg a Gaeleg sy'n gofyn pa un a ellir siarad/deall/darllen/ysgrifennu'r ieithoedd (ac i ba raddau y gellir gwneud hyn).

O dan *Ddeddf yr Iaith Aeleg* (2005) roedd yn ofynnol creu *Cynllun Cenedlaethol ar gyfer Gaeleg* ac mae llywodraeth yr Alban yn ymrwymedig i wella statws yr iaith a'r modd y caiff ei chaffael a'i defnyddio. Yn ddiweddar, mae'r llywodraeth wedi cyhoeddi *Cynllun Cenedlaethol drafft ar gyfer Gaeleg 2012-2017*¹ sy'n cynnwys datblygu cwricwlwm mewn Gaeleg. Mae'r statws cymharol ffafriol a roddir i'r iaith Aeleg wedi codi cwestiynau ynghylch sefyllfa'r Sgoteg, sydd hefyd yn cael ei chydabod o dan y *Siarter Ewropeaidd ar gyfer Ieithoedd Rhanbarthol neu Ieithoedd Lleiafrifol*, ynghyd â Sgoteg Wlster. Galwodd *Adroddiad y Gweithgor Gweinidogol ar yr Iaith Sgoteg* (Tachwedd 2010)² ar lywodraeth yr Alban i ddatblygu Polisi ar gyfer yr iaith Sgoteg ac i'r Alban gael ei chyflwyno'n rhyngwladol fel gwlad deirieddog.

Adolygwyd y polisiau a'r arferion ar gyfer addysgu Saesneg fel iaith Ychwanegol (EAL) a'r cymorth a roddir i newydd-ddyfodiad yn 2009.³ Mae'r adroddiad dilynol yn argymhell y dylid rhannu'r arfer da a welir mewn awdurdodau lleol yn fwy eang, gan

¹ *Scotland's Census 2001: Gaelic Report 2005*, Swyddfa Gofrestru Gyffredinol yr Alban.

² *Scotland's Population 2010, The Registrar General's Annual Review of Demographic Trends*, August, 2011.

³ *Pupils in Scotland 2009*, Cyhoeddiadau Llywodraeth yr Alban.

⁴ Llywodraeth yr Alban, *Cyfrifiad Disgyblion, Data Atodol 2011*.

⁵ TESS 4/6/2010.

¹ www.scottish.parliament.uk/parliamentarybusiness/CurrentCommittees/45383.aspx

² *Report of the Ministerial Working Group on the Scots Language*, Tachwedd 2010.

³ *Adroddiad Count Us In, 2009* www.ltscotland.org.uk/Images/cuimnnus_tcm4-618947.pdf

gynnwys: croesawu newydd-ddyfodiaid a dulliau o gynnal asesiadau cychwynnol a pharhaus; galluogi plant a phobl ifanc sy'n newydd-ddyfodiaid i ddefnyddio eu hiaith gyntaf fel ffordd o

ddysgu; a darparu hyfforddiant staff wedi'i dargedu'n dda i alluogi staff i ddiwallu anghenion plant a phobl ifanc sy'n newydd-ddyfodiaid yn fwy effeithiol.

IC=Iaith/Ieithoedd Cenedlaethol
IT=Ieithoedd Tramor
IRh/LI=Ieithoedd Rhanbarthol neu Leiafrifol
IM=Ieithoedd Mewnfudwyr

Ieithoedd mewn addysg cyn cynradd (Ni cheir darpariaeth ar gyfer ieithoedd mewnfudwyr)

	Grwpiau targed	Hyd	Gofynion o ran isafswm maint y grŵp	Diwrnodau'r wythnos	Hyfforddiant cyn swydd i athrawon	Hyfforddiant mewn swydd i athrawon	Arian ar gael gan y wladwriaeth
IRh/LI	dim cymorth	1 flwyddyn	dim	>1 diwrnod	pwnc-benodol	dim	llawn
IT	dim cymorth	<1 flwyddyn	dim	<0.5 diwrnod	dim	dim	rhannol
Cymorth IC ychwanegol	pawb	1 flwyddyn	dim	<0.5 diwrnod	pwnc-benodol	pwnc-benodol	llawn

Ieithoedd a gynigir mewn addysg cyn cynradd

IRh/LI	Gaeleg
IT	Tseinëeg, Ffrangeg, Almaeneg, Eidaleg, Sbaeneg – ond yn aml dim ond yn y sector preifat

Mae nifer fach o sefydliadau cyn ysgol yn cynnig cymorth gydag ieithoedd tramor, ac mae'r hynny ar gynydd. Yn y sector preifat y rhoddir y cymorth hwn yn bennaf ond mae rhai awdurdodau lleol yn cynnig ieithoedd tramor i blant o dair blwydd oed. Mae pob plentyn â gallu cyfyngedig yn yr iaith Saesneg yn cael cymorth ychwanegol os bydd angen gan gyfuniad o staff sydd wedi cael hyfforddiant EAL a staff nad ydynt wedi cael yr hyfforddiant hwnnw. Cynigir Gaeleg mewn nifer fach o sefydliadau cyn ysgol (mae tua 2000 o blant wedi'u cofrestru). Anaml iawn y cynigir ieithoedd mewnfudwyr.

Ieithoedd mewn addysg gynradd (Ni cheir darpariaeth ar gyfer ieithoedd mewnfudwyr)

Trefniadaeth

	Cwricwlwm	Cymorth ychwanegol i newydd-ddyfodiaid	Profion diagnostig wrth ddechrau	Monitro sgiliau iaith
Cymorth IC	cydlynol a chlir	cyn prif ffrwd	pawb	enedlaethol safonol

	Grwpiau targed	Cwricwlwm	CLIL	Dechrau addysg iaith	Amserlennu	Gofynion o ran isafswm maint y grŵp	Monitro sgiliau iaith	Y lefel y mae angen ei chyrraedd	Arian ar gael gan y wladwriaeth
IRh/LI	pawb	cydlynol a chlir	lleoledig	o flwyddyn 1	yn ystod oriau ysgol	dim	enedlaethol safonol	normau ar lefel ysgol	llawn
IT	pawb	cydlynol a chlir	lleoledig	cyfnod olaf yn unig	yn ystod oriau ysgol	dim	enedlaethol safonol	wedi'i chysylltu â'r Fframwaith Cyfeirio Ewropeaidd Cyffredin	llawn

Addysgu

	Cymwysterau athrawon	Hyfforddiant cyn swydd i athrawon	Hyfforddiant mewn swydd i athrawon	Symudedd
Cymorth IC	athrawon iaith	pwnc-benodol	pwnc-benodol	Dd/G
IRh/LI	athrawon iaith	pwnc-benodol	pwnc-benodol	Dd/G
IT	athrawon cyffredinol	cyffredinol	pwnc-benodol	cymorth ariannol anffurfiol

leithoedd a gynigir mewn addysg gynradd

IRh/LI	Gaeleg
IT	Ffrangeg, Almaeneg, Sbaeneg; dewisol

Roedd yr Alban yn un o'r gwledydd cyntaf i addysgu ieithoedd tramor mewn ysgolion cynradd (1992) ac, erbyn 2005, roedd pob ysgol gynradd yn yr Alban fwy neu lai yn addysgu iaith dramor. Ffrangeg oedd y brif iaith a addysgwyd (o blith Sbaeneg, Almaeneg, Eidaleg a Gaeleg) a dyna'r sefyllfa o hyd. Mae gan bob person ifanc yr hawl i ddysgu o leiaf un iaith dramor yn ystod ei gyfnod olaf yn yr ysgol gynradd, ond nid yw'n orfodol. Mae'r *Cwricwlwm Rhagoriaeth* yn rhoi canllawiau clir ar gyfer addysgu iaith dramor a'r lefel darged i'w chyflawni erbyn diwedd ysgol gynradd yw A1 ar *Fframwaith Cyfeirio Ewropeaidd Cyffredin* (CEFR) Cyngor Ewrop. Yn y rhan fwyaf o achosion, caiff ieithoedd tramor eu haddysgu yn ystod dwy flynedd olaf ysgol gynradd yn unig – plant rhwng 10 a 12 oed – a neilltuir swm bach o amser i wneud hynny. Yn ddiweddar, codwyd pryderon ynghylch hyfforddiant athrawon a'r cymorth a roddir gan awdurdodau lleol (o ganlyniad i doriadau mewn cyllid).¹

Mae'r drefn o ddysgu Gaeleg yn hollol wahanol, gan sefydlu unedau cyfrwng Gaeleg mewn ysgolion cynradd ledled yr Alban o 1986 ymlaen. Ategwyd hyn gan ddarpariaeth cyn ysgol cyfrwng Gaeleg mewn llawer o ardaloedd. Canfu'r adroddiad diweddaraf gan Arolygiaeth Addysg Ei Mawrhydi (HMIE)² fod 2,312 o blant yn cael eu haddysgu mewn ysgolion cynradd cyfrwng Gaeleg ond nad yw'r iaith Aeleg yn iaith gyntaf i'r rhan fwyaf ohonynt. Cynigir Gaeleg hefyd fel ail iaith mewn nifer o ysgolion cynradd.

Mae pob newydd-ddyfodiad mewn ysgolion prif ffrwd yn cael cymorth gyda'r iaith Saesneg cyn ac yn ystod dosbarthiadau prif ffrwd, a chaiff ei sgiliau eu hasesu a'u monitro'n rheolaidd gan arbenigwr EAL. Anaml iawn y cynigir ieithoedd mewnffudwyr.

¹ 'Pupils risk being lost in translation', *Edinburgh Evening News* 16 Ebrill 2010.

² HMIE, *Gaelic Education: Building on the successes, addressing the barriers*, 21 Mehefin 2011.

leithoedd mewn addysg uwchradd (Ni cheir darpariaeth ar gyfer ieithoedd mewnffudwyr)

Trefniadaeth

	Cwricwlwm	Cymorth ychwanegol i newydd-ddyfodiaid	Profion diagnostig wrth ddechrau	Monitro sgiliau iaith
Cymorth IC	cydlynol a chlir	cyn prif ffrwd	pawb	cededlaethol safonol

	Grwpiau targed	Cwricwlwm	CLIL	Amserlennu	Gofynion o ran isafswm maint y grŵp	Monitro sgiliau iaith	Y lefel y mae angen ei chyrraedd	Arian ar gael gan y wladwriaeth
IRh/LI	pawb	cydlynol a chlir	lleoledig	yn ystod oriau ysgol	5-10	cededlaethol safonol	normau ar lefel genedlaethol neu ranbarthol	llawn
IT	pawb	cydlynol a chlir	absennol	yn ystod oriau ysgol	dim	lefel ysgol	wedi'i chysylltu â'r Fframwaith Cyfeirio Ewropeaidd Cyffredin	llawn

Addysgu

	Cymwysterau athrawon	Hyfforddiant cyn swydd i athrawon	Hyfforddiant mewn swydd i athrawon	Lefel yr iaith sydd ei hangen	Symudedd
Cymorth IC	athrawon iaith	pwnc-benodol	pwnc-benodol	normau ar lefel genedlaethol neu ysgol	Dd/G
IRh/LI	athrawon iaith	cyffredinol	pwnc-benodol	Dd/G	Dd/G
IT	athrawon iaith	pwnc-benodol	pwnc-benodol	safonau cenedlaethol neu ranbarthol	hymgorffori yn hyfforddiant

Ieithoedd a gynigir mewn addysg uwchradd

IRh/LI	Gaeleg
IT	Yn gyffredinol, Ffrangeg, Almaeneg neu Sbaeneg, ond hefyd Eidaleg a Tsieinëeg: un o'r ieithoedd hyn yn orfodol/dewisol
IM	Tsieinëeg, Rwseg, Wrdw

Mae ieithoedd modern yn rhan annatod o'r *Cwricwlwm Rhagoriaeth* ac mae gan bob plentyn yr hawl i astudio iaith fodern fel rhan o'i addysg gyffredinol (S1-S3). Mae'r hawl honno'n golygu'r cyfle i gyrraedd o leiaf lefel A2 ar CEFR ac, i'r rhan fwyaf o ddysgwyr, bydd hyn yn digwydd yn ystod addysg gyffredinol (S1-S3), yn hytrach na'r cam uwch (S4-S6). Nod llywodraeth yr Alban yw rhoi polisïau ar waith i sicrhau bod pob plentyn yn dysgu dwy iaith yn ogystal â'i famiaith.

Fodd bynnag, mae sefyllfa bresennol ieithoedd tramor mewn ysgolion uwchradd yn peri pryder. Yn 2001, roedd pob disgybl fwy neu lai yn astudio iaith hyd at ei bedwaredd flwyddyn yn yr ysgol uwchradd ond, erbyn 2010, dim ond 67% ohonynt a oedd yn gwneud hynny.¹ Mae Ffrangeg yn cyfrif am tua 70% o'r cofrestradau ar gyfer arholiadau, wedyn Almaeneg (tua 16%) a Sbaeneg (tua 10%). Gwelwyd cynnydd yn nifer y rheini sy'n astudio Sbaeneg er gwaethaf y lleihad cyffredinol mewn niferoedd.² Ar lefelau uwch, mae'r sefyllfa yn fwy sefydlog.³

Yn 2011, nododd dros hanner yr awdurdodau lleol yn yr Alban fod ganddynt o leiaf un ysgol uwchradd lle nad oedd ieithoedd yn orfodol gydag ysgolion yn ystyried bod yr 'hawl' i ddysgu iaith wedi'i bodloni yn yr ysgol gynradd.⁴ Mae pwysau ar wariant cyhoeddus wedi effeithio ar nifer y *Cynorthwyr Ieithoedd Tramor* a gyflogir mewn ysgolion (o 285 yn 2005 i 59 yn 2011), gan arwain at wrthleif gyhoeddus gan Gonsylliaid Cyffredinol dramor a phryderon ynghylch cystadleurwydd busnesau'r Alban yn y dyfodol.⁵

Mae'r wlad yn wynebu her ddifrifol o ran sicrhau y gall plant barhau i ddysgu drwy gyfrwng Gaeleg mewn ysgolion uwchradd, gyda dim ond 36 o ysgolion yn cynnig y ddarpariaeth honno ac yn ei chyfyngu'n bennaf i'r ddwy flynedd gyntaf o addysg uwchradd.

Ni chaiff Sgoteg ei haddysgu fel pwnc penodol ond mae'n rhan o'r iaith a ddefnyddir gan lawer o blant ysgol. Felly, caiff ysgolion eu hannog i wneud defnydd o hyn a chynnig y cyfle i ddysgwyr brofi agweddau ar yr iaith Sgoteg mewn pynciau cwricwlaidd.

Ceir cwricwlwm clir ar gyfer addysgu Saesneg fel iaith gyntaf ac ail iaith. Mae newydd-ddyfodiaid yn cael cymorth ychwanegol; fodd bynnag, mae'r cymorth hwnnw'n amrywio'n helaeth ledled yr Alban. Weithiau, cynigir ieithoedd mewnudwyr i blant mewn ardaloedd lle ceir nifer fawr o fewnfwyr. Fodd bynnag, ar yr iaith Saesneg y rhoddir pwyslais er mwyn annog proses integreiddio.

¹ *Modern Languages Excellence Report*, CILT yr Alban, 2011.

² *Modern Languages Excellence Report*, CILT yr Alban, 2011.

³ *Modern Languages Excellence Report*, CILT yr Alban, 2011.

⁴ Cynhaliwyd yr arolwg gan TESS a chyflwynwyd yr adroddiad 'Poor language skills put Scots at disadvantage', TESS 25 Mawrth 2011.

⁵ 'Backlash from diplomats over language cuts', *Scotland on Sunday*, 4 Rhagfyr 2011.

leithoedd mewn addysg bellach ac addysg uwch

Addysg bellach (mewn tri sefydliad) (Ni cheir darpariaeth ar gyfer ieithoedd Rh/LI nac ieithoedd mewnfudwyr)

		Ystod o raglenni iaith	Cwricwlwm	Y lefel y mae angen ei chyrraedd	Arian ar gael gan y wladwriaeth
IT	Sefydliad A	amrywiaeth eang	cydlynol a chlir	cenedlaethol	llawn
	Sefydliad B	amrywiaeth eang	cydlynol a chlir	cenedlaethol	llawn
	Sefydliad C	amrywiaeth eang	cydlynol a chlir	cenedlaethol	rhannol

Addysg uwch (mewn tair prifysgol)

	Iaith/ieithoedd a ddefnyddir fel y cyfrwng addysgu	Ieithoedd ar wefan	Grwpiau targed ar gyfer cymorth ychwanegol yn yr iaith genedlaethol	Y lefel i'w chyrraedd o ran addysgu ieithoedd tramor	Recriwtio myfyrwyr nad ydynt yn fyfyrwyr o'r wlad	Symudedd ar gyfer myfyrwyr iaith	Symudedd ar gyfer myfyrwyr nad ydynt yn fyfyrwyr iaith
Prifysgol A	cenedlaethol yn unig	cenedlaethol yn unig	pawb	lefel genedlaethol neu sefydliad	rhyngwladol yn unig	gorfodol	dewisol
Prifysgol B	cenedlaethol yn unig	cenedlaethol yn unig	cyfyngedig	lefel genedlaethol neu sefydliad	rhyngwladol yn unig	gorfodol	dewisol
Prifysgol C	cenedlaethol yn unig	cenedlaethol yn unig	pawb	wedi'i chysylltu â'r Fframwaith Cyfeirio Ewropeaidd Cyffredin	rhyngwladol a mewnfudwyr	gorfodol	dewisol

Mae prifysgolion yn yr Alban yn wynebu pwysau ariannol sylweddol ac mae hyn wedi arwain at bryderon ynghylch dyfodol adrannau iaith rhai prifysgolion a hyfywedd ieithoedd sy'n cael eu haddysgu i raddau llai yn benodol. Cyflwynwyd deiseb i Senedd yr Alban yn gofyn iddi sicrhau bod cymorth ar gael ar gyfer ieithoedd 'sy'n strategol bwysig ac yn fregus' fel y gwelir yn Lloegr.

Mae'r data diweddaraf gan *Awdurdod Cymwysterau'r Alban* yn dangos bod y ddarpariaeth ieithoedd modern yn y sector addysg bellach yn yr Alban ar fin crebachu'n llwyr.¹ Mae'r dadansoddiad yn dangos bod y gred ymhlith cyflogwyr a daroganwyr sgiliau fod 'Saesneg yn ddigon' wedi cael effaith negyddol ar y ddarpariaeth iaith yn y sector Addysg Bellach a'r sector Addysg Uwch.

¹ *La Grande Illusion: Why Scottish further education has failed to grasp the potential of modern languages*, Hannah Doughty, Prifysgol Strathclyde, Scottish Languages Review, Rhifyn 23, Gwanwyn 2011.

leithoedd yn y cyfryngau clyweledol a'r wasg

Cynrychiadau teledu nad ydynt yn yr iaith genedlaethol	Ffilmiau yn y sinema nad ydynt yn yr iaith genedlaethol	Rhaglenni mewn ieithoedd Rh/LI y tu allan i'r rhanbarth	Argaeledd iaith arwyddion ar y teledu
wedi'u hisdeitlo	wedi'u hisdeitlo	yn rheolaidd	yn rheolaidd

Darlledir rhaglenni radio yn Saesneg yn bennaf, ond ceir cynnwys Gaeleg dyddiol hefyd ar BBC *Radio nan Gàidheal*. Darlledir y rhan fwyaf o raglenni teledu yn Saesneg a Gaeleg ond ceir darllediadau hefyd yn iaith Senegal, Hindi, Daneg ac iaith Arwyddion Prydain. Mae sianel BBC Gaeleg yr Alban, BBC Alba, wedi bod ar gael ar deledu digidol, lloeren ac ar-lein ers 2008 a chaiff ei gwyllo gan dros 500,000 o bobl bob wythnos. Dangosir ffilmiau iaith dramor yn yr Alban yn yr iaith wreiddiol bob amser gydag isdeitlau yn y sinema ac ar deledu. Fodd bynnag, mae rhaglenni radio a theledu mewn ieithoedd tramor ac ieithoedd rhanbarthol a lleiafrifol ar gael drwy Freeview, lloeren ac ar-lein, er enghraifft. Cynigir iaith arwyddion yn rheolaidd mewn digwyddiadau pwysig yn y cyfryngau ym mhob dinas a arolygwyd. Mae papurau newydd ar gael mewn ystod eang o ieithoedd ar wahân i Saesneg mewn dinasoedd mwy o faint.

leithoedd mewn gwasanaethau cyhoeddus a manau cyhoeddus

Strategaethau iaith sefydliadol ar lefel dinas

Nifer yr ieithoedd	Ar y wefan	Defnyddio cyfieithwyr	Cymwyseddau iaith mewn disgrifiadau swydd	Recriwtio siaradwyr ieithoedd	Hyfforddiant iaith a gynigir i gyflogeion	Cofnod o sgiliau iaith cyflogeion
>4		Glasgow Caeredin Aberdeen			Caeredin	
3-4						
1-2			Glasgow Caeredin Aberdeen	Glasgow	Glasgow	Glasgow Caeredin

Cyfleusterau cyfathrebu

Pum prif gyfleuster cyfathrebu ar lafar	Pum prif gyfleuster cyfathrebu ysgrifenedig
=Addysg =Gwasanaethau brys =Iechyd =Cymdeithasol =Cyfreithiol =Mewnfudo ac integreiddio	Gwasanaethau brys Trafnidiaeth Mewnfudo ac integreiddio =Iechyd =Cymdeithasol =Cyfreithiol

Yn y dinasoedd a arolygwyd, mae'r heddlu, y llysoedd, gwasanaethau iechyd a llywodraeth leol oll yn gwneud defnydd eang o wasanaethau cyfieithu a dehongli a gwneir ymdrech i ddarparu gwybodaeth ysgrifenedig a gwybodaeth ar-lein mewn amrywiaeth o ieithoedd. Fel arfer, mae gohebiaeth ysgrifenedig ar gael yn Saesneg a Gaeleg yn ogystal ag amrywiaeth eang o ieithoedd eraill. Diffinnir yr ieithoedd a gefnogir gan ieithoedd y cymunedau a wasanaethir. Mae cynlluniau ar y gweill yng Nghaeredin a Glasgow i wella sgiliau Gaeleg staff yn unol â'r *Cynllun Cenedlaethol ar gyfer Gaeleg a Deddf yr Iaith Aeleg* (2005).

leithoedd mewn busnes

Nid yw arolygon sgiliau yn yr Alban yn tueddu i nodi bod diffyg sgiliau iaith yn broblem.¹ Fodd bynnag, canfu ymchwiliad pellach o'r cyfryw ymchwil fod cyflogwyr yn yr Alban yn tueddu i osgoi yn hytrach na mynd i'r afael ag anghenion sgiliau iaith drwy allforio i wledydd Saesneg yn unig neu wledydd lle gallant ddod o hyd i siaradwyr Saesneg yn hawdd.² Yn amlwg, mae dimensiwn ieithyddol i'r rhwystrau mwyaf cyffredin a nodir o ran allforio – anawsterau o ran dod o hyd i bartneriaid dibynadwy dramor.

¹ *Leitch Review of Skills, Prosperity for all in the global economy: world class skills*, (2006), a *Futureskills Scotland* (2007), *Skills in Scotland* (2006), Scottish Enterprise, Glasgow.

² *Modern Languages Excellence Report*, CILT yr Alban, 2011.

Canfyddiadau allweddol cyffredinol

Fel y cadarnha ymchwil Ewrop Gyfoethog ei Hieithoedd, mae'r iaith Aeleg yn mwynhau lefel uchel o gefnogaeth wleidyddol drwy'r *Cynllun Iaith Aeleg*, yn ogystal â galw parhaus am addysg cyfrwng Gaeleg gan rieni. Mae statws yr iaith yn wahanol iawn i'r statws a roddir i ieithoedd eraill a siaredir ac a ddefnyddir yn yr Alban. Canfu astudiaeth o ieithoedd cymunedol (term yn y DU ar gyfer yr hyn y mae Ewrop Gyfoethog ei Hieithoedd yn cyfeirio atynt fel ieithoedd mewnfudwyr) a gyhoeddwyd yn 2006¹ fod plant oedran ysgol yn gallu astudio 21 o'r cyfryw ieithoedd mewn dosbarthiadau cyflenwol, ond nad oedd unrhyw ddarpariaeth ar gyfer yr ieithoedd eraill a siaradwyd, gan gynnwys Sgoteg. Ar gyfer Wrddw y cynigiwyd y ddarpariaeth fwyaf. Nodwyd 42 o ddosbarthiadau cyflenwol yn ogystal â rhywfaint o ddarpariaeth brif ffrwd mewn ysgolion cynradd ac ysgolion uwchradd, gan gynnwys cyfleoedd i astudio'r pwnc fel iaith fodern. Er bod dysgu ieithoedd tramor yn bwnc sydd, yn ôl pob golwg, yn dringo'r agenda wleidyddol, mae'n amlwg bod angen parhau i gyflwyno achos cryf dros y manteision cymdeithasol, diwylliannol, deallusol ac economaidd i'r Alban, yn ogystal â buddsoddi mewn hyfforddiant o ansawdd uchel i athrawon.

Mentrau a chynlluniau peilot addawol

Yn ddiweddar, mae llywodraeth yr Alban wedi pennu targed i sicrhau bod pob plentyn yn yr Alban yn dysgu dwy iaith yn ogystal â'i famiaith (yn unol â chytundeb yr Undeb Ewropeaidd a luniwyd yn Barcelona). Mae'n bwriadu gweithio tuag at gyflawni'r targed hwn yn ystod dau gyfnod seneddol a sefydlwyd gweithgor a fydd yn cyflwyno adroddiad ac argymhellion i Weinidogion yn 2012.¹

Mae'r *Grŵp Rhagoriaeth Ieithoedd Modern*, sy'n cael ei gadeirio gan SCILT, *Canolfan Ieithoedd Genedlaethol* yr Alban, wedi cyhoeddi adroddiad sy'n nodi'n glir sut mae astudio ieithoedd tramor modern yn cydweddu â'r *Cwricwlwm Rhagoriaeth* a'r hyn sydd angen ei wneud er mwyn sicrhau, hyrwyddo a gwella'r ddarpariaeth ieithoedd modern yn yr Alban.² Mae'r ffaith bod safonau wedi'u pennu ar gyfer plant ar ddiwedd ysgol gynradd (A1) ac ar ôl y tair blynedd gyntaf o ysgol uwchradd (A2), yn unol â *Fframwaith Cyfeirio Ewropeaidd Cyffredin* Cyngor Ewrop, yn gam cadarnhaol iawn.

Mae *Bagloriaeth yr Alban mewn Ieithoedd* yn fenter ddiddorol ac addawol arall sy'n anelu at gau'r bwlc rhwng ysgolion a phrifysgolion a darparu sgiliau ar gyfer dysgu, bywyd a gwaith.

¹ *Provision for community language learning in Scotland*, CILT yr Alban/Prifysgol Stirling, 2006.

¹ Cofnod o'r ddadl yn Senedd yr Alban, 8 Rhagfyr 2011, gwefan Senedd yr Alban.

² *Modern Languages Excellence Report*, SCILT, Mawrth 2011.

19 Y DEYRNAS UNEDIG

19.4 Gogledd Iwerddon

Teresa Tinsley a Philip Harding-Esch

Cyd-destun y wlad

Mae gan Ogledd Iwerddon boblogaeth o 1.8 miliwn o bobl. Er mai Saesneg yw'r iaith lafar, canfu cyfrifiad 2001 fod 10% o'r boblogaeth yn 'gwybod rhywfaint' o Wyddeleg.¹ Ers i'r sefyllfa wleidyddol sefydlogi ar ddiwedd y 1990au mae'r wlad wedi denu nifer cynyddol o fewnfudwyr. Yn dilyn cyfrifiad 2001, nodwyd mai'r grwpiau ieithyddol mwyaf sylweddol oedd Tsieinëeg, Arabeg a Phortiwgaleg; fodd bynnag, mae mewnudwyr mwy diweddar o'r wyth gwlad a ymunodd â'r Undeb Ewropeaidd ddiwethaf (A8) yn golygu bod gan yr iaith Bwyleg, ac yna Lithwaneg, bresenoldeb sylweddol hefyd. Ar hyn o bryd, mae iaith ar wahân i Saesneg yn iaith gyntaf i 3% o blant ysgol gynradd. Mae'r ganran yn codi i 11% yn Dungannon, yr ardal fwyaf amrywiol ei hiaith.²

Ieithoedd mewn dogfennau swyddogol a chronfeydd data

Ymdrinnir â'r iaith Saesneg, ieithoedd tramor ac ieithoedd rhanbarthol/llieiafrifol mewn deddfwriaeth iaith a/neu ddogfennau polisi iaith yng Ngogledd Iwerddon. (Cyd-) ariennir y broses o ddysgu ac addysgu Saesneg ar gyfer plant a/neu oedolion o'r DU sy'n byw dramor yng Ngwlad Belg, Belize, Brunei, Canada, Cyprus, Ynysoedd Falkland, yr Almaen, Gibraltar, yr Eidal a'r Iseldiroedd. Mae'r DU wedi llofnodi ac wedi cadarnhau'r *Siarter Ewropeaidd ar gyfer Ieithoedd Rhanbarthol neu Ieithoedd Llieiafrifol*. Yng Ngogledd Iwerddon, cydnabyddir yr ieithoedd rhanbarthol/llieiafrifol canlynol yn y Siarter: Gwyddeleg a Sgoteg Wlster. Ceir darpariaeth addysg swyddogol ar gyfer yr iaith Wyddeleg ar lefel ranbarthol, a gefnogir gan y Siarter.

Ceir dulliau swyddogol o gasglu data cenedlaethol ar amrywiaeth ieithyddol ledled y DU yng Ngogledd Iwerddon ar ffurf data cyfrifiad, data o gofrestrau bwrdeistrefol a data arolwg a gaiff eu diweddarau o bryd i'w gilydd. Mae'r dulliau hyn o gasglu data yn ymddrin ag amrywiadau ar yr iaith genedlaethol, ieithoedd rhanbarthol/llieiafrifol ac ieithoedd mewnudwyr, yn seiliedig ar gwestiwn am brif iaith a chwestiwn am hyfedredd iaith sy'n gofyn pa un a ellir siarad/deall/darllen/ysgrifennu'r iaith (ac i ba raddau y gellir gwneud hynny).

Nododd *Cytundeb Gwener y Groglith* 1998 egwyddorion parch a goddefgarwch mewn perthynas ag amrywiaeth ieithyddol. Nodwyd bod yr iaith Wyddeleg, Sgoteg Wlster ac ieithoedd yr amrywiol leiafrifoedd ethnig oll yn cyfrannu at gyfoeth diwylliannol y dalaith.¹ Mae *Corff Iaith y Gogledd/De*, a sefydlwyd ar 2 Rhagfyr 1999 ac sy'n cynnwys dwy asiantaeth wahanol, *Foras na Gaeilge* (Asiantaeth Iaith Wyddeleg) a *Tha Boord o Ulstèr-Scotch* (Asiantaeth Sgoteg Wlster), yn hyrwyddo'r Wyddeleg a Sgoteg Wlster ac yn gweithredu polisiau y cytunir arnynt gan Weinidogion Cyngor Gweinidogol y Gogledd/De yng Ngogledd Iwerddon a Gweriniaeth Iwerddon mewn perthynas â'r ddwy iaith hyn. Ym mis Awst 2000, sefydlodd yr Adran Addysg yng Ngogledd Iwerddon *Comhairle na Gaelscolaíochta* i annog a hwyluso datblygiad strategol addysg cyfrwng Gwyddeleg a rhoi arweiniad a chynngor i'r sector cyfrwng Gwyddeleg.

Dim ond ar gyfer addysg uwchradd is (11-14) y ceir gofynion statudol cyhoeddus ar gyfer addysgu ieithoedd modern.² Yn 2006, comisiynodd yr Adran Addysg *Strategaeth Ieithoedd Gynhwysfawr* ar gyfer Gogledd Iwerddon a fyddai'n ystyried pob agwedd ar iaith: ar lefel addysg gynradd, addysg uwchradd, addysg bellach ac addysg uwch, Saesneg fel iaith ychwanegol, ieithoedd ar gyfer busnes, ieithoedd Gogledd Iwerddon, mamiaith mewnudwyr, iaith arwyddion ac ieithoedd ar gyfer anghenion arbennig ond nid yw'r strategaeth wedi'i chyhoeddi hyd yn hyn.³ Adolygwyd y cymorth iaith Saesneg (EAL) a roddir yn gyfan gwbl rhwng 2005 a 2009 a lansiwyd polisi *Every School a Good School – Supporting Newcomer Pupils* ar 1 Ebrill 2009.

Mae llywodraeth y DU yn cydnabod yr iaith Wyddeleg a Sgoteg Wlster yng Ngogledd Iwerddon o dan yr Ieithoedd ECRML.

¹ Asiantaeth Ystadegau ac Ymchwil Gogledd Iwerddon (2002), *Northern Ireland Census 2001: Key Statistics Report*. Belfast: Llyfrfa Ei Mawrhydi.

² Registrar General Northern Ireland Annual Report 2010, Asiantaeth Ystadegau ac Ymchwil Gogledd Iwerddon, 2011. Data disgyblion o'r *Cyfrifiad Ysgolion*, Hydref 2010.

¹ *Cytundeb y daethpwyd iddo yn dilyn Trafodaethau Amlbleidiol ('Cytundeb Gwener y Groglith') (1998)*. Llywodraeth y Deyrnas Unedig a Llywodraeth Iwerddon.

² www.nicurriculum.org.uk/key_stage_3/areas_of_learning/modern_languages/

³ www.arts.ulster.ac.uk/nhils/index.php

IC=Iaith/Ieithoedd Cenedlaethol
IT=Ieithoedd Tramor
IRh/LI=Ieithoedd Rhanbarthol neu Leiafrifol
IM=Ieithoedd Mewnfuldwy

Ieithoedd mewn addysg cyn cynradd (Ni cheir darpariaeth ar gyfer ieithoedd tramor nac ieithoedd mewnfuldwy)

	Grwpiau targed	Hyd	Gofynion o ran isafswm maint y grŵp	Diwrnodau'r wythnos	Hyfforddiant cyn swydd i athrawon	Hyfforddiant mewn swydd i athrawon	Arian ar gael gan y wladwriaeth
IRh/LI	pawb	≥2 flynedd	>10	>1 diwrnod	pwnc-benodol	pwnc-benodol	llawn
Cymorth IC ychwanegol	pawb	≥2 flynedd	dim	0.5-1 diwrnod	pwnc-benodol	pwnc-benodol	llawn

Ieithoedd a gynigir mewn addysg cyn cynradd

IRh/LI	Gwyddeleg
---------------	-----------

Mae plant â gallu cyfyngedig yn yr iaith Saesneg yn aml yn cael cymorth ychwanegol ac mae'r athrawon sy'n rhoi'r cymorth hwn yn cael hyfforddiant cyn swydd ac mewn swydd. Yn gyffredinol, ni chaiff ieithoedd tramor eu haddysgu ar lefel addysg cyn cynradd, ond ceir 44 o ysgolion cyn cynradd cyfrwng Gwyddeleg¹ ac o leiaf un feithrinfa ddwyieithog Ffrangeg-Saesneg breifat.²

¹ www.deni.gov.uk/index/85-schools/10-types_of_school-nischools_pg/schools_-_types_of_school-irish-medium_schools_pg/schools_-_types_of_school_lists_of_irishmedium_schools_pg.htm

² Report of the Review of Irish medium education, Adran Addysg Gogledd Iwerddon, dim dyddiad.

Ieithoedd mewn addysg gynradd (Ni cheir darpariaeth ar gyfer ieithoedd mewnfuldwy)

Trefniadaeth

	Cwricwlwm	Cymorth ychwanegol i newydd-ddyfodiaid	Profion diagnostig wrth ddechrau	Monitro sgiliau iaith
Cymorth IC	cyffredinol	cyn prif ffrwd	pawb	enedlaethol safonol

	Grwpiau targed	Cwricwlwm	CLIL	Dechrau addysg iaith	Amserlennu	Gofynion o ran isafswm maint y grŵp	Monitro sgiliau iaith	Y lefel y mae angen ei chyrraedd	Arian ar gael gan y wladwriaeth
IRh/LI	pawb	cydlynol a chlir	eang	o flwyddyn 1	yn ystod oriau ysgol	>10	lefel ysgol	heb ei nodi	llawn
IT	pawb	cydlynol a chlir	lleoledig	o flwyddyn 1	yn rhannol yn ystod oriau ysgol	dim	enedlaethol safonol	heb ei nodi	llawn

Addysgu

	Cymwysterau athrawon	Hyfforddiant cyn swydd i athrawon	Hyfforddiant mewn swydd i athrawon	Symudedd
Cymorth IC ychwanegol	athrawon iaith	pwnc-benodol	pwnc-benodol	Dd/G
IRh/LI	athrawon iaith	pwnc-benodol	pwnc-benodol	Dd/G
IT	athrawon cyffredinol	dim	pwnc-benodol	dim

leithoedd a gynigir mewn addysg gynradd

IRh/LI	Gwyddeleg
IT	Ffrangeg, Sbaeneg: dewisol

Mae addysg cyfrwng Gwyddeleg (IME) wedi bod ar gynnydd yng Ngogledd Iwerddon ers i'r ysgol gynradd cyfrwng Gwyddeleg gyntaf gael ei sefydlu gan rieni, y tu allan i'r system brif ffrwd, yn 1971. Bellach, mae 1.67% o blant ysgol gynradd yn mynychu ysgolion cynradd IME neu unedau IME mewn ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg ac mae'r nifer yn cynyddu o flwyddyn i flwyddyn. Caiff IME ei chefnogi gan bolisi'r llywodraeth.

Ni chafodd leithoedd Modern eu cynnwys yn y cwricwlwm newydd ar gyfer addysg gynradd yng Ngogledd Iwerddon a ddiwygiwyd yn 2007, a hynny er gwaethaf gwerthusiad cadarnhaol o brosiectau peilot a gynhaliwyd rhwng 2005 a 2007 a oedd yn cynnwys 21 o ysgolion a oedd yn addysgu Ffrangeg yn bennaf, a rhai a oedd yn addysgu Sbaeneg. Er gwaethaf y ffaith nad oedd gofyniad cwricwlaidd, canfu arolwg yn 2007 fod 57% o'r ysgolion cynradd a ymatebodd yn cynnig rhyw fath o ddarpariaeth ar gyfer addysgu iaith dramor, er mai gweithgarwch allgyrsiol oedd y ddarpariaeth hon mewn dros hanner o'r achosion. Mae'r cwricwlwm newydd yn annog y gwaith o addysgu ieithoedd modern mewn fframwaith amlddisgyblaethol a chyhoeddwyd canllawiau i helpu athrawon i ddatblygu ac integreiddio'r gwaith hwn. Mae'r canllawiau hyn yn cynnwys adnoddau ar-lein ar gyfer Ffrangeg, Almaeneg, Gwyddeleg a Sbaeneg. Dechreuodd Adran Addysg Gogledd Iwerddon ariannu *Rhaglen Ieithoedd Cynradd* yn 2008. Roedd y rhaglen honno'n darparu athrawon peripatetig mewn Sbaeneg neu Wyddeleg i weithio ochr yn ochr ag athrawon dosbarth Cyfnod Allweddol 1 presennol mewn ysgolion cynradd (cafodd yr iaith Bwyleg ei chynnwys o 2009 hefyd). Beirniadwyd y ffaith nad oedd y cynllun yn cynnwys Ffrangeg, sef yr iaith a addysgir fwyaf mewn addysg uwchradd. Erbyn 2009, roedd 247 o ysgolion wedi cymryd rhan mewn Sbaeneg a 76 mewn Gwyddeleg.¹

Mae newydd-ddyfodiaid yn cael cymorth dwys yn Saesneg cyn ac yn ystod dosbarthiadau prif ffrwd a gwnaed cryn ymdrech i ddarparu cymorth EAL yn ystod y blynyddoedd diwethaf wrth i Ogledd Iwerddon groesawu nifer cynyddol o fewnfudwyr. Ni chynigir ieithoedd mewnffudwyr ar wahân i Bwyleg weithiau.

¹Primary languages in Northern Ireland: too little, too late? Purdy ac eraill, Language Learning Journal cyfrol 38, 2, 2010.

leithoedd mewn addysg uwchradd (Ni cheir darpariaeth ar gyfer ieithoedd mewnffudwyr)**Trefniadaeth**

	Cwricwlwm	Cymorth ychwanegol i newydd-ddyfodiaid	Profion diagnostig wrth ddechrau	Monitro sgiliau iaith
Cymorth IC	cyffredinol	cyn prif ffrwd	absennol	cededlaethol safonol

	Grwpiau targed	Cwricwlwm	CLIL	Amserlennu	Gofynion o ran isafswm maint y grŵp	Monitro sgiliau iaith	Y lefel y mae angen ei chyrraedd	Arian ar gael gan y wladwriaeth
IRh/LI	pawb	cyffredinol	lleoledig	yn ystod oriau ysgol	>10	cededlaethol safonol	normau ar lefel genedlaethol neu ranbarthol	llawn
IT	pawb	cyffredinol	absennol	yn ystod oriau ysgol	dim	cededlaethol safonol	heb ei nodi	llawn

Addysgu

	Cymwysterau athrawon	Hyfforddiant cyn swydd i athrawon	Hyfforddiant mewn swydd i athrawon	Lefel yr iaith sydd ei hangen	Symudedd
Cymorth IC	athrawon iaith	pwnc-benodol	pwnc-benodol	heb ei nodi	Dd/G
IRh/LI	athrawon iaith	pwnc-benodol	pwnc-benodol	Dd/G	Dd/G
IT	athrawon cyffredinol	pwnc-benodol	pwnc-benodol	safonau cenedlaethol neu ranbarthol	cymorth ariannol anffurfiol

leithoedd a gynigir mewn addysg uwchradd

IRh/LI	Gwyddeleg
IT	Gorfodol: Un o blith Ffrangeg, Almaeneg, Sbaeneg

Mae'r sefyllfa o ran ieithoedd tramor modern mewn ysgolion uwchradd yng Ngogledd Iwerddon wedi dirywio'n gyflym ers i ieithoedd gael eu gwneud yn bynciau dewisol ar ôl y tair blynedd gyntaf o addysg uwchradd fel rhan o'r broses o ddiwygio'r cwricwlwm yn 2007. Arweiniodd hyn at ostyngiad o 19% yn y niferoedd a oedd yn sefyll arholiadau TGAU dros dair blynedd gyda Ffrangeg, yr iaith dramor gyntaf a addysgwyd, yn dioddef waethaf. Bellach, Sbaeneg yw'r iaith fodern a addysgir fwyaf ar ôl Ffrangeg ac mae'n llwyddo i gynnal ei niferoedd. Fodd bynnag, gwelwyd gostyngiadau hefyd o ran yr iaith Almaeneg. Ar lefel addysg uwchradd is, mae llawer o ysgolion yn ei gwneud yn ofynnol i ddisgyblion astudio dwy iaith.

Hyd nes y cyflwynwyd *Cwricwlwm Gogledd Iwerddon* yn 1989, Gwyddeleg oedd yr ail iaith fwyaf cyffredin ar ôl Ffrangeg er gwaethaf y ffaith mai dim ond yn y sector a gynhelir (Catholig) y cafodd ei haddysgu. Parhaodd y sefyllfa hon o ran cofrestrïadau TGAU tan 2002. O dan Gwricwlwm Gogledd Iwerddon¹, cafodd yr iaith ei heithrio rhag cyflawni'r gofyniad iaith orfodol, ond cafodd ei hadfer yn 2006. Cyflwynwyd arholiad TGAU cyfrwng Gwyddeleg (*Gaeilge*) yn 1993 i ddarparu ar gyfer y nifer cymharol fach o ddisgyblion ôl-cynradd a addysgwyd drwy'r iaith Wyddeleg. Wynebwr mwy o anawsterau wrth ddarparu addysg cyfrwng Gwyddeleg ar lefel uwchradd o gymharu â lefel gynradd o ganlyniad i brinder athrawon sy'n gallu addysgu pynciau eraill drwy gyfrwng yr iaith Wyddeleg ar y lefel hon. Mae llai na 0.5% o ddisgyblion uwchradd yn cael eu haddysg drwy gyfrwng yr iaith Wyddeleg.

O ran disgyblion rhwng 16 a 18 oed, mae'r nifer sy'n astudio ieithoedd wedi aros yn fwy sefydlog ond wedi lleihau fel cyfran o'r cohort. Mae'r patrwm yn dangos bod y nifer sy'n astudio Ffrangeg yn lleihau'n sylweddol; bod y nifer sy'n astudio Almaeneg, o sylfaen llai, yn lleihau i raddau llai; bod y nifer sy'n astudio Sbaeneg yn dal i gynyddu; a bod y nifer sy'n astudio Gwyddeleg yn parhau'n sefydlog.

Mae newydd-ddyfodiadaid yn cael cymorth ychwanegol yn Saesneg cyn ac yn ystod dosbarthiadau prif ffrwd. Ni cheir diagnosis yn seiliedig ar anghenion o sgiliau iaith Saesneg cyn dechrau addysg uwchradd, ond caiff sgiliau eu monitro'n rheolaidd gan ddefnyddio offerynnau safonol sy'n briodol i oedran. Yn yr un modd ag addysg gynradd, gwelwyd cryn ymdrech i roi cymorth EAL yn ystod y blynyddoedd diwethaf wrth i Ogledd Iwerddon groesawu nifer cynyddol o fewnfudwyr. Ni chynigir ieithoedd mewnfudwyr.

¹McKendry, E. (2007) *Minority-language Education in a Situation of Conflict: Irish in English-medium Schools in Northern Ireland*. International Journal of Bilingual Education and Bilingualism. Cyfrol 10, Rhif 4, 2007, 394-409.

leithoedd mewn addysg bellach ac addysg uwch

Addysg bellach (mewn tri sefydliad AHG) (Ni cheir darpariaeth ar gyfer ieithoedd mewnfudwyr)

		Ystod o raglenni iaith	Cwricwlwm	Y lefel y mae angen ei chyrraedd	Arian ar gael gan y wladwriaeth
IRh/LI	Sefydliad A	cyfyngedig	cydlynol a chlir	Dd/G	rhannol
	Sefydliad B	amrywiaeth eang	cydlynol a chlir	Dd/G	rhannol
	Sefydliad C	cyfyngedig	cydlynol a chlir	Dd/G	dim
IT	Sefydliad A	amrywiaeth eang	cydlynol a chlir	wedi'i chysylltu â'r Fframwaith Cyfeirio Ewropeaidd Cyffredin	rhannol
	Sefydliad B	amrywiaeth eang	cydlynol a chlir	cenedlaethol	rhannol
	Sefydliad C	amrywiaeth eang	cydlynol a chlir	cenedlaethol	rhannol

Addysg uwch (mewn dwy brifysgol)

	iaith/ ieithoedd a ddefnyddir fel y cyfrwng addysgu	ieithoedd ar wefan	Grwpiau targed ar gyfer cymorth ychwanegol yn yr iaith genedlaethol	Y lefel i'w chyrraedd o ran addysgu ieithoedd tramor	Recriwtio myfyrwyr nad ydynt yn fyfyrwyr o'r wlad	Symudedd ar gyfer myfyrwyr iaith	Symudedd ar gyfer myfyrwyr nad ydynt yn fyfyrwyr iaith
Prifysgol A	cenedlaethol yn unig	cenedlaethol yn unig	pawb	lefel genedlaethol neu sefydliad	rhyngwladol yn unig	gorfodol	dewisol
Prifysgol B	cenedlaethol yn unig	cenedlaethol yn unig	pawb	lefel genedlaethol neu sefydliad	rhyngwladol a mewnffudwyr	gorfodol	dewisol

Yn yr un modd â gweddill y DU, prin iawn yw'r ddarpariaeth ar gyfer ieithoedd ar gyrsiau galwedigaethol. Mae'r ddwy brifysgol yng Ngogledd Iwerddon (Prifysgol y Frenhines, Belfast a Phrifysgol Wlster) yn cynnig ieithoedd ar y cyd ag arbenigeddau eraill, yn ogystal â chysiau gradd yn yr ieithoedd tramor a addysgir mewn ysgolion. Fodd bynnag, caeodd adran Almaeneg Prifysgol y Frenhines Belfast yn 2009 gan adlewyrchu'r wasgfa ar ieithoedd mewn addysg uwch ledled y DU. Mae Gogledd Iwerddon ymhell o fod yn hunangynhaliol o safbwynt cynhyrchu ieithyddion yn yr ieithoedd y mae'n debygol y bydd eu hangen fwyaf ar ei busnesau yn y dyfodol, fel ieithoedd Asia ac ystod ehangach o ieithoedd Ewropeaidd.

Ieithoedd yn y cyfryngau clyweledol a'r wasg (mewn un ddinas – Belfast yn unig)

Cynrychiadau teledu nad ydynt yn yr iaith genedlaethol	Ffilmiau yn y sinema nad ydynt yn yr iaith genedlaethol	Rhaglenni mewn ieithoedd Rh/LI y tu allan i'r rhanbarth	Argaeledd iaith arwyddion ar y teledu
wedi'u hisdeitlo	wedi'u hisdeitlo	yn rheolaidd	yn rheolaidd

Cynigir rhaglenni radio yn Saesneg yn bennaf, gyda sawl awr yr wythnos mewn Gwyddeleg ac ychydig funudau mewn Cantoneg. Darlledir y rhan fwyaf o raglenni teledu yn Saesneg ond ceir darllediadau rhestredig mewn Gwyddeleg, Gaeleg yr Alban, Ffrangeg a Sgoteg Wlster. Fodd bynnag, mae'r cysyniad o 'sianeli daearol' yn hen newyddion yn yr oes ddigidol sydd ohoni gyda sianeli teledi a radio ar gael yn eang mewn ieithoedd tramor drwy Freeview, lloeren ac ar-lein. Cynigir iaith arwyddion yn rheolaidd mewn digwyddiadau pwysig yn y cyfryngau. Nid yw'r wasg ieithoedd tramor bob amser ar gael ar ffurf copi caled ond mae ar gael yn eang ar ffurf ddigidol.

Ieithoedd mewn gwasanaethau cyhoeddus a manau cyhoeddus

Strategaethau iaith sefydliadol yn Belfast

Nifer yr ieithoedd	Ar y wefan	Defnyddio cyfieithwyr	Cymwyseddau iaith mewn disgrifiadau swydd	Recriwtio siaradwyr ieithoedd	Hyfforddiant iaith a gynigir i gyflogeion	Cofnod o sgiliau iaith cyflogeion
>4		Belfast			Belfast	
3-4						
1-2				Belfast		

Cyfleusterau cyfathrebu

Pum prif gyfleuster cyfathrebu ar lafar	Pum prif gyfleuster cyfathrebu ysgrifenedig
=Dadleuon gwleidyddol a gwneud penderfyniadau =Gwasanaethau brys =lechyd =Cymdeithasol =Cyfreithiol =Mewnfudo ac integreiddio =Twristiaeth	Gwasanaethau brys lechyd Cymdeithasol Mewnfudo ac integreiddio =Trafnidiaeth =Twristiaeth

Ymddengys fod *Cytundeb Gwener y Groglith*, ynghyd â phatrymau mewnfudo diweddar, wedi codi ymwybyddiaeth o faterion iaith mewn bywyd cyhoeddus a'r angen i ddarparu gwasanaethau cyfieithu a dehongli cyhoeddus. Yn ôl ymchwil Ewrop Gyfoethog ei Hieithoedd, mae llawer o gyrrff cyhoeddus yn Belfast yn darparu gwybodaeth, nid yn unig mewn Gwyddeleg – ac, i raddau llai, Sgoteg Wlster – ond hefyd mewn ieithoedd fel Pwyleg, Lithwaneg, Portiwgaleg, Slofaceg, Cantoneg ac Arabeg. Diffinnir yr ieithoedd a gefnogir gan ieithoedd y cymunedau a wasanaethir.

Ieithoedd mewn busnes

Er na chawsant eu cynnwys yn arolwg Ewrop Gyfoethog ei Hieithoedd, yn yr un modd â gweddill y DU, nid yw cyflogwyr yng Ngogledd Iwerddon yn ymwybodol iawn o ieithoedd. Fodd bynnag, byddai gwell sgiliau iaith yn helpu economi Gogledd Iwerddon i wynebu heriau sy'n amrywio o gynnydd mewn allforion i'r gwaith o hyrwyddo twristiaeth a mewnfuddsoddiad.

Canfyddiadau allweddol cyffredinol

Yn ystod y degawd diwethaf, gwelwyd newidiadau aruthrol yng Ngogledd Iwerddon. O fod yn wlad lle gwelwyd allfudo a gwrthdaro ar ddiwedd yr 20fed ganrif, mae bellach yn fwy heddychlon a chanddi fwy o gysylltiadau byd-eang, gyda mwy o dwristiaeth, teithiau awyr cost isel a mewnfudwyr. Er mai Gogledd Iwerddon yw'r wlad â'r amrywiaeth ieithyddol lleiaf o blith gwledydd y DU yn ôl pob tebyg, mae ei hanes yn golygu ei bod yn sensitif i faterion sy'n ymwneud ag iaith a diwylliant ac mae'r mesurau a fabwysiadwyd hyd yn hyn wedi bod yn gynhwysol. Fodd bynnag, fel y dengys ymchwil Ewrop Gyfoethog ei Hieithoedd, proffil gwan sydd gan Gogledd Iwerddon o ran dysgu ieithoedd tramor ac mae angen iddi roi llawer mwy o flaenoriaeth i hyn ar bob lefel o'r system addysg.

Mentrau a chynlluniau peilot addawol

Nod y *Strategaeth Ieithoedd arfaethedig ar gyfer Gogledd Iwerddon*, canlyniad mwy na phum mlynedd o ymgynghori a thrafod â gwneuthurwyr polisi, yw darparu asesiad o anghenion a chynllun gweithredu ar draws y sbectrwm llawn o ieithoedd mewn addysg, busnes a bywyd cyhoeddus a dylai gynnig cyfleoedd i fynd i'r afael â rhai datblygiadau penodol.

Gwelwyd rhai enghreifftiau calonogol o ddatblygiad yng Ngogledd Iwerddon o ran hyfforddiant athrawon mewn ieithoedd. Nodir un datblygiad llwyddiannus yng Ngholeg Prifysgol Stranmillis. Yno, cyflwynwyd modiwl ieithoedd cynradd dewisol sydd bellach wedi'i gynnwys ar y cwrs Baglor Addysg.¹ Mewn ymateb i'r galw am athrawon pwnc-benodol yn y sector ôl-cynradd cyfrwng Gwyddeleg sy'n tyfu, mae Coleg Prifysgol y Santes Fair, Prifysgol y Frenhines yn Belfast a Phrifysgol Wlster wedi ffurfio partneriaeth i gynnig cwrs TAR blwyddyn o hyd i fyfyrwyr sydd â diddordeb mewn gweithio yn y sector addysg uwchradd cyfrwng Gwyddeleg. Ychwanegwyd lleoedd at y cwota TAG ar gyfer y prifysgolion hyn, yn benodol ar gyfer yr ymgeiswyr hynny sydd am addysgu yn y sector ôl-cynradd cyfrwng Gwyddeleg. Yn ogystal â chymhwyster TAR, bydd y myfyrwyr hynny sy'n cwblhau'r cwrs yn cael Tystysgrif mewn Addysg Ddwieithog o Goleg Prifysgol y Santes Fair.

¹ *Report of the Review of Irish medium education*, Adran Addysg Gogledd Iwerddon, dim dyddiad.

Cyflawnir prosiect Ewrop Gyfoethog ei Hieithoedd gan gonsortiw m o dros 30 o bartneriaid



Noddwyd gan



www.language-rich.eu

© **British Council 2012** Brand a Dylunio / C001
 Mae'r British Council yn creu cyfleoedd rhyngwladol i bobl y DU a gwledydd eraill gan feithrin ymddiriedaeth rhyngddynt yn fyd-eang.

Elusen gofrestredig: 209131 (Cymru a Lloegr) SC037733 (Yr Alban).

Cyhoeddwyd gan



ISBN 978-1-107-63960-7

